

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Golygiad o dri fersiwn o Madwaith Hen Gyrys o laf ynghyd ag astudiaeth o'u ffynonellau a rhagarweiniad i'r traddodiad paremiolegol yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol

Roberts, Richard Glyn

Award date:
2005

Awarding institution:
University of Wales, Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

**Golygiad o dri fersiwn o *Madwaith Hen*
Gyrys o Iâl ynghyd ag astudiaeth o'u
ffynonellau a rhagarweiniad i'r traddodiad
paremiolegol yn llenyddiaeth Gymraeg yr
Oesau Canol**

gan

Richard Glyn Roberts

Wales Bangor
2005



CRYNODEB O'R TRAETHAWD

Ceir yma olygiad o dri chasgliad o ddiarhebion Cymraeg, y ddau gyntaf o lawysgrif Coleg yr Iesu 111 (c. 1400) a'r trydydd o lawysgrif Peniarth 155 sy'n cynnwys copi o gasgliad a luniwyd gan y bardd Gruffudd Hiraethog. Yn draddodiadol priodolir y diarhebion hyn i'r Hen Gyrys o Iâl.

Dangosir bod y casgliadau yn ymgorffori deunydd o sawl ffynhonnell: yr Hengerdd, y Cyfreithiau, diarhebion cydwladol a diarhebion a berthyn i draddodiad mwy lleol. Ni ellir deall dihareb yn annibynnol ar ei chyd-destun a chan hynny ceisir egluro arwyddocâd y diarhebion hyn drwy eu cyd-destunoli yn llenyddiaeth y cyfnod a'u cymharu â'r hyn a geir mewn ieithoedd eraill.

Yn y rhagymadrodd ceir ymdriniaeth â swyddogaeth y ddihareb yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol ac yn neilltuol yng ngwaith y beirdd.

Diolchiadau

Dechreuais weithio ar y diarhebion ar awgrym Iwan Rhys Edgar. Gwaith William Salesbury a'r dyneiddwyr eraill a oedd ganddo mewn golwg wrth gwrs, ond buan y sylweddolais na ellid ymgymryd ag astudiaeth gyflawn o gasgliadau'r 'Dadeni' heb fynd i'r afael yn gyntaf â chasgliadau'r Oesau Canol ac yn neilltuol gasgliadau Llyfr Coch Hergest.

Dyledwr wyf i amryw gyfeillion a'm rhoes ar ben ffordd. Yn flaenaf yn eu mysg y mae tri arall sy'n ymddiddori yn llên doethineb y Cymry: Dafydd Glyn Jones, Mary Burdett-Jones a Nicolas Jacobs. Bu Ceridwen Lloyd-Morgan, Daniel Huws a Meredydd ap Huw yn hael eu cymwynas a'u cyngor. Felly hefyd y diweddar Brinley Rees.

Bûm yn poeni staff pum Llyfrgell: Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor; Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Llyfrgell Bodley, Rhydychen; Llyfrgell Prifysgol Franche-Comté, Besançon; a Llyfrgell yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan.

Darllenodd Peredur Lynch ddrafft cynderfynol ac fe'm hachubodd rhag mynych enghraifft o dywyllwch ymadrodd. Diolch hefyd i Gwyneth Williams am argraffu'r gwaith terfynol.

Ni fyddwn wedi gyrru'r maen hwn i'r wal oni bai am gefnogaeth gyson ac amynedd fy rhieni a Janet.

CYNNWYS

Rhagymadrodd	i
1. Cefndir	i
2. Casgliadau diarhebion Cymraeg yr Oesau Canol	ii
3. Methodoleg	xii
4. Y traddodiad paremiolegol – Casgliadau diarhebion yr Oesau Canol xxiii	
5. Natur a chynnwys y casgliadau Cymraeg	xxvii
6. Diarhebion mewn llên	xlix
7. Diarhebion yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol	lvi
8. Ymryson ac ymddiddan	lxviii
9. Disgwrs awdurdod	lxxix
10. Dull y golygu	lxxxiii
Testun A	1
Testun B	42
Testun C	67
Nodiadau A	110
Nodiadau B	382
Nodiadau C	434
Llyfryddiaeth	499

Rhagymadrodd

1. Cefndir

Dro yn ôl cyfeiriodd y paremiolegydd Archer Taylor at y toreth o destunau diarhebol anghyhoeddedig a restrir yn RMWL.¹ Y mae'n eglur fod Gwenogvryn Evans wedi bwriadu mynd i'r afael â'r deunydd hwn gan iddo lunio casgliad enfawr o ddiarhebion ar gyfer cystadleuaeth 'Y Casgliad goreu o Ddiarhebion Cymreig' yn Eisteddfod Lerpwl 1884. Cyhoeddwyd ei gasgliad arobryn yn nhrefodion yr eisteddfod honno.² Gwenogvryn Evans hefyd oedd golygydd yr argraffiad newydd o *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* a gyhoeddwyd gan wasg Jarvis & Foster ym 1902. Bu Henry Lewis, yntau yn ymhél â diarhebion a llenyddiaeth ddiarhebol, ac ymddengys ei fod wedi gweithio ar gasgliadau diarhebion *Llyfr Coch Hergest*.³ Fodd bynnag, ac eithrio'r dyrnaid o destunau a gyhoeddwyd ganddo ef, a chan Ifor Williams, yn rhifynnau cynnar y *Bwletin*, prin iawn fu'r ymdriniaethau â diarhebion Cymraeg yr Oesau Canol yn ystod yr ugeinfed ganrif.⁴ Wrth gwrs, cyhoeddwyd sawl casgliad poblogaidd. Y gorau o'r rheini o ddigon, a'r mwyaf cynhwysfawr, yw *Diarhebion Cymru*, casgliad William Hay (1955), ond casgliad o gasgliadau ydyw ac nid astudiaeth hanesyddol. Y mae'r sefyllfa hon yn cyferbynnu'n eglur â gweithgarwch paremiolegwyr mewn gwledydd eraill ac yn hynotach fyth pan ystyriwn i Joseph Loth fynegi

¹ Yn ei ysgrif 'The Study of Proverbs' dywed Taylor, *Even a casual examination of the Reports of the Historical Manuscripts Commission discloses an abundance of unpublished collections of Welsh proverbs, and a little more extensive research here and in the catalogues of manuscripts in the British Museum, the Bodleian, and elsewhere would reveal similar opportunities in English, French, and other languages* (Mieder, 1975, 44). Cyhoeddwyd yr ysgrif honno gyntaf yn *Modern Language Forum* 1939. Oddi ar hynny gwelwyd cynnydd aruthrol mewn astudiaethau paremiolegol Saesneg a Ffrangeg.

² Evans, 1884.

³ Y mae dau sylw gan Ifor Williams yn awgrymu hynny. Wrth egluro'r gair *marth* cyfeiria Ifor Williams at ddihareb A668, enghraifft a gafodd 'trwy'r Athro Henry Lewis o R.B.H. 1073' (CA, 68). Dywed yn ogystal i Henry Lewis roi iddo enghraifft o ddihareb A722 o'r Llyfr Coch (Ifor Williams, 1950, 202).

⁴ Gweler y Llyfryddiaeth.

ddechrau'r ugeinfed ganrif bwysiced ydyw'r diarhebion o safbwynt eu cystrawen a'u geirfa.⁵ Prin at ei gilydd fu diddordeb llenorion a beirniaid llenyddol yn y ffurf, er i Saunders Lewis sylwi'n gwta ar werth llenyddol y diarhebion.⁶ Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn y mae dehonglwyd yr hengerdd wedi sylweddoli pwysigrwydd y casgliadau diarhebion a pherthnasedd y casgliadau hyn i'w trafodaethau ar y canu cynnar. Anodd yn hyn o beth yw gorbwysleisio cyfraniad Marged Haycock, Nicolas Jacobs a Jenny Rowland. Un o gryfderau mawr EWSP o'i gymharu â CLIH ydyw fod Jenny Rowland yn cyfeirio'n gyson at enghreifftiau o gasgliadau diarhebion anghyhoeddedig. Ysywaeth, erys y casgliadau hynny'n anghyhoeddedig. Da y dywedodd Marged Haycock, yng nghyswllt ffynonellau 'Englynion y Clyweit', mai 'maes sy'n galw am ei ymchwilio'n drwyadl yw hwn'.⁷

Cyflwynir yn y traethawd hwn destunau tri chasgliad o ddiaarbheion Cymraeg yr Oesau Canol ac astudiaeth o'u ffynonellau. Codwyd y ddau gyntaf (Testunau A a B) o *Lyfr Coch Hergest* a daw'r trydydd (Testun C) o lsg. Peniarth 155. Y tri thestun hyn ydyw canolbwynt yr astudiaeth. Fodd bynnag, buddiol ar y cychwyn fydd ystyried casgliadau diarhebion Cymraeg yr Oesau Canol yn eu crynswth. Gellir gwneud hyn mewn byr ofod gan nad ydynt yn niferus.

2. Casgliadau diarhebion Cymraeg yr Oesau Canol - Arolwg

⁵ *Bon nombre de proverbes gallois remontent par leur forme et leur construction à une époque fort ancienne et sont précieux pour la syntaxe et la lexicographie* (Loth, 1911, 59). Eglur fod golygyddion GPC yn rhannu'r un farn - dyfynnir yn fynych o'r casgliadau diarhebion yn y geiriadur.

⁶ 'Y mae'r diarhebion Cymraeg yn rhan bwysig o'n llenyddiaeth, dangosant fedr llenyddol di-ail' (Lewis, 1922, 16). Hyd y sylwais i, yr unig un sydd wedi trafod y ddihareb fel ffurf lenyddol annibynnol yn Gymraeg yw R. M. Jones (1976). Y mae ei ymdriniaeth yn nodweddiadol fympwyol ond dry amlinellad defnyddiol o'r maes. Cymwynas fwyaf R. M. Jones, nid yn yr ysgrif hon ond yn ei ysgrif ar y canu gwirebol (R. M. Jones, 1988, 526-47), ydyw ei *critique* o syniadau Kenneth Jackson ynglŷn ag 'athroniaeth werin', golygwedd sy'n tueddu i ddibrisio cynnwys llenyddiaeth wirebol.

⁷ BBGCC, 314.

Peniarth 29 (*Llyfr Du'r Waun*)

Llawysgrif cyfraith a berthyn i ganol y drydedd ganrif ar ddeg yw *Llyfr Du'r Waun*.⁸ Ceir casgliad o wyth a phedwar ugain o ddiarhebion ar dudalen 32 mewn llaw sy'n ddiweddarach na chorff y llawysgrif. Hwn yw'r casgliad Cymraeg cynharaf. Golygwyd y diarhebion hyn gan Ifor Williams.⁹ Nid ydynt yn nhrefn yr wyddor ac nid oes berthynas amlwg rhwng y casgliad hwn a chasgliadau eraill yr Oesau Canol.

Peniarth 17

Ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg.¹⁰ Ceir yn y llawysgrif hon dri thestun: *Historia Gruffud vab Kenan, Delw y Byd*, a chasgliad anghyflawn o ddiarhebion (dalennau 27-32). Cynhwysai'r llawysgrif yn wreiddiol bedwar cydiad ond nid erys bellach ond y cyntaf a'r trydydd.¹¹ Diau y ceid gynt ran olaf y casgliad diarhebion ar ddalennau'r pedwerydd cydiad. Golygwyd y diarhebion hyn yn rhannol gan Henry Lewis ond nid ydyw'n crybwyll y diarhebion- y mae 70 ohonynt - a geir ar ddalen olaf y llawysgrif. Cyfetyb prif law y llawysgrif i Law B *Llyfr Aneirin* ond copiwyd y casgliad diarhebion gan law wahanol.¹² Y mae adrannau'r casgliad hwn yn nhrefn yr wyddor (h.y. y mae pob dihareb sy'n dechrau â'r llythyren *a* gyda'i gilydd, er enghraifft) a chyfetyb yn agos iawn o ran trefn a chynnwys i'r casgliad hwyaf yn *Llyfr Coch Hergest* (Testun A). Er gwaethaf rhai mân wahaniaethau, gellir bod yn bur hyderus mai fersiwn cynnar ydyw o *Fadwaith Hen Gyrys o Iâl*. Y mae'r casgliad hwn felly o'r pwys mwyaf gan ei fod yn tystio i fodolaeth y fersiwn hwyaf o'r *Madwaith* ganrif dda cyn y testun cyflawn cynharaf. Ni ellir ond gresynu

⁸ Barnai Gwenogvryn Evans fod Peniarth 29 yn perthyn i'r blynyddoedd oddeutu 1200 (RMWL I, 359) ond y mae ysgolheictod diweddarach wedi dangos mai i ganol y drydedd ganrif ar ddeg y perthyn y llawysgrif (Jenkins, 1973; MWM, 58).

⁹ Williams, 1926. Yn y ffacsimili o'r llawysgrif a gyhoeddodd Gwenogvryn Evans, gwelir ôl llaw ddiweddarach a geisiai ymyrryd ag orgraff y diarhebion (LIDW, 32).

¹⁰ MWM, 58.

¹¹ RMWL I, 339-40.

¹² MWM, 74-5; R. G. Roberts, 2003, 38. Ceir disgrifiad manwl o brif law Peniarth 17 yn Evans, 1977, ccli-cclvii.

ei fod yn anghyflawn. Noder, fodd bynnag, nad copi uniongyrchol o'r casgliad hwn yw Testun A. Ni eill hynny fod oherwydd ceir ym Mheniarth 17 ddyrnaid o ddjarhebion nas ceir yn Nhestun A. Yn achlysurol bydd yr enghreifftiau hyn yn fodd i brofi hynafiaeth dihareb neilltuol, megis yn achos C109.

Peniarth 4 (*Llyfr Gwyn Rhydderch*)

Llawysgrif sy'n drysorfa o ryddiaith Gymraeg Canol ac a berthyn i ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹³ Cynnwys cydiad 22 gasgliad o ddjarhebion.¹⁴ Datgysylltwyd y cydiad hwn o'r brif lawysgrif rywdro yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg (yn sicr cyn i'r *Llyfr Gwyn* ddod i feddiant John Davies, Mallwyd). Fe'i rhwymwyd wrth Beniarth 12 cyn ei gynnwys drachefn, ym 1940, yn rhan o Beniarth 4.¹⁵ Golygwyd cynnwys cydiad 22 gan Egerton Phillimore.¹⁶ Ceir yn y casgliad hwn 217 dihareb wedi eu gosod mewn adrannau yn nhrefn yr wyddor. Er bod trefn y ddjarhebion yn rhai o'r adrannau yn cyfateb yn fras i drefn y ddjarhebion yn Nhestun B, nid awgrymir bod perthynas uniongyrchol rhwng casgliad y *Llyfr Gwyn* ac unrhyw gasgliad arall sydd ar glawr. Anodd yn wir fyddai profi unrhyw berthynas gan fod 615 dihareb yn Nhestun B a dim ond 217 yn y *Llyfr Gwyn*.

Coleg yr Iesu 111 (*Llyfr Coch Hergest*)

Llyfr a gomisiynwyd gan Hopcyn ap Tomas o Ynys Forgan ydyw llsgr. Coleg yr Iesu 111.¹⁷ Copiwyd y gyfran helaethaf o gynnwys y llawysgrif rywdro rhwng 1382 a 1403.¹⁸ Y mae Prys Morgan wedi olrhain yn ddeheuig hynt y *Llyfr Coch* o Ynys Forgan yng Nghwm Tawe i Dretŵr

¹³ Ceir ymdriniaeth lawn â gwneuthuriad y llawysgrif, ei chynnwys a'i hanes yn MWM, 227-68.

¹⁴ Ar gynnwys cydiad 22 gw. RMWL I, 324-5.

¹⁵ Manylir ar hynt cydiad 22 yn MWM, 259.

¹⁶ Phillimore, 1886.

¹⁷ Ar Hopcyn ap Tomas gw. Christine James, 1993.

¹⁸ Ar gynnwys y llawysgrif gw. RMWL II, 1-29. Dadansoddir gwneuthuriad y *Llyfr Coch* yn Huws, 2003;

ym Mrycheiniog ac oddi yno i ddwylo'r gangen o deulu'r Fychaniaid a drigai yn Hergest. Yn gynnar yn yr ail ganrif ar bymtheg cawn fod y llyfr yn ôl ym Morgannwg yn nwylo Syr Thomas Mansel o Fargam.

Cyflwynwyd y llyfr yn rhodd i Goleg yr Iesu, Rhydychen ym 1701.¹⁹

Ceir dau gasgliad o ddiarhebion yn y llawysgrif hon, y naill ar ff. 239r-242v (col. 960-75) a'r llall ar ff. 264r-270v (col. 1057-83). Y mae'r ddau gasgliad yn llaw prif ysgrifwr y llawysgrif, Hywel Fychan.²⁰ Cynnwys y casgliad cyntaf (Testun B), y lleiaf o'r ddau, 615 o ddiarhebion. Yn yr ail gasgliad (Testun A) ceir 1085 dihareb. Nodwyd eisoes fod Testun A yn cyfateb o ran trefn a chynnwys i'r casgliad anghyflawn a geir yn llsgr. Peniarth 17. Cynhwysir y gyfran helaethaf o ddiarhebion y casgliad cyntaf yn yr ail gasgliad ond y mae tua chant o ddiarhebion yn y casgliad cyntaf na cheir mohonynt yn yr ail gasgliad.

Y mae adrannau dau gasgliad y *Llyfr Coch* yn nhrefn yr wyddor a cheir priflythrennau mawr, coch neu las, dwy linell o uchder ar ddechrau pob adran.²¹ Rhestrir y diarhebion y naill o dan y llall fesul llinell ym mhob colofn. Y mae hon yn ffaith arwyddocaol gan ei bod yn tystio i natur foethus gwneuthuriad y llawysgrif. Y mae gosodiad y diarhebion ym Mheniarth 17 ac yn Wynnstay 36, er enghraifft, yn bur wahanol. Ynddynt hwy copiwyd y dirhebion yn ddi-dor, big-yn-nhin, y naill ar ôl y llall (er mwyn arbed memrwn yn ddiâu). Nid llyfr at iws oedd y *Llyfr Coch*. Yn

¹⁹ Prys Morgan, 1978.

²⁰ Datgelodd Hywel Fychan ap Hywel Goch o Fuellt ei enw mewn coloffon i destun *Brut y Brenhinedd* yn llsgr. Philadelphia 86800, llawysgrif arall a ysgrifennwyd ar gais Hopcyn ap Tomas (ymhellach ar y darganfyddiad hwn gw. Roberts, 1967). Disgrifir tair prif law y *Llyfr Coch* gan Gifford Charles-Edwards (1980) a cheir ganddi restr o'r llawysgrifau eraill yn llaw Hywel Fychan: Philadelphia 86800; Peniarth 12, Peniarth 11, Coleg yr Iesu 57; Llanstephan 27 (*Llyfr Coch Talgarth*); Hafod 16 ac ychwanegiad at destun y *Llyfr Gwyn* o chwedl Culhwch ac Olwen (WBM, col. 467-8).

²¹ Y mae un gwahaniaeth hynod yn y modd y defnyddir priflythrennau mawr yn y ddau gasgliad. Yn Nhestun A arferir y priflythrennau hyn yn lle'r priflythrennau arferol ar ddechrau dwy ddihareb gyntaf pob adran. Yn Nhestun B, fodd bynnag, ceir priflythyren gyffredin ar ddechrau ail ddihareb pob adran er bod yr un fawr yn ymestyn dros ddwy linell fel yn Nhestun A.

dilyn y naill gasgliad a'r llall ceir coloffon yn datgan mai *Madwaith Hen Gyrys o Iâl* y gelwir y casgliadau.

Ar ff. 240r-2v ychwanegodd yr hynafiaethydd Syr Siôn Prys (awdur *Yn y Lhyvyr Hwn a Historiae Britannicae Defensio*) ddyrnaid o ddiarhebion at y casgliad cyntaf.²² Ar ff. 264r-70v ychwanegwyd tua 380 dihareb, y rhan fwyaf ohonynt yn llaw Rhys Meurig o'r Cotrel.²³ Y mae ychwanegiadau Rhys Meurig yn parchu trefniant adrannau alffabetig y testun ond *ychwanegiadau* ydynt ac nid ydynt yn goleuo dim ar y casgliad gwreiddiol. Ymddengys nad oedd Rhys Meurig, ac yntau'n trigo ym Morgannwg ymhell o brif lif dysg Gymraeg yr unfed ganrif ar bymtheg yn y gogledd ddwyrain, yn orgyfarwydd â chonfensiynau ysgrifennu'r Gymraeg. Y mae orgraff ei ychwanegiadau yn sicr yn awgrymu hynny.

Wynnstay 36

Llawysgrif cyfraith a berthyn i ddechrau'r bymthegfed ganrif. Dyma lsg. Q efrydwyr Cyfraith Hywel.²⁴ Tua diwedd y llawysgrif hon ceir dau gasgliad o ddiarhebion a gyfetyb ymron yn llwyr, o ran trefn a chynnwys, i'r casgliadau yn *Llyfr Coch Hergest*. Yn wir ac eithrio ambell wahaniaeth y gellir yn hawdd eu hegluro fel llithriadau'r copïydd,²⁵ nid oes ond gwahaniaethau orgraffyddol rhwng casgliadau'r ddwy lawysgrif. Y gwahaniaeth orgraffyddol amlycaf ydyw hoffter ysgrifydd Q o'r *w* Gymreig, [6]. Lle y ceir [w] yn nhestun y *Llyfr Coch*, [6] a geir bron yn ddieithriad yn Wynnstay 36.²⁶ Noder yn ogystal fod y diarhebion yng nghasgliadau Wynnstay 36, yn wahanol i rai'r *Llyfr Coch*, wedi eu copïo

²² Huws, 2003, 25.

²³ ib. 25. Am hanes Rhys Meurig gw. Hopkins, 1964.

²⁴ Ceir disgrifiad llawn o'r llawysgrif a'i chynnwys gan Sara Elin Roberts, 2002.

²⁵ Er enghraifft, ni cheir dihareb A188 yn Wynnstay 36.

²⁶ Efallai y dylid nodi yn ogystal fod dull atalnodi ysgrifydd Q yn bur wahanol. Yn lle'r *punctus elevatus*, ceir ganddo ddau bwynt colon wedi eu gwahanu gan ddwy *virgulae* (MWM, 29).

y naill ar ôl y llall yn y colofnau a'u bod o'r herwydd yn llai dymunol i lygaid y darllenydd.

Yn ei hymdriniaeth â'r llawysgrif awgryma Sara Elin Roberts y geill fod ysgrifydd Q wedi codi'r diarhebion yn uniongyrchol o'r Llyfr Coch:

Mae casgliadau diarhebion Llyfr Coch Hergest a Q mor debyg fel ei bod yn ymddangos bod Q yn copïo o'r Llyfr Coch. Byddai'n gyfleus, os oedd dau gasgliad o ddiarhebion yn y llawysgrif a gopiodd Q, iddo gopïo'r ddau gasgliad yn syth – fel arall byddai'n rhaid chwilio am ddwy lawysgrif, un yn cynnwys y casgliad byrrach ac un arall yr ail gasgliad, hwy.²⁷

Aiff rhagddi i ystyried pa fodd y gallai ysgrifydd Q fod wedi medru defnyddio'r Llyfr Coch. Gweithiai ysgrifydd Q a Hywel Fychan yn yr un ardal a dyfala Sara Elin Roberts y geill fod Q wedi cael mynediad i ysgriflenfa (dybiedig) Hywel Fychan. Tueddu i gadarnhau'r ddamcaniaeth hon y mae'r troeon nid anfynych lle y mae ysgrifydd Q yn dilyn gwallau copïo Hywel Fychan yn ffyddlon. Wrth gwrs, dichon fod Hywel Fychan ac ysgrifydd Q wedi defnyddio *exemplar* cyffredin ond, os felly y bu, nid oes unrhyw wreiddiol cyffredin wedi goroesi. Teg mi gredaf, yn wyneb y dystiolaeth sydd gennym, ydyw arfer egwyddor ellyn Occam a datgan mai copi ydyw casgliadau diarhebion Wynnstay 36 o gasgliadau'r Llyfr Coch.

Peniarth 54

Llawysgrif a berthyn i ddiwedd y bymthegfed ganrif neu ddechrau'r ganrif ganlynol. Ar ddalennau 133-8 copiodd y bardd, Dafydd Epynt, 93 o ddiarhebion, y cwbl namyn yr olaf yn dechrau â'r llythyren *a*. Y mae trefn y diarhebion hyn yn hynod debyg i drefn adran gyntaf Testun A (sef

²⁷ *ibid.*, 414.

y diarhebion hynny sy'n dechrau â'r llythyren *a*). Ymddengys, felly, mai copi o adran gyntaf Testun A ynghyd â rhywfaint o ychwanegiadau gan y bardd ydyw'r casgliad hwn. Canodd Dafydd Epynt i Fychaniaid Tretŵr ac yn Nhretŵr yr oedd *Llyfr Coch Hergest* yn y cyfnod hwnnw.²⁸ Dichon i Ddafydd Epynt amcanu copïo prif gasgliad y *Llyfr Coch* ond iddo dorri ei galon a rhoi'r gorau iddi wedi cyrraedd y ddihareb gyntaf sy'n dechrau â'r llythyren *b*.

Peniarth 85

Llawysgrif a berthyn, yn ôl Gwenogvryn Evans, i ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg.²⁹ Ar dudalennau 19-38 ceir casgliad o ddiarhebion yn llaw Gruffudd Hiraethog (nid yn llaw Siôn Wiliam ap Siôn o Grucywel fel y noda Gwenogvryn).³⁰ Gosodwyd y diarhebion hyn yn adrannau yn nhrefn yr wyddor ond ni chyfetyb trefn y casgliad hwn i'r casgliad gorffenedig a geir yn *Lloegr drigiant*. Y mae'r casgliad yn drefnus ond nid ydyw'n daclus. Gwelir diarhebion wedi eu gwthio rhwng dwy linell a thoreth o ychwanegiadau yn llaw'r bardd. Cam yn y broses o lunio casgliad terfynol ydyw'r llawysgrif hon ac ynddi ceir drych o ddycnwch Gruffudd Hiraethog yn casglu a threfnu diarhebion. Gellir tybio felly fod y casgliad hwn yn gynharach na chasgliad *Lloegr Drigiant*. Collwyd dechrau rhai diarhebion, a chynffonnau diarhebion eraill, gan fod y llawysgrif wedi ei difrodi'n arw gan lygod. Ymddengys hefyd fod rhai dalennau wedi eu colli ar ddiwedd y casgliad.³¹

²⁸ Gw. sylwadau Owen Thomas yn ei ragymadrodd i GDE, 4.

²⁹ RMWL I, 550.

³⁰ gw. GGH, civ.

³¹ *Tuawc gwell korawc no chybydd* yw'r ddihareb olaf ar dudalen 38. Collwyd y diarhebion sy'n dechrau â'r llythrennau *u*, *w*, ac *y*. Ar dudalen 39 ceir cyfres o *Oreueu*.

Peniarth 155

Llyfr Rhisiart Phylip o Bictwn.³² Ceir yn y llawysgrif hon gopi uniongyrchol o fersiwn gwreiddiol y llyfr *Lloegr drigiant* a oedd, fe gesglir, yn llaw Gruffudd Hiraethog.³³ Nid oes gopi o *Lloegr drigiant* yn llaw'r bardd ar glawr.

Llyfr yw *Lloegr drigiant* a luniodd Gruffudd Hiraethog i uchelwyr alltud o Gymry. Fe'i cyflwynodd i'r bonheddwr llengar, Rhisiart Mostyn o Fodysgallen yn y Creuddyn.³⁴ Teitl llawn y llyfr ydyw *Lloegr drigiant ddifyrrwch bryttanaidd gymro wedir gasglv ynghyd o amravelion lyfrav kymraec drwy waith a llafyr Gr Hiraethog I goffav ac i ddwyn ar gof ir neb o genedl gymry (a vo allan oi wlad) Iaith i gnowdol fam I hynan ai nattvriawl ddayaren o anedigaeth*. Ceir ynddo, ymysg pethau eraill, lapidari, testun y naw helwriaeth, Ystatud Gruffudd ap Cynan, ac amryfal ddarnau o lôn doethineb. Yn dilyn y tabl cynnwys, y cyflwyniad a'r rhagymadrodd, 'at y darllenydd', y casgliad diarhebion yw'r adran gyntaf yn y llyfr. Ym Mheniarth 155 ymestyn y diarhebion (951 ohonynt) o t. 12 i t. 57. Y mae'r diarhebion hyn 'ar ol ordyr y llythyr yn yr Egwyddor', ys dywed y gŵr a'u casglodd.³⁵

Perthyn llsgr. Peniarth 155 i ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Maentumia D. J. Bowen fod y dyddiad 1561 o dan ach Rhisiart Mostyn ar ail ddalen y llsgr. a'r nodyn 'oed krist pann wnaed y llyfr hwnn 1562' ar t. 169 yn cyfeirio at flwyddyn cyfansoddi *Lloegr drigiant*, yn hytrach nag

³² Ceir disgrifiad teg o'r llsgr. a'i chynnwys rhwng RMWL I, 937-40 a GGH, xcvi-civ.

³³ *The first part was written from an original in the possession of Rich: Mostyn, which was, inferentially, in the autograph of Gr: Hiraethog* (RMWL I, 937).

³⁴ Ceir golygiad o'r rhagymadrodd amleiriog a chwyddedig hwn yn GGH, xcix-ci. Gw. yn ogystal RhG, 60-1.

³⁵ GGH, ci.

at flwyddyn copïo Peniarth 155.³⁶ Dichon fod hyn yn wir ond, os felly, casgliad o ddjarhebion a luniwyd eisoes gan Ruffudd Hiraethog a ymgorfforwyd yn *Lloegr drigiant*. Maentumir yn draddodiadol mai ym 1547 y cyhoeddwyd *Oll synnwyr pen Kembero ygyd*, golygiad William Salesbury o gasgliad diarhebion Gruffudd Hiraethog.³⁷ Y mae'n eglur, o gymharu trefn a chynnwys Peniarth 155 ac OSP, mai fersiwn rywfaint byrrach o gasgliad diarhebion *Lloegr drigiant* a geir yn OSP.³⁸

Cadwyd fersiynau o'r casgliad diarhebion hwn mewn tair llawysgrif arall:

Panton 65

Copi o'r un gwreiddiol â llsgr. Peniarth 155 yn llaw Wiliam Bodwrdda, rheithor Aberdaron (1651-60).³⁹ Fodd bynnag, y mae sawl ffolio o ganol y diarhebion ar goll (sef cyfran o'r diarhebion yn adran *K*, y cwbl o'r rhai yn adrannau *Ll* ac *M*, a chyfran helaethaf y rhai yn adran *N*).

Mostyn 112

Ar dudalennau 800-811 y llawysgrif hon, a berthyn i'r ail ganrif ar bymtheg,⁴⁰ ceir copi anghyflawn o gasgliad diarhebion *Lloegr drigiant*. Ni cheir ynddi ond y diarhebion hynny yn adrannau *A*, *B* ac *Ch* a rhan gyntaf adran *D*.

³⁶ GGH, xcvi. Arall yw dehongliad W. Alun Mathias: 'Y mae'n eithaf tebyg mai o'r "llyfr" hwn [sef *Lloegr drigiant*] y cododd William Salesbury y diarhebion a argraffodd yn *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd*' (Mathias, 1952, 131).

³⁷ LW, 2234.

³⁸ Trafodir amgylchiadau cyfansoddi OSP ynghyd â chyfeillgarwch Gruffudd Hiraethog a William Salesbury yn GGH, civ-cxxiii. Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r diarhebon hyn yn dwyn y teitl *Y Diarebion Camberaëc* (oddeutu 1570 yn ôl LW, 2233). Un copi printiedig o'r gwaith olaf hwn sydd ar glawr, ac y mae'n anghyflawn. Fodd bynnag, ceir copi ysgrifenedig o'r llyfr printiedig yn llsgr. LIGC 6434. (trafodir y gwaith yn Mathias, 1952).

³⁹ RMWL II, 865. Ar yr ysgrifedd gw. GGH, xcvi; Bowen, 1958, 36-7.

⁴⁰ Cynnwys y llsgr. farddoniaeth gan Tomos Prys o Blas Iolyn gan mwyaf (RMWL I, 35-47).

Llanstephan 52

Ymddengys mai ar ôl 1629 yr ysgrifennwyd y llsgr. hon.⁴¹ Ceir y diarhebion ar t. 85- t. 124. Y mae'r casgliad hwn fymryn yn fwy na'r hyn a geir yn llsgr. Peniarth 155 a cheir ynddo rhyw ddeg ar hugain o ddiarhebion yn ychwaneg.

Ynghyd â'r llawysgrifau a restrwyd uchod defnyddiwyd dau gasgliad llawysgrifol arall, y naill yn waith Thomas Wiliems o Drefriw a'r llall yn waith John Davies o Fallwyd:

Mostyn 204

Casgliad diarhebion Thomas Wiliems o Drefriw. Nid oes gopi o'r casgliad hwn yn llaw Thomas Wiliems ar glawr ond yn llsgr. Mostyn 204 ceir copi o'r casgliad gwreiddiol yn llaw John Edwards, Plasnewydd, Y Waun.⁴² Y mae'r casgliad helaeth hwn yn nhrefn yr wyddor ac ymddengys ei fod (megis geiriadur y casglwr anffodus) wedi ei fwriadu i'w gyhoeddi.

Brogyntyn I.11

Adagia Britannica yn llaw John Davies o Fallwyd. Casgliad o ddjarhebion Cymraeg yn nhrefn yr wyddor, ynghyd â chyfieithiad a sylwadau Lladin, a baratoes John Davies tua therfyn ei oes. Y mae'r casgliad hwn yn ddiweddarach na'r 'Djarhebion Cymraeg', a argraffwyd tua diwedd y *Dictionarium Duplex*, ac yn fwy cynhwysfawr. Ceir ynddo dros ddwy fil o ddjarhebion. Yn niffyg casgliadau Cymraeg canoloesol sy'n cynnwys esboniadau, y mae'r casgliad hwn yn allwedd anhepgor ar

⁴¹ RMWL II, 531.

⁴² M. T. Burdett-Jones, 1997, 41-2. Y mae hon yn ymdriniaeth gyffredinol anhepgor i'r sawl a fyn ddeall cymhellion Thomas Wiliems ynghyd â chyd-destun ei gasgliad sylweddol o ddjarhebion. Ymhellach ar Thomas Wiliems ei hun gw. J. E. Caerwyn Williams, 1981-82. Manylir ar y casgliad ddjarhebion ar dudalennau 303-4.

gyfer dehongli'r diarhebion. Dylid sylwi, fodd bynnag, fod y diarhebion mwyaf hynafaidd yn aml yn dywyll i Davies, fel i ninnau.⁴³ Cynnwys ei sylwadau dibrin gyfeiriadau at yr Ysgrythurau a llenyddiaeth glasurol ac, yn aml, at ddiarhebion Arabeg. Y mae'r nodiadau hyn yn sicr yn werthfawr ac y maent, yn ogystal, yn bwrw llawer o oleuni ar ddiwylliant eang dyneiddiwr mwyaf Cymru'r ail ganrif ar bymtheg, ond, o safbwynt dehongli'r diarhebion, y mae cymharu'r deunydd Cymraeg â chasgliadau Ffrangeg a Saesneg yr Oesau Canol yn fwy perthnasol ac yn fwy dadlennol. Ni ddylid llyncu holl sylwadau Davies yn ddihalen chwaith. Y mae'n camdehongli'r ddihareb gyfreithiol B608, er enghraifft, wrth geisio ei hegluro yn annibynnol ar ei chyd-destun yn y llyfrau cyfraith.

Bu John Davies wrthi'n ddygn yn cyfieithu'r diarhebion Cymraeg i'r Lladin ar gyfer yr hynafiaethydd Sir Simonds D'Ewes. Y mae dwy llawysgrif arall ar glawr sy'n cynnwys copi o'r *Adagia Britannica* yn llaw John Davies, sef Harley 541 (fol. 1-44) a Harley 1867 (fol. 59-134).⁴⁴ Nid ymgynghorwyd â'r llawysgrifau hynny wrth ymgymryd â'r astudiaeth hon.

3. Methodoleg

Y mae'r ymdrechion i ddiffinio'r ddihareb ynddi hi ei hun neu o'i chymharu â'r ymadroddion doethinebol eraill (y wireb, y *maxim*, ac ati) yn niferus a chymhellir golygyddion casgliadau o ddiarhebion gan arfer eu rhagflaenwyr i lunio diffiniad o wrthrych eu hastudiaethau.⁴⁵ Llwybr yw hwn sy'n arwain yn sicr i Gors Anobaith a thueddaf i gytuno ag Archer Taylor pan ddywed nad yw ceisio diffinio dihareb yn werth y

⁴³ Eddyf yn onest yn y rhagair i'w gasgliad yn DD fod 'ymbell un o honynt yn o dowyll'.

⁴⁴ Ceir arolwg cryno o'r llawysgrifau hyn, a'r copïau diweddarach ohonynt, yn Huws, 2004, 114-15. Gw. ymhellach E. D. Jones, 1951.

⁴⁵ Yn ôl Whiting, y mae'r traddodiad hwn yn dyddio o leiaf o waith Erasmus (PSPP, x). Gellir cyferbynnu'r arfer hwn â sylw Taylor (1992, 19) parthed casgliadau'r oesau canol: 'The medieval proverbial texts themselves rarely comment on their genre'.

drafferth.⁴⁶ Serch hynny, rhaid medru cynnig diffiniad ffurfiol o'r hyn a adwaenir yn reddfól.⁴⁷

Ceir casgliad hylaw o'r diffiniadau 'traddodiadol' a gynigiwyd gan Aristotlys, Demetrius o Phaleron, Quintilian ac awduron clasurol eraill yn ysgrif B. J. Whiting, 'The Nature of the Proverb'.⁴⁸ Tua therfyn yr ysgrif hon y mae Whiting yn cynnig ei ddiffiniad manwl a chyfrodeddus ei hunan gan bwysleisio tarddiad poblogaidd y ddihareb:

A proverb is an expression which, owing its birth to the people, testifies to its origin in form and phrase. It expresses what is apparently a fundamental truth, - that is, a truism, - in homely language, often adorned, however, with alliteration and rhyme. It is usually short, but need not be; it is usually true, but need not be. Some proverbs have both a literal and a figurative meaning, either of which makes perfect sense; but more often they have but one of the two. A proverb must be venerable; it must bear the sign of antiquity, and, since such signs may be counterfeited by a clever literary man, it should be attested in different places at different times. This last requirement we must often waive in dealing with very early literature, where the material at our disposal is incomplete.⁴⁹

Ar un wedd y mae'r cymal, 'owing its birth to the people', yn ddiystyr oherwydd bod pob cyfansoddiad, boed waith awdur unigol (hysbys neu anhysbys) neu gywaith, yn waith rhywun neu rywrai. Tystia'r pwyslais hwn ar yr elfen werinol yn gyntaf i barhad y gred ynglŷn â natur boblogaidd y ddihareb ers Aristotlys ac yn ail i ddylanwad anghymedrol

⁴⁶ 'The definition of a proverb is too difficult to repay the undertaking; and should we fortunately combine in a single definition all the essential elements and give each the proper emphasis, we should not even then have the touchstone' (Taylor, 1985, 3).

⁴⁷ 'Mais le critique et le linguiste se doivent de toujours revenir à la charge, puisque, ainsi que le constatent à la fois Taylor, Whiting et Meschonnie, "on reconnaît les proverbes". Or, ce que l'on reconnaît intuitivement doit pouvoir se décrire formellement, ou du moins être distingué parmi des formes apparentées' (Schapira, 1997, 27).

⁴⁸ Whiting, 1994, 51-85.

⁴⁹ *ibid.* 80.

efrydiau llên gwerin ar baremioleg.⁵⁰ Nid ydyw'r dull cymdeithasegol hwn o ddiffinio'r diarhebol yn dal.

Yn ei gyfrol ar y ffurfiau syml sylwodd André Jolles ar ddiffygion y cyfryw ddiffiniadau. Nid ydynt yn cyfleu syniad manwl o'r hyn a olygir gan y gair 'y bobl' nac yn cynnig unrhyw ddiffiniad o'r endid niwlog-gymdeithasol hwn.⁵¹ Fodd bynnag, o safbwynt methodoleg, nid yw'r cysyniad o awduraeth unigol fymryn yn fwy defnyddiol na'r dyb ynglŷn â natur boblogaidd y ddihareb. Ni thycia'r cyfryw syniadau wrth geisio diffinio nodweddion ffurf llenyddol. Y mae ymresymiad Jolles yn llym:

Je ne nie pas qu'il y ait un circuit entre l'individu et le peuple; je ne doute pas que ce circuit ait une signification et de l'importance pour la critique littéraire. Je dis simplement qu'il n'est pas possible de déterminer à partir de ce circuit la nature et le sens d'une forme, et je le dis en particulier parce que cette méthode nous a jusqu'ici mené à des impasses.⁵²

Y mae ymdriniaethau diweddar wedi ymbellhau oddi wrth ddiffiniadau traddodiadol sy'n pwysleisio natur boblogaidd neu ddidactig⁵³ y ddihareb gan ganolbwyntio yn hytrach ar nodweddion ffurfiol y ddihareb, y nodweddion hynny sy'n peri bod modd ei hadnabod mewn cyd-destun llenyddol. Erthygl gan A. J. Greimas, 'Idiotismes, proverbes, dictons', yw'r ymdriniaeth fwyaf defnyddiol yn y cyswllt hwn.⁵⁴ Yn yr erthygl hon

⁵⁰ Cymharer rhai o sylwadau Kenneth Jackson ar yr englynion gwirebol. Yr hyn sydd ynddynt, meddir, yw 'semi-popular philosophy' (EWGP, vii), fe'u cyfansoddwyd gan 'lesser poets' (ECNP, 148). Cyfeirir at yr agwedd hon ar ei waith yn EWSP, 278.

⁵¹ Jolles, 1972, 123.

⁵² *ibid.*, 130.

⁵³ Y mae Jolles yn gwadu fod i'r ymadrodd (*locution* yw'r term generig a ddefnyddir ganddo) swyddogaeth didactig. Sylfaen, cyngor cyn gweithred, yw pob gosodiad o natur didactig ond edrych yn ôl a wna'r dihareb: 'La locution n'est pas didactique, elle n'a ni un caractère didactique, ni même une tendance didactique. Cela ne veut pas dire qu'on ne puisse pas apprendre de l'expérience, mais bien que l'expérience, dans l'univers dont nous parlons, n'est pas conçu comme une chose dont on doit tirer la leçon. Tout réalité didactique est un début, la base d'une construction plus vaste – alors que, dans la forme où la locution l'appréhende, l'expérience est une conclusion. Sa tendance c'est la rétrospection, son caractère, la résignation' (Jolles, 1972, 127).

⁵⁴ Greimas, 1960.

trafodir y nodweddion ffurfiol hynny a ganfyddir yn aml mewn diarhebion. Yn ôl Greimas presenoldeb elfen drosiadol yw'r gwahaniaeth rhwng y ddihareb a'r dywediad (*dicton*).⁵⁵ Ni cheir trosiad yn yr olaf ac nid oes iddo arwyddocâd y tu hwn i'w ystyr llythrennol. Y mae'n sylwi hefyd ar y nodweddion hyn:

- nodweddion gramadegol hynafol (cystrawen anghonfensiynol, geiriau hynafol; yng nghyswllt y diarhebion Cymraeg gellir cyfeirio yn ogystal at ffurfiau berfol anarferedig);
- berfau yn y presennol mynegol neu'r gorchmynnol⁵⁶;
- trefn rhythmig deuaidd a gadarnheir yn aml gan odl, cyflythreniad, ailadrodd neu gyplau o eiriau gwrthgyferbyniol.⁵⁷

Ymddengys fod yr elfennau gramadegol a geiriol hynafol hyn yn lleoli'r diarhebion mewn rhyw orffennol amhenodol ac yn rhoi iddynt awdurdod 'doethineb yr oesoedd'. Y mae Greimas yn cymharu'r nodwedd hon â grym fformwlâu chwedlonol megis 'un tro...' sy'n lleoli chwedl, a'r gwirioneddau sydd ynddi, y tu allan i amser. Yn yr un modd, amser diamser yw presennol y diarhebion ('le temps anhistorique par excellence', yw disgrifiad Greimas), amser sy'n caniatáu mynegi gwirioneddau tragwyddol. Cyffelyb yw effaith y frawddeg enwol bur mewn diarhebion Cymraeg. Pan arferir berf yn y modd gorchmynnol mewn diarhebion traethir gorchmyn parhaol sydd yn mynegi gwirionedd digyfnewid, onid yw'n sicrhau 'la permanence d'un ordre moral sans

⁵⁵ Cf. sylw Rodegem (1972, 682): 'Les proverbes se présentent sous une forme métaphorique, c'est-à-dire qu'ils comportent une analogie condensée'.

⁵⁶ Sylwer, fodd bynnag, fod y modd dibynnol yn bur gyffredin yn y diarhebion Cymraeg.

⁵⁷ 'Plus que les dimensions des unités syntaxiques à l'intérieur desquelles ils se réalisent, la structure rythmique binaire des proverbes et dictons apparaît comme leur trait formel distinctif le plus général' (Greimas, 1960, 59).

variations' fel y myn Greimas. Y mae'r drefn ddeuaidd, hithau, yn eglur, gorffenedig a chytbwys.

Nodwedd ffurfiol arall i'w hystried yw perthynas dihareb â'i chyddestun. Y mae'r ddihareb yn annibynnol ac yn integredig ar yr un pryd. Serch bod Charlotte Schapira yn parhau i wahaniaethu rhwng y ddihareb (*paroimia*) a'r *maxim* yn y dull traddodiadol (y naill yn perthyn i'r dreftadaeth boblogaidd a'r llall yn *genre* dysgedig sy'n ffrwyth myfyrdod gŵr doeth) y mae ei hymdriniaeth â'r *maxim* yn werthfawr gan ei bod yn arfer dulliau dadansoddi disgwrs er mwyn ceisio dealltwriaeth fanylach o union natur y ffurf. Y ffurfiau byrion (*les formes brèves*), meddir, yw'r unig *genre* llenyddol y gellir ei ddiffinio nid yn unig o safbwynt ei gynnwys ond hefyd yn ieithyddol oherwydd y mae'n ffurfio uned o ddisgwrs perffaith a gorffenedig o safbwynt semantig a gramadegol. Awduron y Ganrif Fawr yn Ffrainc yw'r corpws a astudir ganddi, ond cred Schapira fod modd canfod nodweddion cyffredin y *maxim* ym mhob cyfnod drwy ganolbwyntio ar yr enghreifftiau mynych yng ngwaith yr awduron hynny.⁵⁸ Pwysleisir natur annibynnol y ffurfiau byrion hyn ynddynt eu hunain ynghyd â'u hannibyniaeth o fewn y testun sy'n eu cynnwys. Y maent yn trychu'r testun ond eto'n ffurfio rhan annatod ohono megis impiad mewn coeden (hynny yw y mae iddynt le penodol yn nhrefn resymegol yr awdur ac ni ellir eu symud oddi mewn i'r testun heb fennu ar yr ystyr).⁵⁹

⁵⁸ 'Mais à travers l'analyse que nous proposons ici nous croyons pouvoir dégager des constantes qui restent vraies pour la description du genre et de son fonctionnement à toutes les époques. Si l'usage pragmatique que l'on peut en faire diffère selon les buts de l'oeuvre et les exigences du temps (cf. par exemple le rôle de la maxime chez Proust), sa définition et sa structure linguistique restent les mêmes: connaître la maxime du XVIIe siècle, c'est tout simplement connaître la maxime' (Schapira, 1997, 18).

⁵⁹ (Schapira, 1997, 14-6). Gwahaniaetha Schapira rhwng y *maxime* sy'n ymadrodd annibynnol (mewn casgliad, er enghraifft) a'r *maxime* sy'n rhan o destun helaethach (*maxime enchâssé*) o ran hwylustod, ond noda y gellir neilltuo a dyfynnu'r *maxime enchâssé* yn ogystal gan fod iddi natur ymadrodd neu feddwl annibynnol. Hyn sy'n galluogi Schapira i ymdrin â'r ddau deip gyda'i gilydd.

Cais F. Rodegem ganfod meini prawf gwrthrychol er mwyn gwahaniaethu rhwng y gwahanol ymadroddion doethinebol a'u dosbarthu'n fanwl mewn categorïau. Seilir ei ddosbarthiad ar wrthgyferbyniad y gwahanol fathau o ymadroddion ac y mae'r ddihareb yn unigryw yn eu mysg gan mai hi yw'r unig ffurf sy'n cyfuno'r tair nodwedd sy'n allweddol wrth drafod y *locutions sentencieuses* yn ôl Rodegem : rhythm, elfen drosiadol a mynegiant o norm. Cred fod y rhan fwyaf o ymadroddion doethinebol yn awgrymu norm neu'n cynnig cyngor sy'n gyson â rhyw norm sy'n adlewyrchiad o ideoleg ddiwylliannol benodol. Aiff Rodegem cyn belled ag awgrymu fod corpws o ddjarhebion yn cyfleu athroniaeth unedig neu fyd-olwg cymdeithas benodol. Y mae'n sicr nad ydyw'r corpws o ddjarhebion Cymraeg sy'n perthyn i'r Oesau Canol yn adlewyrchu byd-olwg neilltuol gan fod y deunydd a gynhwysir yn y casgliadau yn tarddu o ffynonellau rhy wahanol iddynt allu cyfleu unrhyw undod athronyddol.

Y mae dosbarthiad systematig Rodegem yn hynod ddeniadol ond y mae'n ddiffygiol gan ei fod yn cymhwyso'r deunydd a astudir at ei system. Ni ellir llunio diffiniadau gwrthrychol oni seilir y diffiniadau hynny ar gorpws penodol o ddjarhebion. Rhaid diffinio'r corpws a phennu ei derfynau cyn mentro ceisio diffinio ei elfennau unigol. Yn hytrach na rhoi trefn ar gasgliad neilltuol o ymadroddion doethinebol, yr hyn a wna Rodegem yw creu system synthetig heb berthynas wirioneddol rhyngddi ac unrhyw gorpws penodol o ddeunydd diarhebol. Y mae dosbarthiad caeedig o'r fath yn gweithio'n berffaith, wrth gwrs, a hynny am mai awdur y system sy'n dewis yr enghreifftiau. Nid oes raid iddo ymdrin ag eithriadau. Rhag bod yn rhy lawdrwm, addefaf nad oes a wnelo diffiniadau ag eithriadau a bydd unrhyw ddiffiniad o reidrwydd yn gyffredinol. Sylw teg yw eiddo A. J. Greimas:

La recherche des caractères formels des proverbes et des dictons semble compromise, à première vue, du fait que tous les caractères formels qu'on peut décrire, ne se rencontrent presque jamais dans chaque cas particulier. Cela n'étonnera pourtant pas le linguiste : l'existence de *leste* qui ne réalise pas formellement l'opposition masculin vs féminin, ou de *voix* où la distinction singulier vs pluriel n'est pas marquée, même graphiquement, ne met pas en question les catégories du genre ou de nombre. Ni l'historien de l'art, d'ailleurs: les différentes cathédrales gothiques ne réunissent presque jamais non plus tous les traits distinctifs du gothique.⁶⁰

Serch hynny, y mae byd o wahaniaeth rhwng disgrifio priodoleddau ffurfiol cyffredinol ffurf lenyddol a chynnig diffiniad haearnaidd yn seiliedig ar y priodoleddau hynny. Gwelir mai â theipoleg y mae a wnelo ymdriniaeth Greimas; nid ydyw'n rhyfygu cynnig diffiniad manwl, anhyblyg. Er gwaethaf cymhlethdod cymharol system Rodegem y mae, mewn gwirionedd, yn rhy syml i allu cyfleu amrywiaeth a chymhlethdod y *genre*. Anodd peidio ymglywed ag oferedd y cyfryw ymdrechion i ddiffinio'r diarhebol a hynny am na seilir hwynt ar astudiaeth o destun neilltuol. Ymchwil ydyw a gynhelir o chwith. Rheitiach yw astudio'r diarhebion na cheisio eu diffinio.

Yn yr astudiaeth hon yr wyf yn datrys problem y diffiniadau drwy ei hosgoi. Diarhebion yw cynnwys y casgliadau yn *Llyfr Coch Hergest* (Testunau A a B) yn ôl y coloffon ar eu diwedd. Cymerodd Gruffudd Hiraethog eiriau'r coloffon hwn yn deitl i Destun C ac ar ddiwedd ei gasgliad daw'r frawddeg 'Llyma dervyn y diarhebion'. Diarhebion, felly, ydyw popeth a gynhwysir yn y casgliadau diarhebion. Yn hyn o beth ni wnaaf ond cymhwyso cyngor B. J. Whiting at broblem y diffiniadau:

⁶⁰ Greimas, 1960, 58.

We must observe that there is nothing to prevent an author from calling something a proverb which has not previously been so regarded or which may even be his own invention. Nevertheless, if something is called a proverb in the fourteenth century, it is unwise for someone in the twentieth century to disagree.⁶¹

Gwrthododd J. W. Hassell a chynnwys dim ond enghreifftiau o ddiarhebion sydd i'w cael yng ngweithiau llenyddol y cyfnod yn ei astudiaeth o ddiarhebion Ffrangeg Canol. Ni chododd enghreifftiau o gasgliadau diarhebion ac y mae ei astudiaeth yn dibynnu'n llwyr ar yr hyn a eilw'n *living texts*, sef testunau sy'n perthyn i lenyddiaeth y cyfnod.⁶² Wrth gwrs, gan fod Hassell wedi dewis gweithio ar destunau llenyddol yn hytrach na chasgliadau, y mae'n rhaid iddo ddiffinio'r diarhebol er mwyn darparu canllaw sicr i'w waith. Dull Susanne Schmarje o ddiffinio a dosbarthu'r diarhebol a fabwysiedir ganddo ac y mae'n amlinellu'r dull hwnnw yn y rhagymadrodd i'w gasgliad.⁶³ Gwendid astudiaeth Hassell yw nad ydyw'n cysylltu'r diarhebion a nodir ganddo ag enghreifftiau o gasgliad sy'n perthyn i'r cyfnod. Eir ati, felly, i astudio testunau sy'n perthyn i'r oesau canol a'u dadansoddi yn unol â diffiniadau nad ydynt yn perthyn i'r cyfnod hwnnw. Ymdrinnir â ddiaarbodion sy'n digwydd mewn casgliadau canoloesol ar yr un gwastad â llinellau o farddoniaeth sy'n dilyn fformwla ddiaarbodol ond na cheir mohonynt mewn unrhyw gasgliad. Dichon fod gwerth mewn nodi llinellau o'r fath pan ganfyddir enghreifftiau ohonynt yng ngwaith mwy nag un llenor ond oni ddigwydd ymadrodd ddiaarbodol yng nghasgliadau'r cyfnod ni ellir ond dyfalu ynglŷn â'i statws.

⁶¹ PSPP, xii.

⁶² MFPSPP, 2.

⁶³ Datblygodd Susanne Schmarje ei dosbarthiad wrth weithio ar yr elfen ddiaarbodol yn ysgrifau Montaigne.

Gwendid arall sy'n tarddu o'r goddrychedd hwn yw'r duedd i fod yn orgynhwysol (gwendid sy'n eglur ddigon yn PSPP a MFPSPP). Nodaf un enghraifft sy'n berthnasol i lenyddiaeth Gymraeg y cyfnod. Yn MFPSPP a PSPP ceir y llinellau hyn:

Jeter des perles (pierres précieuses) (marguerites) aux pourceaux⁶⁴

Cast not Pearls before swine (varied)⁶⁵

Cyfeiriad amlwg sydd ynddynt at Mathew 7: 6 ('Na roddwch y peth sydd sanctaidd i'r cŵn, ac na theflwch eich gemau o flaen y moch; rhag iddynt eu sathru dan eu traed, a throï a'ch rhwygo chwi'). Nodir hynny gan y casglwyr. Y darn hwn o'r Ysgrythur a adleisir gan Lywarch ap Llywelyn yn ei awdl i fygwth Gruffudd ap Cynan:

Ytt heu uyg kert nac ef uid

Mal heu rac moch meryerid.⁶⁶

Y mae'r gyfeiriadaeth ysgrythyrol yn rhy amlwg. Nid dihareb sydd yma ond cyfeiriadaeth neu ddyfyniad, megis yn yr *Elucidarium*.⁶⁷

Yr hyn a wneir yn PSPP a MFPSPP yw creu corpws newydd o ddjarhebion yn unol â safonau modern. Yn hyn o beth y mae Whiting a Hassell yn llinach casglwyr diarhebion y Dadeni Dysg. Codi llinellau o lenyddiaeth cyfnod cynharach yn unol â rhyw ddiffiniad o'r diarhebol (neu chwiw seml), dyna'n union a wnâi Gruffudd Hiraethog.

⁶⁴ MFPSPP, P134.

⁶⁵ PSPP, P89.

⁶⁶ CBT V.8.13-4.

⁶⁷ LIA, 26.

Nid yw'n syn fod Hassell yn beirniadu 'cyfyngiadau a chwmpas' y casgliad o ddiarhebion Hen Ffrangeg a olygwyd gan Joseph Morawski.⁶⁸ Bai gwaith Morawski yn ôl Hassell yw ei fod yn dibynnu'n llwyr ar gasgliadau. Dyna gryfder ei waith yn fy nhyb i. Y mae casgliad Morawski yn adlewyrchu cynnwys casgliadau'r Oesau Canol. Pair hyn ei fod yn hwyluso astudiaeth gymharol a gwelir fy mod yn cyfeirio'n amlach yn y nodiadau at Mor. nag at MFPSPP.

Gwendid dull Morawski ydyw ei fod yn fympwyol. Dywed yn ei ragymadrodd, wrth gyfeirio at y naw casgliad ar hugain a ddefnyddiodd, ei fod yn gwrthod rhai diarhebion:

Il est clair que nous n'avons pas pu accueillir, indistinctement, tout ce qu'il y avait dans nos 29 recueils. En principe, seuls en ont été admis les *proverbes français antérieurs au XVe siècle*. C'est pourquoi on ne trouvera, dans ce répertoire, ni locutions (A Q S), ni refrains (HTU), ni axiomes de droit (Q), ni même des proverbes d'un caractère trop sentencieux, qu'ils remontent à la Bible, aux *Diz et proverbes des sages*, au dialogue de *Salomon et Marcoul* ou à toute autre source littéraire.⁶⁹

O safbwynt astudiaeth gymharol y mae'r ffaith fod Morawski wedi gwrthod diarhebion cyfreithiol yn neilltuol anffodus.⁷⁰ Pe chwynnid yr holl ddiarhebion cyfreithiol o'r tri thestun a gyflwynir yn y traethawd hwn, byddai'r hyn a fai'n weddill yn cynnig darlun pur anghyflawn (onid tywyllodrus) o gynnwys casgliadau diarhebion yr Oesau Canol yng Nghymru.

⁶⁸ 'Morawski imposed certain limitations on the scope of this work, which restrict its usefulness (it is, for instance, merely a collection of collections, not of "living" texts), but it is nevertheless sometimes very helpful' (Hassell, 1982, 12).

⁶⁹ Mor., xiv-xv.

⁷⁰ Y mae'n cynnwys diarhebion cyfreithiol 'qui depuis longtemps avaient la valeur d'un simple proverbe', a llithrodd ambell un arall heibio iddo megis *Covenant vaint loi* (Mor. 431).

Y mae Élisabeth Schulze-Busacker yn ychwanegu maen prawf arall ar gyfer adnabod dihareb mewn testun llenyddol. Yn wahanol i Hassell, cred fod yn rhaid cysylltu fformwla ddiarhebol â chasgliad o ddiarhebion a berthyn i'r un cyfnod:

Les deux critères évoqués ... doivent cependant être complétés par un troisième qui, lui, est décisif pour l'identification d'un énoncé comme proverbe médiéval. L'élément relevé doit avoir un lien évident avec une formule proverbiale existante dans un recueil de proverbes de la même époque.⁷¹

Seilir astudiaeth Schulze-Busacker o ddiarhebion yng ngweithiau naratif Ffrangeg yr Oesau Canol ar gasgliad Morawski.

Gwelir fy mod wedi defnyddio gwaith Morawski a Schulze-Busacker yn batrwm bras i'w ddilyn ond fy mod wedi gosod canllawiau fymryn yn llymach nag eiddo Morawski i'm hastudiaeth. Y mae'r testunau a olygir gennyf yn rhydd oddi wrth unrhyw ymyrraeth a dethol goddrychol ac o ganlyniad y maent yn cynnig darlun triw, cywirach, o natur y casgliadau canoloesol. Testunau yn yr un modd ag unrhyw destun golygedig arall, boed gasgliad o gywyddau neu lawysgrif cyfraith, yw'r tri chasgliad o ddiarhebion sy'n ganolbwynt i'r astudiaeth hon. Yn wahanol i gyfrol Schulze-Busacker, ni fwriedir y gwaith hwn yn astudiaeth o'r elfen ddiarhebol yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol.⁷² Fodd bynnag, ei gwaith hi fu'r ysbrydoliaeth i ogwydd y nodiadau ar y testun er bod trefn y gwaith yn groes. Defnyddio'r diarhebion i fwrw goleuni ar y

⁷¹ Schulze-Busacker 1982, 16. Y ddau faen prawf arall a grybwyllir yw natur annibynnol y dihareb o fewn y testun (h.y. ei phriodoledau ffurfiol) a'r elfennau ffurfiol sy'n arwydd o'i pherthynas â'r cyddestun (fformwla yn ei chyflwyno ayyb).

⁷² Serch fy mod yn amlinellu'r traddodiad diarhebol yn llenyddiaeth Cymru'r Oesau Canol yn y rhagymadrodd. Anodd yn wir fyddai osgoi gwneud hynny gan fod y cefndir hwn yn anhepgor i ddirnad arwyddocâd y casgliadau.

lleyddiaeth yw nod Schulze-Busacker. Fy amcan i yn y nodiadau yw defnyddio'r lleyddiaeth i egluro'r diarhebion.

Egwyddor lywodraethol y nodiadau ydyw mai'r cyd-destun sy'n diffinio ergyd dihareb ac oherwydd hynny ni cheir ynddynt unrhyw ddyfalu ynglŷn ag ystyr trosiadol dihareb. Oni ddarperir cyd-destun yn lleyddiaeth y cyfnod rhaid bodloni ar ddeall ystyr llythrennol y ddihareb yn unig.

4. Y traddodiad paremiolegol - Casgliadau diarhebion yr Oesau Canol

Wrth drafod gwaith y Dyneiddwyr Cymreig cyfeirir yn aml at ddylanwad Erasmus arnynt ac at eu chiwlfrydedd yn llunio casgliadau helaeth o ddiaarbion. Gan adleisio'r hyn a ddywed William Salesbury am Ruffudd Hiraethog maentumia Ceri Davies fod Gruffudd, 'yn perthyn hefyd i draddodiad John Heywood, Polydor Vergil ac Erasmus o Rotterdam, dyneiddwyr a fu'n casglu a threfnu diarhebion'.⁷³ Y mae'n sicr fod y Dyneiddwyr Cymreig yn ymwybodol eu bod yn perthyn i'r mudiad hwn; cesglir hynny o'u hysgrifeniadau. Fodd bynnag, yr oeddynt hefyd yn rhan o draddodiad di-dor o gasglu a chopio diarhebion.

Tueddir i esgeuluso gwreiddiau canoloesol ymron y cyfan o nodweddion y 'Dadeni'. Diau y gellir olrhain y duedd hon i gysylltiadau'r gair 'Dadeni' ei hun, yr enw 'anffodus' a roes yr hanesydd o Swisiad, J. Burckhardt ar y cyfnod. Yn ddiweddar awgrymodd Jacques Le Goff yn y cyswllt hwn mai amharodrwydd i ddadansoddi newidiadau cymdeithasol sy'n peri i haneswyr gyfeirio at 'argyfwng' yn amlach na pheidio:

⁷³ Davies, 2001, 15. Ymhellach ar ddylanwad Erasmus ar y dyneiddwyr Cymreig gw. Davies, 1983.

... j'use le moins souvent possible du terme de crise qui bien souvent masque l'absence d'effort d'analyse des changements d'une société. Je crois en revanche qu'il y a des mutations et des tournants. Y en a-t-il une, y en a-t-il un à la fin du xv^e siècle? C'est là qu'intervient le mot, à mon sens malheureux, proposé par l'historien suisse Burckhardt à la fin du xix^e siècle et qui a fait fortune, Renaissance. Rappelons d'abord qu'on peut, et on a en effet, qualifié de renaissance d'autres moments du Moyen Âge, à l'époque carolingienne et au XII^e siècle notamment.⁷⁴

Aiff Le Goff rhagddo i restru nodweddion y 'Dadeni' tybiedig a dechrau'r 'Cyfnod Modern' – trefoli, sefydlu prifysgolion, gwahanu'r eglwys a'r wladwriaeth sifil – y cwbl ohonynt â'u gwreiddiau yn yr Oesau Canol. Ymddengys fod yr enw 'dadeni' wedi llywio'r ffordd y meddylir am y cyfnod hwn a'i fod, i raddau helaeth, wedi llesteirio deongliadau newydd.

Parhad naturiol ydyw casgliadau diarhebion diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg o waith copiŵyr a chasglwyr diarhebion yr Oesau Canol. Yr oedd hwn yn draddodiad Ewropeaidd y gellir olrhain ei darddiad i gasgliadau Lladin yr hen fyd a'r oesau canol cynnar.

Yn ei arolwg o destunau diarhebol Lladin yr Oesau Canol y mae Barry Taylor⁷⁵ yn dosbarthu testunau'r *genre* dan dri phennawd – gweithiau gwreiddiol, *florilegia* a gweithiau naratif. Ymysg y gweithiau a restrir o dan y pennawd cyntaf, y rhai mwyaf pellgyrhaeddol eu dylanwad yw llyfrau doethineb y Beibl⁷⁶ a'r *Disticha Catonis*. Yn ôl Taylor bu i lyfrau

⁷⁴ Le Goff, 2003, 255-56.

⁷⁵ Taylor, 1992.

⁷⁶ Sef Llyfr y Diarhebion, Llyfr y Pregethwr a Chân y Caniadau yn yr Hen Destament a Doethineb Salomon ac Ecclesiasticus yn yr Apocryffa.

doethineb y Beibl ddylanwadu ar lenyddiaeth ddjarhebol mewn pedair ffordd:

- Darllenid y llyfrau hyn yn helaeth drwy gydol y cyfnod,
- Cyfansoddid gweithiau mydryddol yn seiliedig arnynt,
- Cawsant ddylanwad ar arddull a delweddaeth,⁷⁷
- Llundid *florilegia* yn cynnwys deunydd diarhebol o lyfrau doethineb y Beibl a gweithiau awduron clasurol a cheisid cysoni'r ddau fath ar ddoethineb.

Bu'r ail waith gwreiddiol a enwir gan Taylor, y *Disticha Catonis*, yn boblogaidd gydol yr oesau canol. Yr oedd yn un o'r testunau sylfaenol pwysicaf yn ysgolion y cyfnod a dechreuwyd ei gyfieithu i'r ieithoedd brodorol yn y ddeuddegfed ganrif. Perthyn y cyfieithiadau Cymraeg ohono i'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed.⁷⁸

Diau mai'r *florilegia* o ddeunydd diarhebol a osodwyd yng nhrefn yr wyddor, megis y *Proverbia Senecae* a gyfansoddwyd yn y nawfed ganrif, fu'r patrwm ar gyfer y casgliadau yn yr ieithoedd brodorol sy'n dilyn trefn yr wyddor. Dilynwyd y patrwm hwn gan flodeugerddi Lladin eraill megis y *Libellus proverbiorum* o waith Othelo o St. Emmeran.

Yr enwocaf o'r gweithiau naratif diarhebol a nodir gan Taylor yw *Ymddiddan Selyf a Marcolff*, gwaith a berthyn i'r ddegfed ganrif. Ymddiddan diarhebol yw rhan gyntaf y cyfansoddiad hwn rhwng y

⁷⁷ 'The third role is stylistic: the imagery of a primitive agrarian society and the characteristically balanced style which we are used to calling parallelismus membrorum ... recur throughout the medieval gnomic corpus' (Taylor, 1992, 24).

⁷⁸ Golygwyd dau fersiwn o'r Catwn Cymraeg gan Ifor Williams (1923, 16-36). Ceir ymdriniaeth â chyfieithiadau ac addasiadau o'r Catwn i'r ieithoedd Romáwns yn Schulze-Busacker (1989) ynghyd â thrafodaeth ar ei ddylanwad.

brenin Selyf a'r taeog Marcolff. Golygwyd cyfieithiad Cymraeg o'r gwaith gan Henry Lewis.⁷⁹

Dechreuwyd casglu diarhebion yn yr ieithoedd brodorol yn gynnar. Perthyn Diarhebion Durham, casgliad o chwech a deugain o ddiarhebion Saesneg Canol ynghyd â chyfieithiadau Lladin i'r unfed ganrif ar ddeg.⁸⁰ Perthyn y casgliadau Ffrangeg cynharaf i'r drydedd ganrif ar ddeg. Ceir arolwg o beth o'r deunydd Saesneg gan S. M. Horrall ac ymdriniaeth fanwl â chasgliadau Ffrangeg yr Oesau Canol gan Morawski.⁸¹ Yn aml bydd esboniadau a sylwadau yn canlyn y diarhebion yn y casgliadau hyn; yn gyfeiriadau ysgrythurol, yn sylwadau cyfreithiol, ac yn gyfieithiadau Lladin ar fesur Leonaid.

Defnyddid y casgliadau diarhebion ym maes y gyfraith, rhethreg, cyfansoddi llythyrau a phregethu.⁸² Fe'u defnyddid hefyd mewn ysgolion lle yr ystyrid bod casgliadau dwyieithog yn ddull effeithiol o ddysgu Lladin.⁸³ Golygwyd casgliad dwyieithog Saesneg-Lladin o'r fath, o lawysgrif a berthyn i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, gan B. J. Whiting.⁸⁴ Heblaw'r diarhebion, cynnwys y llawysgrif hon, 'a varied (forty items) and extensive (410 ff.) collection of texts and other educational materials thoughtfully and generously provided for a London schoolboy of the later fourteenth century'.

⁷⁹ Lewis, 1926-7.

⁸⁰ Arngart, 1981.

⁸¹ Horrall, 1983, 346-8; Morawski, 1922. Y mae ymdriniaeth Louis (1993) â'r deunydd Saesneg Canol yn cwmpasu mwy na diarhebion yn unig. Cyfeiria yn ogystal at lenyddiaeth gynghorol ac at gerddi diarhebol eu naws.

⁸² 'Within the first group [y testunau hynny a ddefnyddid wrth gyfansoddi gweithiau eraill] the four areas for which proverb texts most commonly provided a service were the law, and three of the medieval artes: the art of rhetoric or poetics, the art of epistolary composition, alias dictamen, and the art of preaching' (Taylor, 1992, 32).

⁸³ Defnyddid llenyddiaeth ddiarhebol i ddibenion didactig, moesol yn ogystal wrth gwrs. Tyst i hynny yw poblogrwydd y *Fecunda ratis*, gwaith didactig a gyfansoddwyd gan Egbert de Liège yn yr unfed ganrif ar ddeg. Yr oedd y *Fecunda ratis* yn destun pur boblogaidd yn ysgolion yr Oesau Canol. (Schulze-Busacker, 2000, 356-57).

⁸⁴ Whiting, 1965.

Defnyddiai pregethwyr yr Oesau Canol ddjarhebion i addurno arddull eu pregethau a chynghorir pa fodd y dylid arfer yr ‘addurn’ hwn yn y llawlyfrau pregethu, yr *ars praedicandi*.⁸⁵ Meddai Taylor:

The use of proverb collections as reference books for preachers is also well documented. This function appears to date from the thirteenth century when an increased emphasis on preaching in general is marked by the emergence of preachers’ manuals and reference books.⁸⁶

Dilynir un casgliad o ddjarhebion Hen Ffrangeg gan drafodaeth ar egwyddorion defnyddio dihareb i ddechrau pregeth.⁸⁷ Anodd peidio â gweld cyswllt rhwng y gweithgarwch hwn â’r *libri sententiarum* a ddaethai mor boblogaidd o’r ddeuddegfed ganrif ymlaen. Bwriad y llyfrau hynny oedd crynhoi mewn byr gwmpas holl ddysgeidiaeth y Tadau Eglwysig.⁸⁸

5. Natur a chynnwys y casgliadau Cymraeg

Ac eithrio’r ddjarhebion a drawodd rhywun ar ddalen wag yng nghanol *Llyfr Du’r Waun* (Peniarth 29), fersiynau ydyw’r casgliadau o ddjarhebion Cymraeg sy’n hŷn na’r unfed ganrif ar bymtheg o’r gwaith a elwir yn y coloffon sy’n dilyn y testunau cyflawn yn Fadwaith Hen Gyrys o Iâl. Y mae’r casgliadau hyn yn ymrannu’n dri grŵp:

- Testun A (J111, W36, P17, P54)
- Testun B (J111, W36)

⁸⁵ Bland, 1997, 6-12.

⁸⁶ Taylor, 1992, 33-4.

⁸⁷ ‘Le recueil est suivi ou plutôt complété par les Principia quorundam sermonum ... qui démontrent pratiquement comment l’on peut prendre des proverbes pour point de départ du sermon’ (Mor. v).

⁸⁸ Compagnon, 1979, 217.

- Casgliad *Llyfr Gwyn Rhydderch*

Dosberthir y diarhebion yn y casgliadau hyn, nid yn ôl trefn yr wyddor yn union, ond yn ôl llythyren gyntaf gair cyntaf y ddihareb. Dosberthir rhediadau o ddiaarbion yn y casgliadau yn nhrefn yr wyddor ond nid oes drefn ar y diarhebion oddi mewn i'r rhediadau ac eithrio eu bod oll yn dechrau â'r un llythyren. Y mae hyn yn eithaf cyffredin yng nghasgliadau ieithoedd eraill.⁸⁹ Meddai Morawski:

Même dans les recueils dits alphabétiques, l'ordre de l'a b c est rarement observé rigoureusement; quelquefois, on se contente de grouper les proverbes commençant par la même lettre ou le même groupe de lettres.⁹⁰

Mewn pennod sy'n ymdrîn â threfn yr wyddor yng ngeirfâu a lexica Lladin yr oesau canol, nodi Lloyd W. Daly, ar ôl Hans Walther, fod casgliadau o ddiaarbion Lladin yn nhrefn yr wyddor i'w cael yn yr unfed ganrif ar ddeg.⁹¹ Y mae rhai o'r casgliadau diarhebion Saesneg Canol yn nhrefn yr wyddor (yn ôl allweddair).⁹²

Priodolir y casgliadau diarhebion Cymraeg i'r Hen Gyrys o Iâl. Ceir cyfeiriadau achlysurol at y cymeriad hwn yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr. Yn eu cerddi fe'i cysylltir â'r diarhebion ac â doethineb. Enwir yr Hen Gyrys o Iâl wrth ddyfynnu dihareb; ei *wersau* neu ei *eiriau* ef ydynt:

Coelio'r wyf, a'u cael ar Rys,
Rin a geiriau'r Hen Gyrys,

⁸⁹ Cyfeiria Daly (1967, 63) at boblogrwydd casgliadau diarhebion a drefnid yn ôl llythyren gyntaf (neu ddwy lythyren gyntaf) pob dihareb, yn y cyfnod Bysantaidd.

⁹⁰ Morawski, 1922, 488.

⁹¹ Daly, 1967, 69-75. Gw. 74-5 yn benodol.

⁹² Louis, 1993, 2963.

Mai gwell crefft â gallu crwn
Na golud: *mi* a'u gwelwn.⁹³

Gwrando yn eu grwndwal
gwrsau Hen Gyrys o Iâl:
gwell pwyll, y mae'n gall y pen,
nog aur, benáig o Urien.⁹⁴

Ceir cyfeiriadau mynych ato yng ngwaith Lewys Glyn Cothi. Cymharu doethineb ei noddwyr â doethineb yr Hen Gyrys a wna'r bardd bron yn ddieithriad:

Henw y gŵr yw Hen Gyrys
erioed o Lan Wrda Lys.⁹⁵

Gwae a ŵyr fal Hen Gyrys
geisio rhodd ac eisiau Rhys⁹⁶

Mae i'ch llaw fonedd Dinawal
a gras Hen Gyrys o Iâl.⁹⁷

Hopcyn a ry'r llyn o'r llys
ap Siôn, goron Hen Gyrys.⁹⁸

A bod aur Esgob Duran
yn ei lys yn nhâl y lan,
ac arian yr Hen Gyrys,
hyn a roid yn nhai ŵyr Rys.⁹⁹

⁹³ Lynch, 1994, 2.1-4.

⁹⁴ GLGC, 19.27-30

⁹⁵ GLGC, 35.23-4

⁹⁶ GLGC, 71.17-8

⁹⁷ GLGC, 81.7-8

⁹⁸ GLGC, 102.9-10

⁹⁹ GLGC, 150.23-6

dau eryr fu'r gwŷr fal Hen Gyrys.¹⁰⁰

och ym ond arnaf y mae chwys – angau
am ddwyn y gorau, medd Hen Gyrys.¹⁰¹

Diau fod Lewys wedi darllen y 'Madwaith' yn Llyfr Coch Hergest pan oedd y llawysgrif yn Nhretŵr.¹⁰² Y mae'n sicr i'r testun wneud argraff arno.

Y mae J. Lloyd Jones yn nodi dau gyfeiriad arall at yr Hen Gyrys ym Mheniarth 67, y naill mewn cywydd moliant o waith Hywel Dafi a'r llall mewn darn o gywydd dienw.¹⁰³ Enwir yr Hen Gyrys hefyd yng nghywydd dychan Guto'r Glyn i Ddafydd ab Edmwnd ac yn 'Englynion y Clyweit'.¹⁰⁴

Ni wyddom ysywaeth nemor ddim am yr Hen Gyrys ac eithrio ei fod yn hen, yn ddoeth a'i fod wedi llunio casgliad o ddiarhebion.¹⁰⁵ Nid ydyw priodoli casgliadau o lēn doethineb i gymeriadau chwedlonol, hanesyddol neu ffug-hanesyddol yn anghyffredin canys rhoddai hyn awdurdod i gynnwys y casgliadau.¹⁰⁶ 'Les noms mis en vedette,' meddai Joseph Morawski yng nghyswllt awdur y *Diz et proverbes des sages*, cyfres o

¹⁰⁰ GLGC, 189.33

¹⁰¹ GLGC, 228.43-4

¹⁰² Ysgrifennodd Lewys ddwy awdl o'i waith ei hun i Fychaniaid Tretŵr ar ddalennau gweigion yn y Llyfr Coch. Gw. Huws, 2003, 24 a GLGC, xxx.

¹⁰³ GBGG, 266.

¹⁰⁴ GGGL, lxxix.43-4; Clyweit 63.

¹⁰⁵ Noder mai enw Celtaidd cynhenid ydyw Cyrus. Fe'i cysylltwyd gan Ifor Williams â CUURIS, enw a geir mewn arysgrif o Fôn (BWP, 17-8; LHEB, 671; Sims-Williams, 2003, 232).

¹⁰⁶ Yn Iwerddon, priodolid casgliadau o lēn doethineb i Flann Fína mac Ossu, sef enw Gwyddeleg Aldrith fab Oswiu brenin Northumbria ac i'r bardd a'r barnwr chwedlonol Fíthal (Ireland, 1999, 2) a chysylltir rhestr faith o gynghorion, *Tecosca Cormaic*, ag enw'r brenin Cormac mac Airt. Cyfeiria Horrall (1983, 347) at gerddi diarhebol Saesneg Canol 'attributed to a legendary wise man'. Priodolir penillion y *Diz et proverbes des sages* i Gatwn, Fferyll, Selyf, Platon a doethion eraill (Pineaux, 1958, 11). Cymharer y traddodiad sy'n priodoli peth o'r canu gwirebol i Aneirin Gwawdrydd (Owen, 1978, 140-1). Dadlennol iawn yw sylw Louis (1993, 2979) am gyfres hir o benillion diarhebol Saesneg Canol (cyfieithiad o'r testun Eingl-Normaneg *Proverbes de bon enseignement*) a briodolir i broffwydi a beirdd a saint: 'The actual sources of the proverbs are not the personages they are ascribed to, but the book of Ecclesiasticus'.

benillion diarhebol a berthyn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, 'ne servant qu'à donner plus de poids aux sentences qu'il énonce'.¹⁰⁷ Agwedd yw hon ar ddisgwrs awdurdod ac fe'i trafodir ymhellach isod.

Cyfeirir yn ogystal yn y coloffon at Bach Buddugre, Cato Gyfarwydd a Gwyddfarch Gyfarwydd. Meddir yn Nhestun A: 'Matweith hen gyrys o ial yr h6nn a elwit bach budugre a cato gyfarwyd a g6yduarch gyfuarwyd'.

Ni sylwais ar unrhyw un o'r enw Bach yn yr achau cynnar nac yn unman arall onid yr un ydyw â'r Ystudfach a enwir yn rhagymadrodd William Salesbury i OSP ac yn 'Y Bardd a'r Brawd Llwyd' gan Ddafydd ap Gwilym.¹⁰⁸ Yr oedd yntau'n ddiaarbwr. Nid ydyw'r enw yn llwyr ddiystyr oherwydd yn Iâl y mae Buddugre.¹⁰⁹ Diau mai Dionysius Cato, awdur tybiedig y *Disticha Catonis*, ydyw Cato Gyfarwydd. Ceir mynych gyfeiriadau ato yng ngwaith y beirdd ac fe'i hystyrir ganddynt yn batrwm o ddoethineb. Fe'i coffeir hefyd yn y trioedd: 'Tri dyn a gauas Doethineb Adaf: Cado Hen, a Beda, a Sibli Doeth'.¹¹⁰ Nid oes ond un Gwyddfarch yn y traddodiad Cymreig sef Gwyddfarch ab Amalarus a enwir ym Monedd y Saint, abad Meifod yn ôl Buchedd Teilo.¹¹¹

Cynnwys y casgliadau diarhebion ddeunydd a ddidolwyd o amryfal ffynonellau. Y mae'r diarhebion hynny y gellir olrhain eu tarddiad yn weddol sicr yn ymrannu'n dri dosbarth:

¹⁰⁷ Morawski 1924b, xxxvii.

¹⁰⁸ OSP, 9; GDG, 137.71-4.

¹⁰⁹ HW, 492.

¹¹⁰ TYP, 128. Diddorol sylwi fod fersiwn arall o'r triawd hwn yn cynnwys enw Marcwlph. Rhestrir nifer o gyfeiriadau at Cato mewn llenyddiaeth Gymraeg yn ib. 291.

¹¹¹ WCD, 344-45; LBS, 219-20.

- diarhebion sy'n dwyn perthynas â'r hengerdd ac yn neilltuol ag englynion o'r hen ganiad,
- acsiomau cyfreithiol,
- diarhebion cydwladol.

Nid yw'r dosbarthiad hwn yn hollgynhwysol nac yn derfynol a phwysleisiaf nad ydyw'n adlewyrchu unrhyw raniad cynhenid yn y testun ond y mae'n caniatáu inni drafod cynnwys y casgliadau mewn ffrâm drefnus ynghyd â deall rhywfaint am natur ffynonellau'r casglwyr. Manylaf beth ar y tri dosbarth yn yr hyn a ganlyn.

(i) Yr Hengerdd

Ymgorfforwyd amryw llinellau o'r canu saga a'r canu gwirebol yn y casgliadau diarhebion. Ceir trafodaeth gryno a chyflawn ar berthynas y canu englynol cynnar a'r casgliadau diarhebion yn EWSP.¹¹² Dadleuir yn argyhoeddiadol yno mai'r casgliadau sydd wedi benthyg llinellau o'r canu saga yn hytrach na'r gwrthwyneb. Pwysa dadl Rowland ar natur fydryddol y diarhebion hyn, ond gellir nodi yn ogystal fod ei chasgliadau'n gyson â'r hyn a wyddom am y modd yr ymgorfforwyd llinellau o farddoniaeth mewn casgliadau diarhebion diweddarach.¹¹³

Awgryma Rowland yn ogystal fod nodweddion mydryddol amryw o'r diarhebion¹¹⁴ yn arwyddo mai llinellau o farddoniaeth ydynt wedi eu codi o englynion coll, yn englynion saga neu'n englynion gwirebol.¹¹⁵ Aiff rhagddi i gyfeirio at y berthynas thematig rhwng y cyfryw ddiaarbheion a'r englynion saga:

¹¹² EWSP, 279-81.

¹¹³ Yn nhestun C, Dafydd ap Gwilym biau C867 a Thudur Aled biau C950.

¹¹⁴ Ceir ymdriniaeth â'r dyfeisiau mydryddol a arferir yn y canu englynol yn EWSP, 332-51.

¹¹⁵ Y mae'n nodi A151, A970, A194, A195, A98, A127 ac A834.

canu saga.¹¹⁹ Digwydd rhai diarhebion, megis A815, yn y naill *genre* a'r llall.

Cyfeiria Jenny Rowland yn ogystal at ddiarhebion mydryddol eraill 'of a simpler type which seem to be of a more popular origin'.¹²⁰ Diarhebion yw'r rhain ar ffurf cwpledi byrion, odledig ac ymddengys nad oes gysylltiad rhyngddynt a'r hengerdd.¹²¹

Nid o'r canu englynol yn unig y cafwyd y diarhebion. Ymorfforwyd llinellau o fathau eraill ar farddoniaeth ar fesurau heblaw'r englyn. Digwydd A902 ac A903 yn y gerdd sy'n dechrau â'r geiriau 'Breuduid a uelun neithwir' yn Llyfr Du Caerfyrddin ac y mae'r ffaith eu bod yn dilyn yr un drefn yn y gerdd ac yn nhestun A, ynghyd â'r odl gyrc *gwael / hael*, yn awgrymu mai o'r gerdd hon y tarddant. Yn yr un modd, digwydd A703 yn un o awdlau Taliesin i Urien Rheged.

Y mae'r arfer hon o gynnwys llinellau o farddoniaeth yn y casgliadau diarhebion yn cwmpasu mwy na chorpws yr Hengerdd a dyfynnir llinellau o farddoniaeth cyfnod diweddarach yn ogystal. Codwyd A194 ac A195, er enghraifft, o englynion dadolwch Owain Fychan gan Lywelyn Fardd.

Ymddengys felly fod y beirdd yn aml yn cyfansoddi llinellau a ddeuai, yn ddiweddarach, yn rhan o'r corpws diarhebion.¹²² Gellid gofyn pa mor fwriadol oedd y gweithgarwch hwn. A oeddid yn cyfansoddi llinellau

¹¹⁹ EWSP, 279.

¹²⁰ EWSP, 280. Nid eglurir arwyddocâd yr ansoddair 'poblogaidd'.

¹²¹ Dyfynnir A23, A297, A332 ac A530 yn EWSP. Er nad yw nodweddion mydryddol y teip hwn mor soffistigedig â'r llinellau seithsill y mae rhai ohonynt yn cynnwys elfennau ieithyddol hynafol (cf. er enghraifft, yr hen ffurf ferfol annibynnol pres. 3 un. yn A1052).

¹²² 'It appears that the poets often created the aphorisms which became part of the proverbial corpus, and that a good proportion were composed in the englyn measures. This would suggest that poets working in the gnomic and saga englynion had similar interests in the formation of proverbs and gnomic observations' (EWSP, 281).

diarhebol yn benodol i'w dyfynnu y tu allan i gyd-destun y farddoniaeth?
Dengys perthynas llinell ddiahebol â'r hyn sy'n ei rhagflaenu ac â'r hyn
sy'n ei dilyn yn y testun gwreiddiol fwriadau'r awdur i raddau helaeth.
Meddai Schapira, yng nghyswllt y *maxime*:

Son degré d'intégration au contexte reflète les intentions de l'auteur et sa
manière de concevoir le rôle de la maxime : comme un genre en soi, préparé
pour l'éventuelle citation, comme un moyen stylistique ou argumentatif
subordonné à un raisonnement, ou comme les deux à la fois.¹²³

Yn ôl Schapira y mae i'r *maxim* berthynas glòs â'i chyd-destun
gwreiddiol, perthynas na ellir ei throsglwyddo ac a gollir o ddyfynnu'r
llinell y tu allan i'r cyd-destun hwnnw.

Perthynas eithaf llac sydd rhwng dihareb â'i chyd-destun yn y canu
gwirebol. Y mae llinellau'r canu'n ymadroddion didoladwy ac y maent
yn ffurfio unedau cystrawennol a semantig annibynnol. Anaml y medrir
datgelu perthynas ystyrlon rhwng llinell a'r rhai nesaf ati a bair bod y
naill llinell yn semantig-ddibynnol ar y lleill (er bod i unffurfiaeth
ailadroddus llinellau'r 'bidau' a'r 'gnodiau' werth cyfunol bid siŵr). Pair
y nodweddion hyn fod modd neilltuo llinell i'w dyfynnu yn rhwydd.

Integreiddiwyd y llinellau diarhebol yn y canu saga yn llwyrach. Y maent
yn rhan anhepgor o undod y testun ac y mae ergyd llinell unigol yn aml
ynghlwm wrth y cyd-destun megis yn yr englyn hwn:

Truan a dynghet a dynghet y Lywarch
Yr y nos y ganet;
Hir gnif heb escor lludet¹²⁴

¹²³ Schapira, 1997, 111.

¹²⁴ CLH, II.21. Fersiwn o A504 yw'r llinell olaf.

Ni chyfleir holl faich ystyr y llinell hon o'i dyfynnu'n annibynnol ar ei chyd-destun. Gellid tybio na fwriedid y cyfryw linellau i'w dyfynnu'n unigol.

Dichon felly fod ymdrech fwy bwriadus i gyfansoddi llinellau diarhebol y gellid eu dyfynnu'n unigol yn y canu gwirebol o gymharu â'r canu saga. Ni fynnwn roi gormod o bwyslais ar y ddadl hon fodd bynnag, gan mai'r union nodweddion hynny a bair fod llinellau diarhebol yr englynion gwirebol yn rhwydd i'w dyfynnu yw nodweddion ffurfiannol cynhenid *genre* y canu gwirebol. Ac wrth gwrs cais pob bardd gyfansoddi llinellau trawiadol.

Dylid nodi yn ogystal, fel y sylwodd T. J. Morgan, 'fod pob ymadrodd yn cynnwys *bid* a'r terf. *-id* wedi'i gymryd yn ddihareb gan gasglwyr diweddarach'.¹²⁵ Efallai nad ydyw hyn yn hollol wir am 'bob ymadrodd', ond y mae mesur helaeth o wirionedd yn y sylw.

(ii) Y Cyfreithiau

Yr oedd i ddiarhebion cyfreithiol ran sylweddol mewn cyfraith gynnar. Y mae'r cyfryw ddiarhebion yn gyffredin yng nghyfreithiau holl wledydd Ewrop a dichon y gellid olrhain tarddiad llawer ohonynt i rai o egwyddorion sylfaenol cyfraith Rufain. Cyfeiria Joseph Morawski at amllder diarhebion cyfreithiol yn y casgliad helaethaf a chyfoethocaf o

¹²⁵ Morgan, 1931, 38.

ddiarhebion Ffrangeg canoloesol.¹²⁶ Diben y diarhebion hyn yw crynhoi rheol gyfreithiol.¹²⁷

Yn ei ragymadrodd i Lyfr Blegywryd cyfeiria Stephen J. Williams at y 'blas cyfreithiol' sydd ar lawer o'r diarhebion a noda fod y diarhebion hyn weithiau'n cynnwys 'termau technegol y llyfrau cyfraith'.¹²⁸ Aiff rhagddo i gyfeirio at rai o'r diarhebion a ddyfynnir yn y cyfreithiau a cheir ymdriniaeth faith ganddo ag un ohonynt (sef fersiwn Blegywryd o A833).

Gellir cysylltu diarhebion y llyfrau cyfraith â dyfeisiau rhifyddol mnemonig megis y trioedd (â'r nawoedd) cyfreithiol. Yn ôl Morfydd Owen, dulliau hwylus a chryno o gofio egwyddorion cyfreithiol ydynt:

Prif rinwedd y dulliau rhifyddol ydyw eu bod yn crynhoi mewn dull cofiadwy wirioneddau'r gyfraith. Y mae llawer o ddiaarbion a gedwir inni ... yn crynhoi mewn dull gwirebol syniad cyfreithiol.¹²⁹

Yng nghyswllt y casgliadau diarhebion gellir cyfeirio at dri math ar ddihareb gyfreithiol:

- diarhebion sy'n digwydd yn y casgliadau diarhebion ac yn un o'r llyfrau cyfraith;
- diarhebion yn y casgliadau sy'n cynnwys termau cyfreithiol ond nas dyfynnir yn y llyfrau cyfraith;
- diarhebion a ddyfynnir yn y llyfrau cyfraith na cheir mohonynt yn y casgliadau.

¹²⁶ Morawski, 1922, 527.

¹²⁷ 'The gist of the law was condensed into maxims which circulated in legal groups, were collected in handbooks, and found a place in pleading and even in judicial decisions' (Taylor, 1985, 94; ceir trafodaeth gyffredinol ar destun diarhebion cyfreithiol yn *ibid.*, 86-97).

¹²⁸ Bleg., xxxii-xxxv.

¹²⁹ Owen, 1974, 236. Gw. ymhellach 236-7.

Yn y nodiadau ar y testun, trafodir y diarhebion a berthyn i'r dosbarth cyntaf yng nghyd-destun y paragraffau hynny lle y'u dyfynnir yn y llyfrau cyfraith. Dilynir yr un egwyddor ynglŷn â chyd-destunoli dihareb gyfreithiol ag a ddefnyddir wrth gyd-destunoli diarhebion mewn testunau 'llynyddol'.

Gellir cynnig rhai sylwadau ar swyddogaeth y diarhebion hyn yn y llyfrau cyfraith. Fe'u defnyddir i egluro neu gyfiawnhau rhan o'r gyfraith drwy apelio at awdurdod y rheol gyfreithiol a ymgorfforir yn y ddihareb. Dyna swyddogaeth A34 yn y darn a ganlyn:

Guehedesseu a gemeront gueeu attadunt, neu petheu ereyll o losgant talent, canys *keureyth* a deweyt 'A gemero, catwet'.¹³⁰

Cyffelyb yw swyddogaeth A824 yma:

O deruyd duyn buch en lladrat a meythryn ohoney epyl gan y dyn a'y duc, a chlebot o'r perchennauc e lle ed oet yndau ay hy ay hepyl, nys dely namyn e hun, ac ony byt ny dyly dym canyt a sullt a dan dyepryt.¹³¹

Gwelir mai ffurfiau ar y cysylltair *can*¹³² a ddefnyddir gan amlaf i gyflwyno'r diarhebion yn yr achosion hyn.

Dro arall dyfynnir y ddihareb yn enw neu deitl ar reol gyfreithiol megis A1067 yma:

¹³⁰ Col., §434.

¹³¹ Dam. Col., §113.

¹³² GMW, §261.

Or llygrir yt neb dyn yn emyl trefgord, ac na chaffo y perchenhawc daly vn llwdyn amaw, kymeret ef y creir a doet y'r tref, ac or tygant lw diarnabot, talent y rif llwdyn; a'r gyfreith honno a elwir "telhitor gwedy halawc lw."¹³³

Yn yr un modd, swyddogaeth teitl sydd i'r acsiom 'oergwyp galanas' a gysylltir â dihareb A972.

Ni ellir cyd-destunoli diarhebion yr ail ddsbarth gan na cheir enghraifft ohonynt yn y cyfreithiau. Rhaid ceisio eu hegluro drwy eu cysylltu â'r rhannau hynny yn y llyfrau cyfraith sy'n ymdrin â'r un egwyddorion. Er mwyn egluro A36, felly, rhaid ei hystyried yng ngoleuni cyfraith mechni ac ni ellir deall cenadwri A37 ond mewn perthynas â chyfraith lladrad.

Noder fod rhai diarhebion, nad oes a wnelont â'r cyfreithiau, yn cynnwys termau cyfreithiol neu eiriau y gellid eu dehongli o safbwynt cyfreithiol. Diarhebion tywyllodrus yw'r rhai hyn a gallant arwain ymchwilydd ar gyfeiliorn yn hawdd. Nid ystyr gyfreithiol fanwl sydd i'r gair *adnau* yn A6 nac i'r gair *galanas* yn A313. Yn yr un modd, er gwaethaf y termau cyfreithiol sydd ynddi a serch bod Stephen J. Williams yn ei dyfynnu i oleuo darn o'r gyfraith, dihareb gydwladol yn hytrach na dihareb gyfreithiol yw B126.

Nid oes a wnelom â diarhebion y trydydd dosbarth, y rhai hynny nas cynhwysir yn y casgliadau diarhebion, yn yr astudiaeth hon. Dyfynnir ambell i ddihareb felly yn y llyfrau cyfraith, rhai megis, 'Nyt testyolaeth testyolaeth un dyn', dihareb a gymherir gan Dafydd Jenkins â'r acsiom Lladin *testis unus testis nullus*.¹³⁴ Yn aml gellir adnabod diarhebion hyn drwy sylwi ar y fformwlâu a ddefnyddir i'w cyflwyno; fformwlâu megis

¹³³ Bleg., 86, 21-5.

¹³⁴ Col., §546; gw. y nodyn yn *ibid.* 139.

‘ac 6rth hynny y dywedir’¹³⁵; ‘ac 6rth hynny y gelwir h6nn6’¹³⁶; a ‘sef achos y6 hynny’¹³⁷.

Cyfeiria Fergus Kelly at y berthynas rhwng testunau doethineb a thestunau cyfreithiol Iwerddon a dywed fod y testunau doethineb yn cynnwys deunydd cyfreithiol, yn ddjarhebion cyfreithiol ac yn drioedd cyfraith.¹³⁸ Yn ôl un o lyfrau cyfraith Iwerddon rhaid oedd i’r barnwr ddatgan beth oedd sail ei ddyfarnid ac un o’r seiliau cydnabyddedig oedd y *fásach*, ‘dihareb gyfreithiol’. Ymhelaetha Kelly ar y *fásach* fel hyn:

Unlike *roscad*, the term *fásach* is found only in law-texts or in legal contexts. It is used in the sense of legal maxim or principle, and seems always to consist of a single sentence.¹³⁹

Dichon y canfyddid cyfatebiaethau rhwng y *fásaige* a’r ddjarhebion cyfreithiol Cymraeg ped ymgymered ag astudiaeth gymharol. Gan mai ymgorffori egwyddorion cyfreithiol a wna’r acsiomau cyfreithiol, ni fyddai cyfatebiaethau o’r fath yn annisgwyl. Byddid yn disgwyl i’r cyfreithiau Cymreig a Gwyddelig fynegi’r un rheolau mewn modd heb fod yn annhebyg. Caniataer un enghraifft.

Mynegi oferedd dadlau mewn llys barn wedi traddodi o’r barnwr ei ddedfryd a wna’r ddihareb ‘Kyngeussed wedy bra6t’ (A544) ac y mae’n un o’r ‘Tri ouer ymadrawd a dywedir yn llys ac ny ffynnyant’ a restrir yn y Trioedd Cyfraith.¹⁴⁰ Ceir darn byr yng nghyfraith y Gwyddyl sy’n rhestru dau arwydd ar bymtheg cyngawsedd gwael, *Secht comarthai déc*

¹³⁵ Cynog, 35.

¹³⁶ Cynog, 44.

¹³⁷ Cynog, 75.

¹³⁸ Kelly, 1988, 235-6. Ceir crynodeb o gynnwys y prif destunau doethineb Gwyddeleg yn *ib.* 284-6.

¹³⁹ Kelly, 1988, 196-7.

¹⁴⁰ Bleg. t. 110, 23-5.

drochthacrai.¹⁴¹ Un o'r arwyddion hyn yw tyngu wedi barn (*lugae iar mbreith*) ac er nad yw'r gyfatebiaeth rhwng y ddihareb Gymraeg a'r acsiom Wyddeleg yn union, cynghawsedd yn y naill achos a thyngu yn y llall, yr un yn ei hanfod yw'r egwyddor a fynegir: y mae'r ddedfryd yn derfynol.

Maes yw hwn sy'n gofyn am ei astudio'n drylwyr ond maes ydyw sydd y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon.

Yn achlysurol ceir dihareb gyfreithiol mewn cyfansoddiad llenyddol lleyg. Ystyrid A660 ('Maen dros iaen') yn ddisgrifiad teilwng o arglwydd ac fe'i dyfynnir droeon gan y beirdd ar ôl y llyfrau cyfraith. Dyfynnir A801 mewn cyd-desunau tra gwahanol – awdl serch o waith Gruffudd ap Maredudd a chywydd dychan gan Iolo Goch. Cymharol brin ydyw'r enghreifftiau hyn, ond y maent yn werthfawr gan eu bod yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o rychwant defnydd diarhebion cyfreithiol ynghyd â phosibliadau eu cwmpas semantig.

Cyn gadael y diarhebion cyfreithiol, cystal cywiro un cam-dyb cyffredin. Cyfeirwyd droeon at y casgliadau diarhebion mewn dwy lawysgrif cyfraith, *Llyfr Du'r Waun* a llsgr. Wynnstay 36, gan awgrymu fod rhyw gyswllt arwyddocâol rhwng y casgliadau diarhebion a'r llyfrau cyfraith.¹⁴² Ceir yn ogystal ddarn o lèn doethineb yng nghanol llsgr. Peniarth 35 (*Llyfr Cynog*).¹⁴³ Nid oes unrhyw gyswllt amlwg rhwng y casgliadau diarhebion a gynhwysir yn y llawysgrifau hyn a'r testunau cyfreithiol sydd ynddynt, hynny yw ni chais y testunau cyfreithiol oleuo'r diarhebion nac i'r gwrthwyneb. Y mae arwyddocâd y glosau cyfreithiol mewn rhai casgliadau o ddiaarbion Hen Ffrangeg, dyweder, yn gwbl

¹⁴¹ Ireland, 1999, t. 169-73.

¹⁴² Jenkins, 1942, 122-3; Owen, 1974, 236-7.

¹⁴³ Cynog, 46-7.

wahanol, gan fod y glosau hynny'n dwyn perthynas uniongyrchol â chynnwys y casgliadau.

(iii) Cydwladol

Er gwaethaf y dybiaeth gyffredin ynglŷn â natur genedlaethol y ddihareb a'r ymdrechion mynych i ddefnyddio diarhebion i ddatgelu rhyw feddylfryd cenedlaethol amwys,¹⁴⁴ y mae llawer o ddiaarbheion y casgliadau Cymraeg i'w cael mewn sawl iaith.¹⁴⁵ Yn aml ni cheir enghreifftiau ohonynt y tu allan i'r casgliadau diarhebon yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod, ac os ydys am eu deall rhaid ystyried eu cytrasau mewn ieithoedd eraill a'u cyd-destunoli drwy sylwi ar y modd y defnyddir y cytrasau yn llenyddiaethau'r ieithoedd hynny. Y mae casgliadau anodiadol diweddar o ddiaarbheion yr Oesau Canol, gyda chyfeiriadau at enghreifftiau mewn gweithiau llenyddol, yn hwyluso'r gwaith hwn yn ddirfawr, ond erys gwaith mawr Samuel Singer, *Sprichwörter des Mittelalters*, yn anhepgor i'r sawl a fydd astudio'r diarhebion hyn yn systematig. Teg addef fy mod wedi pwyso'n drwm arno. Cyfyngir y cytrasau a grybwyllir yn y nodiadau i enghreifftiau o'r tair iaith drymaf eu dylanwad ar lenyddiaeth Gymraeg y cyfnod - Ffrangeg, Lladin a Saesneg - er fy mod yn nodi ambell i fersiwn Almaeneg yma a thraw. Yn fynych y mae dehongli dihareb Gymraeg (y tu hwnt i'w hystyr llythrennol) yn amhosibl heb gyfeirio at ei chytrasau mewn ieithoedd eraill.

¹⁴⁴ Ceir beirniadaeth odidog ar yr ymdrechion hyn yn Taylor, 1985, 164-8. Meddai Taylor, 'proverbs which are international in their currency can scarcely reveal and illuminate national traits unless we argue that the acceptance of a bit of international property constitutes in itself a defining of national characteristics' (1985, 166).

¹⁴⁵ Sylwodd Vendryes hyn dro yn ôl: 'Avant de se prononcer sur ce que ces proverbes ont de national, il conviendrait toutefois de les comparer aux proverbes des autres pays, notamment à ceux du moyen âge dont on a des recueils en latin comme en diverses langues vulgaires. La sagesse des nations doit être un peu la même partout; mais sur un fond identique chacune a pu border des variations qui lui soient propres. Il y a là une vaste matière qui mériterait une étude comparative approfondie' (Vendryes, 1936, 351). Gweler hefyd y sylw cyffelyb gan Williams & Parry-Williams, 1926, 5.

Y mae ffurf dihareb Gymraeg yn aml yn fyrrach na'r diarhebion cyfatebol mewn ieithoedd eraill. Cymharer, er enghraifft, y ddihareb Gymraeg o A1056 â'i chytrasau:

Taua6t a dyrr asg6rn

Langue n'a pas os et se les bris(s)e

The Tongue breaks bone though itself has none

Non os lingua gerit, sed tamen ossa terit

Gwelir na cheir y cymal am absenoldeb asgwrn yn y tafod yn y ddihareb Gymraeg.

Ni ellir rhoi gormod pwyslais ar werth astudiaeth gymharol mewn paremioleg. O ddeall bod A535 yn ddihareb gydwladol sydd i'w chael yn holl brif ieithoedd Ewrop, amlygir dylanwad estron annisgwyl ar gynnwys 'Englynion y Misoedd'. Yn yr un modd, trwy gyfrwng astudiaeth gymharol, datgelir ystyr cynharach posibl i A271, ystyr pur wahanol i'r hyn a fedd y ddihareb mewn Cymraeg diweddar.

Nid ydys yn sicr o ba iaith y troswyd y diarhebion cydwladol hyn i'r Gymraeg, ond gellir cynnig rhai sylwadau gochelgar parthed rhai diarhebion unigol. Rhesymol yw tybio mai o'r Saesneg y daeth A942 gan na cheir dim yn cyfateb iddi yn yr ieithoedd Romáwns. Ar y llaw arall, y mae'r enghreifftiau mynych o A345 mewn llenyddiaeth Hen Ffrangege, yn enwedig yn y *fabliaux*, ynghyd â'r ffaith ei bod yn absennol o'r

casgliadau Saesneg yn awgrymu'n gryf mai o'r Ffrangeg neu'r Eingl-Normaneg y daeth.

Er na ellir datgelu rheol bendant ynglŷn â tharddiad y diarhebion hyn, gwelir eu bod yn tystio i ddylanwadau tramor ar lenyddiaeth Gymraeg. Y mae hyn yn gyson â chasgliadau ysgolheigion ynglŷn â dylanwadau Seisnig a Ffrengig ar eirfa a llenyddiaeth y Gymraeg yn yr un cyfnod.¹⁴⁶ Yn yr un modd â chyfieithiadau o weithiau Ffrangeg a Lladin mwy swmpus a sylweddol, dengys y diarhebion cydwladol sut yr oedd chwaeth lenyddol Cymry llythrennog y cyfnod yn ymdebygu i eiddo eu cymheiriaid mewn gwledydd eraill. Y maent yn arwydd cynnil o'r dolenni a gysylltai lenyddiaeth Gymraeg â llenyddiaethau eraill Ewrop ac yn fynegiant o'r 'undod ysbrydol' a fodolai yn Ewrop yr Oesau Canol.

Synhwyrir dylanwad trymach o du'r Saesneg yn Nhestun C, dylanwad sydd eto'n gyson â thueddiadau'r oes. Penllanw'r benthg hwn yw Cymreigiad erchyll Gruffudd Hiraethog o *Out of Sight out of mind* (C56).

(iv) Themâu eraill

Gwelir nad dosbarthiad thematig mo'r ymgais uchod ond rhaniad yn seiliedig ar ffynhonnell y diarhebion. Hwn yw'r unig ddosbarthiad gwrthrychol posibl a'r unig raniad ystyrlon a ddengys berthynas y casgliadau â thestunau eraill a ddefnyddiwyd gan y casglwyr. Fodd bynnag, wedi'r ymgais hon i roi dosbarth ar gynnwys y casgliadau, erys llawer o ddiaarbion yn weddill nad ydynt yn perthyn i'r tri grŵp a amlinellwyd uchod.

¹⁴⁶ Trafodir y dylanwadau Ffrengig ar ddatblygiad y chwedl yng Nghymru'r oesau canol yn Lloyd-Morgan 2003.

Dywedwyd uchod fod y diarhebion cydwladol yn fynegiant o ‘undod ysbrydol’ Ewrop yr Oesau Canol. Yn ôl Élisabeth Schulze-Busacker, nod astudiaethau paremiolegol mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg a’r ugeinfed ganrif oedd pwysleisio’r undod ysbrydol hwn gan olrhain y modd y’i mynegir ar draws amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol. Aiff rhagddi i ddisgrifio’n gryno yr hyn a oedd wrth wreiddiau’r undod hwn:

Il ne fait aucun doute que cette unité existe et qu’elle a été particulièrement forte au moment où la transmission de la culture – savante ou populaire – était essentiellement confiée au seul groupe des lettrés s’exprimant dans un même idiome supranational et appartenant à un même concept de vie.¹⁴⁷

Dyna ddarlunio cefndir y diarhebion cydwladol. Ond dangoswyd yn y rhaniad triphlyg uchod mai diarhebion cynhenid yw’r rhai hynny a godwyd o’r Hengerdd a’r gyfran helaethaf o’r rhai cyfreithiol. Ymddengys mai seiliau diwylliannol mwy lleol sydd i’r diarhebion sy’n weddill yn ogystal. Y mae’r un peth yn wir am y diarhebion Ffrangeg ac Eingl-Normaneg a gwelir fod Élisabeth Schulze-Busacker yn goleddfu ei sylwadau ynglŷn â’r undod ysbrydol Ewropeaidd fel a ganlyn:

Cette unité spirituelle propre à l’Europe chrétienne renferme toutefois en même temps une diversité culturelle que l’usage de la même langue ne couvre que partiellement. Depuis les premiers recueils ... on voit apparaître à côté d’une tradition parémiologique européenne, les éléments d’un fonds culturel plus local qui finiront par se manifester encore plus nettement dans les recueils bilingues au XIIe s.¹⁴⁸

¹⁴⁷ Schulze-Busacker, 1994, 347-8.

¹⁴⁸ *ibid.*, 1994, 348.

Adlewyrchir y lleol a'r cydwladol yn y casgliadau Cymraeg fel mewn casgliadau canoloesol eraill ac mewn gwrthgyferbyniad â'r diarhebion cydwladol ceir nifer o ddiarhebion cynhenid, a'u tarddiad yn fwy lleol.¹⁴⁹

Ymysg y diarhebion hynny nas cynhwysir yn y rhaniad triphlyg uchod ceir arwyddion tywydd (e.e. A530, A638, A649, A999, B85), diarhebion ac ynddynt enwau lleoedd (e.e. A285, A409) neu anthroponymau (e.e. A421, A480, A505) a'r diarhebion hynny sy'n trafod hynt y dedwydd a'r diriaid.

O'u hystyried yn eu cyfanrwydd, ni cheir yn y casgliadau hyn unrhyw undod athronyddol ac nid oes ynddynt fynegiant o unrhyw fydolwg cyson chwaith. Nid yw hynny'n annisgwyl o ystyried natur amryfal eu cynnwys. Prin y gellid disgwyl undod thematig mewn casgliad o elfennau fel hyn a gynullwyd o'r fan hon a'r fan draw. Er hynny gellir sylwi ar rai teithi cyffredinol.

Cyfeiria Jenny Rowland at y syniad o dynged a fynegir yn aml yn y casgliadau diarhebion:

Ideas of fate, however, are commonly expressed in the medieval proverb lists and proverbial lines from other early poetry. Since many of the proverbs are culled from poems, to a great extent they mirror poetic rather than popular philosophy similar to that behind the *englynion*. The use of proverbs, however, requires caution. Because they are confined to giving a brief and pithy expression of a single idea, they tend to present a more simplistic view than the fairly coherent philosophy found in Old English literature. Still, taken together – if this is justified – an overall picture emerges which closely resembles that seen in early English.¹⁵⁰

¹⁴⁹ Trafodir tri ymadrodd o'r math hwn o gasgliad diarhebion Thomas Wiliems gan M. T. Burdett-Jones, 1992.

¹⁵⁰ EWSP, 26.

Aiff rhagddi i ddyfynnu diarhebion sy'n mynegi'r syniad hwn (megis A625, A925, A938, A1049) ynghyd â diarhebion a ddengys bod tynged dyn, yn ôl cred y cyfnod, yn ddarostyngedig i drefn Duw (megis A1, A994). Thema arall sy'n gyffredin i'r canu saga a'r diarhebion, ac a drafodir megis agwedd ar thema tynged yn EWSP a CLIH,¹⁵¹ yw natur cymeriadau'r dedwydd a'r diriaid. Yn ôl Jenny Rowland y mae anian y dedwydd a'r diriaid yn 'one of the major preoccupations of Welsh wisdom literature'.¹⁵² Heblaw ymdriniaethau Ifor Williams a Jenny Rowland, rhaid cyfeirio at ysgrif Dafydd Glyn Jones, '*Dedwydd a Diriad*',¹⁵³ yr ymgais drylwyr i fynd i'r afael â'r pwnc hwn. Rhyngddynt y mae'r tri hyn yn cynnig darlun cyflawn o le'r dedwydd a'r diriaid yn y diarhebion ac mewn llên doethineb yn gyffredinol. Sylwa Jenny Rowland fod elfen gref o ragluniaeth wrth wraidd y gred hon. Y mae'r dedwydd wedi ei eni'n dda, yn ddoeth ac yn dduwiol:

Nyt reit y detwyd namyn y eni (A811)

Creadur ysgeler ac annoeth yw'r diriaid. Ni wna ddim da iddo'i hun nac i eraill. Y mae'n gyson-anffodus a dylid gochel ei gwmni. Natur y diriaid yw pwnc rhai o ddiaarbion mwyaf trawiadol y casgliadau:

Diryeit a geiff draen yn y i6t (A186)

Ha6d dangos diryeit y g6n (A524)

G6ell am y paret a detwyd noc am y tan a diryeit (A300)

¹⁵¹ CLIH, lxvi-lxvii. Cyfeiria Ifor Williams yma at y cyferbyniad rhwng y mad a'r anfad.

¹⁵² EWSP 30.

¹⁵³ Jones, 1998.

Yn ei ymdriniaeth â'r dedwydd a'r diriaid cyfeiria Dafydd Glyn Jones at barau eraill o gymeriadau a berthyn i lôn doethineb:

Arfer naturiol ac anochel llôn doethineb yw dosbarthu a labelu dynol ryw, ac yn aml cyferbynnu mewn parau. Wrth bori yn llôn doethineb y Cymry, sef y diarhebion a'r hen lenyddiaeth wirebol, down yn fuan i adnabod categorïau fel y rhain: yr hael a'r cybydd; y diwyd a'r diog; y doeth a'r annoeth (neu'r ynyfyd); y mad a'r anfad; y claf a'r iach; y traws a'r truan; cyfaill, câr a chymydog (tri dosbarth gwahanol); gwan a chadarn, cywir ac anghywir; taeg a bonheddig; caeth a rhydd. Mae rhai o'r termau, fe sylwn, yn gymdeithasegol, eraill yn seicolegol, ac mae cyd-ymwneud diddorol rhwng y ddau fath.¹⁵⁴

Yn y diarhebion cawn gwrdd yn ogystal â'r hen a'r ieuanc; y trwch; y llwyd a'r ehud. Gwelir fod rhai o'r cymeriadau ystrydebol hyn yn deip penodol iawn. Nid yr un yw ffolineb yr ehud a'r ynyfyd. Y mae'r cyntaf yn ddifeddwl ac yn freuddwydiol-wirion (A118, A685) tra bo'r ail yn wallgo bost a hynny'n amlwg i bawb (A764, A984, C174).

(v) Fformwlâu

Ceir cyfresi o ddiarhebion yn y casgliadau sy'n dilyn yr un patrwm. Rhai felly yw'r bidau a'r gnodiau, felly hefyd y gyfres fer a godwyd o'r englynion 'Boddi Maes Gwyddneu' (A444, A445, A446). Y mae'r patrwm *Hir wynnyeu y direidi* (A498; gw. hefyd A499, A500, A501 a C403 i C408) yn bur gyffredin ynghyd â'r teip o ddihareb sy'n cynnwys dau osodiad ac ynddynt ansoddair yn y radd eithaf, yr ail osodiad yn ddibynnol ar y cyntaf megis, *Bo tynnaf vo y llinin kyntaf y tyrr* (A107; gw. hefyd A102, A103, A104). Y mae'r patrwm 'gwell x na z' yn gyffredin iawn yn y tri thestun ac esgorodd y fformwla hon ar ddarn o lôn doethineb annibynnol, 'Y pedwar gwell ar hugain', sy'n un o'r darnau a

¹⁵⁴ Jones, 1998, 65.

gynhwyswyd yn *Lloegr drigiant*. Gellir sylwi, yn ogystal, ar y cyfresi o gymariaethau diarhebol sy'n dechrau â'r gair 'mal' ac amllder y brawddegau negyddol.

Nid yw gweld cyfresi o ddiarhebion yn seiliedig ar yr un fformwla fel hyn yn annisgwyl. Cyfeiria Archer Taylor at yr arfer o greu diarhebion newydd gan ddyngwared rhai sy'n bod eisoes.¹⁵⁵ Wrth gwrs, y mae rhai patrymau yn fwy addas na'i gilydd ac yn ymgynnig ar gyfer llunio diarhebion newydd yn rhwyddach. Diau, pe bai'r dystiolaeth lawysgrifol yn helaethach, y gellid ymgymryd ag astudio lledaeniad fformwla diarhebol a chanfod y ddihareb wreiddiol a esgorodd ar ffurfiau diweddarach. Gellir awgrymu trefn lledaeniad y fformwla 'deuparth x yw z' drwy sylwi ar yr enghreifftiau ohoni yn y tri thestun. Yn nhestun A ni cheir yr un ddihareb o'r math hwn, ac nid oes ond un enghraifft yn nhestun B, *Deuparth clot ym penngloc* (B157). Yn nhestun C ceir deuddeg dihareb yn dilyn y fformwla hon (C185 i C196). Prawf hyn fod cryn fynd arni rhwng dechrau'r bymthegfed ganrif a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg.

6. Diarhebion mewn llên

(i) Cyd-destunoli

Ni thycia dadansoddi elfennau geiriol a chystrawennol dihareb i lwyr ddirnad ei hystyr a'i dehongli gan fod ystyr fanwl dihareb yn dibynnu ar y modd y'i defnyddir, hynny yw ar ei chyd-destun. Rhaid yw ystyried rychwant ei defnydd cyn y medrir amgyffred union ergyd dihareb.¹⁵⁶

¹⁵⁵ Taylor, 185, 16-22.

¹⁵⁶ 'While analysis of lexical and syntactic meaning within the proverb may be of interest, and is certainly necessary for a thorough understanding of the proverb's multi-level meaning, it is the discourse and pragmatic aspects of proverb use which bring heavy accretions to meaning in any given usage instance' (Hasan-Rokem, 1982, 173).

Er gwaethaf y bwlech rhyngom a chasgliadau diarhebion yr Oesau Canol, erys ystyr llythrennol y diarhebion, at ei gilydd, yn eglur ddigon. Tywyll, fodd bynnag, yw eu hunion arwyddocâd ac nid ydys yn gwybod ym mha sefyllfaoedd y'u defnyddid. Ni ellir taflu goleuni ar y materion hyn ond drwy astudio'r diarhebion yn eu cyd-destun. Ystyr hynny, yng nghyswllt casgliadau'r oesau canol, yw cyd-destunoli'r diarhebion yn y gweithiau (llynyddol gan mwyaf) a gyfansoddwyd yn y cyfnod.

Ond os ydyw'r cyd-destun yn anhepgor i ddehongli'r diarhebion, y mae'r gwrthwyneb yr un mor wir. Da y dywed Jenny Rowland fod dirnadaeth o'r deunydd diarhebol yn hanfodol er mwyn deall gwaith y beirdd.¹⁵⁷ Amhosibl fyddai deall nac ystyr nac ergyd y llinellau hyn o waith Lewys Môn, er enghraifft, heb wybod am y ddihareb (A977) a ddyfynnir ganddo:

Y ddihareb ni ddorwn,
ac y sydd agos i hwn:
fo âi'r afr wrth ei ffafriaw
oll ar draws yr allor draw¹⁵⁸

Gellid newid pwyslais y sylw uchod gan ddweud fod dealltwriaeth o'r diarhebion yn anhepgor er mwyn peidio â chamddeall a chamddechongli testunau llynyddol. Nodaf ddwy enghraifft o waith Beirdd y Tywysogion. Daw'r gyntaf (A787) o Farwnad Nest ferch Hywel gan Einion ap Gwalchmai:

Ny chyueirch aghenn ya6lwenn yoli
Y'r neb rybarther y ryborthi.¹⁵⁹

¹⁵⁷ 'I would argue that a study of proverbial material and gnomic poetry is essential for understanding the works of the early periods, both praise poetry and other types, if only because it was an important sphere of activity or the bards' (Rowland, 1988, 193).

¹⁵⁸ GLM, xv.37-40.

Aralleirir y llinellau hyn fel a ganlyn:

Nid yw angen molwr [y ferch] deg ei mawl yn gofyn o gwbl
I'r sawl sydd wedi ei wahanu [oddi wrthi] ei ddioddef [sc. angen].

Cyfeirir at y ddihareb yn y nodiadau ond cymerir mai 'dioddef' yw ystyr *porthi* yma. Byddai cymharu'r llinellau hyn ag enghraifft arall o'r ddihareb yng nghyd-destun gwahanol chwedl y weddw yn *Chwedleu Seith Doethon Rufein* wedi dangos mai 'bwydo, cynnal' yw'r ystyr:

Ac yna y peris y mam kynneu tan goleu abrwsgyl ger y bronn, ac adaw bwyt a diawt y dreulaw pan delei newyn arnei, wrth na chyfeirch newyn y borthi.¹⁶⁰

Byddai hynny'n fwy cyson â'r pwyslais ar haelioni Nest ychydig ynghynt (CBT i, 26.30) a'r cyferbyniad a awgrymir yn llinell agoriadol drawiadol yr awdl, 'Amser Mei, meith dyt, neud rit roti' (CBT, I.26.1), rhwng rhwyddineb haelioni'r tymor a'r anghysur a bair marwolaeth Nest. Yn yr un modd trwy dynnu sylw at y ddihareb (A906) a adleisir yn y llinellau hyn o awdl fawl gan Brydydd y Moch i Lywelyn ab Iorwerth, dihareb a geir hefyd gan Dudur Aled, nid ymddengys y darn mor wasgarog â chynt a deallir rhediad meddwl y bardd o'r naill linell i'r llall:

Mabddysc ytt treulya6 treth enuyn – y ueirt
Yn uyrtyoet y'th gylchyn.
Dy la6 hir, neu chredir na chryn,
Yn roti eur rut a melyn.¹⁶¹

(ii) Arolwg o astudiaethau diweddar; y ddihareb â'r chwedl

¹⁵⁹ CBT, I.26.35-6.

¹⁶⁰ SDR, 593-6.

¹⁶¹ CBT, V.19.21-4.

Fel y crybwyllwyd uchod, enghreifftiau o ddiarhebion a godwyd o weithiau llenyddol y cyfnod yw cynnwys PSPP, y casgliad safonol o ddiarhebion Saesneg yr Oesau Canol a phatrwm cyffelyb a ddilynir yn nghasgliad Hassell o ddiarhebion Ffrangeg Canol, MFPSPP. Er gwaethaf gwendidau'r gweithiau hyn o safbwynt methodolegol, tystia eu maintioli i le'r ddihareb yn llên yr Oesau Canol.

Ynghyd ag astudiaethau testunol fel y rhain, blodeuodd ymdriniaethau â'r diarhebion mewn llenyddiaeth. Cyfeiriodd Grace Frank, mewn ysgrif arloesol, ond byr ei chwmpas, yn dwyn y teitl 'Proverbs in Medieval Literature', at bwysigrwydd adnabod a dehongli diarhebion mewn gweithiau llenyddol canoloesol a hynny'n bennaf er mwyn osgoi camau gweigion.¹⁶² Ceir astudiaethau o'r elfen ddiarhebol yng ngwaith awduron unigol ynghyd ag ymdriniaethau â'r modd y defnyddir diarhebion mewn *genres* neilltuol. Gellir cyfeirio'n arbennig at ymdriniaeth systematig B. J. Whiting â'r diarhebion yng ngwaith Chaucer, a gwaith Élisabeth Schulze-Busacker ar y ddihareb mewn llenyddiaeth naratif Hen Ffrangeg (yng nghyfansoddiadau Chrétien de Troyes, Gautier d'Arras a Hue de Rotelande yn benodol) ynghyd â'i hymdriniaeth â'r diarhebion yn y *fabliaux*.¹⁶³ Gwelir yn y man fod sylwadau Claude Burdiant¹⁶⁴ ar yr elfen ddiarhebol yn y *jeux-partis* yn cynnig cymhariaeth ddefnyddiol â deunydd cyffelyb yn Gymraeg. Buddiol, mi gredaf, cyn trafod yr elfen ddiarhebol mewn llenyddiaeth Gymraeg, fydd manylu peth ar berthynas y ddihareb â ffurf lenyddol benodol a gysylltir yn draddodiadol â'r ddihareb: y chwedl.

¹⁶² 'In these circumstances it becomes important for medievalists to recognize proverbial expressions for what they are. It is not valid, for example, to posit "borrowings," as is frequently done, when two authors make use of such common coin. Even less valid is the assumption of originality when a proverb goes undetected' (Frank, 1943, 508-9).

¹⁶³ Whiting, 1934; Schulze-Busacker, 1985; Schulze-Busacker, 1978.

¹⁶⁴ Burdiant, 1976.

Cyfeiria Ifor Williams yn fyr at y berthynas rhwng rhai o'r diarhebion a chwedlau Esop a'u tebyg a neilltuir pennod i'r ddihareb 'a seiliwyd ar naratif' yn 'The Proverb'.¹⁶⁵ Gellir canfod perthynas rhwng amryw o ddiaarbion a'r chwedlau a restrir yn y mynegeion motiffau llên gwerin. Bydd y ddihareb yn fynych yn crynhoi (megis teitl) ergyd foesol chwedl fer, anecdotaidd neu'n ei hegluro. Ceir sawl dihareb gydwladol o'r math hwn yn y casgliadau Cymraeg (e.e. A657, B143, B305). Y mae'r llyfryddiaeth ar berthynas y ffurfiau hyn yn sylweddol ac yn adlewyrchu cymhlethdod y pwnc.¹⁶⁶ Yr anhawster sylfaenol yw na wyddys yn ddieithriad pa un ai'r chwedl a roddodd fod i'r ddihareb ai'r ddihareb a fu'n ysbrydiaeth i lunio'r chwedl. Maentumia rhai mai'r chwedl sy'n esgor ar y ddihareb ond deil eraill mai'r gwrthwyneb sy'n wir ac mai swyddogaeth etymolegol, eilradd sydd i'r chwedl pan fo'r ddihareb yn dywyll neu'n aneglur.¹⁶⁷ Anodd canfod unrhyw egwyddor gyffredinol a chymaint o wyau ac ieir i'w hystyried. Erys y dirgelwch a gellid ei gymharu â'r berthynas rhwng enwau lleoedd a chwedlau onomastig.

Y mae'r diarhebion hyn, yn eu hanfod, yn arddangos natur ryngdestunol y ddihareb i'r dim. Yr unrhyw syniad a fynegir gan y ddwy ffurf, y ddihareb a'r chwedl. Yn aml ychwanegir ffurfiau eraill atynt. Nodaf ddwy enghraifft, y naill yn ddihareb gydwladol a'r llall yn ddihareb gynhenid Gymraeg, yr enwocaf ond odid.

Rhestrir sawl enghraifft o'r chwedl y seilir¹⁶⁸ dihareb C109 ('Ar gwelle i llas y weirglawdd') arni yn y mynegeion motiffau ac adroddir y chwedl

¹⁶⁵ Williams & Parry-Williams, 1927, 5; Taylor, 1985, t. 27-32.

¹⁶⁶ Gw. Carnes, 1991.

¹⁶⁷ Hasan-Rokem, 1982, 12.

¹⁶⁸ Gellir bod yn bur hyderus mai'r chwedl a roddodd fod i'r ddihareb yn yr achos hwn. Y mae'r ddihareb yn llwyr annirnadwy oni chyfeirir at y chwedl. 'Exempla literature,' medd Barrick, 'often produced proverbs by creating memorable lines that survived as independent phrases, metaphoric

mewn *fabliaux* ac mewn *exempla*. Nid oes enghraifft o'r chwedl, hyd y gwn, yn llenyddiaeth Gymraeg yr oesau canol ond y mae'n rhaid ei bod ar arfer yng Nghymru erbyn y drydedd ganrif ar ddeg. Dyfynnir y ddihareb hon yn un o gywyddau ymryson Edmwnd Prys a lluniodd Thomas ap Huw o Ewias englyn arni. Gwelir, felly, fod yr un syniad yn ymddangos mewn pedair ffurf – chwedl, dihareb, darn o gywydd (a hwnnw'n gywydd ymryson), ac englyn. Y chwedl yw sail y ddihareb ac at y chwedl hefyd y cyfeirir yn y cywydd tra y mae'r englyn yn seiliedig ar y ddihareb ond eto heb fod yn annibynnol ar y chwedl.

Dyfynnir B31 ('A uo penn bit pont'), dihareb a gysylltir â chwedl Branwen, yn fynych yng ngwaith y Cywyddwyr a chyfeirir at y ddihareb a'i chefnidir chwedlonol yn y darn hwn o gywydd gan Rhys Nanmor:

A fo pen, bid bont, ennyd,
Ni bu ryw ben neb o'r byd.
Mal y gŵr, am ei lu gynt,
Ym mron afon ni nofynt,
Bwrw ei wryd, bur eryr,
Bwriai'n bell hwnt, Brân ap Llyr¹⁶⁹

Ymddengys fod rhai o ddiarhebion eraill y casgliadau i'w deall yng ngoleuni chwedl gefndirol a gollwyd (enwir cymeriad chwedlonol yn amryw ohonynt e.e. A72, A421, A631). Yn aml, erys y diarhebion hyn yn dywyll gan na ellir dirnad eu hergyd yn annibynnol ar y chwedl.

Agwedd arall ar y berthynas rhwng y ddihareb a'r chwedl a amlygir yn nhrafodaeth dreiddgar Démétrios Loukatos.¹⁷⁰ Gan ganolbwyntio ar y

allusions that eventually replaced the story completely while still recalling it to the mind of anyone who had ever heard it (1985, 5).

¹⁶⁹ BLIRhN, 60.39-44.

¹⁷⁰ Loukatos 1965.

chwedl werin lafar y mae'n ymdrin â'r diarhebion a ymgorfforir yn nhestun chwedlau, nid y rhai hynny sy'n crynhoi pwnc y chwedl (yr hyn a eilw Loukatos yn 'ddiarhebion allweddol', *proverbes-clefs du conte*) yn gymaint â'r diarhebion hynny, y gellid eu hepgor, ond sy'n cynnig sylwebaeth ar ddigwyddiadau neu ffeithiau neilltuol yn y chwedl (*proverbes de la narration*). Diarhebion yw'r rhain nad ydynt yn hanfodol i'r chwedl ond a ddyfynnir yn unol ag anian a medruswydd y cyfarwydd.

Ceir dyrnaid o enghreifftiau prin mewn testunau chwedlonol Cymraeg Canol. Meddylir yn arbennig am yr enghraifft o A1 ym Mreuddwyd Rhonabwy neu A787 yn Chwedl y Weddw yn Chwedlau Saith Doethion Rhufain.

Cyffelyb yw'r modd y dyfynnir diarhebion yn *exempla* pregethwyr yr oesau canol. Bydd awduron yr *exempla* weithiau'n mynegi eu bod yn arfer 'dihareb sathredig' o un o'r ieithoedd brodorol. Cyfeiria Jacques de Vitry at *gallicum proverbium* wrth ddyfynnu dihareb Ffrangeg a dywed Étienne de Bourbon ei fod wedi cyfieithu dihareb i'r Lladin o'r iaith frodorol (*vulgariter dictum*).¹⁷¹ Sylwais ar enghraifft o'r ddihareb gydwladol A974 yn ystori'r marchog a'r arfau gwaharddedig yn y cyfieithiad Cymraeg o'r *Gesta Romanorum*.

Fodd bynnag, cymharol ychydig o ddiarhebion a ymgorfforir mewn testunau rhyddiaith Cymraeg Canol (ac eithrio'r cyfreithiau wrth gwrs). Adlewyrchir y sefyllfa hon mewn llenyddiaeth Hen Ffrangeg ac y mae Élisabeth Schulze-Busacker yn amddiffyn ei dewis i ganolbwyntio ar yr

¹⁷¹ Gw. yr ymdriniaeth ag 'ymadroddion idiomatig' yn yr *exempla* yn Bremond et al., 1982, 98.

elfen ddiarhebol mewn testunau barddonol drwy gyfeirio at brinder cymharol deunydd diarhebol mewn gweithiau rhyddiaith.¹⁷²

7. Diarhebion yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol

Cyfeiriwyd eisoes at amlder y diarhebion yn y canu saga a'r englynion gwirebol (yn cynnwys 'Englynion y Misoedd'). Ceir cerddi diarhebol eraill yng nghorpws yr Hengerdd ac mewn canu diweddarach. Y mae'r canu hwn yn ymrannu'n hwylus yn ddau ddsbarth: y cerddi hynny sy'n cynnwys cwlwm hir o ddiarhebion odledig ar y naill law a chanu englynol diarhebol pur ar y llaw arall. Cynigir isod arolwg o'r canu diarhebol hwn.

Ystyrir yn gyntaf y cerddi hynny sy'n cynnwys rhestr o ddiarhebion odledig. Rhestr o ddiarhebion wedi eu mydryddu ynghyd felly yw 'Gwarchan Adebôn'.¹⁷³ Disgrifia Ifor Williams y gerdd fel hyn:

Credaf nad yw hwn ond dryll neu ddernyn o gân hir o ddiarhebion odledig. Nid enwir Catraeth. Tystiolaeth yw fod Aneirin yn hysbys fel diarhebwr, a'm tyb i yw fod y Gwarchan yn weddill cân fel Gosymdaith Llefoed Wynepclawr yn y Llyfr Coch o Hergest neu'r dernyn amherffaith yn y Llyfr Du o Gaerfyrddin.¹⁷⁴

Cerdd sy'n cynnwys deunydd traddodiadol, o'i chymharu â cherdd a gyfansoddwyd ar gyfer achlysur penodol, yw gwarchan yn ôl Kathryn Klar. Swyddogaeth y math hwn o ganu yw gwarchod a throsglwyddo

¹⁷² 'Le choix entre les textes en vers et les textes en prose n'a été fait qu'après des sondages étendus, qui ont révélé que les textes en prose contiennent beaucoup moins d'éléments proverbiaux que les œuvres en vers' (Schulze-Busacker, 1985, 14).

¹⁷³ CA II, 1322-36

¹⁷⁴ CA, lviii.

‘deunydd traddodiadol’ (fe’i cymherir ganddi â’r Trioedd) a thystia Gwarchan Adebón i’r swyddogaeth hon:

The brevity of Gwarchan Adebón is the best testimony to this particular function, since any body of verse which was meant to be an all-inclusive list of proverbs could not possibly have been so short.¹⁷⁵

Diau bod y sylwadau hyn yn glân â swyddogaeth y gwarchanau yn gywir, ond noder nad oes unrhyw dystiolaeth fewnol nac fel arall sy’n awgrymu mai darn o gerdd hwy yw ‘Gwarchan Adebón’. Nid oes unrhyw reswm chwaith pam y dylai cerdd sy’n rhestru diarhebion fod yn rhestr *hollgynhwysfawr* o ddiarhebion.

Ceir elfen ddjarhebol gref yn y gerdd sy’n cychwyn â’r geiriau ‘Breuduid a uelun neithwir’ yn Llyfr Du Caerfyrddin. Sylwodd A. O. H. Jarman fod tebygrwydd rhwng rhai o linellau’r gerdd a rhai o ddjarhebion y casgliadau. Y mae’n nodi yn ogystal fod A830 yn digwydd yn y gerdd hon ac yn ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’.¹⁷⁶ Y mae’n eglur fod y cerddi hyn yn tynnu eu deunydd o ffynonellau tebyg ac yn benthyg oddi ar ei gilydd. Noder yn ogystal y tebygrwydd rhwng ‘nid hoffet meiuert bro’ (LIDC 2.6) â’r llinell ‘gnaft meryd y mro’ yn y canu gwirebol (EWGP iv.5a).

Y gerdd hwyaf o’r math hwn yn Gymraeg yw ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’ (RBP 1055-56), cerdd a ddisgrifir gan Nicolas Jacobs yn ei ragymadrodd i’w olygiad ohoni fel, ‘casgliad anhrefnus braidd o ganu gwirebol, moesegol a chrefyddol’.¹⁷⁷

¹⁷⁵ Klar, 1988, 115.

¹⁷⁶ LIDC, lxvii.

¹⁷⁷ Jacobs 2004, 1.

Gellir cymharu'r cerddi hyn â'r rhestrau o ddeunydd gwirebol a diarhebol odledig a geir yn llenyddiaeth Saesneg y cyfnod megis y *Prouerbis of Wisdom*.¹⁷⁸ Enghraifft ddiweddar o'r *genre* yn llenyddiaeth Ffrainc yw'r *Ballade des Proverbes* gan François Villon, cerdd wedi ei chyfansoddi'n llwyr o ddiahebion, y cwbl ohonynt yn amrywiadau ar yr un fformwla a phob pennill yn diweddu â'r ddihareb *Tant crie-l'on Noël qu'il vient*.¹⁷⁹

Y mae'r enghreifftiau o'r ail ddosbarth o ganu diarhebol pur yn y Gymraeg, y canu englynol, yn fwy niferus. Perthyn testun hynaf 'Englynion y Clyweit' i ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg ond y mae Ifor Williams yn amseru'r gerdd tua diwedd y ddeuddegfed ganrif.¹⁸⁰ Cynigia Jenny Rowland mai i'r ddegfed a'r unfed ganrif ar ddeg y perthyn 'Englynion Duad'.¹⁸¹

Ac eithrio un pennill o bedair llinell, cyfres o englynion milwr yw 'Englynion y Clyweit' ac y mae i'r englynion hyn drefn reolaidd. Yn y llinell gyntaf enwir 'awdur' honedig yn y ddihareb, disgrifir ei briodoleddau yn yr ail, ac yn y drydedd dyfynnir y ddihareb. Dyna'r patrwm cyffredinol, megis yn yr englyn hwn:

A glyweist di a gant marthin.

brenhinawl sant y gyfrin.

namyn duw nyt oes dewin.¹⁸²

Priodolir y diarhebion yn 'Englynion y Clyweit' i wŷr enwog, yn gymeriadau chwedlonol ac yn saint, a phriodolir rhai ohonynt i anifeiliaid

¹⁷⁸ Horrall, 1983, 347.

¹⁷⁹ Dufournet 1992, 298-301.

¹⁸⁰ Williams&Parry-Williams, 1926 a BBGCC, 313-37.

¹⁸¹ Rowland, 1981, 65.

¹⁸² Clyweit 17.

ac adar.¹⁸³ ‘Dyma,’ meddai Ifor Williams, ‘olion cynharaf y chwedl filaidd ym mysg y Cymry’. Nid yw’r priodoliad hwn yn annisgwyl o’i ystyried yng ngoleuni chwedl yr anifeiliaid hynaf. Yn chwedl Culhwch ac Olwen ffrwyth oed yr anifeiliaid hynaf yw eu gwybodaeth. Y mae geiriau Carw Rhedynfre yn arwyddocaol:

Miui hagen a uydaf gyfarwyd ywch, kanys kennadeu Arthur ywch, hyt lle y mae aniueil gynt a rithwys Duw no mi.¹⁸⁴

‘Anifail gynt a rithwys Duw na mi’, anifail hŷn a fu’n astudio hynt y byd am hwy amser, un â mwy o brofiad. Gwelir yr un cyswllt rhwng profiad ac awdurdod yn y modd y priodolir diarhebion i’r *vilain*, y taeog, yn y gyfres o benillion diarhebol Frangeg, *Li proverbe au vilain*.¹⁸⁵ Credid bod gan y dosbarth cymdeithasol hwn fwy o brofiad ymarferol. Yr oedd y taeog wedi ‘byw’ ac yr oedd ganddo felly fwy o hawl i ddiarhebu.

Nid yw ‘Englynion Duad’ mor unffurf. Arferir yr englyn penfyr ynghyd â’r englyn milwr yn y cyfresi hyn ac y mae cynnwys yr englynion yn fwy amrywiol. Ceir deunydd gwirebol a chynghorion moesol yn y llinellau cyntaf ond dyfynnir dihareb yn amlach na pheidio yn y drydedd linell:

Na chymer fwyd segur heb ddolur / ar dy gnawd
ac na ddos dros fesur
rhaid fydd nithio ni bo pur¹⁸⁶

Cyfeiria S. M. Horrall at gerddi Saesneg Canol o’r fath, cerddi ac ynddynt elfen ddiarhebol sy’n rhan o fath ehangach ar ganu moesegol a

¹⁸³ Nid ydyw rhoi diarhebion yng ngenau adar yn anghyffredin mewn cyfansoddiadau diarhebol.

Ystyrier y *Dits des Oiseaux* (Dafydd H. Evans, 1969).

¹⁸⁴ CO 868-70.

¹⁸⁵ Credir mai cymeriad Marcolf yn Ymddiddan Selyf a Marcolf a barodd i’r cymeriad hwn fod mor boblogaidd (Schulze-Busacker, 1985, 85).

¹⁸⁶ Duad II.4.

chynghorol.¹⁸⁷ Yn wir, yr oedd llenyddiaeth ddjarhebol o'r math hwn yn boblogaidd yn Lloegr a Ffrainc yn yr un cyfnod. Cyfresi o benillion ddjarhebol o'r math hwn yw'r gweithiau Saesneg Canol y *Proverbs of Alfred* a'r *Proverbs of Hendyng*.¹⁸⁸ Ceir llu o gyfansoddiadau Hen Ffrangeg o'r math hwn. Yr amlycaf o'r rhain, a'r lletaf ei ddylanwad ond odid, ydyw *Li proverbe au vilain*, cyfres o benillion, bob un yn terfynu â dihareb, a berthyn i ddiwedd y ddeuddegfed ganrif.¹⁸⁹ Wele enghraifft sy'n trin y ddihareb gydwladol A845:

Mainz hon est si hastis,
Quant rien a entrepris,
Tantost veut a chief traire;
Le suen despent et gaste
Et si pert par sa haste
Le plus de son afaire.
Rome ne fu pas faite toute en un jour,
ce dit li vilains¹⁹⁰

I'r *genre* hwn o benillion ddjarhebol y perthyn y *Diz et proverbes des sages*¹⁹¹ a'r gyfres o *Proverbes en rimes* a gadwyd mewn llawysgrif o'r bymthegfed ganrif sy'n cynnwys lluniau'n cyfleu ergyd y ddjarhebion.¹⁹²

Yn ei hymdriniaeth â'r dylanwadau estron ar y chwedl yng Nghymru'r Oesau Canol, dangosodd Ceridwen Lloyd-Morgan fod chwaeth lenyddol Cymry llythrennog y cyfnod yn ymdebygu fwyfwy i eiddo eu

¹⁸⁷ 'This kind of poem is often only loosely proverbial, merging into the large body of mediaeval verse of moral instruction' (Horall, 1983, 348).

¹⁸⁸ Ceir disgrifiad o'r gweithiau hyn ynghyd â chyfeiriadau at geddi tebyg a llyfryddiaeth lawn yn Louis (1993, 2974-6).

¹⁸⁹ Ceir ymdriniaeth â'r gyfres hon a'i dylanwad yn Schulze-Busacker, 1989.

¹⁹⁰ Tobler, 1895, 43.

¹⁹¹ Morawski, 1924. Perthyn y llawysgrifau hynaf o'r testun hwn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

¹⁹² Frank & Miner, 1937.

cymheiriaid yn Lloegr a Ffrainc.¹⁹³ Diau fod y cyfresi o englynion diarhebol Cymraeg yn ddrych o gysylltiadau diwylliannol tebyg ac o ymhyfrydu cyffelyb yn y ddihareb.

Englynion o'r hen ganiad a'r englyn milwr yn neilltuol a geir yn y cyfresi diarhebol a drafodwyd ond ceir englynion unodl union diarhebol o'r bymthegfed ganrif ymlaen. Y mae crefft yr englynion hyn beth yn wahanol i grefft yr englynion o'r hen ganiad. Yn yr englynion diarhebol o'r hen ganiad y drefn, gydag ychydig eithriadau, yw dwy linell o ragymadroddi a dihareb yn y drydedd. Gellir sylwi ar sawl patrwm gwahanol yn yr englynion unodl union. Yn aml mydryddir dihareb drwy bedair llinell englyn unodl union yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr. Gwelir yn y cyfansoddiadau hyn ddefnyddio'r arddull sangiadol sy'n nodweddiadol o'u gwaith i'w eithaf. Ceir enghreifftiau yng nghanol awdlau megis yr englyn hwn o awdl Dafydd y Coed i Dduw. A994 yw'r ddihareb a fydryddir:

Bo cyfyngaf, Naf nefol fryd, - gain Dduw,
Fo gan ddyn anhyfryd,
Ehangaf fydd, Ben ffydd byd,
O gynnwll, Iesu, gennyd.¹⁹⁴

Dro arall nid yw'r ddihareb yn ymestyn o un pen i'r englyn i'r llall a digwydd naill ai yn y paladr neu yn yr esgyll. Mydryddir A27 yn esgyll yr englyn hwn o farwnad Dafydd ap Gwilym i'w ewythr, Llywelyn ap Gwilym:

¹⁹³ Y mae'n crynhoi ei chasgliadau fel hyn: 'Pour conclure, à partir de la fin du XVe siècle la tradition du récit en prose gallois commence à suivre les modèles venus du monde francophone et le goût littéraire des Gallois ressemble de plus en plus à celui des Anglais et des Français' (Lloyd-Morgan, 2003, 224).

¹⁹⁴ GDC, 5.57-60.

A wnêl argae, gwae a gwall – i'r deau,
A gaiff dial cuall;
A wnêl drwg o dreigl angall
Â llaw, arhoed y llall.¹⁹⁵

Ceir englyn ar A478 ymysg yr enghreifftiau o'r mesurau yng Ngramadeg Einion Offeiriad. Priodolir englynion fel y rhain i nifer o feirdd¹⁹⁶ a chadwyd casgliadau o englynion ar ddjarhebion unigol yn llsgr. Mostyn 144 (Y Llyfr Coch o Nannau) a llsgr. Hafod 17. Y casgliad hynotaf o'r math hwn yw'r gyfres o englynion o waith Thomas ap Huw o Ewias yn llsgr. LIGC 13250A (Mysevin 30), llawysgrif a berthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg.¹⁹⁷ Ceir ganddo 226 o englynion a nodir y ddihareb neu'r ddjarhebion perthnasol uwchben pob englyn yn y llawysgrif. Yn fynych dyry Thomas ap Huw ddwy ddihareb mewn englyn, megis yn yr enghraifft hon:

Gore n ol drygiol y vn drigo n gadarn
gydar drwg a wypo
ny fyssyn gla maen didraen dro
drygliw oy fynych dreiglo¹⁹⁸

Y mae'r englynion hyn yn ddiddorol gan eu bod yn enghraifft o *genre* llenyddol a flodeuai yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ond gan fyred y ffurf ni cheir yn yr englynion hyn ond yn anaml iawn ddigon o gyd-destun i ddeall ergyd y ddihareb. Y mae'r englyn ar C342 a briodolir i Forys Dwyfech yn enghraifft teg. Nid oes ynddo ddim a gynorthwya'r darllenydd i ddeall ystyr y ddihareb y tu hwnt i'r ystyr llythrennol:

¹⁹⁵ GDG, 13.101-4.

¹⁹⁶ Gw., er enghraifft GIG t. 176; GST 300, 301, 304, , 309, 310, 311.

¹⁹⁷ Gw. HMNLW t. 538.

¹⁹⁸ LIGC 13250A.

Gwell i wan traglan yn treiglo – goror
Y maen garw a'i dalio,
Na'r maen llyfn, treiglddyfn tro,
Gwall angall a'i gollyngo.

Digwydd yr un ddihareb yng nghywydd mawl Siôn Brwynog i Rydderch ap Dafydd. Yn y cywydd hwn rhoir digon o gig cyd-destunol ar esgyrn y ddihareb i'w goleuo:

Y maen llyfn ym min llaid
A sym un, os am enaid.
A ro'i einioes ar weniaith
Llwyr yw fynd i'r llawr ei waith.
Gorau caid y garreg gadarn,
Garw ei sut, i gweirio sarn;
Gorau draw y gair a drig,
Gŵr croywdal, garw caredig.

Yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr, yn amlach na pheidio, y canfyddir y cyd-destun sy'n anhepgor i ddeall y diarhebion hynny nad ydynt yn perthyn i'r hengerdd, y cyfreithiau neu'r corpws cydwladol. Er mai gwasgarog yw'r elfen ddiahebol yn y cywyddau, o ystyried y canu hwn yn ei gyfanrwydd buan y gwelir nad agwedd ymylol ar grefft y beirdd mohoni. Y mae hynny'n amlwg o ystyried y mynych enghreifftiau o'u gwaith a ddyfynnir yn y nodiadau. Agwedd ydyw'r diarhebion hyn yn eu gwaith ar y gyfeiriadaeth eang yr oedd y beirdd mor hoff ohoni, yn gyfeiriadaeth feiblaidd, chwedlonol a hanesyddol. Yr oedd y diarhebion,

felly, yn rhan o’u diwylliant ac, y mae’n bur debyg, yn rhan o’u haddysg.¹⁹⁹

Ymddengys fod y Cywyddwyr yn dethol wrth arfer y diarhebion. Y mae rhai diarhebion yn digwydd yn fynych yn eu gwaith (y mae’r enghreifftiau o A506, A660, A815 ac C641 yn niferus) ond ni cheir yr un enghraifft o ddiaarbheion eraill.²⁰⁰ Yn ei thrafodaeth ar y gwahanol fathau ar ymadrodd diarhebol yng ngweithiau naratif Ffrangeg yr oesau canol cais Élisabeth Schulze-Busacker ddsbarthu’r enghreifftiau o ddiaarbheion mewn gweithiau llenyddol yn ôl eu tebygrwydd i batrwm gwreiddiol y ddihareb. Dosbarthir y cyfryw ymadroddion ganddi dan dri phennawd:

- dihareb integredig (*le proverbe intégré*)
- dihareb a ddyfynnir (*le proverbe cité*)
- dihareb a ddatblygir (*le proverbe exploité*)

Gellir defnyddio’r un dosbarthiad wrth drafod y deunydd Cymraeg.

Yn aml ni cheir ond cyswllt syniadol, neu gyswllt geiriol llac, rhwng y ddihareb a’i hadlais yng ngwaith bardd, yr hyn a eilw Élisabeth Schulze-Busacker yn *arrière-pensée proverbiale*, y ffurf anhawsaf i’w ddsbarthu, ‘parce que le lien entre le proverbe et la formule relevée dans les textes n’est qu’indirect et souvent une question d’interprétation’.²⁰¹ Wele enghraifft o gywydd marwnad Dafydd ab Edmwnd gan Gutun Owain:

Dangos val edav vngor
'Oedd o vawl rrwng y ddav vôr,
Y kân o’i vin kyn i vedd,

¹⁹⁹ Tueddu i gadarnhau’r farn hon y mae’r casgliad o ddiaarbheion yn llaw Dafydd Epynt, ynghyd â diddordebau Gruffudd Hiraethog, ond ni wyddom ddigon am gyfundrefn addysg y beirdd i allu dweud dim yn bendant.

²⁰⁰ Y mae hyn yn gyson â sylw Schulze-Busacker (1985, 24): ‘les auteurs se servent d’un nombre restreint parmi les nombreux proverbes médiévaux conservés’.

²⁰¹ Schulze-Busacker, 1985, 25.

Gwiw vv'r edav gyvrodedd :
Nid eiliodd onid Iolo
Yr ail val yr eiliai 'vo²⁰²

A150 yw'r ddihareb a adleisir.

Er gwaethaf hoffter y Cywyddwyr o ddyfynnu diarhebion, gwasgarog yw'r defnydd a wneir ohonynt ar y cyfan ac ni cheir mwy nag un ddihareb mewn cerdd ond yn anfynych. Cerddi eithriadol yw'r cywyddau hynny lle y ceir helaethrwydd o ddiaarbion ac anaml y datblygir thema ganolog yn seiliedig ar ddihareb, dros nifer o linellau. Manylaf yn awr ar y modd y defnyddir diarhebion mewn dau gywydd sy'n frith ohonynt; dau gywydd pur wahanol eu crefft, y naill gan Ddafydd ap Gwilym²⁰³ a'r llall gan Siôn Tudur.

Cywydd yn seiliedig ar y ddihareb 'Trech a gais noc a geidw' (C867) yw GDG 72. Adleisir y ddihareb gan y berfenwau *ceisio* a *cadw* cyn ei chyflwyno, a'i chymhwyso i amgylchiadau'r bardd, ym mharagraff cyntaf y cywydd:

Ceisio yn lew heb dewi
Beunydd fyth bun ydd wyf fi.
Cadw y mae Eiddig hydwyll
Ei hoywddyn bach hyddawn bwyll.
Traws y gwyl treisig olwg,
Trech a gais trwy awch a gwg
Nog a geidw rhag direidwas

²⁰² OPGO, LXII.15-20.

²⁰³ Y mae sawl ysgolhaig wedi sylwi ar amllder y diarhebion yng ngwaith Dafydd ap Gwilym: 'Dafydd ab Gwilym war mit dem Sprach- und Sagenschatz seiner Heimat wohl vertraut' (Stern, 1909, 224); 'mae Dafydd yn hoff iawn o ddyfynnu diarhebion' (Bromwich, 1975, 45). Cyfeiria Thomas Parry at y diarhebion yn aml yn y nodiadau yn GDG a sylwodd Th. M. Chotzen fod y deunydd diarhebol yn berthnasol i'r sawl a fyn astudio gwaith y bardd.

Ei ddyn gwyn ar ael glyn glas.²⁰⁴

Ymhelaethir ymhellach ar sefyllfa'r bardd yn llinellau 9-16 a pharheir i gynnal y gyfeiriadaeth yn y llinellau hynny.²⁰⁵ Dychwelir at y ddihareb ar ddiwedd y cywydd, nid i'w dyfynnu y tro hwn ond i'w hadleisio'n gynnill wrth gloi'r gerdd.²⁰⁶

Dyfynnir dwy ddihareb arall yng nghorff y gerdd a phair hyn nad ydyw'r cywydd yn ddim amgen nag ymhelaethiad ar dair dihareb mewn perthynas â'r amgylchiadau a ddisgrifir. Yn llinellau 17-22 cymherir natur chwim ac effro'r bardd –yn ôl y ddihareb (A899) ni chwsg neb serchog – â meddwl hunog, pŵl Eiddig a thrwy hynny awgrymir nad yw *gwyliwr* y ferch yn serchog. Y mae Morfudd, hithau, hefyd yn serchog hyd yn oed os ydyw'n cysgu.²⁰⁷

Yn nhrydydd paragraff y cywydd mydryddir dihareb arall (A642) ac ymhelaethir arni. Cymhwysir dihareb yn gyntaf i sefyllfa'r bardd sy'n gweld ei nod heb weld nac ystyried y rhwystrau:

Tebyg iawn o fawrddawn fudd,
Em fawrfalch, wyf am Fofudd
I'r march a wyl o'i warchae
Y ceirch, ac ni wyl y cae :
Minnau, heb ochel gelyn,
A welaf ddiweiriaf ddyn,
Ac ni welaf, hyaf hawl,
Ei du gymar, deg emawl.²⁰⁸

²⁴ GDG, 72.1-8.

²⁵ Sylwer yn arbennig unwaith eto ar y modd y pwysleisir y berfenwau *cadw* ac *ymgais*.

²⁶ Yn ll. 35-6, 'Trech ... wyf nog ef', ac yn ll. 42, 'Er a'i ceidw, eurog hoywdal'.

²⁷ Ll. 19-20. I ryw raddau gwrthbrofir y ddihareb a ddyfynnir yn ll. 17-18 gan y llinellau hyn. Sylwer odd bynnag, mai eithriad i'r rheol yw cariad y bardd. Ni chais y bardd ddymchwel awdurdod y dihareb – y mae'n parhau i bwysio ar yr awdurdod hwnnw yn ll. 21-22.

²⁸ GDG, 72.25-30.

(GDG 72.25-30)

Yn y llinellau dilynol cymhwysir yr un ddihareb i ymarweddiad yr Eiddig. Gan ei brysured yn gwarchod ei wraig ni wêl Eiddig y bardd. Nid yw'n gweld fel gŵr ieuanc, nid oes ganddo *fablygad*:

Ni welo Mair ddyn geirsyth,
Ni wyl yntau finnau fyth.
Mwy blyg ni bydd mablygad
Ym mhen gwledig, unben gwlad.²⁰⁹

Y mae crefft y cywydd hwn yn eithriadol; nid oes ynddo linell nad ydyw'n dwyn i gof y berthynas rhwng amgylchiadau ei gyfansoddi ac ergyd un o'r tair dihareb.

Cywydd pur wahanol yw'r 'Cywydd cyngor i Mastr Siôn Conwy o Fotryddan' gan Siôn Tudur, cywydd cyfarch i'r aer ifanc ar ei ddyfodiad i'w etifeddiaeth. Yn nau baragraff cyntaf y cywydd cyfeiria'r bardd at y golled ar ôl Siôn Conwy II a'r 'iawn teg' a gafwyd am y golled hon ym mherson ei fab Siôn Conwy III. Yna aiff rhagddo i ddatgan ei briod swyddogaeth: bu'n fardd i dad Siôn a bydd yn fardd iddo yntau – 'Bardd it fyddaf â'm tafod' (GST 5.13) – ac yna y mae'n dechrau cynghori'r aer ieuanc:

Hirwalch, gwrando gynghorion
Gŵr sy yn dy garu, Siôn.²¹⁰

O linell 21 hyd llinell 104 rhestrir diarhebion ynghyd â chynghorion ac ymadroddion diarhebol gwreiddiol o waith y bardd. Dyma brif ran y

²⁰⁹ GDG, 72.31-4.

²¹⁰ GST, 5.19-20.

cywydd. Nid cawdel ddoethinebus o *sententiae* wedi eu mydryddu ynghyd blith draphlith sydd yma. Sylwer sut y mae'r pedair dihareb olaf yn y darn a ganlyn yn goleuo, pob un yn ei thro, agwedd wahanol ar y thema ganolog sef rhinwedd pwyll a darbodaeth:

Neidio'r wyd, nid o redeg,
Yn ŵr dowch yn ara' deg.
Yr ych gwâr awch a gyrraedd,
Prynhawn y pery'n y wedd.
E flina'r ych aflonydd
Ar y did cyn hanner dydd.
A fo'n ara' fyw'n wrol
Ni thripia, ni wyra'n ôl.
A fo chwyrn â'i faich arnaw
A gaiff drip wrth ryw gyff draw.
Dichwyrn ddyn, o dechrau'n dda
Diau oedd y diwedda.
Deuparth y gwaith o'r daith dau,
Ŵr diochrog, yw'r dechrau.
Torri'r gwadn, trwy ergydiaw,
Wrth y troed, diwarth it draw.
Cropio raid, ŵr dewrblaid, doeth,
Cyn cerdded, cun cywirddoeth.
Nid ar un awr, dirion wedd,
Y gwnaed Rhufain, gnot rhyfedd.²¹¹

Anodd coelio fod yr un bardd yn awdur parodi deifiol ar 'Englynion y Misoedd' (GST, 204).

8. Ymryson ac ymddiddan

²¹¹ GST, 5.41-60.

Trafodwyd uchod y berthynas rhwng y canu saga a'r casgliadau diarhebion. Ynghyd â monologau empathig megis 'Cân yr Henwr' a rhai o'r darnau hwyaf yng Nghylch Heledd, ceir yn y corff hwn o ganu ddarnau o ymddiddan rhwng y cymeriadau. Dengys rhai o'r darnau hyn pa fodd y defnyddid diarheb i ategu dadl neu fwrw amheuaeth ar ddadl gwrthwynebydd. Yn y gyfres 'Gwên a Llywarch' mynega Llywarch amheuon ynghylch gwrhydri ei fab ac y mae'n ei annog yn gyfrwys â llinellau diarhebol:²¹²

Redegawc tonn ar hyt traeth.
ech adaf torrit aruaeth.
kat [agdo] gnawt ffo ar ffraeth.²¹³
(dyfynnir A397 yn y llinell olaf)

Medal migned kalet riw.
rac carn kann tal glann a vriw.
edewit ny wnelher ny diw.²¹⁴
(cyfetyb y llinell olaf i A265)

Ymetyb Gwên, yntau, â dihareb yn englyn olaf yr ymddiddan:

Diheu diweir dy waes.
ti yn vyw ath dyst ry las.
ny bu eidyl hen yn was.²¹⁵
(cyfetyb y llinell olaf i B455)

Nid dieithr mo diarhebion yn y cyfresi eraill o englynion ymddiddan²¹⁶ ac y mae llinellau diarhebol a gwirebau yn bur gyffredin ynddynt megis yn yr englyn hwn o 'Melwas a Chei':

²¹² 'Llywarch uses sententious lines such as *edewit ny wnelher ny diw* to challenge Gwên obliquely' (EWSP, 208; gw. yn ogystal y drafodaeth lawn yn *ibid.* 16-7).

²¹³ CLIH, I.6.

²¹⁴ *ibid.*, I.8.

²¹⁵ *ibid.*, I.13.

Canys dechreûasoch
ymddiddenwch rhagoch
ef a edwyn mab ai lloch.²¹⁷
(cyfetyb y llinell olaf i A15)

Ystyrier yn ogystal y modd y trafodir A1071 yn ‘Ymatreg Llywelyn a Gwrnerth’²¹⁸ a’r fersiynau o A444, A445 ac A446 yn y gyfres ‘Boddi Maes Gwyddneu’.²¹⁹ Mae’n wir nad yw union ergyd y ddihareb yn ei chyd-destun yn eglur bob tro²²⁰ ond ymddengys bod elfen ddjarhebol gref yn perthyn i’r *genre* hwn. Ategir y farn hon gan dystiolaeth llenyddiaethau eraill. Nid oes raid ond sylwi ar amllder y cyfeiriadau at PSPP yn y nodiadau ar y cerddi yn netholiad Conlee o gerddi ymddiddan Saesneg Canol er mwyn dirnad bwysiced yw’r ddjarhebion yn y canu hwnnw.²²¹

Cymharol brin ydyw’r cerddi ymddiddan Cymraeg a rhyfyg fyddai ceisio ffurfio unrhyw gasgliadau cyffredinol ar sail cyn lleied o dystiolaeth. Fodd bynnag, y mae math arall ar ddeialog yn bur gyffredin yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol, nid deialog rhwng dau gymeriad ffug fel yn yr englynion ymddiddan, ond deialog rhwng dau fardd o gig a gwaed – yr ymryson barddol.

²¹⁶ Ceir arolwg o’r math hwn o ganu yn Roberts, 1978. Ar y gwahaniaethau rhwng y cerddi ymddiddan hyn a’r darnau o ymddiddan yn y canu saga gw. Rowland 1988, 197-200.

²¹⁷ E. D. Jones, 1936, A9.

²¹⁸ BBGCC, 32.24-26.

²¹⁹ LIDC, 39.10-24.

²²⁰ A dyfynnu sylw Jenny Rowland yng nghyswllt llinell dywyll ei harwyddocâd yn ‘Gwên a Llywarch’, ‘But given the skill with which the gnomes and description are used elsewhere the possibility must at least be raised that we are not sufficiently acquainted with early Welsh imagery, natural lore and proverbs to catch the point’ (EWSP, 209).

²²¹ Yn y cyswllt hwn, y mae nodiadau Conlee ar y cerddi unigol yn hynod ddefnyddiol ond trueni na fyddai wedi ymhelaethu ar yr agwedd hon ar y canu yn y rhagymadrodd i’w gyfrol. Ni cheir ganddo ond cyfeiriad tala at gynefindra awdur *The Owl and the Nightingale* â ‘contemporary works of proverbial lore’ (Conlee, 1991, xxi).

Y mae'r modd y defnyddiwyd diarhebion mewn cerddi ymryson yn haeddu sylw neilltuol a hynny oherwydd bod yn y cerddi hyn nifer anghymesur o ddiaarbion o ystyried swm y canu a gadwyd. Daw hyn yn drawiadol-amlwg wrth ddarllen ymrysonau'r Cywyddwyr, o'r ymryson rhwng Dafydd ap Gwilym a Gruffud Gryg hyd Ymryson Prys a Chynwal.²²² Nid oes brinder testunau golygedig na phrinder ymdriniaethau manwl ag ymrysonau unigol ond ychydig a ysgrifennwyd am yr arfer ynddo'i hun. Prin fu'r cyffredinoli yn y maes hwn, hynny yw, nid oes gennym lyfr yn trafod cerddi ymddiddan ac ymryson yn yr un modd ag yr ymdrinnir â'r canu gofyn a diolch yng nghyrol safonol Bleddyn Owen Huws ar y testun hwnnw.²²³ Pan ysgrifennir hanes y traddodiad ymryson bydd gofyn sylwi'n ofalus ar yr ymadroddi diarhebol yn y cerddi hyn.

Ni ellir pwyso ar ddilysrwydd y ddihareb gyntaf yn yr ymryson rhwng Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg gan na cheir enghraifft annibynnol ohoni mewn casgliad o ddiaarbion cyn yr ail ganrif ar bymtheg a dichon felly mai Dafydd a'i lluniodd.²²⁴ Digwydd yng nghywydd cyntaf Dafydd, ail gywydd yr ymryson:

Haws yw cael, lle bo gwael gwŷdd,

²²² Bydd yr ymdriniaeth fer a ganlyn yn canolbwyntio o anghenraid ar ymrysonau'r Cywyddwyr gan na chadwyd ond dau ymryson o waith Beirdd y Tywysogion. Ni chynnwys y cyntaf o'r rhain (englynion ymryson Cynddelw Brydydd Mawr a Seisyll Bryffwrch, CBT, IV.12) yr un ddihareb ac ni chynnwys yr ail (awdlau ymryson Phylip Brydydd, CBT VI.14 a VI.15) ddim y gellid ei gysylltu â'r casgliadau diarhebion. Sylwer, fodd bynnag, ar y llinellau hyn o awdl ymryson gyntaf Phylip Brydydd:

Gnawt o synnwyrôawr barn drybelit (CBT, VI.14.40)

Ae gwaeth mynac nac noc eddewyt? (CBT, VI.14.44)

Y mae'r llinell gyntaf yn nhraddodiad y canu gwirebol ac y mae'r syniad a fynegir yn yr ail yn bur agos at ergyd rhai o'r diarhebion (cf. A349, A957, B264). Er hynny, ni fynnwn honni am ennyd fod i'r llinellau unrhyw arwyddocâd yng nghyswllt y drafodaeth hon. Ni wnaaf ond eu nodi rhag ofn.

²²³ Yr ymdriniaeth orau â thechnegau'r canu hwn yw dwy ysgrif Ann Matonis (1982, 1980-2). Gesyd hi'r ymrysonau Cymraeg yn eu cyd-destun Ewropeaidd ehangach.

²²⁴ Yn llsgr. Mostyn 204, 'Haws cael saer na deunudh'. Ymgorfforwyd nifer o linellau diarhebol y Cywyddwyr yng nghasgliadau diarhebion y Dadeni.

Siwrnai dwfn, saer no defnydd.²²⁵

Nid oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd y diarhebion eraill yn yr ymryson. Dyfynnir A210 yn ail gywydd Gruffudd:

Syml ei hwyl, ys aml holion,
Ys hoff gan Ddafydd ei sôn.
Hoff gan bob edn aflednais
Ym medw gled lwysed ei lais.²²⁶

Cyfeirir yn ôl at y ddihareb yn nelweddaeth y llinellau hyn a gysylltir gan y gair *hoff* â'r paragraff blaenorol:

Trydar ei daerfar a darf,
Trydydd yw Dafydd dewfarf.
Hoff oedd yng Ngwynedd, meddynt,
Yn newydd ei gywydd gynt.
Bellach gwywach ei gywydd,
Aeth yng ngwyll ei waith yng ngwŷdd.²²⁷

Yn nhrydydd cywydd Dafydd dyfynnir A488 ac ymhelaethir ar y ddihareb yn y llinellau sy'n ei dilyn:

Hy fydd pawb dan hoyw-wydd perth
Yn absen, ofn wynebserth.
Lle clywwyf, heb loywnwyf blyg,
Air hagr o'th gerdd, ŵr hygryg,
Talu a wnafl, leiaf ludd,
Triphwyth o wawd yt, Ruffudd.
Ni bydd yn unfarn arnaf,

²²⁵ GDG, 148.45-6.

²²⁶ GDG, 149.17-20.

²²⁷ *ibid.*, 149.41-6.

O beiwyf hyn, ni bwyf haf,
Na'th ofn, ni thyfaist annerch,
Na'th garu, nes haeddu serch.²²⁸

Dyfynnir A240 yn ateb Tudur Penllyn i gywydd porthmona Guto'r
Glyn²²⁹ ac yng nghywydd ateb Guto ceir parodi ar ddwy ddihareb:

Diwedd hen fu'r fargen fau,
Cadw ŵyn fal y'm caid innau.²³⁰

Ni ŵyr y llaw lawn o ŵyn
Ba wichiaw wag heb achwyn.²³¹

Ni chyfyngir y chwarae hwn i'r diarhebion oherwydd parodir awdurdod
arall, adnod o'r Ysgrythur (Mathew 7:3), yn yr un cywydd:

Y dyn yn fy llygad i
A wyl oenyn eleni,
Ac ni wyl y gwan eilun
Hwrdd yn ei lygad ei hun!²³²

Sylwer mai B140 yn unig sy'n dwyn cysylltiad â defaid (ond nid ŵyn) yn
ei ffurf wreiddiol. Llurgunir y gyfeiriadaeth oll wrth i'r bardd grybwyll yr
ŵyn yn wamal ym mhob dyfyniad.

Diddorol, yng nghyswllt y diarhebion, yw cymharu'r ymrysonau barddol
yng Nghymru â'r *jeu-parti* yn Ffrainc.²³³ Darn o farddoniaeth yn
cynnwys chwe phennill, ynghyd â dau bennill clo, a ganwyd gan ddau

²²⁸ *ibid.*, 152.29-38.

²²⁹ GGGI xxxii, 61-2.

²³⁰ *ibid.*, xxxiii.1-2; B140.

²³¹ *ibid.*, xxxiii.37-8; A774.

²³² *ibid.*, xxxiii.33-6.

²³³ Y golygiad safonol yw un Langfors, 1926.

fardd yw'r *jeu-parti*. Dyna ffurf arferol y gerdd ond ceir amrywiadau ar y patrwm hwn (mwy neu lai o benillion; dadl rhwng mwy na dau o feirdd, ac ati). Yn y pennill cyntaf gesyd un o'r beirdd destun yr ymryson.

Cyfyng-gyngor yn ymwneud â serch yw'r testun gan amlaf ac fe'i cyflwynir ar ffurf cwestiwn sy'n cynnig dau safbwynt posibl.²³⁴ Bydd yr ail fardd yn dewis safbwynt i'w amddiffyn gan adael i'r bardd cyntaf amddiffyn y safbwynt croes. Yn y ddau bennill sy'n cloi'r gerdd enwir dau farnwr i setlo'r pwnc ond nid erys yn y llawysgrifau arlliw o unrhyw farn a draddodwyd a dichon mai math ar deyrnged oedd y confensiwn hwn. Ni chyfetyb y *jeu-parti* o ran ffurf na thestun i'r ymryson.

Cyfansoddai'r beirdd Ffrengig y gerdd gyfan ar y cyd a fe'i canent bob yn ail fesul pennill. Gwaith un bardd yw cywydd ymryson serch bod ymryson cyfan yn waith dau. Yr un er hynny yw hanfod y *jeu-parti* a'r ymryson ond bod y cyntaf yn crynhoi'r ddadl o fewn cwmpas un gerdd tra bo'r ail yn estyn y ddadl trwy gyfrwng cyfres o gerddi sy'n ddibynnol ar ei gilydd o safbwynt y ddadl ond sydd eto'n gyfansoddiadau llenyddol annibynnol. Crynhoir hanfod y *jeu-parti* gan Pierre-Yves Badel fel a ganlyn:

Pour chacun des partenaires il s'agit de soutenir une joute verbale, de défendre ses arguments, d'anéantir ceux de l'autre.²³⁵

Y mae'r gosodiad hwn yr un mor berthnasol i'r ymrysonau Cymraeg. Un o'r dulliau a ddefnyddir yn y cerddi hyn i amddiffyn safbwynt neu fwrw amheuaeth ar ddadl y gwrthwynebydd yw dyfynnu awdurdod y diarhebion. Y mae'r *jeux-partis*, fel yr ymrysonau Cymraeg, yn gyforiog o ddiarhebion ac y mae'r agwedd hon cyn amlyced fel y cynhwysir mewn

²³⁴ Wele rai enghreifftiau: *Le sire: Dois-je continuer à aimer celle qui m'a trahi ou la délaisser?* (Langfors ii); *De deux jeunes gens amoureux, l'un a obtenu toutes les faveurs de sa dame, l'autre est mis à l'épreuve par la sienne. Quel est celui qui montrera la plus de vaillance?* (Langfors iii).

²³⁵ Badel, 1995, 15.

atodiad i'r golygiad safonol ohonynt restr o'r diarhebion a ddigwydd yn y cerddi.²³⁶ Neilltuodd Claude Burdiant erthygl faith i swyddogaeth y diarhebion yn y *jeux-partis* ac y mae rhai o'i gasgliadau yn taflu peth goleuni ar yr agwedd hon ar yr ymrysonau Cymraeg.²³⁷ Yn ôl Burdiant y mae'r diarhebion yn caniatáu i awduron y *jeux-partis* ddatblygu eu dadleuon yn rhwydd. Y maent yn cynnig sail gadarn i'r ddadl neu glo effeithiol ac eglur i'w therfynu. Pan ddigwyddant yng nghorff y gerdd y maent yn llywio'r ddadl ac yn rhoi cyfeiriad iddi.²³⁸ Gan amlaf gosodir y diarhebion yn y *jeux-partis* mewn safle sy'n rhoi pwyslais arnynt ac yn eu hamlygu, naill ai ar ddechrau pennill (yn aml ar ddechrau'r ateb sy'n dilyn y pennill cyfarch) neu ar ei ddiwedd (megis casgliad yn crynhoi'r ddadl). Anodd cyffredinoli fel hyn ynglŷn â safle'r diarhebion yn y cywyddau ymryson gan fod adeiladwaith y cywydd yn bur wahanol i benillion y *jeu-parti* a'i fod yn fesur cyn hired, ac felly'n caniatáu mwy o ryddid, ond gellir sylwi ar rai enghreifftiau o luosogi datganiadau yn seiliedig ar ddihareb a osodir wrth ben y ddadl. Â dihareb y cychwyn cywydd Ifan Fychan ab Ifan ab Adda i gwyno na chawsai'r cwrwgl y gofynasai amdano gan Siôn Eutun. Cywydd ydyw'n ateb cywydd gwrthod Maredudd ap Rhys:

Dihareb wir o hirynt

A gaf, ac a draethwyd gynt:

Hir y bydd mud, gwychdrud gwâr,

²³⁶ Langfors, 1926. Rhestrir y diarhebion sy'n digwydd yn y *jeux-partis* mewn atodiad byr ar dudalennau 345-9. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a chred Claude Burdiant iddo ganfod ugain dihareb yn ychwaneg. Teg yw nodi nad yr un yw dull Burdiant ag eiddo Langfors. Y mae'r olaf yn cyfyngu ei sylwadau i'r diarhebion hynny yn y *jeux-partis* sydd hefyd i'w cael yng ngasgliad Morawski. Ambell waith dyfynnir dihareb gydwladol sydd i'w chael yn Gymraeg megis, *on seut plus loer / Un "tien" que deus "tu l'auras"* (Langfors lxxv, 45-6) sy'n cyfateb i A298.

²³⁷ Burdiant, 1976.

²³⁸ 'L'on peut affirmer que, dans les jeux-partis, les adversaires ont recours à des proverbes ou à ce que nous avons appelé des schèmes de proverbes parce que ces proverbes ou ces schèmes leur permettaient de développer sans effort leurs arguments et de leur donner des points d'ancrage solides. Placées de préférence en tête ou en fin de strophe, les formules gnomiques empruntées ou créées sont autant de bases commodes à partir desquelles on déclenche l'argumentation ou sur laquelle celle-ci vient buter; dans le cours du développement elles sont autant de balises (*ibid.*, 411-2).

O byddai 'mhorth y byddar.
Ni wnaif ar gam ei hamau,
Gwir yw'r ddihareb, nid gau.

Rhwydd gyson, rhodd a geisiais
Gan Siôn, cynt y cawn gan Sais.
Hir y byddaf yn aros
Y rhodd rhwng Tegeingl a Rhos²³⁹

Datblygir y ddadl ymhellach drwy gyfrwng cymariaethau sy'n pwysleisio anhawsed yw i'r bardd dderbyn y rhodd a'r amser maith y byddai'n rhaid disgwyl amdani, y cwbl yn estyniad naturiol i'r ddihareb ac yn seiliedig arni. Adlewyrchir y sefyllfa amhosibl a ddarlunia'r ddihareb gan bob cymhariaeth (haws fyddai cael tamaid o'r lleuad neu afael yn ei lewyrch mewn drych...).

Yn yr un modd dyfynnir A363 ar ddechrau cywydd ateb Lewys Môn i Lywelyn ap Gutun:

Gwae'r un a ddug i'r ynys
honsel wan henwas i lys.
Y mae delor i'm dwylaw,
ac a wnaeth drwg i'w nyth draw;
a'r drwg mawr a drigai'm Môn –
och Dduw – gyda chwi, Ddeon.²⁴⁰

Yn gyntaf daw'r ddihareb, sylw cyffredinol ar y sefyllfa, yna daw'r gymhariaeth â'r telor, aderyn y diarhebid yn ei gylch,²⁴¹ yna cyfeirir at y sefyllfa benodol yn nhŷ Deon Bangor.

²³⁹ GMRh, 11.1-10.

²⁴⁰ GLM, XV.1-6.

²⁴¹ Gw. y nodiadau yn GLM, 400. Yn Llsgr. Mostyn 204 ceir y ddihareb odledig 'Telor a dhwg dhrwg i ei nyth / y peth nis dwg allan byth'.

Yng nghywydd Mastr Harri ap Hywel i gynghori Ieuan Tew i beidio â charu merch ifanc (sy'n gywydd ymryson mewn cyfres o dri) cloir y darn a gais argyhoeddi Ieuan o'i henaint, â'r ddihareb A1064. Mae'r darn yn enghraifft o ddwyn ymresymiad i'w derfyn â dihareb, o grynhoi prif bwynt y ddadl:

Rhy hen wyd i'r ddyn lwyd lain,
A rhy ieuanc yw'r rhiaïn.
Ni cheir hi ac ni châr hon,
Oni châr un o'ch wyrion.
Ba ryw ddyn er barddoneg
A'th fynnai di, ddoethfain deg?
Nid oes i'th ên o henaint,
Er eich tra dwrdd, uwch tri daint.
Pand truan, peintiwr awen,
Na weli di liw dy ên
Ac na weli'n gynheilod
Mai'r ffon fydd y trydydd troed?²⁴²

Adleisir dihareb arall, A292, yng nghywydd ateb Ieuan Tew:

yniladd ywn dwyradd ni(n) day
y ki hynaf ar kenay
chwarayr ki chwerw ywr kaith
acholwyn agewch ailwaith²⁴³

Hawdd y gellid ymhelaethu ar ymdriniaeth Buridant â phatrymau diarhebol ('formules bâties sur des schémas de proverbes') yn y *jeux-partis* yng nghyswllt yr ymrysonau Cymraeg. Y mae patrymau diarhebol

²⁴² GSPhE, 9.31-42.

²⁴³ Llan. 6, LX.43-6.

yn gyffredin yn y cywyddau ymryson ac, yn naturiol, fe'u defnyddir yn yr un modd â diarhebion *stricto sensu* ond nid oes a wnelom yma â'r cyfryw fformwlâu.

Y mae'n amlwg imi y disgwyliad i fardd ddefnyddio diarhebion mewn cywyddau ymddiddan ac ymryson. Sylwodd Ann Matonis ar y tebygrwydd rhwng crefft yr ymryson barddol a'r technegau a ddefnyddid wrth ddadlau achos mewn llys barn:

Predictably, one was expected to answer each charge, and, typically, the answer echoed the words of the accusation. The literary debates of the period, though they lack the more rigid organization of the legal dispute, approximate this practice closely enough to suggest that their writers were aware of the legalistic tradition and procedures of disputation.²⁴⁴

Yn yr un modd, ymosod ac ymateb a geir yn yr ymrysonau. Diben y diarhebion yn yr ymrysonau yw llorio'r gwrthwynebydd â doethineb yr oesoedd. Nid y bardd ei hun sy'n llefaru ond profiad cyffredin dyn. Ni ellir dadlau â dihareb ac eithrio, wrth gwrs, drwy ei hateb â dihareb arall. Yn y cyswllt hwn y mae sylw Hector a Nora Chadwick yn nhrydedd gyfrol *The Growth of Literature* yn ddadlennol:

Contests in 'wisdom' of various kinds are very widespread. We have found them in the early literatures of Ireland, the North, Greece and India, and in the oral literature of the Tartars; and they are at least implied in certain Welsh stories [cyfeirio y maent yma at chwedl Taliesin]...We suspect that contests in wisdom in some form or other are to be found almost everywhere. To some extent they are reflected in the riddle dialogues still current in peasant communities, in Russia and elsewhere.²⁴⁵

²⁴⁴ Matonis, 1980-82, 656.

²⁴⁵ Chadwick & Chadwick, 1932-40, 865-6.

Ai rhyw gof dadfeiliedig am ymrysonau o'r fath, mewn cymdeithas fymryn uwchlaw 'peasant community' megis, sy'n cyfrif am luosogrwydd diarhebion yn y cywyddau hyn? Y mae'r ymryson doethineb rhwng dau gymeriad chwedlonol – dau frenin yn aml – yn thema gyffredin yn llenyddiaeth amryw ieithoedd. Y mae awgrymiadau cyffredinol fel y rhai hyn yn atyniadol a dichon fod ynddynt beth gwirionedd, ond credaf y gellir egluro hoffter y beirdd o ddefnyddio diarhebion, ynghyd â swyddogaeth y ddihareb yn eu gwaith, drwy ystyried mathau eraill ar ddyfynnu awdurdod yn yr un cyfnod. Gellid cyffelybu'r ymryson barddol ag un o ddulliau addysgu sgolastig yr Oesau Canol, y *disputatio*, math ar ymryson rhwng meistr a disgybl lle y pentyrrid dadleuon o blaid ac yn erbyn thesis penodol.²⁴⁶ Dylid pwysleisio yn ogystal fod i ddyfynnu awdurdod bwysigrwydd neilltuol yn nehongliadau diwinyddion yr Oesau Canol.

9. Disgwrs awdurdod

Testun yw dihareb a fwriedir i'w ddyfynnu ac yn hyn o beth y mae'n fath unigryw ar gyfansoddiad llenyddol.²⁴⁷ Yr hyn a bair iddi fod yn gymwys i'w dyfynnu yw ei chymhwyster argyhoeddiadol a'i grym i oresgyn mewn dadl. Ond o ble y daw'r awdurdod hwn? Gellir ffurfio rhai casgliadau ar sail ymdriniaethau diweddar â natur y dyfyniad a chyfrol Antoine Compagnon, 'La seconde main', yn neilltuol.

²⁴⁶ Ar y dull hwn gw, Le Goff, 2000, 100-04.

²⁴⁷ 'Les ouvrages contemporains traitant de la citation se donnent généralement pour but d'analyser la relation tripartite qui s'établit entre le texte d'origine, le passage cité et le texte citant, et d'y découvrir le ou les différentes fonctions assignées à la citation. Le fait que la maxime – autant que le proverbe, mais suivant des principes très différentes [nid yw'r awdur yn manylu ynghylch yr egwyddorion gwahanol hyn] – constitue un texte approprié, voire destiné à la citation, représente un phénomène original en littérature et soulevant une question qui ne trouve pas de réponse dans ces ouvrages pour la simple raison qu'elle n'y est pas posée: que cite-t-on?' (Schapira, 1997, 107)

Ym mhedwaredd ran y gyfrol hon canolbwyntia Compagnon ar statws y dyfyniad yn nisgwrs diwinyddol yr Oesau Canol. Pair awdurdod trosgynnol y Beibl mai ailadrodd gair Duw yw egwyddor lywodraethol ymdriniaethau diwinyddol y cyfnod:

Aussi la proposition selon laquelle il n'y aurait d'écriture médiévale que dans la citation, ne serait-elle pas tout fausse, si l'on admet ce principe : il n'y a d'écriture médiévale que dans la répétition de l'Écriture.

La condition écrivante de l'époque s'ordonne suivant ce postulat, par exemple les diverses postures codifiées qui interdisent l'originalité, soit, à son fondement, l'énonciation: le *scriptor* qui recopie sans modifier, le *compiler* qui choisit et rassemble, le *commentator* qui s'introduit mais exclusivement pour expliquer, l'*auctor* enfin qui augmente et y met du sien, mais sans prendre sur lui, tous se fondent sur une autre autorité qu'eux-mêmes, et qui les dépasse.²⁴⁸

Y mae testunau llenyddol 'poblogaidd' yn yr ieithoedd brodorol, meddai, yn eithriad i'r rheol gyffredinol hon. Er hynny, y mae elfen gref o ailadrodd ynddynt hwythau hefyd.²⁴⁹

La répétition ne serait pas propre à une écriture qui, au moyen âge, trouve sa raison dans l'Écriture, mais peut-être commune à tout le texte médiéval, en ce qu'il repose dans sa totalité sur une typique, en ce qu'il est une monographie ou une monotropie – une idée fixe.²⁵⁰

Bid a fo am hynny, yr Oesau Canol yw cyfnod anterth y dyfyniad yn ôl Compagnon ac y mae'n cyferbynnu grym dyfyniad o'r Beibl yn nisgwrs diwinyddol yr Oesau Canol a *gnômé* a *sententia* awduron clasurol Groeg a Rhufain. Y mae gwirionedd y dyfyniad beiblaidd yn ddiamheuol:

²⁴⁸ Compagnon, 1979, 158.

²⁴⁹ Nid ailadrodd awdurdod bid sicr - cyfeirio y mae at y *topoi*.

²⁵⁰ *ibid.*, 1979, 158.

Celles-ci [sef y *gnômé* yn ôl Aristotlys a'r *sententia* yn ôl Quintilien] n'avaient jamais valeur que d'expressions du général, de jugements contingents ou de propositions de circonstance dont la convenance restait à établir dans chaque cas par un épilogue. En revanche, la citation biblique s'offre toujours comme un jugement nécessaire, une proposition universelle, une vérité éternelle; elle se répète sans qu'il faille s'assurer à chaque coup de sa pertinence, celle-ci lui étant inhérente, comme une énergie qui la déplace au gré des plus minces sollicitations.²⁵¹

Bernir rhag llaw fod y dyfyniad yn mynegi'r gwir. 'Tout se passe,' meddai Compagnon, 'comme si la citation reposait sur un dogme de l'infaillibilité'.²⁵² Y mae anffaeledigrwydd y dyfyniad yn derfynol:

Il n'y a pas à interroger une citation sur sa vérité. L'alternative du vrai et du faux ne la concerne pas et le citeur aurait beau jeu de répondre: c'est écrit. Cela ne veut pas dire : c'est écrit, c'est donc vrai; mais : c'est écrit sans plus. Et cela suffit à déplacer la question de la vérité. D'où le pouvoir extraordinaire de la citation.²⁵³

Gwelir felly bod dyfynnu awdurdod bron a bod yn gyfystyr â dadl. Hyn sy'n cyfrif am effaith argyhoeddiadol y dyfyniad. Yn y cyswllt hwn gellid cymharu'r arfer sgolastig o ddyfynnu *auctoritates* â swyddogaeth y diarhebion. Wrth ddyfynnu dihareb a phwyso ar ei hawdurdod y mae awdur yn dileu'r angen i gyfiawnhau'r hyn a ddywed. Cyffelyb yw swyddogaeth prologau gweithiau ffughanesyddol, megis prolog Sieffre o Fynwy i'w *Historia Regum Britanniae*, sy'n datgan mai o 'lyfr tra hen' y cafodd yr hanesion a adroddir ganddo.²⁵⁴ Dull ystrywgar o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am yr hyn a ddywedir ydyw'r apêl at awdurdod, yr hyn a eilw

²⁵¹ *ibid.*, 1979, 201-2.

²⁵² *ibid.*, 1979, 88.

²⁵³ *ibid.*, 1979, 88-9.

²⁵⁴ HD, xiv-xv.

Stefan Morawski (yn lled-gellweirus efallai) yn *a device for ducking independent thought*.²⁵⁵

Y mae'n wir, fel y dywed Élisabeth Schulze-Busacker, fod perygl o ddarostwng y diarhebol i un o'i swyddogaethau yn unig drwy ganolbwynto ar ddisgwrs awdurdod.²⁵⁶ Dichon hefyd fod hyn yn rhoi gormod pwyslais ar y diarhebion a ddyfynnir oherwydd grym eu hawdurdod ac yn peri inni anwybyddu agweddau eraill ar ddefnyddio'r ddihareb, agweddau mwy addurniadol, esthetig. Yn llawlyfrau rhethreg yr Oesau Canol yr oedd i'r ddihareb ddwy swyddogaeth, *ornatus* ac *auctoritas*,²⁵⁷ ac ni ddylid colli golwg ar y naill na'r llall o'r swyddogaethau hyn. Fodd bynnag, credaf fod y pwyslais hwn ar yr apêl at awdurdod yn gyson â gwir ddiben rhethreg yn y Byd Clasurol a'r Oesau Canol sef mynegi'r gwir yn effeithiol.²⁵⁸

²⁵⁵ Morawski, 1970, 692.

²⁵⁶ Schulze-Busacker, 1985, 46-7.

²⁵⁷ Ceir trafodaeth gryno ar swyddogaeth addurniadol ac awdurdodol y ddihareb yn yr *artes poeticae* gan Schulze-Busacker, 2000, 350-2.

²⁵⁸ "Rhetoric," of which the Greek original means "skill in public speaking," implies, on the other hand, a theory of art as an effective expression of theses. There is a very wide difference between what is said "for effect" and what is said or made to be effective, and must work, or would not have been worth saying or making. It is true that there is a so-called rhetoric of the production of "effects," just as there is a so-called poetry that consists only of emotive words, and a sort of painting that is merely spectacular: but this kind of eloquence that makes use of figures for their own sake, or merely to display the artist, or to betray the truth in courts of law, is not properly a rhetoric, but a sophistic, or art of flattery. By "rhetoric" we mean, with Plato and Aristotle, "the art of giving effectiveness to truth" (Loomaraswamy, 1945, 10).

10. Dull y golygu

Oherwydd bod y Llyfr Coch yn llawysgrif mor ganolog yn hanes llenyddiaeth Gymraeg yr Oesau Canol, a chan i Gwenogvryn Evans baratoi argraffiad diplomatig o'r gyfran helaethaf o'r llyfr, gwell, mi gredaf, yw cyflwyno'r testun air am air fel y'i ceir yn y llawysgrif, yn hytrach na cheisio llunio testun cyfansawdd.²⁵⁹ Hynny a wneir yma. Noder, fodd bynnag, na cheisir yn Nhestunau A a B ddyngwared gwahanol ffurfiau'r *s a'r r* yn y llawysgrif.

Bûm yn petruso'n hir cyn cynnwys atalnodi'r gwreiddiol a hynny'n bennaf rhag anharddu'r testun. Yn y diwedd, penderfynais gyfleu'r atalnodi gwreiddiol *rhag ofn* fod iddo arwyddocâd. Cyfyngir yr atalnodi yn Nhestun A bron yn llwyr i'r *punctus* syml (canolig neu isel) yng nghanol llinell, gyda dyrnaid o enghreifftiau o'r *punctus elevatus* (/). Amrywia'r atalnodi ar derfyn llinell a cheir yno'r *punctus* neu'r *virgula* neu fath ar dic hynod debyg i ran uchaf y *punctus elevatus*. Ni cheisir gwahaniaethu rhwng y tri hyn yn y golygiad. Yn Nhestun B ceir defnydd mynych o'r *punctus elevatus* yng nghanol llinell ac ar ddiwedd llinell ceir naill ai'r *punctus* neu dic fel yn Nhestun A.

²⁵⁹ Gwelwyd eisoes mai prin yw'r gwahaniaethau rhwng testun y Llyfr Coch a thestunau'r llawysgrifau eraill sy'n dwyn perthynas uniongyrchol ag ef.

Testun A

[col. 1057]

Avo da gan du6 ys dir.
Achub maes ma6r a drycuarch.

Atuei gell y gi mynych yd aey idi.

Amgeled y ki am y k6t halen.

5. Annoc dy gi . ac na dos ganta6.

Adneu keheryn gan gath.

Ar ny phortho y gath /. porthet y lygot.

Ada6 vab . ada6 uaen.

Argl6yd pa6b ar y eida6.

10. Ar ny rodho a garo /. ny cheiff a damuno.

Ar ny wano yn draen ny wan yn gyff.

A uo amyl y uara . dan ganu yd a y laetha.

A uo aml y uel dodet ar y iwt.

A el yr g6are adawet y groen.

15. Atwen mab ae lla6ch.

Aghenn a dysc hen yn rydega6c.

Agheu a dyfurys.

Asg6rn yr hen yn yr aghenn.

Ard kyt bych . ard kynny bych.

20. A el y lys heb neges doet ae neges ganta6.

Ae va6 y kymuner a vo mar6 yr byg6th.

A uo amyl y veibon nyt a da yn y goludyon.

A ranno y lia6s . rannet yn hyna6s.

A ysgynno yn h6yr . ebr6yd y syrr.

25. Amlaf c6r6f tra hidler.

A uo nessaf yr eglŷys pellaf vyd y 6rth baradŷys.

A wnel y drŷc arhoet y llall.

A gynnnuller ar geuyn march malen¹ . dan y dorr yd a.

A dŷc yr hyd yr llynn.

30. A uo kalet y gynghaŷs . dalyet ar bap achaŷs.

Anaf yg gieu.

Agheu yg gŷytheu.

Arglŷyd a gymell.

A gymero catwet.

35. A adef² ry deu.

A arbetto y uach . arbedet y gynnogyn.

Arwaessaf y leidyf y uanac.

Adneu gan berchen.

Afrat yŷ gŷrthot.

40. A rea y vran uaŷr a rea y vran uechan.

A wnel tŷyll ef a dŷyllir.

[col. 1058]

A dycko yr wy ef a dŷc³ a uo mŷy.

Amlŷc gŷaet ar uarch gŷelŷ.

Amlŷc gŷaet o benn crach.

45. Anhys ty . anhys coet.

Annŷydaŷc chwannaŷc y dan.

A dŷc da . dryckyghor.

A wneler yn rin nant . ef ae gŷybyd cant.

A garo y rieu . caret y waryeu.

50. Am caro i . karet vyg crys.

¹ Llsgf. *malē*.

² Ychwanegwyd yr [a]; llsgf. A ^adef.

³ Yn dilyn y gair hwn yn y llsgf. ceir ~~###~~ a ddilewyd gan y copïydd.

A garo y uam caret y elltrewyn.

A garo y 6r caret y chweg6r.

A ogano . ef a ogenir.

Aghall mal dall a dwyllir.

55. Aet le6 yg kynn6ryf kat . du6 ae differ.

A uo diryeit ar y mor . diryeit uyd ar y tir.

A dysger yr mab du6 sul . ef ae g6ybyd du6 llun.

A gauas y karn . kauas y llauyn.

Argl6yd g6ann g6ae y was.

60. A gyuodes . colles y le.

Ar6yd nat kic b6ch.

Arouyn dryc uugeil.

Allwed callon . c6r6f da.

Areith doeth a drut ny dygymyd.

65. Angheu aghen . dyhewyn dir.

Aml6c gol6c g6ylya6dyr.

A vo hen archet wedi.

A wnel dr6c ymogelet.

Ar ny allo treis . t6yllet.

70. Aneiryan pob diryeit.

A nodo du6 ry nodit.

Annwar uu uelyn y ureint.

A garo y gilyd nyt ednebyd y gabyl.

A d6c agheu nyt atuer.

75. Aneglur gennat y6 keuda6t.

A uo y vryt ar debet ny wna da kynn⁴ y uet.

A uo hyborth hywir vyd.

Amaer6y adnabot anmyned.

Agheu gar6 drut ae heirch.

⁴ Llsg. kyñ.

80. A wnel du6 dyn ae barn.
Amaer6y direidi dryc anyan.
Argl6yd bieu a 6rthotter.

[col. 1059]

Arwaessaf y diffyd diffeith.
Asgre lan diogel y pherchen.

85. Alwyssen tam o gar6.
Aelwyt a gymell.
A dyuo can car . ef a dyuyd can nos.
A g6yn r6y . ny ryg6ynuan.
Anreith gyfvludwyt . taea6c yn ty y gilyd.

 Ny cheffir geir da /. heb prit.
 Nyt g6ell yr rod6r /. noc yr lleidyr
430. Nyt eing yn y llestyr /. namyn y loneit.
 Nyt a s6llt /. gan diebryt.
 Ny lad kawat /. mal y dygynnull.
 Nyt a wyl dyn /. ae pyrth.
 Nyt g6are /. a uo erchyll.
435. Nyt ymweis /. a vo parch.
 Nyt ytti6 y byt ym ychydic
 Ny wyr /. ny wyl.
 Nyt llei g6yrth meuyll /. no g6yrth sant.
 Ny cheid6 kymro /. yny gollo.
440. Ny wyr dyn /. dolur y llall.
 Nyt vn anyan iach /. a chlaf.
 Nyt a dyn /. mal eur.
 Nyt a dr6c /. mal y del.

²⁶ Llsgr. g6añ.

²⁷ Llsgr. wyr^{yr eryr}.

Ny choffa y wheger /. pan uu wehyd.

445. Ny lad /. gogyfada6.

Ny byd /. press6yl pasc.

Nyt llu a dyrr /. namyn du6.

Nyt a g6ae6 . yg gronyn.

Nyt g6aratwyd /. g6ellau.

450. Nyt achub maes ma6r /. a drycuarch.

Nyt ha6d wchythu tan /. a bla6t yg geneu.

[col. 963]

Nyt oes o rod /. namyn hyt vod.

Nyt eing deu uras /. yn vn ffettan.

Ny wybydir m6yn fynna6n /. nny el yn yspid.

455. Ny bu eidyl hen /. yn was.

Nyt atfer /. agheu a d6c.

Nac un tre6 /. na deu /. ny na6d rac agheu.

Ny byd kymenn neb /. nny vo ynuut gyssevin.

Ny cheiff da /. ny diodeuo dr6c.

460. Ny char mor6yn /. mab oe thref.

Nyt atwela6c /. geir.

Ny eill dyn /. gochel tyghet.

Nyt yscar diryeit /. ac anhyed.

Ny thelir g6eli taya6c²⁸ /. namyn y argl6yd.

465. Ny wyr /. ny waranda6ho.

Ny byd nat /. namyn un ul6ydyn.

Nyt edrychir /. yn llygat march rod.

Ny byd chwedyl /. heb ystlys ida6.

Ny bu esgynnu /. gorwed y ar gofyl.

²⁸ Gwall amlwg yw'r [c] hon am [t].

470. Nyt g6ell r6y /. no diga6n.
 Ny byd doeth ny leho.
 Ny ch6sc du6 /. pan ryd g6ared.
 Ny byd by6 ky6 /. heb a ly6.
 Ny chyll ny6 /. diuyd.
475. Ny hena /. keuda6t.
 Nyt eing ymro /. ny bo 6rth wir.
 Ny ellir k6byl o agh6byl.
 Ny buttra /. llynnwynn.
 Nyt ystyn lla6 /. ny rybuch callon.
480. Ny ordyfn6ys cath /. kebystyr.
 Ny dyly kyfreith /. nys g6nel.
 Ny buttra lla6 dyn /. yn g6neuth²⁹ da ida6 ehun.
 Nyt eida6 du6 /. a watter.
 Na chret vyth /. verch dy whegr6n.
485. Na uit dy wreic /. yn dy gyfrin.
 Ny ledir /. kennat.
 Ny chyngein kewilyd /. gan gennat.
 Ny mat newit /. a geiff el6.
 Ny byd dala ty /. ar sinnach ytt.
490. Nyt oes dryc6r /. namyn drycwreic.
 Nyt llei a a o gr6yn yr 6yn yr uarchnat /. noc o gr6yn y
 deueit ma6r.
 Ny thal dim /. kennat.

[col. 972]

Ny byd neb llyvn³⁰ heb y anaf.

²⁹ Llsgr. *g6neuth*; darll. *g6neuthur*.

³⁰ Llsgr. *llyv*ⁿ.

- Ny threfyn /. ny am6ch.
495. Nyt eir a b6yt taya6c /. yn rat.
 Ny eill g6rach /. g6aret oe phenn.
 Nyt ystyr karyat /. kywilyd.
 Ny thyr penn /. yr dywedut yn dec.
 Nyt detwyd /. ny diuo p6yll.
500. Ny dyly dryc uoli /. namyn dryc dyssw.
 Ny thelir /. saeth eba6l.
 Ny cheiff chwedyl /. nyt el oe ty.
 Ny byd minwen /. g6reic dryc6r.
 Ny chel grud /. kystud kallon.
505. Ny lud amreint /. ffa6t.
 Na varn dyn nath ran /. hyt ym penn³¹ y vl6ydyn.
 Nyt y aruaeth aned dyn /. namyn y tyghet ae herlyn.
 Nyt oes gambrenn /. nanyn³² cam rann.
 Nyt oes wyled rac anuerthed.
510. Nyt reit pedu /. y lys argl6yd.
 Ny byd bra6t heb y hatura6t.
 Ny hena /. eidiged.
 Ny moch dieil /. meuyl meryd.
 Ny diffyc ffonn /. ar ynvut.
515. Ny welas da yn ty y dat /. a hoffes teir gafyr yn ty y
 whegr6n.
 Ny wisc kein /. ny wisco lliein.
 Ny byd ucheneit /. heb y dagreu.
 Ny byd moesa6c mor6yn /. a gly6ho llef keila6c y that.
 Nyt kyweithas /. heb vra6t.
520. Nyt diwyt /. heb nei.

³¹ Llsgr. *peñ*.

³² Llsgr. *nanyn*; darll *namyn*.

Ny wna y llygoden y nyth /. yn³³ llosc6rn y gath.

Ny senghis yr ych du /. ar y droet.

Nyt neges /. heb varch.

Nyt sorri itt /. ar dy vam.

525. Ne6it /. y g6aewyr.

Na choll dy hen fford /. yr³⁴ dy ford newyd.

Neuad /. pob didos.

Neges pendeuic /. yn rat.

Nes nes /. y lleuein yr dref.

530. Neur vegeist /. ath dirpr6yho.

Nyt mi nyt ti /. llewat kic y ki.

O dit da /. diwarauun.

O bop tr6m /. trymaf heneint.

[col. 973]

O bop fford or awyr /. yd ymchoel y g6ynt.

535. O sul y sul /. yd a mor6yn yn wrach.

O mynny uot³⁵ yn iyrchgi /. ti a neity neit a uo m6y.

O lwyd vch ba6t /. na sa6dyl.

Onyt march /. ys kassec.

Oet /. a ryd atdeb.

540. Oer y6 isgell /. yr alanas.

Or drygeu /. goreu y lleihaf.

Pan uo ygaf gan dyn /. ehagaf uyd gan du6.

Pryt na6n coch /. a ma6red gwr.

Pob traha /. yn y gorffen.

545. Pob dryll yd a yr eing /. yn y prenn.

³³ Llsg. y.

³⁴ Llsg. y'.

³⁵ Llsg. uot vot.

Pan dywyssso yr enderic y preid /. ny byd da yr bugeil y dyd
h6nn6.

Pan yrrer y g6ydel y maes /. ennein a eirch ynteu³⁶.

Pan atter yr auyr yr egl6ys /. yr alla6r a gyrch hitheu.

Pob enn6ir /. diuenn6ir y blant.

550. Penn³⁷ ki /. ar uore g6anh6yn.

Penn³⁸ kar6 /. ar ysgyuarna6c.

Pann³⁹ lado du6 /. y llad dyn.

Pan uo adot ar y geifyr /. y bycheu a ridyir.

Pop darogan /. dyderpit.

555. Pyscotta /. ym blaen r6yt.

Pa6b y dreis /. ym peis y dat.

Pryn hen /. pryn eilweith.

Pryn /. tra ulinghych.

Pan dywyssso y dall y gilyd /. ell deu y dyg6ydant yn y cla6d.

560. Pan uynno dyn lad y ki /. kyndared a yrr arna6.

R y gas /. pob ry wir.

Rann gorbyd /. oe dat.

Rann truan /. traean.

Redit maen /. yny gaffo g6asstat.

565. Rieda6c aghena6c /. ar gych6yn.

Ry6 y uab i6rch /. bot yn uuan.

Rybryn6ys barua6c /. a eirch.

Rybuchet dryc uab /. y uam.

R6y uu /. ryuychot gynneu.

570. Rybud /. hyd wein

Rod ac atrod /. rod bachgen.

³⁶ Llsgr. yteu.

³⁷ Llsgr. Peñ.

³⁸ Llsgr. Peñ.

³⁹ Llsgr. Pañ.

Rod iuor ar y gapan.

Rybud ofna6c /. a deila ki.

Rygu /. pob ryuychot.

575. Reit 6rth am6yll /. p6yll para6t.⁴⁰

Rod y hen /. nac adol6c.

Rann g6as o gic iar.

Ryd y wreic y thaua6t.

Rod g6yr /. ergig.

[col. 974]

Syrth march /. y ar y pedwartroet.

Symuda6 adef /. rac dr6c.

Seith mlynet y bydir yn⁴¹ darogan delli kyn /. y dyuot.

Scribyl diryeit /. ar eithaf.

Trra ny mynno du6 /. ny l6yd.

Tyfhit enderic /. oe dorr.

Trenghis /. a vremis.

Tynghetuen /. y wreic ot.

Teir g6ers /. g6reic re6yd.

Tal6ys /. a veich6ys.

590. T6yll6r /. y6 gobyr.

Tra retto yr oc /. redet y ureuan.

T6yllit /. ryuygeit.

Telittor /. g6edy hala6c l6.

T6yll tr6y /. ymdiret.

595. Taua6t /. a tyrr yr asc6rn.

Tynnv bach /. tr6y goet.

⁴⁰ Gwasgwyd y ddihareb hon a'r bedair sy'n ei dilyn i ymyl y ddalen.

⁴¹ Llsgr. y.

Trydyd troet y hen /. y ffonn.

Tec tan /. tr6y dymp.

Trech tyghet /. noc aruaeth.⁴²

600. Trech amot /. no g6ir.

T6ynut greynyn /. y rann.

Trafferth ych /. hyt echwyd.

Trenghit lut /. ny threinc golut.

Trickit g6r 6rth y part⁴³h /. ny thric 6rth y gyfar6s.

605. Ta6edaeda6c⁴⁴ /. te6 y dr6c.

Tywyll bola /. hyt pan leueir.

Vnlllygeita6c a uyd brenhin /. yg g6lat y deillon.
Vn geina6c /. a dyly cant.

Vntre6 /. o garchar.

610. Vn arffet a uac /. y gant.

Vn cam diogi /. a 6na deu a thri.

Vch penn /. no d6y ysg6yd.

Vylat /. ny wyl y perchenn.

Vyneb trist /. dr6c a ery.

615 Vcher a da6 /. gan drychin.

et cetera.

Mabieith hengyrys o ial . yr h6nn a el
wit bach budugre . a gado fyfar6yd⁴⁵ .

a g6ydvarch gyfar6yd . ar hen wyrda a
dywa6t y diaerhebyon o doethineb . hyt
pan veynt gad6edic g6edy 6ynt . y rodi
dysc . yr neb a synnyei arnunt . kanys cry

⁴² Ysgrifennwyd y ddihareb hon wrth ochr rhifau 597 a 598.

⁴³ Gwall am *c* yw'r *t* hon.

⁴⁴ Llsgr. *Ta6edaeda6c* ond ceir tri dot o dan y llythrennau *aed* yng nghanol y gair yn eu dileu. Darll. *Ta6eda6c*.

⁴⁵ Llsgr. *fyfar6yd*; darll. *gyfar6yd*.

[col. 975]

nodeb parableu llawer . a synhŷyreu y kygho
reu doethbrud . a dangossir ar uyrder yr
neb ae dyallo yn y diaerhebyon.

Testun C

[t. 12]

Mabiaith hengrys o Ial yr hwnn

A Elwid Bach byddygre a Cato
gyvarwydd a gwyd varch gyvar //
wydd Ar hen wyrda a ddywawd
y diarhebion ynt yn kanlyn
ar ol o ddoethineb hyd pann
vyddynt kadwedic wedi hwynt
I roddi dysc ir neb a syn //
niav arnynt kans krynodeb
parablaw¹ llawer o
ssynhwyrav y kyngho //
rav doethbrvdd a
ddangossvr
ar vyr

G der **H**

ir neb a deallo
yn y diarhebienn

[t. 13]

¹ Llsgr. *parablaw*; darll. *parablau*.

Abyl I bob peth a bodlono.

Abyl I bawb I gydradd.

Achos bychan I daw blinder.

Achos bychan I daw drwc mawr.

5. Achos heb achos o honaw.

Achwyn Rhac achwyn Ragddo

A achwyno heb achos gweneler achos iddo.

Achwanekyd mefl mowrair.

Achvb maes mawr a drvgvarch.

10. Adwyth diriaid heb achos.

Adail dedwydd yn ddiddos.

Adnav kehyryn gann gath.

Adwaen mab ai llawch ac nid Adwaen ai kar.

Adwyoc kae anhwsmon.

15. Adifar kybydd am dravl.

Advyd pob hir dristwch.

Addaw mawr a rrodd vychan.

Addaw maen , addaw mab.

Addaw teg a wna ynvyd yn llawen.

20. Addewid gwraic odid yw.

Addas I bawb i gydradd.

A ddvc yr hydd ir maes mawr.

[t. 14]

A ddysgych ith vab dduw ssvl ef

ai kais dduw llvn.

Addef a dav.

25. Addfed angav hen.
 Addvned herwr hirnos.
 A el i chware gaded i groen gartref.
 A el i ddadlav heb neges a ddaw a neges adref.
 Aerwy kynn bvwch.
30. Afiach pob trwm galonn.
 Afieithus pob mammaeth.
 Aflavar pob tawedoc.
 Aflwyddianvs pob diriaid.
 Aflednais pob gwyllt.
35. Aflan dwylaw diowgsswrth.
 Aflan genav Anvdonol.
 Afrwydd pob dyrys.
 A fo amyl i vara dan ganv aed i laetha.
 A fo amyl i veibion bid wac i golvddion.
40. A fo amyl i vel rroed yn i vwyd.
 A fo trechaf treissied.
 A fo nessaf ir eglwys pellaf oddiwrth dduw.
 A fo da gann dduw ys dir.
 A fo marw ni ochelir.
45. A fo gwana gwaedded.²

[t. 15]

A fo marw er bwgwth a baw i kymvnvr.
 A fynno klod bid varw.
 A fynno duw a fydd.
 A ffwl ni doedd³ ymrysson.

² Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol ar waelod y ddalen.

³ Llsg. *doedd*; darll. *doeth*.

50. A gwyno kwyn bychan kwyn mawr a ddarogan.
 A gatwer a gair wrth raid.
 A greo y fran fawr a grea r fran fychan.
 A gymero dysc kadwed.
 A gynvlller ar gefn march malen⁴
 dann y dorr ir a.
55. A lygrodd⁵ a lygrodd dyn.
 Allan o olwc allan o veddwl.
 Amav pob anwybod.
 Amrevaelvs pob ymladdgar.
 Amgeledd y ki am y kwd halen.
60. Am gwymp hem⁶ i chwardd gwen gwas.
 Amod a dyrr defod.
 Amod a dyrr kyfraith.
 Amkan a vydd gann bawb.
 Am karo i kared vy nghi.
65. Amaerwy diriaid dryc anian.
 Amlwc bai lle ni charer.
 Amlaf ywr kwrw tra hidler.
 Amlach barkytan No Gwalch⁷

[t. 16]

Amraint pob torr defod.

70. Amharod pob anallv.
 Amhevthvn pob dieithr vwyd.
 Amsser sydd i bob peth.

⁴ *melyn* a oedd yma yn wreiddiol ond fe'i cywirwyd yn *malen*.

⁵ Disgwylid *duw* yma ond nis ceir.

⁶ Llsg. *hem*; darll. *hen*.

⁷ Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol.

Amser i vwyd amser i lochwyd.

Anrraith gystuddiwyd tayoc yn hy i gilydd.

75. Anafvs pob dryg voessawc.

Annoc dy gi ac na red gantho.

Annoc ki y gell y gored.

Anhydyn pob afrwyoc.

Anhappvs pob trwch.

80. Anhael pob kybydd.

Annwyl gan bawb a gar.

Anwadal pob Ehvd.

Anhydervs pob ofnoc.

Angel penn ffordd a diawl pentan.

85. Angen a dyrr deddf.

Angen a yrr hen i redec.

Angen a yrr y wrach i dvthio.

Angen a brynn ac a werth.

Anghenvs pob tlawd.

90. Anghynnes pob oer.

Anghwbwl pob eisie.

Anghariadvs pob diriaid.

[t. 17]

Anghymen pob ffol.

Antvr hir ledrad heb ddial.

95. Anoeth llithric y davod.

Ail i vam : modryb dda.

Arbeto⁸ i vach arbeted i gynogl.

A ranno i liaws rranned yn hynaws.

⁸ Disgwyliid *A arbeto* ond nis ceir.

Arafdan a wna brac melvs.

100. Arf waetha i leidr / vynnaic.

Ar ni wano yn ddraen ni wan yn gyffill.

Ar ni roddo a garo ni chaiff a ddymvno.

A rry bortho i gath porthed i lygod.

Arwydd drwc mwg yniffaith.

105. Ardd tra vych ardd kynna bych.

Ar ddiwedd i mae barnv.

Arian a brynn ac a werth.

A roddo i dorth i daith , ef a ddifvdd a wnel
i waith.

Ar gwelle i llas y weirglawdd.

110. Arglwydd a gymell.

Arglwydd gwann gwae i was.

Arglwydd pawb ar a veddo.

Assaeth ni fflyko nid da.

Assgwrn hen yn amgen.

[t. 18]

115. Astrus pob anaf.

Attat vebyn.

Atgas direid ddyn.

Atteb araf gann dysgedic.

Athro pawb yn i dy.

120. Athrodwaith o genvigen.

Avr gann bawb a chwenych.

Awchvs arf a eillio.

Awdur pob kerdd ai gwnel.

Awydd a dyrr i wddwf.

125. Awgrym pawb nis gwybydd.
A wahanodd knawd gwahanodd a dolvr.
A wnel mad mad a ddyly.
A wnel drwc aroed vn arall.
A wnel y mowrddrwc a wna y
mowr llw.
130. Awr ddrwc kaffaeliad ffalsswr.
A yfo gormodd bid veddw.

Balchder heb droed.

Bara ac ymenyn yw vn tamaid.
Bai ar y wrach dori y chlvn.

135. Be kaffai bawb a fynai ef
a vyddai gyvoethoc.

[t. 19]

Be kaffai bawb a fynnai ni byddai
hiraethus.
Bendith ir hwch a biav /r/ blonec.
Bellach bellach val chwedl y barkvd.
Bid gwastad gwraic ni charer.

140. Bid gwyw gwr heb vagwriaeth.
Bid trwc gwraic o vnych warth.
Bid ehvd drvd er chwerthin.
Bid Aha byddar.
Bid anwadal ehvd.
145. Bid nych kwyn klaf.
Blin yw bod yn flin.

Blawd yn i gist.

Blodai kynn mai gore na bai.

Blaengar ymadrodd ffol.

150. Brevddwyd gwraich wrth i wyllys.

Blith i god a gynvll.

Borav koch a mowredd gwraic.

Bonedd a dywys , dillad a gynnwys.

Bv gwell ir gwr aeth i hely ar

vanec noc ir gwr aeth ar sach.

[t. 20]

155. Brawd kymwvwnas I ddyridi

Bvan i barn pob Ehvd.

Bwrw ath vnllaw / kais ath ddwylaw.

Bwrw y gwddi ynol yr hwyaid.

Bwrw dwfr am benn gwr marw.

160. Bwrw hely yn y mor.

Bychan yw mam y gynnen.

Bychan yw mam y kenfil.

Byrr hoedloc digassoc saint.

Byddar a gaiff gyffelib.

165. **C**hware a mi ac na friw vi

kellwar ac na chwilyddia vi.

Chwarddedic bryd wrth a garer.

Chwarddiad dwfr dann Ia.

Chwannoc trwch I drin.

Chwannoc mab iw hynt.

170. Chwannoc adre a fo kynt.
Chwedyn rrvwvaeth gwaeth noc vn.
Chwedyl chweston.
Chwefrol a chwyth y neidr oi nyth.
Chwerthin a wna ynvyd yn boddi.

175. **D**adle gwedi barn.

Dadlav gwedi brawd.
Da ywr maen gidar evengil.
Da i gwna duw roi kyrn byrrion
ir vvwch a hwyllo.

[t. 21]

Da yw kof mab.

180. Dall pob anghyvarwydd.
Damwain pob hely.
Dangos diriaid I gwn.
Dangos ffordd I gyfarwydd.
Dav bryd newynoc a wna I trydydd yn lwth.

185. Dav parth klod ymhengloc.
Dav parth gwaith I ddechrev.
Dav parth ffordd I gwybod.
Dav parth ffydd ynghalon.
Dav parth pryd yn Russiad.

190. Dav parth parch yn arfer.
Dav parth bonedd ynysc /.
Dav parth dysc yw hyder.
Dav parth taith yw drwssio.

- Dav parth tref i harvere.
195. Dav parth kerdd i gwrando.
Dav parth Rrodd yw Ewyllys.
Dedwyd ar ai gwyl ai kar /.
Dedwydd dofydd a rydd rad iddo.
Defnyddfawr pob anghelvydd.
200. Dewis ar Iav ar vwyall.
Dewis ar ddav vach ddv hwch.
Di bech vywyd gwynn i vyd.
Di gystvdd davrvdd dagrav.
Digon o grwth a thelyn.
205. Digon yw digon o ffeigys.

[t. 22]

- Diglod pob anhowddgar.
Diffaith llyffant dan rew.
Diengid rry wann o lid rry gadarn.
Diriaid a gasgl ir dedwydd.
210. Dirmyker ni weler.
Diriaid a gabl i orav.
Disymwth vydd dryglaw amwyll.
Dled ar bawb i addaw.
Drwc vn drwc arall.
215. Drwc pawb oi wybod.
Drwc llys ni ater ond a wahodder.
Drwc y ffordd nid Eler iddi ond vnwaith.
Drwc yw drygwas gwaeth bod hebddo.
Drwc pechod oi hir ddilyn.
220. Drwc ywr drwc gwaeth ywr gwaethaf.

Drwc wrth drannoeth.

Drwc waith dwywaith I gwnair.

Drvd a ddeily doeth a ostwng.

Drych i ddyn I gydymddaith.

225. Drythyllwch drwc i ddichaen.

Drythill pob diriaid.

Dod ventic i noeth nis kai dranoeth.

Doeth dyn tra tawo.

Doeth a dwyllir deirgwaith ni thwyllir drvd ond vnwaith.

230. Dotiedic pob anghovvs.

Dogyn sydd ar bob peth.

Dolvrvs kalonn ofalfawr.

[t. 23]

Duw a byrth I vvsgrell.

Duw a farn / dyn a levair.

235. Duw a rannodd nef a gafodd.

Duw a rann yr annwyd val I rann y
dillad.

Duw kadarn a varn pob Iawn.

Dy gas ath erlyn.

Dygyn dyn o garchar.

240. Dykid duw da o law.

Dyker ni weler i rann.

Dyweddi o agos galanas o bell.

Dyryssvs y garthen.

Dysgv krafv i henfarch.

245. Dysgv Rrygyn i henfarch.

Da i gwedd y ber ir golwyth.

Da yw duw a hir yw byth.

Eang ywr byd i bawb.

Eddvned herwr hirnos.

250. Ef a ddaw haf ir ki koch.
Ef a ddaw Rhew i llyffant.
Ef aeth hynny ar gyrn a ffibav.
Ef a chwery mab noeth ac ni
chwery mab newynoc.
Ef a wyr dyn pann el ac ni
wyr pan ddel.

[t. 24]

255. Ef a wyr y gath pa farf a lyf.
Ef a vynnav /r/ gath gael y pysc
ac ni vynnav wlychv i throed.
Eiriach law ac nac eiriach droed.
Eiriol ni charer ni chyingain.
E las a gadd rrybydd ac ni las
ai kymerth.
260. Elid ysgybor gann ddrygdorth.
Elid y wrach ir frevan ar I genav.
Elid bryd yn ol breyddwyd.
Elid gwraic yn ol i henllip.
Elid Rryw Ar barth pann yw.
265. Elid llaw gann droed.
Enw heb senw.
Enwoc yn eichiad oi voch.

- Enwir difenwir i plant.
Ehegr vydd dryglaw i amwyll.
270. Esgyd drygddyn yn hy arall.
Esmwythaf dim yw methv.
Vo volir pawb wrth i waith.
Vo gaiff dyn ddysc oi vebyd hyd i
henaint.
Ffawd pawb yn i dal.
275. Ffol pob tlawd.

[t. 25]

- Ffordd bell i wr o benllyn.
Ffo Rhac dryctir ac na
ffo Rac dryc arglwydd.
Ffiaidd pob peth ni cherer.⁹
Gadel y nos waethaf yn ol.
280. Gair gwr o gastell.
Gair gwraic val gwynt yn gawadav.
Gelyn I ddyn I dda.
Gyllwng drygwr i ysgvbor gwrda.
Gochel dafarn ac na ochel Ildio.
285. Goddiweddid hwyr vvan.
Goval dyn duw ai gweryd.
Goganv r bwyd ai vwyta.
Golwg duw ar Adyn.
Gorav gann vy mam I lladd.
290. Gorav ywr gwarav tra atter.
Gorav henw mi piav.

⁹ Llsg. *cherer*; darll. *charer*.

Gorav gwrthineb gwrthineb pen etewyn.

Gormodd bw ar ebol.

Grawn kybydd a ys glwth.

295. Gwac ty heb vab.

Gwae A dro o glvn i glvn.

Gwae ni veddo beth i hvn.

[t. 26]

Gwae a vynn mefl er pechod.

Gwae a vo i vefl yn i vynwes.

300. Gwae a gawdd duw ac nis kred.

Gwae a wyl i arglwydd bevnvdd.

Gwae a wnel da i ddioc.

Gwae oferwr ynghynhayaf.

Gwae a gaffo drygair yn ifank.

305. Gwae Ievank a eddvno henaint.

Gwae wr a gaffo drygwraic.

Gwaethaf ir yd Rryfel teisban.

Gwaethaf ystor ysdor o verch.

Gwaethwaeth val mab gafr.

310. Gwas da a gaiff i le.

Gwatwar dydd am waith y nos.

Gwaith nos y dydd ai dengys.

Gwayw ynghalon gann hiraeth.

Gwala gweddw / gwraic vnben.

315. Gweddyl mab Iach.

Gweddw yw krefft heb i dawn.

Gweddw yw pwyll heb amynedd.

Gwelivs nid ti ddolvr.

Gweled tev beth o vn.

[t. 27]

320. Gwell aros no mefl gerdded.
Gwell am y pared a dedwydd
noc am y tan a diriaid.
Gwell ber galy wleb no hir galy sech.
Gwell bedd no bvchedd anghevol.
Gwell eidion gwerth noc vn prynn.
325. Gwell i ddyn y drwc a wyr nor
drwc nis gwyr.
Gwell I¹⁰ wraic y pyscodwr
noc I wraic y gwynvydwr.
Gwell gann hwyr no chann vorav.
Gwell gochel mefl no¹¹ ddial.
Gwell gwr a ddoeth ymhen y
flwyddyn no gwr ni ddoeth vyth.
330. Gwell gwae vi no gwae ni.
Gwell gwichio or kolvdd no
chochi or ddevrvdd.
Gwell gwegil y kar noc
wyneb yr estron.
Gwell gwr no gwyr.
Gwell hen ddled no hen alanas.
335. Gwell hir wedddod no drwc wra.
Gwell i tynn kont no Rhaff.
Gwell kar mewn llys noc avr ar vys.

¹⁰ y a oedd yma yn wreiddiol ond ysgrifennwyd *I* drosti.

¹¹ Disgwylid rhagenw yma ond nis ceir. Darll. *no'i*.

[t. 28]

Gwell kyngor hen no i vaeddv.

Gwell klwt no thwll.

340. Gwell koginiaeth no brenhiniaeth.

Gwell mab Ivank doeth no

brenhin hen ynvyd.

Gwell maen garw am atalio

nor maen llyfn am gollyngo.

Gwell marw no mynych ddifrod.

Gwell nac noc gav Addewid.

345. Gwell nerth dwywrach noc vn.

Gwell penloyn yn llaw no

hwyad yn yr awyr.

Gwell prenn no dyn kyhyddgar.

Gwell rrann ofn no rrann karv.

Gwell vn gair ymlaen no dav yn ol.

350. Gwell vn keidwad no dav ymlidiad.

Gwell vn hwde no dav di gai.

Gwell ychydic gann rad no llawer

gan afrad.

Gwell ynghyscod y peth¹² noc yn i le.

Gwell ymlaen yr Iyrchod noc yn

ol yr hyddod.

[t. 29]

355. Gwell y wialen a blyko nor

¹² *peth* oedd yma yn wreiddiol ond ysgrifennwyd *berth* drosto gan law wahanol.

honn a dorro.

Gwell yw dryc saer no dryc of.

Gwell yw drycssaer no drwc dailiwr.

Gwell yw r ki a rodio no r ki a eisteddo.

Gwell yw toliaw no hvriaw.

360. Gwell yw duw no drwc obaith.

Gwell yw duw yn gar no llv y ddayar.

Gwerthvawr pob odidoc.

Gwerthv kic twrch a ffrynnv kic hwch.

Gwlad i gymen yw pob gwlad.

365. Gwnevthvr devddrwc o vn.

Gwrthod gwahodd a dyfod I west.

Gyrr vab kai nac.

Gyrrv bran I geissio tir.

Gyrrv i kyn a gerddo.

370. **H**ael owain o bwrs y wlad.

Happ dduw ddewryn.

Hardd bob newydd.

Hael pob kolledic.

[t. 30]

Hanner y wledd hoffed yw.

375. Hawdd eiriol ar a garer.

Hawdd dangos diriaid i gwn.

Hawdd yf a wyl i wely.

Hawdd yw ofni ofnoc.

Hawdd yw digio dic.

380. Hawdd yw klwyfo klaf.
Hawdd yw dwedyd pymthec.
Hawdd yw tynnv kledd byrr oi wain.
Hawdd yw tynnv karai lydan o
groen vn arall.
Hawdd yw tynnv gwaed o grach.
385. Hawdd yw kymod lle bo kariad.
Hawdd yw kynnv tan yn lle tanllwyth.
Hawdd nawdd¹³ ynghysgod gorwydd.
Hawdd tyngnefeddv rrwng ffals
a chwannoc.
Hawdd peri i vingam wylo.
390. Haws dringo no disgin.
Haws dadlav o goed noc o gastell.
Haws doedyd mynydd no myned drosto.
Haws gan hwyr no chann vore.
Haws kav a bys noc a dwrn.

[t. 31]

395. Haws llosci ty no adeilad.
Haws twyllo maban no thwylo gwrachan.
Heb dduw heb ddim.
Hen bechod a wna kywilydd newydd.
Hen hwyr hawdd i orddiwes.
400. Hen hawdd i orvod.
Hevddv annerch yw karv.
Hir amod ni ddaw yn dda.
Hir eistedd i ogan.

¹³ Ychwanegwyd yr *dd* yn y gair hwn gan law wahanol.

- Hir sevyll i drwm.
405. Hir longwriaeth i vawdd.
Hir ledrad i groc.
Hir addewid i nac.
Hir nych i Angav.
Hir y bydd y march bach yn ebol.
410. Hir y bydd blewyn yn myned yn hin blaidd.
Hir y bydd yn deric ych drygwr.
Hir y bydd y mvd ymhorth y bychar.¹⁴
Hir y byddir yn knoi tamaid chwerw.
Hir y bydd chwerw hen alanas.
415. Hir y bydd i gybydd i gabl.

[t. 32]

- Hir weddwdod i vefl.
Hir winne gann ddiriaid.
Hir hvn vaelgwn yn rros.
Hir i hedav gwraic vvsgrrell.
420. Hir i gof ni vynych rydd.
Hir pob aros.
Hi a vedr droi y gath yn yr havl.
Hoff gan ynvyd i gnwpa.
Hoff gan bob edyn i lais.
425. Hoff gann Anghenoc i goelio.
Hoed y dyn ni chalyn y da.
Hwy yw klod no golvd.
Hwyr o ddial dial duw.
Hwyr y gellir dyn or diniawed dv.

¹⁴ Llsgr. *bychar*; darll. *byddar*.

430. Hv pawb ar i vabsant.
Hy pawb yn absen ofn.
Hy pob kostoc ar i domen i hvn.
Iach Rrydd Rryvedd pa gwyn.
Ir pant i rred y dwfr.

435. Iro blonhogen.
Iawn i bawb i gadw i hvn.

[t. 33]

Kadernach ywr edav yn gyfrodedd.

Kad malv kad i werth.
Kavas da ni chavas drwc.

440. Kaledach glew no maen.
Kalonn Sais wrth gymro.
Kam wrando a wna kam doedyd.
Kav heb gywydd.
Kais yn y mwlwc.

445. Kais varchoc da dan draed i varch.
Keissied pawb ddwfr iw long.
Keissio swllt yngwalfa blaidd.
Kared drwg chwaer kynn i charer.
Kared yr afr i mynn bid yn
ddv bid yn wynn.

450. Kas dyn yna kas duw fry.
Kassec kloff kloff I hebol.
Kas gweled a geissio.
Kas gwir ni charer.

Kariad a orchvyka pob peth.

455. Kas myharen mieri.

Kav r gorddian wedi myned y defaid
allan.

[t. 34]

Kav r stabl wedi dwyn y march.

Kav tin wedi bramv.

Kefailt blaidd bygail dioc.

460. Kelvydd keled I arvaeth.

Kell arglwydd yw y weilgi.

Kell havodwr yw I vvarth.

Kenad vvd drvd ai kred.

Kenav milgi a morwyn

ai mako ni chaiff i mwyn.

465. Keintiach wedi brawd.

Kerddodd a rwymodd.

Ki chwrnoc holoc i bais.

Kidar ki kerdd y gynffon.

Kimaint ar y werthyd ac ar y bellen.

470. Klwyr korn kyn ni weler.

Klvdo heli ir mor.

Knawd wedi traha trank hir

Knaifier gwedi praidd.

Knaif davad varw.

475. Kneven yngenav henwch.

Knawd o egin meithrin das.

Knawd aflwydd gann ddiriaid.

Knawd anaf ar ddiriaid.

[t. 35]

Knawd o benn trythill traha.

480. Knawd kyssvl dedwydd yn ddoeth.

Knawd digarad yn llys.

Knawd wedi traha tramgwydd

Knawd bvan o vain.

Knawd kryf o vras.

485. Knawd ffo o ffraeth.

Knawd aelwyd ddiffydd yn ddiffaith.

Koes yn lle morddwyd.

Kof a lithr llythr a geidw.

Kof gann bawb a gar.

490. Kofl gwas dioc.

Koffa dy din pann ddistrewych.

Kogor iar yn ydlan.

Kosb ar benn Iar.

Kosb y llew yw maeddv r arth.

495. Kosbi r arth yngwydd y llew.

Kos din tayoc ef a gach ith ddwrn

Kraffach nor Efail.

Krechwen yng Enav ynvyd.

Kol medd y fran pan gaffo ddigon.

500. Krwyn kyn moch moch a ddamwain.

Kadw yr nodwedd a cholli yr cwlltwr.¹⁵

[t. 36]

¹⁵ Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol.

Kryd ar hen angav ys dir.
Krynv val y vor wialen.
Kwlm anghenoc ar i geinioc.

505. Kwlm oedioc a ddettyd.
Kwypm y gwr yn y rrych.
Kwypm ar galedlawr.
Kyd boed ta nid morda.
Kyd vwyta a mab arglwydd ac
na chyd chware.

510. Kyd gwichio y venn hi a ddwc I llwyth.
Kydles iw¹⁶ bawb yw galw ychen.
Kyd keler nownos ni cheler nowmis.
Kyd ymddaith gan gi i losgwrn.
Kyfathrach i vwyta kenedl i ymladd.

515. Kyfareddion gwyrach waethwaeth.
Kyfoed vydd da a dedwydd.
Kyvoethoc i werthv a thlawd i brynnv.
Kynt Gwledd no nithior.¹⁷

[t. 37]

Kyfoethoc pob dedwydd.

520. Kyffes pob rrwydd.
Kynn ebrwydded ir a ir farchnad
kroen yr oen a chroen y ddafad.
Kynifer penn kynifer synwyr.
Kyngor yn ol.
Kynt y llysc yr odyd nor ysgybor.

¹⁶ Llsgr. *iw*; darll. *i*.

¹⁷ Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol.

525. Kynt y krupyl nor gwas.
Kynt meddwl¹⁸ no gweithred.
Kysgv val y pathew.
Kystadl yw r march ai varchwerth.
Kystadl kerdded ar draed a marchogaeth ffonn.

530. Kystadl hol a heilin.
Kywyr yn ing i gwelir.

Lleilai lymaid gayaf.

Lledled rydav.
Lladd y gwaed fal I bor troed.
535. Llavrivs¹⁹ llaw gywraint.
Llawen meichiad pann vo gwynt.
Llawer a ddyfynwyd ychydic a ddewisswyd.
Llawer am hawl vv n dylv.

[t. 38]

Llawer o weddill o veddwl chwannoc.
540. Llawer gwir drwc i ddywedyd.
Llawer tec drwc I ddefnydd.
Llawer hagar hygar vydd.
Llawer or dwfr a heibio heb wybod
ir melinydd.
Llaw mab yn llawes y dad.
545. Llaw lan ddiogel i pherchen.
Llaw liaws ar waith.
Llawn i bobî golwyth.

¹⁸ Llsg. *meddwl*; darll. *meddwl*.

¹⁹ Ysgrifennwyd *nid* o flaen y gair hwn gan law wahanol.

Lle bo y dolvr I bydd y llaw.

Lle da I bawb lle y karer.

550. Lles pawb pann veddyger.

Lleta vydd y bisswelyn oi ssathrv.

Llif yn afon hindda vydd.

Llonn golwyn ar arffed i veistres.

Llonn llygod lle ni bo r gath.

555. Llwm tir I poro dafad.

Llwm tir ni fforo dafad.

Llwfr lladd I gydymaith.

Llwyd pob hen.

Llwyd ywr farchnad.

560. Llygad duw ar y dyn

Llyma vydd y gwayw oi flaen.

[t. 39]

Llyma /r maes llymar ysgyfarnoc.

Mab heb ddysc ty a lysc.

Magv chwileryn mewn mynwes.

565. Mae achos ir byssen i vod ar y barth.

Mae gwehilion ir gwenith.

Maeddv y dyllvan wrth y maen.

Maen dros Iaen.

Mai oer a wna ysgybor gled.

570. Mal anghenoc heb geinioc.

Mal dall yn taflv ffonn.

Mal dryg fonheddic ai vaich.

Mal dyrnod penn.

Mal gwalch dros vin yr ellyn.

575. Mal kogail gwraic vvsgrrell.

Mal kof gwrach.

Mal llygoden dann balf y gath.

Mal llynn melin ar drai.

Mal llyffant dan ir oc.

580. Mal llyffant dan y maen.

Mal llwynoc am y sirian.

[t. 40]

Mal mynn magod.

Mal Rhaw ymisswail.

Mal Aderyn ar y gaink.

585. Mal y bydd y dyn y bydd y lwdwn.

Mal y ki ar hwch.

Mal y moch am y ffawydd.

Mal y pysc yn y dwfr.

Mal yr ab am i chenav.

590. Mal yr aran am i dwygoes.

Mal yr hwch dann y vwyall.

Mal y rrysc am y prenn.

Mal y Saeth or llynin.

Mal y tan ar aelod.

595. Mal y tan yn y karth.

Mam vechan A ddivanw plant.

March a Syrth oddiar i bedwar karn.

March A wyl yr yd ac ni wyl y kav.

Mawrhedic pendefic kastell.

600. Mawr yw toreth yr aflwydd.
Mawrth a ladd Ebrill a fling.
Mae Sawvr y kenin Ar y Cewill.²⁰

[t. 41]

Mefl ir koc ni lyvo i law.

Mefl ir llygoden vntwll.

605. Melvs gair da am a garer.
Melyssaf ywr kic pa nessaf ir asgwrn.
Melvs moes eto.
Melvs pann gaer /. chwerw pann daler.
Mi a gawn A vyddai gann vy mam /.
ac ni chawn ai dygai hi ir llan.

610. Mi a adwen Iwrch er nas goddiweddwyf.
Moes pob tud yn i dvd.
Moliant gwedy marw.
Moled pawb y rryd val i kaffo.
Mvrssen o wr fal o wraic.

615. Mwy nor bel dan yr hymoc.
Mwy nor afr er dangos I thin.
Mwy nor rregen yn i rrych.
Mwy noc y bydd da blaidd
ni bydd da moi isgel.²¹
Mwy noc vn ki am kyfarthodd.

620. Myned ar gogor ir afon.
Mynych heb raid bod ar wall.
Mynych I daw drwc vvgail.

²⁰ Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol.

²¹ Llsgr. *isgel*; darll. *isgell*.

[t. 42]

Na choll dy hen ffordd er dy ffordd

newydd.

Na ddeffro y ki sy /n/ kysgv.

625. Na ddos a gwr wrth y drych.

Na vid drygwraic dy gyfrin.

Na fram onith wthier.

Na vydd rry vwythvs lle galle²² dy hebkor.

Na vyny ch gvr lwfr.

630. Naill ai llwynoc ai llwyn rredyn.

Natur yr hwch a vydd yn y parchell

Na wrtho dy barch pann y kynykier.

Neges penndefic yn rrad.

Nessaf i baw²³ i nessaf.

635. Nes elin²⁴ noc arddwrn.

Nes ymi vynghrys nam pais.

Nes nes yw r llefain ir dref.

Ni ad anoeth i orvod.

Ni ain davfras yn vnsach.

640. Ni bv rygv na bai rrygas.

Ni bv arthur ond tra vv.

Ni bydd varw march er vnnos.

Ni bydd gwr wrth ddim.

Ni bydd hybarch rry gnefin.

²² Llsgr. *galle*; darll. *galler*.

²³ Llsgr. *baw*; darll. *bawb*.

²⁴ Ychwanegwyd *pen* gan law fân o flaen y gair hwn.

645. Ni bydd y dryw heb I lyw.

[t. 43]

Ni bydd ychenaid heb i deigr.

Ni bydd bvdd²⁵ o ychydic.

Ni bydd dialwr di ofn.

Ni bydd di vn dav gymro.

650. Ni bydd y gwann eb i gadarn.

Ni bydd mosogloc maen a vyny ch ysmuter.

Ni char bwch hesb lo.

Ni chaiff rry voddawc rry barch.

Ni chaiff²⁶ chwedl ni del oi dy.

655. Ni chair dewis gam yn ffo.

Ni chair gann y llwynoc ond i groen.

Ni chair o ddi obaith dduw.

Ni chair gwlan rrywyoc ar glvn gafr.

Ni chair y melvs heb y chwerw.

660. Ni chair bwyd tayoc yn rrad.

Ni chair afal per ar brenn ssvr.

Ni cheidw kymro oni gollo.

Ni chel grvdd gystudd kalonn.

Ni chred eiddic er a dekaer.

665. Ni chredir i moel oni weler emenydd.

Ni chliw wilkin beth nis mynn.

Ni chliw madyn I ddrygssawr i hvn.

[t. 44]

²⁵ Ysgrifennwyd heb ar ôl y gair hwn ac yna fe'i dilewyd. Ffrwyth copïo'r ddihareb flaenorol.

²⁶ Yn y llsg. ysgrifennwyd y gair hwn ddwywaith. Dilewyd yr ail enghraifft.

- Ni chrynn llaw er vab ddysc.
 Ni chwery kath dros I blwydd.
670. Ni chyll Iar i hirnos.
 Ni chwyn yr iar vod y gwłch²⁷ yn glaf
 Ni chwyn ki er y daraw ac asgwrn.
 Ni chwsc gofalvs ac ef a gwsc galarvs.
 Nid aeth rry ir i goed.
675. Nid a red a gaiff y bvdd.
 Nid a wyl dyn ai pyrth.
 Nid adwna duw dim a wnaeth.
 Nid a gwayw vngronnyn.
 Nid a kosb ar ynvyd.
680. Nid a vntrew na dav i angav.
 Nid a kynic arglwydd ir llawr.
 Nid chware a vo erchyll.
 Nid chware chware a than
 nac a dvr noc a hayarn.
 Nid da rry o ddim.
685. Nid drwc wr wrth ddrwc wraic.
 Nid drwc arglwydd namyn drwc was.
 Nid disswrth neb dioc.
 Nid edrychir dannedd march rrodd.
 Nid eglvr y drych yn y twyllwc.
690. Nid Gwell diriaid er kael²⁸
 Nid Gwaeth dedwvdd er kolli

[t.45]

²⁷ Llsg. *gwłch*; darll. *gwalch*.

²⁸ Ychwanegwyd y ddihareb hon a'r nesaf gan law wahanol.

Nid erchis bwyd ond y brofi.

Nid esmwyth ymgyflogi.

Nid gwell dim no digon.

695. Nid gwell gormodd no rry vychan.

Nid hawdd chwythv tan a blawd yngenav.

Nid hawdd blingo kallestr.

Nid hwyrach yn y varchnad

kroen ir oen no chroen y ddafad.

Nid Iangwr neb ar verwyn.

700. Nid kymaint bleddyn ai drwst.

Nid knefin kath a chebystr.

Nid kof gann yr offeiriad vod yn glochydd.

Nid kyfvn hvn a haint.

Nid kyweithas heb frawd.

705. Nid kywevthoc ond ai kymero.

Nid moel gwr yn aros gwallt.

Nid llavrvs llaw gowraint.

Nid llai gwerth mefl no ffawd.

Nid llai kyrch dyn i laith no gyfarwys.

710. Nid moessoc morwyn a gliw llef

keilioc y thad.

Nid mwy gwaith koc no chanv.

[t. 46]

Nid myned a ddel eilwaith.

Nid oes neb eb i vai.

Nid oes ar vffern ond eissiaf

I threfnv.

715. Nid kimin blethvn ai drwst.²⁹
Nid oes o ddim ond val i kymerer.
Nid proffwyd neb yn i wlad i hvn.
Nid rraid I ddedwydd ond i eni.
Nid rraid Roi kloch wrth vvrssen.
720. Nid Rraid dangos diriaid i gwn.
Nid Rrydda neb iw wasnaethv i hvn.
Nid twyll twyllo twyllwr.
Nid wrth i bic mae prynv kyffylloc.
Nid y borav mae kanmol dydd tec.
725. Nid amwys a wnel gwarth.
Nid yn vndydd ir adeilwyd rryfain.
Nid yn Iach ond a vo marw.
Nid ystyn llaw /. nis rrybych kalonn.
Ni ddaw drwc I vn ni ddel da i arall.
730. Ni ddawr kroessan pa gabyl.
Ni ddawr newynoc pa ys.
Ni ddawr pvtain pa gnvch.
Ni ddiolch angen i borthi.

[t. 47]

Ni ddyly drwc voly namyn drwc dvssw.

735. Ni ddygymydd medd a chybydd.
Ni ffell anrreg ir tlawd.
Ni ffis bonheddic I hvn.
Ni hynaf eiddigedd.
Ni hyna hawl er i hoedi.

740. Ni las kennad er moed.³⁰

²⁹ Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol.

Ni lvdd aniweirdeb ffawd.
Ni lvdd y parod i gymrvd.
Ni lwgwr y da ar y llall.
Ni lwyddodd ond a dramgwyddodd.

745. Ni lwydd gwenyn i geilioc.
Ni roed gwlad i vvd.
Ni thawdd dled er i haros.
Ni thyrr llestr er na bo llawn.
Ni thyrr penn er dywedyd yn dec

750. Ni vynno duw ni lwydd.
Ni vvtra dwylo er gnwvthvr
da iddo hvn.
Ni vynn drycwrach ddal i chwd.
Ni vynn y sant mor kaws.
Ni welais lam rrwydd i wic.

[t. 48]

755. Ni wna r mor waeth no boddi.
Ni wnel kyngor i vam gwnaed
gyngor i lysvam.
Ni wyl hawdd vod yn hawdd oni
el hawdd yn annhawdd.
Ni wybydir³¹ mwyniant y ffynnon
oni el yn hisbydd.
Ni wyr y ki llawn pa gyfarth
y ki gwac.

760. Ni wyr y porchell llawn pa wic

³⁰ Llsgr. *er moed*; darll. *erioed*.

³¹ Llsgr. *wybydir*; darll. *wybyddir*.

y parchell gwac.
Ni wyr ni wyl.
Ni wyr ir iair vod y gwalch yn glaf.
Ni wyr ir iar nessaf ir keilioc.
No drwc ddyn ys gwell ki da.

765. Nosswyl Iar gwae ai kar.

O bydd kell i gi mynych ir a iddi.

O bydd neb yn ol bid y bawaf.
O bob trwm trwma henaint.
O chaiff ir afr vyned ir eglwys hi
a ir allor.

770. O chyredd fry ni ddaw obry.
Odid archoll heb waed.
Odid o gant gydymddaith.

[t. 49]

Odid elw heb antur.
Odid da di wrafvn.
775. O down nyini a ddown.
O down ar xiiij ni ddown ar xv.
Offeren pawb yn i galon
Os gwr mawr kawr os gwr bychan korr.
Ond da i gwedd y ber ir kolwyth.

780. Oni heir ni vedir.
Oni byddi gryf bydd gyffrwys.³²
Oni chai geinin dwc fressych.

³² Llsgr. *gyffrwys*; darll. *gyfrwys*.

O myni vod yn Iyrchgi di neidi
yn well.

O hoenyn I hoenyn ir a r keffyll³³ yn
gwta.

785. Oer yw ysgell yr alanas.

Oed y dyn ni chalyn y da.

O lladd y gath lygoden I hvnan i bwytv.

O vn wreichionen I kyne tan mawr.

Odid tailiwr diwagsaw.

790. O Svl i svl ir a r vorwyn yn wrach.

O flewyn i flewyn ir a r penn yn voel.

O lymaid i lymaid i darvvr kawl.

O ddilin drwg vo ddaw mowr ddrwg

[t. 50]

Pann dywysso y naill ddall y llall illdav /

I digwyddant yn y pwll.

795. Pan dywysso yr hen deric I braidd ni

bydd yr ysgrvbl.³⁴

Pand gwaeth I dring y gath dori I hewinedd

Pann gaer myhi ni chair myha.

Pann roer yt borchell egor dy gwd.

Pann vor boly yn llawn i mynn yr

esgyrn orffwys.

800. Pawb a gnith kedor ynvyd.

Pawb ai chwedel kantho.

³³ Llsg. *keffyll*; darll. *keffyl*.

³⁴ Ni cheir diwedd y ddihareb hon yn y llsg.

Pawb a chwenych anrwydedd.
Pann el y lladron i ymliw³⁵ y kaiff
y kywiriaid i da.

Penn karw ar ysgyfarnoc.

805. Penn kil ar vorav gwanwyn.

Penn pvnt a lloswrn dime.

Pennsaer pob perchennoc.

Penrros pawb lle nis karer.

Perchi gwr er i vawed.

810. Petwn dewin ni vwydawn vvrigin.

Pilio wy kyn i rostio.

Pob enwir difenwir I blant.

[t. 51]

Pob dihareb gwir.

Pob koel kelwydd.

815. Pob gwlad yn i harver.

Pob kyffelib a ymgais.

Pob peth yn i amser.

Po vwyaf vo o ddevaid drvtaf vydd

y gwlan.

Po ddifnaf vor mor diogelaf vydd ir llong.

820. Po gorav vor chware gorav yw peidiaw.

Po hynaf vo dyn gwaethaf vydd i bwyll.

Po hynaf vor yd tebykaf vydd i vyd.

Po hynaf vo kymro ynvyttaf vydd.

Po kyvynga gan ddyn Ehenga gan dduw.

825. Po mwyaf vor brys mwyaf vydd y llestair.

³⁵ Ailadroddir yr *ym* ar ddechrau'r gair yn y llsg. Nis dilewyd ond gwall ydyw.

Po mwyaf vor difrod mwyaf vydd y gorvod.

Po mwyaf vor llanw mwyaf vydd y
traï.

Po tynnaf vor llynin kyntaf I tyrr.

Pwy bynac sydd heb wraic y mae
ef heb ymrysson.

830. Pyscota o flaen y rrwyd.

[t. 52]

Rrac bod y svl heb sv glo.

Raid i segvr beth iw wnevthvr.

Rraid yw kroppian kynn kerdded.

Rraid wrth amwyll pwyll barod.

835. Rrwng y ddwystol ir aeth y din i lawr.

Rrann ddrwc Rrann o drayan.

Rrann y gwas o gig yr Iar.

Rrannv Rrwng y boly ar kefn.

Rrannv r gwadyn val i bor troed.

840. Rrin tridyn kanyn ai klyw.

Rroi y karr o flaen y march.

Rrwydd pob peth ni bo dyrys.

Rry dynn a dyrr.

Rry lawn a gyll.

845. Rry vchel a syrth.

Rry gas Rry welir.

Rryw i vab ysgyrchlamv.

Rrythr mamaeth.

Rrodd ac adrodd Rhodd baghgen.³⁶

850. **S**ieffre piav r troed sieffre piav r vwyall.

Somi dyw a manach m rw.

Son am Awst wiliav y nydolic.

Swrth pob dioc.

Sikraf ywr hynn sikraf.

[t. 53]

855. **T**abler i lyvav.

Tafarn I chwedlav.

Tafod avr ymhenn dedwydd.

Tafl ath vnllaw kais ath ddwylaw.

Tair gwaith I dywaid mvr sen bendith dduw yn ty.

860. Tebic oedd korn bwch i garegl.

Tebic oedd kwd i gyfrwy.

Tec pob dianaf.

Tec pob hardd.

Tec pob peth ni bo gwrthwyneb.

865. Tra vor yd yn tyfy i bydd marw y march.

Tra vor ki yn kachv ir a yr ysgyfarnoc

ir koed.

Trech a gais noc a geidw.

Trech duw no drwc obaith.

Treigled maen hyd wastad.

³⁶ Llsgr. *baghen*; darll. *bachgen*.

870. Trist pob galarvs.
Troï o bobtv r berth.
Tario fal yr abad am y kwfent.
Toll vechan a wna toll vawr.
Tw varch benthic.
875. Tyst yw r chwedl ir englyn.

[t. 54]

- Vn pryd yr Iar yn ysgvbor.
Vn pryd y keilioc ar y twr gwenith.
Vnllaw ar dan kan llaw ar wlan.
Vnllawioc vydd mamaeth.
880. Vnwaith ir aeth yr arglwyddes i
nofio ar waith honno I boddes.

Waethwaeth val mab gafr.

- Waethwaeth vaensaer wellwell brensaer.
Waethwaeth ddeddfav hwyhwy ddyddiav.
Wellwell pob ffynedic.
885. Wythnos y llwynoc.

Ybendro wibwrn.

- Y bvdd a lvdd y lvdded.
Ychenaid gwraçh yn ol i hvwd.
Ychydic at ddoeth.
890. Ychydic laeth a hyny yn enwyn.
Ychydic yn aml / a wna llawer.

Y defnyn a dyll y garec nid o
gryfder ond o vyny ch syrthio.
Y drwc a wneler yn y nant a
dywynnyc yngwydd kant.

[t. 55]

Y diwaethaf a orddiwedder ar hwnw
i dialer.

895. Ydiw korn heb ysgyfarn.
Y vorwyn a atto i ffrovi hwyr I
daw iw ffriodi.
Y gwr yn keisio i gasec ai
gasec tano.
Y gwn a roed i gannwr ac nid /
ar gwn o dy /r/ gwr / .
Y lle r ymgreingnio r march I
gedy beth oi flew.
900. Ymgvddio ar gefn y gist.
Ymhob tir i megir glew.
Ymhob daioni mae gobrwy.
Ymhob drygioni mae pechod.
Ymhob dewis mae kyfyngdwr.
905. Ymhob kelfyddyd mae ffalster.
Ymhob rriith i daw angav.
Ymhob rryfel i mae goval.
Ymhob pechod mae ffolder.
Ymhob klwyf y mae perigl.
910. Ymhob dyn I mae enaid.

[t. 56]

Ymhob enaid mae deall.

Ymhob deall mae meddwl.³⁷

Ymhob meddwl mae naill ai drwc ai da/

Y mvd a ddywaid y gwir.

915. Y march a fram a ddwc y pwenn.

Y march a wich ys ef a ladd.

Y march a wyl yr yd ac ni wyl y kae.

Ymrysson ar gof yn i efail.

Ymrysson a doeth ti a vyddi doethach.

920. Ymrysson a ffwl ti a vyddi ffolach.

Y naill wenwyn a ladd y llall.

Y neb a fo march ar i helw a gaiff /

benthic march.

Y neb a vo marw er bwgwth a baw

i kvmvner ef.

Y neb ai rry vostio i hvn a baw i /

koroner.

925. Ynvyd a gabl i wrthban.

Yn keissio r blewyn glas i boddes y gasec.

Yn y kroen i ganer y ki i bydd marw.

Y kar kywir yn ing i gwelir.

Y ki a vynner i ladd a ddywedir i

vod yn gyndeirioc.

[t. 57]

930. Y ki a vynner y grogi a ddywedir i vod

³⁷ Llsg. *meddwl*; darll. *meddwl*.

yn lladd defaid.

Y kyn a el a orddir.

Y kyntaf ai klybv dan i din i darfv.

Y kyntaf i oc kyntaf i gryman.

Y kynta a ddel ir velin o farn pawb
y vwrw yn y pin.

935. Y parchell a vo byw bydded mav.

Yr afr ddv a las.

Yr hai a laddawdd yr hwch.

Yr hwch a dav a vwytv r soec.

Yr oen yn dysgv ir ddafad bori.

940. Yr vn asgwrn ai tal.

Ys dir drwc rrac drwc arall.

Ys ef a ladd a gyhydd.³⁸

Ysgafn llwyth a glvd koed.

Ysgafn i doeth ysgafn ir aeth.

945. Ysglodvn gwern ymhenn y gath.

Ys gwell y llysc y dav bentewyn noc vn.

Ys marw a vo di obaith.

Ys dir nithio ni bo pvr.

Ys drwc a dec ewin ni ffortho vn gelvin.

950. Ysbys i dengys pob dyn o ba radd /

i bo i wreiddyn.

Y tra chwant a wna yr tra cholled³⁹

[t. 58]

Llyma dervyn y diarhebion ac

³⁸ Ceir v fechan uwchben yr ail y yn y gair hwn yn y llsg.

³⁹ Ychwanegwyd y ddihareb hon gan law wahanol.

yn nessaf ar ol hynn y pedair
kamp ar hvgain ar achos I
gwnaethbwyd hwynt.

Nodiadau A

1 **ys** Pres. myn. amhers. ‘bod’ (GMW §147).

dir Ynghyd â’r ystyron ‘sigr, gwir, gwirioneddol, sigr (o ddod), a ragluniaethwyd (i ddigwydd), angenrheidiol, anochel’ yn GPC, a’u cyffelyb yn GBGG, dyry GPC iddo’r ystyr ‘aruthr’ (cf. ‘Ys dinam a was, ys dir – y hepkor’, CBT, VI.33.21). Gwell, serch hynny, yw ‘sigr’ yma.

Ceir fersiwn arall o’r ddihareb ym *Mreuddwyd Rhonabwy*:

Ac yna y dywawt Owein wrth y mackwy, “Dos ragot, ac yn lle y gwelych y vrwydyr galettaf dyrchaf yr ystondard y vynydd. Ac a vynno Duw, derffit”.

(BRh, 14.20-23)

Y fersiwn hwn a geir yn y gyfres englynion ‘Marwnad Cynddylan’ yng nghanu Heledd:

Vn prenn ygwyydvit a gouit arnaw,

O dieinc ys odit.

Ac a uynno Duw derffit

(CLIH, XI.2; EWSP, 429)

Trafodir y ffurf *derffid* a’r ddihareb gan T. J. Morgan (1931, 30-31) a chyfeiria at y darn a ganlyn o Lyfr yr Ancr, sy’n cyfleu syniad y cyfnod ynglŷn ag ewyllys Duw:

Ef a welir pot yn dir dyuot pob peth or ny damweinassant erioet. Am agkenreit. Deu ry6 agkenreit yssyd. vn annyana6l megys kyuodi yr heul nny d6yrein neu dyuot y nos yn ol y dyd. Ac arall e6yllyssa6l.

megys kerdet o dyn nev eisted. Ar hynn a vynnho du6 y vot megys nef
a dayar ny ellir gochel na del hynny. Namyn angkenreit o bot
(LIA, 33)

Awgryma Morgan mai ffurfiau diweddar ar y ddihareb yw'r rhai
ac ynddynt *ys dir ac a vyd dir* gan i'r hen ffurf gorch. 3 un. *derffid*,
sy'n mynegi'r anocheladwy yn hytrach na gorchymyn 'fynd yn hen
a thywyll'. Anghywir, felly, yw cyfieithiad 'llythrennol' John
Morris-Jones, *what God will let it come to pass* (WG, 351), ac y
mae cyfieithiad Henry Lewis, *what God will comes to pass*, yn nes
ati (HGCr, 221; sylwer, fodd bynnag, ei fod yn methu wrth honni
mai berf pres. 3 un. yw *derffid*). Gw. yn ogystal nodyn Ifor
Williams ar *diryaw* (1923, 10). Fersiwn A a geir yn 'Gossymdeith
Llefoet Wynebclawr' (RBP, 1056.40). Yn naturiol ddigon, y mae'r
syniad hwn yn gyffredin yng nghanu crefyddol a marwnadol y
beirdd; cf. 'A ryvynno dyn, ryderperir, / 6rth a vynno Du6, dim ny
ellir' (CBT, VI.33.3-4). Mynegir yr unrhyw syniad yn Chwedl
Geraint: 'Ny ellir dim,' heb y Gereint, 'vrth a uynho Dyw.'
(Gereint, 49.1328-9).

- 2 **Achub maes** Tebygaf mai 'maes brwydr' yw ystyr *maes* yma a
byddai hynny'n gweddu i'r ystyron a roir i *achub* yn GPC. Cf.
maes yn yr ystyr hwn ar ddechrau'r englynion cyntaf yn
'Englynion marwnad Madog ap Maredudd' gan Cynddelw (CBT,
III.8) ac, ymhellach, ystyrier llinellau Lewis Glyn Cothi, 'A
chynneddf Wiliam, mewn ystamin, / achub y meysydd oddi ar
wychion' (GLGC, 112.93-4) a'r ymadrodd tebyg, 'mynd â'r maes',
a ddefnyddir gan Ellis Wynne:

a'r Prydydd aethei â'r maes ar bawb ond yr Offeiriad

Trafodir *achub* (o'r Lladin *occupo*) gan Ifor Williams (1945, 59; BWP, 108) ond sylwer fod peth anghytuno yn ddiweddar ynghylch tarddiad y gair (EGOW, 2). Yr ystyr yma yw 'cymryd meddiant'.

Ceir y nodyn 'yn colli oll wrth geishio câl rhagor' gan law ddiweddar wrth ochr y ddihareb hon yn y llawysgrif ond dangosir gwir ergyd y ddihareb mewn cywydd i ferch gan Ieuan ap Llywelyn Fychan: 'Bûm syml 'n achub maes amlwg / Mawr uwch y dref â march drwg' (GILIF, 2.11-2). Trech yw amgylchiadau na dymuniad y bardd ac y mae'n ceisio'r amhosibl.

- 3 **Atuei** Amh. 3 un. *adwyf: adfod*, 'digwydd, bod' (GPC). Rhoir ystyron eraill, rhai ohonynt yn betrus, yn GPC² ond 'digwydd' a wedda orau yma. Fe'i nodir ymysg berfau cyfansawdd 'bod' yn GMW §150 a rhestrir mynych enghreifftiau yn GBGG.
- aey** Amh. 3 un. 'myned'. Enghraifft ddiweddar o lafariad a deusain heb eu cywasgu. Digwydd sawl cyfuniad o'r math hwn mewn Cymraeg Canol (GMW §7).
- 4 Cyfeiria Fergus Kelly at sachaid hanfodol o halen a grybwyllir yng nghyfreithiau Iwerddon: *Legal and other texts include a sack of salt among the three essential sacks in a prosperous household* (1997, 340-1). Sachaid o wenith i wneud bara a sachaid o haidd i wneud cwrw oedd y ddau arall. Ni welais gyfeiriad tebyg yn y cyfreithiau Cymreig. Cedwid cŵn gwarchod a chyfeirir atynt yn y llyfrau cyfraith, (gw., er enghraifft, 'ki kallawed', Bleg. 54.5). Efallai fod yma gyfeiriad at chwedl goll megis chwedl y ci yn y preseb (Aesop, chwedl 163). Os felly, cf. y ddihareb gydwladol, *Le*

chien qui se gist sus le tas de fain auquel, s'è autrui met la main, il abaie et brait et crie, com(bien) qu'il n'en menguce mie (MFPSPP, C152); *The Hound in the manger* (PSPP, H565). Rhestrir enghreifftiau pellach o'r ddihareb gydwladol yn SM (III, 98).

- 5 **dos ganta**6 Gorch. 2 un. 'myned' yw *dos* (sylwer, fodd bynnag, y geill *dos* olygu 'tyrd' megis yn yr ymadrodd 'Dos yma', Owein 15.381; gw. GMW §143 ac ymhellach CCCG §491). Nodir y cyfuniad o'r ferf *mynd* + yr arddodiad *gan* yn GPC a chynigir yr ystyr *to accompany* (cf. yr ymadrodd 'cysgu gan' yn y frawddeg 'Y wreic uwyaf a garaf yd wyt yn kyscu heno genthi', PKM, 14).

Ceir ffurf arall ar y ddihareb hon ym Mrut y Tywysogion lle yr adroddir hanes yr ymladd rhwng Rhain, yr ymhonnwr o Wyddel, a gwŷr Gwynedd:

Ac ynteu yn hy diofyn a gyrchawd y vrwydyr; a gwedy gweithaw y vrwydyr a gwneuthur kyffredin aerua o pop tu, a gwastat ymlad drwy lewder o'r Gwyndyt, yna y goruuwyt Rein Yscot a'e lu. A herwyd y dywedir yn y diaereb – 'Anoc dy gi ac nac erlit' – ef a gyrchawd yn lew ehofyn ac a gillawd yn waratwydus o lwynogawl defawt
(Brut Tyw., 20-22)

Ymddengys fod Rhain, a fu'n teyrnasu dros Ddeheubarth am gyfnod byr ddechrau'r unfed ganrif ar ddeg (gw. Lloyd, 1912, 347), wedi cyrchu'r gelyn yn ddewr i ddechrau er mwyn annog ei wŷr ac yna wedi cilio. Cyfeiria Thomas Jones at y ddihareb yn llsgr. Peniarth 17 a chynigia'r cyfieithiad *Urge on thy dog, but run not with him* (Brut Tyw., 281).

6 **Adneu** ‘Yr hyn a ymddiriedir i ofal rhywun neu a osodir yn rhywle diogel’ (GPC) ond hefyd ‘ysglyfaeth’ (GBGG, *adneu* (2)). Gall olygu ‘cynhwysfan’ neu ‘loches’, cf. ‘atneu daeara6l’ (CBT I.22.22), ac y mae’n derm cyfreithiol, cf. ‘Os keitwat a gyll adneu heb golli y da ehunan, ef a tal y collet oll, o gyfreith’ (Bleg., 46; gw. enghreifftiau eraill yn GMWL, 6).

Diau mai trosiad yn cyfleu roi peth i’w gadw i rywun anniogel sydd yma. Y mae cystrawen enidol bob amser yn bosibl pan fo dau enw yn dilyn ei gilydd (Morris-Jones, 1931, 160-1). Mi fyddai’r gath yn sicr o ysu’r dernyn cig. Edrydd *exemplum* gan Jaques De Vitry hanes ynfyty yn rhoi cath i warchod cosyn a hithau’n ei fwyta (Crane, 1973, 4). Dyma fotif llên gwerin J2103.1, chwedl am ffermwr sy’n rhoi cath i warchod cosyn rhag pla o lygod a hithau’n bwyta’r llygod a’r cosyn (MIFL, IV.178). Cadarnheir y dehongliad hwn gan nodyn John Davies ar y ddihareb: *De malè locato deposito* (Brog.).

7 **Ar** Rhagenw dangosol. Dywedir yn GMW §75 ei fod yn gyfystyr ag ‘yr hwn’. Cf. ‘Ac ar nys mynno bit yn erbyn Arthur’ (BR, 21.3-4).

8 **Ada6** Ynghyd â bod yn enw (‘addewid’) gall *addaw* fod yn ferfenw ac, oherwydd mai’r bôn sy’n ffurfio’r berfenw (GMW §178), cyfetyb o ran ffurf i’r pres. myn. 3 un. a’r gorch. 2 un. **maen** Digwydd yn gyffredin yn ffigurol am arweinydd cadarn neu’n symbol o rym ac awdurdod. Gw. A660.

Sylwer fod trefn y ddihareb hon yn wahanol yn B2. Cynigir y cyfieithiad petrus *the son’s promise is the lord’s promise* gan

Timothy Lewis ond cyfeddyf fod *several proverbs where Maen = 'a lord' or 'man of power' but their form shew that they were used when no longer understood* (GMWL, 212).

- 9 **ar y eidaw** Olrheindir datblygiad *eiddo* o ragenw meddiannol i enw yn GPC (gw. yn ogystal GMW §57). Ym Mheniarth 17 cymal perthynol a geir, 'ar a uedho'.

Mae naws gyfreithiol i'r ddihareb hon ond ni cheir mohoni yn y llyfrau cyfraith. Tebycach mai fersiwn o ddihareb gydwladol sydd yma. Trafodir diarhebion tebyg gan Taylor (1985, 90).

- 10 Dihareb gydwladol, cf. *Qui ne done que aime ne prent que desirre* (Mor., 2023); *He that Gives not what he loves has not what he desires* (PSPP, G96); *Ni quod amas dederis, non sumes quae tibi quaeris* (LSSM, N61); *Non feret optatam, qui rem non donat amatam* (LSSM, N180); *Qui non dat, quod amat, non accipit ille, quod optat* (LSSM, Q105). Gw. ymhellach SM (II, 23).

- 11 **gyff** *Cyff*, 'bon, boncyff'. Bachigyn o *cyff* yw *kiffill* yn y feriw'n o'r ddihareb hon a geir ym Mheniarth 17 (Williams, 1926, 28).

Dyma'r elfen gyntaf yn yr enw *Cyffylliog* a digwydd *ciphillion* yn los ar *surculis* (EL, 36; EGOW, 31). Digwydd *cyffyll* hefyd yn yr ymadrodd gyfreithiol *kyuarch kyffell* (Dam. Col., 80).

Onid yw'r ddraenen flaenllym yn gwanu (h.y. 'brathu', 'pigo') nid oes obaith iddi wanu wedi tyfu'n *gyff* neu foncyff. A ellir cymharu'r ddihareb hon â'r ddihareb Saesneg *It is soon sharp that will be a Thorn (varied)* (PSPP, T222)?

12 **laetha** Cynigir sawl ystyr i *llaetha* yn GPC a byddai tri ohonynt yn synhwyrol yma - ‘Rhoi neu gynhyrchu llaeth; bwydo â llaeth; casglu neu gardota llaeth’. Yr olaf, dybiaf i, sy’n gweddu orau yng nghyd-destun y ddihareb hon. Cf. y dosbarth o eiriau â’r ôl-ddodiad **-ha** sydd ag ystyron tebyg megis ‘yta’, ‘pysgota’, ‘defeitia’, ‘cymhortha [defaid]’, y cwbl yn cyfleu’r syniad o geisio neu gasglu (WG, 383).

13 **iwt** *Uwd*. Ar y newid sain gw. WG §37. Ceir y ffurf *iwd* mewn meddyginiaeth yn nhestun y Llyfr Coch o Feddygon Myddfai: ‘Kymryt g6er dauat a bla6t keirch a deil ffiol y ffrud ar diwythyl yny v6ynt i6t’ (Diverres, 1913, 52). Digwydd hefyd yn y cyfansoddair *iwdbren* (GPB, 9.9).

Dihareb gydwladol y ceir enghraifft ohoni mewn casgliad o ddiarhebion Hen Ffrangeg ynghyd â chyfieithiad Lladin: *Qui plenté a deu miel en sa pois le met* (Mor. 2076). Trafodir y ddihareb gan Morawski (1924, 512) a nodar cyfieithiad Lladin *Pultibus infunde mel, si tibi sit mel habunde*. Dangosodd Morawski fod *pois* yn y ddihareb hon yn cyfateb i’r gair Lladin *puls*, math ar uwd. Trafodir diarhebion tebyg yn SM (II, 90)

15 **Atwen** Pres. 3 un. ‘adnabod’.

lla6ch Pres. 3 un. ‘llochi’. Mae amrediad semantig y gair yn eang – o anwesu i amddiffyn (gw. GPC ynghyd â’r nodyn ar y gair yn CBT, VII, 189). Ceir ‘detwyd pawb wrth a’e llocho’ yn ‘Ymatreg Llywelyn a Gwrnerth’ (BBGCC, 32.5b). Cyfieithir y fersiwn llawnach o’r ddihareb a geir yn B38 gan John Davies yn *Nexit paruulus demulcentem, non nouit amantem* (yn DD o dan *llawch*) a chesglir felly mai ‘anwesu’ (*demulceo*) yw ystyr llochi yma.

Y mae bachgen yn adnabod yr un sy'n ei ddandwn ond nid adwaen yr un a'i cerydda o gariad. Ceir y ddihareb yn yr englynion ymddiddan rhwng Melwas a Gwenhwyfar: 'ef a edwyn mab ai lloch', (Jones, 1936, 207).

- 16 **yn rydega6c** O ystyried ffurfiau'r ddihareb hon mewn ieithoedd eraill ymddengys yr ymadrodd adferfol 'yn rhedegog' yn ddieithr. Disgwylid berfenw, a hynny a geir yn C86 a C87. Fel y'i ceir yn y testun, ystyr y ddihareb yw 'y mae angen yn dysgu'r hen yn gyflym'.

Dihareb gydwladol, cf. *Besoing fait vielle troter* (Mor., 236; gw. yn ogystal MFPSPP, B51); *Need makes (a, the) old wife run (trot)* (PSPP, N54); *Anxietas veterem trotare facit mulierem* (LSSM A98); *Die not macht auch ein alt weib traben* (SM ii, 12).

- 17 **Agheu** 'Aghen' yn wir a geir ym Mheniarth 17 (Gw. sylw Henry Lewis, 1927, 11) ond *agheu* sydd yn nhestun y Llyfr Coch a cheir gwell synnwyr felly.

dyfurys Pres. 3 un. 'dyfrysio'. Cf. llinellau Gwalchmai: *Lleas teyrnet! Llia6s dyurydet / A'm dyurys eu treghi* (CBT, I.10.31-2).

- 18 **Asg6rn** Rhoir yr ystyron 'Asgwrn cefn, grym, nerth' yn GPC. Cf. 'kaletach 6rth elyn noc asc6rn', (LIT, 69.21).

aghenn 'Brwydr'. Arferir *rhaid* yn yr un modd, cf. 'gosgord vynydawc enwawc en reit' (CA, XXXI.355). Yn ôl Ifor Williams digwydd *rhaid* 'yn fwy cyffredinol am galedi' (CA, 164).

Ymddengys mai epithet yw'r ddihareb hon. Caffaeliad yn amgylchiadau dyrys 'angen' yw gŵr profiadol wedi c'ledu. Disgrifio'r cyfryw ŵr a wna'r ddihareb, megis yn yr enghreifftiau a ganlyn o waith y cywyddwyr: 'Ystryd o henfeistr ydoedd; / asgwrn hen yn angen oedd' (GLM, XII.29-30); 'Ysgithredd baedd disgethrin, / Asgwrn hen yn angen in' (GIG, 2.59-60).

19 **Ard** Gorch. 2 un. 'aredig'.

bych Dib. 2 un. 'bod' (berf yn y modd dibynnol sy'n dilyn *kyd* fel arfer, gw. GMW §262).

kyt ... kynny Er ... er na. Ymdrinnir â'r ffurfiau hyn yn WG (446-7).

Dylid aredig ni waeth beth a ddaw. Byrdwn y ddihareb, yn ôl Ifor Williams, yw y dylai dyn wneud ei ddyletswydd, 'ni waeth pa fudd a gaiff ei hun' (1926, 29).

20 **y lys** Gellid llys brenhinol neu lys cyfreithiol (GPC) ond y mae darlleniad B40, yr *dadleu*, yn cadarnhau mai'r ail sydd fwyaf tebygol.

Gwaith y drysor oedd 'arweyn negesseu a dywetter vrthav o'r porth hyt e neuad neu hyt en lle arall e bo e brenhyn' (Ior. §19) ond diau mai 'achos' neu 'fusnes' yw ystyr *neges* yng nghyd-destun y ddihareb hon. Mae iddi flas cyfreithiol, 'mynd i lys barn heb achos' efallai. Ceir darn yn y Catwn am fyned i gyngor heb dderbyn gwŷs a geill fod cyswllt rhyngddo a'r ddihareb hon:

Na dyret ar gynghor onyth ellwir: kystal yw hynny ac erchi ytt: y lle y gwelych gymryt kynghor nat elych attaw. kanys o byd da dy dyuot ef

ath elwir idaw. ac o deuyy hep y erchi o byd drwc dy dyuot ef ath yrrir
ymeith a chewilyd mawr vyd hynny.
(Catwn, 26).

Os felly, cf. *Come not to Council but if you are cleped (called)*
(varied) (PSPP, C447). Rhaid addef, fodd bynnag, nad yw union
ergyd y ddihareb yn eglur.

- 21 **kymuner** Gorch. amhers. *cymynnu*, ‘cyflwyno’ (GPC).
mar6 yr byg6th Y mae amryw ystyron i’r arddodiad ‘yr’ (gw.
GMW §246). ‘Oherwydd’ yw’r ystyr a wedda orau yma. Ni ellir
anwybyddu’r ystyr ‘heb fod o dan ddylanwad rbth.’ sydd i’r
cyfuniad *marw* + yr arddodiad *i*. Er bod y cyfuniad hwn yn bosib
yma (h.y. ‘i’r bygwth’), ni cheir enghraifft ohono yn GPC sy’n
gynharach na Testament 1567.
- 22 **da** Fel enw ‘eiddo, cyfoeth, gwartheg’ (GBGG) ond hefyd
‘llawnder neu ddigonedd o bethau’r byd’ (GPC).
- Bwyty’r meibion lawer, a hwythau ar eu prifant ac o ganlyniad ni
fydd dim yn weddill i’w tad.
- 24 **ysgynno** ‘Ymddyrchafu’ neu ‘ddringo’ cf. ‘kynnedyf y ewein
esgynnv ar ystre’ (CA LXXII.892). Gair benthyc ydyw o’r Lladin
ascendo (EL, 2). Dichon mai mynd ar gefn march a feddylir ond
tebycach mai ystyr mwy cyffredinol sydd i’r gair yma.
syrr Ym Mheniarth 17 ceir *syrrh* a diau mai hynny sydd gywir.

25 **c6r6f** Cwrw. Dengys y ffurf *c6r6f* fod yr y aneglur a geid yn y gair wedi troi'n *w* cyn colli'r *f* (*kwryf* a geir yn P 17, er enghraifft; gw. ChO, 36; LHEB, 414).

hidler Roedd hidlo'n rhan o'r broses fragu; 'hoedyl vyrryon medwon uch med hidleit', h.y. medd wedi ei hidlo, meddai Aneirin (CA, 14.354). 'Gan y meddydd,' meddai Marged Haycock, 'y byddai'r dasg anodd o wneud medd da a'i hidlo'n drwyadl fel nad achosai'r gwaddod ben tost i'r yfwyr drannoeth y wledd' (1996, 39). Sylwer, fodd bynnag y gall hidlo olygu 'arllwys' yn syml, cf. 'y tharaw a'r frowyll a oed yn y law ar draws y hwyneb a'y llygeit yny uyd y gwaet yn hidleit' (Gereint, 5.136-8); hynny yw, yr oedd y gwaed yn llifo. Dyna'r ystyr hefyd yn yr ymadrodd 'wylo'n hidl'.

26 **y 6rth** Yr ystyr yma yw 'oddi wrth'. Ar ddefnyddio y *wrth* i gyfleu 'ysgariad neu wahaniad' gw. sylwadau J. E. Caerwyn Williams (1948, 9).

Trafodir lledaeniad y ddihareb gydwladol hon gan Taylor (1985, 20-1). Fe'i ceir yn holl brif ieithoedd Ewrop ac y mae sawl amrywiad arni. Noda Taylor enghraifft ddiweddar (dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg) o'r Almaen: *Quo Romae propiores, tanto christiani tepidiores*, dihareb ac arni flas y Diwygiad Protestannaidd. Ceir fersiwn Saesneg ynghyd â chyfieithiad Lladin mewn llyfr ysgol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg sy'n cynnwys casgliad o ddiarhebion: *The nerer the chyrch the further fro God / Quanto propinquior vir sit ecclesie tanto remotiorus deo* (Whiting, 1965, 277). Cf. *Qui est prés de l'eglise si est loing de Dieu* (Mor. 1930; gw. yn ogystal MFPSPP, E21); *The nearer the Church the farther from God* (PSPP C251).

Mae'r agwedd wrthglerigol a fynegir gan y ddihareb hon yn amlwg iawn yn rhai o gyfansoddiadau llenyddol yr oesau canol. Canai'r Goliardiaid, y *clerici vagantes*, ddychangerddi gwrthglerigol (Foulton, 1989, 32-3) ac anelid y dychan gan amlaf at y rheini a gynrychiolai'r cyswllt agosaf rhwng yr eglwys a'r 'sefydliad': y Pab, yr esgob a'r mynach (Le Goff, 2000, 35-6). Y mynegiant amlycaf o'r feirniadaeth hon yn y Gymraeg yw cerddi 'gwrthglerigol' Dafydd ap Gwilym (gw. yn neilltuol GDG 136, 137, 138, ac ymdriniaeth Foulton, 1989, 188-97). Mae'r *fabliaux*, hwythau, yn llawn cyfeiriadau dychanol at wŷr yr eglwys, ond ni ddylid ffurfio casgliadau'n rhy fyrbwyll ynglŷn a chasineb gwirioneddol tuag at offeiriaid yn gyffredinol. Da y dywaid Philippe Ménard am y *fabliaux*:

Le motif du prêtre paillard s'étale partout. Mais il ne faut pas demander aux auteurs de fabliaux de nous donner ce qu'ils n'ont jamais songé à faire. <<Le prêtre vertueux n'est pas un personnage de fabliau>>

(Ménard, 1983, 122)

Yn yr un modd, ni fyddai offeiriad duwiol yn destun dihareb hynod.

27 **arhoet** Gorch. 3 un. 'aros'.
y llall 'Y nesaf'

Yn englynion marwnad Llywelyn ap Gwilym, sy'n hynod oherwydd yr eirfa gyfreithiol a ddefnyddir ynddynt (dangosodd Sara Elin Roberts hyn mewn papur yng Nghyngres Geltaidd 2003), dyfynnir y ddihareb hon ynghyd â'r ddihareb 'a laddo a leddir', na

cheir moni yn y casgliadau cynnar (sylwer, fodd bynnag, mai'r un patrwm sydd i'r ddihareb honno â dihareb A53 isod):

Dihareb yw hon, dywirir – ym mro:-

A laddo a leddir :

Diben o hyn a dybir,

Dibaid gwae, a Duw, boed gwir.

A wnêl argae, gwae a gwall – i'r deau,

A gaiff dial cuall;

A wnêl drwg o dreigl angall

A llaw, arhöed y llall.

(GDG, 13.97-104)

Serch bod naws gyfreithiol i'r ddihareb yng nghyd-destun yr englynion hyn, ni cheir mohoni yn y llyfrau cyfraith. Fe'i ceir, fodd bynnag, yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, 'Gŵr a wnêl drwg i arall / wedy lladd arhoed y llall' (GLGC, 21.13-4), a cheir adlais ohoni mewn cywydd crefyddol o eiddo Gwerful Mechain, 'A wnêl drwg heb ei ddiwgiaw / Yn ddraig o dân i ddrwg y daw' (GGM, 2.47-8). Digwydd hefyd yng nghywydd Dafydd Llwyd o Fathafarn 'I'r Brenin Richard a ddistrywiodd ei ddau nai, meibion Brenin Edward': 'Drwg a wnaeth a drig yn wall / Draw, ac aros drwg arall' (GDLI, 25.55-6). Fe'i ceir yn ogystal yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit, 52c).

- 28 **malen** Haera T. Gwynn Jones (GTA, 560) mai o 'Milan, am wneuthur arfau dur yno,' y daw 'malen'. Nid cywir mo hyn. 'Drwg' yw ystyr *malen* yn ôl GPC a benthyciad ydyw o'r Lladin *malignus*, cf. y llinell 'Yn ll6gyr llu malaen maledicti' (CBT,

I.33.8). Gw. hefyd EL, 42 lle y cyfeirir at ymdriniaeth Ifor Williams â'r gair (CLIH, 191).

Awgrymir ergyd y ddihareb yn y llinellau hyn o gywydd dychan Dafydd Llwyd i Lywelyn ap Gutun Delynor: 'Da a geir, rho Duw i gyd, / Heb ei ennill mae'n benyd. / A gasgal am farch malen / Ni thy' mwy na gwenith hen' (GDLI, 69.21-4). Yr ystyr yw na ddaw dim lles o enillion drwg. Cyffelyb yw'r ergyd yn y llinellau hyn: 'A wnelo gam ac amarch / Mal un fodd â malen farch, / Dan ei dor, doniau dirwydd, / Dyna lwyth, medd Duw, ni lwydd' (GEP, lxxxv.75-8). Mae'r syniad hwn yn gyffredin mewn diarhebion, cf. *Jamais mal acquêt (bien mal aquis) ne prouffite* (MFPSPP, A24); *Mal acquis, mal départira* (MFPSPP, A27); *Goods falsely gotten seldom come to good end (never prove well)* (PSPP, G336). Geill fod yma ddylanwad yr adnod 'Y neb a weithio â llaw dwyllodrus, fydd dlawd: ond llaw y diwyd a gyfoethoga' (Diarhebion 10:4).

30 **gyngha6s** 'Dadl neu achos cyfreithiol' (Jenkins, 1986, 331) yw'r ystyr a wedda orau yma ond geill hefyd olygu 'dadleuydd mewn llys' (GPC). Y dull o ddadlau achos cyfreithiol yw *cynghawsedd*. Ar ddatblygiad *cynghawsedd* gw. Charles-Edwards, 1986.

dalyet ar bap acha6s Darllener *bop acha6s*. Yn y fersiwn o'r ddihareb hon yn 'Englynion y Clyweit' *dadleuet*, gorch. 3. un. *dadlau* a geir:

A glyweist di a gant llyaws.
mab nwyfre milwr hynaws.
a vo kalet y gyngaws.
dadleuet ar bop achaws.
(Clyweit 61)

Cyfieithir fersiwn ‘Englynion y Clyweit’ gan Marged Haycock yn ‘A fo’n erlyn yn galed, / Dadleued ynghylch pob achos’ (BBGCC, 327). Fodd bynnag, nid *dadleuet* ond *dalyet*, gorch. 3 un. *dal*, a geir yn nhestun A. Nodir sawl ystyr i’r cyfuniad ‘dal ar’ yn GPC, *to observe, mark, give heed to, attend* a wedda orau yma. Yr *achos*, wrth gwrs yw’r gŵyn neu’r hawliad y dadleuir yn eu cylch.

- 31 Yn ei olygiad o ddiarhebion Peniarth 17 gesyd Lewis (1927) y ddihareb hon ac A32 ochr yn ochr megis pe baent yn un ddihareb ond fe’u rhestrir ar wahân yn yr holl gasgliadau cynnar, er nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd o ran ystyr. Bydd clwyf yn y *giau*, sef y cnawd, yn gwella ond pair torri’r gwythiennau glwyf angheuol.
- 32 Mae’n rhyfedd na chrybwyllir hyn yng nghyd-destun y *tair gweli arberygl* sef ‘dyrnavt em pen hyt yr emenhyd, dyrnavt eg corff hyt yr emyscar, neu torry un o’r pedeyr colouyn’ (Ior. §6).
- 33 Ni ddyfynnir y ddihareb hon yn y llyfrau cyfraith ond y mae blas cyfreithiol arni. Dywedir mewn aml i gyd-destun yn y cyfreithiau mai lle’r arglwydd yw cymell:

Tri dyn a dyly tauotyawc yn llys: gwreic, ac alltut agkyfuyeithus, a chryc annyanawl. Vn dyn hagen a dyly dewis y tauotyawc – arglwyd; ac ef a dyly eu kymell y rei eraill.

(Bleg., 113.18-21)

Ny deleyr llad nep am y gylyd namen llourud, nac am ran o’r alanas nac am peth arall, canys o dylessa e kenedel e llourud nyt oes un haul arnadunt huy; ac ny deleant heuyt talu, onyt argluyd a’e kemell,

(Ior. §106)

Ar brenhin yda6 trayan pop galanas. kanys ef bieu kymhell y lle ny
allo kenedyl gymhell.

(WML 44, 14-16)

Cf. yn ogystal Col. §131; Col. §411; Dam. Col. §492 a WML, 297.

Yn y cwbl o'r enghreifftiau hyn, yr arglwydd sy'n cymell (sef yw
hynny, 'gorfodi'). Yn yr englynion moliant i Faredudd ab Owain
gan y Prydydd Bychan digwydd yr ymadrodd 'car gymhell' (CBT,
vii.9.9). Roedd Maredudd hefyd yn gymhellwr. Cf. A86 isod.

- 34 Dihareb gyfreithiol sy'n digwydd mewn cyd-destun annisgwyl
braidd yn Llyfr Colan:

Guehedesseu a gemeront gueeu attadunt, neu petheu ereyll o losgant
talent, canys keureyth a deweyt 'A gemero, catwet'.

(Col. §434)

Yr ergyd yw y dylai'r gwehyddesau warchod yr eiddo rhag eu
colli. Yn Llyfr Iorwerth ceir 'canys deleant eu cadu rac pob collet'
(Ior. §119). Y mae blas y Dadeni Dysg ar fersiwn C53.

- 35 **ry deu** Ar y geiryn rhagferfol *ry gw*. GMW §185 lle y dywedir fod
ry+berf pres. myn. yn cyfleu posibilrwydd neu ystyr dyfodol
(dywedir hefyd, *in many cases it has little force beyond that of a
simple affirmative particle*). Ceir ymdriniaeth lawnach ar *ry+berf*
pres. myn. gan Joseph Loth (1911, 55-8) a ddywed *Ry- se trouve
avec le présent, indiquant qu'une chose se fait habituellement sans
précision de temps ni de personne* ac ymysg yr enghreifftiau a

nodir ganddo ceir llurguniad o'r ddihareb hon a gododd o eiriadur Richards *a oddef rydau*.

Mae tewi yn awgrymu euogrwydd ac o ganlyniad y mae'n addefiad ynddo'i hun ond yn ôl y gyfraith yr oedd cennad i wŵr dewi mewn llys a gadael i dafodiog ddadlau drosto:

Pwy bynhac a uo gwell gantaw arall y dadleu drostaw yn llys noc
ehunan, kanhat yw idaw ef tewi heb dadleu dim tra vynho kynhal
tauodyawc
(Bleg., 45.19-22)

Dichon fod adlais o'r ddihareb yn yr englyn hwn o awdl Gruffudd ap Dafydd ap Tudur i ferch fud:

Ateb dihaereb, hir orchwyl – enaid,
A ddywaid, hawlblaidd hwyl;
Ys addef, feingan annwyl,
Addau brad golau bryd gŵyl.
(GGDT, 4.25-8)

Sylwais mai 'ys adef ueingan annŷyl / adeu brat goleu bryt gŷyl' yw'r esgyll yn Llyfr Coch Hergest (RBP 1264.20-21). Hon yw'r llawysgrif hynaf. Ceir dihareb arall yn englyn cyntaf yr awdl, 'Nid hawdd ymadrawdd â mud' (GGDT, 4.4). Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Assez otroie qui se taist* (Mor. 140). Nodir toreth o enghreifftiau yn SM (II, 98).

- 36 Dihareb gyfreithiol. Math ar gontract yw mechni. Gŵr oedd *mach* a roddai warant y telid dyled neu yr anrhydeddid cytundeb a'i gyfrifoldeb ef oedd gorfodi'r *cynnogn*, sef y dyledwr, i dalu. Ar

gyfraith mechni gw. Ior. §58-64. Ymdrinnir â hynafiaeth y sefydliad yn Walters (1986). ‘Erbyn y ddeuddegfed ganrif,’ meddai Dafydd Jenkins, ‘yr oedd mechni wedi ymsefydlu’n ffurf gyfreithiol, a’r mach wedi mynd yn warantwr a fyddai’n talu’r ddyled petai’r prif ddyledwr yn peidio â gwneud’ (1976, 81). Ceir cyfeiriadau at *fach cynnogn*, h.y. gŵr a âi’n *fach* drosto’i hun, ond milwriai ceidwadaeth yn erbyn y cyfryw ddatblygiad (Jenkins, 1976, 84-5; cf. *ny eyll un den seuyll en uach kennogen*, Ior. §63). Ystyr y ddihareb ydyw fod y sawl a arbedo y gŵr sy’n gyfrifol am bwysu ar y dyledwr i dalu yn arbed y dyledwr yn ogystal gan na phwysai’r mach ar y cynnogn i dalu’r ddyled oni fynnai’r hawliwr iddo wneud hynny.

37 Dihareb gyfreithiol. Ystyr *mynag* yn y llyfrau cyfraith yw cyhuddiad fod rhywun yn lleidr:

Puybynnac a uynno guneythur dogyn uanac, aet ar er argluyd a
 dywedet rywneythur lledrat o dyn ny lleueys e dewedut arnau, ae rac y
 uonhed ae rac e uedyant
 (Ior. §113)

Gall *arwaesaf* olygu ‘gwarant’ neu ‘warantwr’ (GPC). Trafodir *lletrat gwaessaf* gan Stephen J. Williams: ‘Pan enwai dyn warant neu waesaf wrth ateb cyhuddiad o ledrad, tebyg mai lledrad gwaesaf y gelwid yr achos hwnnw’ (Bleg., 186). Yn Llyfr Iorwerth ceir traethawd hir ar y tri math o *arddelw* (‘amddiffyn’ yw ei ystyr yma ond gw. Col., 112-113 ar ddatblygiad ystyr *arddelw*) ac *arwaesaf* yw’r trydydd math. Dyry Dafydd Jenkins inni eglurhad golau ar *arwaesaf*:

golygai hynny fod yr amddiffynnwr yn dweud iddo gael yr eiddo oddi wrth ryw ddyn arall, a'i fod yn galw ar hwnnw i ateb i'r cyhuddiad o ladrad. Os derbynai hwnnw (yr arwaesaf) y cyfrifoldeb, byddai'r amddiffynnwr cyntaf yn rhydd, ond os pallai'r arwaesaf, dyna'r amddiffynnwr yn lleidr cyfaddef am iddo fethu profi'r arddelw yr oedd yn dibynnu arno.
(Jenkins, 1976, 65)

Gellir tybio mai anaml y cyfaddefai *arwaesaf* i'r lladrad, yn enwedig o ystyried agwedd lem y Gyfraith tuag at ladrata (Jenkins, 1976, 62). 'Puybynnac a dotto arwassogaeth em pen arall a pallu e arwaessaf yndau, byt lleyder kyuadef herwyd meynt e lledrat a dalhyer ganthau' (Ior. §115). Cyfeirio at y gyfraith hon y mae'r ddihareb. Trwy wrthod derbyn cyfrifoldeb am ledrad y mae'r *arwaesaf* yn mynegi mai'r amddiffynnwr yw'r lleidr.

- 38 Peth a roir i rywun i'w gadw yw adnau. Dibynna meddwl y ddihareb ar yr arddodiad a gellir ei deall mewn dwy ffordd naill ai 'adnau *gyda* pherchennog' neu 'adnau *oddi wrth* berchennog'. Yr ail sydd fwyaf tebygol canys nid yr un sy'n dal *adnau* yw ei *berchen*.
- 39 Cyfrifid afradlonedd yn bechod garw. Yn llsgr. Peniarth 54 ceir *Anvoes y6 kymryt* yn union uwchben y ddihareb hon – cyfuniad o ddau gyngor a barai benbleth i unrhyw un.
- 40 **rea** Ffurf dreigledig ar *greu* yn dilyn y rhagenw perthynol. Yr ystyr yw 'crawcian'. Nodir yn GPC mai amrywiad ydyw ar 'crëu').

Cyfetyb i'r ddihareb Hen Ffrangeg, *Ce que chante la corneille si chante le cornillot* (Mor. 325). Dichon mai amrywiad arni yw'r ddihareb Saesneg, *As the Cock crows so the chicken learns* (varied) (PSPP, C347).

- 41 Ceir y ddihareb yn Clyweit 20c. Geill mai un o gynghorau Catwn ydyw'n wreiddiol:

Y neb a ymwel ar y eir yn gedymdeith ytt ac na bo ffydlawn o gallon a gweithret. gwna ditheu y gyffelyb idaw ynteu. ac uelly y twyllir twyll trwy dwyll arall
(Catwn, 21)

Dirmygid y *twyllwr*, cf. 'G6ae d6yll6r ae d6yll nys madeu' (RBP, 1161, 12). Y mae hon yn ddihareb gydwladol a geir mewn sawl ffurf. cf. *A trompeur trompeur et demi* (MFPSPP, T89); *The Guiler is beguiled* (PSPP, G491).

- 42 **ef a d6c** Ar y geiryn rhagferfol *ef gw*. GMW §191.

Dihareb yw hon a glywir ar lafar o hyd. Cyfansoddodd Siôn Tudur englyn arni:

Y llanc a ddyco y llwy – yn lledrad,
Anllywodraeth fwyfwy,
A ddwg un o ddeugeinwy,
Ddiog o fab, a ddwg fwy.
(GST 310)

- 44 Gellir cymharu'r ddelwedd â'r ddihareb flaenorol ond diau mai amrywiad ar A523 yw'r ddihareb hon.

- 45 **Anhys** A ddichon mai'r term cyfreithiol *anhys* 'anfwytdwy' (GPC) sydd yma?

Mewn nodyn ar y ddihareb hon cyfeiria Lewis (1927, 11) at A527 isod (fersiwn DD) ynghyd â nodiadau Williams (1926, 26; gw. A400 isod). Yn GPC dyfynnir y ddihareb hon (fersiwn o Beniarth 17) o dan 'hanes'. Y mae GBGG yn fwy petrusgar a diau mai hynny sydd ddiogelaf.

- 46 Y mae'r rhynllyd yn awyddus i gynhesu wrth y tân.

- 47 **dryckyghor** Cyfansoddair rhywiog (*drwg + cyngor*). Ceir calediad pan fo cyfuniad o ddwy gytasain ffrwydrol, y naill ar ddiwedd rhan gyntaf cyfansoddair clwm a'r llall ar ddechrau'r ail ran.

- 48 **yn rin** Geill *rhin* olygu 'cyfrinach' neu 'gyfrinachedd'.

Ai cyngor i beidio â gwneud dim mewn ffordd amlwg ac anghynnil a pheidio a bod yn dafotrydd sydd yma? Cf. y ddihareb Ladin *Campus habet oculos, silva aures* (Taylor, 1985, 142) a'r fersiynau Ffrangeg a Saesneg *Le bois a oreilles, et le champ des yeux* (MFPSPP, B123); *Field has eyes and wood ears (varied)* (PSPP, F127). Roedd y ddaear lle tyfai'r brwyn yn clywed yn chwedl March ap Meirchion (cf. C252). Cyneddf Math fab Mathonwy oedd 'ba hustyng bynnac, yr y uchanet, o'r a uo y rwng dynnyon, o ry kyuarfo y guynt ac ef, ef a'y guybyd' (PKM, 68); felly hefyd y Coraniaid (RBM, 94). Ceir cyngor nid annhebyg an Llyfr y Pregethwr: 'Na felltithia y brenin yn dy feddwl; ac yn ystafell dy

wely na felltithia y cyfoethog: canys ehediad yr awyr a gyhoedda y llais, a pherchen adain a fynega y peth' (Pregethwr 10:20).

- 49 **rieu** 'Brenin' (awgrymir yn GPC mai lluosog *rhi* ydyw). Noda Loth mai cyfeirio at unigol a wna *rieu* yn aml ac y mae'n cymharu'r ffurf â'r enw priod Llydaweg *Riou* (1911, 31). **waryeu** Sef *gwarwy*, *gwary*, 'cellwair, difyrrwch' (GPC). Ym Mheniarth 17 ceir y *wir ae eu* sef 'ei wirionedd a'i anwiredd'.

Yr ystyr felly yw 'a garo arglwydd, cared ei chwarae'. Y peth a garo yr arglwydd neu'r pennaeth ei wneuthur, rhaid i'w gyfaill a'i gydymaith garu yr un peth', yw eglurhad Ifor Williams (1912). Ond mae'r ystyr 'rhaid i'r un a gâr ei arglwydd ddiodeff ei gellwair' yr un mor bosibl.

- 50 **vyg crys** Gwregys oedd ystyr wreiddiol 'crys'; cf. y llinell 'Penn a borthaf mywn vyg crys' yn y gyfres 'Pen Urien' (CLIH, III.9a; EWSP, 420). Gwell yw darlleniad Peniarth 17 *vyg gwas*. Gweddus yw parchu'r gwas er mwyn y meistr.

Fersiwn o'r ddihareb gydwladol a geir yn C64 ydyw'r ddihareb hon. Cf. *Qui m'aime et mon chien* (Mor., 1974; gw. hefyd MFPSPP, A65); *Love me love my hound (dog)* (PSPP, L569). Gw. ymhellach SM (ii, 27). Nid yw cymysgu rhwng gwas a chi yn anghyffredin yn y diarhebion (arwydd o statws cymdeithasol y taeog), cf. y fersiynau gwahanol o A178 isod.

- 51 **elltrewyn** 'Llysfam neu fam-yng-nghyfraith' (GPC) ond haws credu mai'r cyntaf a feddylir yma. Cf. *alltraw*, 'tad maeth' a'r cytrasau a restrir yn CCCG §64. Dyfynnir amrywiad ar y ddihareb

hon o dan *elldrewyn* yn DD, *Ni garo ei fam cared ei elldrewyn*, ac fe'i cyfieithir yn *Qui non diligit matrem diligit novercam*.

52 **chweg6r** 'Mam-yng-nghyfraith' (GPC).

53 **gogan** Gall olygu 'darogan' neu 'foli' (GBGG) ond yr ystyr cyffredin yw *to satirize, to mock* a hynny yw'r ystyr yn y ddihareb hon. Diddorol yw sylwi fod ystyr wannach i'r gair weithiau, sy'n agosach at 'bryfocio' na 'dychan', cf. 'Ha wyr pei nam gogane6ch heb ef mi a gysk6n tra uewn yn aros vy m6yt' (RBM, 162). Gellir diystyru ymgais Watkin (1962, 270) i egluro ystyron gwrthgyferbyniol y gair: *Deux vocables différents; le terme vieux-français ici discuté [sef gogue, 'gwatwar'] et un mot gallois composé du préfixe go- <<sous>> + canu <<chanter>> semblent s'être fondus dans goganu*. Gair cynhenid ydyw (gw. CCCG, 349).

Enghraifft brin o ddihareb yng ngwaith Gruffudd Hiraethog yw 'A wnêl ogan ac anair, / Am ogan gogan a gair' (GGH, 126.23-4).

Roedd y Cywyddwyr yn hoff o lunio llinellau diarhebol gan ddilyn y patrwm hwn (dib. pres. 3 un. + pres, amhers.). Cf. 'a farno ef a fernir' (GDE, xlii.73; adlais o Mathew 7:1 'Na fernwch, fel na'ch barner'); 'a vaddaüo vaddaüir' (Evans, 1983/84, 177; adlais o Mathew 6:14 'Oblegid os maddeuwch i ddynion eu camweddau, eich Tad nefol a faddau hefyd i chwithau'); 'A laddo...a leddir' (GDG, 13.107-8). Wrth gwrs, y mae llunio cynghanedd groes neu draws â'r cyfryw ymadroddion yn rhwydd.

Ystyrid fod goganu'n anfoesol. Ni weddai i brydydd oganu ac arfer y glêr ydoedd yn ôl y Trioedd Cerdd: 'Tri pheth a berthynant ar glerwr: ymbil, a goganu, a gwarthrudaw' (GP, 17).

Gellir cynnig dau darddiad posibl i'r ddihareb. Dichon mai crynhoad o un o Gynghorau Catwn ydyw ond geill fod iddi darddiad ysgrythurol uniongyrchol:

Na ogana di ac na chapla nep nac o eir nac o weithret. rac dy oganv ditheu o ereill yn vn funut a hynny. kanys mynych yw yr nep a ogano gael y oganv yntev
(Catwn, 35)

Diau efe a watwar y gwatwarus: ond ei ras a rydd efe i'r gostyngedig
(Diarhebion 3:34)

Y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Moquer les moqueurs* (MFPSPP, M180); *Les moqueurs sont souvent moqués* (MFPSPP, M181); *He that Mocks shall be mocked*, (PSPP, M612).

55 **Aet** Gorch. 3 un. 'mynd'. Yr ystyr *become* sydd iddo yma (gw. GPC o dan af 3).

le6 Geill fod yn ffurf dreigledig ar *llew* neu *glew*, heb nemor ddim gwahaniaeth ystyr. Mae darlleniad Peniarth 17 yn cadarnhau mai'r cyntaf a feddylir.

57 **du6** 'Dydd' (gw. CCCG §298; nodir sawl enghraifft yn CLIH, 130).

Sylwer fod y meddwl yn wahanol yn B23 a C23.

58 **kauas** Gorff. 3 un. 'cael'.

At gyllell y cyfeirir. Yr un sy'n dal y carn sy'n rheoli'r llafn.

59 **Arglwyd g6ann** Ym Mheniarth 17 ceir *Arglwyd gwestyll*. Hon yw'r unig enghraifft o'r gair *gwestyll* yn GPC a chynigir yno mai 'croeso gwael' yw'r ystyr.

61 **kic b6ch** Gellid 'buwch', er na fyddai hynny'n gyson ag arfer y copïydd (gw. A357, A362, A808, A986 ac A1016), neu 'bwch' (gafr). Ond tybed a ddylid darllen *bwlch*, cf. 'Ef a dele kvbyl o'r kyc bvlch a uo en e marvty, a'r emenyn bvlch' (Ior. §34; cyfeirir at y rhingyll). Mewn achos o wahanu, eiddo'r wraig oedd y cig a'r caws bwlch (Ior. §44; gw. nodyn Jenkins, 1986, 240). Erys y ddihareb yn o dywyll.

62 **Arouyn** Dyry GPC yr ystyron 'cyrch; cais, bwriad, amcan', a digwydd hefyd fel berf (gw. y nodyn ar amryfal ystyron y gair yn PKM t. 172-3 lle y'i cymharir â 'gofuned').

63 **Allwed** Yn B26 ceir *achles* a gellir derbyn hynny'n amrywiad dilys ar y ddihareb. Ergyd B26 yw fod y rhwyddineb ymadrodd a bair y cwrw yn llesol i'r galon.

Cf. *Vin et confession descouvrent tout* (Morawski 2488); *Where Drunkenness reigns there is nothing secret* (PSPP, D425); *In vino veritas*. Fe'i ceir yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 48c).

64 **drut** Y mae iddo'r ystyr 'ffôl', megis ei gytras Gwyddeleg *drúth*, ynghyd a 'byrbwyll', 'ffyrnig', 'dewr' (cf. y llinell 'nyt didrachywed colwed drut' yn CA, XX.223). Fe'i ceir yn elfen yn yr enw personol *Drudwas* (*catgucaun filio drutguas* yn LL, 277; gw. CLIH, 185 lle y cyfeirir at yr enghraifft hon ynghyd â'r chwedl am Ddrudwas fab Tryffin a'r Adar Llŵch Gwin a gw. ymhellach

TYP, 327-8) ac yn yr enw lle *Cerrigydrudion*. Gw. ymhellach Williams (1923b, 39) sy'n cyfeirio at y cyferbyniad *doeth/drud*.

Ni chytuna ymadrodd *doeth* â *drud*. Bydd y *drud* yn diystyru cyngor y *doeth*. Cyferbynnir y *doeth* a'r *drud* yn y farddoniaeth gynnar: 'llafar amut adoeth adrut' (Ll. Tal., 54.6-8); 'Rei drut rei mut ef ae mwynha / rei gwyllt rei dof douyd ae gwna' (Ll. Tal., 40.11-2); 'Rann6s Du6 De6s donyon – angkymwys, / Agkymhes y veibyon. / Rann y ba6b, y bobyl, y adon: / Rei yn drud, ereill yn doethyon' (CBT, v.4.15-8). Yn ogystal, enwir y *drud* yn un o'r Trioedd Cyfraith:

Try cadarn byt, argluyd a drut a dydym; sef achau yv, maen dros yaen eu argluyd; sef ev drut, dyn enuyt ac ny ellyr cemell dym arnau namyn y hewyllys; dyn dydym esef ev hunnu dyn heb dym da ydau, ac urth hynny ny ellyr en lle ny bo.

(Dam. Col. §135; mewn fersiwn arall o'r un triawd ni chrybwyllir y *drud*, gw. WML, 139.15-9 lle y ceir *ynuyt* yn ei le).

Y wedd ddiarbed hon a barodd ddatblygu'r ystyr i olygu 'costus'. Newid safbwynt moesol sy'n cyfrif am gwmpas eang yr ystyr. Mae 'dewr' a 'ffôl' yn syniadau agos iawn ac y mae 'byrbwyll' rywle rhyngddynt. Yn ôl damcaniaethau mytholegwyr sy'n ymddiddori yn y dreftadaeth Indo-Ewropeaidd yr oedd rhyfelwyr y *Männerbund* cynnar yn rhyfygus o ffyrnig. Cyfeirir yn fynych at *berserksgangr* rhyfelwyr Sgandinafaidd a cheir adlais o'r 'colli arni' hwn yn y Gododdin. Dyma'r *furor* a drafodir yn llawn gan Dumézil (1942, 11-33) yng nghyd-destun mytholeg Indo-Ewropeaidd. Mae Littleton yn crynhoi'r syniad fel a ganlyn:

This *furor*, as the Romans termed it, may be compared with the Celtic notion of *ferg* [cf. *gwery yn y Gymraeg*], the Germanic concept of *wut*, and the Greek idea of *ménos*; all these terms refer to the exalted state – the heightened prowess and the blind fury – which comes over the warrior and enables him to perform otherwise impossible feats.
(Littleton, 1973, 80)

Yn ôl Eliade gellir cymharu'r *furor* hwn â'r gwres sy'n nodweddu grym sanctaidd y siaman:

la puissance sacrée expérimentée comme une chaleur extrême n'est pas obtenue uniquement par des techniques chamaniques et mystiques. Elle est conquise également par les expériences mises en branle durant les initiations militaires.
(Mircea Eliade, 1957, 197)

Yr angerdd afresymol a'r byrbwylltra hwn, mi dybiaf, a nodweddai'r *drud*.

65 **Angheu anghen** 'Rheidrwydd angau'. Cyfuniad cyffredin. Ar derfyn awdlau Taliesin i Urien (CT, II.33-6; III.27-30; IV.27-30; V.30-3; VI.25-8, VII.54-7; IX.23-6) ceir y pennill a ganlyn, gyda mân amrywiadau:

Ac yny vallwyf y hen
ym dygyn agheu aghen.
Ny bydif yn dirwen.
na molwyf i vryen

Y mae Ifor Williams yn cymharu *angau angen* â'r ymadrodd Lladin *necessitas leti* (CT, 39). Digwydd y cyfuniad yng ngwaith y Gogynfeirdd hefyd: 'Kan dydaw agheu aghen dralla6d' (CBT,

I.3.8); ‘Kyn aghenn agheu athrugar’ (CBT, IV.16.27); ‘Ys meu rac angeu angen gbyna6’ (CBT, VII.36.18).

dyhewyn Fe’i cysylltir â *dihewyt*, ‘dihewyd, llwyrfryd, ymroddiad, tueddfryd, ewyllys, cariad’ yn GBGG.

66 Ceir y ddihareb hon yn y gyfres englynion ‘Claf Abercuawg’ (CLIH, VI.21a; EWSP, 450). Fe’i cyfieithir gan Jenny Rowland yn *Clear is the sight of the watcher*, (EWSP, 498) a chyffelyb yw dehongliad Ifor Williams (CLIH, 169). Yng nghyd-destun ‘Claf Abercuawg’, awgryma Rowland y geill fod y llinell yn cyfeirio at effaith y gwahanglwyf ar lygaid y claf (EWSP, 623). Dehongliad arall posibl fyddai na all gwylidur gelu’r ffaith ei fod yn gwylio. Os felly yr un yw ystyr *aml6c* yn y ddihareb hon ag yn A43 ac A44 uchod.

67 **archet wedi** Am ‘erchi gweddi’ dyry GPC *to offer a prayer*; cf. ‘Molaf Du6 uchaf, archaf weti – ita6’ (CBT, II.1.145). Rhestra Marged Haycock ymadroddion cyffelyb mewn nodyn ar y llinell ‘Archaf wedi y’r Trindawt’ (BBGCC, 167).

Gweddus yw i’r hen eiriol am faddeuant cyn gadael y fuchedd hon (cf. A96 isod, dihareb sy’n cyfeirio at *aeddfedrwydd* angau yr hen). Yn yr oesau canol nid oedd yn anghyffredin i frenin gymryd urddau mynach tua diwedd ei oes. Hynny a wnaeth Gruffudd ap Cynan: ‘Deucant mlyned a mil oed oet Crist pan vu varw Gruffud ap Kynan ap Ywein yn Aber Conwy, wedy kymryt abit crefyd ymdanaw’ (Brut. Tyw., 182). Yr oedd canu marwysgafn, cerdd gyffes cyn marw, yn draddodiad ymysg beirdd Cymru ac Iwerddon (gw. CBT, I, 59-61) a gellir cymharu cenadwri’r ddihareb dan sylw â dechrau Marwysgafn Meilyr Brydydd:

Rex regóm, Rebyt rwyt y voli,
Y'm Argl6yt uchaf archaf weti.
Gwledic g6ladoruod goruchel wenrod,
G6rda, gwna gymod gryghod a mi!
(CBT, I.4.1-4)

- 68 **ymogelet** Gorch. 3 un. 'ymoglyd'; *ym* atblygol + *goglyd* 'ymochel' (GPC).
Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 53c). Cf. A27 uchod.
- 69 Dihareb sy'n anwybyddu cyngor A41 uchod. Oni fedri gael a fynni trwy rym braich, arfer dy gyfrwystra.
- 71 Trafodir *ry* + ffurfiau amheronol y ferf gan Loth (1911, 58-9) a nodir y ddihareb hon ymysg yr enghreifftiau. Fe'i cyfieithir yn *Ce que Dieu protège, est bien protégé*.
- 72 **Annwar** 'Llidiog, creulon, afreolus, gwyllt, gwrthnysig; heb ei wareiddio; tost, garw' (GPC). Ystyrier yn ogystal nodyn Jenny Rowland ar y llinell 'wyf ehut wyf annwar' yng 'Nghân yr Henwr' lle dywed, wedi cyfeirio at ystyron y gair yn GPC, *Although Llywarch is describing himself in fairly unmerciful terms 'querulous, troublesome' or 'uncouth' would probably be closer to the sense here* (EWSP, 547). Yn ei gyfieithiad o'r ddihareb hon cynigia John Davies (Brog. I.11) ddewis o ansoddeiriau - *non-citur, ferum, instabile* – a gellir tybio felly mai ystyron GPC sydd fwyaf addas.

uelyn Enw priod. Enwir *Teulu Belyn o Lŷn* yn y trioedd ‘Tri Hualhogeon Deulu Ynys Brydein’ (TYP, 167) a ‘Teir Gosgord Adwy(n) Enys Prydein’ (TYP, 65; triawd a adleisir yn ‘Hirlas Owain’, CBT, II.14.37). Ymddengys i Belyn ymgynghreirio â Chadwallon yn erbyn Edwin o Northumbria (HW, 184) a dichon mai enw’r Belyn hwn a gedwir mewn enwau lleoedd yn Nhudweiliog a Llanllyfni (Lloyd-Jones, 1924, 35). Ymhellach ar Belyn o Lŷn gw. TYP, 280-1; WCD, 40; GBGG, 55.

Dichon y gellir cysylltu *Belyn* â’r enw *Beli* (ceir sawl enghraifft o’r olaf yn WCD, 37-40). Cf. yn ogystal yr enw Cynfelyn (Williams, 1922, 12). Ymhellach ar darddiad posibl yr enw, *Belenos / Belinos*, gw. Sims-Williams (2003, 182), ac ar y duw *Belenos*, a gysylltir ag Apolon, duw’r haul, mewn arysgrifau Celtibereg a Galeg gw. Olmsted, Garret: *The Gods of the Celts and the Indo-Europeans* (Budapest, 1994)

ureint Braint. Statws dyn yn ôl y gyfraith o safbwynt ei enedigaeth, ei swydd ac yn y blaen (Jenkins, 1986, 319). Yn yr adran ar gyfraith y llys yn y llyfrau cyfraith nodir *braint* holl swyddogion y llys.

73 **ednebyd** Pres. Dyf. 3 un. ‘adnabod’.

kilyd Enw ydyw yma yn ei ystyr gysefin ‘cymar, cydymaith’ (GMW §105).

Yr ystyr yw na fydd y rhai sy’n caru ei gilydd yn gweld dim bai ar y naill a’r llall. Cf. ‘a garo y gilyd nys dirmic’ (EWGP, VI.26c).

74 Y mae trefn y ddihareb hon yn wahanol yn B456.

75 **keuda6t** ‘Meddwl’ neu ‘calon’ yw’r ystyr yma. Am Uffern dywed Gruffudd ab yr Ynad Coch ‘Nys adra6d taua6t, nys traetha keuda6t’ (CBT, VII.40.52) a chyfieithir y llinell gan Catherine McKenna yn ‘Nid yw tafod yn [gallu] ei ddisgrifio, nid yw meddwl yn [gallu] dweud amdano’.

Lleihad sydd yn y ddihareb cans nid yw’r meddwl yn gennad o gwbl. Y mae cynnwys meddwl dyn yn guddiedig i eraill.

76 **tebet** Dyry GPC ‘eg. a hefyd fel be. ?Encil, fföedigaeth, taith’. Trafodir y ffurf yn CCCG §637 lle y’i cymharir â *techaf* (‘ffoi’) cytras *techid* yr Wyddeleg. Yn CCCG cyfieithir y ddihareb yn *he whose mind is upon flight will do no good before going*. Cf. ‘Y mae vi mrid ar debed’ (LIDC, 26.10). Ni ellir derbyn barn Ifor Williams (1915) sy’n cydio’r gair wrth *tebyg, tebygu, tyb, tybied* ac yn cynnig yr ystyr ‘pryder’ i’r gair yn y llinell o’r Llyfr Du.
y uet Darllener y *uynet* fel ym Mheniarth 17.

77 **hyborth** Y rhagddodiad cryfhaol *hy-* yw’r elfen gyntaf. Yr ail elfen yw *porth* (*assistance*) fel yn y gair *cymorth*. Dyry GPC iddo’r ystyron ‘Yn cynnal yn dda neu’n hawdd, cynhaliol, parod i gynorthwyo’.

78 **Amaer6y** ‘Rhwymyn’.
anmyned Hen ffurf *amynedd* (CLIH, 169).

Ceir y ddihareb hon yn y gyfres englynion ‘Claf Abercuawg’, (CLIH, VI.22c; EWSP, 450) ac y mae Jenny Rowland yn cynnig y cyfieithiadau *The bond of understanding is patience, through patience understanding is encompassed* (EWSP, 624). Oherwydd

bod y ddihareb yn cynnwys naw sillaf, ac felly yn hercian braidd mewn englyn milwr, cynnig Jenny Rowland y gellid cwtogi'r llinell drwy ddarllen *aerwy* yn lle *amaerwy*. Ni fyddai hynny'n amhosibl ond geill fod yma enghraifft o ddihareb a ymgorfforwyd yn y canu englynol. Yn yr englyn cysylltir y ddihareb hon ag A901 isod:

Alaf yn eil; meil am ved.

Nyt eidun detwyd dyhed.

Amaerwy adnabot amyned.

(CLIH, VI.22)

Nid yw'r dedwydd yn ceisio cynnen ac y mae amynedd yn nodweddiadol ohono. Cf. A81 isod.

- 79 Ar y *drud* gw. A64 uchod. Bydd y *drud* yn dymuno marw mewn brwydr. Diddorol, yn y cyswllt hwn, yw sylw Gerallt Gymro: 'Cywilydd a ystyriant, felly, farw mewn gwely, ac anrhydedd farw mewn rhyfel' (Jones, 1938, 179).
- 80 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir y gwrthwyneb, 'a wnel dyn duw ae barn' (Clyweit 15c).
- 81 **direidi** Yn B45 ac ym Mheniarth 17 ceir *diryeit*. Digwydd *direidi* ynghyd â *dryc anyan* yn un o'r trioedd: 'Tri pheth a gynnail hir ddireidi ar ddyn: drygioni, a dryganian, a glythineb' (Owen, 1988, 102). O blaid *diryeit* y mae dihareb A123 isod.

Cf. A139 isod, ynghyd â'r triawd 'Teir gormes doeth ynt: meddawt, a godineb, a dryc anyan' (Bleg., 113.16-7).

82 Dihareb gyfreithiol yn sicr ond ni welais ei dyfynnu yn y cyfreithiau. Serch hynny gellir ei chymharu a'r syniad sydd wrth wraidd *diffaith brenin*:

Puybynnac byeyso tyr eg glan traeth, ef byeuuyd keulet a'r tyr o'r traeth, a gunaet koret arnau os men; eythyr o buru e mor peth e'r tyr neu er traeth, e brenhyn byeuuyd hunnu, canys pynuarch e brenhyn yu e mor.

(Ior. §88; gw. yn ogystal Ior. §43, 'Vyth pynuarch brenhyn')

Hynny yw, eiddo'r brenin yw unrhyw beth a fwry'r môr ar y traeth, unrhyw beth nad oes gan unrhyw un arall hawl arno. Mynegir syniad tebyg iawn i'r ddihareb yn un o'r trioedd cyfraith:

Tri rhyw dda diberchennoc heb anghyfreith yn y wneuthur a dily arglwydd: un marw dy; eil yw a fwryo mor y dir rhwng tri llanw a thri thrai yn gohir ar draeth; trydydd pob da ny wypper pieusso neu a watter.

(AL II, 608)

Gw. ymhellach y cyfeiriadau yn CBT VI.3.2n.

83 **Arwaessaf** Ar ystyr gyfreithiol y gair hwn gw. rhif 37 uchod. Yma gwell yw'r ystyr mwy cyffredinol 'amddiffyn'. Ym Mheniarth 17 ceir *Arfedauc* sef 'amddiffynnwr'. Cf. rhifau 208 a 437 isod.

84 **Asgre** 'Mynwes, bron, arffed, calon' (GPC). Dyma'r ystyr orau cans hynny yw union ystyr *askre* mewn Llydaweg a *sinus* yn unig a geir yn DD. Yn rhai o'r geirfâu barddol ceir 'llaw' am

'asgre' ond y mae'n bur amlwg mai â'r ystyr 'mynwes' y cysylltir y ddihareb:

ascre: llaw, BK 209; mynwes, ascre lan diogel i pherchen, FH.

mynwes, lau [*in different ink*], K 211.

(Jones, 1923, 319-20)

Cymhlethir pethau ymhellach gan amrywiad ar y ddihareb hon yng nghasgliad Llyfr Gwyn Rhydderch, *Lla6 lan diogel oe pherchen*. Dichon fod yma ddryswch yn tarddu o ddelweddu llaw aflan lleidr neu lofrudd. Gellir bod yn eithaf hyderus mai ergyd y ddihareb yn y Llyfr Coch yw na ddaw niwed i'r un â chalon bur.

85 **Alwysen** Mae'r ffurfiau 'elusen' ac 'alusen' ill dwy yn tarddu o'r Lladin *eleemosyna*, y naill yn uniongyrchol a'r llall drwy'r ffurf ddiweddar **almosina*. Yn y ffurf *alwysen* trodd *m* y Lladin yn *w* yn y Gymraeg ac o ganlyniad bu newid yn ansawdd yr *u* gan roi *i* (gw. EL §92). Yn y trioedd cyfraith rhestrir 'reudus a grwytro teir tref, a naw tei ym pob tref, heb gaffel alwissen a'e gwaretto na gwestua' ymysg y 'Tri lleidyr a dieinc o letrat kyfadef' (Bleg., 122.26-32).

Dyfynnir y ddihareb o dan 'elusen' yn DD ac fe'i cyfieithir yn *Eleemosyna est offula (etiam) e ceruo* ac nid ydym fymryn elwach.

86 Amrywiad ar A33 uchod.

87 **dyuo ... dyuyd** Pres. Dib. 3 un. a Pres. Myn. arferiadol *difod* 'bod yn perthyn i'; y mae'n gyfystyr â *have* yn Saesneg (CT, 38). Ar y ffurfiau hyn gw. trafodaeth J. E. Caerwyn Williams (1969).

Cyfieithir y ddihareb gan Ifor Williams yn *He who has a 100 kinsmen will have a 100 nights* (CT, 38) a derbynnir y dehongliad hwn gan Caerwyn Williams (1969, 218).

88 Dyfynnir y ddihareb hon gan Loth, ar ôl Silvan Evans, ac fe'i cyfieithir ganddo yn *qui se plaint top ne se plaint pas du tout* (Loth, 1911, 58). Fe'i cyfieithir gan Davies yn, *Qui (de) nimio queritur, non queritur (omniò)*.

89 **Anreith** Trafodir y berthynas rhwng *rhaith* ac *anrhaith* gan Dafydd Jenkins:

Anrhaith, etymologically 'non-right' is used for the plundering expeditions of the bodyguard, and also for the confiscation of an offender's goods
(Jenkins, 1986, 377-8)

Roedd anrheithio yn rhan naturiol o'r cyrch yn yr oesoedd canol. Manylir ar y gyfran o'r *anrhaith* (*plunder*) a oedd yn ddyledus i'r brenin a'i swyddogion yn y llyfrau cyfraith, cf., er enghraifft, 'Pan el y brenhin y anreithaw, kanet y pennkynydd y cornn pan vo amser idaw; a dewisset y llwdyn a vynno o'r anreith' (Bleg., 20.20-2).

Anrheithio dros y ffin a wnâi'r teulu ac nid ystyrid milwyr a fyddai'n anrheithio yn lladron yng ngolwg y gyfraith (Jenkins, 1976, t. 30). Ond anrheithio tai ei gilydd a wna'r taeogion.

gyfludwyt Yn GPC nodir dwy enghraifft o'r ddihareb hon, y naill o Beniarth 17 a'r llall o Lyfr Gwyn Rhydderch, ymysg yr enghreifftiau prin o'r gair a chynigir yr ystyr petrus '?Llogwr, goddeithiwr, dinistrydd', yn y dybiaeth mai *lludw* yw'r elfen yng nghanol y gair. Nodir hefyd y llinell *Eryr Snaðtôn, aer gyfludwyt* o

Fawl Llywelyn ap Gruffudd ap Madog gan Lygad Gŵr (CBT, VII.24.88). Yr un yw'r enghreifftiau a nodir yn GBGG.

91 **dyuo** Arno gw. A87 uchod.

pydi6 Gellir *pyd i6* neu *py di6*, megis yn B49, ac y mae Caerwyn Williams (1969, 229) yn cynnig dau ystyr posibl i'r ddihareb hon yn ddibynnol ar y ddau ddarlleniad. Ystyr *pyd* yw 'perygl' ac o dderbyn darlleniad A, ystyr y ddihareb yw 'yr hwn nad oes ganddo bwyll, y mae'n berygl'. Dyfynnir fersiwn o'r ddihareb yn DD, 'Ar nid yw pwyll pŷd yw', a chynigir y cyfieithiad *Quod non est prudentia est periculum*.

A dychwelyd at ddarlleniad B, *py di6*. Ni thâl yma ddeall *pyddiw*, sef y rhagenw gofynnol + arddodiad (GMW §84). Nodir yn GPC mai berf pres. myn. 3 un. yw *diw* ac mai'r ystyr yw 'bod yn bresennol, bod o werth, tycio, cyfrif'. Ystyr y geirynnau gofynnol *py*, *pa* ydyw 'beth' (gw. GMW §81-§84). Cynnig Caerwyn Williams yw dyall *py diw* fel 'beth a dycia' megis yn y llinellau hyn (gwahanol yw dehongliad Thomas Parry, GDG, 516):

Pei rhôn a'i hagog, pei rhaid,
Paddyw? Neu pwy a ddywaid?
(GDG, 92.17-8)

Y mae'n awgrymu cyfieithu'r ddihareb yn 'Beth a dycia'r sawl nad oes ganddo bwyll'.

Dichon fod adlais o'r ddihareb yn llinellau Cynddelw, 'Kyuaruaeth am aeth am aruetyd- twyll / (Kyfrancgeu gymhwyll) a'm pwyll y'm pyd' (CBT, IV.17.43-4; gw. nodyn y golygydd ar y llinellau

hyn); ‘Ar ny uo p6ylla6c nys p6ylla’ (CBT, IV.16.92). Cf. A697 isod.

93 Nid yw darlleniad A yn amhosibl cans y mae anaf yn aml, onid yn ddieithriad, yn gymhleth (yn ogystal, geill *astrus* olygu ‘drwg’, GPC). Cf. hefyd y modd y cyfosodir y ddau ansoddair mewn cerdd ddychan ddienw yn Llyfr Coch Hergest, *Astrus anafus* (GPB, 9.60). Ond gwell, mi gredaf, yw dilyn darlleniad B51 a PheniARTH 17, *hynaf* (gradd eithaf yr ansoddair *hen* a ddefnyddir yma fel enw). Rhestrir amryfal ystyron iddo yn GPC, ‘arglwydd, cynghorwr, cyndad’ ayyb. Ymysg y trioedd ceir ‘Tri Hynaif Byd: Tyllvan Gwm Kowlwyd, Eryr Gwern Abwy, A Mwyalchen Gelli Gadarn’ (TYP, 92), cyfeiriad at chwedl yr Anifeiliaid Hynaf (gw. ymhellach CO, l-liv). Yn Chwedl Culhwch ac Olwen y mae dull yr Anifeiliaid Hynaf o ymateb i cais cenhadon Arthur yn bur astrus, hynny yw y maent yn ragymadroddllyd ac nid ydynt yn rhoi ateb plaen ar ei ben. Noder hefyd fod i’r Lladin *abstrusus* (> *astrus*, EL §87) ystyron enhangach na ‘dyrys’. Geill gyfleu ‘dirgel, tawedog’ yn ogystal.

94 **Ilygr6ys** Gorff. 3 un. ‘Ilygru’. Digwydd mewn cyd-destunau diriaethol (‘Gwydeu a gaffer yn Ilygru yt trwy yscubawr’, Bleg., 86.8) a moesol (‘A Hewel a’r doethyon a wuant ygyt ac ef a ossodassant eu hemendyth a’r hon Kemry oll ar y nep yg Kemry a lycrey y kyureythyau hep eu cadv’, Ior., §1.16-8).

95 **dyuo...dyuyd** Gw. A87 uchod.

deheith Ffurf myn. pres. 3 un y ferf *dyhaedd*, ‘cyrraedd, cyrchu, ennill, cael’ (GBGG, felly hefyd yn GPC) ond ymddengys mai enw ydyw yma.

Trafodir y ddihareb yn llawn gan J. E. Caerwyn Williams (1969, 218). Y mae'r un a chanddo fwyd yn rhwym o gael rhywun i wneud ei waith (yn ei le).

97 Caiff yr un sy'n cwyno am fanion rywbeth o bwys i gwyno amdano yn y man. Cf. A88 uchod. Sylwer mai berf anghyflawn yw *cwyno* yma.

98 **Diffeith** Ansoddair 'anghyfannedd', cf. 'tren tref diffeith' (CLIH, IX.4c) ond yma fe'i defnyddir fel enw, 'diffeithwch', 'lle gwyllt'. Arwydd o dân yw mwg, megis yn y ddihareb gydwladol *Nul feu est sens fume ne fume sens feu* (Mor. 1405); *Nul feu sans fumée* (MFPSPP F69); *No Fire without some smoke* (PSPP F194). Nodir trydydd ystyr i *difffraith* yn GPC: 'Eiddo, tir, &c., heb berchennog cydnabyddedig ac a âi felly i'r arglwydd neu i'r brenin' ond go brin mai dyna'r ystyr yn y ddihareb.

100 **wahaner** Ym Mheniarth 17 ceir *wehynnir*, pres. amhers. *gwehynnu*, 'disbyddu, gwacáu, tywallt' (GPC), a hynny a rydd y synnwyr gorau.

101 **yt** Ar yr hen eiryn rhagferfol *yt* a ddefnyddid o flaen cytsain, ac a ddilynid gan dreigliad meddal, gw. GMW §190.

lefeir Myn. pres. 3 un. *llefaru*, yr ystyr yma yw 'peri trwst'.

Ceir y linell *bas d6fyr myn yt leueir* yn y gyfres 'Eiry Mynydd' (EWGP, III.32b) ac fe'i cyfieithir gan Jackson yn *water is shallow where it babbles* (SECNP, 61).

Ceir yr un ddelwedd yn un o gywyddau Tudur Aled i Birs Conwy:
'Rhuad a fydd o'r rhyd fas, / Nid o'r dwfn, na dŵr difas! / Llyn di-
drwst, llawn, wyd, a drud, / Llonyddach no'r llyn oeddud' (GTA,
XXIX.77-80) ac yn llinellau enwog hyn o gywydd mawl Gwilym
ab Ieuan Hen i Ruffudd ap Nicolas:

Y llyn dyfnaf o'r afon
Isaf fis haf yw ei sôn;
Y doeth ni ddywaid a wŷr,
Nid o sôn y daw synnwyr;
A fo doeth efe a dau,
Annoeth ni rola'i enau;
A ddwetych di ni ddowntia',
A ddêl o'th law a ddaw'n dda;
Gair o'th enau, gwyrth uniawn,
Gair isel yw, grasol iawn.
(GDIDGIH, VI.33-42)

Y mae hwn yn syniad cyffredin mewn llên doethineb, cf. *Aque non
currenti et homini tacenti noli credere* (SM I, 54); *Still Waters run
deep (varied)* (PSPP, W70). Cyffelyb yw cenadwri'r hen bennill
hwn:

Lle bo llyn â 'chydig sŵn,
Geill fod yn ddwfn ynddo;
A'r lleia' ddwedo wrth fain ei hael
A ddylai gael ei goelio.
(Hen Benillion, 37)

104 **y dat** Ym Mheniarth 17 ceir *yu hat*.

107 Dyfynnir y ddihareb hon gan Henri Perri, gyda hyn o ddehongliad:

Po tynna bho'r lhinin cynta y tyrr. Sebh po mwyabh
bho'r lhudhed, cyntabh bhydh y diwedh. dyma dhywediad
adnewydhedic o hynawdrwydh 'odigawg.

(Williams, 130, 43)

Credaf fod adlais ohoni yn y llinellau hyn o un o gywyddau
apocryffa Siôn Cent:

Modd gwir hap, medd gwŷr hen

Nid o'r cynta' a dyr cwinten:

Er cael blaen Siarl-y-maen *Mai*

Nid hwyrach mai'r ola' a'i torrai.

Y bwa po dynna' y dêl

I roi pursaeth i'r parcel,

Da iawn ywen dan awyr,

Cnotiau tew, cynta' y tyr.

(ASC 2, 87-94)

- 108 Defnyddir *troed* yma yn ffigurol i olygu rhywbeth yn debyg i gadernid (cf. *troedle*). Cyffredin yw defnyddio enwau ar rannau'r corff yn ffigurol – 'bu'n gefn i'r teulu', 'tin y glêr'.
- 109 **g6dyf** *Gwddyf*. Math ar filwg (GPC).
- 110 **mam y gynnyl** 'Achos cynnen'. Defnyddir *mater* yn ffigurol yn y Lladin i gyfleu tarddiad neu achos ac y mae'r arfer yn gyffredin mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill ac yn neilltuol mewn diarhebion. Ceir *mam cynfyl* gan Iolo Goch (GIG, XX.82). Cf. yn ogystal 'mam y boen' (GGLI, 13.47).

Y mae cenadwri'r ddihareb yn gyson â'r Catwn: 'Na chynhenna gywira yn erbyn y neb a gerych neu a adnelych. kanys mynych yw tyfu llit mawr o eireu bychein' (Catwn Liber ii, 11). Priodolir englyn ar y ddihareb hon i Ruffudd Leiaf (15fed ganrif) mewn dwy lawysgrif:

Magiad grechweniad a gwreichionen – lesg

Hi all losgi'r nenbren!

Achos bach, â chas i'w ben,

Ganwaith fu mam y gynnen.

(Llwyd, 1978, 549)

111 Ym Mheniarth 17 ceir *Bei yu ar wrach torri y chlun* (cf. C134) a diau mai llygriad o'r ddihareb honno sydd yma.

112 **renyat** 'Rhoddwr, rhannwr, cyfrannwr' (GPC). Cynigia Jackson (EWGP, 65) yr ystyr estynedig 'tywysog, pennaeth'.

Ceir y llinell yn y canu gwirebol (EWGP, VII.16b). Fe'i cyfieithir gan Loth (1925, 372) yn *celui qui distribue gronde naturellement* ond haws credu, gyda Jackson, mai'r ystyr estynedig 'brwydr' sydd i *cyfarth* yma. Fe'i cyfieithir gan Jackson yn *a chief is wont to be in combat* (SECNP, 70).

113 **Bit wy6** Ceir gwell synnwyr o ddilyn darlleniad 'Gossymdeith Llefoet Wynepglawr': *bit vy6 g6r heb dryc wryaeth* (RBP, 1056.26).

115 **euein** Ym Mheniarth 17 ceir *edein* (ar ymgyfnewid *f* ac *dd* gw. WG §110). Am *eddëin* dyry GPC 'dieithr, estron'. Ceir nodyn ar y

gair yng nghyswllt y llinell ‘Poet gwyl Duw wrth edein’ yn y gyfres englynion ‘Claf Abercuawg’ (CLIH, 175). Byddai’r claf gwahanglwyfus, yn naturiol, yn ddi-doledig y tu allan i’r gymdeithas. Cf. ‘ieithoed edein’ (LIT, 35.19) sef ieithoedd dieithr. **alltut** Yn y Cyfreithiau, estron o’r tu allan i Gymru na chât drigo yng Nghymru heb wrogi i Gymro a chanddo statws cymdeithasol sefydlog (gw. Jenkins, 1976, 15-7). Nid oedd alltud yn amddifad o hawliau yn ôl y Gyfraith ond dibynnai ei fraint ar fraint ei arglwydd:

Galanas alltut brenhin, teir bu a thri vgein mu, heb drychafel. Y sarhaet yw teir bu heb achwanec. Gwerth alltut breyr, hanherawc vyd ar alltut bilaen, hanherwerth alltut breyr; a’e sarhaet velly
(Bleg., 58.23-8)

Digwydd y ddihareb yn y canu gwirebol: ‘Bit euein alltut; bit disgythrin drut’ (EWGP, VII.12a).

116 O dderbyn darlleniad A, ergyd y ddihareb ydyw fod gwraig yn dawel pan fyddo’n erchi (h.y. pan fyddo’n gofyn am rywbeth). Ym Mheniarth 17, fodd bynnag, ceir negydd a pres. amhers. y ferf, *Bit wastat gureic ny erchir*. Yn fersiwn y Llyfr Coch o ‘Osymdaith Llefoed Wynepglawr’ ceir *bit wastat gwreic ny erchis* (RBP, 1056.37-8) ond dengys yr odl mai *erchir* sydd gywir. Hynny a geir yng ngolygiad Nicolas Jacobs ac y mae’n aralleirio’r llinell yn ‘Y mae merch nad oes gofyn amdani yn dawel’ (2004, 17).

117 **haha** Dyma’r unig enghraifft o *haha* fel ebychiad gofynnol a nodir yn GPC. Ceir mynych enghreifftiau ohono fel ebychiad yn mynegi syndod neu lawenydd (cf. ‘haha heb ef graessa6 du6 6rthyt pedur

dec vab efra6c', WBM, 123.9-10). Dynwarediad ydyw o ebychiad y dyn byddar. Digwydd y llinell yn y canu gwirebol mewn dau amrywiad o'r un englyn (EWGP, VII.10a; VIII.2a) lle y'i cyplysir ag A118 isod. Yn argraffiad cyntaf EWGP cyfeitha Jackson haha yn 'loud-laughing'. Mewn adolygiad ar EWGP cynigia Lewis (1936): *It seems more likely that ha-ha refers to the far more common and natural habit of the deaf, namely, a request for a repetition of what has been said – "eh, eh?"*.

- 118 Un oriog yw'r *ehud* ac ni ellir dibynnu arno. Ceir llinell yn y canu gwirebol (EWGP, VII.10a; VIII.2a) lle y'i cyplysir ag A117 uchod. Cf. yn ogystal y llinell 'bit anniweir annwadal' (EWGP, VII.5c) a'r englyn a ganlyn o'r gyfres 'Cân yr Henwr' lle y cysylltir y *drud* a'r *ehud*:

Wyf tridyblic hen wyf annwadal drut.
 wyf ehut wyf annwar.
 y sawl am karawd *nym* kar.
 (CLIH, II.18; EWSP, 418)

- 119 **anyan** Gofyn Lewis (1927, 13), sy'n darllen *anau* yn fersiwn Peniarth 17, ai *anaw*, 'cyfoeth' sydd yn y ddihareb a chynigia'r dehongliad 'mae dedwydd yn gyfoethog'. Tybiaf ei fod wedi camddarllen *u* am *n* ac mai *anan* a geir ym Mheniarth 17 a hwnnw'n wall am *anyan*. Gall *anian* olygu 'nerth' (gw. Williams, 1925, 302 lle y'i cymharir ag *aicned*, gytras Gwyddeleg *egni*). Dichon felly mai defnyddio'r enw *anian* yn ansoddeiriol i olygu 'nerthol' a wneir yma. Cf. yn ogystal y triawd 'Tri thywysogaeth dedwydd: bod yn dda ei wasanaeth, a'i anian, a'i gyfrinach' (Owen, 1988, 104).

120 **warancleu** Ceir *gwaranclau*, ‘?Gorawyddus, tra pharod’ yn GPC a fersiwn Peniarth 17 o’r ddihareb hon yw’r unig enghraifft a gofnodir. Cynigir mai elfennau’r gair yw *gwa-*+ *rhanc/anc+clau*. Ffurf ar y rhagddodiad *go-* yw *gwa-* ac yma byddai’n gyfystyr â *tra-* (*with adjectives, mostly intensifying*, Zimmer, 2000, 229); *clau* (= ‘cyflym’) yw’r elfen olaf. Petrusa GPC ynglŷn â’r elfen yng nghanol y gair a chynigir naill ai *rhanc* fel yn y berfenw *rhyngu* (= ‘boddhau’, fel yn ‘rhyngu bodd’) neu *anc-* fel yn *angad* (= ‘llaw’) a *crafanc*. Yn niffyg unrhyw enghreifftiau eraill y mae’r cwbl braidd yn hwylus-ddamcaniaethol. Ceir ymdriniaeth faith â’r wireb yn EWGP (63-4 a 76-7). Dyfarniad Jackson ar ddarlleniad RBP 1030, 21, *granclaf*, yw ‘makes no sense’ a chynigia y byddai *bit gwarant le6 gle6 6rth a6r* (EWGP, VII.11b; dyry’r cyfieithiad *the brave is a dependable lion*) yn egluro’r amrywiol ddarlleniadau (camddarllen *t am c*, a dyall *u fel w*). Noda fod Ifor Williams yn cynnig dylid dyall *waran = faran* (< *baran* ‘ffyrnigrwydd’) a darllen *waran-cleu* (‘ffyrnigrwydd cyflym’) neu *waran-llew* (‘ffyrnigrwydd llew’; cf. ‘mor hael *baran llew*’, CA, XXXVII.408). Gwrthyd Jackson gynnig GBGG sy’n ystyried *gwaranclau* yn air cyfansawdd yn cynnwys *gwaranc* (cytras damcaniaethol *fo-r-ic* yr Wyddeleg ‘caiff’, berfenw *fuirec*, ‘derbyniad, croeso’) a *clau* (= ‘cyflym’) a roddai’r ystyr ‘hawdd ei gael’. ‘Os *llef* yw’r ail elfen, ac nid *cleu* na *lleu*,’ meddai Lloyd-Jones, ‘rhywbeth fel ‘yn bloeddio derbyniad neu groeso’ yw ystyr y cyfansawdd; a dylid crybwyll hefyd nad amhosibl *gwaran-gleu* yn cynnwys y gair blaenorol’ (GBGG). Awgryma Lloyd-Jones (1950, 31-2) y gellir cysylltu’r gair â *gwyran* (fel ansoddair cyfetyb i’r Wyddeleg *fireann*, ‘gwrol’). Gellir chwe dehongliad felly – gorawyddus, llew

dibynadwy, cyflym ei lid, llid fel llew, hawdd ei gael, parod ei groeso – y cwbl yn cwmpasu ystyron tebyg iawn.

6rth a6r ‘Wrth frwydr’ (*gawr* = ‘cri rhyfel’ neu ‘frwydr’). Yma golyga *6rth* ‘tuag at’ (GMW §243).

- 121 **vyd k6yn** Cynigia Lewis (1927, 13) ddarllen *uythkwyn* (*bythgwyn*, ‘cwyno’ n wastadol).

Yn yr englynion gwirebol ceir *bit g6yn claf* (EWGP, VII.34.13b).

- 122 Gellid cymharu’r ddihareb hon, ac A121, ag A788 isod.

- 124 Yn y gyfres englynion ‘Llym Awel’ ceir yr englyn hwn:

Kalan gaeaw, gurim gordugor blaen gruc,
goreuynauc ton mor,
bir dit; deruhid ych kighor
(EWGP, I.22)

Cyfieithir y llinell olaf gan Jenny Rowland yn *Short is the day; let your counsel be accomplished* (EWSP, 502). Y mae Ifor Williams (CLIH, 179) yn nodi mai gorch. 3 un. yw’r ferf (hynny oherwydd orgraff Llyfr Du Caerfyrddin). Yn y casgliadau diarhebion, fodd bynnag negydd a ffurf dyfodol 3 un. y ferf a geir a’r ystyr yw ‘Mae’r dydd yn fyr, ni fydd cyngor yn darfod’. Cyferbynnir hyd y dydd a natur barhaol cyngor. Awgryma Ifor Williams fod y llinell wedi ei chodi o’r canu saga a’i bod wedi ei chamddeall y tu allan i gyd-destun yr englynion (gw. ymdriniaeth Jenny Rowland yn EWSP, 229). ‘Ymddengys imi,’ meddai T. J. Morgan, ‘fod pob

ymadrodd yn cynnwys *bid* a'r terf. –*id* wedi'i gymryd yn ddihareb gan gasglwyr diweddarach' (1931, 38).

125 **hiraetha6c** Hiraethus, trist.

127 **digassa6c** Yn ôl GPC gall *digasog* fod yn ansoddair 'Atgas, a gaseir, ffiadd; yn casáu, gelyniaethus, maleisus' neu'n enw 'Gelyn, gwrthwynebwr'. Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (21c) ac fe'i diweddarir gan Haycock yn *Byr einioes y sawl sy'n elyniaethus tuag at y saint* (BBGCC 31, 21c neu *atgas gan y saint*, 332).

seint Lluosog 'sant' (ar darddiad y lluosog drwy affeithiad gw. EL §4, 'try'r *a* yn *ei*, ac yn ddiweddarach yn *ai*, yn y gair Cymraeg' - 'saint' <san(c)ti).

Ceir llinell debyg iawn yn 'Difregwawd Taliesin' 'Gwae digassawc seint ny chynneil eu breint, nys adolha' (BBGCC, 33.98).

128 **ry buchir** Pres. amhers. *rhybucho*, 'dymuno'.

Cf. *kyfa rann rybuchir* (RBP, 1056.37).

129 **B6ystla6n** Yr ail elfen yw *llawn* (GBGG), felly 'llawn bwystfilod, llawn anifeiliaid' (*bwyst*<*bestia*, gw. EL, 33) ond dyry GPC yr ystyr 'gwancus, ysglyfaethus', er mai nghyd-destun y ddihareb dan sylw yn unig y digwydd y gair. Dengys fersiwn Peniarth 17 y dylid darllen *B6ystla6n y gynneu*. Ystyr *cynnau* fel arfer yw 'ennyn tân' ac ystyr *kynneu calla6r*, felly, yw *cynnau tân* o dan grochan. Rhaid wrth rywun ar ei gythlwg i *gynnau callor*? Os felly, diddorol yw cymharu'r syniad ag A620 isod.

130 Cf. A122 uchod.

133 Tystia'r holl lawysgrifau cynnar mai *bit* *vy6* 'bid fyw' a ddylid ei ddarllen yn hytrach na 'bid wyw'. Fel y'i ceir yn A y mae'r ddihareb yn berffaith synhwyrol - 'Bydd march a gny wellt mis Mai fyw' (ynghyd â 'thynnu' gall *cnithio* olygu 'cnoi') Fodd bynnag, y mae darlleniad B70 a PheniARTH 17 beth yn wahanol. Yn y testunau hyn ceir *athuilathvi* sef y geiryn perthynol + rhagenw dibynnol mewdol 2 un. + *bi*, ffurf hynafol ar Ddyf./Pres. arferiadol 3 un. 'bod'. Ystyr *athui* yw 'bydd iti' (Lewis, 1927, 13). Geill fod yma fersiwn gynnar o A249 sy'n dilyn patrwm y Ffrangeeg, *Ne meur, cheval, herbe te vient* (Mor., 1344)

134 **Boloch** GPC 'poen, blinder'.

ofyna6c Yn y cyd-destun hwn gall fod yn ansoddair yn goleddfu *boloch* (naill ai 'poen ofnus' neu 'poen dychrynlyd' – y mae iddo ystyron gwrthgyferbyniol) neu gall fod yn enw yn y genidol (= blinder dyn ofnus).

daw Diau mai mab yng nghyfraith a olygir yma, pryder pob tad yng nghyfraith.

136 **bychoded** Trafodir *bychod* yn CLIH yng nghyd-destun *da dyuot vycot* a (CLIH, I.28c) a *Gwerthu bychot yr llawer* (CLIH, VI.24c). Yr ystyr yw 'ychydig'. Cyfansoddair o 'bychod' yw 'bychodedd', fel 'bychydig' a 'bychodrwydd' hwythau.

mynyaled 'Minialedd' sef y berfenw 'minial' - *symudo gwefle val yn dywedyt, patter* (Salesbury, 1547); *Labra mouere more loquentis* (DD) – a'r terfyniad enwol haniaethol –edd. Y ddihareb

non yw i unig enghraifft gynnar yn GPC a chynigir yno ‘?Murmur,
mwmian, grwgnach’.

Yr ystyr felly fyddai ‘ychydig furmur’.

- 137 Yn GPC dyfynnir y ddihareb Saesneg gyfatebol *the wish is father to the thought*. Dyfynnir dihareb Wyddeleg gyffelyb gan Henry Lewis: *Aisling caillich-mar a dùrachd* (1927, 13). Fe’i ceir gan Edward Maelor: ‘brevddwyd henwrach ebrwrddwg / wrth i hwyllis megis mwg’ (G. J. Williams, 1930b, 82).

- 138 **Br6yna6c** ‘Brwynog’ GPC ‘trist, prudd, pryderus, gofidus’.

Mae ieir yn dywyllodrus ar fore trist. Gellid tybio mai disgrifiad o ieir yn pigo yma ac acw megis pe na bai dim o’i le sydd yma.

140. **Canhymdeith** Berfenw y ferf ‘canymdeithiaf’ a ddefnyddir fel enw gwrywaidd yn golygu ‘cydymaith’ megis yn y llinellau ‘Doeth dewrgoeth, de6rglod ganhymdeith’ (CBT, III.13.26); ‘Pyrth piblfag ddinag ddawn ganhymddaith’ (GGDT, 11.26). Yr un grym sydd i’r rhagddodiad *can-* (sef yr arddodiad ‘gan’) yma â’r rhagddodiad *cyd-* yn ‘cydymaith’ (Zimmer, 2000, 228-9). Dilynir ci gan ei gynffon i bobman.

- 141 Noda Henry Lewis mai treigladd meddal a geid mewn brawddeg berthynol ar ôl y geiryn negyddol *ni* gynt (1927, 14; gw. GMW, 21).

kysgit Hen ffurf pres. 3 un. annibynnol ‘cysgu’.

Yr ystyr felly yw ‘Mae calon na chynydda yn cysgu’. Yn B112, fodd bynnag, ceir *kystud* ac ystyr y ddihareb wedyn fai ‘Mae calon na chynydda yn ofid’.

142 **oe hynt** Ar y ffurf *oe* gw. GMW §56. Ym Mheniarth 17 a B101 ceir *y hynt*. Y mae meibion ieuainc yn chwannog i grwydro neu geisio antur. Gall ‘hynt’ yn ogystal olygu ‘mympwy’ neu ‘chwiw’.

144 **Clywit** Ym Mheniarth 17 ceir *clywitor*, yr hen ffurf pres. amhers. myn. (GMW §131) ac y mae’r ffaith mai’r pres. amhers. myn. ‘clywir’ a geir gan amlaf pan ddyfynnir y ddihareb gan y beirdd yn awgrymu mai ffrwyth camddeall y terfyniad *-itor* yw ‘Clywit’ yn A ac yn B86 ac na ddylid credu mai amherff. amhers. sydd yma.

Dyma ddihareb a ddefnyddir yn gyffredin yn y cywyddau mawl i gyfleu enwogrwydd yr un a folir: ‘Clywais i glod i ddiorn, / Clywer cyn gweler can gorn’ (GHS, 15.46); ‘Coeliais swrn lle clywais sôn / Fod helaeth fywyd haelion. / E glywir corn eglur, cau, / Er nas gwelir, naws golau’ (GST, 145.55-8). Rhyfedd yw gweld y ddihareb hon mewn dau gywydd marwnad i’r bardd Morys Dwyfech, y naill gan Siôn Phylip a’r llall gan Huw Pennant: ‘Oes dihareb ystyriol? / Oes yn wir gannoos yn ôl! / E glywir corn eglur cau / Er na welir yn olau. / Er na ddaeth ar awen dda / Yr wyl dim o’r wlad yma, / Mae ’mhob gwlad, rhoddiad rhwyddwch, / Mwyfwy’r sôn am Forys wych’ (GBMD, 38.65-72); ‘Y mae hygar ddihareb / I’w chael yn wir ni chël neb! / Corn a glywir, gwir nid gau / Er na welir yn olau; / Felly’r hardd llawenfardd llwyd, / Hynaws goel, lle nis gwelwyd, / Ei wiw dirion wawduriaeth / A’i glod oll i bob gwlad aeth’ (GBMD, 39.71-8). ‘Ymddengys iddo gyfyngu ei deithiau clera i Wynedd’ meddai’r *Bywgraffiadur* am Morys Dwyfech; yn wir, canu i deuluoedd Llŷn ac Eifionydd yw’r gyfran helaethaf o’i waith. Dichon fod peth amwysedd yn y ddau gywydd marwnad cans clodforid Morys yn ystod ei oes er iddo

aros yn ei fro ac yn yr un modd fe'i clodforid wedi ei farw ond nis gwelid ac yntau dan y dorchén.

- 146 **Chwaryit** Hen ffurf annibynnol pres. myn. 3 un. 'chwaræ'. Yr oedd dwy ffurf i bob person yn system ferfol Celteg Cyffredin, ffurf annibynnol a ffurf gysylltiol. Defnyddid y ffurf gysylltiol pan ragflaenid y ferf gan eirynnau rhagferfol megis geiryn negyddol. Cadwyd y system hon yn gyflawn mewn Hen Wyddeleg ac y mae i rai berfau afreolaidd ffurfiau annibynnol a chysylltiol ar wahân mewn Gwyddeleg Diweddar (Thurneysen, 1946, §542). Dadfeiliodd y system yn gynnar yn yr ieithoedd Brythonig ond goroesodd rhai ffurfiau yn y pres. myn. 3 un. mewn Cymraeg Canol (GMW, 118-19; CCCG §448). Mae'r ddihareb hon, fel A1048, A1050 ac A1052 isod, yn enghraifft o'r gystrawen wreiddiol. Ynddi fe welir y ffurf annibynnol *chwaryit* a'r ffurf gysylltiol *chbare* gyda'r geiryn negyddol yn ei rhagflaenu.

Ffurf yw'r ddihareb hon, mi dybiaf, ar y ddihareb gydwladol a drafodir gan Samuel Singer yng nghyswllt y llinell *Non sic ueste noua saturo quam uentre iocatur* o'r *Fecunda ratis* gan Egbert von Lüttich (SM I, 68). Cf. *Ventre[s] saous joe, non cotelete noeve* (Mor. 2466); *Better pleases a full Womb than fair clothes (varied)* (PSPP, W550); *Veste nova melius ludit venter saturatus* (LSSM V29). Amrywiad ar y ddihareb hon yw A361 isod.

- 147 **yng geneu** Cf. A948 isod a'r ddihareb gyfreithiol 'Brec egeneu keghaus' (Col. §467; ystyr *breg* yw 'twyll').

Ar agweddau tuag at chwerthin a gwenu yn yr Oesau Canol gw. y bennod ar *Le rire dans la société médiévale* yn Le Goff (1999,

1341-68). Yn y traddodiad Cristnogol cysylltid chwerthin ag ymddygiad o radd isel (pwysleisir yr agwedd hon droeon yn yr Ysgrythurau, cf. er enghraifft, ‘Mi a ddywedais am chwerthin, Ynfyd yw: ac am lawenydd, Pa beth a wna?’, Llyfr y Pregethwr 2:2) ond y mae traddodiad arall, Aristotelaidd ei darddiad, sy’n diffinio dyn fel *homo risibilis*, y dyn a fedr chwerthin. Ceisiwyd diffinio lle chwerthin mewn moeseg Cristnogol yn gynnar. Yn ôl Clement o Alecsandria (a fu farw oddeutu 215), y cyntaf i gyfansoddi casgliad o reolau ynglŷn â chwerthin, nodwedd yr ynfydyn ydyw. Dylid ffrwyno’r awydd i chwerthin a’r unig ‘chwerthin’ derbyniol yw gwên, ‘chwerthiniad y doeth’. Gwahaniaethid rhwng sawl math ar chwerthin a gellid tybio fod natur faleisus, annymunol crechwen yn peri ei bod yn nes at chwerthin yr ynfydyn na gwên gynnil y doeth. Cf. ‘bit chwanna6c ynvyt y chwerthin’ (EWGP, VII.12b). Ceir trafodaeth fuddiol ar chwerthin yn llên y Gwyddyl gan O’Leary (1991).

- 149 **y6r wirionedd** Geill ‘gwirionedd’ fod yn enw benywaidd. Cf. ‘cas gwirionedd ny charer’ (Clyweit 41c) a aralleirir gan Marged Haycock yn ‘Ni cherir y sawl sy’n casáu gwirionedd’ (BBGCC, 31.41c; neu gellid ‘cas gwirionedd’ = ‘caswir’ a’r g yn caledu ar ôl s, t. 334).
- 150 Ceir y cyfuniad *edau gyfrodedd* mewn darn yn disgrifio dwbled yng nghywydd Ieuan Llwyd Brydydd i ddathlu dianc Hywel ab Einion ap Hywel Coetmor o frwydr Banbri (GILIF, 7.36). Dichon fod yr ystyr yn llythrennol a throsiadol yno. Ym Marwnad Dafydd ab Edmwnd gan Gutun Owain ceir y llinellau hyn sy’n cyfeirio at gamp Dafydd yn Eisteddfod Caeryrddin: ‘Dangos val edav vngor / ’Oedd o vawl rrwng y ddav vôr, / Y kân o’i vin kyn i vedd, / Gwiw

vv'r edav gyvrodedd' (OPGO, LXII.15-8), ac y mae Bachellery yn eu cyfieithu fel hyn: *faisant apparaître comme du fil à un seul brin / ce qui existait de louange entre les deux mers, / le chant de ses lèvres, avant sa tombe, / fut un fil dignement tordu*. Onid adleisir y ddihareb yn y llinellau hyn, yr un ddelwedd sydd ynddynt. Fe'i ceir hefyd yn y Beibl: 'Ac os cryfach fydd un nag ef, dau a'i gwrthwynebant yntau; a rhaff deircainc ni thorrir ar frys' (Llyfr y Pregethwr 4:12). Cf. *A Handful of yards (sticks) are arveth (hard) to break* (PSPP, H90).

- 151 Mae talu medd yn syniad canolog yn y farddoniaeth arwrol. cf. *diffun ymlaen bun med a dalhei* (CA, II.22). Trafodir cwmpas ystyr 'talu' gan Ifor Williams (CA, 70) a chyfeiria at yr ystyr 'bod yn werth' sydd i'r gair yn y cyfreithiau ac yn y coloffon sy'n dilyn y gwarchannau yn Llyfr Aneirin. Gellir cyfeirio yn ogystal at y gystrawen lle ceir yr arddodiad 'am' heddiw e.e. 'chwithheu bieu talu y minneu fy ymdidan' (Owein, 2.25-6). Adleisir y cyfeiriadau at fedd yn y Gododdin yn y gerdd Hirlas Owain, cerdd a fabwysiadodd batrwm y Gododdin i raddau helaeth: 'Talyassant eu med mal g6yr Belyn –gynt' (CBT, II.14.37). Yn y Gododdin cyferbynnir llawenydd y llys ac angau'r gad mewn cyfeiriadau at fedd melus: 'glasved eu hancwyn a gwenwyn vu' (CA, VIII.69); 'ket yvem ved gloyw wrth leu babir / ket vei da e vlas y gas bu hir' (CA, XV.138-9). Ceir ymdriniaeth lawn â delweddau medd yn y farddoniaeth yn Marged Haycock (1996). Ar bwysigrwydd y meddydd a'i swyddogaeth yn ôl cyfreithiau'r llys gw. Bleg., 25. Digwydd y cyfuniad *chweg-chwerw* yn y Gododdin, 'ni bu hero ciued guec guero' (CA, LXXV.938), ac yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd: 'O bu ch6ec, bu ch6er6 odynd' (CBT, IV.16.103); 'Kyfredec a chwec, chwer6 hir ennhyd' (CBT, IV.17.46). Cf. hefyd

‘chuerv vuelin met melis’ (LIDC, 26.32). Yn y gyfres englynion a elwir ‘Cysul Addaon’ yn Llyfr Du Caerfyrddin ceir yr englyn hwn:

Ry hun a ry uetudaud a ri wiraud o vet
a ri etillter o gynaud
llyna chuec chuerv erbin braud
(LIDC, 27.16-8)

Erbyn Dydd Brawd bydd y melus yn chwerw.

Diddorol yw sylwi ar gymhariaeth debyg yn yr ysgrythrau: ‘Canys gwefusau y ddieithr a ddiferant fel y dil mêl, a’i genau sydd lyfnach nag olew: Ond ei diwedd hi a fydd chwerw fel y wermod, yn llym fel cleddyf daufiniog’ (Llyfr y Diarhebion 5:3-4).

Eglurhad arall ar y ddihareb, ond eglurhad llai tebygol yng ngoleuni’r dystiolaeth a ddyfynnwyd uchod, yw mai cyfeiriad sydd ynddi at dalu gwestfa brenin. Ystyrier y darn hwn o Lyfr Cyfnerth:

O tref maeroni neu gyghelloryaeth med atelir. O tref ryd dissôyd
bragaôt atelir. O tayaôctref côrôf atelir. Dôy gerôyn vragaôt neu pedeir
côrôf atelir dros vn ved.
(WML, 56.10-4)

Parodi ar y ddihareb sydd yn yr englyn hwn gan Dafydd ap Gwilym:

Hyllais pan welais hollwyr ofer – saith
syth rygynbren im hamner
hoiw fydd gwin gloiw gen glêr
a chwerw poen dielw pan daler.
(GDG, 415)

153 **Chwerthit** Ffurf annibynnol myn. pres. 3 un. *chwerthin*. Digwydd ‘chwerthinat tonn’ yn y canu saga (CLIH, VI.28b) ac y mae’n eglur mai at sŵn byrlymus dŵr y cyfeirir. Cyfeiria R. Iestyn Daniel (2001, 73-4) at enghreifftiau o gyffelybu sŵn dŵr yn codi mewn ffynnon i *chwerthin* yng nghywyddau’r beirdd i ffynhonnau’r saint ynghyd ag arfer trigolion Llanaelhaearn o alw sŵn y dŵr yn codi yn ffynnon Aelhaearn yn *chwerthin*. Ymddengys fod awgrym Vendryes (1938, 43) yn o agos ati: *L’addition de gwen (gen) à des verbes signifiant «rire»* [mewn Cymraeg a Gwyddeleg] *donne à penser que cette signification n’était pas la plus ancienne.*

Am y ferf Wyddeleg *tibim* dywed Vendryes, *Ce verbe unit en effet le sens de «rire» à celui de «battre, heurter, pousser»,* ac mae’n dyfynnu sawl enghraifft o ddefnyddio’r ferf *tibim* i ddisgrifio tonnau’r môr. Dengys y ddihareb hon ynghyd â’r cyfeiriad diamwys at sŵn ton yn y canu saga y defnyddid *chwerthin* gynt yn y Gymraeg yn yr un modd â *tibim* yn yr Wyddeleg.

Yn ôl John Davies (Brog. I.11) disgrifiad o chwerthin ffug sydd yn y ddihareb ‘Chwarddiad dwr dan ia’: *Risus aqua sub glacie. De risu algido, fucato, et non vero.*

154 **Chwaryus ... ch6arywys** Dengys darlleniad B95 a Pheniarth 17 mai ymgais i ddirnad y ffurf *chueiris* yw darlleniad A. Ceir ‘chwaraf*: chwaru’ yn GPC a’r ferf *chwaeru* yn GBGG a chynigir mai’r ystyr yw ‘digwydd, cwmpo, dyfod’. Cf. er enghraifft, ‘Astrus chwetyl rychweirys y Gymry’ (CBT, I.7.85) a aralleirir yn ‘Tro annirnadwy sydd wedi digwydd i Gymru’ (160). Cymhara Loth (1923, 372-4) *chwar-* â’r ffurf Lydaweg *hoar-* a’r ffurf Gernyweg *whar-* (ffurfiant ferfau cyfansawdd gyda *bout, bos* ‘bod’

yn yr ieithoedd rheiny gw. CCCG t. 329. Nid oes berf gyfansawdd gyfatebol yn y Gymraeg). Trafodir y ffurfiau yn llawn gan Henry Lewis (1928). Gorff. 3 un. yw 'chweris'.

- 155 **Caeu** *Cau*. Enghraifft o ddeusain a llafariad heb ymdoddi (GMW, 5).

Dihareb gydwladol, cf. *Tart main a cul, quant pez est hors* (Mor. 2309). Yr ergyd yw mai ofer ydyw ceisio dad-wneud yr hyn a wnaed. Cadarnheir yr ystyr hwn gan y Lladin: *Est tarde nimium, post flatum claudere culum; Est tarde nimium, post litem quaerere scutum* (LSSM, E106). Gw. ymhellach SM (I, 148).

- 156 **esgar** Gelyn (cytras yr Wyddeleg *escara*, gw. CLIH, 180). Ceir hacennol yn narlleniad B108, *hescar*.

Bydd gan ddyn a chanddo gan cyfaill gan gelyn yn cyfateb i bob un.

- 157 **Creuyd** Ym Mheniarth 17 ceir *Creuid*. Mae *Crefydd iâr* yn ddisynnwyr (hynny a geir yn llsgr. Mostyn 204 a Diarhebion DD). Myn. pres. 3 un. *crafu* sydd yma.

Brth y gyluin *urth y glin* yw darlleniad Peniarth 17. Defnyddir *brth* yma yn yr ystyr *by the side of, near* (Williams, 1956, 135).

- 159 **Cryt** Geill *cryd* olygu 'dychryn' neu 'dwymyn' a byddai'r ddau yn gweddu yma.

ystir ys dir gw. A1 uchod.

- 160 **Chweryrys** Dengys darlleniadau Peniarth 17 a B113 mai Gorff. 3 un. *chwaru* sydd yma (gw. A154 uchod). Gwall copio sy'n cyfri

am yr ail *gwaŵt* yn B. Ni cheir enghraifft o'r gair 'anianawd' sy'n gynharach nag 1793 yn GPC.

161 **dylad** Llif.

162 **Craffach** Gradd gymharol yr ans. 'craff'. Ystyr 'craff' heddiw yw 'treiddgar, deallus' ond gynt golygai 'Gafaelgar, helaeth ei afael; sefydlog, sicr, tynn ei afael, cadarn, cryf' (GPC). Fel enw golyga 'gafael, crap, meddiant'. Cf. yn ogystal amryfal ystyron y ferf 'craffu'. Digwydd yr Hen Gernyweg *craf* yn los ar *avarus*, hynny yw gafael tynn am bres (GPC). Mewn Llydaweg Diweddar ystyr *craf* yw 'pwyth'. Gafael sicrach na gefel.

164 **Cogor** Dyfynnir y ddihareb hon o dan *cogor*, 'trwst, clwcian' yn GPC. Yn ôl y gyfraith ni oddefid gwyddau mewn ydlan nac ieir mewn ysgubor:

Gwydeu a gaffer yn llygruyt trwy yscubawr, neu trwy ydlan, gwascer gwialen ar eu mynygleu a gatter yno hyny vwynt veirw. Y neb a gaffo iar yn y ard lin, neu yn y yscubawr, dalyet y iar hyny dylligho y pherchen hi o wy; ac or deily y keilawc, torret ewin idaw a gollyget ef yn ryd, neu gymeret wy o pob iar oc a uo yn y ty.

(Bleg., 86.8-15)

165 Yn GPC (532) ceir *coel can adain: omen from the flight of birds* ar ôl geiriadur Pughe. Prin fod hynny setlo'r ystyr.

166 Yn y gyfres englynion *Claf Abercuawg* ceir yr englyn hwn:

Or a wneler yn derwdy,
Ys tiryeit yr a'e derlly.

Cas dyn yman yw cas Duw vry.

(CLIH, VI.32; EWSP, 452)

Awgryma Jenny Rowland ddileu y cyplad ar sail darlleniad y casgliadau diarhebion. Disgrifio'r diriad y mae'r ddihareb yn yr englyn. Cf. yn ogystal y llinell 'Direid new. direid daear' (LIDC, 19.6).

168 **yad6r** *Adwr*, 'taeog'.

Nid oes dim yn ddidanos yn nhai'r taeogion. Ynghyd â 'cynhesrwydd, cysur', geill *clydwr* olygu 'amddiffyn' ac nid yw'n amhosibl fod yma gyferbynnu gallu amddiffynnol arglwydd a thaeog.

169 **Cann 6st** Ystyr *gwst* yw 'poen, dolur, afiechyd', cf. 'G6st aghen anghev riallu' (CBT, I.21.38). Dyma ail elfen yr enw priod Cynwst (o *Cunogustus, cf. yr enw Gwyddeleg *Congus*, gw. LHEB, 531). Nodir yn GPC ei fod yn "digwydd fel elf. mewn lliaws o enwau afiechydon". 'Henaint ni ddaw ei hunan' yw ergyd y ddihareb hon.

170 **Cyssul** Gair benthyg o'r Lladin *consilium* 'cyngor' fel yn nheitl y gyfres englynion 'Cysul Addaon' (LIDC 27).

att6c Atygaf: atwyn, 'dwyn ymaith, tynny'n ôl, cymryd yn ôl, atal' (GPC). Os felly, 'nid yw cyngor yr hen yn dy atal'. Ond ym Mheniarth 17 ceir *ny chadwt* a chred Henry Lewis mai ffrwyth camddarllen *t am c ac c am t* yw'r darlleniad *ny tha dwc* yn y Llyfr Gwyn.

- 171 Y mae anner yn werthfawr wedi anrhaith (*preid*), pan nad oes dim arall ar ôl?
- 172 Y mae *bwyd cybydd* yn felysach (*chwegach*) oherwydd mai ychydig ohono a geir. Mae darlleniad A, *kebyd*, yn gwbl synhwyrol ond tystia darlleniad B98 a PheniARTH 17, *kilyd*, *kilid*, mai ‘cilydd’ yn hytrach na ‘cybydd’ a oedd yma’n wreiddiol. Ystyr wreiddiol *cilydd* oedd ‘cydymaith’, fel ei gytras Gwyddeleg *céle*, a digwydd fel enw priod yn y Gododdin (CA, XIII.120) ac yn chwedl Culhwch ac Olwen. Dyfnir y ddihareb yn WG yn enghraifft o *cilydd* fel enw cyffredin ac fe’i cyfieithir yn *A neighbour’s food is sweeter* (WG, 306). Haws gennyf gredu mai rhagenw yw cilydd yn y ddihareb (GMW §105). Rhoddai hynny’r ystyr llai penodol ‘bwyd un arall’ er y ‘gellir dywedyd bod yr ystyr ymron yr un â’r gyntaf’ (GBGG,140).
- 173 Bydd gwendidau’r fam yn bur amlwg yn ei hepil. Cf. *Such Mother such child (daughter)* (PSPP, M720).
- 174 **Mwyn** Enw yn golygu ‘budd, lles, gwerth, elw, trysor’ (GPC). Y mae mab mewn tŷ yn elw mawr, yn gyfwerth â chan trysor. Cf. A384 isod.
- 175 Ar ystyr *craft* gw. A163 uchod. Cf. *Se l’os est dur, le chien est ennuyeux* (Mor. 2252).
- 176 **rewyd** Dyry GPC ‘anlladrwydd, trythyllwch’ ond hefyd ‘byrbwyll’ a hynny a wedda orau yma cf. ‘Ny ritreithir y reuit’ (LIDC, 2.3); ‘Nys gwybyt rewyt nys rygelwy!’ (CBT, III.5.110; aralleirir y

llynell yn ‘Ni chaiff gŵr byrbwyll wybod am yr hyn na all ei gelu!’). Nid diogel mo cyfrinach, felly, gan *rewydd*.

pell Ystyr amserol yn hytrach na lleol sydd iddo yma, cf. ‘Neut wyf Lywarch lauar pell’ (CLIH, II.10.10c a’r enghreifftiau eraill yn y nodyn ar y llynell).

Yng ‘Ngosymdaith Llefoed Wynepglawr’ ceir ‘gan rewyd ny phellvyd rin’ (RBP, 1056.5-6) sy’n amrywiad ar y ddihareb. Fe’i cyfieithir gan Jacobs (2004, 15) yn ‘Ni chedwir cyfrinach yn hir gan ddyn anllad’ ond gwell gennyf i yw’r ystyr ‘byrbwyll’. Cf. yn ogystal ‘gna6t gan rewyd rych6erthin’ (EWGP, VI.22c).

- 177 **Chwerdit bryt** Myn. pres. 3 un. ‘chwerthin’ a *bryd* GPC ‘meddwl, bwriad, ewyllys’. Digwydd y cyfuniad yn nadolwch Llywelyn ab Iorwerth: ‘Duw a Mair, a chwair yn chwerthin / (Chwerthid bryd!) o bryder chweurin?’ (CBT, I.17.10-1) a dichon mai talfyriad o’r ddihareb ydyw. Cf. yn ogystal ‘Chwerdit byt, boda6c an diua’ (CBT, IV.16.104; awgrymir mewn nodyn y gellid darllen *chwerdit bryt*); ‘chwerdyt bryt 6rth a garo’ (EWGP, III.22.6b; VI.29c), a gyfieithir gan Jackson yn *the heart smiles on what it loves* (SECNP, 58); ‘chwerdit bryt wrth a garawr’ (Clyweit 54c); ‘Balch caen coed, bryd pa6b parth yd garwy’ (CBT, I.9.26).
Llawenha’r meddwl wrth yr hyn y mae’n ei garu.

- 178 **Cos** Gorch. 2 un. ‘cosi’ ond cynghorol yn hytrach na gorchmynnol yw’r synnwyr. Roedd ‘cosy e brenhyn’ yn un o swyddogaethau’r troedog (Ior. §32) a disgrifir Owain yn ‘cosi y vreicheu ac yn kyfodi y vynydd’ (Owein, 22.596-7), felly gellir tybio mai crafu, yn hytrach na goglais, yw’r ystyr yma a chadarnheir hynny gan y fersiynau Ffrangeg a Saesneg. Yn nhafodiaith y gogledd orllewin y

mae cosi a chrafu yn ddau beth ar wahân a dyry Fynes-Clinton *to itch, tickle* am y naill a *to scratch* (*where one itches*) am y llall.
uos *Bos*, ‘cledr neu dor llaw, dwrn’ (GPC).

Dihareb gydwladol, cf. *Gratez al vilein la coille, e il vous chiera en la palme* (Mor., 834). Cf. yn ogystal yr amrywiadau, *Oigniez a mastin le cul, il vous chiera en la paume* (Mor., 1430); *Oingnez le vilain la paume, et il vouz chi[e]ra ens* (Mor., 1431); *Oigni lo vilain, il te chiera an la main* (Mor., 1432); ynghyd â’r ddihareb barchusach, *Faites bien le vilain et il vous fera mal*, (Mor., 725); *Claw a Churl by the arse and he shits in one’s hand* (PSPP, C264). Gw. ymhellach SM (II, 146-7). Ceir yr englyn hwn yn llsgr.
Mostyn 144:

Pwy am nâg bynag o bwyth a geisie
a gosso’n ddiadwyth
din tavog afrowiogffrwyth
fo gach draw yn i law lwyth

Ac yn llsgr. Mysevin 30 ceir y ddihareb ‘Colyra ben kystawki ynte gach yth dwrn’ a’r englyn a ganlyn:

Colyra gorgi ar gilwrn y ben
chwyrny byd ar asgwrn
cos din tayog ath gogwrn
a thaw ynte gach yth dwrn

Cymharer yr amrywiad ar y ddihareb Ffrangeg lle y ceir *mastin* yn hytrach na *vilain* uchod (Mor., 1430).

179 Dyfynnir y ddihareb hon gan Gerallt Gymro yn ei *Descriptio Kambriae*: ‘Dychaun Dyu da dy unic’ (fe’i dyfynnir yn CLIH, lxxxiv a GPC, 3709). Dengys yr hen ffurf *di* a ddefnyddir gan Gerallt fod y ddihareb yn hen (gw. WG, 87). Cf. ‘diga6n dovyd darparo’ (RBP, 1055.23) a ‘Duw digawn’ (HGC xxxvi, 17, ‘gwna Duw’) gyda’r goddrych yn dod o flaen y ferf *digoni* ‘gwneuthur’. Fe’i ceir yn ‘Englynion y Clyweit’ (44c).

180 **grad** Yr ystyr yma yw naid (GPC **gradd** 2.).

Cf. ‘dysgv gradd i hen farch digllon / itti geissio mendio i foddion’ (CRhC, 16.41-2).

181 **Diwyttaf** Gradd eithaf yr ans. ‘diwyd’. Yr ystyr yma yw ffyddlonaf, mwyaf dibynadwy.

vleid Yn B160 a Pheniarth 17 ceir *uleidan* a *vleidian* sef blaidd bychan neu genau blaidd. Digwydd Bleiddan hefyd fel enw personol.

182 **Dyckit** Myn. pres. 3 un. annibynnol *dwyn* (= ‘cymryd’).

amh6yll Y mae darlleniad Peniarth 17 *annwrteith* (= heb ei ddiwyllio) yn annisgwyl.

Cf. ‘dyckit pob amhwyll y rann’ (Clyweit, 55c) a aralleirir gan Haycock yn ‘Dwg pob ffolineb ei haeddiant’ (BBGCC, 31.55c).

183 **Dywal** Dyry GPC ‘ffymig, creulon, erchyll’. Fe’i defnyddir i ddisgrifio ystum ymosodol anifail yn sefyll ar ei draed ôl mewn herodraeth (GPC. t. 1151; *ferox, rapax*, Jones, 1943, 256).

oleith Golaith, ‘gochel’. Fe’i trafodir gan Ifor Williams (1932, 221-3) a chyfieitha’r ddihareb yn *A fierce hero, one must avoid him, give way to him*. Cf. ‘Ragot yt gwynir ys dir dy oleith’ (CT, IX.16). Fe’i ceir yn ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’: ‘dywal dir vyd y oleith’ (RBP, 1056.28-9). Gw. Jacobs (2004, 26).

184 Cyplysir y dall a’r anghyfarwydd yn y llinellau hyn o waith Einion ap Gwalchmai: ‘Beich o bechodeu, nyd bychodrwyd, / Bychdid dall agall aghyuarwyd!’ (CBT, I.29.11-2). Rhywbeth yn debyg i ‘ddifeddwl’ yw ystyr *dall* yma.

185 **Drythyll** Y mae iddo ddau ystyr: ‘bywiog’ a ‘moethus’, y cyntaf a wedda orau yma. Cyfeiria Dafydd ap Gwilym at y gwynt cyniweiriol fel ‘Drythyllfab ar draethellfor’ (GDG, 117.34); ‘drythyll oedwn, a mawr oed vy ryvic’ meddai Cynon fab Clydno amdano’i hun (Owein, 2.31-2); hynny yw, yr oedd yn llanc bywiog. Gellir meddwl am ddyn eiddil yn ceisio codi carreg o fawr i lenwi bwlch mewn clawdd, honno’n rowlio bob sut ac yntau’n rhy wantan i’w thrin – carreg drythyll, fywiog fai honno.

186 Ar y ffurf *i6t* gw. A13 uchod.

188 Mae pob *anghywrain* yn *ddefnyddfawr* ond nid yw pob *ddefnyddfawr* o reidrwydd yn *anghywrain*. Noder hyn oherwydd ansoddair niwtral yw *ddefnyddfawr*. Dyfyniad o waith Gutun Owain yw’r enghraifft gyntaf o’r gair yn GPC ac ystyr gadarnhaol sydd iddo: ‘Divai naddvain devnyddvawr’ (OPGO, XXXII.27). Bydd crefftwr anfedrus a byrbwyll yn treulio llawer o ddefnydd.

- 189 Ceir y ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’ (56c). Drwg yw bod â gwas drwg ond gwaeth yw bod hebddo. Dichon mai’r gystrawen ‘da a dwy ynys’ sydd yma. Os felly rhoddai *gwell* amgenach synnwyr na *gwaeth* (BBGCC, 336).
- 190 **Diwyl** Y mae i’r ansoddair hwn ystyron amrywiol: ‘Dewr, hy, eofn; balch; garw, creulon, anhygar’ (GPC) ond hefyd ‘trist’ (GPC) ac ‘anffodus, afrwydd, anhwylyus, analluog’ (GBGG). Y mae’r cwbl yn gweddu i angau. Nid yw’r ystyr ‘creulon’ yn amhosibl od oes yma gyfeiriad at alanas.
edeu Myn. pres. 3 un. *adaw*, ‘gadael’. Affeithiad –i sy’n cyfrif am y newid a>e.
- 192 Cerddor o radd isel oedd y pibydd. Canodd Tudur Penllyn gywydd dychan i dre’r Fflint ac i’r pibydd (GTP, 30) wedi i Saeson y dref ddangos mai *gwell* oedd ganddynt wrando ar dwrw Wiliam Bibydd nac ar awdl o waith Tudur, a chanodd Wiliam Llŷn yntau englyn dychan i bibyddion:

Pob llais a gerais pob gwirion – pob hen
 Pob heini gerddorion
 Pob celvyddydd byd llei bon
 Pob addysg ond pibyddion
 (BWL1, CI)

Pan fo’r beirdd yn ei rhoi hi i’r ofergerddwyr, y pibydd sy’n ei chael hi galetaf ganddynt yn aml (Bowen, 1953). Yng nghywydd Dafydd ap Gwilym i’r Uchenaid cymhara’r bardd ei ochenaid ag anadl y pibydd:

Pawb a debyg pan ddigiwyf,
Pe bai ddysg, mai pibydd wyf.
Mae o anadl mwy ynof
Nog yng nghau meginau gof.
(GDG, 109.17-20)

- 193 Digwydd y ddihareb yn *Gwaedd yng Nghymru yn Wyneb pob Cydwybod* (gw. C186). Canodd Siôn Tudur englyn ar y ddihareb hon:

Gweithia'n ddiball, gall, ddigellwair, - herwydd
Dihareb gywirair –
Y drygwaith dirywiogair,
Adwyth gnecs, dwywaith y'i gwnair.

- 194 **haudueid** Ym Mheniarth 17, ceir *haudbeit*. Rhwir yr ystyr 'goddef' i *hawddbeidio* yn GPC. Cf. sylw D. Simon Evans ar 'paid': *Peit comes from Lat. patior, and in a few examples it is found with the meaning 'suffer, endure': Djriet ny haudbeit hedwch 'The wicked one does not readily suffer peace'* (GMW, 165).

Ceir yr englyn hwn ymysg englynion dadlowch Llywelyn Fardd i Owain Fychan:

Teulu Ywein, lein llonyd6ch – y'm kerd,
Y'm kynnel6 yt uyd6ch:
Diryeit ny ha6d beit hedwch;
Dedwyd a gar dadol6ch.
(CBT. II.3.9-12)

Ymddengys fod y ddihareb hon ac A195 wedi eu codi o'r englyn hwn.

- 195 **datol6ch** Cymodi neu heddychu yw'r ystyr yma megis yn y cerddi o waith y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd sy'n dwyn y teitl dadolwch (cf. CT, IX, er enghraifft). Trafodir y gair gan Ifor Williams (1924, 125-6) ac y mae'n ei gysylltu â *golochwed*.

Dylid ystyried y ddihareb hon ac A194 yn bâr, fel y'u ceir yn yr englyn a ddyfynnir uchod. Y mae'r ddwy yn traethu am nodweddion gwrthgyferbyniol y dedwydd a'r diriaid – y mae'r naill yn caru cymod ac ni eill y llall ddioddef heddwch. Anodd peidio â chysylltu'r syniad hwn â'r hyn a ddywedir am Nisien ac Efnisien: 'A'r neill o'r gueisson hynny, gwas da oed; ef a barei tangneued y rwg y deu lu, ban udynt lidyawcaf; sef oed hwnnw Nissyen. Y llall a barei ymlad y rwng y deu uroder, ban uei uwyaf yd ymgerynt' (PKM, 29). Diau fod yma rywbeth hen iawn. Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (45c).

- 196 **kyflet** Ffrwyth camddarllen *t* am *c* yw'r darlleniad hwn, *gyfloc* sy'n gywir a hynny a geir ym Mheniarth 17.

- 198 Ar y ffurf *dir* gw. A1 uchod. Rhwir *to leave off, lay aside, omit, desist* am 'gadael heibio' yn GPC.

- 199 **Dygymyrrit** Defnyddir y ferf 'cymyrru' (gyda'r rhagddodiad cryfhaol *dy-* neu hebddo) yn aml yng nghyd-destun angau, cf. 'dygymyrrws eu hoet eu hanyanawr' (CA, XI.91); 'Cymyrres angeu anghyfrwydd – attaw' (CBT, VI.27.15); 'Kymyrrws y hoedyl y hyder' (CBT, III.26.9). Yr ystyr yw 'byrhau' (gw. Loth,

1920/21, 60-1 sy'n cyfieithu'r ddihareb yn *Le fer abrège la vie de l'homme*).

haearn Ar *haearn* a'i gytrasau gw. Benveniste (1956). Yma fe'i defnyddir yn drosiadol am arfau yn gyffredinol, cf. yr ymadrodd Lladin *ferrum recipere*.

Cf. *(The) Iron passed through his soul* (PSPP, I57) sy'n gyfeiriad at y Lyfr y Salmau 105:18, 'Cystuddiasant ei draed ef mewn gefyn: ei enaid a aeth mewn heyrn'.

- 200 Digwydd 'nac adef rin y lauar' yn un o dri amrywiad ar yr un ddihareb mewn cyfres o englynion gwirebol yn Llyfr Coch Hergest (EWGP, II.6c; '...y was', II.4c; '...y uorwyn', II.5c). Ni ellir ymddiried cyfrinach i lafar ac ni ellir ymddiried mewn dim a ddywed chwaith. 'Llei yt gar llauar no llaḡuaeth' meddai Cynddelw am Dduw (CBT, IV.16.77).

- 202 Dihareb gyfreithiol a welir yn ei chyd-destun yn y paragraff hwn:

O damweynnya e deu den bot keureyth erygthunt, a'r neyll en galu am uach ar keureyth a'r llall en deweduet na dele rody mach ar keyreyth namen deleu ohanau ef oet urth e porth, a deweduet o'r haulur, 'Dyoer', hep ef, 'mach a deleaf uy: dele mach ne dele dym' – 'Dyoer', hep e llall, 'nyt mach ny uo mach ar dym; ac e my ny deley ty dym, canes adeuedyc gennyt tuhun nas deley' – e keureyth a dyweyt na dele ef uach ar keureyth, can ardeluus e llall o oet urth porth, a phey rodey e mach keureyth dyannot a uedey, canyt oes oet en haul uach a kennogen.

(Ior. §67)

Gw. yn ogystal Col. §123-125. Cyfieithir y ddihareb gan Aled Rhys Wiliam yn *he is entitled to surety who is entitled to nothing*

[else] (Ior., 115). Mach ar gyfraith, sef sicrwydd yr ufuddheid i ddyfarniad y gyfraith, yn hytrach na mach i sicrhau yr anrhydeddid cytundeb sydd dan sylw yma (Jenkins, 1976, 96; Col., 64)

203 **Diffrawy** Yn Peniarth 17 ceir *Djrpwy*. Ac y mae Lewis (1927) yn awgrymu diwygio'r darlleniad hwn i *differwy* sef dib. pres. 3 un. diffryt ('gwaredu, amddiffyn, achub'). Ar y terfyniad dib. pres. 3 un. -wy gw. GMW, 129. Ystyr y ddihareb wedyn fyddai 'Duw a amddiffyno'r diog' h.y. mynegi dymuniad ac arno flas llw, 'Duw a'i gwaredo!'. Y mae hyn yn gyson â barn y diarhebion ar y diog. Yn GBGG ceir cyfeiriad cwta at ferf arall, *diffrawyaw* ('?gosod yn lle, dirprwyo'). Ni nodir ond un enghraifft - y ffurf myn. amherff. 3 llu. *diffrwynt* - o gywydd mawl gan Ieuan Deulwyn. Y cwpled dan sylw yw 'Maibion a fagason gynt / Mawd ai phriawd diffrwynt' (GID, XXXIX.57-8). Gallai *diffrawy*, darlleniad y Llyfr Coch, fod yn ffurf myn. pres. 3 un. *diffrawyaw* a byddai'r ystyr 'Dirprwya Duw dros ddiog' yn egluro darlleniad rhyfedd Peniarth 17.

204 Ychydig o synnwyr a geid o dderbyn darlleniad A sy'n llurguniad difrifol.

Drut Darllener 'Durd', fel ym Mheniarth 17. Trafodir y ffurf *dwrdd* yn ChO (34-5) ac fe'i cymharir â'r gair Gwyddeleg *andord* ('rhyfel-gri'). Cf. 'dadwrdd'.

ganu deu lw Darllener 'gan deulu'; naill ai 'dau lu' (dwy fyddin yn wynebu ei gilydd) neu 'teulu' ('llu rhyfel'). Byddai gan y ddau gryn dwrw.

05 **Dewin** Fe'i defnyddir yn aml i ddisgrifio Duw, cf. A900 isod. Ymddengys mai gŵr ystrywgar, llawn castiau yw'r ystyr yma.

eidic Cymeriad stoc yng nghanu serch y cywyddwyr (yr oedd ‘y gŵr eiddigeddus’ yn hen draddodiad yng nghanu serch Ewrop, gw. ymdriniaeth Fulton, 1989, 214-5). Trafodir ‘eiddig’ yn yr ystyr benodol hon ar wahân yn GPC a GBGG. Yn GBGG (yn wahanol i GPC) rhoir y ddihareb ymysg yr enghreifftiau o ‘eiddig’ yn ei ystyron ehangach ‘gwancus, rheibus’ (cf. Eryr Pengwern).

206 Dichon fod yma goegni, cf. ‘Gwedi gwîm dysgedig wyd’ (YEPWC, 30.12).

207 Ceir llinell nid annhebyg yn y canu gwirebol: ‘a bit gynnwys dillat’ (EWGP, VII.3b). Dyfynnir y llinell hon o dan *cynnwys* yn yr ystyr ‘cyfyng ... yn ffitio’n glòs; prin’ yn GPC. Y mae’r ergyd yn o dywyll a dyfalu a wna T. J. Morgan pan gais egluro’r wireb:

... ond fe fyddai’n well gennyf i ddyfynnu’r llinell o dan yr ystyr arall a roir i *cynnwys* yn ansoddeiriol, sef ‘derbyniol, wedi ei groesawu ... acceptable ...’, yn enwedig o gofio fod dilledyn yn rhodd arferol i fardd yn y cyfnod cynnar.
(Morgan, 1974, 21)

Credaf, fodd bynnag, fod T. J. Morgan yn gywir yn ei ddehongliad o *cynnwys* = ‘derbyniol, wedi ei groesawu’. Dichon fod yn y llinell gyfeiriad at y chwedl gydwladol am yr athronydd a dderbyniodd wahoddiad i wledd ond a wrthodwyd pan gyrhaeddodd yn gwisgo’i ddillad carpiog arferol. Fe’i croesawyd yn frwd pan ddychwelodd yn gwisgo dilliad crand ac aeth rhagddo i drochi ei lewys yn ei gawl gan ddweud mai ei ddillad sy’n derbyn y croeso ac nid efô’i hun. Ymddengys y chwedl hon am y tro cyntaf yn Ewrop yn y ddeuddegfed ganrif yn *De contemptu mundi*, Innocent III ac oddi ar

ar hynny cafodd gylchrediad eang. Fe'i ceir gan Etienne de Bourbon ac Odo o Cheriton. Ym Mhenryn Iberia rhoes y chwedl fod i ddihareb (Barrick, 1985). Dywed Barrick na ddigwydd y ddihareb ond mewn Sbaeneg a Phortiwgaleg. Ni lwyddais innau i ganfod dim yn y casgliadau Ffrangeg na Saesneg a allai adleisio'r hanes. Ond nid yw'r broses hon yn ddieithr i'r corpws o ddiarhebion Cymraeg (cf. A593, C109) chwaethach diarhebion ieithoedd eraill.

Y mae egluro'r ddihareb dan sylw gan gyfeirio at y chwedl hon yn anos gan mai berf yw *cynnwys* ynnddi hi, nid ansoddair. Ni fynwn chwaith bwysio ar y dehongliad hwn, ond credaf ei fod yn ddehongliad *posibl* y gallai ymchwil bellach ei gadarnhau neu ei wrthod.

208 Y mae Henry Lewis yn cysylltu'r ddihareb hon ag A83 uchod gan gymryd *dinas* = 'amddiffynydd'. Gallai'r y yn fersiwn Peniarth 17 fod yn fannod neu'n arddodiad heb fennu dim ar yr ystyr a gynigir gan Lewis. Fodd bynnag, y rhagenw perthynol *a* sydd yn fersiwn A a hynny hefyd a geir yng Ngosymdaith Llefoed Wynepglawr: *dinas adiffyd diffeith* (RBP, 1056.31). Cf. A83 uchod. Gw. Jacobs (2004, 27). Dichon fod yma adleisio'r Ysgrythur: 'Melltith yr Arglwydd sydd yn nhŷ yr annuwiol: ond efe a fendithia drigfa y cyfiawn' (Llyfr y Diarhebion 3:33).

209 **dot** Gorch. 2 un. 'dodi'.

210 Digwydd y ddihareb yn ail gywydd Gruffudd Gryg yn yr ymryson rhyngddo a Dafydd ap Gwilym: 'Syml ei hwyl, ys aml holion, / Ys hoff gan Ddafydd ei sôn. / Hoff gan bob edn aflednais / Ym medw gled lwysed ei lais' (GDG, 149.17-20).

- 211 Merch dlos yw ystyr *dillyn* yn y ddihareb hon a hen lanc yw'r *henfab*.
- 212 **Dall vydar** Trosiadol yw yma, cf. 'Decued anwared y6 anwaret – anwar / Dalluydar kyn tylluet' (CBT, II.31.21-2); 'N y bo dull uadeu dall vydar - o dyn, / Du6 a bryn yn brifgar' (CBT, IV.16.11-2).
- 213 **rac ae kar** Yma geill *rac* olygu 'o flaen', 'oherwydd' neu 'er mwyn'.
- ca6d** *Cawdd*, 'llid, digofaint, soriant, tramgwydd, gofid, trallod, galar, tristwch' (GPC). O dan *cawdd* yng ngeirfa Wiliam Llŷn ceir 'llid' (BWL1, 271) ac yn DD ceir *offensa, ira, indignatio*. Digwydd hefyd yn ffurf myn. pres. 3 un. y ferf *coddi*, 'llidio, digio, tramgwyddo; blino, poeni' (GPC)
- 215 **ryнна6d** *Rhynnawdd*, 'ysbaid' (GPC).
- 216 **Damwein** Yr ystyr yma yw *chance* cf. yr ymadroddion 'ar ddamwain, trwy ddamwain'.
- 217 **Dr6c a lys** Ar y drefn ansoddair + *a* + enw gw. GMW §39(c) ac ymhellach §231 n3, A '*of*' is used in certain expressions ... Later it was completely superseded by *o*. Cf. 'da a dwy ynys' (PKM, 45.17) sef 'dwy ynys dda'. Yr ystyr, felly, yw 'llys drwg'.

Llys drwg yw hwnnw lle na chaniateir *gwad* 'denial' (GMWL, 164).

220 **yr** Rhagenw dangosol megis *ar* (GMW §75). Trafodir cymysgu'r arddodiaid *ar* ac *yr* yn Bwl iii t. 259. Dywed Jackson, *the Pen. 27 text of Bidau II reads ar here* (EWGP, 63).

Ceir y ddihareb 'dedwydd yr a'i gwyl a'i car' yn englynion y Bidau (EWGP, VIII.2c; VII.10c) ac fe'i cyfieithir gan Jackson yn *Happy is he on whom looks one who loves him* (EWGP, 63). Fe'i ceir hefyd yn 'Englynion y Clyweit' (57c). Nid yw cyfieithiad Jackson yn cyfleu union ystyr y ddihareb. Onid ergyd y ddihareb yw fod unrhyw un a wêl ddedwydd yn ei garu a'r yr olwg gyntaf? Byddai hynny'n fwy cyson â'r hyn a wyddys am athrawiaeth y dedwydd a'r diriaid. Dyna farn Marged Haycock sy'n ei haralleirio yn 'Bydd dyn ffodus yn cael ei garu gan bawb sy'n ei weld' (BBGCC, 31.57c).

221 Y mae Duw yn ddieithriad yn gwenu ar y dedwydd: 'Ny chassa Mab Duv dedwyt' (CBT, VI.6.20). Ceir 'Duw a rydd i ddedwydd ei dda' yn yr englyn sy'n cloi awdl i ofyn bwa o waith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur (GGDT, 2.39). Awgryma Dafydd Johnston y geill *ei dda* y olygu 'bendith' yn y llinell hon ond diau mai ar dda bydol yr oedd llygaid y bardd. Cf. yn ogystal, 'dychymmyd dedwyd ac ana6. / rihyd ac ef du6 dywalla6' (RBP, 1055.21-2).

222 **Dyckit** Hen ffurf annibynnol myn. pres. 3 un. 'dwyn'.

daffar 'Darpar, darpariaeth, arlwy, offer; defnydd; bwriad; paratoi, darparu, arlwyo; bwriadu, arfaethu' (GPC). Ceir ymdriniaeth lawn â'r gair yn CA (162). Mae cyfran helath o'r enghreifftiau a restrir yn GPC yn cyplysu'r gair â Duw: 'Dinas maon duv daffar' (LIDC, 14.1); 'trugar daffar du6 gorev' (EWGP, V.6c; VII.31c; fe'i cyfieithir yn *The merciful providence of God is best* gan Jackson,

EWGP, 55); ‘Duw a’ m difero o’ m dafareu’ (CBT, I.27.25 a aralleirir yn ‘Duw a’ m hamddiffynno rhag fy mwriadau’). Ceir y llinell ‘g6ae a d6c daffar o la6’ yn englynion y Gorwynion (EWGP, VI.33c). Cynnig Jackson ddau ddehongliad: *Woe to him who has to take alms neu*, o ystyried y ddihareb dan sylw, *Woe to him who snatches provision from the hand* (EWGP, 61). Diau mai’r ail ddehongliad sydd agosaf ati. Ystyrid bod cipio peth o law rhywun yn hynod anghwrtais - nodir tair ffordd i sarhau’r frenhines yn y Llyfrau Cyfraith a’r ‘trydyd yv o grypdeyllav peth o’y llav’ (Ior., §3; ‘pan tynher peth gan treis o’e llaw’, Bleg., 4.8-9) sef ‘cipio peth o’i llaw’. Yn y ddihareb Duw sy’n cipio darpariaeth o law [dyn]. Nid oes ddiben i ddyn ddarparu dim canys nis gŵyr feddwl Duw?

223 **gara6r** Pres. amhers. ‘caru’ (gw. GMW, 121)
Dyfynnir y ddihareb yn WG, 324 a chyfieithiad Morris-Jones yw *it is hard to promise what is loved*.

224 **Douyd** Serch bod Diar. DD yn dweud *potius Dyfydd* ar ôl y ddihareb hon, nid yw darlleniad y llawysgrifau hynaf yn cyfiawnhau’r newid.
dihirweith ‘anfadwaith’ (cf. *dihiryn*).

225 Ceir y ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’ (46c).

226 **dala** Sef ‘dal’.
est6ng Digwydd fel berf gyflawn ac anghyflawn, ‘ymostwng’ neu ‘peri gostwng’
Anodd yw dirnad union ergyd y ddihareb, yn niffyg cyd-destun, gan ehangd amrediad ystyr y ddwy ferf *dala* ac *estwng*.

Ymddengys dau eglurhad posibl: Gall y *drud* ddal gwlad, hynny yw ei chipio neu ei meddiannu, ond rhaid wrth *ŵr doeth* i'w goresgyn neu, a hwn gredaf i sydd fwyaf tebygol, bydd *gŵr drud*, dewr yn amddiffyn ond *gŵr doeth* a fydd yn ildio. Ni *ŵyr* y *drud* mai ofer yw ei ymdrechion.

227 Llinell yw hon o'r gyfres englynion 'Stafell Cynddylan' (CLIH, XI.25c; EWSP, 432). Fe'i cyfieithir gan Jenny Rowland yn *Tears wear away the cheeks* (EWSP, 485) ac fe'i trafodir yn CLIH, 204 lle y sylwir ar drefn y frawddeg (berf, gwrthrych, goddrych). Gwrthgyferbynier y ddwy linell o 'Gossymdeith Llefoet Wynebglawr': 'dychystud aghen dychyfya6' (RBP, 1055.17-8) a 'dychystud bron brolit' (RBP, 1055.36-7), ill dwy yn enghreifftiau o'r un gystrawen. Y mae'r ddelwedd yn gyffredin yng nghanu marwnadol y beirdd. Cf. yn ogystal A815 isod.

229 **Dyckit** Gw. rhif 222 uchod.

peiryant Trafodir y gair gan Ifor Williams (CA, 89-90) yng nghyswllt y llinell 'trychant trwy beiryant en cattau' a chesglir yno mai'r ystyr yw 'gorchymyn' (o'r un tarddiad â'r ferf 'peri').

Cyfeirir at y ddihareb hon a nodir mai 'ymhellach nag y pair pwyll' yw ystyr yr ail ran. Ymhellach ar y gair gw. J. E. Caerwyn Williams, 1996, 180.

Yr ystyr felly yw fod chwant yn peri dwyn mwy nag a ganiatâi pwyll.

230 **rann6ys** Gorff. 3 un. *rhannu*, 'barnu' (GPC).

Yn 'Englynion y Clyweit' ceir *duw a rannawd nef a gaff[as]* (Clyweit 16c) a ddiweddarir gan Haycock yn *Duw a dynghedodd*,

Nef a gafodd (BBGCC 31, 16c). Trafodir y ddihareb gan Williams (1926, 22). Barnwyd gŵr gan Dduw a chafodd fynd i'r nef.

- 231 **Du6 a ued** Cf. 'Breutwyd a'e dyweid, a Duw a'e met' (CBT, II.6.26); 'Un du6 uchaf dewindoethaf m6yhaf aued' (LIT, 67.9); 'Duv uchom, Duu ragom, Duu vet' (BBGCC, 18.8; 'yr ystyr,' medd Henry Lewis, 'yw 'Duw sy'n llywodraethu'', HGC, 115). Hen ystyr *meddu* oedd 'bod â hawl neu allu'. (Williams, 1921, 28; y mae'n nodi toreth o enghreifftiau). Gw. ymhellach Jenkins & Owen (1984, 105) sy'n dyfynnu'r ddihareb hon ac yn ei hegluro gan gyfeirio at y cyferbyniad *between the authoritative statements of the Deity and the mere utterings of man*.

Y mae hon yn ddihareb gydwladol y ceir sawl amrywiad arni. Cf. *L'homme propose, mais Dieu dispose* (MFPSP, H41); *Man proposes and God disposes* (PSPP, M162). Trafodir y ddihareb gan Samuel Singer (SM II, 32-3) a chan Archer Taylor (1985, 55) sy'n nodi sawl fersiwn Lladin: *Homo cogitat, Deus iudicat* (gan Alcuin; cf. C234, *Duw a farn a geir yno*); *Homo cogitat, Deus ordinat*; *Homo proponit, Deus disponit* (o *Imitatio Christi* Thomas a Kempis). Y mae Singer a Taylor ill dau yn ei chymharu â'r adnod, 'Calon dyn a ddychymyg ei ffordd: ond yr Arglwydd a gyfarwydda ei gerddeddiad ef' (Diarhebion 16:9).

- 232 **maen** Trosiad yw yma am rym neu awdurdod ymarferol. **euengyl** Gair benthyg o'r Lladin *evangelium* (EL, 38). Symbolau'r awdurdododau'r eglwys oedd bagl ac efengyl, cf. 'gan y llu e'v uagyl ac e'v eu[e]gyl' (Dam. Col., §455). Yr ystyr yma yw 'cenadwri'.

Cf. ‘da yw r maen medd pedr y mi / dewr oeddyt gyda r weddi’ (Pen. 67, XII.49-50); ‘Dyred a’r maen drwy dair mil, / D’arf yngod, a’r Efengil’ (GTA, XV.33-4). Mewn nodyn ar y llinellau olaf hyn o eiddo Tudur Aled dyfynna T. Gwynn Jones ‘yr hen air “Da yw’r maen gyda’r efengyl,” beth bynnag oedd ei ystyr’ (GTA, 569). Dyry Siôn Tudur inni fwy goleuni: ‘Nid gwaeth ar bennaeth er bod / Dewrder gydag awdurdod. / Da yw’r maen, meddai dair mil, / Drwy fwng gyda’r Efengyl’ (GST, 56.37-8). Datblygodd y *maen* yn faen gwn yn y llinellau hyn (y benthyciad Saes. *bwng* sydd yma, GPC) ond yr un yw’r ystyr. Ergyd y ddihareb yw mai da o beth yw grym ymarferol gydag argyhoeddiad neu egwyddor. Gellir cymharu cenadwri’r ddihareb hon â phwyslais gwahanol y llinell ‘ys da p6yll gyt a nerth’ (EWGP, VI.30.b), llinell sydd, yn ôl Jenny Rowland (EWSP, 25-6), yn fynegiant o’r topos *sapientia et fortitudo*.

- 233 Disgrifir Hengist yn torri carrai mewn chwedl onomastig ym Mrut Sieffre: ‘A chymryt croen tarv a wnaeth ynteu, a holldi hvnnv yn un garrei’ (BD, 94). Un pen i’r *garrai* yw ei *blaen* (cf. *blaen* rhaff) ond yma cyfeirir yn benodol at y pen cyntaf a dorrir o’r croen (cf. *blaen* afon, sef ei tharddiad).
- 234 **vala6c** Balog. Geill fod yn un o ddau air: naill ai gair benthyc o’r Llydaweg *baelek* (= ‘offeiriad’) neu air benthyc o Saesneg Canol *ballock* (= ‘tafod gwaeg’) Yn Bwl. iv honnir mai’r cyntaf sy’n y ddihareb hon ac y mae GPC a GBGG yn dilyn hynny. Digwydd yn ffigurol am ‘arweinydd’ yn ‘bala6c eurla6’ (CBT, VII.36.12). Mae *balog fechni* yn ymadrodd cyfreithiol: ‘Ansawd balawc uechni yw bot y neill pen idaw yn rwym a’r llall yn ryd’ (Bleg., 40.13-4). Trafodir y gair yn llawn yn CA (346-7).

235 Amrywiad ystyrion yw'r gair *cwyn* ym Mheniarth 17. Daw o'r Lladin *cena* (EL, 36). Cf. *cwynos*, 'swper'.

236 **6rth** Ystyr yr arddodiad yma yn ddiau yw *in contact with* (Williams, 1956, 135).

237 **Dihengit** Myn. pres. 3 un. *dianc*.

elit Myn. pres. 3 un. *myned*.

Dibynna ergyd y ddihareb, sy'n cyferbynnu dau math o gilio, ar arlliw ystyr y ddwy ferf. *Dianc* wna'r *gwan* ond *mynd* wna'r *cadarn*. Cf. 'enghit avo llyfeithin' (RBP, 1056.7-8).

239 **bell erlit** Adferfol yw *pell* yma. Ystyr *erlid* yw 'Dilyn, canlyn'. Sylwir yn GBGG fod mynych enghreifftiau o *erlid* pechod, cf. 'Melys yw pechawd pan y herlyn – dirgeid' (CBT, I.14.75).

Ceir y ddihareb yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr' (RBP 1055, 41-42) ac yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit, 59c).

240 **drut** Gw. A64 uchod.

Dyfynnir rhan o'r ddihareb hon yng nghywydd ateb Tudur Penllyn i gywydd porthmonaeth Guto'r Glyn: 'Bydd ddoeth, ond dy rybudd yw? / Ni thwyllir drud, er mud maith, / Ar wŷn onid yr unwaith' (GTP, 24.60-2) Honnai Tudur fod Guto wedi twyllo Syr Bened, Person Corwen. Dichon fod adlais o'r ddihareb neu'r coel sy'n sail iddi, yn y llinellau hyn: 'O'm hudodd fy mun hoywdeg, / Gwawr y twyll, â'i geirau teg, / Gwn na'm twyllir o wir waith, / Myn Dwynwen, onid unwaith' (CSTB, XXXVII. 37-40). Ni chymer y

drud, gan ffyrniced ei ddial, ei dwyllo ond unwaith. Ond gŵr pwylllog yw'r doeth nid yw'n chwannog i ddial; mae'n ildiwr (cf. A226 uchod). Megis yr ymgorfforir y call a'r angall mewn un gŵr (ystyrier anian Myrddin) weithiau bydd ei bwyll yn fagl i'r doeth.

241 **Dybyd** Pres. arferiadol / Dyfodol 3 un. *dyfod*, 'fe ddaw'.

242 Y mae darlleniad A yn gwbl ystyrion a'r genadwri'n eglur. Y mae darlleniad B145, fodd bynnag, yn gwbl wahanol ond nid yw'n ddiystyr. Ystyr *cyfarwyre* yw 'canmol, dyrchafu' (geill fod yn enw, cf. y nodyn ar *erwyre* yn CA, 118) ac ystyr y ddihareb o ganlyniad yw 'Dangos llwyr i ganmoliaeth'. Dewisach er hynny yw darlleniad A.

243 **diofryt** 'ymwrthod â'. Cf. 'diofryt oba6p agar' (RBP. 583.26, 'ymwrthyd pawb ag a gâr'; adleisir y llinell mewn cywydd o waith Gruffudd Llwyd 'Rhaid i bawb, er hyd y bo, / Gwir ddiodydu a garo', GGLI, 13.45-6); 'Diouryd Ewein, dygyn a weith' (CBT, II.18.5). Yn y gerdd 'Breuddwyd a welwn neithiwr' ceir y llinellau hyn: 'ys guell delli urth a uo / Ac imganlin a deduit / a dioffrid a aduo' (LIDC, 2.16-8). Ystyr y llinell olaf hon o'r Llyfr Du yw 'a ffarwelio â'r hyn nad oes sicrwydd ohono' (Williams, 1950).
darffo Dib. pres. 3 un. *darfod*; *atuo*, dib. pres. 3 un. *adfod* 'digwydd, darfod' a geir ym Mheniarth 17 a B149 (nid oes wahaniaeth rhyngddynt o ran ystyr).

244 Y diriaid sy'n cludo i'r dedwydd yn ddieithriad. Nid oes raid i'r dedwydd ond aros amdano. Ni cheir *ac o uor ac o vynyd* ym Mheniarth 17 ac efallai mai ychwanegiad diweddarach at y

ddihareb, er mwyn cael odl, ydyw. Yn B154 ceir *Digreith* ond dewisach yw cadw'r cyferbynnu rhwng y dedwydd a'r diriaid.

- 245 **Diga6n** Myn. pres. 3 un. *digoni* 'gwneuthur' neu 'gallu gwneuthur'. Rhoir y ddihareb hon o dan y cyntaf yn GBGG a diau mai hynny sydd iawn o ystyried y fersiwn o'r ddihareb a geir yn y canu gwirebol: 'g6nelit da diyt gennat' (EWGP, VI.28c). Yn 'Englynion y Clyweit' 'digawn da diwyt gennat' a geir fel yn A (Clyweit 60c). Trefn y frawddeg yw berf + gwrthrych + goddrych. **diwyt** 'Gweithgar' ond hefyd 'ffyddlon' cf. 'Wrth hynny bwrw olwc neu diwyt drossot tra veyr yn heu' (Williams, 1923, 11; EWGP, 60).
Y mae cennad diwyd yn gwneuthur daioni.

- 246 **eidy6c** *Eidiog*, 'pybyr, nerthol, bywiog, heinif' (GBGG). Yng ngoleuni B317, *Ys dir agheu ar eidy6c*, gellid gofyn ai gwall am *daw* yw *da* ar ddechrau'r ddihareb. Bid a fo am hynny, ni hoffid yr eidiog a'r tebyg yw y croesawid ei angau. Cf. A372 isod.

- 247 Y ddihareb hon sy'n cloi Gorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd: 'Ys da deint rac taua6d' (CBT, II.6.83). Cf. yn ogystal: 'Tawwn, gorau yw tewi, / Am hwn ni ynganwn ni; / Da daint rhag tafod, daw dydd, / Yng nghilfach safn anghelfydd' (GIG, VIII.85-8). Dyfynnir y ddwy linell olaf yng nghywydd Lewys Glyn Cothi i ach Dafydd Goch ap Meredydd: 'Da daint rhag tafawd, daw dydd, / yng nghilfach safn anghelfydd.' / Da daint rhag tafod a dau / am a wnawn â'm min innau' (GLGC, 174.47-50). Gwelir mai'r un yw cyd-destun y ddihareb yn y ddau gywydd. Y syniad yw fod y dannedd yn atal y tafod rhag dywedyd gormod. Eglura'r pennill hwn y ddihareb yn olau ddigon:

Bu yn agos imi ddwedyd
Chwedl mawr, pe cawswn ennyd;
Ond yn awr yr wyf yn gwybod
Mai da dant i atal tafod
(Hen Benillion, 3)

Ceir adlais o'r ddihareb yn y llinellau hyn o gywydd olaf Siôn
Phylip yn ei ymryson â Siôn Tudur: 'Beiau tafod, bid difarn, /
Beied fo, y byd a farn / Ei ddig ef a'i ddigofaint / Od yw'n ei ddal
dan ei ddaint' (GST, 134.91-4).

Yn y Ffrangeg ceir *Por ce sont les dens au devant que len ne die
folie* (Mor. 1667); *Les dents sont bonnes devant la langue*
(MFPSPP, D34), dihareb a ddengys mai 'o flaen' yw ystyr *rhag* yn
y fersiwn Gymraeg.

248 Dihareb gydwladol, cf. *La u cheval se vuelte, u pet u peil i
remei[n]t* (Mor., 1018); *Where the Horse wallows some hairs fall
(are lost)* (PSPP, H539).

249 Dichon mai fersiwn arall o'r ddihareb hon yw A133. Dihareb
gydwladol, cf. *Ne meur, cheval, herbe te vient* (Mor., 1344; gw.
hefyd MFPSPP, M144); *While the Grass grows the horse starves
(varied)* (PSPP, G437); *Instat equus morti sine gustu graminis
horti* (LSSM, I107). Gw. ymhellach SM (i, 108).

250 **Elit** Myn. pres. 3 un. *myned*.

251 **Maeth** Darllener *weith* fel ym Mheniarth 17 a 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr': 'ef molir pa6b 6rth yweith' (RBP. 1056.32-3).

252 **h6ch** *March* a geir ym Mheniarth 17 a B302.

A oes gysylltiad â motif llên gwerin J1733, 'Why the pigs shriek. The sheep does not understand why the pig being carried to slaughter shrieks' (MIFL, IV, 139)?

254 **kyndeira6c** *Cynddeiriog*, 'Llidiog iawn, gorwyllt, gorffwyllog, gwallgof' (GPC) ond tebycach mai'r ystyr yma yw 'yn dioddef o'r gynddaredd'. Nid yw cŵn cynddeiriog yn anghyffredin yn llên Cymru'r Oesau Canol cf. 'mal dala ki kyndeirawc y6 genhyf mal ym g6ant yr hayarn g6en6ynic' (WBM, 479). Yn ôl y gyfraith ni thelid iawn am y difrod a wnai ci cynddeiriog gan nad oes gan ei berchennog reolaeth dros y cyfryw gi: 'Dros ki kyndeirawc, na thros y drwc a wnel, ny diwygir dim' (Bleg., 53.1-4).

Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Qui son chien viaut tuer la rage li met sus* (Mor., 2146; gw. yn ogystal MFPSPP, C168); *Qui suum canem vult perdere, per rabiem imponit illi nomen* (Singer I, 42). Gellir ei chymharu â'r ddihareb, *Ochoison trouve qui son cha(s)t ba(s)t* (Morawski, 1428; gw. yn ogystal MFPSPP, C160).

Cenfydd pob dyn esgus ymlaen llaw i gyfiawnhau ei weithred. Fersiwn arall ar y ddihareb hon ydyw A1003 isod. Cyfansoddodd Deschamps faled (a berthyn i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg) ar y ddihareb hon. Teitl y gerdd yn y casgliad cyflawn o'i waith yw *Qui veut tuer son chien l'accuse de la rage*:

Qui ayme bien ne croit pas de legier

Que son ami lui voulsist nul mal faire,
Ne qu'il voudroit contre lui pourchacier;
Mais au jour d'uy sont maint de tel affere,
Et ont le cuer si lasche et si contraire
A fermeté de vray et bon amour
Qu'ilz se glacent et quierent la rumour
A ce qu'amer deussent, s'ilz fussent saige,
En diffamant leur ami; c'est folour:
Qui son chien het, on li met sus la raige.

Et comment puet un loial cuer cuidier
Que vray ami se voulsist contrefaire,
Qui prest ne fust pour son ami aidier?
Puis qu'amis est, il se lairoit detraire
A bons chevaulx, ains qu'il voulsist retraire
De son ami ou blasme ou deshonneur;
Mais cil qui croit pour neant tel errour
A cuer coulant, et cuide estre volaige,
Comme le sien, cuer d'ami plain d'onnour:
Qui son chien het, on lui met sus la raige.

Las! quel peril de croire losangier
Sur son ami! Cil vault pis que Macaire
Le traîtreux, quant il point par derriere;
On le devroit a un gibet deffaïre;
A toutes gens doit un menteur desplaire,
Car par son fait vient haine et tristour,
Perte d'amis, tous maux, toute dolour;
Diable ont menteurs si fort mis en usaige
Qu'om voit par eulx et de nuit et de jour:
Qui son chien het, on lui met sus la raige.

L'ENVOY

Prince, bon fait le cuer avoir entier,
 Sanz contre ami croire ainsis en derrier;
 Du losangier eschivés le langaige
 Et en tous temps tenez vostre ami chier,
 On ne doit pas encontre lui clochier:
 Qui son chien het, on lui met sus la raige.
 (Queux de Saint-Hilaire & Raynaud, V.MXCIII, 402-3)

255 **Ysclodyn gbern** Siafin neu ddernyn bychan o bren gwernen. Gall gwern olygu ‘mast llong’ ond go brin mai hynny yw’r ystyr yma. **ym penn** Naill ai *ym mhen* neu, yn fwy tebygol, *am ben*.

256 **ly** Sef *llyf*, myn. pres. 3 un. *llyfu*. Collir [v] derfynol yn fynych ar ôl llafariad (GMW §10).

Dihareb gydwladol. Cf. *Li chaz set bien cui barbe il leche* (Mor. 1063); *Bien set li chaz cui barbe il leche* (Mor. 264); *Well wot the Cat whose beard he licks (varied)* (PSPP, C108). Y mae Jakob Werner yn nodi sawl amrywiad Lladin arni: *Cui barbam movit lingendo, cattus bene novit* (LSSM, C153); *Scis, catte, cui lingis barbam, cui murmura fingis* (LSSM, S42); *Murilegus bene scit, cui barbam lambere suescit* (LSSM, M91).

Trafodir y ddihareb gan Samuel Singer (SM i, 38-40) a ddengys, gan bwysu ar los ar enghraifft o’r ddihareb yn y *Fecunda ratis* gan Egbert o Liège (*Quando impune aliquid agitur, et presumptor neminem prelatum metuit*), mai disgrifiad ydyw o rywun a lwydda i ennill ffafr drwy ffalsio. Deellir mai dyna ergyd y ddihareb o’i gweld yn ei chyd-destun yn *Li Proverbe au Vilain*:

Quant mainte dame essaie
 Et tente la manaie

De son seigneur souvent,
Bien veut qu'il l'entrepenge;
Se il donc ne s'en venge,
Puis fait maint fol couvent.
Li chaz set bien cui barbe il leche,
ce dit li vilains.
(Tobler, 1895, 2)

Awgryma Singer hefyd, gan ddilyn Gaston Paris, y dichon mai darlun o rywun hunanol a gyfleid yn y ddihareb hon yn wreiddiol ond maentumia fod yr ystyr hwn wedi ei hen anghofio a bod y ddihareb wedi ei thadogi'n gynnar â'r ergyd a briodolir iddi gan losiwr y *Fecunda ratis*.

Adleisir y ddihareb yn y gerdd rydd 'Gyrru'r Gath trwy Feirionnydd', ond braidd yn annelwig yw ei hergyd:

Ti a wvddost nid raid vnnon
pa farf a lyfi yn dirion
Ti a fedri ochel y farf fawr
sv yn tario yn llawr ydernion
(CRhC, 97.13-6)

257 **gaplo** Dib. pres. 3 un. *cablu*, 'melltithio'.

6rthpan Gwrthban, 'cwrlid, mantell'. Efallai mai trosiad am glydwr yw yma. Ynfyd yw'r sawl a felltitha ei glydwr (?).

Cf. efallai, y ddihareb Saesneg *Be hende (courteous) of (with) your Hood* (PSPP, H451).

258 Dihareb gydwladol, cf. *En tel pel con naist li loux morir l'estuet* (Mor., 685); *Le loup mourra en sa peau qui ne l'escorchera vif*

(MFPSPP, L92); *In qua pelle lupus modo nascitur, hac morietur*
(SM I, 86).

260 **Ell6ng** *Gollwng*. Yr ystyr yma yw ‘caniatáu’ (GBGG).

261 **Ymhoelit** Myn. pres. 3 un. *ymhoelyd*, ‘troi’ (cf. y ffurf
ymchwelyd)

gaeafnos ‘Noson o aeaf’, cyfansoddair o gaeaf + nos.

262 **kyn** *Cÿn*, *wedge* yn hytrach na *chisel* yw’r ystyr yma.

orddir Myn. pres. amhers. *gorddio*, ‘curo â gordd’. Cf. o ran
diddordeb y ferf *cynio* ‘gyrru cÿn’.

Edliw i Siôn Phylip ei arhosiad hir yn nhŷ Esgob Llanelwy a wna
Siôn Tudur yn y cwpled ‘Gwirion fab, gyrru wna fo / Â gordd y
cÿn a gerddo’ (GST, 133.53-4). Hynny yw, yr oedd lletygarwch yr
Esgob i’w gael yn rhwydd ond yr oedd Siôn Philip yn manteisio’n
ddigywilydd ar hynny.

263 Ystyr *yn ôl* yw ‘ar ôl’ (gw. GMW, 219). Mae bwriad neu amcan yn
dilyn breuddwyd. Darlunnir hynny groyw iawn ym Mreuddwyd
Macsén. Cf. y cyngor hwn gan Gatwn: ‘Na chret vreudwytyon.
kanys y peth y bo bryt dyn ae vedwl arnaw odieithyr y hun. hynny
a wyl drwy y hun’ (Catwn Liber ii, 31).

264 **Ethy6** Myn. perffaith. 3 un. ‘myned’. Ai ‘aeth corn’ (= ‘canodd
corn’) yw’r ystyr?

ysgyfuarna6c *Ysgyfarnog*, ond ym Mheniarth 17 *ysgyuarn*, ‘clust’
yn unig a geir. Canwyd corn heb i neb ei glywed neu canwyd corn
heb i ysgyfarnog godi.

265 **ny diw** Yr ystyr yw 'ni thycia' (BBGCC, 332).

Ceir y ddihareb hon yn yr englynion ymddiddan rhwng Gwên a Llywarch: 'edewit ny wnelher ny diw' (CLIH, I.8c; EWSP, 405) ac fe'i cyfieithir yn *A promise which is not fulfilled is useless* (EWSP, 468). Fe'i ceir hefyd yn Clyweit 18c. Cf. y llinell 'atuant ada6 ny wnehyd' (RBP, 1055.32) sef 'nid yw'r ofer yn cyflawni addewid'.

266 **Ennwa6c** Y mae gan y meichiad enw ar bob un o'r moch? **meichat** 'Ceidwad moch' (Ar y ffurf gw. PKM, 193).

267 Canodd Siôn Tudur gyfres deimladwy o englynion i'w fodryb (GST, 270).

269 **Eiryach** 'Arbed'. Dengys y negydd mai ffurf gorch. 3 un sydd yma. Dylid arbed llaw ond ni ddylid arbed troed.

270 **Elit** gw. rhif 250 uchod.

Mae gwraig yn dilyn ei henllib. Mae *enllib*, fel arfer, yn ddi-sail ond cf. 'Tri chadarn en llip g6reic ynt: Vn y6 g6elet y g6r arwreic yn dyuot or vn ll6yn vn o pop parth yr ll6yn. Eil y6 g6elet elldeu dan vn vantell. Tydyd y6 g6elet yg6r r6g deu vord6yt ywreic' (WML, 127.7-11).

271 **tal penntan** 'Ymyl pentan', Dyry GPC *fireside*.

Nodir y ddihareb hon gan Fynes-Clinton (WVBD, 423) ac fe'i clywir ar lafar o hyd. Yn y Gymraeg, fe'i defnyddir heddiw'n ddieithriad i ddisgrifio rhywun sy'n hawddgar ddigon yn

gyhoeddus ond yn gythraul gormesol ar ei aelwyd ei hun. Dyna genadwri'r ddihareb yn y darn a ganlyn o gyfieithiad Stephen Hughes o Daith y Pererin (1688):

Y mae fo'n chwedleua am Weddi, am Edifeirwch, am Ffydd, ac am yr Ad-enedigaeth; eithr nid oes gantho yn ei enaid ei hun brofiad yn y byd ohonynt; fo feidr yn vnic chwedleua am danynt. Myfi a fûm yn ei Deulu ef, ac a ddeliais sulw arno ef Gartref ac oddi Cartref; ac mi a wn, mai gwir ydyw'r hyn yr wyfi yn ei ddywedyd am dano ef ... Fal hyn y dywed y Bobl gyffredin sy'n ei adnabod ef, Angel Pen ffordd, Diawl pen pentan. Y mae ei Deulu ef wedi cael profiad o hyn oll. Y mae fo'n Ddifennwr, ac mor Anfwyn, mor Daeog, ac mor afresymmol wrth ei Weision, fal na wyddant hwy pa fodd i foddloni ef, yn eu Gwaith a'u Gorchwylion, na pha fodd i lefaru wrtho heb gyffroi ei Ddigofaint ef.

(Hughes, 1688, 154-5)

Credaf, fodd bynnag, fod iddi arwyddocâd amgen yn yr oesau canol (er mai rhagrith oedd ei thestun yr un fath) ac mai fersiwn Cymraeg ydyw o'r ddihareb gydwladol a drafodwyd yn helaeth gan J. A. Burrow yn ei ysgrif *'Young Saint, Old Devil': Reflections on a Medieval Proverb* (Burrow, 1984, 177-91). Ergyd y ddihareb yw mai rhagrithwyr yw gwŷr ieuainc sy'n ymarweddu'n sanctaidd. Dyfynnir y ddihareb yn fynych gan awduron moesegol a chrefyddwyr ac fe'i condemnir ganddynt yn enghraifft o gred gyfeiliornus, anfoesol (Burrow, 1984, 178).

Serch mai *sant* a *geir* yn y fersiynau Saesneg a Ffrangeg, y mae *angel* yn gyffredin yn y fersiynau Lladin. Cf. *De joene saintel veil dyable* (Mor., 509); *Qui josnes saintist vieus enrage* (Mor., 1961); *Young Saint old devil* (PSPP, S19); *Angelicus iuvenis senibus satanizat in annis* (LSSM, A85); *Angelus est iuvenis, daemon*

labentibus annis (LSSM, A86). Angel hefyd a geir yn yr Almaeneg, *Junger engel, alter teufel* (SM II, 104).

Cyfleir syniad o hen ŵr yn eistedd wrth dâl pentan yn berffaith yn y ddihareb Gymraeg.

272 **deu eirya6c** ‘Twyllodrus’ (GPC).

274 **Edunit** Myn. pres. 3 un. *eidduno* ‘dymuno’.

Cf. ‘kytuýt lleidyr a hir nos’ (EWGP, II.18c; y mae Jackson yn ei chyfieithu yn *well agreed are the thief and long night*, SEWNP, 60, ac yn cymharu’r wireb â llinell 42 y Cotton Gnomes, *theof sceal gangan thystrum wederum*); ‘Gofal herwr ar hirmos’ (GST, 205.18).

275 **Ergryn** Myn. pres. 3 un. *ergrynu*, ‘arswydo’.

Mae’r llwfr yn ofni llawer niwed. Cf. ‘meccid llvwyr llauer kyghor’ (EWGP, I.10c; yng nghyd-destun yr englynion saga yr ystyr ydyw, ‘dyfeisia’r llwfr lawer esgus rhag mynd i ryfel’, CLIH, 177); ‘meckyt ll6uyr llawer adoet’ (EWGP, III.29c).

276 **ny gyghein** Myn. pres. 3 un. *cynghenni*, GBGG ‘genni, cael ei gynnwys; cydweddu, bod yn addas’. Yn y Cyfreithiau y mae i’r gair yr ystyr ‘caniatáu’, cf. ‘Ny kygeyn gureyc en uach nac en tyst ar vr’ (Ior., §52).

Digwydd y ddihareb yn yr englynion gwirebol (EWGP, VI.32c) ac fe’i cyfieithir gan Jackson yn *intercession for one who is not loved does not prevail* (SECNP, 68). Nid yw eiriol un na cherir yn addas.

- 277 **Esgut** Geill olygu ‘buan’ neu ‘ddyfal’ ac y mae’r naill ystyr fel y llall yn dderbyniol yma. Ergyd y ddihareb yw fod y sawl sy’n hogyn drwg gartref yn hogyn da yn nhŷ rhywun arall.
- 278 Digwydd y ddihareb yn ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’: ‘eirya6l agara6r ha6dweith’ (RBP, 1056.32). Meddai Tudur Aled am Robert ap Rhys, ‘Hau ’dd wyd aur, hawdd yw d’eiriol’, a hynny oherwydd ei fod yn ei garu (GTA, XLIX.27). Cymharer A276 uchod.
- 279 **dryctorth** ‘Bara gwael’
- 280 **Ergyt** Ai ergyd saeth neu garreg sydd dan sylw? Sylwa Lloyd-Jones ‘ar yr ymadroddion am fesur neu hyd ergyd’ (GBGG, 485). Mi fyddai saethu i lwyn yn weithred annoeth ac yn rheswm dros roi *cysul*.
kyssul heb y erchi ‘Cyngor heb ofyn amdano’. Ar *cysul* gw. A170 uchod.
- 281 **Eithyr** Arddodiad gw, GMW §215. ‘Nid oes dim y tu hwnt i allu’.
- 282 **gan droet** ‘gyda throed’.
- 283 **y da** Darllener y *da6*.

Dengys fersiwn C896 ôl ymbarchuso.
- 284 Crybwyllir *dryctir* a *drygarglwydd* gyda’i gilydd ddwywaith yn y trioedd gwirebol ynghyd â’r peth arall annymunol hwnnw, *drygwraig*: ‘Tri rhyfel yn heddwch: dryctir, a drygwraig, a

drygarglwydd’; ‘Tri pheth a ddarestwng gŵr: dryctir, a drygwraig, a drygarglwydd’ (Owen, 1988, 103-4). Y mae’r tri hyn yn faich ar ddyn. O ran y ddihareb, cf. y Ffrangeg *Male terre doit l’un fuir, non mau seignorage*, a’r wers Ladin sy’n ei chanlyn, *Si terre dominive dolo nascatur egestas, / Terra relinquatur sterilis, non dira potestas* (Vernet, 1950, 107).

285 **o benllyn** Penllyn, Sir Feirionydd.

Y mae enwau lleoedd yn gyffredin yn llenyddiaeth ddjarhebol yr oesau canol, (cf. A287, A289, A409, A506, A845), er nad yw eu harwyddocâd yn eglur bob amser. Agwedd arall debyg ar lôn doethineb yw’r rhestrau o nodweddion pobloedd a chenhedloedd, y *Proprietates gentium*, a gyfansoddid gydol yr oesau canol (Bautier, 1984).

Diddorol, yng nghyswllt y ddihareb, yw sylwi ar esgyll englyn a gysylltir ag Einion ap Gwalchmai: ‘doeth i Von ai hvn vantell / rhac newyn o Benllyn bell’ (CBT I, 435).

286 **yn y dal** Gellir *tâl* ‘cyflog’ neu *tâl* ‘talcen’.

287 **lann vaclan** Eglwys Llanfaglan ger Caernarfon.

Crybwyllir y ddihareb hon yn LBS (I, 192) yng ngyswllt Baglan ab Dingad. Y Baglan hwn y sefydlodd eglwys Llanfaglan ger Caernarfon (roedd Baglan arall yn y traddodiad Cymreig sef Baglan Llydaw). Am y ddihareb dywedir:

There is a Welsh proverb now generally quoted in the following form, “Ffordd Llanfaglan yr eir i’r nef”, “The way of Llanfaglan one goes to

heaven.” In the Red Book of Hergest collection of proverbs (apparently its earliest known occurrence) it is written, “Ffordd ylanfaglan yd eir y nef.” The English equivalent would seem to be “None go to heaven on a feather bed.”

Safle agored ac anghysbell yr eglwys a awgrymodd y dehongliad hwn (Henken 1987, 256). Cofnododd Richard Fenton y ddihareb yn ei lyfrau taith. Am Llanfaglan dywed: *There is here an old Adge – Ffordd Llanfaglan ydd air i’r Nêf, The way to Heaven is by Llanfaglan Road (Tours in Wales (1804-1813) by Richard Fenton; cafwyd y cyfeiriad yn Henken, 1991, 183).*

Am y traddodiadau sy’n gysylltiedig â Baglan gw. Henken (1987, 256-7).

288 Ar Bach ab Carwed gw. LBS (I, 190-1). Camddarllen y ddihareb hon a’r nesaf yn nhestun A sy’n cyfrif am fersiwn od DD Diar. *Ffordd lan Fechan ydd a’i y wenylen yn ei phreseb.* Geill fod cysylltiad â ‘gwenyn o nef’; ar y traddodiad hwn gw. DGG, 207.

290 **Gorllyfnu** ‘anwesu’. Sylwer mai ffurfiau’r gorch. 2 un. *gorllyfna* a dib. pres. 2 un. *elych* sydd ym Mheniarth 17. Berfenw a dib. amhers. a geir yn Llyfr Du’r Waun fel yn A a B.

Dihareb gydwladol, cf. *Tant doit len blandi(e)r le chin que len soit passé* (Morawski, 2292); *Blandus sermo datur canibus, dum praetereatur* (LSSM, B21). Gw. ymhellach SM (i, 24-5).

291 Rhoir y ddihareb hon ym mhen y bi yng nghywydd cyntaf yr ymryson rhwng Siôn Tudur a Siôn Phylip: ‘Gwell i’r ci a rodio, tro at rai, / Cast oedd, na’r ci a ’steddai’ (GST, 127.41-2).

Y mae fersiwn B81 yn bur wahanol gyda’r berfau yn y goffennol a’r ci diog bellach yn gi marw. Ystyr *rac nebyn* yw ‘o ganlyniad i newyn’.

Cymharer y motif llên gwerin W111.5.4 *Lazy dog wakes only for his meals* (MIFL V, 487)

292 **kol6yn** ‘Ci bychan’

Ceir y llinell ‘nyt chware hengi a cholwyn’ yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit 62c). Dichon fod adlais o’r ddihareb yn y llinellau hyn o gywydd Ieuan Tew ‘i wrthateb ethrod’ cywydd gan Mastr Harri a Hywel yn ei gynghori i roi’r gorau i garu merch ieuanc:

ag o llidiar gwr llwydwyn
vo vydd hall yddo vo hyn
ny adafi odwyf wr
yffrwyn yr fferenwr
minaf odailiar afwyn
draior ffrost nay dorir ffrwyn
yniladd ywn dwyradd ni(n) day
y ki hynaf ar kenay
chwarayr ki chwerw ywr kaith
acholwyn agewch ailwaith
(Llan. 6, lx.37-46)

Ymddengys mai ergyd llinellau Ieuan Tew ydyw fod yr hen gi, o chwarae, yn ymfywiogi. Nid yw ergyd y ddihareb Gymraeg hollol

eglur ond noder bod sawl dihareb gydwladol sy'n crybwyll
 chwarae yr *hen gi* a'r *colwyn*: *Tant giue chael com li vieil chiens*
vient (Mor. 2298); *The Whelp plays as long as the old hound will*
 (PSPP, W214); *While the Whelp plays the old dog grins* (PSPP,
 W215); *Damna reportabit catulus, qui cum cane ludit* (LSSM D9).
 Efallai mai'r ddihareb Ladin olaf hon sydd agosaf at genadwri
 Ieuan Tew, h.y. daw colled i ran y *colwyn* o chwarae â'r *hen gi*.
 Gw. ymhellach SM (I, 129).

293 **hafotta** 'Preswyllo mewn hafod neu drigfan haf'. Awgryma
 darlleniad Peniarth 17, *elei y hely*, mai gwall yw *hafotta* nhestun A
 ac dylid darllen *llygota*.

295 Genau bychan sydd gan fwyalchen a byddai arch ('deisyfiad')
 blaidd yn sylweddol. Trosiad sydd yma am rywun yn gofyn am
 beth mwy na'r hyn y geill ymdopi ag ef.

296 **goda6c** codog, 'cyfoethog'
rieda6c rhieddog, 'uchel ei dras' (gw. y nodyn arno yn CBT I,
 546).
 Doethineb ymarferol sydd yn y diarhebion. Gwell mam gyfoethog
 na thad mawreddog.

297 Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 63c) a cheir
 sawl enghraifft ohoni yng ngwaith y beirdd, cf. 'Gwell i'n tir, gall
 anturiaw, / Gâr yn llys nog aur yn llaw' (GTA, LXII.27-8). Adlais
 o'r ddihareb sydd yn y llinellau 'Naws carennydd nis crina, / Cywir
 a dwys fydd câr da. / Gwell ydyw, ac o llidir, / Gâr yn d'ôl nag aur
 neu dir' (GST, 19.65-8). Canodd Siôn Tudur englyn ar y ddihareb
 hon a cheir englyn ateb anhysbys iddo:

Gwell i ddyn rhydyn, anghariadus – taer,
 Â materion cwmbus,
Gâr mawr mewn gwynllawr gwinllys,
Gwir yw'r farn, nag aur ar fys.

Taw, Siôn, wyd wirion a dall – nodedig,
 Nid ydwyd ond angall;
Mae yn dda câr cerddgar, call,
Mae'n well aur mewn lle arall.
(GST, 311)

Y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Muez vaut amis an place que argent an borse* (Mor., 1240; gw. yn ogystal MFPSPP, A94); *A Friend in court is better than penny in purse* (PSPP, F633). Gw. ymhellach SM (II, 14-5).

- 298 **h6de** Berf ddiffygiol na ddefnyddir mohoni ond yn y gorch 2 un. a'r gorch. 2 llu. (WG §200; *imper. 2 sing. only* yn ôl GMW §171 – ymddengys nad oes enghraifft o'r lluosog, *hwdwch*, mewn Cymraeg Canol). Yr ystyr yw 'cymer', cf. 'Hwde di y votrwy honn a dot am dy vys' (Owein, 12.300-1).

Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 64c) ac y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Mieuz vault un "tien" que deus "tu l'auras"* (Morawski, 1300; gw. hefyd MFPSPP, T53). Gw. ymhellach SM (II, 60).

- 299 Mae mwy o obaith am ddychwelyd o alltudedd na dychwelyd o'r bedd.

300 **am...a...** Yr ystyr yw 'yr ochr arall i rywbeth'. Am le'r offeiriad teulu yn y neuadd dywedir mai *E le en e neuad yv e am y tan a'r brenhyn* (Ior. §7) sef yr ochr arall i'r tân, gyferbyn â'r brenin. Gwell i ddyn fod yn rhynnu am y mur â dedwydd nac yn eistedd mewn cynhesrwydd gyferbyn â diriaid.

301 **agor** Dyry GPC 'Symud rhwystr i fynd i mewn i le, rhwyddhau ffordd, peidio â chadw'n gaeëdig'
cynn6ys Yn GBGG rhoir yr ystyron 'croesawu, derbyn, gwahodd' ond gwell yma yw'r ystyr 'Cadw neu grynhoi (peth) o fewn gofod neu derfynau neilltuol, cau (i mewn)' a geir yn GPC.

Gwell rhwyddhau'r ffordd i rywun na cheisio cyfyngu arno. Rhoir rhywfaint o gig am esgyrn y ddihareb yn y llinellau hyn o waith Lewys Môn:

Gwiw nithiaist wŷr, gwnaethost well:

gyrru heibio i'r gwŷr rhybell.

Haws agor drws y gaer draw,

nawcan hoes, na'u cynhwysaw.

Huw'n agoriad hen gerrig;

Huw, ni bo'r ail henw'n y brig.

Agor ganwaith Gaer Gonwy:

nedwch i mewn ond chwi mwy.

(GLM i, 55-62)

302 **goleith** 'gochel, osgoi'. Arno gw. Williams (1932, 221-2) sy'n nodi'r ddihareb dan sylw ymysg ei enghreifftiau.

mevyl 'gwarth'. Fe'i ceir yn y llw *mefl ar fy marf* (cf. WBM, 134.17-8; gw. ymhellach Jenkins, 1976, 37). Yr oedd cennad i wŷr guro ei wraig am 'unau meuel ar e uaryf' (Ior. §51; *presumably*

meaning to cast aspersions on a man's virility meddai Aled Rhys Wiliam, Ior., 110). Ymhellach ar gysylltiadau cyfreithiol y gair gw. Owen (1980, 47).

no dial6r 'Gŵr sy'n dial' yw dialwr ac y mae iddo ei le yn y trioedd cyfraith: 'Tri anhebkor kenedyl: teispan tyly a dial6r kenedyl ae hardel6r' (AL I, 784). Ni fyddai'r synnwyr a geid o dderbyn *dialwr* yn annerbyniol; 'Gwell osgoi peri mefl nac osgoi'r un a fyddai'n dial am y fefl honno. Gwell, serch hynny, yw derbyn darlleniad B189 sy'n rhoi negydd + rhagenw mewnol + berfenw a'r ystyr 'Gwell osgoi mefl na'i dial'.

Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynepglawr' ceir y llinell 'Areith g6ell goleith no govit' (RBP, 1055.41).

303 **uanec** Fe'i defnyddir yma'n drosiadol am gwdyn bychan.

yttā 'Cardota ŷd'. Tebyg yw ystyr darlleniad Peniarth 17, *hata* 'cardota had'. Gw. A12 uchod am ferfau â'r ôl-ddodiad *-ha*.

ffetan 'Sach' a hynny a geir ym Mheniarth 17.

Y mae mwy o obaith i gardotwr ŷd gwylaidd gael llenwi ei faneg nag i gardotwr ŷd digywilydd gael llenwi ei sach.

Mae fersiwn B66 naill ai'n bur wahanol neu'n bur llwgr. Mi fyddai *hilia* (ffurf ar *hidlo*) yn synhwyrol o ystyried y cyfeiriad at ogr, ond y mae'r synnwyr ymhell o fod yn eglur.

Edrydd *exemplum* o waith Jaques De Vitry hanes dau gardotyn a aeth i yta, y naill â sach bychan a'r llall ag un mawr. Ni wrthodid yr un â sach bychan (Crane, 1971, 35).

304 Y mae arwyddocâd y ddihareb, y tu hwnt i'w hystyr llythrennol, yn dywyll ond efallai y dylid ei hystyried yng nghyd-destun y

cyferbyniad, yn ymwybyddiaeth yr oesau canol, rhwng pren (deunydd byw, glân) a metel. Meddai Pastoureau (2004, 83):

Pour la sensibilité médiévale, le métal – qu’il soit vil ou qu’il soit précieux – est toujours plus ou moins infernal: il a été arraché aux entrailles de la terre puis traité par le feu (lequel est le grand ennemi du bois). C’est un produit des ténèbres et du monde souterrain et c’est le résultat d’une opération de transformation qui a quelque peu à voir avec la magie. Par là même, dans les systèmes de valeurs concernant les métiers, tout oppose le forgeron et le charpentier.

- 305 **llysc** Myn. pres. 3 un. ‘llosgi’
etewyn ‘ffagl’.
- 307 **b6rr** GPC ‘tew, cryf, mawr’ ond yma tebyg ei fod yn golygu
‘llydan’ sef gwrthwyneb *cul*.
- 308 Gan gymryd mai ‘cartref’ yw ystyr *bod* yma, cynigia Ifor Williams
(1926, 23) y cyfieithiad petrus *A shameful (bad) dwelling is better
than a shameful journey*. Y mae’n eglurhad hynod ddengar o
ystyried mai *aros* a geir yn y Llyfr Gwyn ac yn fersiwn C320.
Digwydd yr elfen *bod* yn aml mewn enwau lleoedd - Boduan,
Bodorgan, Bodfeurig - a’i ystyr yw ‘trigfan’.
- 309 **byrr seuyll** Dyry darlleniad B191, *hir seuyll*, well synnwyr.
- 311 Yn ‘Englynion y Clyweit’ ceir ‘y[s] gwell kadw noc olrein’
(Clyweit 2c). Fe’i diweddarir gan Haycock yn ‘Gwell amddiffyn
nag erlid’ (BBGCC, 31.2c).

- 312 **estra6n** ‘Un o wlad diethr’ na ddylid ymddiried ynddo: ‘gwae a ymdiret y estra6n’ (EWGP, V.1ch). Nid yw’r ystyr ‘gelyn’ yn amhosibl (CBT vi, 24; EWSP, 545).
- 313 **ha6l** ‘Yr hyn y gellir ei hawlio’n gyfreithiol’ (GPC).
galanas Yr ystyr wreiddiol oedd ‘gelyniaeth rhwng dau deulu o ganlyniad i lofruddiaeth’, *blood-feud*, yna ‘llofruddiaeth’ ac yna’r taliad i brynu heddwch am y llofruddiaeth a delid gan deulu’r llofrudd i deulu’r un a lofruddiwyd. Roedd y taliad yn cyfateb i statws cyfreithiol y llofruddiedig ac felly y mae *galanas* weithiau yn gyfystyr a *gwerth* yn y llyfrau cyfraith: ‘Galanas pob vn ohonunt yw whe bu a wheugein mv, gan tri drychael’ (Bleg., 9.9-10). Gw. yr ymdriniaeth lawn yn Jenkns (1976, 71-4).
 Cf. ‘Na ader heibio’n diarhebion, / gwir yw dihareb y gwŷr dewrion: / gwell ydyw henawl, gwayw du llinon, / no hen alanas hen elynion’ (GLGC, 11.43-6); ‘Na dwc ar gof hen elynyaeth’ (Catwn Liber ii,15). Dichon fod yma amrywiad ar ddihareb gydwladol, cf. C334.
- 314 Awgryma Henry Lewis (1927, 17) fod chwarae ar ystyron gŵr a gwŷr (y meistr a’r gweision) yma, gan gymharu’r darn cywydd hwn:

Gŵr a wella gwŷr wellwell,
 A gwŷr a wna gŵr yn well.
 Gŵr a wna gwŷr yn i ôl,
 Gwŷr a wna gŵr yn wrol
 (PWDN, XXIV.63-6)

- 315 **rann** Geill rhan olygu ‘cwmni (o filwyr), llu’ (GPC) ac os felly yr un yw’r ystyr ag A314 uchod.
- 316 **yghena6c** ‘Anghenog’ (cf. y ffurfiau *achenog*, *echenog*, *ychenog* yn GPC). Nid yw’r ddihareb yn gyflawn yn A ond y mae fersiwn B184 yn gyflawn. Ceir y ddihareb yn ‘Oianau Myrddin’: ‘guell bet no buhet pop yghenauc’ (LIDC, 17.52; gw. yn ogystal Williams, 1928, 126) ac yn Clyweit 47c. Gwell yw marw na byw’n gardotyn. Dyry Davies y cyfieithiad *Melius sepulchrum quam vita egena* (o dan *ychenawg* yn DD).
- 317 Cf. y cwpled hwn o waith Siôn Phylip: ‘Hir bu dihareb i’w ôl, / Hir yn weddw a rhinweddol’ (GSPHNSG, XXXI.33-4). Adleisir y ddihareb mewn cywydd a briodolir i Ddafydd ab Edmwnd: ‘gwell yddi ddyw weddidda / vn arall no hen wra’ (Llan. 6, XLVII.5-6).
- 318 Dihareb gydwladol, cf. *Mieus vaut bons taires que fous parlers* (Mor., 1254; gw. hefyd MFPSPP, T2); Gw. ymhellach SM (II, 139-40). Hwyrach fod adlais o’r ddihareb yn y llinell hon: ‘Gwell tewi na gweiddi garw’ (GIG, XV.129).
- 319 **6rth y vola6t** Er bod *molawd* ‘moliant’ yn dderbyniol, gwell yw darlleniad B192 a’r Llyfr Gwyn, *uoli*. Cf. ‘Rwyf pobua, mor wyt da 6rth dy yoli’ (CBT, I.4.17; noder mai *ioli* ‘gweddio’ nid *moli* sydd yn y dyfyniad hwn); ‘Vn danc uwynt wrthyf 6rth eu moli’ (CBT, I.14.23). Digwydd y ddihareb yng ngwaith Lewys Glyn Cothi: ‘gwell Duw o’i foli’n ddifabanaidd’ (GLGC, 117.19).
- 320 Erfyn bychan yw morthwyl ond y mae gordd yn glamp o erfyn trwm. Digwydd *dyrnod ar ordd* yng ngwaith y beirdd am ergyd

arw. ‘Dyrnod a roddes Iesu / Â gordd fawr ar y gerdd fu’ (GGG, XI.23-4); ‘Duw a roddes, diwreiddiaw, / Ddyrnod yr ordd arno draw’ (GLD, 27.35-4). Nodir gwerth cymharol y ddau erfyn yn y llyfrau cyfraith: ‘Morthuyl, dam...Ord, iiii.k’ (Ior. §140 - §141).

- 321 **peidya6** Dyry GPC ‘dioddef, goddef, dygymod (â)’; cf. ‘hawddbeidio’ yn A194 uchod. Yr ystyr yw ‘gwell goddef nag ymddiried yn rhywun’.
- 322 **wyneb** ‘Anrhydedd’ (daeth i olygu ‘haerllugrwydd’ yn ddiweddarach, estyniad ar yr ystyr hwn yn ddiaw). ‘Na choll wyneb [gwr] ar gnif’, meddai Llywarch wrth Gwên (CLIH, I.4c; EWSP, 405). Yn y cyfreithiau geill *wynebwerth* fod yn gyfystyr â *sarhad* (ond gw. WLW, 220 ar yr ystyr benodol sydd iddo yng nghyfraith gwagedd). Gw. yr ymdriniaeth lawn â *wynebwerth* yn PKM (175-6) ac, ar yr hyn sy’n cyfateb i wynebwerth yng nghyfreithiau Iwerddon, *lóg n-enech*, gw. Kelly (1988, 8).

g6aly gwala, ‘digonedd’

Dihareb gydwladol, cf. *Mieux vault tresor d’onneur que d’or* (Mor., 1295; MFPSPP, H62); *Honor is worth more than gold or silver* (PSPP, H447). Dichon fod yma ddylanwad yr adnod ‘Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer; a gwell yw ffafr dda nag arian, ac nag aur’ (Diarhebion 22:1).

- 323 Ceir *gwell rydraws no rydruan* yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit 8c). Fe’i diweddarir gan Marged Haycock yn ‘Gwell dyn tra chryf na dyn truan iawn’ (BBGCC, 31.8c). Cf. ‘Gwell rhydraws, gallu Rhodri, / Na thruan, dos â’th ran di’ (GIG, III.67-8).

324 **ryssed** Trafodir y gair yn CA (352-3) a dywedir yno ‘Yn y ddihareb, gwell golud na rhyssedd, yn sicr “rhwysg” ydyw; nid os ond cam i “excess”. Diau fod ystyr cymhedrolach i *golud* na *rhyssedd* yn y ddihareb a bod blas afradlonedd anniwall ar yr ail. Gw. ymhellach y nodyn ar *rysset* yn CBT II, 126.

325 **kynnwys** Gw. A301 uchod.

got Dyma’r elfen gyntaf yn *godineb*. Yma enw ydyw, ‘godinebwr’, ond fe’i ceir hefyd fel ansoddair (cf. A1046 isod). Cysylltir y *god* â’r *lleidr* yn y darn hwn o gyfaddasiad Cymraeg o feirniadaeth Gildas ar y Brytaniaid:

Y pedwryd uu dryckampeu a drycuoesseu y bobyl gyffredin, achaws lladron a threiswyr ac ymladwyr a got a glwth oedynt.

(Richards, 1949, 64-5)

Gw. ymhellach A825 isod.

326 **hydot ... jyrchot** Y mae’r drefn o chwith yn A. Dilyner darlleniad Peniarth 17 a B216, *bod yn ben ar yr iyrchod nag yn din a yr hyddod*. Dibynna’r ddihareb ar werth cymharol yr *iwrch* a’r *hydd*. Am *hydd* (ben. *hyddes*) dyry DD *ceruus*, *dama* a chymeraf mai’r ystyr yw *red deer*, (*cervus elaphus*), cf. Salesbury *hyddgen: A hartes hyde*. Am yr *hydd* dywed Cummins (2001, 32), *The hart, inevitably, first; and for many reasons. In most countries it was the largest animal hunted; it was the noblest in appearance; it was an animal combining innocence with guile in a way which drew the best out of hounds and hunter*. Credid fod i’r *hydd* einioes faith – ‘Canmlwydd a’i swydd fydd oes hydd’ (GGLI, 6.6) – a dymunir *oes hydd* i noddwyr yn aml yn y canu mawl. Roedd y symboliaeth

hon yn gyffredinol: *Le cerf est l'une des grandes figures mythiques de l'Europe ... Les ramures de ses cors, qui ressemblent à l'arbre (l'iconographie en fait sortir des feuilles et des fruits) et qui se renouvellent chaque année – image de longévité -, ont toujours frappé les hommes* (Strubel & de Saulnier, 1994, 241). Yn 'Y Naw Helwriaeth' dywedir fod y carw (DD *cervus*) yn un o'r tair helfa gyffredin 'Am i vod ef yn wychaf ac yn wrolaf anifail yn y byd ar i mae helwriaeth arnaw a bytheiaid a milgwn' (Peate, 1933, 302). Yn yr un modd dywedir yn Llyfr Arfau Siôn Trefor: 'Arestotles yn i wythved lyfr a wnaeth o natur aniveilied a ddywaid mae'r karw syydd anivel gwyh' (Jones, 1943, 26). Am *iwrch* dyry DD *caprea mas* (*iyrchell: caprea faem*) ac yn Salesbury ceir *iwrch: a rhoo*. Rhesymol felly yw credu mai *roe-deer, capreolus capreolus*, yw *iwrch*. Mae'r *iwrch* yn llai anifail na'r hydd ac, er nad ystyrid ei fod yn droffi i'w ddirmygu (fe'i cynhwysir yn un o'r tair helfa ddolef yn 'Y Naw Helwriaeth'), nid oedd yn *important item in the feeding of the royal o'r aristocratic household, and it was classed as rascal by the hart- or buck-hunter* (Cummins, 2001, 87-8). Gwelir felly fod y ddihareb hon yn ystyrllon, 'Gwell bod yn flaenaf ymysg yr iyrchod nac yn olaf ymysg yr hyddod'.

tin Yr ystyr yma yw 'gwaelod, olaf' cf. *tin y glêr* 'y beirdd isaf un eu statws' (GTP, 30.32) a'r mynych enghreifftiau yn GPC.

327 **g6estei** Y mae i'r gair ddau ystyr, ystyr presennol y gair mewn Cymraeg diweddar yw'r naill - 'ymwelydd' neu 'rywun wedi ei wahodd i aros' – a therm cyfreithiol yw'r llall. Yn ôl y gyfraith, swyddog a oedd yn gyfrifol am gasglu'r gwest, sef cynhaliaeth ar gyfer y brenin a'i lys oedd y gwestai. Cf. 'E brenhyn a dely yn y gedymdeythas vn dyn ar bymthec ar vgeynt yn marchogaeth: y pedwar suydyauc [sic] ar ugein a'r deudeg westey (Ior. §3).

Dynoda'r ôl-ddodiad –ey y gweithredydd ac y mae Aled Rhys Wiliam yn cymharu'r gair â 'chynutai' (casglwr tanwydd), 'blotai' (cardotwr blawd) a'r cyfryw eiriau (Ior., 105). Dylid nodi fod gwestai yn amwys o ran ystyr, yn yr un modd â'r Lladin *hospes*, a gall olygu *guest* a *host* ond, o edrych ar yr enghreifftiau yn GPC, y cyntaf yw'r ystyr amlaf. Y mae fersiynau A a B yn gwbl groes o ran ystyr.

328 Ystyr *gorne* yw 'lliw' (yr ail elfen yw *gne*, cytras yr Hen Wyddeleg *gné*, CCGC §302) a hawdd y gellid ei gysylltu â *golchi* oherwydd rhestrir 'lliwio' ymysg ystyron y ferf honno (GBGG). Mae darlleniad Peniarth 17, *gorchwyl*, yn annisgwyl braidd. Sylwer bod ystyron ffigurol i *golchi*.
glythni 'glythineb'. Ym Mheniarth 17 ceir *llyngu*, amrywiad ar 'llyncu'.

329 Cf. 'Gna6d g6reic gwell genthi a 6o gwaeth iti: / Vy adas nyd debre' (CBT, I.13.19-20). Rhag i ni fod yn rhy llawdrwm ar y rhyw deg, cystal cyfeirio at benchwibandod cyffelyb un o farchogion Arthur: 'Kanys gwell genhyt ti, heb ef, menegi ohonaf i ytti dy afles no'th les, mi a'e managaf' (Owein 5.101-3).

330 **crywyn** 'beudy'. Gw. y nodyn ar y gair yn Bleg. t. 191.
udel6 *Buddelw*, 'post y rhwymir buwch wrtho mewn beudy' (Williams, 1912, 173).

Yng 'Ngwasgargerdd Fyrddin yn y Bedd' ceir y llinell, 'byda6t g6aeth budel6 no chrowyn' (RBP, 585.9-10; 'Bydd buddelw yn waeth na chrowyn'). Eglura Ifor Williams y ddihareb fel hyn: 'Yr oedd amryw fuddelwydd mewn beudy, a rhwymid un fuwch wrth

bob un. Gwell o lawer oedd un crywyn cyfan i gadw anifeiliaid yn ddiogel na dau bost o'r tu mewn' (1912, 173).

333 **tolya6** *Toli*, 'bod yn ddarbodus'.

heirya6 *Heirio*, 'treulio' (gw. y nodyn arno yn GDG, 533).

Cyffelyb yw ystyr darlenniadau B214 *heilya6* (*heilio*, 'tywallt') a Pheniarth 17, *heirthau* (*eirthio*, 'gwasgaru')

334 **hanner ha** Yn y cyfreithiau dywedir am y pen-cynydd, 'Trannoeth guedy dyv gvyl Yeuan hanner haf e dele uenet y hele keyrv' (Ior §15). 'Canol haf' yw'r ystyr yn y dyfyniad hwn ond nid yw hynny'n gweddu i'r ddihareb. Tebycach mai hanner cyfnod yr haf yn llythrennol a olygir. Gwell bod â hanner yr had i'w hau na hanner cyfnod yr haf i'r hadau egino ac aeddfedu.

335 Y mae'r ddihareb hon yn hynod gyffredin yng ngwaith y beirdd. Cf. 'Gwell ymhell, gair gwiw llifnwyf, / Pwyll nag aur, pellennig wyf' (GDG, 131.27-8); 'Gwrandu yn eu grwndwal / gwersau Hen Gyrys o Iâl: / gwell pwyll, y mae'n gall y pen, / nog aur, benáig o Urien' (GLGC, 19.27-30); 'Gwell yw pwyll nog aur o gariad – Perydd, / Pêr yw ei gynnydd, pur ei gennad' (GGDT, 10.7-8); 'Pwyll i ddewr, pell a dduriwyd, / Nog aur oedd well, gŵraidd wyd' (GSC, 5.55-6).

336 **hesp** *Hesb*, ffurf fenywaidd *hysb*, 'sych'. Enw gwrywaidd yw *buarth* ac y mae cael ffurf fenywaidd yr ansoddair yn ei ddilyn mor gynnar yn awgrymu fod y tueddiad i ddefnyddio *hesb* ar draul *hysb*, y cyfeirir ato yn GPC, wedi dechrau'n gynnar. Gwell bod â gwartheg *hesb* na bod heb wartheg.

337 **march6r** Yn GPC nodir y ddihareb hon o dan marchwr, ‘Un sy’n marchogaeth ceffyl’ ond anodd gweld unrhyw berthynas rhwng yr ystyr a geid felly â ffurfiau’r ddihareb yn B187 a PheniARTH 17. *Edifarwch* (ffurf ar *edifeirwch*) sydd yn y llawysgrifau hynny. Tybed ai ffurf yn cynnwys yr elfen *marth*, ‘gofid’ a’r terfyniad –*wr* (yn dynodi’r gweithredydd) sydd yma? Y mae camddarllen *ch* am *th* yn gyffredin yn y llawysgrifau. Dangosodd Ifor Williams (1928b) mai’r un gwreiddyn sydd i *marth* ac *edifar*.

338 **arwynnyat** Yn Llyfr Du’r Waun ceir *arouunat*, yn B185 ceir *arofunyat* ac ym MheniARTH 17 ceir *ar6unyyat*. Dyry GPC ‘dymunwr, amcanwr’ am *arofuniad*. ‘Anniddig’ yw dehongliad petrusgar Ifor Williams o’r gair.

339 **g6ynvyd6r** Ystyron annymunol sydd iddo yn GPC (cf. GPC *gwynfyd* 2. ‘sorient, cenfigen, cydymgais’ - o dan ddylanwad *gwÿn* meddir) felly hefyd yn DD lle y’i ceir o dan *aemulator* a *zelotes*. Fodd bynnag, ystyron dymunol sydd i *gwynfyd* a’i gytrasau (Strachan, 1907, 204-5).

Ceir adlais o’r ddihareb yng nghywydd Maredudd ap Rhys i ddiolch am rwyd bysgota: ‘Gwell bod yn wraig pysgodwr / Na’r rhai nid elai i’r dŵr’ (GMRh, 8.49-50).

340 **ida6** Ym MheniARTH 17 ceir y *da6* a dyry hynny hefyd ystyr synhwyrol. **donnyer** Amhers. dib. pres. *donio*, ‘cynysgaeddu (â dawn neu allu)’ (GPC). Yn B182 ceir *urder* ond anodd yw gweld unrhyw gyferbyniad llachar rhwng *urddo* a *bonheddu*.

341 Cyfrifid nodwydd yn beth diwerth megis yn y ddihareb Saesneg
Not with a Needle (PSPP, N69).

342 **penloyn** 'titw'.

Dihareb gydwladol ac y mae sawl amrywiad arni (gw. Taylor, 1985, 21- 24 a SM I, 168). Amrywia rhywiogaeth yr adar yn fawr yn ogystal. Cf. *A Bird in the hand is better than two in the wood (varied)* (PSPP, B301); *Plus valet in manibus avis unica fronde duabus* (LSSM, P72). O ran ystyr cyfetyb y ddihareb i'r llinellau hyn o barodi Siôn Tudur ar y canu gwirebol: 'Gwell yw crothell bach yn llaw / Na gleisiad a fo'n nofiaw' (GST, 205.118-9). Y fersiwn a glywir ar lafar heddiw yw 'gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn', fersiwn a geir gan Ellis Wynne (BC, 42).

343 Cf. 'Gwell i mi golli 'mywyd / Na chan boen nychu'n y byd'
(GTA, CXXIV.79-80). Gw. A472 ac A504.

345 Dihareb gydwladol, cf. *Plus tire cus que corde* (Mor., 1654); *Vulua trahit corda plus quam fortissima corda* (SM II, 37; PSLMA, 5.34265). Y mae'n ddihareb gyffredin yn llenyddiaeth Ffrangeg yr Oesau Canol. Fe'i ceir yn *Li proverbe au vilain* (Tobler, 1895, 217) ac fe'i dyfynnir yng ngwaith Jean Renart. Cynghora Dug Saxony yr ymerawdwr i beidio ag oedi cyn priodi Lïneor hardd. Y mae yntau'n awyddus i'w phriodi cyn gynted ag y bo modd:

ahi! plus tire cus que corde

I a ne veut il tant nule rien

(Psaki, 1995, 242)

Digwydd y ddihareb hefyd mewn sawl *fabliau*.

- 346 **wilmot** Yn Hanks & Flavia (1988) rhestrir sawl ffurf fachigol ar *William / Guillaume*. Yn y Saesneg ceir *Willmet*, *Wil(l)mot(t)*, *Willimott* a *Willmut*; yn y Ffrangeg ceir *Guillaumet*, *Guil(le)met* a *Willemet*. Diau mai un o'r rhain sydd yma. Ysywaeth, methais â chanfod dim o hanes y cymeriad hwn. Cf. A404.
- 347 **kuhudyat** 'Un sy'n cyhuddo, cyhuddwr, achwynwr; cyhuddol' (GPC). Cf. 'Tri dyn awna gulat yn tla6t. Argl6yd deu eira6c. Ac ygnat camweda6c. A maer cuhudyat.' (WML. 139.13-5); 'Bit guhudyat keissyat' (EWGP, VII.3a).
- 348 Ai cyfeiriad sydd yma at daenu gwellt ar y llawr i eistedd arno?
- 349 Digwydd y ddihareb yn 'Gossymdeith Llefoet Wynepglawr': 'g6ell nac no geu edewit' (RBP, 1055.37). Nid oes wahaniaeth pa un ynteu *geu* ai *deu* a oedd yn y ddihareb yn wreiddiol oherwydd yr un yw ei hergyd. Yn 'Englynion y Clyweit' ceir fersiwn ychydig yn wahanol: 'gwell nac noc adaw ny wneyd' (Clyweit 68c; gw. BBGCC, 337 ar ffurf y ferf). Cf. 'addaw ymyd ba dda imi / ar addaw heb i roddi / dav addaw nid ai vddvn / dav nac in gwnevthud yn vn / nid llai wrth newidio llid / nac ddwywaith noc addewid' (GDE. XVII.25-30). A oes yma adlais o'r Catwn? Cf. 'Y peth a adewch y dyn nac adaw idaw dwyweith ual nath oganer. a dywedut dy uot yn dywedwydawl gwenyeithus' (Catwn Liber i, 25). Ceir llinell arall yn y 'Gossymdeith' sy'n mynegi'r unrhyw genadwri: 'atuant ada6 ny wnehyd' (RBP, 1055.32).
- 350 **bychot** 'ychydig'.

351 Dihareb gydwladol, cf. *Mielz valt tendre que rompre* (Mor., 1290; gw. yn ogystal MFPSPP, P199); *Better Bow than break (varied)* (PSPP, B484). Nodir sawl enghraifft gan Samuel Singer (SM II, 30-1). Rhybudd rhag bod yn rhy benstiff wrth garu a geir yn y llinellau hyn o waith Chaucer:

The yerde is bet that bowen wole and wynde
Than that that brest.
(Whiting, 1934, 69)

Yr un ddelwedd sydd yn y llinellau hyn o waith Dafydd ap Gwilym:

Gwydn wyf fal gwden afall
A blyg yn hawdd, gawdd gyhwrdd,
Ac ni thyr yn ôl gyr gwrdd.
(GDG 131, 16-18)

353 **ymlynniat** Rhestrir sawl ystyr gwahanol i'r gair yn GPC, y cwbl yn ymgysylltu mewn rhyw ffordd ag ystyr y ferf *ymlynu*, 'dilyn'. Cyffelyb yw ergyd A311.

354 Dihareb gydwladol a ddyfynnir yn aml gan y beirdd. Cf. 'Gwell crefft, meddir, hir hud, / Ne gwylan befr, no golud' (GDG, 84.67-8); 'Coelio'r wyf, a'u cael ar Rys, / Rin a geiriau'r Hen Gyrys, / Mai gwell crefft â gallu crwn / Na golud: mi a'u gwelwn' (Moliant Rhys ap Siancyn gan Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys, 1-4, yn Lynch, 1994); 'Gwell celfyddyd na thrysor' (GST, 205.85). Y mae'n ddihareb gydwladol gyffredin: *Meus vaut science que richece* (Mor., 1285); *Sagece vaut mius que richace* (Mor., 2227);

Craft is better than wealth (PSPP, C522). Gw. ymhellach SM (II, 84).

- 355 **duhud** *dyhudd*, 'diddanwch, cysur; bodlonrwydd' (GPC)
rosedha Gwall am *rhysedda*, 'ymddwyn yn afradlon neu'n anghymedrol' (GPC).

Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynepglawr' ceir 'g6ell rihyd no ryssedha' (RBP, 1056.18-9). Mae *rihyd* ('gwychter') yn y llinell hon yn tyneru peth ar y cyferbyniad.

- 356 **g6icha6 y kolud** Taro rhech.
no chochi y deurud 'Gwrido' yw'r ystyr yn ddiamau. Yng Ngeiriadur Salesbury ceir 'Kochi rhac kwilydd: *Blusshe*'.

- 357 **mu** 'buwch'. Fel y sylwodd Ifor Williams (1912, 171) wrth drafod y ddihareb hon, dyma'r elfen gyntaf yn y geiriau *bugail a buarth*. Mae'n gyffredin yn y cyfreithiau. Roedd 'can muw vrth pob kantref a uo ydav, a tharv gvyn eskyuarllennyc vrth pob can muv onadunt' yn rhan o sarhad brenin Aberffraw (Ior., §3).

Yr ystyr yw 'Gwell yw can buwch i gant o ddyinion nag un fuwch i un dyn'.

- 358 **sebonyd** 'Gwneuthurwr sebon'

Cyferbynnir dwylo celyd y cigydd a dwylo meddal y sebonydd.

- 359 **hyt uaryf** Yr ystyr yw 'hyd prifio'n wŷr'.

- 360 **keir** Sef myn. pres. amhers. *cael*. Ym Mheniarth 17 ceir *chweir* sef myn. pres. amhers. *chwaru* ‘digwydd’.
- 361 Cf. A146 uchod. Ar gyfnewid *chw* a *gw* gw. GMW §11.
- 362 **Godroit** dib. amhers. *godro* ond ym Mheniarth 17 ceir y myn. pres. amhers. *godroitor*. Dengys hyn fod John Morris-Jones yn methu wrth restru *godro* ymhlith y berfenwau heb ferfau (WG §204).
- 363 Digwydd y ddihareb ar ddechrau cywydd Lewys Môn i ateb cywydd Llywelyn ap Gutun a edliwiai fod Deon Bangor yn cadw gordderch: ‘Gwae’r un a ddug i’r ynys / honsel wan henwas i lys’ (GLM, XV.1-2). Yr ergyd yw y bydd yr henwas yn sicr o beri embaras.
- 364 **kyngha6s** ‘Dadleuydd’ ond go brin mai dadleuydd mewn achos cyfreithiol a olygir yma. Tebycach mai disgrifiad ydyw o was diog yn dadlau ynghylch ei waith neu’n siarad yn hytrach na gweithio.
- 365 Sef cloff wedi dilyn yr aradr, wedi gweithio’n galed.
- 367 **a ly** Myn. pres. 3 un. llyfu. Tueddaf i gredu mai’r da sydd yn llyfu’r gwynt (o ddiffyg porthiant).
- 368 Y mae’n arferol i ddedwydd gael cyngor gan y doeth (yn hytrach na’r ffôl).
- 369 **vyrr6r** Yn DD ceir *alias*, *oferwr* a dyna hefyd a geir yn C303, ac yn Mostyn 204 ceir *overwr*, ond *by[r]wr* yw darlleniad Peniarth17.

Dichon fod Gruffudd Hiraethog a Davies wedi camddeall y ddihareb. Ceir nifer o ffurfiau cyfansawdd yn cynnwys *byr-* (GBGG, 87) ac er na cheir enghraifft o *byrwr* yn GPC na GBGG, nid yw'n amhosibl. Yn sicr byddai gwaith y cynhaeaf – codi tas ac ati – yn anos o lawer i ŵr byr.

370 Dyfynnir y ddihareb hon yn y Catwn Cymraeg:

Y neb a ellych y ochyuygv yn vyny ch gorchyuyka gan diodef. kanys anmyned y syd vwyaf nerth or moesseu da k. y. h. a. e. y. y dyn y medych arnaw yn wastat. y arbet herwyd y bo y allu ay diodef yn anmynedus. Kanys dywedir yn wir diarep. Gwedw pwyll hep anmyned.

(Catwn, 32)

Pwysleisir gwerth amynedd yn aml mewn llên doethineb. Cf. *Qui veut vaintre il doit souffrir* (Mor., 2193; gw. yn ogystal Mor., 1060 a MFPSPP, S108); *Patience vaint* (MFPSPP, P78); *Patience est une grant vertu* (MFPSPP, P77); *Patience vanquishes (overcomes, conquers) (varied)* (PSPP, P61); *Patience is a virtue* (PSPP, P56); *Patience is most of might (varied)* (PSPP, P58). Gw. ymhellach SM (II, 109).

371 **Genit** Myn. pres. 3 un. *genni* 'cynnwys'.

wys Cf. 'Tri chyffredin gulat yssyd. lluyd a dadleu. ac egl6ys. kanys guys auyd ar pa6b vdunt' (WML, 134-5). Gwall yw *weis* yn B236.

372 y **edia6c** *Eidiog* (gw. A246 uchod). Ym Mheniarth 17 ceir y *diauc* a dyna a geir hefyd yn C302.

- 373 **hafren** Ni cheir enghraifft sy'n gynharach na diwedd y ddeunawfed ganrif o *hafren* am 'butain' yn GPC ac felly ni ellir ystyried yr ystyr hwn yma, er y byddai ystyr drosiadol *pawl* yn rhoi synnwyr difai (cf. 'pawl pensyth', BBBGDd, 36.3). Diau mai afon Hafren a olygir. Ar darddiad yr enw o'r Frythoneg *Sabrina* gw. Williams (1945, 40-1); Thomas (1938, 115-7; cyfeiria yn ogystal at afonydd eraill sy'n dwyn yr un enw).
vyd hi val kynt Ym Mheniarth 17 ceir *vyd ef eissyoes*. Y mae'r rhagenw gwrywaidd yn eithriadol.
- 375 **teleit** 'teg, hardd, neu ragorol' (GPC).
 Digwydd dau amrywiad ar y ddihareb yn yr englynion gwirebol (EWGP, III.11c; VII.2b) ac fe'i cyfieithir gan Jackson yn *it is usual for the calm to be comely* (SECNP, 59).
- 377 **drythyll** gw. A185 uchod.
o benn Yr ystyr yw 'o geg', gw. GPC pen 1.(d).
traha Rhestrir amryfal ystyron annymunol i'r gair hwn yn GPC. Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 65c) ac fe'i aralleirir gan Haycock yn 'Arferol yw rhyfyg o enau dyn ffol' (BBGCC, 31.65c).
- 378 **mab gafuwr** Nodir yn GPC y geill *mab* olygu '(epil, llwdn) anifail, aderyn' a rhestrir y ddihareb hon ymysg yr enghreifftiau. Yn DD dywedir *Mâb etiam britannis pro cuiusque animalis paruulo vel pullo vsurpatur*, a chyfeirir at A659 isod. Dangosodd Ifor Williams (1935) y geill *mab* olygu 'plentyn' (gwrywaidd neu fenywaidd); geill fod yn gyfystyr â *bychan*, neu gyfleu anwyldeb. Cf. 'A G6ladus wetus, wyl uebin – uab6reic' (CBT, II.6.59); 'amlwg,'

meddai Ifor Williams am y llinell hon, ‘yw fod mab yma wedi colli pob blas o’r ystyr wrywaidd, a dyfod i olygu ‘ifanc, bychan’’. Ceir y llinell ‘Ffroenau mab gafr, hafr hyfwth’ mewn cerdd ddychan ddienw yn Llyfr Coch Hergest (GPB, 9.2).

379 **G6iryon** Sef ‘diniwed’, yn hytrach nag ‘ynfyd’.

380 **a thi nac** Yn B229 ceir *ath uanac*.

381 **ae chymryt** Geill *cymryd* olygu ‘dioddef’.

382 **syber6** ‘balch’, geill fod iddo ystyr gwael neu gadarnhaol (gw. GPC a’r ymdriniaeth lawn yn EWSP, 623).

Ceir y llinell ‘med6l sercha6c syber6 vyd’ yn ‘Englynion y Gorwynion’ (EWGP, VI.27c) ac fe’i cyfieithir gan Jackson yn *the mind of a lover is proud* (SECNP, 68). Cf. hefyd y llinellau hyn o gywydd Dafydd ap Gwilym i’r cleddyf:

Ar herw byddaf ar hirwyl
Dan y gwýdd , mi a’ m dyn gŵyl.
Nid ansyberw ym herwa,
Os eirch dyn, nid o serch da.
Talm o’r tylwyth a’ m diaur;
Tew fy ôl ger tai fy aur.
Ciliawdr nid wyf, wyf Ofydd,
Calon serchog syberw fydd.
(GDG, 143.45-52)

Disgrifio ei syberwyd a wna Dafydd yn y paragraff hwn ond y mae’r ddihareb sy’n cloi’r darn yn esgusodi ei ymddygiad.

Awgryma'r llinell 'Golwc diserchawc, syberw, keynmic' (CBT, III.4.2) fod *serchogrwydd* a *syberwyd* yn ddwy briodoledd anghymharus. Felly hefyd y llinell 'Na uid ieuangc serchauc syberv warruy' ('Oianau Myrddin', LIDC, 17.137).

383 **G6allt bonnwynn** Yn y cyfreithiau, 'gwallt wedi ei dynnu o'r pen', cf. 'Guerth gwallt bonwyn, keynnyauc am pob bys o'r a el endau y'u gnythyau a duy am y uaut' (Ior. §147). Y mae bôn neu wreiddyn blewyn yn wyn.

384 Ceir adlais o'r ddihareb yn y gwawdodyn hwn o awdl farwnad Edmwnd Tudur gan Lewys Glyn Cothi:

Gwag tir a welir heb reolaeth,
gwag tŷ heb wely a mabolaeth,
gwag tref heb blasau, gwag traeth – heb ddyfredd,
gwag annedd heb wledd, heb fedd, heb faeth.
(GLGC, 10.109-12)

385 Fersiwn llwgr o A459 isod.

389 **adneu** Gw. A6 uchod.

chwechaf Gradd eithaf yrr ansoddair chweg, 'melus'.

teu Rhagenw meddiannol ail berson unigol (GMW §57)

390 Y mae'r ddihareb yn gyson â dysgeidiaeth y Catwn:

Nac ymdiriet yr da bydawl yn ormod. k. y. h. a. e. y edrych ar y rei
kyuoethawc yn mynet yn dlawt ar oet byrr. A mynych yw y da bydawl
pallu yr nep mwyaf a ymdiriето yndaw
(Catwn, 27)

392 **Goruc** Gorff. 3 un. *gwneuthur*. Yn B244 ceir *gorbac*, ‘ofer’.
uachteith ‘Morwyn’, fel yn yr englyn milwr a ganlyn yn y gyfres
‘Boddi Maes Gwyddno’ yn Lyfr Du Caerfyrddin:

Boed emendiceid y vachteith.

ae. golligaut guydi gueith.

finaun. wenestir mor diffeith.

(LIDC, 39.7-9)

393 **ryuel teispan** ‘Cwrlid dros y gwely’ yw *teisban*, cf. ‘Or yscar gŵr
a gureic kyn pen yseith mlyned. val hyn y renir ydo otrefyn y
rydunt. Ygŵr bieu auo or dillat guely yrydaŵ ar llaŵr ar wreic bieu
yteispan (WML, 94.12-6). Cyfeirir at y *teispantyle* mewn triawd
cyfreithiol: ‘Teir kyflafan, os gwna dyn yn y wlat, y dyly y vab
colli tref y tat o’ e hachaws o gyfreith: llad y arglwyd, a llad
penkenedyl, a llad y teispantyle, rac trymet y kyflafaneu hynny
(Bleg., 108.23-6). Ar *tyle gw.* DGG, 240, ei ystyr yw ‘gwely’.
Ystyr ffigurol sydd i *teispantyle* felly, ‘amddiffynnydd y gwely
teuluol’ ac yna ‘amddiffynnydd y cartref’ (gw. Bleg., 224-5). Yn yr
un modd datblygodd ystyr *rhyfel teisban* o ‘ffrae deuluol’ i ‘ryfel
cartref’ (h.y. *civil war*). Hynny sy’n cyfrif am y ddihareb *Gwaetha’
i’r yd rhyfel teisban* a ddyfynnir o dan *teisban* yn DD ac a geir yn
C307. Diau mai cyffelyb fu datblygiad *rhyfel bentan* (gw. GPC,
3133).
Cf. y ddihareb Ffrangeg *Il n’est si male guerre que de voisins et
d’amis* (MFPSPP, G62).

394 **tra atter** Cesglir, o gymharu’r ddihareb hon a’i chytrasau mewn
ieithoedd eraill, mai ‘pan’ yw ystyr *tra* yma.

Dihareb gydwladol, cf. *Tant con li geus est biaux, (tant) le doit len lessier* (Mor. 2287; gw. yn ogystal MFPSPP, J11); *When Game (etc.) is best, is best to leave (varied)* (PSPP, G26); *Cum ludus bonus est, ipsum dimittere fas [est]* (LSSM C187). Gw. ymhellach SM (I, 98-9).

395 **ysga6n** ‘Gwaith hawdd’ yw *gwaith ysgafn*. Ar yr ymgyfnewid rhwng [u] ac [v] gw. GMW §10.

ymoglyt ‘ymochel’

396 **G6yl6ys** Ni ellir synnwyr o ddilyn darlleniad A a B248. Dengys darlleniad Peniarth 17 a C mai *gwelius* ‘archolledig’ sy’n gywir. **ny didoler** Mae darlleniad C, *nid ti ddolvr*, braidd yn rhwydd. Hynny a geir yn OSP a DD yn ogystal. Dichon mai dib. pre. amhers. *diddoli*, ‘amddifadu’, sydd yma (disgwyliid *na* gyda’r gorchmynnol). Noda D. Simon Evans y geill berf yn y modd dibynnol gyfleu ystyr dyfodol mewn Cymraeg Canol er mai prin yw’r enghreifftiau mewn rhyddiaith (GMW, 113). Dau amrywiad ar yr un ffurf yw *diddoli* a *didoli* (gw. CBT II, 252). Ystyr y ddihareb yw na fydd dyn clwyfedig yn cael ei amddifadu neu ei wrthod, cf. ‘Ny byt da gan Du6 y ditoli, / Ny bo dita6l Nest, nef boed eiti!’ (CBT, I.26.57-8).

397 **ffraeth** ‘parod ei dafod’ (CLIH, 62).

Ceir y ddihareb yn y gyfres englynion ‘Gwên a Llywarch’:

Redegawc tonn ar hyt traeth.

Ech adaf torrit aruaeth.

Kat agdo gnawt ffo ar ffraeth.

(CLIH, I.6; EWSP, 405)

Cyfieithir y ddihareb gan Jenny Rowland yn *frequent is fleeing by big talkers* (EWSP, 468). Yng nghyd-destun yr englyn ymateb y mae Llywarch i haeriad Gwên yn yr englyn blaenorol 'Porthaf gnif kynn mudif lle' (CLIH, I.5c).

- 399 **gbery** Myn. pres. 3 un. *gwaredu*. Yr ystyr yma yw 'symyd ymaith' (GPC). Fe'i cyplysir yn aml â *Duw* pan fo'n golygu 'achub' (gw. GPC *gwardaf* (a) a'r enghreifftiau yno) cf. 'ond Duw a'n gweryd' (DGG¹, LXXXI.50); 'Duw ae gweryt' (ChO, 7). Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit, 66c).
- 400 **hanes** Yr ystyr wreiddiol yn ôl GPC oedd 'dirgelwch, cyfrinach; ?sibrwd, murmur', cf. *sanas* mewn Gwyddeleg (Williams, 1926, 26). Felly, 'gwyllaidd yw cyfrinach'. Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynepglawr' ceir y llinell 'gôyluein hanes goyewin' (RBP, 1056.2-3) ac fe'i cymharir â'r ddihareb hon gan Jacobs (2004, 22-3).
- 401 Yn y gyfres 'Eiry Mynydd' ceir y llinellau 'g6ae wreic a gaffo drycwr' a 'g6ae 6r a gaffo drycwreic' (EWGP, III.16c; III.17c).
- 402 **das** 'pentwr' (o yd yma).
Cf. 'Gnawd y tyf tywys o egin' (CBT, I.17.4).
- 403 **mi bieu** Perthynol yw *piau* yma a'r ystyr yw 'i mi y perthyn' cf. 'Mi bieu bod yn bennkert' (CBT, IV.12.21). Ar y ffurf gw, WG (358-9).

- 404 **chwedyl wilmot** Methais hyd yma a chanfod dim o hanes y
chwedl hon. Cf. A346.
- 405 **bronwala** Dyry GBGG yr ystyron ‘digon, digonedd,
bodlonrwydd’ ond ni nodir ond dwy enghraifft y naill o’r
englynion gwirebol, *brong6ala hiraeth y heint* (EWGP, VI.1c), a’r
llall o waith Llywelyn Fardd I, *Bronwala y wahalyeth* (CBT,
II.4.8). ‘Gwas da yw bodlonrwydd ei arglwydd’.
- 407 Y mae anffawd yn nodweddiadol o’r diriaid. Yn y Bidau ceir y
llinell ‘bit gna6t afl6yd ar diryeit’ (EWGP, VII.2c).
- 408 **y kychwyn** Dengys darlleniad Peniarth 17 mai *yg gwden* sy’n
gywir. ‘Rhaff’ yw *gwden* (GPC) ac ni ellir dal y gwynt â rhaff.
Ergyd y ddihareb yw nad oes dal ar air gwraig. Cf. ‘Ny bu ha6s
udut, ual trablut Trenn, / Noc anha6t gwaha6t gwynt yg gwden’
(CBT, V.30.11-2).
Cf. *Woman’s words are but wind* (PSPP, W515).
- 409 **ettwa** Ffurf ar *eto*.
ri6 uabon Rhiwabon yn Sir Ddinbych.
- 410 **geua6c** Ffurf ar euog ond gyda’r *g-* ddechreuol. Mai iddo ystyron
ehangach na’r gair *euog* heddiw (GPC). ‘ffals, tywyllodrus’ a
wedda orau yma.
copina6t Yn GPC rhoir iddo’r ystyron ‘Gwybodaeth,
hysbysrwydd, cyfarwyddyd’ a’u tebyg a chynigir mai benthyciad
o’r Saesneg *copy-note* ydyw (Ni cheir mohono yn EEW). Bid a fo

am hynny ni cheir enghraifft o *copinod* cyn yr unfed ganrif ar bymtheg yn GPC.

411 Cf. 'Ni bu ddrycin heb hinon' (GHS, 29.47).

412 **G6nelit** Myn. pres. 3 un. *gwneuthur*.

syber6 Gw. A382 uchod.

Digwydd y llinell 'g6nelit aeth saeth y syber6' yn yr englynion gwirebol (EWGP, VI.24c) ac fe'i cyfieithir gan Jackson, sy'n cymryd mai 'poen' yw *aeth* y llinell, yn *an arrow causes pain to the haughty* (SECNP, 67). O dderbyn dehongliad Jackson trefn y frawddeg yw berf + gwrthrych + goddrych. Nid yw hynny'n anghyffredin yn y canu englynol (Jones, 1952, 295). Gellir bod yn bur hyderus mai â'r un llinell y mae a wnelom yma ond ni cheir synnwyr derbyniol wrth ddilyn Jackson. Dyry fersiwn yr englyn odl fewnol ond nid oes raid wrth hynny a cheir digon o enghreifftiau o ddiarhebion yn y canu englynol heb fod ynddynt ddyfais fydryddol (a noder fod *serch* yn peri cyflythrennu difai). Yn y ddihareb, gall *syberw* fod yn ansoddair yn goleddfu *saeth* neu'n enw genidol. Fodd bynnag, dylid ystyried dylanwad A382 uchod a'r cwpl *serch-syberw* ar y llinell hon. Yn yn gyfres 'Claf Abercuawg' ceir 'Gwnelit syberwyt segur' (CLIH, VI.21b; EWSP, 450).

413 **ymlynniat** Dyry GPC 'dilynwr, ymlidiwr; helgi, bytheiad'. Bôn y ferf *ymlyn* yw'r elfen gyntaf ac yng ngoleuni'r enghreifftiau o'r gair yn y diarhebion (gw. A353 uchod) gellir tybio mai ystyron trosiadol yw'r rhai cynol. Yn sicr 'dilynwr' sy'n gweddu orau yn y ddihareb hon.

Yn yr englynion gwirebol ceir y llinell ‘gnaŵt serchaŵc erlynyat’ (EWGP, VI.28b) a gyfieithir gan Jackson yn *usual for the lover to be a pursuer* (SECNP, 68). Ceir y llinellau ‘lliŵ geirŵ ryt o bryt a wnaeth brat ym gne / gnaŵt serchaŵc ymlynyat’ mewn rhieingerdd o waith Gruffudd ap Maredudd (RBP, 1326.44-1327.2). Ymysg y Trioedd Serch ceir *Tri ymlyniad serch: cywydd ac englyn a llatai* (Edwards, 1995, 28). Dyna dripheth sy’n dilyn serch.

414 **astyr** Ni cheir y gair yn annibynnol yn GPC na GBGG ond fe’i ceir yn GMWL, 30 lle y cynigir yr ystyr ‘reciever’. Dyma’r ail elfen yn y gair cyfansawdd *canastyr* a ymddenys yn yr ymadrodd cyfreithiol *cyhyryn canastr*, cf. ‘O deruyd y den caffael kyc anyueyl ny bo eydau, ae gan kun ae eg kudua arall, a’e kemryt hep ganhyat ohonau, dyruyauc uyd hyt yd el, nac o rod nac o prynu nac o wadaul, hyt y canuet llau, ac urth henne e gelwyr keheryn canastyr, ac nyt a bellach e ganuet llau’ (Ior. §113). Yr hyn a fynegir yw y gellid dirwyo pob un a dderbyniai’r cig gwaharddedig hwn hyd y canfed dyn. Ymdrinnir â’r ymadrodd *cyhyryn canastr* yn Bleg., 228-9 (sylwer yn arbennig ar y awgrym ynglŷn â datblygiad yr ymadrodd a ddaeth, efallai, i olygu ‘unrhyw fath o ledrad’). ‘Tueddir,’ meddai Dafydd Jenkins, ‘i ddeall yr elfen *astr* fel ‘llaw’ (gan gymryd ‘*canllaw* yn “esboniad” ar *canhastyr*’ yn yr enwau ‘A chilyd canhastyr. a chanastyr canllaŵ’ W.M. 461.5); ond ymddengys yr ystyr taith yn fwy rhesymol, yn enwedig yng ngoleuni’r Wyddeleg *astur*’ (Col. t.110). Am *astar* dyry DIL yr ystyron *act of journeying; journey, travel; labour, travail*. Ceir cyfeiriad cwta at y ffurf *canastr* gan Williams (1913, 213) a ddywed, ‘hwyrach nad oes gwerth yn esboniad Thomas Jones yn ei eiriadur 1760, “rhyw bridd calchog”. Gwnâi hyn ef yn anos byth i’w gysylltu â’r Llydaweg, *canastr*’. Cf. yn ogystal y llinell ‘Cad

ua6r Uaes Carnet, cad Ystrad Astyrwet' (CBT, I.8.11). Dehonglir *Ystrad Astrwedd* fel enw lle (CBT I, 186) ond awgrymir yn GBGG, gan gymharu Hen Wydd *astar*, y gallai *astrwedd* fod yn ansoddair 'llafurfawr, taer'. Yng ngoleuni'r uchod gwelir bod yr eglurhad ar *Cilyd Cannhastyr* a *Canhastyr Canllaw* yn CO, 75 yn annigonol. Y mae ystyr y ddihareb, mi gredaf, yn berffaith eglur: 'Arferol yw llafur/taith o ganlyniad i orchymyn'.

- 415 **t6t** Dyry GPC 'Ebychiad sy'n mynegi cerydd, diffyg amynedd, dirmyg, &c' ac y mae'n rhyfedd mai o fyd ceffylau y daw'r enghraifft gyntaf a nodir – 'Twt leiard, -atat luoedd!' (GDLI, 79.14). Anodd egluro'r *not* ym Mheniarth 17.
- 417 **Gordiwedit** Nodir mai amherff. amhers. yw'r ffurf yn GBGG ond haws gennyf gredu mai hen ffurf myn. pres. 3 un. ydyw. Y mae'r araf yn goddiweddyd y cyflym.
- 418 **G6attwar ... am** Ceir sawl enghraifft o'r ymadrodd yn GBGG, 634.
- 419 **wyl** Myn. pres. 3 un. *gweled* neu *gwylio*. **beunyd** *Beunydd*, 'bob dydd'. Cyffelyb yw ystyr *beunoeth*, 'bob nos', ym Mheniarth 17.
- 420 **ry-** *Rhy*. Aderfol ydyw yma ond yr un yw â'r geiryn rhagferfol *ry* (Zimmer, 2000, 230).

Digwydd y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 22c) a cf. yn ogystal, 'Gna6d wedy ryserch rysesilyaw cas' (CBT, I.8.72);

‘Gna6d wedy ryserch ryse / Selwet gwyth g6rth y dwyre’ (CBT, I.13.13-4).

421 **dywa6t** Myn. pres. 3 un. *dywedyd*.

g6ia6n g6t Y mae’n demtasiwn gweld cyfeiriad at y Taliesin chwedlonol yma ond, hyd y gwelaf, nid oes dim yn y traddodiadau am Gwion Bach i gyfiawnhau hynny (ceir ymdriniaeth lawn â’r traddodiadau hynny yn Wood, 1982).

423 **Gossymdeith** Dyry GPC yr ystyron ‘bwyd i daith, ymborth, lluniaeth, porthiant, cynhaliaeth, bwyllwrw; gwasanaeth, traul; taith; ymarweddiad, buchedd’ a chyffelyb yw’r ystyron yn GBGG. Trafodir y gair yn GDG, 513 ac yn PKM, 182-3 yng nghyswllt y ferf *gosymdeithiaw*. Ceir *gosymeithrent* yn GLIG, 5.82 a chynigir mai ‘tâl cynhaliaeth’ ydyw ei ystyr lythrennol (GLIG, 88). Gw. ymhellach Jacobs (204, 1).

Ergyd y ddihareb yw mai Duw sy’n rhoi cynhaliaeth i ddyn. Ceir y ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit, 67c).

424 Digwydd y llinell ‘g6ae a haed meuyll yr bychot’ yn yr englynion gwirebol (EWGP, V.3c) ac fe’i cyfieithir gan Jackson yn *woe to him who incurs shame for a trifle* (SECNP, 64).

425 **deua6t** *Defod*, sef ‘arfer’.

Ceir y ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit, 13c). Yr ystyr yw mai daioni yw’r arfer orau.

426 **arhoo** Ni all fod yn ddim arall ond Myn. amherff. 3 un. *aros*.

Ceir *rhech ddafad* am beth diwerth yn y gogledd (GPC, 3042) ac y mae'r ychwanegiad *rhech dafad yn y glaw* yn eithaf cyffredin o hyd ar lafar.

427 **medyc eneit** Dyry GPC *soul-doctor, soul-curser*.

428 **digu** 'atgas'

diofvryt Darllener *diofryt*. Ar *diofryd* gw. A243 uchod.

Ansoddeiriol ydyw yma a'i ystyr yw 'ysgymun'.

429 **Gogyueirch** Myn. pres. 3 un. *gogyfarch* GPC 'gofyn cwestiwn, holi, hawlio, ceisio'. Gw. y nodyn ar *cyfarch* yn ChO, 50.

wypit Yn GMW, 119 rhoddir y ffurf hon fel myn. pres. 3 un.

gwybod a chyfeirir at enghraifft yn un o awdlau Elidir Sais i Dduw, 'G6ypit Du6, g6ybot a daruu' (CBT, I.21.24; gw. y nodyn ar y llinell hon yn HGC, 221). Chwithig fodd bynnag fyddai cael hen ffurf ferfol annibynnol gyda negydd (*Sg, 3. -id, used where there was no preverb*, WG, 322) a haws credu mai'r terfyniad perthynol *-yd* a welir yn *wypit* yn y ddihareb hon (GMW, 119).

Gellir cynnig dau ddehongliad o'r ddihareb. Y cyntaf, a'r amlycaf, yw 'mae pawb yn holi yr hyn nad yw'n ei wybod'. Ond yng ngoleuni'r ffaith fod i *gwybod* yr ystyr 'adnabod' weithiau (GPC *gwn* 2.; 'sylwer ar yr ystyr edwyn...', GBGG, 726) gellir 'mae pawb yn cyfarch yr hwn nad yw'n ei adnabod' gan ddeall y ddihareb fel cyngor ynglŷn ag ymarweddiad a chwarteisi (cf. A963 isod).

430 **rieu** Gw. A49 uchod.

radeu Lluosog *rhad*, 'rhodd'.

Arferol yw i arglwyddi fod yn hael â'u rhoddion (Williams, 1912, 172).

431 **ca6d** Myn. pres. 3 un. *coddi*, ‘tramgwyddo’. Bôn y ferf yw’r enw cawdd, gw. rhif 213 uchod.

Cf. ‘na chawd dy Duw, yn y dwyfa’ (BBGCC, 29.7b).

432 **Gol6c ynyt** ‘Gwedd lwth’? Serch ei darddiad parchus-grefyddol (y tridiau cyn y Grawys) geill *ynydd* olygu ‘glythineb’ (GPC). Gw. y nodyn ar *ynydd* yn GDG, 532 lle y’i cymharir â’r Llydaweg *ened*, ‘jours gras, carnaval’.

g6yt *gwÿd*. Benthyciad o’r Lladin *vitium*. Rhestrir amryw ystyron annymunol iddo yn GPC, ‘Anwiredd, pechod, drwg, drygioni’.

433 Ceir y ddihareb ‘gwiw callon rac hiraeth’ yn y gyfres englynion ‘Claf Abercuawg’ (CLIH, VI.14c; EWSP,449) ac fe’i cyfieithir gan Jenny Rowland yn *The heart is withered because of longing* (EWSP, 498). Cf. hefyd ‘O golli Mada6c, etgyllaeth – kofyon, / G6y6 callon can hiraeth’ (CBT, VI.4.5-6). Yn ‘Englynion y Clyweit’ ceir dihareb debyg, ‘bit tonn callon gan alar’ (Clyweit, 39c).

435 Ceir y llinell ‘gna6t pob anaf ar dieid’ yn y gyfres ‘Eiry Mynydd’ (EWGP, III.22c) a nodir Jackson na all *dieid* fod yn wall am *dirieid* yn y llinell oherwydd mai *-dd* yw prif odl yr englyn. Y mae Jackson yn cynnig mai naill ai *dihaidd*, ‘wretched’ (*with loss of h after the accent*) neu *diaidd*, ‘apathetic’, sydd yma. Mae darlleniad B221, *diheid*, yn cadarnhau mai’r cyntaf sy’n gywir ond hawdd y medrai darlleniad A, *dirieit*, fod yn amrywiad dilys ac ystyrllon ar y ddihareb.

436 **eidun** Myn. pres. 3 un *eidduno*, ‘dymuno’.

Ceir cyd-destun i’r ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’:

A glyweisti a gant kywryt keint.

a odefawd llawer heint.

gwae ieuangk a eidun heneint

(Clyweit 69)

Nid yw ergyd y llinell ‘gwae ieuenc a eidun brotre’ yn annhebyg (CLIH, IX.1d; EWSP, 429 a’r nodyn yn EWSP, 574).

437 Ceir y ddihareb ‘gna6t aelwyt diffyd yn diffeith’ yn yr englynion gwirebol (EWGP, IV.8c) ac fe’i cyfieithir gan Jackson yn *usual for the hearth of the irreligious to be deserted* (SECNP, 63). Cf. ‘ys g6ac vro ny vo crevyd’ (RBP, 1055.31-2); ‘Gwae ny gred Trined kyn ryred reith: / Gna6d aelwyd diffyd a uo diffeith!’ (CBT, VI.10.67-8). Cf. hefyd A83 ac A208 uchod.

438 Arferol yw i ddialedd yr anghelfydd fod yn amherffaith neu’n ddirym.

439 **g6eith ryffall** Digwydd *ffall-* yn elfen anhysbys yn y gair *ffallwm* ‘llwm’ (GPC) ond tebycach mai *pall*, ‘methiant’ yw’r ail elfen yn *ryffall*. Y geiryn cadarnhaol *ry-* yw’r elfen gyntaf. Ystyr *gwaith rhyphall* yw ‘ymdrech neu lafur methiannus’.

440 **llaw wledic** Ar dreiglo enw genidol amhendant yn dilyn enw benywaidd gw. TC §25.

Arferol yw gwin yn llaw iarll. Cf. ‘Gna6s am bann bennyal ystre’ (CBT, I.13.10); ‘Gnawd yr yfawd glyw gloyw-win – o fual / O fuarth buelin’ (CBT, I.17.1-2).

441 **ath gytuyd** Nid yw dyfod. 3 un *cydfod*, ‘goddef’, yn cynnig synnwyr derbyniol. Tybed ai gwall am *gyhud*, myn. pres. 3 un. *cyhuddo*, sydd yma? Rhoddai hynny synnwyr difai.

442 **G6rthlys** Digwydd fel enw ac fel ansoddair ond enw yw yma. Dyry GPC yr ystyron ‘gwrthnaws, gwrthwynebiad, cas, atgasrwydd, ffieidd-dra; gelyniaethus, cas’.

llys Geill mai *llys* barn neu *lys* brenhinol a feddylir ond dewisach yw’r term cyfreithiol *llys* ‘anghymhwyster mewn tyst’(GPC **llys**³). Dyry GMWL, 209 yr ystyron *rejection, objection, strife*. Y gair hwn yw bôn y ferf *llysu* ‘gwrthod’ a’r ail elfen yn *gwrthlys* (gw. yr ymdriniaeth â *llys* yn Jenkins, 1986, 361-2) Yn ôl Llyfr Colan, ‘Tryrryv llesoet esyt eg keureyth Heuuel herwyd lleuyr e Ty Guyn, nyt amgen lles kul, lles annyan, lles gueythret’ (Col. §528). Ymdrinnir â’r tri math ac â threfn *llysu* yn Jenkins, 1976, 106-7 (Ceir y cyd-destun llawn yn Ior. §79, 80). Ergyd y ddihareb, mi gredaf, yw y bydd *gwrthwynebiad* i bob *gwrthwynebiad*.

443 **trachywed** *Trachywedd*, ‘cyflafan’.

144 **traha** Ceir trafodaeth olau ar arwyddocâd *traha* yn yr englynion chwedlonol yn EWSP, 33-5 a CLIH lxvi-lxix.

Yn y gyfres englynion ‘Boddi Maes Gwyddneu’ yn Llyfr Du Caerfyrddin ceir yr englynion hyn sy’n dangos pedwar amrywiad ar y ddihareb hon ynghyd â dihareb arall yn dilyn yr un patrwm:

Diaspad vererid y ar vann caer.
hid ar duu y dodir.
gnaud guydi traha tranc hir.

Diaspad mererid. y ar. van kaer hetiv.
hid ar duu y dadoluch.
gnaud guydi traha attreguch.

Diaspad mererid am gorchuit heno.
Ac nim haut gorlluit.
G. G. traha tramguit.

Diaspad mererid y ar gwinev kadir
kedaul duv ae gorev.
gnaud guydi gormot eissev.

Diaspad mererid. am kymhell heno
y urth uy istauell.
gnaud guydi traha tranc pell.
(LIDC, 39.10-24)

Ymhellach ar y chwedl gw. *Cymru Fu* (3-12) a North (1957, 147-80). Y mae'r diarhebion hyn yn hynod briodol yng nghyswllt chwedl Seithennin.

Ceir y ddihareb hefyd yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 23c) ac fe'i diweddarir gan Marged Haycock yn *Arferol yw cwmp ar ôl balchder* (BBGCC, 31.23c).

445 **tranc hir** 'Distryw' yn hytrach na 'marwolaeth' sy'n gweddu orau yma; *long destruction* yw cyfieithiad Jenny Rowland (EWSP, 509).

Sylwer fod *tranc hir* a *tranc pell* yn gyfystyron (ar ystyr amserol *pell* gw. CA, 358).

- 446 **rydec** Go brin mai'r ansoddair *rhydeg* (= 'prydfferth') sydd yma. Dengys fersiwn DD, *Gnawd wedi rhedeg atregwch. alias Rhydeg*, mai dilyn darlleniad A a wnaeth Davies. Y mae ei ddehongliad braidd yn rhwydd. Ymysg 'Englynion y Clyweit' ceir yr englyn hwn:

A glyweist di a gant ffolwch.
o gymryt ediueirwch.
gnawt gwedy ryret atregwch.
(Clyweit 24)

Dengys fersiwn 'Englynion y Clyweit' mai gwall am *ryret* (*rhyred* = 'rhyseidd' am ymdriniaethau llawn â'r ffurf gw. CBT I, 289 a BBGCC, 36) yw *rydec* yn A. Gwyddys fod camddarllen *c* am *t* yn gyffredin. Ystyr y ddihareb felly yw 'Arferol yw edifeirwch wedi trosedd fawr' (BBGCC, 31.24c). Amrywiad yw'r ddihareb ar linell olaf yr ail englyn a ddyfynnir yn A444 uchod.

atreg6ch 'Edifeirwch'. Cytras *aithrige* mewn Hen Wyddeleg (Lloyd-Jones, 1921).

- 447 Ceir yr englyn hwn yn 'Englynion Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd':

Gwasgarawt awel awyr.
pwyll drvt a dwyll yt gredir.
gwenn fawt hyt vrawt ys dir.
(Williams, 1928, 120)

Yr un yw darlleniad testun y Llyfr Coch: 'g6ennffa6t hyt vra6t ys dir' (RBP. 583.7-8). Am gefndir y Cyfosi gw. EWSP, 291-3. Y mae'r odl yn hwylus ac yn gyffredin cf. 'Etmyccawr hyt vrawt ffawt ae deubyd' (AP, 164).

448 **dyuyd** Dyfodol 3 un. *dyfod*.

Digwydd y llinell yn y gyfres 'Stafell Gynddylan' (CLIH, XI.21c; EWSP, 432) ac fe'i cyfieithir gan Jenny Rowland yn *Woe to him who does not do the good which comes to him* (EWSP, 485).

Anghytuna Rowland â dehongliad Ifor Williams sy'n cysylltu'r ddihareb ag euogrwydd Heledd ('Cysyllter o ran meddwl â 46b, 57c, 86b, lle cyfeddyf Heledd fod rhyw fai arni hi am hyn oll', CLIH, 202). Yn hytrach, cred mai *another statement of Heledd's helpless position in society* sydd yma (EWSP, 584). Nid oes torri ar y ddadl ond tueddaf i ochri â Williams oherwydd dyry'r dehongliad mwy cyffredinol gryfach ystyr i'r llinell fel dihareb annibynnol.

449 **synn** Ymysg yr amryfal ystyron a restrir yn GPC, 'disynnwyr' a wedda orau.

agkyuyeith Dyry GPC yr ystyron 'estron, tramor, dieithr' i *anghyfiaith*; Yn DD ceir *Lingua aliena, peregrina*. Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynepglawr' ceir 'med6 mut drut pob anghyfyaeith' (RBP. 1056.30-1).

450 **Goyaen** *Goiäen*; GPC 'Rhewllyd, oerfelog, rhyndllyd; digyffro, hunanfeddiannol; trist, prudd'.

yng hyuyg *Yng nghyfyng*, 'mewn cyfyngder'.

Y mae'r un hunanfeddiannol yn gweld yn eglur mewn cyfyngder.

451 **rodi kynn6ys** ‘Rhoi croeso’. Ar yr ystyr ‘croeso’ sydd i *cynnwys* gw. CLIH, 101.

453 **kytwyr** Dyry GPC yr ystyron ‘Cymar. partner, cydymaith, cyfaill; cydymgeisydd’ i *cydwr* (gw. y nodyn ar y gair yn DGG², 208). Cynnig Lloyd-Jones y geill fod yn ffurf ar *ketwyr* (GBGG t. 89) a chyfeiria at linell olaf yr englyn a ganodd Efnisien wedi iddo wasgu pennau’r Gwyddyl: ‘rac kyd6yr cad bara6t’ (WBM, 54.34). Yn sicr, byddai ‘rhyfelwyr’ yn gweddu yma.

454 Dihareb gyfreithiol ond yma y mae iddi ffurf gwahanol i’r hyn a geir yn y Llyfrau Cyfraith. Awgryma S.J.W. mai ffurf ddiweddar ar A1067 ydyw; meddai, ‘Gall yr ail llwyr fod yn wall am llwgyr (=halawc), a byddai llwyr tal gwedy llwgyr twg yn gyfystyr â’r hen ddihareb’ (Bleg., 211; at ‘telhitor gwedy halawc lw’ y cyfeirir). Digwydd y ddwy ddihareb mewn cyd-destunau tebyg:

Or llygrir yt y neb dyn yn emyl trefgord, ac na chaffo y perchenhawc daly vn llwdyn arnaw, kymeret ef y creir a doet y’r tref, ac ortygant lw diarnabot, talent y rif llwdyn; a’r gyfreith honno a elwir “*telhitor gwedy halawc lw.*”

Or deily dyn yscrybyl aghynefin ar y yt neu ar y weir, ac ymlad o’r yscrybyl yn y gwarchae, a llad o lwdyn y llall, perchenhawc yr yscrybyl bieu talu y llwdyn a lather, a’r deilat a vyd ryd. Or deily dyn yscrybyl ar y yt, a bot ymdaeru rwg y deilat a pherchenhawc yr yscrybyl, y deilat bieu tygu caffel y blaeneit a’r olyeit ar yr yt. Or llad ysgrybyl trefgord lwdyn ac na wypper pwy a’e lladawd, doet perchenhawc y llwdyn a chreir gantaw y’r tref, a rodent lw diarnabot, ac odynt talent y llwdyn y rif eidon, ac or byd eidon moel, ran deu eidon a a arnaw; a’r gyfreith honno a elwir “llwyr tal gwedy llwyr twg”. Or byd adef ar neb eidon llad y llall, talet y perchenhawc. (Bleg., 86.21-87.8)

Gwelir, fodd bynnag, mai yng nghyswllt llwgr *ÿd* y dyfynnir A1067 ac mai *â* gwerth gwyllt a dof y mae a wnelo'r ddihareb dan sylw (Cf. y paragraff cyatebol yn WML, 74.18). Serch mai tyngu *llw diarnabod* (Bleg., 210; *oath of ignorance*, GPC) yw'r cyddestun, dwy ddihareb annibynnol sydd yma. Y mae'r darlleniad *ll6yr d6ng* yn gwbl ystyrion – y mae'r llw yn gyflawn a diamod fel y taliad. Dichon fod yma beth digrifwch. Gwell gennyf gyfieithiad cryfach Dafydd Jenkins, *Utter payment after utter swearing* (1986, 177), nag eiddo Wade-Evans, *Full payment after full swearing* (WML, 221).

- 455 **pedestyr** 'Cerddwr'. Gair benthyg o'r Lladin *pedestris* (EL, 44). Fel rheol meddala *d* rhwng llafariaid mewn gair Lladin yn y Gymraeg (EL §67); ar y caledu yn y ffurf *pedestr* gw. PKM, 123. **geu** 'Anwiredd'.

Dyfynnir y ddihareb o dan *peddestr* yn DD ac fe'i cyfieithir yn *Optimus pedester mendacium, vel falsus rumor*. Nid oes ball ar gerdded celwydd.

Cf. *Evil Words walk far* (PSPP, W580).

- 456 **duhud** Myn. pres. 3 un. *dyhuddo*, 'diddanu, cysuro; bodloni; talu am' (GBGG).

- 457 **G6ada6t** *Gwaddod*.

g6ythloned 'Llid' ond hefyd gelyniaeth, cweryl'.

bl6ng Dyry GPC yr ystyron 'Llidiog, dicllon, ffyrnig, creulon, sarrug, cuchiog, llym'.

Fel y mae afon yn gadael gwaddod o bridd ar ei glannau, gedy gair sarrug elyniaeth yn waddod.

458 **mi trech** Yn llythrennol ‘mi sydd gryfaf’.

459 **gŵreid** *Gŵraidd*, ‘gwrol’.

kyn noe gerdet ‘Cyn iddo [ddechrau] cerdded’. Am ddefnyddio’r arddodiad *kyn* fel ansoddair cymharol gw. GMW, 44. Cyfetyb y gystrawen i’r enghraifft o’r Gododdin a nodir yn GMW, *kyn no’e angau* (CA, XXIII.265). Ni cheir *no* o flaen berfenw, meddir, ond pan fo rhagenw mewnol genidol rhyngddynt.

Geill fod yma naill ai feirniadu hyder ieuenctid neu rywbeth yn debyg i’r topos *puer-senex*. Ceir mynych enghreifftiau o’r topos hwn yn y farddoniaeth arwrol: ‘Gredyf gwr oed gwas’ (CA, I.1); ‘gwnawn weithret gwr kyt bydwn gwas’ (CLIH, IV.4c; EWSP, 411); ‘Huysgŵr gŵr yn oed gŵas’ (CBT, V.13.28); ‘Bar llychwr, gwr yn oed gwas’ (CBT, V.17.43). Cf. A385 uchod.

461 **Genit** Myn. pres. 3 un. *genni* ‘cynnwys’.

rybuchet ‘dymuniad’

rŵng llaŵ a llawes Dyry GPC *in secret, secretly, illicitly; suddenly*.

462 **kamŵri** ‘Arwriaeth’. *Camp* yw’r elfen gyntaf yn y gair ond effeithiodd *cam* ar ei ystyr (GPC).

ketwit *Katwyt*, sef hen ffurf ar y berfenw *cadw*, gw. GMW §179.

Ceir y ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’: ‘goreu kamwri kadwyt’ (Clyweit, 1c). Fe’i diweddarir gan Haycock yn ‘Amddiffyn yw’r gamp orau’ (BBGCC, 31.1c). Gellir cymharu’r llinellau hyn o’r

Roman de la Rose: *car la vertu n'est mie mendre / de bien garder et de deffendre*. Eu ffynhonell meddir yw *Ars amatoria* Ofydd, (Sylvia Huot, 43).

464 **dirper** 'Haeddu' cf. 'Gwiw yw clod hynod a honno – taua6d / Y'r aerllew para6d a'e dirpero' (CBT, VII.25.75-6).

465 **Goleu** 'eglor'

breud6yt a welir Y mae *gweld bruddwyd* yn ymadrodd cyffredin, cf. 'Breuidid a uelun neithwir' (LIDC, 2.1); 'Gwelais ar glais dichlais dydd / Breuddwyd yn ael boreddydd' (GDG, 39.3-4).

466 *Hanuyd* Dyfodol 3 un. *hanfod*. Nodir yn GMW §156 mai'r un ystyr â *bod* sydd iddo yn aml. Ystyr *hanfydd gwell* yw 'fe fydd yn well'. Gellid cymharu'r cyfarchiad *Henffych well* gyda'r ferf yn y modd dibynnol.

467 **Hydyr** 'Dewr'. Yn B360 ceir *Llonn* ac nid yw hynny'n menu fawr ar yr ystyr cans ergyd y ddihareb yw fod y *costog* yn teimlo'n gartrefol ar ei dom, hynny a bair iddo fod yn ddewr (neu'n llon). **costa6c ar y tom** Crybwyllir y *costog tom* yn y cyfreithiau. Fe'i cyfieithir gan Aled Rhys Wiliam yn *cur, mongrel* (Ior., 148), ac y mae'n sicr nad ci o frid pur mohono. Nid oedd yn gi gwerthfawr:

coluyn mab eyllt, iiii.k' (un werth a'e costauc tom: pa gy bynnac a uo y uab eyllt, un gerdet yu a'y gostauc tom).

Costauc tom, pyeyffo bynnac, ket boet brenhyn byeyffo, iiii.k' yu y werth

(Ior. §133)

Yn Bleg., 211 (ond nid yn GPC) dywedir ‘Arferid tom fel ans. gydag enwau anifeiliaid a wnâi’r gwaith trwm a garw’ (nid anifeiliaid yn unig, ‘Arfau ei dad fu raw dom’, meddai Siôn Tudur am y crachfonheddwr, GST, 151.70). Ni ellir bod yn sicr pa fath o gi ydoedd – yng Ngeirlyfr Wiliam Llŷn ceir ‘mastiff’; yng Ngeiriadur Salesbury ceir ‘korgi ne gostoc : *A curre dogge*’. Fe’i defnyddir yn ddifenwol yn y canu dychan yn aml, cf. ‘Aelgipiog gostog cystal – Pilatus’ (GPB, 7.47); ‘costog cas’ (GGDT, 15.49). Dyry Ifor Williams (1943) yr ystyr ‘tŷ’ neu ‘warchod’ i *cost* (y mae’r ystyron, meddai, yn ymdoddi i’w gilydd) ac y mae’n ei gydio wrth *cosgordd* (= ‘gosgordd’). Am y *costog* dywed:

Ymddengys i mi mai ci i warchod oedd i ddechrau, ‘house-dog’, neu ‘watch-dog’, a hawdd i’r cyfryw wrth warchod yn ffyddlon ennill enw drwg. Nid rhoi croeso yw ei swydd. Daeth *costogaidd* ar arfer am ‘surly, churlish’, a *chostog* am ddyn o’r fath

A dychwelyd at y ddihareb Gymraeg dan sylw, yr hyn sy’n ddiddorol ynglŷn â hi yw ei bod yn ddihareb gydwladol sydd eto’n adleisio’r dirmyg a fagodd yr enw Cymraeg (cyfreithiol) *costog tom*. Cf. *Devant son fumier se fait li chiens fiers* (Mor., 571; gw. yn ogystal MFPSPP, F188); *A Cock (cur, wight) is keen (bold) on his own mixen (dunghill)* (PSPP, C350); *Confidens animi canis est in stercore noto* (SM I, 86).

468 Mae dringo yn haws na disgyn. Dylid deall hyn yn drosiadol.

470 **Hanuyd** Gw. A466 uchod.

ychwanec Ansoddair yw yma yn golygu ‘mwy’.

o bissodyn y dryw Yn GPC o dan *pisaf* ceir *p. dryw (bach)* (*yn y môr*) *comparison for an infinitesimally small amount.* yna dyfynnir fersiwn DD o'r ddihareb hon. Onid yw'r ddihareb yn eironig, ei hystyr yw y bydd y môr yn fwy o dderbyn piso'r dryw, h.y. y mae pob diferyn yn cyfri. Mae'r ystyr yn fwy trawiadol gan mai aderyn bychan iawn yw y dryw. Ni fyddai 'piso eryr' cystal rywsut. Yn yr *Imago Mundi* ceir, 'Ny hanbid mwy o mor yr a el o dwfyr yndaw' (Lewis & Diverres 1928, B45).

471 **maban** 'baban' neu 'blentyn bychan'.

472 Digwydd y ddihareb hon, ynghyd â dwy arall ar yr un patrwn (A476 a B260), mewn cywydd serch o waith Bedo Aeddren:

Cymerwn, symudwn sôn,
Rybudd y diarhebion:
Hir weddwdod, hynod hoywnwyf,
I fefl, ar ryfel yr wyf,
A hir ladrad, o'i adu,
A ddaw un crog i ddyn cry';
Hir nych, gwaeth yn hau arnaf,
I angau yn ddiau yn ddiau ydd af.
Ni chredir, nychu 'r ydwyf,
I angau yn ddiau ydd wyf.
(CSTB, II.39-48; yr un cywydd yn ei hanfod yw BWL1 xciv)

Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'pob hir nychtawt y angeu'
(Clyweit, 43c).

- 473 **Hydyr** Yn wahanol i A467 uchod, yr ystyr ‘nerthol, cadarn’ a wedda orau yma, cf. ‘hydir y wir in y bro’ (LIDC, 18.147). Y mae’n goleddfu *gwaedd* yma.
- waed gbanet** Darllener *waed gbanec*, sef ‘rhu ton’. Dengys fersiwn ‘Gossymdeith Llefoet Wynepglawr’ mai camddarllen *t* am *c* sy’n cyfrif am y darlleniad *gbanet*, cf. ‘Hydyr gwaed gbanec 6rth vro’ (RBP, 1055.24).
- 6rth vro** ‘Yn erbyn y tir’. Efallai y dylid deall ‘tir isel’, cf. ystyron *bro* yn GPC.
- Cf. ‘Difrys gbanec dyffustit traeth’ (RBP, 1056.1).

- 474 Dichon fod yma gyfeiriad at yr adnod ‘Cadw dy droed allan o dŷ dy gymydog rhag iddo flino arnat, a’th gasáu’ (Diarhebion 25:17). Os felly, cf. C628. Yr un yw patrwm y ddihareb hon ag A472 uchod.

- 475 **keubrenn** Coeden sy’n wâg oddi mewn.

Ceir cyfeiriadau mynych at geubrennau mewn chwedlau gwerin. Wrth gwrs, gŵyr pawb am hanes y briodas yn Nant Gwrtheyrn (*Cymru Fu*, 210). Swyddogaeth debyg sydd i’r ceubren yn chwedl ‘Ceubren yr Ellyll’, eto yn y gyfrol ddiddan *Cymru Fu* (48-9). Dichon mai rhyw chwedl goll a esgorodd ar y ddihareb hon.

- 476 Dyfynnir y ddihareb gan Bedo Aeddren, cf. A472 uchod. Yn ‘Englynion y Clyweit’ ‘ceir pob hir letrat y groc’ (Clyweit, 25c). Bydd yr un sy’n lladrata dro ar ôl tro yn rhwym o gael ei ddal a’i gosbi. Am ddifrifoldeb lladrad dirgel (o’i gymharu â lladrad trwy drais) yng ngolwg y Gyfraith Gymreig gw. Jenkins, 1976, 62-3. Wrth i’r gyfraith ddatblygu ni chrogid pob lleidr. Hynny a fynegir

yn un o'r Trioedd Cyfraith: 'Tri lleidyr crogadwy yssyd' (Bleg., 122.20).

477 **enderic** Serch bod DD yn rhoi *idem quod Bustach* gwell yw 'dyniawed' yma (Gw. GPC). Dyfynnir y ddihareb o dan *enderig* yn DD a dyry Davies y cyfieithiad *Diu erit juvenus, bos hominis nequam*, sy'n cadarnhau y dylid dyall 'dyniawed' yn hytrach na 'bustach'. Araf y prifia anifail y dyn di-les.

478 **Hir y lygat** Pell ei olwg.

6rthgriff Ceir rhywbeth tebyg i'r ddihareb hon gan Ddafydd ap Gwilym, *Dau lygad swrth yn gwrthgrif* (GDG 95, 49), a chynigia Thomas Parry (gan gyfeirio at enghraifft o *gwrthgrifyeit*, 'gwrthwynebwy'r', yn RBP, 1175.22) mai 'gwrthwynebu, gwrthdystio' yw ystyr y berfenw *gwrthgrif* (GDG, 519). Gwrthodir hyn gan J. Lloyd-Jones ac am *gwrthgrif* dyry 'llygadrythu, syllu, gwyllo' (GBGG). Hynny'n ddiâu sydd gywir. Yn y Llyfr Gwyn *6rthrych* yw'r ffurf ('edrych ar, disgwyl aros', GBGG) ac yng Ngramadeg Einion Offeiriad ceir yr englyn hwn:

Gwrthrych eurgrair pair, pendefig, - ydd wyf
I gan Dduw gwynfydig;
Hir ei lygad, Loegr odrig,
A wrthrych, deigr hywlych dig.
(GEO Atodiad C, 35; gw. y cyd-destun yn GP, 14)

Gwelir yr un ystyr 'disgwyl, aros' yn *gwrthrychiad*. Yng nghyfraith y llys y *gwrthrychiad* oedd etifedd neu olynydd y brenin (Parry-Williams, 1922, 110-11; Jenkins, 1986, 222) cf.

'Gwrthdrych .i. edlyg, yr hvn a dely guledychu guedy y brenhyn ac

a dely bot yn anrydedussaf en y llys eythyr y brenhyn a'r urenhynes' (Ior. §4). Ymhellach ar y ffurfiau gw. Binchy (1956, 221-8) a Lloyd-Jones (1944, 120). Y mae i'r gair ystyr ehangach sef un sy'n aros neu'n gobeithio ac fe'i defnyddir hefyd fel enw haniaethol 'gobaith', 'disgwyliad' (gw. Ior., 106).

480 **owein** Ni wyddys at ba Owain y cyfeirir yn y ddihareb. Nid oes brinder cymeriadau hanesyddol na chwedlonol sy'n dwyn yr enw hwn (WCD, 516-22).

Diau mai hoffter o gyflythrennu sy'n cyfrif am y fersiwn boblogaidd (ddiweddarach) o'r ddihareb hon, *Hael Hywel o bwrs y wlad*, a glywir o hyd ar lafar. Hynny ynghyd â rhyw ymwybyddiaeth o le Hywel ap Cadell yn hanes Cymru efallai. Felly hefyd fersiwn Mostyn 204, *Hael y Hilin ar bwrs y wlad*. Priodol oedd i Edmwnd Prys ddyfynnu'r ddihareb yng nghywydd 'Anllywodraeth y Cedym': 'Rhydd Hywel rodd dda haelwych / O bwrs y wlad, barsel wych' (GEP, lxxxv.57-8).

Cysylltir y geiriau *hael* a *pwrs* yn y llinellau hyn o waith Lewys Glyn Cothi:

Ef a aeth megis dros fôr
o Riwlallt ar yr elor,
Hywel Goch, a heliai gaith,
ap Rhys hael o'r pwrs eilwaith.
(GLGC, 179.7-10)

Noder fodd bynnag mai Hywel Goch yw gwrthrych y cywydd marwnad hwn ac nad oes a wnelo'i enw â'r ddihareb.

481 Cf. 'namyn Du6 nyt oes dial' (EWGP, VI.21c).

482 **wyl** Myn. pres. 3 un. *gweled*.

Dihareb gydwladol, cf. *A seür boit qui son lit voit* (Mor. 128).

Potat ad affectum, qui praesto videt sibi lectum (LSSM, P90).

Nodir enghreifftiau eraill yn SM (II, 60-1). Ceir parodi ar y ddihareb hon yng nghywydd Dafydd ap Gwilym i'r cyfeddach:

'Hawdd yfaf, dibrinnaf bryn, / Hawdd yf a wyl ei hoywddyn'

(GDG, 132.27-8).

483 **ynghena6c** 'anghenog'.

d6ygeill Y mae cysylltu'r rhifol *dau* â rhannau o'r corff sy'n barau yn gyffredin mewn Cymraeg Canol. Meddai Vendryes, *Une étude historique du duel en ces langues* [sef yr ieithoedd Celtaidd] *est encore à faire. Mais le fait est que l'on y rencontre abondamment dans les textes depuis le moyen âge l'emploi du nom de nombre deux joint à celui des organes pairs.* (1952, 100). Ymysg ei enghreifftiau dyry *dwy geill* ynghyd â'r Wyddeleg *dá biach*.

Ymhellach ar y deuol mewn Celteg gw. CCCG, 190.

484 **cl6ppa** 'Pastwn'. Gair benthyc o'r Saesneg Canol *clubbe* (EEW, 93).

485 Dihareb gydwladol, cf. *Vieulz pechiez fet novele honte* (Mor., 2481; gw. yn ogystal MFPSPP, P100); *Old Sin makes new shame* (PSPP, S338). Yr un yw cyngor Catwn: 'Na wna bechawt rac ofyn duw. a rac kabyl dynyon. kanys yr hyt y keler ef a wybydir yn y diwed' (Catwn, 33-4). Trafodir y ddihareb yn SM (I, 134-5).

486 **Hyt yn oet** Y mae i'r arddodiad cyfansawdd hwn ddau ystyr mewn Cymraeg Canol (GMW, 196; WG, 421), yr ystyr *even* sydd iddo heddiw a'r ystyr *all except*. Yr ail sydd yma. Y mae'r crochan ar y tân bob dydd ac eithrio un dydd penodol.

487 **Haedu ar** Nid 'teilyngu' ond 'ymgyrraedd at, ymestyn am, ceisio, cyrraedd' (GPC; gw. y nodyn ar y gair yn IGE¹, 392 lle y dyfynnir y ddihareb 'haeddu awyr â bach' – digwydd 'Mal haedu awyr abach' yn LIT, 8.12). Dyry GPC yr ystyron *to deserve from or of; lay hold of* i'r ymadrodd. Yr ail sydd yma yn ddiau. Gw. ymdriniaeth Ifor Williams (1927, 261), sy'n cyfeirio at yr un elfen yn *cyrraedd* a *dyhaeddu* ynghyd â chytrasau yn yr ieithoedd Celtaidd, a PKM, 197 ond sylwer ei fod yn methu wrth gyfieithu *haeddu ar* yn y ddihareb hon yn *to happen upon*. Gwell yw cyfieithiad Davies, *Comprensare nidum vesparum* a ddyfynnir o dan *haeddu* yn DD.

nyth cacc6n Cf. yr ymadroddion sy'n cyfeirio at *nyth cacwn* yn WVBD, 233.

488 **yn absen** 'Yn absenoldeb', cf. 'Ffraeth yn ei habsen, wenferch, / Fyddwn pan soniwn am serch' (GGLI, 3.17-8; ond swil a mud fyddai yn ei gŵydd); 'Distein y6 y trydydyn a geid6 breint llys yn a6sen y brenhin' (WML, 14.21-22).

Digwydd y ddihareb mewn cywydd ymryson o waith Dafydd ap Gwilym: 'Hy fydd pawb dan hoywwydd perth / Yn absen, ofn wynebserth' (GDG, 152.29-30). Gellir cymharu'r llinell 'ny byd ehovyn noeth en ysgall' o 'Gwarchan Adebôn' (CA, 1324), llinell sy'n cyfleu'r unrhyw wirionedd ond o safbwynt gwahanol.

489 Dihareb o fyd heboca. Ni ddefnyddid barcutiaid i hela:

Eagles have been trained to take prey, but are to all intents and purposes useless, and are generally ignored by the medieval practical treatises; so are the ‘bawtere’ (vulture) and the ‘melawne’ (kite?) (Cummins, 2001, 188)

Cryrhoir y ffaith hanesyddol hon yn y ddihareb Saesneg, *A Hawk comes unto lure when a kite will not come nigh* (PSPP, H199).

Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Ja de buisot ne ferez esprevier* (Mor., 965): *Len ne puet faire de buisart esprevier* (Mor., 1514); *To make a Falcon (sparrowhawk) of a buzzard* (PSPP, F37). Rhestrir sawl enghraifft ohoni yn SM (II, 106-7). Daw’r enghraifft Saesneg gynharaf a nodir yn PSPP o’r gerdd hir ar fywyd Alecsander Fawr, *Kyng Alisaunder*:

Niltou neuere, late ne skete,
A goshauk maken of a kete,
Ne faukon maken of bosard,
Ne hardy knighth make [of] coward.
(Smithers, 1952-7, 3043-3046)

Y mae ergyd y ddihareb yn eglur ddigon yn y *Proverbes en rimes*:

Chascune creature
Tousjours se veult retraire
Vers sa propre nature,
Nul ne l’en pourroit traire.
On puet voir tout l’affaire
En ce present pappier:
Il n’est nul qui sceust faire
De busat esprevier.
(Frank & Miner, 1937, CIII)

Ceir cymhariaeth nid annhebyg ym Mrut y Brenhinedd: ‘Ac eissoes havs yw guneuthur hebavc o’r barcut nogyt guneuthur bilein yn dysgedic ar uyrder’ (BD, 83). Diddorol hefyd yw cymharu’r ddihareb â’r llinellau hyn o gywydd Siôn Tudur i’r beirdd:

Canwn, a myfyriwn fawl
I wŷr syber wrsibawl,
A gadael, gafael gyfiawn,
Iangwr yn iangwr a wnawn;
Pennaeth yn bennaeth beunydd,
Pennaeth yn bennaeth y bydd;
Eryr yn eryr nawradd,
A brân yn frân heb fwy radd;
Gwalch yn haelwalch gwehelyth,
A barcud yn farcud fyth.
(GST, 151.87-96)

Ar symboliaeth adar ysglyfaethus a’r modd y cyfetyb y symboliaeth hon i hierarchaeth gymdeithasol, gw. Cummins (2001, 189-90). Yr oedd *hebog* yn drosiad gweddus am bendefig ond i’r cerddi dychan y perthyn y *barcud*: ‘Meddw grwban, llopan lleiprfrig, - twll fyrcci, / Twyll farcud ystyfnig’ (GPB, 6.95-6).

490 **goruot arna6** Am *goruot ar* dyry GBGG ‘gorchfygu, goresgyn’. Cystrawen gyffredin mewn Cymraeg Canol a drafodir gan Evans (1952, 7).

491 **galanas** Gelyniaeth rhwng dau deulu wedi i aelod o’r naill deulu ladd aelod o’r llall. Ar y sefydliad gw. Pierce (1972, 289-308). Ceir

golwg anthropolegydd ar natur diddiwedd *galanas* mewn cymdeithasau yn y Dwyrain Canol ac ardal Môr y Canoldir yng nghyfrol Jacob Black-Michaud *Feuding Societies* (Oxford, 1975; gw. yn arbennig 63-80). Fodd bynnag geill mai'r ystyr yn y ddihareb yw 'ffrae' yn syml.

492 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'hir gnoir tameit chwerw' (Clyweit 26c).

493 Digwydd y ddihareb mewn cywydd serch o waith Rhys ap Dafydd Llwyd ap Llywelyn Lygliw: 'Dig wyf, hir i'r mud a gâr / Y bydd ym mhorth y byddar' (GGLI, 3.45-6). Honna'r bardd ei fod yn fud yng ngŵydd y ferch – 'Ni ddoi o'm pen air gennyf ... Anhyder yn ein hoedau / A wnaeth y fudaniaeth fau' (GGLI, 3.11-24) - ac y mae'r ferch hithau yn fyddar i'w eiriau.

Yn GMRh 9, 10, 11 ac 12 ceir tri chywydd a chyfres o englynion o waith Maredudd ap Rhys ac Ifan Fychan ab Ifan ab Adda, y cwbl yn ymryson ynghylch cais Ifan Fychan yn gofyn cwrwgl gan Siôn Eutun. Canodd Ifan Fychan gywydd i ofyn y cwrwgl, canodd Maredudd ap Rhys gywydd yn ei wrthod ar ran Siôn, yna canodd Ifan Fychan gywydd ateb. Digwydd y ddihareb yn llinellau cyntaf y cywydd:

Dihareb wir o hirynt
A gaf, ac a draethwyd gynt:
Hir y bydd mud, gwychdrud gwâr,
O byddai 'mhorth y byddar.
Ni wnaaf ar gam ei hamau,
Gwir yw'r ddihareb, nid gau.
Rhwydd gyson, rhodd a geisiais
Gan Siôn, cynt y cawn gan Sais.

Hir y byddaf yn aros
Y rhodd rhwng Tegeingl a Rhos,
(GMRh, 11.1-10)

Cf. yn ogystal y llinell 'Nid hawdd ymadrawdd â mud' a geir yn GIG, xiv.26 a GDG, 1324 ill dau.

- 494 Cyfrifid cybydd-dod yn bechod garw a cheir sawl cyfeiriad yn y farddoniaeth a dystia i hynny, cf. 'Ny rylon ry lawgaeth' (CBT IV, 351); 'g6ae gebyd oe gabyl amryffreu' (RBP, 1161.12-3). Yr oedd, wrth gwrs, yn un o'r saith bechod marwol.
- 497 Teithi cath yn ôl Llyfr Iorwerth yw 'klybot a gaelet a llad llygot, ac na bo tun y hewyned' (Ior. §131). Disgwyliid felly i gath fod ag ewinedd cyfan a byddai cath ag ewinedd *twm* yn anifail diffaith iawn.
- 498 **[g]wynnyeu** Bôn y gair yw *gwyn*² GPC 'dymuniad, dyhead'. Am *gwynnau* dyry GPC 'Nwyfus, bywiog, trythyll' a nodir mai ansoddair ydyw; felly hefyd GBGG. Rhaid ei drin fel enw yma a chynigiau mai rhywbeth fel *trythyllwch* yw ei ystyr.
- 499 **[l]lyngesswryaeth** 'Morwriaeth'
- 504 **escor lludet** 'Bwrw blinder ymaith'. 'Ny chaei dy esgar escor lluted!' meddai Llygad Gŵr am Ruffudd ap Madog, hynny yw ni chai ei elynion fwrw eu blinder (CBT, VII.25.12). Cf. hefyd 'ny byd yth escar escor lludet' (LIT, 51.22-3) ac ymhellach CLIH, 111.

Ceir y llinell ‘hir gnif heb esgor lludded’ mewn englyn penfyr a ddigwydd ddwywaith yng nghylch Llywarch Hen (CLIH, V.10c a CLIH, II.21c; EWSP, 415 a 418). Cyfieithir y llinell gan Jenny Rowland yn *long labour without casting off fatigue* (EWSP, 474). Disgwylid *hir nif* ond ni ddangosir y treigladd (CLIH, 110). Dichon mai camddarllen neu gamddyall cynsail a roddai’r treigladd hwn a barodd i’r copïydd ysgrifennu *nych* yn A.

505 **dinawet wenn** Llo blwydd yw *dyniawed* a geill fod yn enw gwrywaidd neu fenywaidd. Yn C429 ceir *diniawed dv*.

Ceir fersiwn o’r ddihareb hon yn y canu rhydd cynnar:

hwyr i gellir dyn natvriol
or hen fvstach gwine lletffol
(CRhC, 16.45-6)

506 **hun uaelg6n** Treigladd enw priod genidol a ddelai’n gyson ar ôl enw benywaidd unigol mewn Cymraeg Canol (TC, 107). Er na threiglir yn rheolaidd yn yr enghreifftiau o’r ddihareb a godwyd o waith y cywyddwyr, digwydd y treigladd yn ddieithriad yn y casgliadau diarhebion. Gellir ystyried fod dihareb (fel yr enwau lleoedd, gwyliau’r saint, ayyb. a nodir yn TC, 101-7) yn ymadrodd ‘arferedig sefydlog’.

egl6ys ros Cantref Rhos yng Ngwynedd Is Conwy. Dywedir yn y cyfieithiad Cymraeg o Frut Sieffre mai mewn eglwys ger ei lys yn Negannwy y bu Maelgwn farw: ‘Ac o’r diwed yd aethy myvn eglwys ger llav y castell ehun yn Dygannvy, ac yno y bu uarv’ (BD, 187).

Trafodir y traddodiadau sy'n gysylltiedig â Maelgwn Gwynedd gan Wood (1984) a Lloyd (1912, 128-31) a thrafodir y traddodiad ynglŷn â'i dranc yn TYP (438-9). Yn ôl y chwedl, bu farw Maelgwn Gwynedd o'r fad felen wedi iddo encilio i Eglwys Rhos. Credai ei wŷr mai cysgu yr oedd nes iddynt geisio ei ddeffro a sylweddoli ei fod yn farw. Crybwyllir yr hanesyn gan Ellis Wynne:

Nis gwn i, ebr finneu, beth a allei'ch meddwl fod, onid allei'r Fâd-felen a ddifethodd Faelgwn Gwynedd, eich lladd chwithheu ar y feisdon a'ch rhannu rhwng y Brain a'r Pyscod.

(BC, 61)

Ceir sawl enghraifft o'r ddihareb yng ngwaith y Cywyddwyr:

'Glasoer iawn yw Eglwys Ros, / Gan eiry, gwae ni o'i aros! / Aeth un o waed Mathonwy / Mal gan hun Maelgwn neu hwy' (GTA, lxxxv.5-8); 'Dafydd wyf innau'n d'ofwy, / Deffro, paid â huno'n hwy, - / Hun ryhir, hwy na'r eos, / Hun Faelgwn yn nhrŵn y Rhos' (GDL1, 53.19-22); 'Eich hun oedd hwy na channos, / Eithr hun tad Rhun yn Rhos' (GDIDD, Atodiad A5.13-4; gw. yn ogystal GHCLL, xxv.13-4). Tair marwnad, dyna'r cyd-destun a ddisgwyliid.

Gwahanol yw'r modd y dyfynna Dafydd ap Gwilym y ddihareb yn y cwpled 'Hir fydd ynn, eosydd nos, / Hirun Faelgwn, ei haros' (GDG, 135.43-4). Cellweirus ac ysgafn, onid amharchus braidd, yw'r llinellau hyn o gywydd i ofyn gwely gan Lewys Glyn Cothi: 'Ar hwnnw pan fo hirnos / y gwneir hun Maelgwn yn Rhos' (GLGC, 186.53-4). Y mae'r gwely cyn brafied, meddai'r bardd, nes y bydd yn cysgu cyn drymed â Maelgwn ynddo! Cyfeiriadau at y chwedl, yn hytrach na'r ddihareb, sydd yn y llinellau 'Chwaer undad, herwnad hirnos, / I'r oer fad felen o Ros' (GIG, xxxii.47-8)

ac ‘Os yno mae, heb sôn mwy, / Hun oes cun hen Is Conwy’
(GDLI, 57.51-2). Fe’i dyfynnir hefyd yn *Llysieuelyfr* Salesbury
(Edgar, 1997, 135). Yn yr *Annales Cambriae* ceir y cofnod hwn:

547. CIII. Annus. Mortalitas magna [fuit in Britannia] in qua pausat
Mailcun rex Genedotae. [Unde dicitur, ‘Hir hun Wailgun en llis Ros.’
Tunc fuit lallwelen].
(Ann. C., 4)

Diddorol gweld *llis Ros*. Ai *llys* ydyw, ynteu gwall am *eglwys*?
Hon yw’r enghraifft gynharaf o’r ddihareb.

507 **adeilyat** Digwydd fel enw ‘lluniedydd’ ac ‘adeiad’, ond gwell yma
yw ei ddeall fel berfenw ‘adeiladu’ (GBGG).

Digwydd amrywiad ar y ddihareb ddwywaith yng ngwaith Tudur
Aled: ‘Er bod, - dihareb, a wn - / Uwch eu pennau’ch opiniwn, /
Bwrw tŷ sy haws, Brutus had, / O gyd alw, nog adeilad’ (GTA,
xxi.75-8); ‘Bwrw tŷ sy haws, Brutus ail, / No’i godi, enwog adail’
(GTA, lxvi.37-8). Dywed T. Gwynn Jones fod yr arwyddair ‘Haws
rhoi tŷ ar dân na’i adeiladu’ wedi ei beintio ar fur yn Wynnstay
(GTA, 573). Priodol iawn.

508 **lla6gar** Dyry GPC ‘(Person) isel neu ddistadl; (person) hael neu
haelionus’.

510 Nid yw A yn cynnig synnwyr boddhaol a gwell yw derbyn
darlleniad B265.

11 **mych** Darllener *mynych* fel yn B268.

- 512 **g6asca6t** ‘Cysgod’. Digwydd yn elfen mewn amryw eiriau megis *gwasgodfa* ‘lloches’ a’r ferf *gwasgodi* ‘llochesu’ (GPC).
gorwyd *Gorwydd*, ‘fforest’.
- 514 **hoffed** Dyry GPC yr ystyron ‘Ymffrost, bocsach, gwag-ogoniant, balchder; ffafr, ewyllys da, hyfrydwch, pleser, hoffter, cariad’.
Trafodir y gair gan Williams (1923b, 39-41) ac yng ngyswllt y ddihareb gofyn onid y meddwl yw y treulid hanner y wledd i ymffrostio? Y mae’n sicr fod i’r gair yr ystyr hwn, megis yn y llinell ‘Gweryt y’r g6agueird y gwac-hoffed!’ (CBT, VI.15.42), ond credaf fod dehongliad I.W. yn rhy ddyfeisgar. Gellir dehongliad symlach a llai straengar drwy dderbyn yr ystyr ‘pleser’ ac felly hanner y wledd yw’r gwmniaeth neu’r rhialtwch. Cf. yn ogystal *gorhoffedd* a drafodir yn llawn yn CBT I, 192-5.
- 515 **Hydyr** Arno gw. A467 uchod.
- 516 Ceir ‘h6yr hen, ha6d y ordiwes’ yn yr englynion gwirebol(EWGP, III.5c) a fe’i cyfieithir gan Jackson yn *slow is the old man, easy to overtake him* (SECNP, 58).
Gwahanol yw ergyd y ddihareb Saesneg, *Men may the Old (wise) atren (outrun) but not atrede (outwit) (varied)* (PSPP, O29).
- 518 **gordyfnait** Yn GPC rhoir i’r ferf *gorddyfnaf*: *gorddyfnaid*, *gorddyfnu* yr ystyr ‘arfer, ymarfer (â), bod yn gyfarwydd (â), ymgynefino (â)’. Digwydd y berfenw fel enw yn golygu ‘arfer, arferiad, defod’ (GBGG, 561). Yr un *dyfn* sydd yn y ferf *dyfnu*, fel yn ‘dyfnu w6yn’. Daw’r englyn a ganlyn o ‘Gysul Addaon’:

Pader a buyeid a bendiceid creto.
ae canho rac eneid.
hid wraud goreu gortywneid.
(LIDC, 27.6)

Gwelir mai cyngor i ymbaratoi ac ymgynefino â'r farn sydd ynddo.
Amrywiad ar y ddihareb yw'r llinell olaf. Cymharer yn ogystal yr
englynion a ganlyn o 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr':

Yr Eryr, barabl honnaid,
A'th ofynnaf wrth fy rhaid,
Beth sydd orau rhag enaid?

Pader ac offerennau,
A dyrwest a chardodau,
A'u gorddyfnaid hyd angau.
(BBGCC, 30.ff-g)

Y pethau hyn, gweddi ac ati, y dylid eu harfer *hyd angau*. Dyna
hefyd genadwri'r ddihareb, dylid ymarfer yn y byd hwn erbyn y
byd nesaf.

- 520 Cyfystyron yw *annod* ac *oedi* yma.
- 521 Hir fydd pryd bwyd pan fyddir yn bwyta â chyllell heb fin arni.
- 523 **diot** Y berfenw *diod*; ei ystyr yma yw 'tynnu allan' (GBGG).

Dihareb sy'n adleisio rheol gyfreithiol gan na thelid iawn am
dynnu gwaed o grach. Mynegir hynny yn y Trioedd Cyfraith: 'Tri
gwaet digyureith yssyd: gwaet o benn crach, a gwaet deint, a gwaet

trwyn, onnyt trwy lit y gollygir' (Bleg., 114.1-3; gw. yn ogystal WML, 130.19-21 a Ior. §147). Cf. A44 uchod.

524 Cf. yr hyn a ddywaid Dafydd ap Gwilym am Rys Meigen: 'Cŵn pob parth a'i cyfarthai' (GDG, 21.3). Ai awgrymu y mae fod Rhys yn ddiriaid?

525 **hy...ar** Ar ddefnyddio *ar* gydag ansoddair yn y gystrawen hon, gw. Evans, 1953, 174.

vapsant Gw. Williams (1933) lle yr awgrymir mai bachigyn yn cyfleu anwyldeb yw *mab-* yma.

526 **trathan** Dywedir yn GPC mai'r arddodiad *tra + tân* sydd yma. Ar *tra* 'uwchben' gw. GMW §238.

527 Cf. A45 uchod.

528 **hyt galan** Go brin mai dydd Calan a olygir. Dechreuai'r gaeaf i'r hen Gymry ar Dachwedd y cyntaf sef Calan Gaeaf.

529 **byrrllofya6c** Yr elfen gyntaf yw *bwr*, 'mawr'. Daw *llaw* o **law* a'r *v* olaf hon a gadwyd mewn ffurfiau megis *llofiog* a *llofrudd* (ar golli'r *v* derfynol yn dilyn *au* mewn geiriau unsillafog gw. LHEB, 416). Dyry GPC, 'â llaw fawr yn afradu, gwastrafflyd'. Y mae Thomas Parry yn cymharu'r gair â *llawir*, 'hael' (GDG, 525-6).

Am *hael byrrllofiog*, – *byrllawiog* dyry GPC '*prodigal, squandering, riotous, intemperate, wanton, lavish; extravagant; a prodigal person*'. Digwydd y ddihareb yng nghywydd Dafydd ap Gwilym i'r galon: 'Hon a wna, anrhegfa rhawg, / Hwyl berw llif,

hael byrlllofiawg' (GDG, 108.17-8) ac yn y darn hwn o gywydd
Gruffudd Llwyd i Dduw:

Rhoi a wna cedyrn yn rhwydd,
Er hirglod, aur i'w harglwydd,
A'i addo er blino'r blaid
A'i gynnull ar y gweiniaid.
Na roed neb, cywirdeb call,
Er gwst, aur ar gost arall;
Braint byr brwysg fydd rhwysg yrhawg,
Hwyl berw llif, hael byrlllofiawg.
A fo hael, gafael gyfun,
A hy, bid o'i dda ei hun.
(GGLI, 18.57-66)

Ym Mrut y Saeson dywedir hyn am Gwilym Goch: 'A h6nn6
aerlyna6d g6rthwynebedigyon gyghoreu. Ac aymrodes ydretheu ac
ymladeu. hael byrllafya6c athra6s achreula6n oed' (RBB, 397). Y
mae Henri Perri yn cymharu'r cybydd â'r *hael byrlllofiog* nes peri
bod yr ystyr yn berffaith eglur:

Y cybydh, a'r hael byrlhawioc, pob vn o honynt sydh ar bhei: gan nad
yw 'r vn o honynt yn arbher ei golud modh y dyleynt: am ei bod yn ei
gam arbher, ac yn ennilh cwilidh o dhiwrtho.
(Williams, G. J., 1930, 101)

Yn Llsgr. Peniarth 37 rhestrir 'Hael byr llouya6c a treulho y holl
da' ymysg y rhai na ddylid credu eu tystiolaeth (Wade-Evans,
1904, 147). Ymddengys mai epithet ydyw *hael byrlllofiog* yn yr
enghreifftau hyn oll.

- 530 **wela6r ... diala6r** Dwy enghraifft o ferf bresennol amheronol gyda'r terfyniad *-(h)awr* (gw. GMW §131)
Dyfynnir y ddihareb o destun B gan John Morris-Jones ac fe'i cyfieithir ganddo yn *Sun in January is not good to be seen, [in] March and February there will be retribution for it* (WG, 324). Ar ddiarhebion tywydd yn gyffredinol gw. Taylor (1985, 109-21).
- 531 **atuarchwerth** Am *adfarch* dyry GPC² 'Ceffyl wedi ei (hanner) ysbaddu, rhagfarch'. Ar werth march gw. Bleg., 90-1 a cf. y llinellau 'Haws i werin, mae'n sarrug, / Holl Gymru dalu gwerth dug, / Na thalu, 'm Duw a Theilo / A Chadfarch, werth ei farch fo' (GDLI, 69.31-4).
- 532 **Ki ch6yrnat** 'ci sy'n hoff o chwyrnu' meddai Ifor Williams (1912, 172) a chadarnheir y farn hon gan y wireb 'bit ch6yrnyat col6yn' (EWGP, VII.13c).
y beis Trosiadol yw *pais* yma am groen y ci. 'Ni'th fling llaw; bydd iach lawen; / Nid â dy bais am Sais hen' meddai Dafydd ap Gwilym am y carw (GDG, 116.41-2).
- 533 Ceir y ddihareb yn y gyfres englynion 'Eiry Mynydd' (EWGP, III.24c).
- 534 Cyngor doeth ynglŷn â'r hyn sydd weddus yn ôl pob tebyg yw'r ddihareb hon yn hytrach na chyfeiriad at unrhyw brotocol ffurfiol. Ond cymharer yr arferion ffurfiol a ddisgrifir yn y llyfrau cyfraith, e.e. fe ddylai'r pengwastrawd gydyfed â'r brenin ond ni ddylai gydfwyta ag ef: 'a'r penguastravt en seythuet ar llyn, canes keny delyo kytwytta ac ef, ef a dely kytyuet' (Ior. §8). Geill fod yma

ystyr drosiadol megis yn y ddihareb Saesneg, *Beware how you play with Lords* (PSPP, L440).

535 **ebr6ydet** Gradd gyfartal yr ansoddair *ebrwydd*, ‘buan’.

Digwydd y ddihareb hon yn yr englyn i fis Mai yn ‘Englynion y Misoedd’:

nid hwyrach mynd i’r farchnad
croen yr oen no chroen y ddavad
(EWGP, IX.5)

Mewn nodyn ar y llinellau hyn cyfeiria Jacobs (2003, 70) at yr hen bennill hwn:

Mae gyn amled ar y farchnad
Groen yr oen â chroen y ddafad,
A chyn amled yn y llan
Gladdu’r ferch â chladdu’r fam.
(Hen Benillion, 92)

Y mae cwpled olaf y pennill hwn yn cyfleu union ergyd y ddihareb: y mae’r ieuainc yn marw cyn amled â’r hen. Gwelir fod fersiwn A yn wahanol i fersiwn ‘Englynion y Misoedd’. Y mae fersiwn B491 yn wahanol eto. Dyfynnir ffurf lafar ddiweddar gan Fynes-Clinton (WVBD, 76).

Er nad yw Kenneth Jackson yn nodi hynny, y mae hon yn ddihareb gydwladol. Sylweddolodd Mary Burdett-Jones (1997, 44) hynny dro yn ôl. Cf. *Il va plus au marché peaulx d’aigneaulx que de veilles brebis* (Mor., 953); *As soon comes a young Sheep’s (lamb’s)*

skin to the market as an old (PSPP, S209); *Pelles agnine venales sunt ut ovine* (PSLMA, 21161). Ceir amrywiad arni gyda gwartheg a lloi yn lle'r defaid â'r wŷyn: *Aussi(s) tost meurt veiaux com vaiche* (Mor., 201; gw. yn ogystal MFPSPP, V15); *One finds at the Market more skins of calves than of kine* (PSPP, M385); *Tot fora terga boum, quot habent pelles vitulorum* (LSSM, T33).

Fe'i dyfynnir gan St Thomas More yn *A Dialogue of Comfort against Tribulation*:

But I know my lingryng not likly to last long / but out will my sowle sodenly some day within a while. And therfor will I with godes help (seme I neuer so well a mendid) neuerthelesse rekyn euery day for my last / for though that to the repressyng / of the bold courage of blynd youth / ther is a very trew proverbe / that as sone commeth a yong sheps skyn to the market as an old / yet this differens ther is at the lest betwene them / that as the yong man may happ sometyme to dye sone / so the old man can neuer live long

(Martz & Manley, 86.3-10)

Digwydd fersiwn y lloi a'r gwartheg mewn exemplum o waith Jacques de Vitry. Aeth mab uchelwr yn fynach heb yn wybod i'w rieni. Yn ei wyllt bygythiodd ei dad losgi'r fynachlog oni ddychwelai ei fab gartref. Cyfarfu'r ddau ac addawodd y tad y rhoddai ei holl diroedd ym meddiant ei fab pe dychwelai. Atebodd y mab ei fod wedi mynd yn fynach oherwydd arfer creulon a fodolai yn y wlad, sef bod yr ieuainc yn marw cyn gynted â'r hen:

Ita enim cito moritur vitulus ut vacca, ita cito moritur filius ut pater, puer ut senex.

(Crane, CXVI)

Yn y gerdd foesegol Hen Ffrangeg *Miserere* o waith Ancr
Molliens, a berthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg, ceir y ddau fersiwn,
y naill yn dilyn y llall:

He ! juvenes hom, ki, por jovente,
Iés de longue vie en atente,
Quant tu mires ten vis novel
Et dis ke en te fache gente
A seelé vint ans ou trente,
Caitis, tu portes faus seel.
Tu n'as mie consoil feel.
Cuides tu le mort si leel
Ke ele a ten seel s'assente?
On voit bien morir le veel
Devant le mere, et plus d'agnel
Ke de berbis sont piaus en vente.
(Van Hamel, 1885, 253)

Ymddengys fod y ddihareb hon i'w chael yn holl brif ieithoedd
Ewrop (SM I, 107-8). Y mae Samuel Singer (SM II, 93) yn
dyfynnu cyfieithiad Saesneg Jackson o fersiwn 'Englynion y
Misoedd' (SECNP, 73) ond y mae ei sylw ynglŷn â chyfnod y
ddihareb (*Auf keltischem Boden erscheint ein verwandtes
Sprichwort, aber erst im XV. Jh.*), serch mai dilyn Jackson y mae
yn hyn o beth, braidd yn rhy ochelgar yn fy nhyb i. Erbyn y
bymthegfed ganrif yr oedd tri fersiwn Cymraeg o'r ddihareb hon a
gallai hynny fod yn arwydd ei bod wedi hen ennill ei phlwyf yn y
Gymraeg. Yn anffodus collwyd y rhan o lsgr. Peniarth 17 a allai
fod wedi torri'r ddadl.

536 **odyn** Diben odyn yw llosgi neu grasu a diau fod perygl iddi losgi'n afreolus. Awgrymir hynny yn y llyfrau cyfraith: 'Puybynnac a adawo tan en odyn, ket boet gan arall y llosco, ac na kemero gret y gan e nep a crasso arney wedy ef, talhet e traean o weythret e tan hunnu' (Ior. §116). Yn ôl y Gyfraith rhaid oedd i wŷr y faerdref godi odyn ac ysgubor i'r brenin: 'Guyr e uaertref a deleant guneythur odyn ac yscubaur e'r brenhyn ac eu dywallu pan uo reyt' (Ior. §94).

537 Ar y terfyniad gorffennol 3 un. –wys gw. GMW t. 123. Diau mai 'gosod dan rwymedigaeth' yn hytrach na *rhwymo* ffisegol a olygir.

539 Yn y cywyddau ymddiddan rhwng Guto'r Glyn a Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rys y mae Guto bron yn gwahodd ateb gan y ddihareb hon:

Nid seythydd beunydd bennod
Y dyn ni wŷl ond un nod.
Y ci ni helio rhag haint
Onid carw, ef nid cywraint
(GGGI, lx.55-8)

Ni ddyfynnir y ddihareb yn y cywydd ateb ond dichon fod yma adlais ohoni:

Hyddgi da, hawdd ei gadw ef,
A ddilyn yr un ddolef.
Ar y gainc ni wŷr y gog
Ond un llais, edn lluosog.
(GGGI, lxi.15-8)

540 Ymysg ystyron disgwyl dyry GPC ‘cadw dan wylidwriaeth’ a ‘dal i edrych neu graffu’. Naturiol i’r gwyliwr gyrchu bryn er mwyn cadw llygad ar yr dyffryn islaw.

542 **Kyfrin** Digwydd fel enw, megis yn A708 isod, ond gwell yma yw ei ddeall fel ansoddair ‘dirgel, anodd ei ddeall, tywyll ei ystr’ (GPC).

543 **Kynnadyl** ‘Cyfarfod neu gynulliad (i drafod a setlo materion) ... dadl gyfeillgar’ (GPC). Trafodir y gair yn PKM, 102 ac fe’i cymharir â’r Wyddeleg *com-dál*.

544 **Kyngheussed** Gw. A30 uchod ac ymhellach ar *cyngaws* a *chynghawsedd* gw. GMWL, 94.

bra6t Dyry GMWL, 42 ‘judgment, legal decision’. Dyma’r elfen gyntaf yn *brawdwr*, ‘barnwr’. Mewn cyd-destunnau crefyddol – amherthnasol yma - yr ystyr yw ‘Dydd y Farn’. Gw. trafodaeth Hamp (1976) ar *brawd* a *barnu*.

Digwydd y ddihareb yn y Trioedd Cyfraith: ‘Tri ofer ymadra6d adywedir yn llys ac ny ffynnant. G6at kyn deturyt. A llys kyn amser. Achygha6s g6edy bra6t’ (WML, 125.24 – 126.1). Yn fersiwn Llyfr Blegywryd o’r triawd ceir ‘cof a chyghaws gwedy brawt’ (Bleg., 110.23-5). Rhestrir y ‘tri chof gwedy brawt’ yn Bleg., 120.19-26. *Ofer ymadrodd* yw *cyngaws wedi brawd* oherwydd nad oes ddiben dadlau wedi’r ddedfryd. Ar y cyfansoddair *brawt gyghaws* ‘dadl ynghylch dedfryd’ gw. Bleg., 105 a’r nodyn arno gan y golygyddion (222). Dyfynnir y ddihareb yn *Llyfr Cynog* ynghyd ag acsiom cyfreithiol arall, ‘llyssu tyst kyn noc amser’. Y maent ill dau yn ddefodau *difwyn* (h.y. ‘ofer’):

Llyssu tyst kyn noc amser, a chyghaßsed gþedy braßt –
llyna diuþyn dþy deuaßt; sef achos y maent diuþyn: am colli
o dyn y dadyl trþydunt.

(Cynog, 45; cf. yn ogystal Cynog, 12)

Ceir ffurf ddiweddarach ar y ddihareb, *dadl wedi barn*, gan Ellis Wynne (Cf. C175, C176). Nid yw'r cyd-destun o reidrwydd yn un cyfreithiol, ond gwelir mai natur ofer *dadlau wedi barn* a bwysleisir:

Nesa i gell yr edifeirwch rhywyr a'r dadl wedi barn, oedd
Garchar yr Oedwyr, a fyddei bþb amser yn addo gwellâu,
heb fyth gwplâu.

(BC, 92)

545 **Kyt** 'Er'. Arno gw. GMW §262; cf. 'Kyd bwyf drwc, byt drugar ditheu' (CBT, I27.12).

dybyd Dyfodol 3 un. *dyfod*.

ucher 'min nos'

547 Ceir y ddihareb hon yn y gyfres englynion 'Claf Abercuawg' (CLIH, VI.9c; EWSP, 449) ac fe'i cyfieithir gan Jenny Rowland yn *everyone remembers that which he loves* (EWSP, 497; felly hefyd CLIH, 165). Yng ngorhoffedd Gwalchmai ap Meilyr ceir y llinell 'Balch caen coed, bryd paþb parth yd garwy' (CBT, I.9.26) sydd, fe ddichon, yn adleisio'r ddihareb dan sylw (CBT I, 213, cyfeirir hefyd at yr adnod 'Canys lle y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd, Mathew 6:21). Am ddefnyddio *gan gyda certain*

nouns and adjectives to express some activity or attitude of mind
gw. GMW §208 (dyfynnir y ddihareb ymysg yr enghreifftiau).

- 548 **Kywala** Dyry GPC yr ystyron ‘Tebyg, hafal, cyffelyb; cystal, cydradd; un cyffelyb neu gystal’. Mae darlleniad A, felly, yn eglur a synhwyrol – un debyg i weddw yr gwraig unben (Nis gwêl oherwydd ei ddyletswyddau?). Anos yw darlleniad B247.
- 549 **gal6 yr ychen** Yn GPC o dan *galw* 2. ceir ‘Gyrru ychen wrth aredig a chanu iddynt wrth eu gwaith’. Ystyria Davies mai ymadrodd gogleddol ydyw cans o dan *cathrain* yn DD dyry ‘Dem. yw galw ychen’. Ymdrinnir a *gwneuthur cyfar* sef cytundeb i gydaredig darn o dir yn y llyfrau cyfraith a chyfeirir at ddyletswydd y *geilwad*: ‘Paub byeu duyn y defnydyeu y eredyc, nac ych na heyrn na petheu ereyll a uo ydau ... E geylwat a dele cayu arnadunt ual na bo ry geuyng arnadunt, ac eu galu mal na thorroent eu callon’ (Ior. §150). Yn ysgrif F. G. Payne, ‘The Welsh Plough Team to 1600’ (yn *Studies in Folk Life*, 235-52) eglurir mai gwaith y geilwad oedd cerdded wysg ei gefn o flaen yr ych gan ganu iddynt a sicrhau eu bod yn tynnu’r aradr yn gyson.
- 552 **yn lle** Ar y cyfuniad hwn gw. GMW, 218 ond yma perthynas enidol, mi gredaf, sydd rhwng *lle* a *hen danllwyth*. Heddiw dywedir ‘cynnau tân ar hen aelwyd’. Cf. A522 uchod.
- 553 **venn** ‘Trol’. Ffurf dreigledig ar *ben* neu *men* (amrywiad yw’r ail ar y cyntaf drwy ymglyfnwid *b-* ac *m-*).
- 554 **y vorwialen** Math ar wymon o’r rhywogaeth *Laminaria* (*morwial*, *morwyal* a geir yn GPC; unigol yw yn y ddihareb). Hwn

yw *kelp* neu *oarweed* y Saeson a welir yn crynnu o dan wyneb y dŵr. Melltith i bysgotwr traeth. Am Gwydion dywedir, ‘Ac yn y lle y guelas delysc a morwyal, hudaw llong a wnaeth’ (PKM, 79). Ceir nodyn cwta arno yn PKM, 274 lle y dywedir mai *myrwials* a glywir ar lafar.

555 **Keis** Os enw ydyw, yr ystyr ‘ymchwil’ a wedda orau yma. Llai tebygol yw Gorch. 2 un. *ceisiaf*.

m6ll6c *Mwlwg*, ‘Malurion, rwbel, ayyb’. Benthyciad o’r Saesneg *mullock* yn ôl GPC ond nis ceir yn EEW.

556 **Kaffat** Gorff. amhers. *caffael*.

557 **m6yn** Enw yw yma a’i ystyr yw ‘budd, lles’ (GPC) cf. *mwyniant*. Bydd gŵr arall yn cymryd y forwyn yn wraig a heliwr cyfoethog yn prynu’r milgi.

558 **Kynnel6** Ar y ffurf gw. HGC (121-4) a CA (198-9). Dyry DD *Idem quod Cynnal*. Yn GPC ceir ‘Cymorth, cefnogaeth, nawdd, budd, mantais; canmoliaeth, ffafr, moliant (noddwr)’. Ystyron tebyg a geir yn GBGG. Geill hefyd fod yn myn. pres. 3 un. y ferf *cynhelwaf* (GPC).

kinnyn Dyry GPC ‘dernyn, cerpyn, cadach’. *Cin* a therfyniad bachigol. Y *cin* hwn a roddodd yr ansoddair *ciniog* ‘carpiog’ (gw. IGE¹, 369), cf. ‘Pobyl ginhiawc’ (BBGCC, 3.9). Gellir yr ystyr ‘mymryn’ yn ogystal cf. ‘ni ddûg hwnnw ond cynhinion oddiarno ef’ (BC, 21).

gydechyn *Cadechyn*.

559 **Kl6m** Ceir enghreifftiau ohono fel ansoddair yn GPC.

560 **vntrewych** Dib. pres. 2 un. *untrewi*, ‘tisian’. Ar arwyddocâd *un trew* gw. A703 isod.

Ai’r ystyr yw y dylid gwylio rhag rhoi pwys wrth disian?

562 **Kaspeth** Cyfansoddair rhywiog o *cas* a *peth*, ‘peth a gaseir’. Yn yr Areithiau Pros ceir dwy araith ar gasbethau sef ‘Casbethau Ieuan Brydydd Hir’ (AP, 60) a ‘Chasbethau Owain Cyfeiliog’ (AP, 61) a thebyg iddynt o ran cynnwys yw ‘Casdrem Dafydd ap Gwilym’ (A, 59). Rhestrir ynddynt y pethau hynny a gaseir gan y rhai y tadogir yr areithiau arnynt, megis ‘krynnwas heb gamp / krynvarch heb rygyng / krynn avon heb pont’ (AP, 61). Tebyg yw’r *dewisbethau* (AP, 49-56; y mae Gwenallt yn cymharu’r *dewisbethau* â’r *gorhoffedd*, AP, xv) ond, yn naturiol, pethau a gerir a restrir yn yr areithiau hynny.

g6yr ruuein Gw. rhagymadrodd Henry Lewis i SDRh, 13-20.

Ymhellach ar y Saith Doethion gw. Curtius (1953, 210-1).

Darn byr o lên doethineb yw’r testun ‘Cas Bethau Gwŷr Rhufain’ a cheir copi o’r testun mewn sawl llawysgrif (P.103, P.155, P.216, P.327, Llan.117 a Pant. 216). Fe’i ceir hefyd yn DD, yn dilyn y Diarhebion, ac yn Brog. I.11. Dyma fersiwn Peniarth 155:

Kas bethav Gwyr Rhyfain

Brenhin heb ddoethineb.

marchoc heb provedigaeth.

Arglwydd heb gyngor.

Gwraic heb veistrolaeth gwr.

Kyffredin heb gyfraith.

Gwassnaethnyn heb ofn.

Tylawd balch.
Kyvoethoc heb alvssen.
Iestvs heb gyfiownder.
Esgob heb ddysc.
Hen ddyn heb ddyvossiwn dda.
Ievank heb ostyngedigaeth.
Doeth heb weithredoedd da.

563 **marchogaeth ffonn** Ar yr ymadrodd cf. y ddihareb Saesneg *He that has no Horse may ride on a staff (varied)* (PSPP, H511).
Noder nad yw'r ddwy yn gytrasau.

564 **yn yng** 'Mewn cyfyngder'.
g6elir Byddai'r ystyr 'barnu' yn gweddu'n burion hefyd (GPC).

Yr un yw fersiwn 'Englynon y Clyweit', 'kar kywir yn ing y gwelir' (Clyweit 27c) ond yn B331 ceir *yn yr yng*, felly hefyd yn y Llyfr Gwyn. O edrych ar yr enghreifftiau o dan *ing* yn GPC (2016), ymddengys fod *yn yr ing* (gyda'r fannod) yn ymadrodd cyffredin.

Dihareb gydwladol a geir yn gynnar yn y Saesneg, ymysg Diarhebion Durham: *Æt thearfe man sceal freonda cunnian*, gyda'r cyfieithiad *Amicus in necessitate probandus est* (Arngart, 1981, 291). Diau mai beiblaidd yw ei tharddiad ('Cydymaith a gâr bob amser: a brawd a anwyd erbyn caledi', Llyfr y Diarhebion 17:17) ond rhestrir sawl enghraifft glasurol gyfatebol yn SM (II, 53; III, 53-4). Cf. *Au besoing voit on l'ami* (Mor., 170); *Au besoing voit on qui amis est* (Mor., 171; gw. yn ogystal MFPSPP, A100); *A Friend in need (varied)* (PSPP, F634); *Asay yi frende er yu have nede / Cum non indigeas rerum tentabis amicum* (Whiting 1965, 278).

565 **moch** Ansoddair, 'buan', ond adferfol yw yma (GMW, 221).

ell6ng Myn. pres. 3 un. *ellwng*, ‘rhyddhau’.

Geill eiddil fod yn ansoddair neu’n enw yn y cyflwr genidol. Os yr ail sydd yma ystyr y ddihareb yw na eill yr eiddil glymu cwlwm cadarn mewn cortyn, detyd ei gwlwm yn rhwydd. Cf. ‘gna6t ar eiddil oualon’ (EWGP, VI.5c).

567 Gweithio ar y tir yw rhan y diriaid heb na moethusrwydd na diddosrwydd. Ar *tyddyn* gw. yr ymdriniaeth yn Col., 148.

568 Digwydd y ddihareb yn yr englynion gwirebol (EWGP, VII.6c). Y mae’n ddihareb gydwladol ac fe’i dyfynnir gan Chaucer:

Under a shepherde softe and necligent
The wolf hath many a sheep and lamb torent
(Whiting, 1934, 111)

Digwydd amrywiad croywach, na cheir mono yn Gymraeg, yn y casgliadau Ffrangeeg, Saesneg a Lladin: *A mol pastor leus chie laine* (Morawski 82; gw. yn ogystal MFPSPP, L82); (*Under a gentle Shepherd*) *the wolf shits wool (varied)* (PSPP, S241); *Molli bergario lupus cacat lanam* (SM I, 48).

570 **rybuchir** Myn. pres. amhers. *rhybucho*, ‘dymuno’.

Digwydd y ddiharen yn ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’:

aravo diffyd divennwir ydraa
kyfa rann rybuchir
(RBP, 1056.35-6)

Awgryma Jacobs (2004, 28) fod ystyr arbennig i'r ddihareb yng nghyd-destun y gerdd ac y dichon mai'r ergyd yw y bydd Duw yn mynnu tâl llawn.

- 571 **kas gan** Ar ddefnyddio *gan* + enw/ansoddair i gyfleu meddwl neu fynegi teimlad gw. A547 uchod.
m6yeri Yr elfen gyntaf yw mwyar, 'mwyar duon'. Yn GPC nodir y geill bod dylanwad *mieri* ar y ffurf. Yr ystyr yw 'mieri'.
- 572 **cretty** Dib. pres. 3 un. *credu*, cf. 'ny th6yllaf ui am crett6y' (WBM, 475.30-1; 'am cretto', RBM, 824.15).
- 573 Ceir y llinell 'kyuoet vyd da a detwyd' yn yr englynion gwirebol (EWGP, IV.27.11c) ac fe'i cyfieithir gan Jackson yn *the good and the fortunate will live to a like age* (SECNP, 63).
- 574 Y mae ystyr lythrennol y ddihareb yn amlwg - 'Storfa i arglwydd yw'r môr' – ond anos yw ei chyd-destunoli. Yn yr englynion saga ceir y llinell 'kell llyr kein ebyr gwyr glawr' (CLIH, III.6c; personola Llŷr y môr) ac y mae Jenny Rowland yn ei chymharu â'r ddihareb hon (EWSP, 553). Meddai Ifor Williams am y llinell: 'Felly cell llyr yw cell bwyd a diod fel un Llŷr, duw'r môr, neu fel y môr ei hun, mor llawn â'r eigion' (CLIH t. 118). Ai'r ystyr y ddihareb yw nad oes ball ar adnoddau arglwydd? Cf. y gymhariaeth yng Nghanu Taliesin, 'Val mor mwynuawr yw vryen' (CT, VIII.29). Ond dichon y dylid cysylltu'r ddihareb â hawiau'r arglwydd i froc môr (cf. A82 uchod).

- 575 **Kyt boet** Ar y cyfuniad hwn gw. TC, 317.

- 576 **Keugant** ‘Sicr, anochel’. Meddai Ifor Williams (1912, 170), ‘Y mae angau yn sicr, a chyn sicred a hynny, ystyr ceugant hyd Iolo Morgannwg oedd “sicr”’. Gw. GPC am ystyr *ceugant* ar ôl Iolo.
- 577 **Kyffes** ‘Celfydd’, fel yn yr enw Llew Llaw Gyffes. Trafodir y gair yn PKM, 275 a chyfieithir y ddihareb yno yn *There is skill, wherever a task is done easily*.
- 578 **kyn ny** Arno gw. GMW §262.
- 579 **Kymm6ythach** ‘Cellwair’. Ffurf ar *cymwedd* yw’r *Kymwedac* yn B345. Arno gw. Williams, 1923b, 36-9; a’r nodyn ar y llinellau ‘Kymwed y mae heneint / A mi o’ m gwallt y’ m deint’ o Gân yr Henwr yn CLIH, 106.
- sinnach** Dyry GPC iddo’r ystyr ‘person bychan’ yng ngyd-destun y ddihareb hon a dyfynnir cyfieithiad ac eglurhad John Davies i gadarnhau hynny:

Ioci (iocatio) Corrachî & Simachi. duorum sc. nanorum & pusillorum.
 Lat. Surdaster cum surdastro litigat.
 (Brog. I.11)

Pusillus gan hynny yw *sinach*, creadur bychan, eiddil. Nodir hefyd yn GPC ddau ystyr arall i *sinach*. Yr ystyr wreiddiol ond odid ydoedd ‘rhymyn o dir heb ei aredig’. Dyna’r ystyr yn y llyfrau cyfraith:

Messyr tervyn y rwg dav gantref naw troydved tervyn dav gymwt saith troytvvet tervyn dwytref pvmp troetved tervyn dwy randir tri throetvet tervyn dwy erw dwy gwys a hwnw aelwyr synach.
 (AL II, 268)

Gw. ymhellach sylw Williams, 1926b, 57. Datblygiad o'r ystyr hwn yw'r ystyr 'dyn diffaith'.

580 **Kyuarwydon** 'Dewiniaeth' (GBGG). Lluosog arall, *kyuarwÿdyeit*, a ddefnyddir pan feddylir 'arweinydd, chwedleuwr'.

581 **dotto** Dib. pres. 3 un. *dodi*. Am enghreifftiau o *dodi llaw gw*. GBGG, 381.

582 **Keneu yn y wal** Y mae'r darlleniad hwn yn gwbl ystyrllon a deall *gwal* = 'ffau'. Fodd bynnag, os ydys am gysylltu'r ddihareb hon â'r ddihareb gydwladol a grybwyllir isod gwell yw darlleniad B350, *Keneu mall*.

gast lem Rhestrir 'cyflym, buan' ymysg ystyron *llym* yn GPC a chyfetyb hynny'n berffaith i'r Lladin *festinans* a'r Saesneg *hasty*.

Dichon fod yma fersiwn o ddihareb gydwladol. Cf. *The Hasty bitch brings forth blind whelps* (ODEP, 356). *Canis festinans caecos parit catulos*. Gw. ymhellach yr amrywiadau yn SM (I, 53).

584 **Kywrys** Ymysg yr ystyron a gynigir yn GPC, 'chwannog i ymladd' a wedd orau yma. Y gwreiddyn yw *gwrys* 'brwydr' (cf. CA, 80).

am Gw. GMW §203. Yr ystyr yma yw 'yngylch'
karant Lluosog *câr*, 'perthynas, cyfaill'.

587 **asgre** 'Mynwes'. Yn B338 ceir *kesseil*.

588 **Keinmygir** Pres. amhers. *ceinmygu*, 'edmygu'. Ar y ffurf gw. CLIH, 100.

Ceir 'keinmygir pob kywreint' yn y gyfres englynion 'Claf Abercuawg' (CLIH, VI.12b; EWSP, 449) ac yn yr englynion gwirebol (EWGP, VI.2b).

589 **yssu** Dib. pres. 3 un. *ysu* 'bwyta'.

591 Lluosog yw'r *haelon* yn B344. Cf. 'Cyfnewid, heb fawrllid fydd, / A wnaif â haelion ufydd' (GGLI, 14.73-4).

592 Gw. A199 uchod.

593 Chwedl gydwladol am lygod yn bwyta haearn yw cefndir y ddihareb hon. Meddai Pack Carnes: *The Greek motif of flies eating iron is well known both as a proverbial phrase and as the subject of a number of fables* (Carnes, 1991, 56). Amrywiad ydyw ar fotiff llên gwerin X1342.3., chwedl am lyffant yn bwyta cwlltwr, (MIFL V, 529). Ergyd y ddihareb ydyw na all y cyfryw hanes fod yn wir. Felly y'i dehonglir gan John Davies sy'n nodi mai cyfeirio at gelwydd a wneir ynnddi (Brog. I.11). Ni phair yr amrywiad yn B349 (*yssu or ki*) unrhyw anhawster. Ceir ymdriniaeth gynhwysfawr â tharddiad a lledaeniad y motiff hwn yn yr iaith Roeg gan Papademetriou, 1970.

594 **vreuan** *Breuan*, 'melin law'.

595 **Kuall** ‘Cyflym’, cf. ‘Call a glew, cuall ei gledd’ (GIG, VI.66); ‘Cyllell hir cuall a llem’ (GIG, XI.7). Geill olygu ‘ffyrnig’ (cf. CBT VII, 198).

596 Diau mai fersiwn sydd yma o’r ddihareb gydwladol a ddyfynnir gan Chaucer (er mai *ci*, nid *arth*, a geir yn y fersiynau Ffrangeg a Saesneg megis yn y Lladin):

And for to maken othere be war by me,
As by the whelp chastised is the leon.
(Whiting, 1934, 109)

Cf. *Battre le chien devant le lion* (MFPSPP, C148); *By the Whelp the lion is chastised* (PSPP, W211). Syniad tebyg sydd yn y llinellau ‘Bwriad i gosbi eraill / Briwio’r llew er braw i’r llaill’ (GGG, xxxix.38). Cf. A681 isod.

Cyfeiria Tatlock (1923) at enghreifftiau o’r ddihareb a dywediadau cyffelyb mewn ysgrifeniadau Lladin. Digwydd yr enghraifft gynharaf yn *De Cain et Abel*, St. Ambrose:

Caeditur canis, ut pavescat leo: et qui sua injuria exasperatur, coercetur aliena, alteriusque exemplo frangitur.
(dyfynnir yn Tatlock, 1923, 507)

Y mae Brown & West (1940) o’r farn fod Chaucer yn cyfeirio at arfer gwirioneddol ymysg dofwyr llewod y cyfnod yn hytrach nag at y ddihareb, ond go brin. Gw. ymhellach SM III, 21.

597 Ceir cystrawen hŷn yn B99 ac yn fersiwn ‘Englynion y Clyweit’, ‘kafas da ny chaffo drwc’ (Clyweit 4c), gyda’r ferf yn y modd

dibynnol yn cyfeirio at y gorffennol (Williams & Parry-Williams, 1926, 16; GMW §124, *In subordinate clauses the present subjunctive occasionally has a perfect meaning*). Fe'i diweddarir gan Marged Haycock yn 'Y sawl na chafodd ddrwg, fe gafodd dda' (BBGCC, 31.4c).

- 598 **Lla6 lia6s** Ar ddatblygiad treigliad mewn enw genidol gw. TC §25. Cf. efallai, *Many Hands make light work* (PSPP, H62).
- 599 **kol6yn** Ymysg ei ystyron dyry GPC 'ci arffed' sy'n berffaith yma.
- 600 Dihareb gydwladol, cf. *Ou chaz n'a soriz i revele* (Mor. 1563; gw. yn ogystal MFPSPP, C93); *Mice lake (play) where no bads (cats) are (varied)* (PSPP, M736); *Insanire facit mures absentia catti* (LSSM, I98). Dyfynnir mynych enghreifftiau yn SM (I, 69-70).
- 602 **Llymaf** Gradd eithaf yr ans. *llym*, 'miniog'.
g6a6 Darllener *g6ae6* fel yn B365.
Llymaf ... oe vlaen Ar y gystrawen, lle y defnyddir *o* i oleddfu ansoddair gw. GPC o¹ 8.(b).
- 603 **ha6l** Myn. pres. 3 un *holi*. Ynghyd â'r ystyron sy'n gyffredin heddiw, dyry GPC 'Hawlio, mynnu; deisyf, ceisio; gofyn iawn, cyflwyno hawl (yn erbyn), erlyn, cyhuddo, edliw neu ddanod peth (i), herio'.
dyly Myn. pres. 3 un. *dylu* (GBGG *dylju*). Berf gyffredin yn y Llyfrau Cyfraith lle y geill olygu *to be entitled* neu *to be obliged* (Ior., 152). Yma gwell yw'r ystyr gyntaf, cf. GPC 'Bod â hawl, hawlio, teilyngu, haeddu, meddiannu'. Ceir mynych enghreifftiau ohono yn GBGG.

Dau ragenw mewnol sydd yn y ddihareb.

- 605 **kywestach** Dyry GBGG '(1) cyd, cydorwedd, (2) cymar, priod'.
Yr un yw gwreiddyn *kywest6ch* yn B370 (fe'i ceir yn LIT, 28.18-9, 'diga6n lla6rydedd kywest6ch abed'). Trafodir y ffurfiau hyn sy'n cynnwys y gwreiddyn *gwest* gan Ifor Williams (1923b, 41-4).
- 606 **ny cheid6 6yneb** Ar *wyneb*, 'anrhydedd', gw. A322 uchod. Ystyr *cadw wyneb* yw 'cynnal anrhydedd' cf. 'Heb cadvid. vynep heb ran vrdas' (LIDC, 17.201); 'y6yneb a gatwet kanweith' (LIT, 69.22-3).
- 608 Dichon mai cyfeirio at eiriau gweigion a wneir ond ni ellir diystyru cyfeiriad posibl at y traddodiad ynglŷn â chynneddf Math fab Mathonwy a'r Coraniaid (PKM, 68).
- 609 Amgrymu perthynas agos y mae'r ddihareb. 'Kyuarwyt uy llaw yn eu llewys', meddai Llywelyn Fardd II mewn awdl i Lywelyn ab Iorwerth (CBT, VI.7.12; gw. ymhellach y nodyn a y llinell hon, 112). Cf. yr ymadrodd *myndi fyny ei lewys* (WVBD, 344).
- 610 **bisswelyn** 'Baw, tom, gleuaden' (GPC). Sylwer mai tamaid o faw yw *bisweilyn*, o'i gymharu â *biswail* sy'n cyfleu swrn ohono. Y mae hon yn ddihareb gydwladol ond drewi yn hytrach na lledu a wna'r *bisweilyn* yn y fersiynau o'r ddihareb a geir yn y Ffrangeg a'r Saesneg. Cf. *Quant plus muet len la boë, et ele plus put* (Mor. 1757; gw. yn ogystal Mor. 410 a MFPSPP, M125); *The more one stirs a Turd (dirt) the more it stinks (varied)* (PSPP, T523), *Quando aliquis plus mouet merdam, plus fetet* (SM I, 40). Nodir sawl enghraifft yn SM (I, 40-1). Wele'r ddihareb yn ei chyd-destun yn y

Proverbes en rimes. Yr ergyd amlwg yw na ddylid ymyrraeth â chamgymeriadau rhag peri i bethau waethygu, gadawer hwy'n llonydd:

Qui se sent tort avoir
D'aucun cas bien estrange,
Ne le doit esmouvoir,
Ne s'en donner louange.
De mal en pis se change,
Pas n'y doit consentir,
Car plus brasse on la fange,
Et plus doit mal sentir.
(Frank & Millner, 1937, 46)

Yn y llawysgrif o'r *Proverbes en rimes* a olygwyd gan Grace Frank ceir torluniau bychain uwchben y penillion yn egluro'r diarhebion sydd ynddynt. Uwchben y pennill hwn darlunnir dyn â throsol yn prysur-droi tomen dail a chlyffiau o dail yn ymledu i bob cyfeiriad.

611 Cf. B330.

612 **anaele** 'dolur'.

Heddiw dywedir 'pawb a'i fys lle bo'i ddolur'.

613 **Lleturyt** 'Tristwch' fel yn y llinell 'megyt tristit lleturyt llwyr' (EWGP, III.23c), ond sylwer fod GPC yn cynnig sawl ystyr arall megis 'gwallgofrwydd' a 'llesgedd'.

615 Yn yr englynion gwirebol ceir y llinell 'Bit laßen meichyeit 6rth ucheneit g6ynt' (EWGP, VII.2a). Meddai Ifor Williams, 'Pan

ddaw'r gwynt i ysgwyd y deri, disgynna cawodydd o fês er llondid i'r moch a'r meichaid' (1912, 174). Cyffelyb yw eglurhad T. J. Morgan (1974, 20).

616 Gwireb ac arwydd tywydd. Yn yr englynion gwirebol ceir 'llyw in awon; hinon uit' (EWGP, I.17c). Fe'i cyfieithir gan Jackson *yn flood in the river; there will be fine weather* (SECNP, 52). Cf. yn ogystal 'dybyd hinon g6edy gla6' (RBP, 1055.18).

617 Ffurf wallus ar A627 isod.

619 **ny garer** Disgwyliid i'r gytsain *c* dreiglo'n llaes ar ôl *ni* ond ceir enghreifftiau o dreiglo *c*, *p*, *t*, yn feddal ar ôl *ni* perthynol mewn testunau cynnar (TC §131).

621 **Ll6yt** 'Sanctaidd'. Fe'i ceir am y Saint ac am Dduw (GBGG). Digwydd hefyd yn drosadol am henaint ac estyniad o hynny yw'r ystyr 'doeth' sydd iddo weithiau.

Amrywiad yw hon ar ddihareb a geir yng 'Ngosymdaith Llefoed Wynepglawr': 'll6yt ac annwyt ny gymyd' (RBP, 1055.33; diwygier yn *ny chymyd*, gw. Jacobs, 2004, 20)

622 **dida6l** Myn. pres. 3 un *didoli*.

623 **Lledit** Hen ffurf annibynnol myn. pres. 3 un. *lladd*. **ny diuyd** Yn B359 ceir *n6y diuyd*. Cynnwys y *n6y* hwn, sy'n digwydd mewn cymalau perthynol, eiryn negyddol a rhagenw mewnol 3 un. (GMW, 55-6). Myn. pres. 3 un. *diuot* yw *diuyd*. Am *diuot* dyry GBGG 'ba. dwyn ymaith, dileu, dinistrio; ? *bg*.

ymadael, myned ymaith, diflannu' megis yn y llinell 'Credaf da ny diua, ny diuyd' (CBT, III.3.201). Yn GPC ceir 'bod i, perthyn i'. Ymellach ar y ffurf gw. Williams (1969).

625 **Lleas** Enw, 'marwolaeth'

rydynghir Y geiryn rhagferfol *rhy* + *myn*. pres. amhers. *tynghedu*. Gw. y nodyn ar y cyfuniad hwn yn CA, 359.

Ceir y ddihareb yn yr englyn hwn o'r gyfres 'Englynion y Beddau':

En eiwonit elvit tir.
y mae gur hyduf hir.
lleas paup pan rydighir
(LIDC, 18.194-6)

Each one's death comes at the fated time yw cyfieithiad Thomas Jones o'r llinell olaf (1967, 131). Cf. yn ogystal y llinell 'pawb pan ry dyngir yt ball' (CA, Gwarchan Adebbon, 1325)

626 Arferid defnyddio crwyn anifeiliaid i orchuddio ffrâm bren coryglau a byddent gryn dipyn yn drymach na choryglau diweddar (a orchuddir â chynfas neu wlanen) o'r herwydd. Dywed J. G. Jenkins y byddai pwysau corwg trwm o groen yn cyfiawnhau'r ddihareb (1988, 6).

627 Camddeallwyd y ddihareb hon yn A617 uchod.

628 **Lleis** Yn B373 ceir *lleis*.

630 **Moes** 'arfer', cf. 'Moes yw genhym ni, Arglwydd' (PKM, 69)

Dihareb gydwladol y ceir sawl amrywiad arni. Cf. *When at Rome do as (after) the doom* (PSPP, R184; gw. ymhellach Taylor, 1985, 40-1).

631 **Mal un oll** Yn B376 ceir *Mal y mollt* sy'n rhoi gwell ystyr, er nad yw ergyd y ddihareb fymryn eglurach.

ieud grugunan Ceir dau gyfeiriad at *Grugunan* yng ngwaith Cynddelw: 'Keidweid greid Grugunan lys' (CBT, III.28.24; cyfeiriad at Blas Gregynog meddir, 357); 'Grugunan rwyuan rut onnen' (CBT, IV.6.26). Cyfeirir at 'ysgwyt rugyn' yn y Gododdin (CA, LI.587) ac yng ngwaith Cynddelw, 'Ysgwyd (t6nn tal) Rugun' (CBT, III.16.224), ac enwir *Grugun* yn nhraethawd Siôn Dafydd Rhys ar y cewri (Owen, 1917, 138). Digwydd *Grugun*, wrth gwrs, yn enw ar un o foch y Twrch Trwyth (CO, 1083; gw. ymhellach Rhys, 1901, 515; WCD, 297). Cyfeiria Williams (1930, 227) at yr enw *Grugunan* yn ei ymdriniaeth â'r enw lle, Gregynog. Cesglir mai rhyw wron chwedlonol ydoedd, megis Hiriell, na wyddom nemor ddim amdano. Y mae darlleniad B376 beth yn wahanol, *g6rgunan* a geir yno. Digwydd yr enw *Gargvnan* (darll. *Gwrgunan* ?) mewn fersiwn diweddar o Fonedd y Saint ond dywed Bartrum mai gwall ydyw am Garmon (WCD, 334, 589). Yng nghyswllt fersiwn B376, dywed John Davies mai enw lle yw *Ieud Grugunan* (*Ieud Grug. est nomen loci, in quo oues depasci solebant*).

632 Ceir sawl cymhariaeth ddjarhebol debyg yn PSPP: *As blithe as Bird on bough* (PSPP, B289); *As blithe as Bird in brier* (PSPP, B290); *As gentle and jolly as Bird on rice ([twig], bough)* (PSPP,

B291); *As light as Bird on bough (brier)* (PSPP, B294); *As merry as Bird on bough* (PSPP, B296).

634 **drycuonhedic** Dyry GPC ‘Crachfonheddwr’ ond o’r ddihareb hon y daw’r unig enghraifft o’r gair.

a eich Yn B379 ceir *ar y ueich*; yng nghasgliad Llyfr Gwyn Rhydderch ceir *am veich*; ac yn C572 *ai vaich*. Ymddengys felly mai ffurf dreigledig *baich* sydd yma. Digwydd *baich* yn aml yn drosiadol am *faich* o bechod (GBGG).

636 **cogeil** ‘Ffon nyddu’ (GPC) ond digwydd hefyd am linach fenywaidd: ‘A guedy dyffody tadues e urenhynyaeth e kauas enteu hyhy o cogeyl, urth y uot en vyr e’r brenhyn’ (Ior., §90).

g6reic uusgrell Os yw’n gyfystyr ag *eiddil*, cf. A509 uchod, ond geill olygu ‘araf’ (dyry DD *Tardum ingenium* am ‘Synwyr musgrell’ a cf. ‘ny bu uuscrellach gwr ar y ssynnwyr e hun nog ry uuost ti’, PKM, 14).

637 **ffa6ydd** Coed ffawydd. Bwyty moch y cnau.

638 **medel** ‘Mintai o bobl yn torri ac yn casglu’r cynhaeaf’ (GPC).

mochdurrya6c Digwydd y gair yn llinell gyntaf ‘Gorhoffedd’ Gwalchmai: ‘Mochdwyrea6c huan haf dyfestin’ (CBT, I.9.1) a cheir rhai enghreifftiau yn Y Gododdin:

Moch dwyreawc y more (CA, LXX.855)

Moch dwyreawc y meitin (CA, LXXI.869)

Am *mochddwyreog* dyry GPC ‘Yn codi’n fore’ (Cf. *moch* ‘buan’ yn A659 ac A685 isod a’r nodyn ar linell Gwalchmai yn Hughes, 1910, 63). *Dwyreog* yw’r ail elfen (cf. *dwyre/dwyrain* ‘codi’, *arwyrain*; CA, 118, 243).

Bydd y medelwyr yn codi’n gynnar pan fo hi’n heulog.

639 **gwr ath** Yn B383 ceir *gbrach*, amrywiad sy’n enghraifft o gamddarllen *t am c*.

640 **y ar** Yr ystyr yma yw ‘from upon’ (J. E. Caerwyn Williams, 1948, 6).

Dihareb gydwladol, cf. *Ung cheval a quatre piés chiet* (Morawski 2449); *A Horse with four feet may stumble* (PSPP, H514). Yr ystyr yw fod y perffeithiaf yn methu weithiau. Dyma enghraifft o waith Lydgate:

So it be doon with supportacioun
Off ther goodnesse to be favourable,
Nat to pynche of indignacioun,
Which wer to me verray importable.
And ye, my lord, for to be mercyable,
Off your hyh gracemy good wyl to considre,
An hors with foure feet may stoumble among and slydre.
(Bergen, 1924-7, 1015, 3380-6)

642 **kae** Nid y tir caedig ei hun, fel heddiw, ond y gwrych sy’n ei amgáu. Gellid cymharu datblygiad semantig y gair *drws*.

Digwydd y ddihareb yng nghywydd Dafydd ap Gwilym, ‘Trech a gais nog a geidw’. Y mae’r bardd yn gweld y ferch a ddeisyfir ganddo ond nid yw’n gweld y rhwystr:

Tebyg iawn o fawrddawn fudd,
Em fawrfalch, wyf am Forfudd
I’r march a wyl o’i warchae
Y ceirch, ac ni wyl y cae:
Minnau, heb ochel gelyn,
A welaf ddiweiriaf ddyn,
Ac ni welaf, hyaf hawl,
Ei du gymar, deg emawl.
(GDG, 72.23-30).

644 Dihareb Sbartaidd iawn. Ni fyn y *diog* gerdded a bydd y *glwth* yn llenwi ei grombil â chig yr helfa.

646 **ae gola** Am *cola*, ffurf ar *col*, dyry GPC ‘Tyfiant pigog ar flaenau gronynnau haidd a cheirch ... pig, pigyn, pigau’ (gw. ymhellach GBGG). Yn B388 ceir y *ar gollen* (sef ffurf unigol yr enw torfol *coll*¹, GPC, llu. *cyll*).

Anodd cysoni’r darlenniadau a chael dihareb ystyrion ond geill mai ffurfiau llwgr ar fersiwn Gymraeg o ddihareb gydwladol sydd yma. Awgrymaf yn betrusgar y gellid ffurf wreiddiol megis *mel y ar gola*, ffurf y gellid ei chymharu â’r ddihareb *Il fait mal lescher mel sus espyne* (Morawski 880); *Molt achate myel qui sor espines le leche* (Morawski 1308; cf. MFPSPP, M152); *To lick Honey from thorns (varied)* (PSPP, H439). Y mae’r ddihareb yn hen yn y Saesneg, fe’i ceir cyn y *Proverbs of Henryng*. Gw. ymhellach SM (III, 133). Yn achlysurol y mae’r fersiynau Cymraeg o ddiharhebon

cydwladol yn fyrrach na'r fersiynau Ffrangeg a Saesneg a cheir 'hanner dihareb' yn A650 ac A1056 isod.

647 Crybwyllir y coel sydd wrth wraidd y ddihareb hon mewn cywydd i ofyn hwrdd gan Ruffudd Hiraethog: 'Y mae coel, heb ddim celwydd: / Ei lwdn fal y dyn a fydd' (GGH, 112.85-6).

650 **llyffan** Amrywiad cyffredin ar *llyffant*.

Y mae hon yn ddihareb gydwladol ond gwelir bod y fersiwn Cymraeg yn fwy cryno na'r hyn a geir mewn ieithoedd eraill. Cf. *Dahez eient tanz meistres, dist le crapod a l'herce* (Morawski 446; MFPSPP, C338); *The Toad (frog) said to the harrow, "Cursed be so many masters (lords)"* (PSPP, T344); *Herpica ut horridulam triuisset forte rubetam, "Tot colaphos, quot", ait, "dominos contingit habere"* (SM i, 105). Digwydd y ddihareb yn 'Ymddiddan y Corff a'r Enaid', cyfieithiad rhyddiaith Cymraeg Canol o ran o *Dialogus Inter Corpus et Animam*, cân a briodolir i Wallter Map:

ac wedy y ddrycarteithyaw velly y dyevyl a ddywedassant wrthaw vel
hyn// llyma yr enrhydedd a gaffant yrrei a wassanaethant ynni// a
thydi a elly ddywedyt yrrewr hon// vel y llyffan am yr og// a thy a
ddyoddevy y kant kymeint ac a ddyoddeveist.
(Williams, 1945-6, 188)

Y cymal perthnasol yn y Lladin yw *nec dum potes dicere sicut bufo crati*.

Ynghyd â chyfieithiad o'r ddihareb (*Vt rana sub crate*) dyry John Davies yr eglurhad, *Vnde difficulter exit* (Brog. I.11).

651 Arferid *rhaw fiswail* yn drosiadol am gynorthwywr (GPC). Yn DD o dan *mediastinus* ceir ‘Llabwst o ddyn i wneuthur pob gwaith budur fel rhaw fiswail’.

652 **difen6** Myn. pres. 3 un. *difenwi* ‘bychanu’.

654 A oes gysylltiad rhwng y ddihareb hon a’r ddihareb Saesneg, *The Owl to the stone and the stone to the owl but ever abides the silly owl* (PSPP, O70)?

657 **chwileryn** ‘Sarff’

Ceir y ddihareb hon gan Ddafydd ap Gwilym yn ei gywydd i’r ‘Mab Maeth’: ‘Meithrin chwileryn gwyn gwâr / I’m mynwes o serch meinwar’ (GDG, 104.19-20). Digwydd hefyd mewn cywydd ymryson o waith Syr Dafydd Trefor: ‘Meithrin chwileren ennyd / Mewn mynwes gynnes i gyd / Oedd dy gael uwchlaw’r aelwyd, / Eginyn bardd, i gnoi bwyd’ (Lewis, 1957, II.49-52). Cf. *Adder (Serpent) in the bosom* (PSPP, A42). Trafodir tarddiad y ddihareb yn Taylor (1985, 31). Chwedl am anifail anniolchgar a bradwrus sy’n sail iddi, cf. motif llên gwerin J1172.3 (MIFL IV, 84). Edrydd Thomas Prys o Blas Iolyn fersiwn o’r chwedl hon yn ei ‘Gowydd i Gydymaeth Ffâls’ (Cefn Coch, 46).

658 Cymhariaeth ddjarhebol gyffredin, cf. *Etre heureux comme le poisson dans l’eau* (MFPSPP, P226).

659 **mab h6yat** Geill *mab* olygu ‘epil anifail’, GPC. Buan y dysg cyw hwyaden nofio.

660 Disgrifiad o arglwydd a geir yn y llyfrau cyfraith ac a ddyfynnir yn aml yng ngwaith y Cywyddwyr. Digwydd deirgwaith yn Llyfr y Damweiniau. Ceir yr ymadrodd yn un o'r trioedd cyfraith:

Try cadarn byt, argluyd a drut a dydym; sef achaus yv, maen dros yaen eu argluyd; sef ev drut, dyn enuyt ac ny ellyr cemell dym arnau namyn y hewyllys; dyn dydym essef ev hunu dyn heb dym da ydau, ac urth hynny ny ellyr en lle ny bo.

(Dam.Col., §135; gw. hefyd WML, 139.15-9)

Ni all y dyn dall ddamdwng gan na wêl, ond geill arglwydd gynnal ei hawl i eiddo:

Ny dyly dall damdug, cany deleyr en absen guelet ac na wyl enteu e peth a damdygho; a chyn ny welo ef damdug herwyt keureyth, ef a dyly gerru, ac o gerr ef, argluyd a eyll bot en uaen dros yaen a pery ydau e da os myn.

(Dam.Col. §307)

Mewn achos o fechni gallai arglwydd roi cennad i fach wystlo ei ran ef o gydeiddo:

O deruyd y dyn rody mach ar deleet y arall ac na bo ydau nam[yn] da eget, a tebygu o'r mach deleu guystlau hunnu ohonau, keureyth a uarn na deleyr y wystlau; argluyd eyssyoes a eyll bot en uaen dros yaen a canhyadu e'r mach rannu e da a guystlau o'r ran y kenogyn dros y uechnyaeth.

(Dam.Col. §344; gw. hefyd Cynog, 73-4)

Awgryma Dafydd Jenkins (1986, 249) y dylid deall *dros* ='yn lle' yn y ddwy enghraifft olaf.

Y mae Timothy Lewis yn anghywir yn trin *maen* fel cytras y Lladin *magnus* neu fenthyciad ohono (GMWL, 212) cans trosiadol yw *maen* yma (fel yn A232 uchod, efallai). Beirniadodd Ifor Williams ymgais Timothy Lewis i esbonio'r ddihareb, ac y mae ei eglurhad yn un golau: 'Y mae iaen neu rew yn wannach na maen, 'carreg', ni ddeil gymaint o bwysau. Dyna yw arglwydd, y mae fel maen cadarn i ddal y pwysau, rhag llethu'r gweiniaid sy dano' (Williams, 1914, 68).

Arall yw dehongliad E. Bachellery. Gan bwyso ar eglurhad John Davies ar yr ymadrodd 'Maen dros iaen yw Arglwydd', *quod libet licet* (DD o dan *iaen*), dehongla Bachellery y llinellau o waith Gutun Owain sy'n adleisio'r ddihareb fel hyn: *d'un bout à l'autre de la Galles du Nord Tomas Salbri glisse comme pierre sur glace, c.-à-d. qu'il est maitre de tout le pays sans obstacle ni résistance* (OPGO, 301). Y mae'n ddehongliad gwreiddiol ac atyniadol oherwydd rhyddid yr arglwydd i ddewis gweithredu neu beidio a bwysleisir mewn dwy o'r enghreifftiau yn Llyfr y Damweiniau. Y geiriad yw 'argluyd a eyll', ac y mae'n eglur y geill yr arglwydd yn ogystal ddewis peidio a bod yn *faen dros iaen*.

Arferir yr ymadrodd yn gyffredin yng ngwaith y beirdd i ddisgrifio noddwr cadarn: 'Ymwardwr mawr ydoedd: / maen dros iaen, myn Duw, Rhys oedd' (GLM, liii.59-60); 'Maen dros iaen, myn Andras, wyd' (GGGI, xlvii.8); 'Un maen dros iaen ar draws art' (GOLIM, 22.5); 'I'w fyw odiaeth ef ydoedd / Faen tros iaen, yfentrus oedd' (GST, 36.51-2); 'F'âi, er rhoi fore a hwyr, / Yn faen tros iaen trwy synnwyr' (GITI, 1.39-40); 'Mewn cyfoeth, man y cofiwyd, / Maen dros iaen, min y drws wyd' (GITI, 10.57-8); 'Ym mhedeirsir mae d'arswyd / A maen tros iaen, mentrus wyd!' (GITI, 22.59-60); 'Meibion glewion a glywir / Yn faen dros iaen drwy y sir' (GLD, 7.49-50; ceir yr un cwpled yn GLD, 26.55-6); 'maen dros iaen man

dyrys wyd' (Pen. 67, LXXV.2). Aralleiriad sydd yng nghwpled Gutun Owain: 'Aer Tomas, o'r tu yma / I Vôn draw, sydd vaen dros ia' (OPGO, lviii.3-4). Gw. yn ogystal yr enghreifftiau pellach yn GPC.

Unsill yw *iaen* yn yr holl enghreifftiau uchod o waith y cwyddwyr. Yn yr hengerdd ac yng ngwaith y Gogynfeirdd, fodd bynnag, y mae'n aml yn ddeusill megis yn y llinell 'Ma'bs, massarn cadarn, callon yaen' (CBT, III.24.115, yr odl yw *-en*). Gw. ymhellach CLIH, 194.

- 661 Cyfleu llafur ofer a wna trosiadau o'r math hwn mewn diarhebion. Dywed Tudur Aled am ferch, 'Nid oedd elw im dy ddilyn ... Nid af a'r gogr i'r afon' (GTA, cxxiv.43-51) ac yn yr un modd, Sypyn Cyfeiliog: 'Nid nes, hanes ei hwyneb, / Yw cael bun yn un â neb / Nag ydoedd gael i'n ael ni / Ddwfr mewn gogr o Ddyfi' (GSCLLM, 3.41-4). Cyffelyb yw ergyd y llinell 'Ni chyrchaf ddŵr dros afon' (GGGI, lxi.25).

Dihareb gydwladol, cf. *Len ne doit ja porter l'esve a la mer* (Mor. 1487). Gw. ymhellach SM (III, 41-2). Brith a chymysglyd braidd yw'r enghreifftiau a roir yn PSPP dan y ddihareb *Water through (in) a sieve (varied)* (PSPP, W86) ond dengys dyfyniad o waith Thomas Norton ymhlith yr enghreifftiau ystyr y ddihareb: *Else all their laboure shall them let and grieve, As he that fetcheth Water in a Sive.*

- 662 **yr breid** Y mae *praidd* weithiau'n fenywaidd.

bot ar wall Yn GMW §204 dywedir am yr arddodiad *ar*, *It is extensively employed in various expressions which denote manner or condition*. Rhwir sawl enghraifft megis *ar frys*, *ar fyrder*, *ar*

gam. Am *ar wall* dyry GBGG ‘yn ddiymgeledd, wedi ei ddibrisio; mewn angen neu eisiau; yn wallus, yn ddiffygiol’. Y mae Ifor Williams (CLIH, 91) yn barnu mai ‘neglected’ yw’r ystyr yn y llinell ‘Dimiaw y hadaw ar wall’ (CLIH, I.38c).

tywysa6c Nid ‘mab i frenin’ ond ‘tywysydd’. Yr *enderig* sy’n arwain y *praidd*. Trafodir tarddiad *tywys*, *tywysog* (Hen Wyddeleg, *toíseach*) yn CA, 282-3.

Cf. A997 isod.

- 663 **egroes** ‘Ffrwyth y rhosyn gwyllt, grawn mieri Mair, aeron marchfieri, *Rosa canina*; marchfieri, mieri Mair, ogfaenllwyn’, GPC. Amdano dywed Salesbury, ‘Coet y rhos gwylltion sef yr Egroes a ddwc hefyd phrwyth o gnapiæ mwsogloc y rhain a werth y Potecarieit pheilsion yn lle Bedegar, ac a ddwc phrwyth all crwn yn wÿn yn y dechre ac yno rhudd wyn vydd’ (Edgar, 1997, 124).

Edrydd chwedl werin gydwladol am lwynog, na allai gyrraedd grawnwin, yn honni eu bod yn surion. Dyma gefndir y ddihareb Saesneg *The Fox said the rasins are sour* (PSPP, F597) a roes fod i’r ymadrodd *sour grapes*. Motif llên gwerin J871 sydd yma (MIFL IV, 61).

Diddorol yw sylwi fod Rhys Goch Eryri yn cymharu lliw’r *egroes/ogfaen* â phais y *llwynog* mewn awdl ddychan i’r *llwynog*:

...tyfodd o’i din ym min maes
traws leu-groen trosel egroes.

Egroes-ffagl carddagl cerddawdd gwtterau
y creigiau a’i crygodd,

egr bysser gŵyrder, gwêr-dawdd
ogfaen-lliw bais, rhyd clais clawdd.
(Gwyn. 3, 168)

664 **ryt** Dyry GPC *rhyd* (b) ‘Cyfle, lwc (dda); ?braint’. Trafodir y ffurf yn CA, 143-4 (yr elfen hon sydd yn *anrhydedd* meddir). Yn yr enghreifftiau a nodir yn GPC a CA cyplysir *rhyd* yn aml a ffurf ar y ferf *cael*. Tebygaf fod *cael rhyd* yn gyfystyr â *chael cyfle*.

665 Cf. ‘Kynt y redei pann dosturyit ac ysparduneu noc yd ehedei y saeth o’r llinin’ (YCM, 56.4-6). Ceir digon o ymadroddion diarhebol tebyg yn y Saesneg megis *As swift (swiftly) as an Arrow* (PSPP, A186).

668 **Marth** Dyry GPC ‘Tristwch, gofid, ?rhyfeddod neu syndod poenus, braw; ?mefl, gwarth’. Trafodir y ffurf gan Ifor Williams (1928b; gw. hefyd CA, 68 lle y dyfynnir y ddihareb hon). Yng ngoleuni fersiwn C604 o’r ddihareb hawdd credu fod yr ymadrodd *marth i* yn gyfystyr â *mefl i* (gw. PKM, 115), cf. ‘Marth i’r budrbeth atethol’ (GDG, 65.49); ‘marth ida6 am nath lada6d’ (YBH, 2581-2). Fodd bynnag, o ystyried y fersiynau o’r ddihareb a geir mewn ieithoedd eraill, byddai’r ystyr ‘gofid’ yn taro’n well.

Dihareb gydwladol, cf. *La souriz est mauvese qui ne set c’um pertuis* (Morawski, 1035); *Dahez ait la soriz qui ne set c’un pertuis* (Morawski, 449; a MFPSPP, S119); *A Mouse that has but one hole is not worth a leek* (PSPP, M739); *Mus miser est, antro qui tantum clauditur uno / Infelix mus est, cui non uno lare plus est* (LSSM, M93). Trafodir amrywiadau mewn amryw ieithoedd yn SM (I,103-

4). Cyfleir cyd-destun y ddihareb yn y llinellau hyn o'r *Roman de la Rose*:

Mout a souriz povre secours
Et fait a grant perill sa druge
Qui n'a c'un pertuis a refuge.
Tout ausi est il de la fame
Qui de touz les marchiez est dame
Que chascuns fait pour li avoir:
Prendre doit partout de l'avoir
Car mout avroit fole pensee
Quant bien se seroit pourpensee,
S'ele ne vouloit ami que .i.;
Car par saint lyephart de meun,
Qui s'amour en un seul lieu livre,
N'a pas son cuer franc ne delivre,
Ainz l'a malement asservi.
Bien a tel fame desservi
Qu'ele ait assez anui et paine,
Qui d'un seul homme amer se paine.
(Strubel, 1992, 13154-13170)

Cyffelyb yw ergyd y ddihareb yn chwedl y *Wife of Bath* yn *The Canterbury Tales*. Adwaenai Dame Alice ei phumed gŵr cyn marw o'r pedwerydd cans yr oedd ganddi yn wastadol ŵr wrth gefn:

I holde a mouses herte nat worth a leek
That hath but oon hole for to sterte to,
And if that faille, thanne is al ydo.
(Whiting, 1934, 94)

- 669 Dysg y diarhebion y dylid gwastrodi meibion annisgybledig. Cf. ‘Yr hwn a arbedo y wialen, sydd yn casáu ei fab: ond yr hwn a’i câr ef, a’i cerydda mewn amser’ (Llyfr y Diarhebion 13:24). Ceir fersiwn odledig yn C563.
- 670 **aelaŏt** Gwall am *aelŏyt*?
- 671 **peillant** Ni cheir y gair yn GPC ond geill fod yma amrywiad ar *peilliaid* ‘blawd’ ac mai amcan y ddihareb yw cymharu lliw’r blawd â chroen Indeg. Dyna eglurhad John Davies: *Vt pollen ipsi Indeg. similis se colore. Fuit Indeg fæmina pulcher[a]*.
indec Enw personol. Ar Indec verch Arwy Hir gw. TYP, 412-3 a WCD, 389. Cyfeirir ati yn fynych yng ngwaith y beirdd. Yr oedd ei thegwch yn ddiahebol. Cf. ‘eiry hoen am verch arwy hir’ (RBP, 1326.18)
- 673 Dihareb feiblaidd. Cyfeirir at Lyfr y Diarhebion 26:4, ‘Fel y drws yn troi ar ei golyn, felly y try y diog yn ei wely’.
- 674 Edrydd *exemplum* o waith Jacques De Vitry hanes ab yn diengyd rhag helwyr a phwysau ei chenawon yn ei llesteirio (Crane, 1971, 9). Ceir yn ogystal chwedl werin gydwladol am ab a gais ddiengyd gyda’i hoff genau, motif llên gwerin L146.1. (MIFL V, 14). Ond cf. hefyd y ddihareb gydwladol *Le singe pense que ses petits sont les plus beaux de tous autres* (MFPSPP, S97); *The Ape thinks her own babes beauteous* (PSPP, A138). Maentumia Chotzen (1927, 330) fod dau adlais o’r ddihareb dan sylw yn y llinellau hyn o waith y Cywyddwyr: ‘Y câr fi, rhi rhywogaeth, / O châr yr âb ei mab maeth’ (GDG, 43.9-10); ‘Gwychach gan serchog achul / No chan yr âb ei mab mul’ (GIG, XI.85-6).

- 675 Cf. A976 isod.
- 676 **[g]aran** ‘Crëyr’.
d6ygoes Gw. y nodyn ar *d6ygeill* yn A483 uchod.
- 677 **hemyc** Amrywiad ar *humog*, ‘Bat, rhaced’, GPC. Cf. hefyd *human* a *humig*.
- 678 **Malaen** Arno gw. A28 uchod.
- 679 **gyfreion** Lluosog *cyfrei*. Y mae ei ystyr yn ansicr. Dyry GPC ‘?Cyfoeth, golud; ?tennyn, cynllyfan’, gan ei gysylltu â rhei, ‘cyfoeth’ yn y naill achos a ‘cyfrwy’ (cf. y Llydaweg *kevre* ‘rhwymyn’) yn y llall.
- 681 **Maedu** Gall olygu ‘taro’, cf. ‘a’r golouen uvch y pen ef a dely y gostecgvr y maedu’ (Ior., §5), neu ‘guro’, ‘Val i [maedd henvaedd heb] hanfod – genfaint’ (PWDN, III.47).
- Dihareb gydwladol, cf. A596 uchod.
- 682 **isgell** Ceir dau *isgell* yn Gymraeg. Ystyr y naill yw ‘cell islaw wyneb y ddaear’, yn drosiadol am fedd, megis yn y llinell ‘Iscell kerdglyt clot uawr’ (CT, X.5), ystyr y llall, gair benthyc o’r Lladin *iuscellum*, yw ‘cawl’ (CT, 86-7) a haws credu mai hwnnw sydd yma.

- 683 **Mursen** ‘Merch sy’n cellwair caru... gwraig anniwair...putain; (person) mursennaidd neu ferchetaidd’, GPC. Dichon mai gair benthyc o’r Saesneg ydyw (EEW, 130).
- 684 Dihareb gydwladol a drafodir yn fyr gan Taylor (1985, 21). Cf. *The nearer the Bone the sweeter the flesh* (PSPP, B444).
- 685 Yn ‘Englynion y Clyweit’ ceir ‘moch vyd barn pob ehut’ (Clyweit 29c) a aralleirir gan Marged Haycock yn ‘Parod fydd barn pob dyn ffôl’ (BBGCC, 31.29c).
- 687 Ceir y ddihareb hon yng ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’: ‘mevyl ys gna6t owedda6t hir’ (RBP, 1056.38). Ar odrwydd y gystawen hon gw. Jacobs, 2004, 28. Cf. y darn cywydd gan Bedo Aeddren a ddyfynnir yn y nodyn ar A472 uchod ynghyd â B260.
- 688 **mynechtit** ‘Mynachaeth’ (affeithiodd *i* y terfyniad yr *a* yn *mynach*; yn fersiwn ‘Englynion y Clyweit’ ceir affeithiad –*i* dros ddwy sillaf, Williams & Parry-Williams, 1926, 19).
- maeryoni** Yn y Cyfreithiau, swyddog oedd y *maer* a sicrhau hawliau’r brenin mewn ardal benodol: ‘Maer a dyly peri y’r brenhin pob peth o’r a dylyo y gaffel o gyfreith yn y vaeroni ef’ (Bleg., 48.5-7). Cyffelyb oedd swyddogaeth y *cynghellor* ond ymddengys fod ei safle fymryn yn uwch nag eiddo’r *maer* (Jenkins, 1986, 363-4). Yn Ior. §51 cyfeirir at y *maer keghellaur*, cyfuniad o’r ddwy swyddogaeth (gw. Jenkins, 1976b, 117-8). Geill *maerioni* olygu’r ardal dan ofal maer, megis yn y dyfyniad uchod o Bleg. ond tebycach mai ‘swydd y maer’ yw’r ystyr yn y ddihareb. Ardal yng ngofal *maer* oedd *tref faerioni*: ‘O tref maeroni neu gyghelloryaeth med a telir’ (WML, 56.10-3). Sylwer fod *tref*

faerioni a *maerdref* yn bethau pur wahanol. Ar *maerdref*, ‘y tir o amgylch y llys’, gw. Jones, 2000, 299-302.

Ceir ‘nyt menechtit maeryoni’ yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit 71c). Dyry Marged Haycock yr aralleiriad ‘Nid mynachaeth yw stiwardiaeth [tir]’ (BBGCC, 31.71c).

689 **cyynydd** Y mae iddo’r ystyr o ‘ennill tiriogaeth newydd’ yn (Williams, 1925, 299-303) ond yma gwell yw’r ystyr ‘tyfu, helaethu’ (GBGG).

Ceir y ddihareb yng ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’: ‘ny elwir ngywreint ny gynnydd’ (RBP 1055, 34).

690 **eidic** ‘Gwancus’ yn hytrach na ‘chenfigennus’ megis yn y llinell ‘eidic am gic a garaf’ (CLIH, XI.42c).
a littyer Dib. pres. amhers. *llidio*. Nis ceir yn fersiwn B399.

Dichon fod yma gyfeiriad at gyfraith damdwng (‘trefn hawlio eiddo’ gw. Jenkins, 1976, 45-6). Eglurir y drefn yn y paragraff hwn o Lyfr Iorwerth:

Puybynnac a uynno damdug er eydau, ual hyn e mae ydau y damdug: os peth marwaul a damtug, damtyget a’r llau assu ar e peth a dantygho a’r llau deheu ar e kreyr; os anyueyl a damdug, damdyghet a’r llau assue ydau ar e glust deheu e’r anyueyl a’r llau deheu ar y kreyr, a’r llau deheu e’r amdyffynnur ar e glust assu e’r anyueyl. Ac euelly tyget er haulur nat oed perchennauc ydau a uedhey na’e werthu na’e prynu namen euo, ac ygyt a henne nat aeth y ganthau nac o rod nac o uenfyc nac en adneu na’y werthu na’e rody, namen y duyn e ganthau en lledrat neu o agkyuarch, nei o’e golly.

Ni fyddai gŵr eiddig yn debygol o gredu'r cyfryw lw.

691 **newyna6c** Yn B404 ceir *nebynuam*, cyfansoddair o *newyn* + *mam*.

694 **geir da** Yn GPC priodolir i *geirda* yr ystyron 'clod, canmoliaeth (wirioneddol), enw da, cymeriad, bri, parch'. Ceir *gerda* mewn Hen Gernyweg meddir yn los ar *fama*. Yn DD ceir 'rhoi gair da' am *benedico*. Cf. yn ogystal 'Dos, was, yn ebrwyt heb roti – geir da / Y'r gŵrda ysy yndi' (CBT, II.15.5-6). Yn sicr, y mae'r ystyr yn y ddihareb yn agos iawn at fawl neu fendith.

pryt *Prid*. Ansoddair yn golygu 'drud, costus' (cf. 'prid i gont pe rhoid i gyd', CMOG, 132.58) ond yma enw ydyw, 'tâl, cost'.

Ymdrinnir â'r gair yn CA, 166-7. Yn y triawd cyfreithiol, 'Tri ry6 prit yssyd ar tir' (WML, 53.2-3), ystyr *prid* yw'r dulliau o ddod i feddiant tir ar wahân i'w etifeddu (Jenkins, 1986, 266, 374). Y mae iddo ystyr fwy penodol yn *Llyfr Iorwerth*. Yno math o forgais ydyw i ganiatáu trosglwyddo tir (gw. Jenkins, 1976, 58-9; a Ior. §88, lle ceir y ferf *prydau*). Cyfansoddair ohono yw *pridwerth* (gofyn Ifor Williams ai 'cyfansawdd o gyfystyron' ydyw, CA, 167).

Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr' ceir 'Ny cheffir da heb prit' (RBP, 1055.40), llinell sydd yn ôl Nicolas Jacobs (2004, 21) yn rhy fyr. Diau y dylid darllen *geir da* yn y Gosymdaith gan ddilyn darlleniad B428.

Y mae'r ddihareb hon yn eglur ddigon: 'ni cheir mawl heb dalu amdano'.

695 Wedi edrych ar y ddihareb hon o bob ongl, tebygaf mai llygriad o A917 isod ydyw (dan ddylanwad A700 efallai) yn hytrach nag amrywiad arni.

696 **y ieir** Dyry darlleniad A well synnwyr na B423.

697 **dyuo** Ar y ffurf gw. A87 uchod.

Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr' ceir 'nyt [d]edwyd n6y diuo p6yll' (RBP, 1056.16), llinell sy'n cynnwys y ffurf *n6y* (negydd a rhagenw mewnol, GMW, 55-6), a 'N6y diuo p6yll prif eg6a' (RBP, 1056.17). Cf. y genadwri a'r geiriad tebyg yn A91 uchod.

699 **press6yl** Ansoddair yw yma, 'sefydlog, ansymudol' (GPC). Yng Nghyngor Nicaea (325) cytunwyd y byddir yn dathlu'r Pasg ar y Sul cyntaf wedi'r lleuad llawn cyntaf yn dilyn cyhydedd y gwanwyn. Y mae'r union ddyddiad felly yn newid o'r naill flwyddyn i'r nesaf.

701 Er llymed ei blaen, ni ellir gwannu *gronyn* â gwaewffon.

702 Ceir 'nyt eglur edrych yntywyll' yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr' (RBP, 1056.14-5). Awgryma Jacobs (2004, 24) mai'r ystyr yw 'mewn cyflwr tywylliedig' yn hytrach nag 'yn y tywyllwch'.

703 **ny na6d** Ystyr *noddi* yma yw 'gwarchod' megis yn A711 isod. 'Ni thycia un trew na dau rhag angau'.

Yng Nghanu Taliesin ceir y llinell ‘Nac vn tre6 nadeu ny na6d yraceu’ (LIT, 60.2; CT, V.26). Awgryma Ifor Williams mai dihareb yw’r llinell ac y dylid darllen *rac angeu* am *yraceu* yng ngoleuni coelion sy’n gysylltiedig ag *un trew* ond y mae’n gyndyn o newid y testun (CT, 57). Dangosodd Jenny Rowland (1981b) mai fersiwn wallus o’r ddihareb hon yw’r llinell. ‘Mae’r hengerdd’, meddai, ‘yn ffynhonnell i gryn dipyn o’r diarhebion yn y casgliadau canoloesol, ac o bryd i’w gilydd ceir gwell darlleniad o linell ynddynt’. Trafodir y coelion sy’n gysylltiedig â thisian yn Morris-Jones, 1918, 217. Ymddengys bod *un trew* yn anlwcus (ond cf. y nodyn ar y llinell ‘Rymasei torof keith rac vn tre6’ – LIT, 70.8-9 – yn Williams, 1978, 229: ‘Tybed a oedd yr ymadrodd *rhag un trew* wedi magu’r ystyr ‘rhag anffawd’). Ceir ymdriniaeth werthfawr a llawn â’r mater yn EWSP, 629. Y mae tri chyfeiriad at y coel hwn ynglŷn â thisian yn y gyfres englynion ‘Kyntaw geir’ yn Llyfr Du Caerfyrddin: ‘un trev a glyuaw’ (LIDC, 26.5); ‘myn yd vo truin yd uit trev’ (LIDC, 26.27); ‘ny lut ar lev trev direid’ (LIDC, 26.30). Ymdrinnir ag arwyddocâd y cyfeiriadau hyn yn EWSP, 226-28 a BBGCC, 272-3 (fe’u dehonglir fel arwydd o dyndra rhwng sicrwydd ffydd Gristnogol y pererin yn y gerdd a’r anghysur a bair gweddillion hen goelion paganaidd). Yn yr un modd, dyhead am fynd ar bererindod yw un o brif themâu awdl Casnodyn i’r Drindod a cheir ynddi gyfeiriad at y coel: ‘Trew ni ludd rhylew ail Rholant’ (GC, 7.114). Cyfeiriad at yr un coel sy’n llinell Dafydd Llwyd, ‘Ac untrew fel bai gantrwyn’ (GDLI, 61.14). Yng nghyswllt y sangiad ‘da deutrew’ (GDG, 34.41) awgryma Thomas Parry (GDG, 475 ar ôl DDG², 170) y geill fod tisian ddwywaith yn ffodus a dywed, heb ymhelaethu dim, mai dyna arwyddocâd y ddihareb dan sylw yma. Cf. A560 uchod.

704 **march rat** Sef ‘march rhodd’, *gift-horse* y Saesneg.

Yr oedd hon yn ddihareb sathredig pan ddyfynnwyd hi gan Sierôm:

Noli (ut vulgare est proverbium) equi dentes inspicere donati

(Taylor, 1985, 4-5). Edrych ar y dannedd neu yn y ceg a wneir yn y

ddihareb Ladin, *Sumpto gratis equo non os spectare memento!*

(LSSM, S209); felly hefyd yn y Ffrangeg a'r Saesneg: *Cheval*

donné ne doit on en bouche garder (Mor., 375); *A cheval donné ne*

regardés les dents (MFPSPP, C122); *Look not a given Horse in the*

teeth (mouth) (PSPP, H518). Yn y ddihareb Gymraeg, yn llygad y

march yr edrychir. Disgrifio march bywiog, iach a wna Tudur Aled

yn y cwpled ‘Llygaid fal dwy ellygen / Llymion byw’n llamu’n i

ben’ (GTA, CVI.45-6). Ar y ddihareb, gw. ymhellach SM (I, 134).

705 Yn ‘Gossymdeith Llefoet Wynebclawr’ ceir ‘nychar dovyd diobeith’ (RBP, 1056.33). Fe’i ceir hefyd yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit 72c).

706 **ysgynnu** Ffurf ar *esgynnu*.

gorwyd Ceir tri *gorwydd* gwahanol yn GPC: ‘March’ (megis yn

EWGP, VII.9b); go+rhwydd, ‘rhwydd, cyflym’; fforest. Diau mai’r

cyntaf sydd yma.

y ar geffyl Geill olygu ‘ar’ yn syml, cf. ‘ef a welei uarchauc yn

dyuot yn ol yr erchwys y ar uarch erchlas mawr’ (PKM, 2.3-4), neu

‘oddi ar’ (GMW, 199-200).

707 **darlleo** Dib. pres. 3 un. *darlleaw*, ‘darllen’.

Cf. ‘Darlle lyfreu. ar hynn a darlleych neu wrandewych delit y gof

ytt.’ (Williams, 1923, 18).

708 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'na vit dy wreic dy gyfrin' (Clyweit 10c) ac fe'i diweddarir gan Marged Haycock yn 'Na fydded yr un sy'n rhannu dy gyfrinach yn wraig iti' (BBGCC, 31.10c). Tri fersiwn o ddihareb debyg sydd yn EWGP, II.4c, 5c, 6c.

709 **difuen6yt** Amherff. amhers. *difenwi*.

710 **mat newit** 'Cyfnewid' neu 'fargen dda'(GPC).

Diau fod darlleniad B488, sy'n rhoi ystyr gwbl groes i A, yn llwgr.

711 **eing** 'Awydd, blys, chwant, dymuniad' (GBGG *eingc*; GPC *aínc*, *aing*). Berf o'r enw hwn yw *eihaw* (gw. y nodyn arno yn PKM, 183).

Ceir y ddihareb yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr': 'ny na6t eing llyfyrder rac lleith' (RBP, 1056.29-30), a cheir adlais ohoni yn englynion mawl Cynddelw i Wenwynwyn: 'Ni oleith lleith yr llyuyrder' (CBT, III.18.7). Y mae *noddi rhag* yn gyffredin yn y diarhebion ac mewn ymadroddion diarhebol, cf. A703 uchod a'r llinell 'nyt oes na6d rac tynghet' (RBP, 1026.21). Yn yr englynion gwirebol ceir 'ir nep goleith lleith dyppo' (LIDC, 30.39; EWGP, I.13c) a gyfieithir gan Jenny Rowland yn *Despite all evading, death will come* (EWSP, 502). Adleisir y llinell honno yn 'Hirlas Owain': 'G6yr ny oleith lleith ony llochir' (CBT, II.14.138).

712 **daly ty** Am *ddal tŷ* dyry GPC *to maintain a house*. Digwydd yr ymadrodd yn Llyfr Cyfnerth: 'Or damweinha yr maer na allo daly ty' (WML, 28.14-5).

ffynnach Darllener *sinnach*, fel yn B489 (hawdd y gellid bod wedi camgopïo *f am s ar ddechrau gair*). *Sinnach* (a) GPC sydd yma, mi gredaf, sef ‘Rhimyn o dir heb ei aredig (yn enw. fel llinell derfyn)’. Arno gw. sylwadau Ifor Williams (1926b ac 1945, 59). Yn y Cyfreithiau dywedir: ‘tervyn dwy erw dwy gwys a hwnw aelwyr synach’ (AL, II.268).

Ystyr y ddihareb yw na ellir cynnal tŷ neu deulu ar ffrwyth rhimyn cul o dir diffaith.

715 **threfyn** Trafodir y gair yn Williams, 1925, 310-1.

am6lch Digwydd *amwlch* fel ansoddair, ‘bylchog’ ac fel enw ‘adwy, bwlch’ (GPC) Fe’i ceir efallai yn yr enw *Cefn Amwlch* yn Llŷn (Lloyd-Jones, 1928, 86). Prin, fodd bynnag, fod *amwlch* yn rhoi synnwyr derbyniol yma. Yn B494 ceir *am6ch*, heb yr *l*. Tybed ai gwall sydd yma am *amwc*, myn. pres. 3 un. *amwŷyn*, ‘amddiffyn, gwarchod’ (GBGG) neu ‘achub, cipio’ (CA, 249-50; GPC). Rhoddai hynny ystyr di-fai. Gw. A933 isod.

716 Cf. A934 isod.

717 **Ny thyrr penn** Defnyddir torri pen yn idiomatig yma am frifo teimladau (GPC).

dywedut yn dec Dyry GPC *to speak fair, flatter, blandish*.

Dihareb gydwladol, cf. *Bele parole ne freint teste* (Mor. 226); *Fair Speech (words) breaks never bone* (PSPP, S603). Y mae Samuel Singer yn ei chymharu â’r darn am y tafod yn torri’r asgwrn yn Ecclesiasticus (SM II, 18). Dyfynnir y ddihareb yn y Catwn: ‘Grassawa yn llawen. Sef yw hynny bit da dy wybot. kany thyrr penn yr dywedut yn dec’ (Williams, 1923, 18).

719 **dyly** Myn. pres. 3 un. *dylyu*.

720 **mynyglywenn** Cyfansoddair o *mwnwgl* ‘gwddf’ + *gwyn*. Nis ceir yn GPC – yr unig gyfansoddair ansoddeiriol o *mwnwgl* ynddo yw *mynyglwlws* ond cf. yn ogystal *mynyglgrwn* (GDG, 128.7). Yn B503 ceir *minwen*, ‘â gwefus wen’ (GPC) ac efallai y dylid ceisio ystyr drosiadol yng ngoleuni’r ferf *minwynnu* (‘gwenieithio’, GPC) a’r enghraifft o waith Madog Dwygraig a nodir yn GPC, ‘Poeth vursen vinwen o vynnwes kae drein’ (RBP, 1274.36-7). Ystyron difriol sydd i gyfansoddeiriau o *min* ‘gwefusau’ + ansoddair fel arfer, cf. *mindlws*, *minddu*, *mingam*, *mingrwn* (GPC) a *minffug* (GDG, 79.46). Ni fydd gwraig drygwr yn wenieithus, bydd byth a hefyd yn ei blagardio, a hynny nid heb achos.

721 **na charu** Yn B506 ceir *nath ran* a gellir gweld yn hawdd sut y rhoes camgopïo *chlth* ac *u/n* fod i’r ddau ddarlleniad gwahanol.

722 **pedi** Dyry GPC ‘Ymboeni, gofidio, cwyno (heb reswm neu’n gelwyddog), gofyn yn anuniongyrchol’. Trafodir y gair yn llawn gan Ifor Williams, 1950. Digwydd *pedi* yn y llinellau hyn o’r gerdd ‘Breuddwyd a welwn neithiwr’ yn LIDC:

Ny dichuenic but pedi.
ys guell delli urth a uo.
Ac imganlin a deduit.
a dioffrid a aduo.
(LIDC, 2.15-6)

Myn. pres. 3 un. *dychwanegu* ‘ychwanegu’ yw *dichuenic* (GBGG).
Felly, nid yw *pedi* yn ychwanegu at *fudd*.

723 **hena** Myn. pres. 3 un. *henu*, ‘heneiddio’ ond y mae’r ystyr yn
cynnwys y pethau a ddaw yn sgil henaint (gw. GDG, 535).

Dihareb gydwladol, cf. *Envie ne morra ja* (Mor., 704); *Envieus
murt*, *Envie ne mora ja* (Mor., 705). Gw. ymhellach SM (II, 80).

724 **y [h]atura6t** Enw benywaidd yw *brawd* ‘barn’ a chyfleir hynny
gan yr anadliad caled ar ôl y rhagenw blaen benywaidd yn B511.
atura6t. Am *adfrawd* dyry GPC² ‘gwrthfarn, gwrthdroad barn, ail
farn’ ond y mae’r enghraifft gyntaf (LIT, 30.12) yn ansicr (ar yr
enghraifft hon gw. CT, 96). Serch bod *brawd* yn gyffredin yn y
llyfrau cyfraith, ni welais *adfrawd* ynddynt. A oes yma adlais o
Mathew 7:1-2, ‘Na fernwch, fel na’ch barner: Canys â pha farn y
barnoch, y’ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i
chwithau’?

726 **a hoffes da** Yn B515 ceir *a hoffes teir gafyr*. Ni wyddys beth yw
eu harwyddocâd.

ch6egr6n ‘Tad yng nghyfraith’

729 **moessa6c** ‘Cwrtais’.

730 **neges** ‘Taith’ neu ‘gyrch’, megis yn ‘Pan ant ky[n]vr[e]in y
[ne]ges’ (CLIH, I.21b).

733 **[l]ly6** Yn GPC cynigir fod i *llyw* yr ystyr ‘cynhaliaeth, bwyd,
lluniaeth’ ar sail y ddihareb ‘dywyll’ hon. Enghreifftiau geiriadurol

yn unig a geir ac o DD y daw'r enghraifft cynharaf o'r ystyr yma:
Llyw, idem quod Lluniaeth, Victus, yna dyfynnir y ddihareb.

- 734 **Diffic** Myn. pres. 3 un. *diffygio*, 'methu, pallu, blino' cf. 'Ni diffic gwin kapric Kaer / Yn Iâl, mwy no ffynon oer' (OPGO, XVIII.15-6). Am y cyfuniad *diffygio ar dyry GPC to fall into disuse*.

Tarddiad beiblaidd sydd i'r ddihareb hon: 'Yng ngwefusau y synhwyrol y ceir doethineb: ond gwialen a weddai i gefn yr angall' (Diarhebion 10:13); 'Barn sydd yn barod i'r gwatwarwyr, a chleisiau i gefn y ffyliaid' (Diarhebion 19:29); 'Ffrewyll i farch, ffrwyn i asyn, a gwialen i gefn yr ynfyd' (Diarhebion 26:3); 'Er i ti bwyo ffôl mewn mortar â phestl ymhlith gwenith, eto nid ymedy ei ffolineb ag ef' (Diarhebion 27:22). Gw. Taylor (1985, 57).

- 735 Yr un yw ergyd y ddihareb hon â chyngor y Catwn: 'Na thremyka dyn a uo llei no thi. kаныs kyt bych cadarn di ef a eill duw gwneithur y dyn gwannaaf yn gadarnach no thi' (Williams, 1923, 34).

Cf. 'Ni bydd gwan heb iddo garn, / Iesu, gedid sy gadarn' (GTA, xxi.33-4). Yn 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr' ceir y llinell 'Wrth gadarn gobeithiet gwan' (BBGCC, 30.30c) ac y mae'r pwyslais ar gadernid Duw, o gymharu â chadernid daearol Arthur, yn dra diddorol.

- 736 **myssyn gla6c** Ffurf ar *mwsoglog*, 'mwsoglyd'. Ansoddair o *mwswnng* (GPC; o'r Lladin *muscus*).

drauot 'Symud' (gw. CA, 94). Ymddengys mai ffurf ar *cychwyn* yw'r *kywyn* yn fersiwn Llyfr Du'r Waun (Williams, 1926, 24; cf. yr amrywiadau yn GPC).

Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Pierre volage ne keult mousse* (Mor., 1634); *Pierre qui roule n'amasse pas mousse* (MFPSPP, P181); *Seld mosses the Marble (stone) that men oft tread (varied)* (PSPP, M372); *Raro lapis tegitur musco, qui saepius ambit* (LSSM, R20). Gw. yr enghreifftiau pellach yn SM (I, 81-2). Dyfynnir 'Y maen a dreigla, ni bhwsogla' yn *Egluryn Ffraethineb*, Henri Perri, gyda hyn o ddehongliad:

Honn sy'n arwydhocau na dhaw cywethowgrwydh wrth ysmudo o'r nailh bhann i'r lhalh yn dhiystyr.
(G. J. Williams, 1930, 42)

Cadarnheir hynny gan yr enghraifft a ganlyn o'r *Proverbes en rimes*:

Qui souvent se remue
Pour prendre son esbat,
Et sault hors de sa mue
Pour changier son estat,
Souventesfois s'esbat
A trouver jerbe escousse:
Pierre qui trop rabat
Ne pourroit cueillir mousse.
(Frank & Miner, 1937, LXXXIX)

737 Gw. A524 uchod.

738 **Ny da6 cof** Digwydd yr ymadrodd *dyfod cof* ('cofio') droeon yn Cynog, 72.
chwegyr *Chwegr*, 'mam yng nghyfraith'.

[g]weyd *Gwaudd*, ‘merch yng nghyfraith’.

Cyffelyb yw ergyd C702.

- 746 Digwydd y llinell, fel y’i ceir yn B407, yn y gyfres englynion
‘Marwnad Cynddylan’:

Kyndylan, kae di y nenn
Yn y daw Lloegyrwys drwy Dren.
Ny elwir coet o vn prenn.
(CLIH, XI.16c)

Yng nghyd-destun yr englynion cyfeiria’r ddihareb at Gynddylan yn amddiffyn Tren ac fe’i cyplysir gan Jenny Rowland â llinell gyntaf y gyfres yn ei golygiad o’r englynion chwedlonol: ‘Vn prenn ygwydvit a gouit arnaw’ (CLIH, XI.2a; EWSP, 429). Meddai Rowland: *Here on a symbolic level Cynddylan is one tree among many – the single element, however strong, is weaker than the congregate and when hard-pressed must fall* (EWSP, 574-5).

- 748 **uoda6c** *Bodog*, ‘diysgog, diymod, sefydlog, parhaus’ (GPC).
Dyma’r ail elfen yn y cyfansoddair *presswyluodawc* (Williams, 1927b, 60). Cf. ‘Llywarch lleueryd uodawc’ (CLIH, II.8c).
- 749 **g6yros** Math o brysgwydden, *Ligustrum vulgare*(GPC).
gwern Coeden sy’n tyfu mewn corsydd (ac felly ceir *gwern* am ‘gors’), *Alnus glutinosa* (GPC). Digwydd mewn amryw enwau lleoedd ac fel enw personol (GBGG).

Dyfynnir y ddihareb o dan *gwyros* yn DD a rhoir y cyfieithiad *Non ejusdem naturae ligustrum et alnus*, er nad ydym fymryn elwach o ddeall hynny.

750 Ceir y llinell ‘ny charawd crist ae croges’ yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit 38c).

751 **dida6r** Myn. pres. 3 un. *diddori*, ‘malio’.
pa yssso Rhagenw gofynnol yw *pa* (GMW §81) ond mewn Cymraeg Canol cynnar digwydd yn enwol a’r adeg honno y mae’n gyfystyr â *pa beth*.

752 Dihareb gyfreithiol. Fe’i cyfieithir gan Dafydd Jenkins yn *There is no gift unless willingly* (1986, 62). Yn Llyfr Blegywryd digwydd yng nghyswllt y ‘Naw nyn a gredir’ (yn Ior. §56 ‘e nau tauodyauc’, ond ni cheir y ddihareb yno). Dyma hi yn ei chyd-destun:

Credadwy vyd amodwr yn y amot rwg deu dyn a’e hadeffo. Ac velly rodawdyr da am yr hyn a rotho. Ac wrth hynny y dywedir “Nyt oes o rod onyt o vod”. A rodawdyr gwreic a tygho yn y mod y rother.
(Bleg., 39.10-4; gw. yn ogystal WML, 41.20-3)

Gwelir mai ergyd y ddihareb ydyw fod gair y rhoddwr ynglŷn â’r peth a roes yn derfynol cans oni roes y rhodd o’i fodd nid rhodd mohono.

753 **duhun** *Duun*, ‘cytûn’. Y mae iddo hefyd yr ystyr ‘derbyniol, dymunol’, cf. ‘Keny bo duun gan e due pleyt henne’ (Ior. §76).

Gydol yr Oesau Canol cyfansoddwyd rhestrau o rinweddau a beiau nodweddiadol gwahanol bobloedd a chenhedloedd, y *Proprietates gentium* (Bautier, 1984, 3-5). Rhywbeth felly sydd yma, gwirionedd cyffredinol tybiedig ynglŷn â'r Cymry fel pobl.

754 **Nugya6** 'Ysgwyd'. Ceir nodyn arno yn CLIH, 137.

ka6n 'Brwyn'. Enw lluosog, *conyn* yw'r unigol cf. 'Eiry mynyd, ll6mm blaen ca6n' (EWGP, III.27a).

756 **b6rn...beich** Y maent yn gyfystyron fel y dengys y trydydd math ar ddadannudd yn Ior §84, 'datanhud burn a beych' (yn Bleg., 72.10 ceir 'datanhud gyt a beich kefyn').

757 Ceir y ddihareb gan Ddafydd ap Gwilym yn y cywydd 'Morfudd yn Hen':

Weithion, cyhuddeidion cawdd,
Y Creawdr a'i hacraawdd,
Hyd nad oes o iawnfoes iach
Un lyweth las anloywach,
Brad arlwy, ar bryd erlyn;
Nid â fal aur da liw'r dyn.
(GDG, 139.27-32)

761 Daw'r ddihareb o'r Efengylau: Mathew 13:57, 'Nid yw proffwyd heb anrhydedd, ond yn ei wlad ei hun, ac yn ei dŷ ei hun'; neu Marc 6:4, 'Nid yw proffwyd yn ddibris ond yn ei wlad ei hun, ac ymhlith ei genedl ei hun, ac yn ei dŷ ei hun'; neu Ioan 4:44, 'Canys yr Iesu ei hun a dystiolaethodd, nad ydyw proffwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun'. Naturiol yw ei chanfod mewn ieithoedd eraill: *Nul n'est prophète en son pays* (MFPSPP, P286);

A prophet is not without honor save in his own country (PSPP, P416); *In propria natus est nemo propheta vocatus* (LSSM, I56).
Gw. ymhellach Singer (III, 81).

762 **llewat** Gorff. amhers. yw'r terfyniad –*at* ond nid cheir synnwyr felly yma.

764 Bydd yr ynfyd yn cadw digon o sŵn heb wisgo cloch. Dihareb gydwladol: cf. *A cognostre qui est folz n'estuet pas [pendre] cloche au col* (Mor., 21) a chymharer *A connoistre fol ne convient pas p[r]endre labour* (Mor., 20).

767 **brat ugeil** Cyfeiriad at y chwedl werin adnabyddus. Dyma fotif llên gwerin J2172.1., *The shepherd who cried "Wolf!" too often* (MIFL IV, 188).

768 Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 37c) ac yn yr englynion gwirebol: 'pan gysco paḅb ar gylchet / ny chḅsc Duḅ pan ryd gḅaret' (EWGP, VI.25c-ch).

772 **ehgyr** 'buan'

773 **naḅt** Ffurf dreigledig ar *gnawd* (TC §170).

774 Adlais o'r ddihareb, neu barodïau arni, sydd yn y llinellau hyn: 'Ni wŷyr y llaw lawn o wŷyn / Ba wichiauw wag heb achwyn' (GGGI, xxxiii.37-8); 'Ni wŷyr y llawn o'r holl iaith / Wich y gwag, oerwag araith' (GST, 1.9-10); 'Y ci llawn mewn cell yna / Nis gŷyr er dwyn asgwrn da, / Ac ni wêl pam, ganel pall, / Y curia y ci arall'

(GEP, lxxxv.59-62). Priodolir englyn ar y ddihareb hon i Siôn

Tudur:

Cymro, oni gollo yn gall, - ni welwch

Yn ei olau o bydd angall;

Ac nid edwyn dyn diwall,

Gwych, llawn, beth y gwich y llall.

(GST II, 7)

Fe'i ceir gan Lewis Morris:

'Gwr gwann Iawn oedd Mr. Wynne Cynhafal na fedrai gael mwy nag
un subscriber i Gronwy, nag yr un (duw'n helpo) i ddafydd Sion. ni
wys yr Hwch lawn mo wich y wâg'

(AML I, 325)

Y mae diarhebion am wichian moch yn bur gyffredin, cf. A252
uchod, a'r llinellau hyn o waith Wiliam Cynwal: 'Am hyn, Prys, y
mae'n parhav / Y ddiareb dda eiriav: / Agais moch, ag os meichiad,
/ Mawr goel oedd, y' mrig y wlad, / Garw doedyd, gwiried ydyw, /
Gwae vwch y glyn, gwich a glyw' (YEPWC, 6.37-42), er nad yw'r
ddihareb a fydryddir yn y llinellau hyn i'w chael ymysg diarhebion
yr Oesau Canol.

- 778 **tr6ydetawc** 'Gwestai' cf. 'Tri trwydedavc Llys Arthur' (TYP,
172). Yn ôl Rachel Bromwich 'caniatâd' ydoedd ystyr wreiddiol
trwydded ond y mae iddo'r ystyr 'ymborth' hefyd ac awgryma J. E.
Caerwyn Williams (1976-8) mai 'ar gynhaliaeth' ydoedd ystyr
wreiddiol yn *nhrwydded* (*en trwytet*, Dam. Col. §112) ac y dichon
'mai ystyr ddatblygedig, nid yr ystyr wreiddiol, i 'trwydded'
ydoedd 'caniatâd'.

779 **dygwyd** Myn. pres. 3 un. *digwyddo*, ‘syrthio’, sef y rhagddodiad cryfhaol *dy-* + *cwyddo*.

Amrywiad ar y ddihareb hon yw llinell gyntaf ‘Gwarchan Adebôn’, ‘Ny phell gwyd aval o avall’ (CA, 52, 1322). Y mae’n ddihareb gydwladol, cf. *Though the Apple trendles (rolls) never so far it shows whence it came* (PSPP, A169; perthyn yr enghraifft gynharaf yn y Saesneg i’r unfed ganrif ar ddeg); *Vertit eo caudam, qua decidit arbore, malum* (SM I, 134).

781 Dyfynnir y ddihareb gan Tudur Aled: ‘Nid hunawg fi hyd henaint - / Ni bydd cytûn hun a haint’ (GTA, CXXIV.53-4).

782 **pennic** *Pennyg* ‘perfedd’

785 **rybuch** Myn. pres. 3 un. *rhybucho*, ‘dymuno’. Cf. C196.

787 Digwydd y ddihareb ym ‘Marwnad Nest ferch Hywel’ gan Einion ap Gwalchmai: ‘Ny chyueirch aghenn ya6lwenn yoli / Y’r neb rybarther y ryborthi’ (CBT, I.26.35-6). Aralleirir y llinellau hyn gan y golygyddion yn, ‘Nid yw angen molwr [y ferch] deg ei mawl yn gofyn o gwbl/ I’r sawl sydd wedi ei wahanu [oddi wrthi] ei ddiodeff [sc. angen]’. Ond onid gwell fyddai deall *porthi* = ‘bwydo’ (yn ffigurol, efallai), yn enwedig o ystyried y llinell ‘Gna6d oet dal eur mal yr y moli’ ychydig ynghynt yn y gerdd (CBT, I.26.30). Cadarnheir y farn hon gan enghraifft o’r ddihareb yn *Chwedleu Seith Doethion Rufein*:

Ac yna y peris y mam kynneu tan goleu abrwsgyl ger y bronn, ac adaw
bwyt a diawt y dreulaw pan delei newyn arnei, wrth na chyfeirch
newyn y borthi.

(SDR 593-6)

788 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'nyt vn awen jach a chlaf' (Clyweit
70c).

789 **anuerthed** 'hagrwch'. Yr ail elfen yw *berth*, 'hardd', cf. *prydf berth*.

791 **hanffo** Dib. pres. 3 un. *hanfod*. Yma y mae'n gyfystyr â *bo*.

792 Ymddengys fod Ellis Wynne yn bur feirniadol o genadwri'r
ddihareb hon a phair i *Rhywun* wadu ei chymeradwyo'n ddiamod:

Iè, rhai a'm geilw ar henw parchediccach yn Henwr, etto nid eiddo fi
hanner y coelion, a'r brutieu, a'r cynghorion a roir ar yr Henwr; ni
pherais i erioed ddilyn yr henffordd, os byddei'r newydd yn well,
(BC, 64)

Y mae'n wir mai math ar geidwadaeth ystyfnig a fynegir gan y
ddihareb ond y mae'r syniad, serch hynny (neu oherwydd hynny),
yn gyffredin mewn llên doethineb ac y mae hon yn ddihareb
gydwladol: *Les vieilles voyes sont es meilleures* (Morawski, 1052);
Meauz valent les vieilles voies que les noveles (Morawski, 1237); *Il
fait trop bien tenir les vieilles voies et laisser les sentiers*
(MFPSPP, V136). Gellir olrhain poblogrwydd delwedd y ffordd
neu'r llwybr i'w wreiddiau ysgrythurol (cf., er enghraifft, Llyfr y
Diarhebion 2:8-20 a 4:11-27).

- 794 **Ny lwyd** Myn. pres. 3 un. *llwyddo*, ‘tycio’ megis yn ‘Ny lluit reuuet y direid’ (LIDC, 2.23). Yn B421 ceir *Ny byd*.
- 795 Cf. ‘Ni bydd, da awydd deall, / Cymro ’nis collo’n was call’ (GST, 178.35-6; yr un cywydd yw GDE, xxxvi) a’r englyn a ddyfynnir yn y nodyn ar A774 uchod.
- 796 **elestren** Unigol *elestr*. Enw planhigyn. Dyry GPC ‘Gleiflys, cleddyflys, un o’r planhigion o dylwyth yr *Iris* a hynodir gan ddail llafnaidd ... *sword-flag, fleur-de-lis, iris, lily*’. Digwydd yn y canu gwirebol: ‘Gorwyn blaen elestyr’ (EWGP, VI.17a). Yn y ddihareb cyfeirir at y ddeilen. Y mae’n debyg i gyllell ond ni wna’r tro i flingo dim.
- 797 **da6** ‘Mab yng nghyfraith’.
- Dihareb gydwladol, cf. *Len ne puet faire d’une fille deus gendres* (Mor. 1515); *Una simul generos non dat tibi filia binos* (LSSM U83). Nodir enghreifftiau eraill yn SM (I, 60). Fe’i ceir gan Erasmus (32.69).
- 798 **chwythu tan** Chwythu’r tân er mwyn iddo gydio. Yn y naw affaith tân y seithfed yw *chuythu e tan ene enynho* (Ior. §116).
- Yn y ddihareb hon cyfleir anghydnawsedd dwy weithred wrthgyferbyniol. Y mae’r ddihareb i’w chael yn gynnar yn Saesneg, ymysg Diarhebion Durham, *Ne mæg man muth fulne melewes habban & eac fyr blawan*, gyda’r cyfieithiad *Non potest os ambo plenum ferrine et ignem sufflare* (Arngart, 1981, 295). Yn Singer I, t. 58-9 fe’i cymharir â’r ddihareb *No man can both sup*

and blow at once, ond dengys Arngart (1981, 299-300) mai dwy ddihareb wahanol ydynt.

Yn niffyg unrhyw enghraifft yng nghasgliadau Ffrangeg yr Oesau Canol, gellir cynnig yn bur hyderus mai benthyciad uniongyrchol o'r Saesneg yw'r ddihareb Gymraeg. Cf. ymhellach *One may not have a Mouth full of meal and also blow fire* (PSPP, M757); *Non bene flat flammam, qui continet ore farinam* (LSSM, N120).

800 **gwyl** Myn. pres. 3 un. *gwyllo*.

pyrth Myn. pres. 3 un. *porthi*. Gair benthyc o'r Lladin *porto*. Geill olygu 'cludo' neu 'gynnal' a chwareir ar yr ystyron hyn yn y llinell 'Penn a borthaf a'm porthes' (CLIH, III.17a; gw. EWSP, 541). Ar yr ystyr 'dioddef' sydd iddo weithiau gw. CLIH, 60. Yma 'cynnal' a feddylir.

Digwydd y ddihareb mewn cywydd cyngor i Robert Salbri o waith Tudur Aled:

Nid â wyl heb a delych,
Dyn a'i pyrth, dyna hap wych;
O chei ordderch a cherddawr,
A chnyw chwyrn, ni chwynwch awr.
(GTA, LXVII.31-4)

801 **g6lat** Ystyr cyfreithiol penodol sydd i'r *gwlad* yma: 'tir fel eiddo' (GPC).

Digwydd y ddihareb yn un o'r trioedd cyfraith yng nghyswllt perchnogaeth tir:

Tri meib yssyd ny dylant gyfran o tir y gan eu brodyr vn vam vn tat
ac wynt: mab a gaffer yn llwyn ac ym perth, ac yn aneduawl, a gwedy
hynny kymryt y vam o rod kenedyl a chaffel mab arall – ny dyly
hwnnw gyfrannu tir a'r mab a gahat kyn noc ef yn llwyn ac ym perth.
Yr eil yw, kymryt o yscolheic wreic o rod kenedyl a chaffel mab oheni,
ac odynd kymryt o'r yscolheic vrdeu offeiradaeth, ac odynd kaffel mab
o'r vn wreic o'r effeirat – ny dyly y mab a gahat kyn noc ef kyfrannu
tir a'r diwethaf, kanys yn erbyn dedyf y kahat. Trydyd yw mut, kany
dyly tir nyt atteppo drostaw, kany rodir gwlat y vut.

(Bleg., 112.3-16; gw. yn ogystal WML, 127.22 –128.12)

Ystyr *ateb dros* yn y paragraff hwn yw 'cymryd cyfrifoldeb'. Ni all
y mud ateb drosto'i hun ac o ganlyniad y mae gwahaniaethu yn
erbyn mudion (a defnyddio'r idiom ddiweddar) yn gyffredin yn y
Cyfreithiau:

Dyn mut ny dyly kaffel yaun na sarhaet nac ateb o dym arall cany
deweyt e hun y deleu ohonau, onyt argluyd a trugaraha urthau ac a ryd
tauaut ydau y dewedut trostau.

(Dam. Col., §7)

Am gyfeiriadau tebyg yng nghyfreithiau Iwerddon gw. Kelly,
1988, 94-5. Mydryddir y ddihaereb hon mewn awdl o waith
Gruffudd ap Maredudd:

Eigyr eur r voes einyoes annwyt diheurwyd
dihaereb adraethwyt
na rodir verch lawir lwyt
gwlat y vut gloew d6f ydwyt
(RBP, 1326.38-40)

Fe'i ceir hefyd gan Iolo Goch: 'Glod fawr, ni roir gwlad i fud'
(GIG, XXXVII.27; y mae'r nodyn ar *gwlad* yn rhannol anghywir,
ystyr gyfreithiol sydd iddo ond nid yr ystyr a nodir, GIG, 371).
Buddiol fyddai cael gwybod mwy am arwyddocâd y ddihareb
Saesneg Canol *Seldon getys domb man londe* (Pantin, 1930, 100).

802 **dispyd** 'Wedi disbyddu'. Yn B454 ceir *yspid*, sef *hysbydd*, 'sych'
(GPC), cf. 'Gwilim hir, meddir, 'wna'r myddav 'n hysbydd'
(OPGO, LXV.17).

803 **at aret** Gwell yw darlleniad B416 *a ret*.

804 **dechreuis** Gorff. 3 un. *dechrau* (GBGG).

805 **meryd** 'Diog', ond yma efallai mai 'llwfr' fyddai orau. Digwydd
yn aml yn yr englynion gwirebol a dengys y llinellau hyn anian y
cyfryw ŵr: 'gnaô't meryd yn drôm' (EWGP, VI.16a); 'Mis
Tachwedd, tuchan merydd' (EWGP, IX.11a). Ar ei darddiad gw.
CA, 350.

Yn y gyfres 'Eiry mynydd' ceir y llinell 'ny moch dieil meuhl
meryd' (EWGP, III.19c) ac fe'i cyfieithir gan Jackson yn *the
sluggard does not soon avenge an insult* (SECNP, 60).

806 Bydd y bonheddig yn rhoi o'i fwyd yn rhad ond nid felly'r taeog.
Ni cheir dim gan hwnnw heb dalu amdano.

807 **deila** Myn. pres. 3 un. *dal*. Rhoir sawl ystyr i *dal ar* yn GPC. Yr
ystyron a wedda orau yma yw (i) *to affect, be affected with; take*

hold of, seize; fall upon neu (iii) *to observe , mark, give heed to, attend to, notice, consider, regard.*

edyn ‘Aderyn’ ond digwydd hefyd am ‘wybedyn’ (GPC).

edynogyn ‘Gwybedyn’ (GPC)

Nid yw’r gwybedyn bychan yn mennu dim ar yr aderyn (neu’r gwybedyn mawr, od oes yma chwarae ar y ddau air)

809 Gwell ganddi hogiau dieithr o Borthmadog neu Gaernarfon.

810 **amwys** Gair y gellir ei ddyall mewn mwyn nag un ffordd yw *gair mwys*. Nid yw geiriau aneglur ac amhendant yn debygol o beri gwarth.

Cf. yr englyn hwn sy’n cynnwys dihareb debyg:

Nid kellwair gair a wnel gwarth / Dafydd
ail Dyfed Dehevbarth
nid da yr awen nid tiwarth
min yn ol gwin a wnel gwarth.
(Bowen, 1953, 184)

811 Ceir y ddihareb yn ‘Englynion y Clyweit’ (Clyweit 51c).

812 Ceir amrywiadau ar y ddihareb hon yn y gyfres englynion ‘Claf Abercuawg’:

Ymwng ucheneit a dyneit arnaf,
Yn ol vyg gordyfneit.
Ny at Duw da y diryeit.

Da y dirieit ny atter,
Namyn tristit a phryder.

Nyt atwna Duw ar a wnel.

(CLIH, VI.29-30)

- 813 **at weda** Myn. pres. 3 un. *adwedda*, ‘dychwelyd’. Dyfynnir y ddihareb hon yn GPC² ond dywedir yno mai enghraifft ansicr o’r gair sydd ynddi. Y mae darlleniad B461, *Nyt atwela6c geir*, yn bur wahanol ond ymddengys mai fersiwn o’r un ddihareb ydyw. Ni cheir *atwela6c* yn GPC na GBGG.
- 814 Yn Llyfr Du’r Waun ceir *Nyrygeler edryglan* (Williams, 1926, 24). Maentumia Ifor Williams y dylid darllen dryglam, ‘ffawd drwg’. Y mae *drycla6* yn A a B426 yn erbyn hyn.
- 815 Ddihareb o’r gyfres englynion ‘Claf Abercuawg’:

Osglawc blaen derw; chwerw chweith onn.

Chwec evwr; chwerthinat tonn.

Ny chel grud kystud callon.

(CLIH, VI.28; ceir yr un englyn yn EWGP, VI.10c)

Dywed Jenny Rowland mai dyma ei tharddiad tebygol (EWSP, 627). Hawdd cytuno â’r farn hon herwydd y mae natur fydryddol y ddihareb yn amlwg. Fe’i ceir hefyd yn Clyweit 35c. Dichon fod adlais o’r ddihareb yn y llinellau hyn o waith y Gogynfeirdd: ‘Ny chel uyg kert uy kwynuan, / Ny chut uy grut uy grituan’ (CBT, III.12.51-2); ‘Amlwg yw cystudd ar fy ngruddiau’ (CBT, VI.29.27). Y mae’n drawiad cyffredin yng ngwaith y cywyddwyr: ‘Ni allai’r grudd, fy lloer gron, / Gelu cystudd y galon’ (GHCLI, Ixiii.9-10); ‘Yn iach, wyf bellach heb au – na chalon, / Ni cheled fy ngruddiau’ (GSH, 3.5-6); ‘Ni chudd y grudd o’r gwreiddyn /

Gystudd calon don mewn dyn' (GSH, 9.97-8); 'Nis cêl grudd nes cael y gro' (GILIF, 3.26); 'ni chel grudd gystudd y gwir / yn ynghalon i gwelir' (GID, X.5-6); 'Ni chêl, mynych y hwylais, / 'Y ngrudd a fo 'ngwreiddiau f'ais' (GLMorg., At. ii.11-2); 'Ni chêl deurudd gystudd gŵr' (CMOC, 58.13). Ceir yr englyn unodl crwca hwn, eto'n adleisio'r ddihareb, yng Ngramadeg Einion Offeiriad:

Cyd ymwnel cywyd, bryd brys,
Yn llawen, llewych ystlys,
Lledfryd calon don, ef a'i dengys – grudd:
Lliw blaen grug Generys.
(GEO, Atodiad C, 8)

816 **eing** Myn. pres. 3 un. *genni*, 'cynnwys' (GPC; ar y newid in>ing gw. PKM, 168).

Y mae hon yn ddihareb gydwladol ac ymddengys mai'r ystyr yn wreiddiol yw na all dau ŵr mawr gytuno. Dyfynnir y ddihareb mewn cywydd gan Hywel Dafi yn yr ymryson rhyngddo a Bedo Brwynlllys:

Mae o let yn y bedo
a gaeair drws ar gaer dro
ni saif vellynn is vy llaw
nis gadwn yn ysgydyaw
Nid aing dev vras dan lasdir
y nevpenn sachlen or sir
(Pen. 67, LXXIII.33-8).

Fe'i dyfynnir hefyd yng ngherdd hir Thomas Hoccleve, *The Regement of Princes*:

Humilite, to pees eke may men lede;
Men say two gretë may nat in o sak;
But symple humblesse is of such godely-hede,
That she of trouibly hatë *hath* no smak;
She stryueþ nat; of discorde hath she lak;
She voyde and empty is of cruelte:
Humble spirit desirith vnite.
(Furnivall, 1897, 182, 5048-5054)

Cf. *Dui gros ne pueent en un sac* (Mor., 611); *Two Great (men) may not (be) in one sack (i.e., agree)* (PSPP, G446); *Duo grossi in uno sacco non possunt capi* (Steiner, 1944, 52). Yn y Ffrangeg ceir yn ogystal yr amrywiadau *Dui orgueilleus ne pueent seof[i]r en une celle* (Mor. 614) a *Ja dui orgueilleus ne chevaucheront bien un asne* (Mor. 967). Dyfynnir y ddihareb olaf yng ngherdd Hélinand, *Les vers de la mort* (tua diwedd y ddeuddegfed ganrif).

817 **ffettan** Benthyciad o'r Hen Wyddeleg *fetan* 'sach' (GPC) ond y mae'r enghraifft hon yn gynharach na'r holl enghreifftiau yn GPC.

Dihareb gydwladol. Yn y fersiynau Ffrangeg a Saesneg ceir mochyn neu gath: *Len ne doit pas acheter chat en sac* (Mor., 1489); *Acheter chat (pourceau) en poche (sac)* (MFPSPP, C83); *To buy a Cat in the sack* (PSPP, C102); *To buy a Pig in a poke* (PSPP, P187). Yr ergyd yw na ddylid prynu dim heb ei weld ac yn ôl Taylor (1985, 187) prynu mewn sach yn unig a wneir yn y fersiynau cynharaf, heb grybwyll enw'r peth a brynir:

The cat, which is of course a dishonest substitute for the hare, early enters the phrase. The pig, which is evidently a sucking pig, appears in both English and German forms from the seventeenth century on and is apparently the latest development.

Nid yw sylwadau Taylor yn hollol gywir. Ceir mochyn yn y Ffrangeg tua diwedd y bymthegfed ganrif ac yn y Saesneg yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ond ymddengys ei fod yn iawn wrth ddweud mai'r mochyn a ddaeth ddiwethaf (*ceir prynu porchell mewn cwd* yn Gymraeg ym 1615, GPC, 2923). Gw. y ymhellach yr enghreifftiau a restrir yn SM (I, 121; II, 47).

819 **gordyfyno** Dib. pres. 3 un. *gorddyfnu*, 'arfer, bod yn gyfarwydd â'.

Nid yw'r un nad yw'n arfer gweithio'n hoff o waith.

821 **b6yt ryued** Ni fyddai *bwyd rhyfedd* yn amhosibl yma a chymryd *rhyfedd* = 'gormodol' fel yn 'canyd ryuet – dreth' (CBT, VII.24.3) neu 'dieithr' yn yr ystyr 'danteithion prin'. Serch hynny, credaf mai llurguniad o'r llinell 'Ny lluit reuuet y direid' (LIDC, 2.23) o'r gerdd 'Breuddwyd a welwn neithiwr' sydd yma. Ceir sawl dihareb arall o'r gerdd hon yng nghasgliadau'r Llyfr Coch, cf. A830, A902, A903 isod. Ystyr y llinell fel y'i ceir yn y Llyfr Du yw 'Nid yw cyfoeth (*rheufedd*) yn llwyddo i ddiriaid'.

822 **llaetheion** A chymryd y ffurf fel y'i ceir yma lluosog *llaethai* 'cardotwr llaeth' ydyw. Fodd bynnag ni cheir enghraifft o'r gair yn GPC sy'n gynharach na'r ddeunawfed ganrif. Yn DD ceir *Nid ymgar y llatteion* a'r fersiwn hon a drafodir gan Williams (1912,

173). Ped anfonid dau neu dri llatai at yr un ferch disgwylid iddynt fod yn bur gystadleuol.

823 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'nyt tref tat enryded arglwyd' (Clyweit 50c). Nid etifeddir parch (BBGCC, 335). Dichon mai fersiwn o ddihareb gydwladol sydd yma: *Amors de seignor n'est mie heritaige* (Mor., 84); *Service (de seigneur) n'est pas héritage* (MFPSPP, S86); *Service is no heritage* (PSPP, S169); *Non dat in heredem dominorum gratia sedem* (LSSM, N139). Gw. ymhellach SM (II, 16-7).

824 **s6llt** Daw o'r Lladin *solidus* (EL, 47). Yr ystyr yma yw 'trysor' (GPC).
diebryt Berfenw'r ferf diaberaf*, 'ysbeilio' (GPC). Gw. GMWL, 124. Yr ystyr yma yw 'da neu feddiannau a gedwir rhag eu perchennog' (GPC). Yn ôl un triawd cyfreithiol ceir tri math ar *ddiebryd*:

Tri ryw diebryt yssyd. Vn, dwyn peth ac nyt atuerer trachefyn. Eil yw adaw argywed ar dyn neu ar yr eidaw heb wneuthur iawn na hedwch ymdanaw. Trydyd yw diebryt dyn o'e dylyet dros amser y dalu.
(Bleg., 123.27-31)

Dihareb gyfreithiol yw hon a gyfieithir gan Jenkins (1986, 169) yn *treasure does not arise under deprivation*. Gwelir fod fersiwn B431, *gan diebryt*, yr un mor synhwyrol. Wele'r cyd-destun:

O deruyd duyn buch en lladrat a meythryn ohoney epyl gan y dyn a'y duc, a chlebot o'r perchennauc e lle ed oet yndau ay hy ay hepyl, nys dely namyn e hun, ac ony byt ny dyly dym canyt a sullt a dan dyepryt.
(Dam.Col. §113)

Pan fo eiddo gŵr wedi ei gadw oddi wrtho ni all yr eiddo hwnnw gynhyrchu enillion iddo. Awgryma Jenkins mai'r cyfiawnhad dros hyn yw bod y lleidr wedi gofalu am y fuwch a'i fod yn derbyn ei llo yn gydnabyddiaeth am y gofal hwnnw (1986, 284). Yr un yw'r egwyddor, yn ei hanfod, yn yr adnod hon:

O deruyt e dyn rody arian ar arall, neu escrybyl, ac o'r da hunnu kyfnewydyau ac elwa o'r neb y daeth y da attau, a keyssyau o'r neb a rodes e da ran o'r elv: neny a dewedun na deleyr onyt amot a'y duc ydau, canyt a sullt a dan dyepryt (a hunnu a elwr yr haul diuuyyn) eythyr a rodes ar y llall.

(Dam.Col. §111)

825 Yn yr englynion gwirebol digwydd y llinell 'nid gwell yr odwr no'r lleidr' (EWGP, VIII.7c) ac fe'i cyfieithir gan Jackson yn *the adulturer is no better than the thief* (ECNP, 71) gan ddeall *odwr* yn ffurf ar *godwr*, 'godinebwr', wedi colli'r g drwy gydweddiad (EWGP, 65). Diau mai llurguniad ar y ddihareb hon a geir yn B429, *Nyt gbell yr rod6r noc yr lleidyr*.

Yn fersiwn Llyfr Colan o 'Naw affaith Lledrad' ceir 'Chechet ev bot en odur ac erbennau e lledrat' (Col. §340) ac yng nghyswllt yr adnod hon dengys Dafydd Jenkins (Col., 105) mai *odwr*, 'un sy'n derbyn eiddo lledrad' (GPC), sydd yn y wireb dan sylw yma.

Cymharer fersiynau eraill o'r chweched affaith:

Whechet yw erbynyaw yr hyn a dyccer yn lletrat

(Bleg. 34, 25-6)

Chuechet yu bot en kyghoruur e'r lleyder a'e erbynnnyeyt attau

(Ior. §111)

Y mae'n bur amlwg mai *god* a feddylir yn A (dan ddylanwad A325 efallai) ond y mae ymresymiad Dafydd Jenkins ynglŷn â'r fersiwn a geir yn yr englynion gwirebol yn dra argyhoeddiadol. Y mae'n cymharu'r wireb â'r ddihareb gyfreithiol Almaeneg *Hehler ist nicht besser als der Stehler* (gw. SM III, 13), dihareb a geir hefyd yn y Saesneg ac a drafodir gan Archer Taylor: *The hailer is as bad as the stailer* (Taylor, 1985, 92). Cf. hefyd *As foul is he that Holds as he that fos (seizes)* (PSPP, H410); *There is no Thief without a louke (accomplice)* (PSPP, T73).

826 **g6eli taua6t** 'Yr anaf a bair y tafod' sef 'enllib'.

Dihareb gyfreithiol. Yn Llyfr y Damweiniau cyfeirir at y 'Try lle e dyly argluyd erlyt guely tauaut kynny caffo y dyn y deweter [urthau] yaun' (Dam. Col., §272). Yn ôl y ddihareb i arglwydd yn unig y telir gweli tafod, eithr ystyrier y paragraff hwn:

Tri dyn y telir gwely tauot vdunt: y'r brenhin pan dywetter geir garw vrthaw, ac y vrawdwr pan wystler yn y erbyn am iawn varnn, os ef a'e katarnna, ac y offeirat yn y eglwys yn y teir gwyl arbennic, neu rac y brenhin yn darllein llythyreu, neu yn y yscriuenu.

(Bleg., 118.14-9; gw. hefyd WML, 138.4-9)

827 **ny bo 6rth wir** 'Cyfiawnder' neu'r 'gyfraith' yw ystyr *gwir* yma. Ar *bod wrth* = 'cydymffurfio â, ymostwng i' gw. Parry-Williams, 1922, 106; GMW §243. Cf. 'Gwr ny d6ng, ny dal, ny byd 6rth wir' (CBT, II.14.135).

Dihareb gyfreithiol a ddyfynnir yng ngyswllt cyfraith tir:

O deruyd e den pan holer en dadleu am tyr a daear dyweduyt na wnel yaun, a tystu o'r haulur e'r argluyd a'e egneyt a'e wyrda na wadus y haul, a'e uot en treyssyur, a galu am uraut, ena e mae yaun, o godef e uraut en e maes arnau, e dyuarnu en tragywydaul o'e warchadu. Os adau e maes a wna en agkeureythyaul, y dyuarnu en oes er argluyd byeysso er orsed honno, cany eyn em bro ny rodho guyr.

(Ior. §81; gw. hefyd Col. §553; Cynog, 50-1)

Fe'i cyfieithir gan Jenkins (1986, 96) yn *there is no room in a country for him who will not do justice*. Ceir fersiwn ychydig yn wahanol yn y gerdd ddidactig 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr': 'ny wneyd gwir ny ein ymro' (RBP, 1055.26; sylwer ar yr hen ffurf myn. pres. 3 un. yn -ydd; cf. WG, 323). Nid yw Jacobs (2004) yn crybwyll y ddihareb gyfreithiol yn ei olygiad o'r Gosymdaith ond y mae tebygrwydd y ddwy ddihareb yn syfrdanol, yn enwedig o ystyried mor wahanol ydyw'r cyd-destun yn y ddau achos. Gwelir fod y ddihareb wedi ei chymhwyo i gyd-destun crefyddol-moesegol yn y Gosymdaith. Trafodir enghraifft o gymhwyso acciom cyfreithiol mewn testun crefyddol Hen Saesneg gan Jost (1955).

- 828 Dihareb gyfreithiol. Digwydd ddwywaith yn *Llyfr Iorwerth* mewn cyd-destunau pur wahanol. Yng nghyswllt cyfraith galanas, os lleddir llofrudd gan genedl yr un a lofruddiwyd ganddo ac yntau heb feddu'r taliad llawn, nid ydynt yn torri'r gyfraith herwydd nid yw taliad anghwbl yn iawn am y cwbl (h.y. llofruddio llwyr):

O deruyd na bo nac o'r keynnyauc palader nac o'e da ehun y tal en kubyll ganthau, ken y bo namen un keynnyauc en eyssyeu, a'e lad ef o'e elynyon am honno, ny dygonsant un agkeureyth, cany ellyr kubyll o

agkubyl. A chet lladher enteu ny dywygyr na'r da rydywedassam ny uchot nac enteu ehun o'y genedel, ac urth henne e geylu keureyth er hen rydywedassam ny uchot oer guymp galanas.

(Ior. §106)

Yr eildro digwydd yng nghyswllt llwgr yd:

O deruyd caffael march tros gae o hyt e uunugyl en llygru yt, nyt yaun e dale, namen dyuuyyn llugyr, ony glenheyr. O deruyd caffael na march nac anyueyl arall a'e deu troet ulaen ar er yt, ny deleyr e dale, cany bu en kubyl, ac na ellyr kubyl o agkubyl

(Ior. §156)

Nid oes gan berchennog yr yd hawl i gymryd y march a'i llygrodd gan mai traed blaen y march yn unig a oedd yn y cae yd, nid oedd y cwbl o'r march yn y cae. Drych o fympty'r gyfraith. Gwelir, o ystyried yr enghreifftiau pellach o'r ddihareb a ddyfynnir yn *Llyfr Cynog*, eto mewn cyd-destunau pur wahanol, fod hon yn egwyddor gyfreithiol a gymhwysid yn eang. Mewn achos o hawlio tâl am berchyll pan fo'r hwch wedi erthylu:

Atteb yr amdiffynwr y6: 'ugeint a holeisti ymi am pob parchell oc a dotwei yr h6ch; ny dottwes yr h6ch ar perchyll etwa; cany ellir c6byl o agh6byl, agh6byl ynt h6y o'r peth penhaf ; sef y6 hynny, eu heneidyeu; cany anet encit gantunt nyt ynt perchyll, a chanyt ynt perchyll h6ynteu mi a dodaf ar y kyfreith a dylyy titheu dim ymy, canyt ynt perchyll'.

(Cynog, 21-2)

Yng nghyswllt y mud na all etifeddu treftad:

Yr eil y6 mut; agh6byl y6 h6nn6 o'e taua6t, a chanys agh6byl euo ny dyly ynteu uot yn prioda6r, cany ellir c6byl o agh6byl; ac 6rth hynny nyt dyn ynteu, a chanyt dyn ny dyly bot yn prioda6r.

(Cynog, 48-9; cf. A801)

829 **saeth y eba6l** Darllener *saeth eba6l* (megis yn B501) 'Ebol ieuanc, ebol gwibiog' (GPC). Gw. ymhellach Ior., 134.

Dihareb gyfreithiol a ddyfynnir megis A828 yng nghyswllt llwgr yd. Yr oedd gan berchenog cae o yd a lygrwyd gan anifail hawl i ddal yr anifail nes y câi iawn. Fodd bynnag nid oedd hawl i gadw ebol a ddilynodd ei fam i lygru yd. Yn Llyfr Iorwerth dyfynnir y rheol 'Ny deleyr dale saethebawl en ol y uam' mewn cyfres o reolau ynglŷn â'r anifeiliaid na ellid eu dal am lygru yd. Gwelir mai egwyddor sylfaenol y rheolau hyn ydyw nad oes fai ar anifail sy'n llygru yd os ydyw'n dilyn anifail arall i'r cae mewn amgylchiadau arbennig (tarw'n dilyn buwch sy'n gofyn tarw, ac ati):

Ny deleyr dale y teyru o hanner haf hyt Aust nac ar yt nac ar wellt, canys en er amser hunnu y byd teruenyd e guarthec prouaduy, nac o Aust hyt vyl Ueyr gyntaf, canys yna y byd teruenyd y kynflythed. Nyt yaun dale taru un amser en ol buuch teruenyd. Nyt yaun dale beyd un amser en mochyrya. Ny deleyr dale y meheryn na'r bycheu o vyl Uyhagel hyt kalan gayaf. Ny deleyr dale er ystaluyneyt o hanner Ebryll hyt hanner Meheuy. Ny deleyr dale saethebawl en ol y uam.

(Ior., §156)

Mewn testun arall dyfynnir y rheol fel y'i mynegir yn y ddihareb:

Kyfreith a dyweit na thelir [llwgyr] saeth ebawl. Sef yw saeth ebawl, ebawl a lyckro yn ol y uam, ny dylyir diuwyn y lwgyr yny vo dwy

vlwyd, kanys hyt hynny y byd ebawl; o'e dwy vlwyd allann y symut y werth, ac y byd gwerth march arnaw, ac o hynny allan divwyn llwgyr, kyt boet ar ol y vam y llyckro, kanys march yw.

(Richards, 1957, 144)

Gwelir nad yw'r rheol yn berthnasol pan fo ebol yn llygru yd ohono'i hun:

O deruyd e den tydau cassec en emyl yt, a'r ebaul en llygru er yt ac na chaffer y dale, kymerer y gassec o'r lle y bo a dyccer y'r ty: a dalhyer er ebaul en e ty, a dotter y gassec en y lle ual kynt; a llyna e guyllt a deyle y dof, ac nyt emchuel henne en agkyureyth

(Ior. §156)

830 Y mae'r ddihareb yn ddiystyr fel y'i ceir yn A. Llygriad o ddihareb a geir yn y canu gwirebol sydd yma. Yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr' ceir 'ny chenir m6yeit arffo' (RBP, 1055.26-7) ac yn y gerdd 'Breuddwyd a welwn neithiwr' ceir y llinell 'Ny chenir buyeid ar ffo' (LIDC, 2.24). Amrywiadau ar yr un gair yw *bwyaid* a *mwyaid* 'gwynfyd, bendith' (GPC; Williams, 1924, 124). Daw *bwyaid* o'r Lladin *beati* (Jacobs, 2004, 19).

831 **gwaessaf** 'Gwarant, gwystl, mach, ernes; cymorth, help, ymgeledd' (GPC).

Cf. 'Tri gwaessaf yssyd: ardelw, neu warant, neu amdifffyn heb warant' (Bleg., 120.17-8).

Dihareb gyfreithiol a ddyfynnir yng nghyswllt talu amobr:

O deruyt y ur dyweduyt bot gwreyc yn beychyauc [o hona6] ar wreyc yn gwadu ar gur yn adew ar argluyd yn mynn6 yr amobyr talet y gur y syd yn adew [yr amobyr] canyt oes wat tros wayssaw [ida6].

(AL, II.34.xxvi)

Taliad i aglwydd mewn perthynas â cholli morwyndod gwraig yw amobr: 'O dry mod e deleyr amobyr e wreyc: o rod ac estyn, keny chysger genty; a'r eyl o kesgu en gohoedauc, keny bo rod nac estyn; a'r tredyd o'y beychyogy' (Ior. §51). Cyfieithir y ddihareb gan John Davies yn *Non est negatio stipulationis*.

832 **newit** Yr ystyr yma yw 'cyfnewid'

mach 'Gwarantwr'. Ar gyfraith mechni gw. Jenkins, 1976, 81-4.

Dihareb gyfreithiol a ddyfynnir yn ei chyd-destun yn *Llyfr Cynog*:

Nyt mach mach a rodo g6reic 6rya6c, ac ny dyga6n hitheu bot yn uach. Atnewyt a dylyir o k', canyt newyt heb uach ac na ellir mach.

(Cynog, 70)

833 **cyngheing** Myn. pres. 3 un. *cynghenni*, 'cydweddu, bod yn addas neu'n gymwys' (GPC).

g6arthal 'Darn dros ben' (GPC).

Dihareb gyfreithiol sy'n digwydd yng nghyswllt rhannu treftadaeth. Ceir ymdriniaeth lawn â'r ddihareb yn Bleg., xxxiii-xxxv a chynigir yno mai ei hystyr yw 'Ni cheir darn dros ben [adran, gwarthal] ar ôl cael dewis'. Rhaid oedd dyall ystyr *atran* cyn medru dehongli'r ddihareb a dangosodd S. J. Williams fod *atran* a *gwarthal* yn gyfystyron. Os oedd rhan dros ben ar ôl

rhannu treftadaeth yn gyfartal, y mab ieuengaf a gâi'r rhan honno herwydd yr oedd y meibion eraill oll wedi cael dewis eu rhan:

Pan ranho brodyr tref eu tat yrydunt, y ieuhaf a geiff tydyn a holl adeil y tat, ac wyth erw, a'e gallawr, a'e uwell gynnut, a'e gwlltyr; kany eill tat rodi y neb y tri hynny namyn y'r mab ieuhaf, a chyn gwystler, ny dygwydant byth. Odyna kemeret pob brawt eissydyn ac wyth erw; a'r mab ieuhaf a ran, ac o hynaf y hynaf dewis hyt at y ieuhaf ... Ny dylly neb gofyn atran onyt y neb ny chafas ran dewis; odyna y diaereb yssyd, "nyt oes warthal gan dewis".

(Bleg., 74.21 – 75.7; gw. yn ogystal WML, 50.15 a WML, 53.7-8 sy'n rhoi'r ddihareb fel y'i ceir yn y casgliadau diarhebion)

834 **cymyd** Myn. pres. 3 un. *cymodi*. Cf. A780 uchod.

datleu 'Ymryson, cynnen'. Darllener *a datleu*.

836 **dylyho** Dib. pres. 3 un. *dylÿu*, 'teilyngu'.

Ni fydd yr un nad ydyw'n teilyngu parch yn cael parch.

837 **yd ydyfnir** Ni ellir synnwyr o'r darlleniad hwn. Darllener y *dyfnir*, myn . pres. amhers. *dyfnaid*, 'ymarfer â, cynefino â' (GPC; ceir mynych enghreifftiau yn GBGG).

838 Dyfynnir y ddihareb gan Elis Gruffudd. Siarl V yw'r *amerodyr* y cyfeirir ato wrth gwrs:

O'r man j marchogasant twy j'r dreef, ynn y lle j disgynasant twy j'r llawr oddiar j meirch o'r tu dehau i'r man j kynhelid marchnad y dreef garbron lletty yr Amerodyr, yr hwn a oedd dy disas, symppyl i dderbyn ac j letteu y kyuriw bobyl, neithyrr, megis j mae y ddihareb 'Ni all neb ddewis j gam ynn fo'; kanis ynn wir nid oedd ynn y dref honno le j gaffel dewis.

- 839 **kywyd** Byddai'r ystyr 'cân, barddoniaeth' yn taro'n iawn ond y mae'r ystyr 'meddwl, bryd, bwriad' yn bosibl a hynny, efallai, o gymharu â gweithred, gw. nodyn Marged Haycock ar y llinell 'A'th uendicco de kywid a gweithred' (BBGCC, 5.19).
- 840 **ny rag6y** Yn DD ceir *ni ragwyl* ac ymddengys yn gywiriad synhwyrol (cyfeirir at *ragwyl* yn GBGG).
- 845 Dihareb gydwladol. Mewn ieithoedd eraill y mae amrywiadau ar y ddihareb hon sy'n enwi dinasoedd heblaw Rhufain (Taylor, 1985, 25). Ymdrech i gymhwysu'r ddihareb i oes ddiweddarach neu wlad newydd sy'n cyfrif am hyn yn ôl Taylor. O ystyried pwysigrwydd Rhufain yn y traddodiad Cymreig, ynghyd â diffig dinas o unrhyw faintoli yng Nghymru nid yw'n rhyfedd na cheir amrywiadau yn y Gymraeg. Ceir y ddihareb mewn cywydd gan Siôn Tudur: 'Nid ar un awr, dirion wedd, / Y gwnaed Rhufain, gnot rhyfedd' (GST, 5.59-60). Cf. *Romme ne fu pas faite toute en un jor* (Mor., 2223); *Rome was not built in one day* (PSPP, R183). Gw. ymhellach (SM II, 120).
- 847 *Cywiro ergyd* yw taro'r hyn yr anelir ato.
- 848 *Ar diffygio ar gw.* A734 uchod. Yr ystyr yma yw *be lacking or wanting to (one)* (GPC).

Y mae gwagedd yn llawn esgusion, cf. 'Gwraig a'i hesgus trefnswag' (YEPWC, 3.65).

849 **annudon** Term cyfreithiol, 'llw neu dystiolaeth gelwyddog'.

850 **g6lana** 'Casglu gwlan'.

Dyfynnir hanner y ddihareb yn y cyfieithiad Cymraeg Canol o gyflwyniad gwylaidd Honorius i'w *Imago Mundi*:

Ac wrth hynny, pan vych di yn sychedic y sugnaw mer drud yn yr yscrythur yn gwbyl, yttwyt titheu yn y deisyueit yn gedymdeithus, val y dyweit y diaereb, "Gwlanha ar auyr," mi a ysgythreis itt ffuruf yr holl uyt, ual y gellych y welet a'th olwc ual y gallon y dyall, val y gwahanwyt o'r defnydyeu kyntaf.

(Lewis & Diverres 1928, 21.18-22)

Yn y testun Lladin gwreiddiol y ddfad sy'n deisyf gwlan gan yr afr, *Quod ovis a capra petierit lanam* (Lewis & Diverres 1928, t. 20, 19), ond yr un yw ergyd y ddihareb.

851 **tac** Myn. pres. 3 un. *tagu*.

852 Ni cheffir pwyll heb dalu amdano, hynny yw y mae dyn yn dysgu oddi wrth ei gamgymeriadau. Dyna ergyd yr enghraifft o'r ddihareb yn y llinellau hyn o waith Siôn Tudur: 'Dysgais, am ran ymannerch, / Deall i'm hoes dwyllau merch. / Ni bydd da synnwyr, ni bu, / Naws bêr iawn, nes ei brynu' (GST, 178.31-4). Yn y cywydd hwn cyplysir y ddihareb hon ag A795 uchod. Cf. hefyd yr hen bennill hwn:

Myfi sy ffolaf dyn dan awyr,-

Myn'd ymhell i brynu synnwye;

Gwedi talu'n brid amdano,

Methu cario dim oddi yno.

(Hen Benillion, 56)

- 853 **arthur** Ar *Arthur* y cymeriad hanesyddol a chwedlonol gw. WCD, 26-9; TYP, 274-7.
torri nawdd Dyry GPC *to violate sanctuary or protection*.
- 854 **cogyl** Awgrymir yn GPC mai benthyciad o'r Saesneg coggle 'carreg gron wedi ei threulio gan ddŵr yr afon', ydyw. Nis ceir yn EEW ac nid oes enghraifft o'r gair ac eithrio'r gwahanol fersiynau o'r ddihareb hon.
- 855 **cynghain** Gw. A833 uchod.
- 857 **Na6f** Myn. pres. 3 un. *nofio*.
mein Llu. *maen*, 'meini'.
- 858 **toryn d6yn** 'Mantell' yw *toryn* (GPC). Berfenw y ferf *dygaf* yw *dwyn*. A ellir, o gymharu'r ymadrodd *dwyn gwisc* (GBGG), gynnig mai clogyn i'w wisgo oedd hwn, cf. *dillad gwisgo* heddiw?
capan gla6 *rain cape* (GPC).
- 862 **6rth gyghor** Gw. A949 isod.
- 863 **g6r** A ellid, er mwyn gwella'r ystyr, ddarllen *g6ir*?
g6rthmuni Ffurf ar *gwrthuni* (GPC).
- 865 Cf. A774 uchod.

- 867 **mar6dl6s** Dyfynnir fersiwn DD o'r ddihareb hon yn GPC o dan *marwolus*, 'Peth marwol neu lygredig'. Ni thâl hynny ddim oherwydd dengys y llawysgrifau hynaf oll mai cyfansoddair o *marw* a *tlws* sydd yma. Serch hynny, erys ergyd y ddihareb yn o dywyll.
- 868 **dam6ein** Geill mai'r ystyr penodol 'achos cyfreithiol' sydd iddo yma.
- 869 Bydd llawer o draed yn sathru'r egin a dyf yn y farchnad. Cf. *To fare like Grass growing on a chimney* (PSPP, G433).
- 870 **post** Naill ai 'piler, colofn' (GPC *post* (a)) neu 'un o bedwar aelod dyn' (GPC *post* (f)). Os y cyntaf cf. ymadroddion megis 'gwaed o garreg', os yr ail cf. 'a phan torher vn o petwar post corff dyn hyy weler ymer' (WML, 25.12-4).
- 871 Dihareb gydwladol cf. *To draw a Thorn out of one's heel and put it in another's* (PSPP, T225).
- 872 **ymry** Myn. pres. 3 un. *ymrain* 'ymgydio, cenhedlu'.
gwydbedyn Hen ffurf ar *gwybedyn*.
- 873 Ceir y ddihareb yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 6c). Fe'i diweddarir gan Marged Haycock yn 'Nid yw ymddiwygio'n warth' (BBGCC 31, 6c).
- 874 Y mae hyn yn gyson â chyfarwyddyd y Catwn, cf. 'Bit vwy y bych yn deffro noc yn kyscu. kanys seguryt beunyd a vac pechodeu. A

thrwy gysgu heuyt y dyellir un or seith bechawt marwawl'
(Williams, 1923, 19).

876 **pyrth** Myn. pres. 3 un. *porthi* 'cynnal' (GPC).

877 Gellid cymharu cyngor y llwynog yng nghywydd enwog Huw
Llwyd o Gynfal:

Nâd i un wedi'i eni
Wybod mewn man d'amcan di.
(Dyna'r ffordd 'r adwaenir ffŵl, -
Ef a addef ei feddwl.)
(Lake, 1981, V.95-8)

878 **geilwat** 'Gŵr a gerddai yn wysg ei gefn o flaen gwedd o ychen yn
aredig' (GPC) Ar *alw ychen* gw. A549 uchod.
agraff Diwygier i *aghraff*.

879 **kahat** Ffurf ar *caffat*, Gorff. amhers. *cael* (ni cheir enghraifft
ohono yn GBGG ond fe'i ceir yn GMW §161)
herbin Y mae John Davies yn ei drin fel enw personol a diau mai
hynny sydd orau. Os Erbin ydyw ni fyddai'n anodd i'r enw fagu h-
anorganig. Ceir dau Erbin yn y traddodiad Cymreig, sef Erbin ab
Aergol Lawhir, brenin Dyfed ac Erbin ap Custennin Gorneu, tad
Geraint yn *Ystorya Gereint uab Erbin* (Gereint, 562). Enwir Erbin
yn 'Englynion y Beddau' (LIDC, 18.94). Trafodir y ddau yn WCD,
254 ond nid ydym ddim elwach ynglŷn â'r ddihareb.

880 **asgyr** Gwall am *ysgyr*, amrywiad ar *ysgwr* 'gwaywffon'?

- trefgordd** Fe'i diffinnir yn Bleg., 171 fel 'math o bentref y trigai taeogion neu fileiniaid ynddo ynghyd â'r tir a berthynai iddo'.
- 881 **atclaf** 'Clafychu eilwaith' (GPC).
- 883 Dihareb gydwladol ond clust y gath, nid ei chynffon (*llogswrn*) a geir yn y Saesneg a'r Ffrangeg: *A hardy Mouse that breeds in the cat's ears (varied)* (PSPP, M735); *Jamais ne fu ne sera qu'une souris fasse son nid en l'oreille du chat* (SM I, 105).
- 884 **erchyll** Myn. pres. 3 un. erchyllaf, 'ymddangos yn erchyll'.
ny diwycco blys 'nad yw'n cywiro trachwant'.
- 885 **geiryd** Gorff. 3 un. *geirio*, 'llefaru'.
- 888 **Ny na6d ... rac** Ar yr ymadrodd mewn diarhebion gw. A711 uchod.
kaledi 'Crintachrwydd' (GPC). Dywedir bod cybydd yn un caled hefo'i bres.
- 890 **di6c** Myn. pres. 3 un. *diwygu*, 'diwygio' (GBGG).
- 891 **anhychvryt** Nis ceir yn GPC. Cynigiaf ei ddiwygio i *anhychvryt* a'i gysylltu ag *annhyciannol*, *annhyciannus* ac *annhyciant* (GPC). Byddai'r ystyr 'golwg aflwyddiannus' yn gweddu i'r dim.
- 892 **bagyla6c** 'Cwmanog', cf. 'Kynn bum kein vaglawc, bum kyffes eiryawc' (CLIH, II.1a).
- 893 **Ny thal** 'Nid yw o werth'

dryc ymreat A'i ddeall fel ag y mae, 'cnuch sâl' ond yn Llyfr Du'r Waun ceir *Nyral dim drycemraec* (Williams, 1926, 27) a diau mai hynny a ddylai fod yma. Hawdd yw esbonio'r darlleniad fel gwall copïo *t* am *c* a diweddarau *e* yr hen orgraff yn y.

Gellid cymharu fersiwn Llyfr Du'r Waun â'r llinell o 'Aduwyneu Taliessin', 'Arall atwyn ellein Gymrâec' (BBGCC, 4.46).

894 **atwna** Myn. pres. 3 un. *adwneuthur*, 'dadwneuthur'.

Ceir y ddihareb hon yn y gyfres englynion 'Claf Abercuawg' (CLIH, VII.30c). Fe'i ceir hefyd yn yr englyn hwn o 'Farwnad Hywel ap Gruffudd o Feirionydd':

Ut adyen, hywen Hywel, - neud adneu,
Nyd adwna Duw a wnel,
G6r hydyr, yn hoedran a del
G6a6r echen, g6rhud Echel.
(CBT, V.13.21-4)

Cf. yn ogystal, 'Nid adwna, da ei dangnef, / Duw a wnaeth; nid ei o nef' (GDG, 94.23-4). Gellid cymharu'r ymadrodd cyfreithiol, 'Nid adwna cyfraith a wnel': 'E tat ryguadus en keureythyaul, ny byd karrdychuel enteu byth ar hunnu tracheuen, canyt atwna keureyth a wnel' (Ior. §67).

895 **diuan6** Myn. pres. 3 un. *difenwi*.

perigla6r 'Offeiriad, cyffeswr' (GPC). Meddai Huw Pryce: 'Er bod tarddiad y gair periglor yn ansicr, y mae'n bur ddiogel y golygai offeiriad, ac offeiriad a wrandawai ar gyffes yn fwyaf

arbennig, erbyn y ddeuddegfed ganrif fan bellaf' (Pryce, 1986, 58 a 68-9).

897 Ceir y ddihareb yn y gyfres 'Eiry Mynydd' (EWGP, III.20c).

898 **sywedyd** 'Seryddwr, daroganwr' (GPC). Arno gw. CA, 131 a BBGCC, 53-4.

899 **huna6c** 'yn cysgu'.

Adleisir y ddihareb gan Ddafydd ap Gwilym: 'Serchog, o'i radd gyfaddef, / O chais a gâr, ni chwsg ef' (GDG, 72.17-8). Dichon fod adlais ohoni hefyd yn yr englyn milwr hwn:

Lhywelyn bhardh lhvoessoc,

Heno ny bydh hvnoc,

Yn iach i tithav serchoc.

(GP, 179)

900 Digwydd y ddihareb yn 'Gossymdeith Llefoet Wynebglawr' (RBP, 1056.8-9), yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 17c), ac yn yr englynion gwirebol (EWGP, V.5c; VI.4c). Y mae'r cyfuniad Duw-dewin yn cyffredin yng ngwaith y beirdd cf. 'Duw, Dewin gwertheuin gwyrtheu' (CBT, I.27.1); 'Nis gwyr namyn Duw a dewinion – byd / A diwyd dderwyddon' (CBT, III.8.21-2); 'Anreithwys Mab Duw, Dewin – holl wybod' (CBT, VI.5.49); 'Nifer seint sened anchwant / o du6 dewin darogant' (LIT, 5.26 – 6.1). Nodir mynych enghreifftiau o'r cyfuniad yn GBGG.

901 **eidun** Myn. pres. 3 un. *eidduno*, 'dymuno'.

dyhed 'Rhyfel, aflonyddwch, cythrwfl, cyni, gresyni' (GPC).

Digwydd y llinell yn y gyfres englynon 'Claf Abercuawg':

Alaf yn eil; meil am ved.
Nyt eidun detwyd dyhed.
Amaerwy adnabot amyned.
(CLIH, VI.22)

Fe'i cyfieithir gan Rowland yn *The wise man does not desire discord* (EWSP, 498).

902 **g6ael** Enw ydyw yma, 'trueni' (GPC).

Llinell o'r gerdd 'Breuddwyd a welwn neithiwr' (LIDC, 2.25). Yr ystyr yw 'Nid yw ochenaid yn amddiffyniad rhag trueni'.

903 Yn y gerdd 'Breuddwyd a welwn neithiwr' ceir 'Ny derllit hael ar nuy bo' (LIDC 2, 26) yn dilyn A902 uchod sy'n awgrymu fod y ddwy wedi eu codi o'r gerdd honno. Ar sail hyn awgrymaf y dylid diwygio'r ddihareb hon a darllen *derllid*, myn. pres. 3 un. *derllyddu* 'haeddu, teilyngu', yn lle *ettleid*.

Yn fersiwn y Llyfr Du ceir *nuy*, geiryng negyddol + rhagenw trydydd person (GMW, 55-6) yn lle'r negydd syml. 'Nid yw'r sawl nad ydyw'n hael yn teilyngu haelioni'.

905 **ceffir** Myn. pres. amhers. *cael*.

906 **Ny chryn lla6** Arwydd o ofn ar yr anghynefin a'r llwfr yw llaw grynedig, cf. 'Ac ystynnu a oruc Chyarlys y llythyreu yna ar Wenwlyd, ac ual y ryd y brenhin yn y law ys dygwydant wynteu

y'r llawr, a'e law ynteu yn krynu' (YCM t. 120, 14-7); 'Ponyt g6ann truan trymder – pechadur ... Na chryn lla6 yn llunya6 sal6der' (CBT, VII.38.1-5).

mab dysc *Mabddysg*, cyfansoddair o *mab* a *dysg*. Dyry GPC 'Yr hyn a ddysgwyd yn blentyn, hyfforddiant bore oes, dysg elfennol, egwyddorion cyntaf unrhyw bwnc'. Felly hefyd DD: *quod quis à pueritia didicit, rudimenta a pueris ediscenda*. Dyry GPC dair enghraifft o waith y Gogynfeirdd: 'Mabddysg yw i'n llyw llu rif y sêr' (CBT, V.17.21); 'Mabddysc ytt treulya6 treth enuyn – y ueirt' (CBT, V.19.21); 'Mabdysc oet idi roti yn rwyt' (CBT, II.7.14). Ceir adlais o'r ddihareb yn yr ail enghraifft a ddyfynnwyd uchod o waith Prydydd y Moch:

Mabddysc ytt treulya6 treth enuyn – y ueirt
Yn uyrtyoet y'th gylchyn.
Dy la6 hir, neu chredir na chryn,
Yn roti eur rut a melyn.
(CBT, V.19.21-4)

Ceir enghraifft arall ohoni, mi gredaf, yn y llinellau hyn gan Dudur Aled: 'Ni chryn llew'n nychryn lluoedd, / Na baedd, ys gwir, - mabddysg oedd!' (GTA, XII.55-6); ac adlais efallai yng ngwaith Gutun Owain: 'Ni chryn llaw hael y' Maelawr / A ro'n vab, a'i aur yn vawr' (OPGO, XIV.25-6).

Y mae'n amlwg fod Prydydd y Moch yn ymhoffi yn y geiriau *Mabolaeth*, *Mabddysg*, *Mabynogi* a *Mebyd* yn ei englynion i Lywelyn ab Iorwerth (CBT, V.17.17-29) ond ni ellir derbyn fod y tri chyntaf yn gyfystyron (GTA, 566). Ymhellach ar gyfansoddeiriau *mab* gw. Williams, 1917, 189.

- 907 **brodyrde** Yn ôl GPC, 'Brawdol, nodweddiadol o frawd'. Felly hefyd GBGG sy'n ei gymharu â'r Wyddeleg *brátharda*. Digwydd y gair ddwywaith yng Nghanu Heledd (CLIH, XI.59b; XI.81c). Fodd bynnag, teg y sylwodd Jenny Rowland na wna ansoddair mo'r tro yma a chynigia ddeall *-de*, nid fel terfyniad ansoddeiriol, ond fel enghraifft o'r elfen *de*, 'poeth, brwd' (GPC). Y mae Jenny Rowland yn cyfieithu'r ddihareb yn *Not forgotten are passionate brothers* (EWSP, 596).
- 909 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir na 'vit dy elyn dy gedymdeith' (Clyweit 7c).
- 911 **beid** Myn. pres. 3 un. *beiddio*, 'herio'. Berf anghyflawn ydyw yma. **llann ehalaeth** Eglwys helaeth ac felly plwyf helaeth.
- 913 **g6einit** 'Llafur' (GPC).
- 915 Ni ellir corn yfed o gynffon ci.
- 917 **kyrch** Myn. pres. 3 un. *cyrchu*. Yr ystyr yma yw 'dynesu at'. **gyfuar6s** *Cyfarws*. Trafodir tarddiad y gair gan Lloyd-Jones (1923, 5-6) sy'n ei gysylltu ag *arwydd* a *cyfarwydd* (Gwyddeleg: *airde*, *comarde*) a'r ystyr wreiddiol meddir oedd 'arwydd'. Fe'i ceir yn yr ystyr 'arwydd o wrogaeth' yn y cyfreithiau: 'Teir punt pob blwydynn a geiff ynn gyuarws y gan y brenhin. Punt yw kuarws pob vn o'r teulu' (am y Penteulu, Bleg., 10.16-8). Arwydd o gydnabyddiaeth yw *cyfarws* yn chwedl Culhwch ac Olwen: 'Dos titheu ar Arthur y diwyn dy wallt, ac erchych hynny idaw yn gyuarws it' (CO, 58-9, a'r nodyn, 53). Sonnir hefyd yn y cyfreithau am *gyfarws neithior* sef 'rhodd briodasol' (Bleg., 25.15). Ceir

ymdriniaeth lawn â'r gair yn TYP, 183 a HGVK, 66-7 a thrafodir yn y ddau yr ystyr tebedig 'rhodd gan Dduw' yn y farddoniaeth gynnar, gan gyfeirio'n benodol at y llinellau LIDC, 3.11 a RBP, 1185.9 ond ymddengys nad yw golygyddion diweddar y cerddi dan sylw yn rhannu'r un farn (Cyfeirio at Guhelyn yn hytrach nag at Dduw a wneir yn y naill linell, gw. CBT, I.2; cyfeiriad at rodd fydol sydd yn y llall, CBT, I.14). Yn y ddihareb hon ymddengys ei fod yn bur agos at 'gwobr' yn yr ystyr grefyddol, cans wrth i ddyn ddynesu at ei farw, dynesa hefyd at ei wobr.

Fersiwn lygredig o'r ddihareb hon yw A695 uchod.

918 **da6** 'Mab yng nghyfraith'

Dihareb gyfreithiol a ddyfynnir yng nghyswllt Cyfraith Gwragedd:

O deruyd rody moruyn y vr, a kyn kysgu genthy kaffel saraet ohoney, rey a dyweyt e mae urth ureynt y gur y telyr ydy. Ereyll a deweyt pan yu urth ureynt y braut e telyr ydy, ac nat gureicauc yny gysger genthy, cany elwyr dau hyt trannoeth; a honno a elwyr moruynwreyc, a bey dyccey ur arall treys arney hy a dley y chowyll.

(Col. §55-6)

Ystyr *morwynwraig* yn y darn yw 'gwraig wryf'. Awgrymwyd mai hen arferiad a gofnodir yn yr adnod sy'n cynnwys y ddihareb a bod yr adnod gyntaf 'yn adlewyrchu'r athrawiaeth eglwysig ddiweddarach' (Col., 55). Credid yn gyffredin yn yr oesoedd canol na chwplheid priodas nes i'r ddeuddyn ymgydio (Jenkins, 1976, 40; Jenkins, 1980, 72).

919 **gogyuada6** 'Bygwth'.

Dyfynnir y ddihareb o dan *gogyfaddaw* yn DD a rhoir y cyfieithiad *non occidit minari*.

921 **ynuyt** Rhaid troi at B458 i gael y darlleniad llawn, *ynuut gyssevin*. Adferf yw *cysefin* yma, ‘yn gyntaf’ (GPC). Dangosir hynny yn y treigladd pan fo ansoddair adferfol yn goleddfu ansoddair.

924 **yscar** Fe’i defnyddir yma fel ansoddair, ‘gwahanedig’. **anhved** Yr ail ystyr yn GPC a wedda orau yma, sef ‘gweniaith, twyll’.

925 **ny6** Geiryn negyddol + rhagenw mewnol trydydd person unigol (GMW, 55-6). **diuyd** Dyf. 3 un. difod, ‘bod â’ (Williams, 1969).

Ystyr y ddihareb yw na chollir yr hyn na feddir.

926 **med61** Yn B475 ceir *keuda6t* ond yr un yw’r ystyr.

927 **butra** Pres. 3 un. *budro*, ‘difwyno, llychwino, troi’n lleidiog’ (GPC). Cf. ‘Ac yna y budyravd Hafren o’e blaen hyt y haber’ (TYP, 69).

llynnwyn Dyry GPC ‘pwll, pyllyn, corlyn, llyn; ffos o amgylch castell’. Ynghyd ag enghraifft o’r ddihareb hon yn ei chyd-destun cyfreithiol, nodir dwy enghraifft o’r gair yng ngwaith Lewys Glyn Cothi (GLGC, 66.48; 170.3) ac un yn yr englynion gwirebol, ‘llynnwynn lla6n’ (EWGP, V.1b) a gyfieithir yn *the pond is full* gan Kenneth Jackson (SECNP, 63). Cyfieithir y gair yn *flood* gan

Wade-Evans (1904, 16) a Aneurin Owen (AL ii, 30) ond ni nodir yr union ystyr hwn yn GPC.

Dihareb gyfreithiol yw hon sy'n digwydd yng nghyswllt cyfraith lladrad:

O d'uyd d6yn h6ch y gan dyn yn lledrat. a meithrin epil o honi gan y dyn [h6n](n6). ac g6ybot or perchenna6c (y lle) yd oed acheissa6 a hi ae hepil. N(y dyly) o k'. Namyn hi e hun o byd ar gar(n). Ac o ny byd Bit heb dim. Can dywe(it y k'.) yna na uudra llynwyn.

(Wade-Evans, 1904, 15-6)

Cyfieithir y paragraff hwn gan A. W. Wade-Evans fel a ganlyn:

If a sow is taken away stealthily by a person and she rear offspring with that person, and the owner know where she was and should demand both her and her offspring, he is not entitled by law save to her alone if she be in existence; and if she be not, he is to have nothing, for the law says then, A flood will not render muddy [in its course more than is taken by it].

(Wade-Evans, 1904, 31)

Yn AL (ii, 30) rhoir darlleniad sydd fymryn yn wahanol:

na uutra llynwyn yni ol nac yni ulaen namyn kymeint ac a ducp6yt i ganto.

Dyfynnir yr un darn yn syth o lsgr. Wynnstay 36 o dan y gair *llynwyn* yn GPC ac y mae'r darlleniad yno beth yn wahanol eto:

y gyfreith a dyweit. nabutra llynwyn yny ol ac yny vlaen namyn kymeint ac a ducpwynt y gantaw

Nid chaiff perchennog yr hwch, felly, gadw ei hepil yr hwn a genhedlwyd ganddi tra oedd ym meddiant y lleidr a hynny, yn ôl pob tebyg, oherwydd bod y lleidr wedi gofalu am yr anifail yn ystod y cyfnod hwnnw (Jenkins, 1986, 284). Gellir cymharu'r paragraff uchod â pharagraff cyffelyb o Ddamweiniau Colan a drafodir yng nghyswllt y rheol gyfreithiol a grynhoir yn A824:

O deruyd duyn buch en lladrat a meythryn ohoney epyl gan y dyn a'y duc, a chlebot o'r perchennauc e lle ed oet yndau ay hy ay hepyl, nys dely namyn e hun, ac ony byt ny dyly dym canyt a sullt a dan dyepryt (Dam. Col. §113)

Ymddengys felly fod y ddihareb dan sylw ac A824 ('Nyt a s6llt adan diebryt') yn mynegi'r unrhyw reol gyfreithiol. Y mae'r rheol yn eglur ddigon ond nid felly arwyddocâd y trosiad sy'n lled dywyll a thwsgl i'r darllenydd modern. Dyry John Davies y cyfieithiad *Non polluit (vel, non polluitur) aqua stagnans*. Dengys y petruso rhwng ystad weithredol ac ystad oddefol y ferf yn y cyfieithiad hwn nad oedd yntau yn sicr o'r hyn y ceisir ei gyfleu yn y ddihareb. Cynigiaf mai'r lleidr a gyfleir gan drosiad y *llynwyn*. Nid yw'r lleidr yn 'llychwinio' dim namyn yr eiddo a ddygir ganddo a'r eiddo hwnnw yn unig sy'n berthnasol pan ddaw'r gwir berchennog i'w hawlio.

928 **gordyfn6ys** Gorff. 3 un. *gorddyfnaid*, 'bod yn gyfarwydd â'.
kebystyr 'Penffrwyn'.

Delweddau tebyg sydd yn y diarhebion Saesneg hyn: *It becomes one as well as a Cow to bear a saddle* (PSPP, C501); *It becomes not a Dog to bear a saddle* (PSPP, D311).

- 929 Dihareb gyfreithiol a ddyfynnir yng nghyswllt *adafael* sef cymryd eiddo i orfodi'r perchenog i dalu dyled (*distress, seizure*, GMWL, 5):

O deruyd y dyn duyn adauel yn agkeureythyaul, aduerer er adauel dracheuyn a'r haul en jr. Eff a dewedyr na dyly keureyth ne'w gunel; am er hyn a wunaeth ef en agkeureythyaul amdanau, ef a atueryt dracheuyn, a'r haul byt en jr mal kynt.

(Dam.Col., §115-116)

Nid oes gan y sawl nad yw'n gweithredu yn unol â'r gyfraith hawl i gyfraith. Dyna ergyd y ddihareb pan ddyfynnir hi yn *Llyfr Cynog* yng nghyswllt llysu cyn amser (Cynog, 12) a thyst ar fach (Cynog, 13-4).

- 931 **chwegr6n** 'Tad yng nghyfraith'. Merch dy chwegrwn felly yw dy wraig neu ei chwaer.

- 932 Yn ôl y llyfrau cyfraith, yr oedd lladd ei gennad yn sarhad ar frenin:

en gyntaf o sarhaet brenhyn Aberffrau. Sef er edrechus e keureyth pa beth esyd sarhaet, ac ydau ef ac y paub; ac esef reweles e keureyth, nat sarhaet e nep namen un o try peth en enwedyc: guneythur guaratwyd ydau am e wreyc, neu lad e gennat, neu torry e naud.

(Ior. §110)

933 Gw. A715 uchod.

937 **Ny lud** Ceir cyfres o ddiarhebion yn dilyn yr un fformwla mewn darn o lôn doethineb yn Cynog, 46.

amreint Dyry GPC 'Coll neu dor braint, difreiniad'.

939 Awgryma Gwenogvryn Evans (1885, 574) mai cyfeiriad sydd yma at yr arfer o blygu darn o bren wrth rannu eiddo.

940 **kyweithas** 'Cwmni' (GPC).

942 **sengis** Gorff. 3 un. *sengi*, 'sathru'.

Dihareb gydwladol a drafodir gan Archer Taylor yn ei ysgrif 'The Proverb "The Black Ox has not Trod on his Foot" in Renaissance Literature' (Mieder, 1975, 152-64). Dengys Taylor sut y mae pob enghraifft o'r ddihareb a gasglodd yn cyfleu'r syniad nad yw rhywun wedi profi gofidiau. Dosberthir yr enghreifftiau ganddo yn bedwar dosbarth a'r ddihareb ag eiliw ystyr gwahanol ym mhob un: 1. nis gŵyr am drafferthion bywyd priodasol, 2. Mae'n ddibrofiad, gwyn ei fyd, 3. Nid ydyw wedi edwino gan henaint, 4. ni ŵyr angen. Cysyllta Taylor y ddihareb â'r ddelwedd o angau yn marchogaeth ych du, delwedd ac iddi draddodiad hir yn iconograffeg yr oesoedd canol. O'r ddelwedd hon y tyfodd y cyfeiriadau at ofidiau yn gyffredinol sy'n gysylltiedig â'r ddihareb. Cf. *The black Ox has not trod on his foot* (PSPP, O79). Nis ceir yn yr ieithoedd Romàwns a theg felly yw tybio mai yn uniongyrchol o'r Saesneg y daeth i'r Gymraeg.

Diddorol yw sylwi fod un awdur o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi ceisio gweld tarddiad y ddihareb yng Nghyfraith Hywel (Mieder, 1975, 162). Ceisiodd W. Toone weld cyswllt rhwng y ddihareb ag *erw'r ych du* yn y gyfraith ynglŷn â chyd-aredig (gw. Ior. §149). Nid oes sail i'r honiad wrth gwrs.

943 **sorri ar** Cf. 'ny dyly nep sorri ar duw yr bychanet a rodo idaw' (Williams, 1923, 33).

944 **Neur** Geiryn rhagferfol, *neu(t) + ry*, (GMW, 170).

uegeist Gorff. 2 un. *magu*.

dirpr6y Myn. pres. 3 un. *dirprwyo*. Yn B530 ceir y dib. pres. 3 un. *dirpr6yho*.

945 **dymhoelir** Myn. pres. amherff. *dymchwelyd*. Dyry'r myn. pres. 3 un. *dymchoel* yn B534 well synnwyr.

Ymhyfydir yng nghyneddffau'r gwynt yng 'Nghanu y Gwynt' yn Llyfr Taliesin (LIT, 36-7).

947 Fersiwn gwallus o A971 isod sydd yma yn ddiau.

948 **Ocuaenen** Unigol ogfaen, ffrwyth yr egroes (GPC, Saes. *rose-hips*). Gw. A663 uchod.

yg geneu 'Yng ngheg'. Cf. y ddihareb gyfreithiol 'Brec egeneu keghaus' (Col. §467).

949 **6rth gyghor** Am y gwynt dywedir 'ef o pedeiror ny byd 6rth gyghor' (LIT, 37.11). Y mae'n ymadrodd cyffredin yn y

Cyfreithiau: 'or tric wrth gyghor y ryeni a'e chyt etiuedyon' (Bleg.,

75.23-4); ‘Pan del y distein yr llys 6rth gyghor ef y byd y b6yt ar llyn yn holla6l’ (WML, 12.20 – 13.1). Cf. hefyd ‘Mi a wnafl uyg gallu am hynny, arglwyt,’ heb hi, ‘vrth dy gyghor di.’ (Gereint, 788-9). Yr ystyr yw ‘yn unol â chyngor’ neu’n ‘ddarostyngedig i gyngor’.

llysuam Yn fersiwn B34 ceir *elldre6yn* ond yr un yw’r ystyr.

Ceir y ddihareb gan Dudur Aled: ‘Deuair oedd raid eu dyall - / Gair mam, gair llysfam yw’r llall’ (GTA, XX.55-6) a dyfynnir y cwpled hwn gan Henri Perri a meddai “Y mae hynn yn dhywediad cyphredin; ni wnel gyghor ei bham gwnaed gyghor ei lysbham.” (G. J. Williams, 1930, 42). Cf. *Who that will not leve (believe) his Father shall leve his stepfather (varied)* (PSPP, F82).

Y mae ymddwyn yn unol â chyngor rhieni yn thema gyffredin mewn llên ddoethineb, cf. ‘Fy mab, gwranddo addysg dy dad, ac nac ymado â chyfraith dy fam’ (Llyfr y Diarhebbion 1:8).

951 Am ‘(heb fod) uwch bawd (na)’ sawdl dyry GPC, 265 (*not any the better off, (no) further advanced*). Dyna’r ergyd yn y dyfyniadau hyn:

A ydych yn disgwyl byth weled yno Gymro’n y byd yn Esgob? Cynt y rhown goel at y Brut sy’n addaw dyfodiad Owain Lawgoch, a’i orfodawglu, nag y disgwyliwn weled byth Gymro uwch bawd na sawdl mewn unrhyw ragorbarch gwledig nag Eglwysig.

(Davies, 1924, 65)

Yr oedd llygaid amryw o blant creulon arnaf – gwn amdanynt i gyd, plant cegog o’r pentref oedd y rhan fwyaf – nid ydynt uwch bawd sawdl byth.

(dyfynnir o *Clych Atgof* yn Gruffydd, 1938, 69)

Fe'i clywir ar dafod leferydd o hyd. Digwydd ymadrodd tebyg yng nghyswllt mechni:

O deruyd e uach a kennogen kyuaruot ar pont un pren, ny dele bot en negyd o wneythur un o try pheth: ae talu ae guestlau ae kerchu keureyth, ac ne dele kechuyn e uaut hyt e saudel hep wneythur un o'r try peth henne.

(Ior. §66; gw. yn ogystal Col. §119; Cynog, 69-70)

Cyfieithir yr ymadrodd 'kechuyn e uaut hyt e saudel' gan Aled Rhys Wiliam yn *to stir a foot* (Ior., 115).

952 **ba6dyn** 'Dyn annheilwng'

Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Por soffrete de prodome assiet len bricon en haut* (Mor. 1696); *Por souffrete de sage met len en haut musart* (Mor. 1697; gw. yn ogystal MFPSPP S9); *For Default of a good man they set a shrew on (the) bench (varied)* (PSPP D150); *Defectu gnari stultus solet incathedrari* (LSSM D63). Cyfeirio a wneir at ddynion annheilwng mewn awdurdod. Mydryddir y ddihareb yn y *Proverbes en rimes*:

Plusieurs sont diligens
Et font maint beau voyage
Pour trouver sages gens
En ville ou en village.
Mais quant a l'avantage,
Point ne s'en treuve ou guiere:
Par deffaulte de sage,
On met fol en chayere.
(Frank & Miner, CXLV)

Gw. ymhellach SM (II, 13-4).

- 953 **mamaeth** Yr oedd rhoi meibion ar faeth yn arfer cyffredin yng Nghymru'r Oesau Canol fel yn Iwerddon. Trafodir yr arfer yn Davies (1982, 70-1) a dywed y gallai'r berthynas rhwng brodyr maeth fod yn glòs ryfeddol. Awgrymir hynny ym 'Marwnad Meibion Cedifor' (CBT, II.19). Am yr arfer yn Iwerddon gw. Kelly, 1988, 86-90.

Ymddengys mai fersiwn o ddihareb gydwladol sydd yma. Ceir sawl amrywiad arni ond yr un yw'r patrwm ym mhob enghraifft, cf. *Por l'amor dou chevalier bese la dame l'escuier* (Mor., 1674; gw. yn ogystal MFPSPP, D6); *Por [l']amor dou saint baise on les reliques* (Mor., 1675); *Pour la pitiéde la nonnain baise le moine l'oreiller* (MFPSPP, M162); *Oft men kiss the Child for the nurse's sake* (PSPP, C218); *He that kisses the Lamb loves the sheep* (PSPP, L37). Ceir cyfieithiad Lladin o'r fersiwn Saesneg a gyfetyb i'r ddihareb Gymraeg yn llsg. BM Harley 3362 (c1470): *Ofte me kessyt the chil(d) for [the nurses sake] : Osculor hunc ore puerum nutricis amore* (Förster, 1918, 199).

- 954 Dyfynnodd Syr John Wynn o Wydir y ddihareb hon mewn llythyr i edliw i John Davies, Mallwyd ei fod yn araf yn copïo geiriadur Thomas Wiliems (Roberts, 2004, 57; cyfeirir at lsg. LIGC 9060E, 1359).

- 959 **Oet** Sylwer y geill fod iddo ystyr cyfreithiol 'gohiriad gwrandawriad achos llys' (GPC).

960 **alltut** Yn y cyfreithiau un o'r tu allan i Gymru yw *alltud* (Jenkins, 1986, 311).

963 Ceir 'onyt kyfarwyd kyfarch' yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 34c). Gwell gennyf ddehongliad Jenny Rowland, *If there is no acquaintance, greet* (EWSP, 62), nag eiddo Ifor Williams, 'Oni wyddost, gofyn!' (Williams & Parry-Williams, 1926, 18) er nad yw'r ail yn amhosibl (BBGCC, 333-4). Cyngor ynglŷn â moesau da sydd yma, cf. y darn hwn o Chwedl Owein:

A ffan weleis i efo, dynessau a wneuthum attaw a chyuarch gwell
idaw; ac rac daet y wybot, kynt y kyuarchawd ef well y mi no miui
idaw ef.

(Owein, 54-7)

'Rac daet y wybot', hynny yw oherwydd bod ganddo gystal
moesau, y cyfarchodd y 'gwr pengrych melyn' Kynon cyn i Kynon
gael cyfle i'w gyfarch yntau.

964 Cf. 'Och Kindilic, na buost gwreic!' (CLIH, VIII.11a).

965 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'odit undyn dianaf' (Clyweit, 70b).
Y mae Marged Haycock (BBGCC, 337) yn cymharu'r llinell
honno a'r llinellau hyn o Ganu Heledd:

Vn prenn ygwydvit a gouit arnaw
o dieinc ys odit
(CLIH, XI.2ab)

Dichon mai dwy fersiwn o'r un ddihareb sydd yn Clyweit 70b ac A
ond y mae ystyr y ddwy, fel ag y maent, yn bur wahanol.

966 **eissiwet** ‘Eisiau’ (GPC).

968 Cf. ‘Rygelwir difro pob dyfryt’ (CBT, I.24.38).

970 **tr6m** ‘Trist’, cf. ‘wyf keuynggrwm wyf trwm wyf truan (CLIH, II.3c); ‘Trwm golli arglwyd!’ (CBT, VII.49.25-8).

971 **yn rith ki** Darlleniad braidd yn amheus. Gwell yw B536 *iyrchgi*, ‘ci ar gyfer hela iyrchod’.

972 **Oer** ‘Trist’.

isgell Go brin mai *isgell*¹ GPC ‘cawl’ sydd yma(cf. A682 uchod).
Am *isgell*² dyry GPC ‘?Cell islaw (wyneb y ddaear), cell neu ystorfa dan y ddaear, seler, yn dros. bedd’.

Anodd methu â gweld cyswllt rhwng y ddihareb hon â’r adran yn y llyfrau cyfraith a elwir *oergwyp galanas*. Trafodir yr adran hon, ynghyd â’r adran a elwir *tri dygyngoll cenedl* yn llawn yn erthygl S.E. Roberts ar y pwnc (2003). *It seems, meddai, that the titles tri dygyngoll cenedl and oergwyp galanas were more securely fixed in the legal tradition than were the contents that they indicated, and that the titles were recognized at an early date* (2003, 163). Y mae cynnwys yr adran *oergwyp galanas* yn amrywio. Yn Llyfr Blegwryd rhaid i genedl y llofrudd a laddwyd gan ddialwr o genedl y lladdedig dalu galanas i’r genedl honno am y llofruddio cyntaf (Bleg, 180):

Oergwyp galaas yw, pan ladho dyn dyn arall a doddi oet am wneuthur iawn drostaw, a’e lad ynteu o dyn o genedyl arall nys dylyho;

oergwyp galanas y gelwir hynny, rac trymet y golli ef, ac adaw y gyflafan a wnaethoed ar y genedyl, a goruot y thalu.
(Bleg., 33.18-23)

Yn Llyfr Iorwerth cysylltir yr ymadrodd â dihareb A328 uchod a mynnir nad ad-delir y galanas a dalwyd gan deulu'r llofrudd pe'i lleddid gan deulu'r llofruddiedig:

O deruyd na bo nac o'r keynnyauc palader nac o'e da ehun y tal en kubyl ganthau, keny bo namen un keynnyauc en eyssyeu, a'e lad ef o'e elynyon am honno, ny dygonsant un agkeureyth, cany ellyr kubyl o agkubyl. A chet lladher enteu ny dywygyr na'r da rydywedassam ny ucho nac enteu ehun o'y genedel, ac urth henne e geylu keureyth er hen rydywedassam ny ucho oer guymp galanas.
(Ior. § 106)

Nodir amrywiol gyd-destunau yr ymadrodd yn Roberts, 2003, 169. (Cf. yn ogystal â'r dyfyniadau uchod Col. §282, a WML, 110). Eglurir *oergwyp galanas* yn yr eirfa ar ddiwedd AL gan Aneuin Owen fel hyn:

Oergwyp galanas, *sad incident of homicide*:- If murder was imputed to ei person, and either from pride or inattention he neglected to purge himself, and he should be killed by any relative to the deceased, no murder-fine was payable for him, but the one homicide was balanced by the other.
(AL II, 1123)

Am *oergwyp* y Llyfrau Cyfraith dyry GPC 'Cwyp trist, marwolaeth resynus'. O gymharu'r gair ag *oergwyp* (ynghyd â'r ystyr ffigurol 'marwolaeth' a roir i *cwyp* yn GPC), yr ystyr *bedd* a wedda orau i *isgell* yn y ddihareb hon. Ni welaf fod raid i'r ystyr

hwn fod yn drosiadol fel y myn GPC. Ymddengys imi mai enw arall am *fedd* yn hytrach na throsiad am *fedd* sydd yn y llinell ‘Iscell kerdglyt clot uawr’ (CT X.5). O dderbyn mai *bedd* yw *isgell* hawdd fyddai i’r ystyr drosiadol ‘marwolaeth’ ddatblygu ohono. Awgrymaf felly fod ystyron *oer* yw *isgell* ac *oergwym* yn bur debyg ac mai fersiwn arall ar yr ymadrodd cyfreithiol a geir yn y ddihareb hon.

- 974 Dihareb gydwladol, cf. *De deus maus le meyndre* (Mor., 486; gw. hefyd MFPSPP, M57); *Of two Evils (harms, ills) choose the least (varied)* (PSPP, E193). Gw. ymhellach SM (II, 76).

Dyfynnir y ddihareb gan Siôn Tudur: ‘O’r drygau’n hir drwy gan haf, / Gwir air llw, gorau’r lleiaf’ (GST, 134.77-8). Fe’i ceir hefyd yn y *Gesta Romanorum*:

I mae’n ysgryvenedig yn y gyfraith: “O’r ddav ddrwg mae gorav yw dewis y llaiaf”. Chwi a wddoch vod y dinas honn yn barod yddy cholli, ag ony bysai i mi gymeryd yr harnais, ny allyswn j amddiffyn na’r dinas na chwithav.

(GR, 176-80)

Mi a ddwedais i chwi, o’r ddav ddrwg mae gorav yw dewis y llaiaf. Ag ny ddelyir galw yn ddrwg y peth i bo daeoni mawr yn dyvod o’i achos, kans o bydd vn ty yn y dinas yn llosgi, gwell oedd i vwrw ef i’r llawr, a dav ne dri o dai gydag ef, na llosgi yr holl ddinas. Ag velly, ony bysai i mi gymeryd harnais y marchog marw, ef a gollysid yr holl ddinas a chwithav.

(GR, 196-201)

- 975 Diau y dylid cysylltu’r ddihareb hon â B80, *Bore coch a ma6red g6reic*. Yn GPC ceir ‘bore glas’: *grey morn*, *early morning*, a ‘bore

gwyn': *first light of day*. Cyfeirir at awyr goch yn yr arwydd tywydd hwn o'r *Imago Mundi*:

O chocha y furuaven y pynawn, arwyd eglurder drannoeth. Os e bore y cocha, dryckin a arwydha.

(Lewis & Diverres 1928, A84.5-6)

Cyfeirir yn aml at wawr neu fachlud coch mewn diarhebion yn ymwneud â'r tywydd, cf., er enghraifft, *Rouge vespre et blanc matin est la joye au pelerin* (Mor. 2224). Amrywiad ar y ddihareb hon a nodir gan John Davies yn Brog. I.11, *Prynhawn coch a mawredd gwraig*. Dyry'r eglurhad *Nil boni ominantur*.

- 976 **g6ydel** Difrïd Gwyddelod yn llên Cymru'r oesau canol nodir 'gyda grym diraddiol weithiau' yn GBGG, 733. Cf. A1003 isod.
- 977 Dyfynnir y ddihareb gan Lewys Môn: 'Y ddihareb ni ddorwn, / ac y sydd agos i hwn: / fo âi'r afr wrth ei ffafriaw / oll ar draws yr allor draw' (GLM, XV.37-40). Ceir dihareb debyg mewn Gwyddeleg a gyfieithir gan Arthur Hughes yn 'Pan elo'r afr at y gorsing , nid boddlon ganddi nes myned at yr allor' (Hughes, 1906).
- 978 Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'pan lado duw y llad yn drwm' (Clyweit 40c) a aralleirir gan Marged Haycock yn 'Pan fydd Duw'n taro, bydd yn taro'n galed' (BBGCC, 31.40c).
- 979 **adoet** *Addoed*, 'marwolaeth, achos marwolaeth, niwed (marwol), anaf, cystudd, aflwydd, anffawd' (GPC²)

ridiyr Darllener *ridiyr* fel yn B553. Myn. pres. amhers. *rhidio*
'ymgydio'.

981 **blinghych** Dib. pres. 2 un. blingo.

Ceir y ddihareb yn fersiwn Llyfr Coch Talgarth o 'Kyssul Adaon':

Kyssul ath rodaf nac anrefna dy ty
A phryn tra vlingylch
Treul yth tut golut a geffych.
(Williams, 1924, 121)

'I gael trefn ar dŷ,' meddai IW, 'dylid prynu anifail am bob un a ladder ac a flinger' (Williams, 1926, 126; gw. hefyd BBGCC 295).
Ni cheir yr englyn hwn yn y fersiwn LIDC o 'Kyssul Adaon'.

982 **cla6d** 'Ffos, twll'.

Daw'r ddihareb o Efengyl Mathew 15:14: 'Gadewch iddynt: tywysogion deillion i'r deillion ydynt. Ac os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y ffos'. Y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Un aveugle meine l'autre en la fosse* (MFPSPP, A220); *If the Blind lead the blind they both fall into the ditch* (PSPP, B350). Dyma fotif llên gwerin J2133.9. (MIFL IV, 184). Ceir mynych enghreifftiau yn llên Cymru'r Oesau Canol - drych o ddylanwad yr Ysgrythur: 'Yn ôl anwiredd y naill / anwiredd a wna eraill; / I ddall, nid hwyrach dduwllun, / Dwyso'r dall arall i'r llyn' (GMRh, 17.51-4); 'Yr un sud fu'r nys hon / Â'r dall yn twyso'r deillion' (GMRh, 28.11-2); 'Ac vrth hynny os ydeillonn adwyssa deillonn

ereill. wynt adygywydant ygyt yny kla6d' (LIA, 24, o *Hystoria Lucidar*).

985 **cnith** Myn. pres. 3 un. cnithio 'tynnu' (Gw. Bleg., 195). Geill olygu 'taro' - cf. 'Atgnithion wedy cnithiaw' (GGLI, 12.27) – ond eglur yw mai 'tynnu' a feddylir yma.

kedor 'Blew'.

986 **Pieiffo** Dibynnol pres. 3 un. 'piau'. Yn GMW (§88, §89) eglurir mai geiryn gofynnol ydoedd i ddechrau (megis yn 'Englynion y Beddau'); datblygodd yn rhagenw perthynol ac yna'n fôn berfol. Wedi canu i Dduw, dylai'r pencerdd ganu'r ail gerdd i'r 'brenhyn byeyssso e llys' (Ior. §13).

yn y llosg6rn Yr ystyr yma yw 'ar ei hôl'. Cf. y sylwadau ar *yn ol* yn GMW §245.

Tybiaf mai amrywiad ar ddihareb gydwladol sydd yma, er mai asyn, nid buwch, yw'r anifail yn y fersiynau hyn: *Qui est li asnes, a la keue li queurt* (Mor. 441); *Cuius enim est asinus, comes hunc post terga sequatur* (SM I, 73).

987 **henuon** 'Buwch'

yn llosg6rn Gw. A986 uchod.

988 **ysglyffyeit** Sef *ysglyfiad*², 'Anhreithiad, ysbeiliad, cipiad, daliad (ysglyfaeth); rhaib, gwanc, barusrwydd' (GPC). Yn 'Englynion y Clyweit' gelwir y *barcud* yn 'edyn ysglyfyat glewdrut' (Clyweit 29b).

989 Yn ‘Englynion y Clyweit’ ceir y llinell ‘prenn yngkoet arall bieu’
(Clyweit 73c). Dyfynnir y ddihareb gan Ddafydd ap Gwilym:

‘Bai reitiaf dy rybuddiaw,
Tydi, fab teg arab, taw.
Rhywyr, mau ofn y rhewynt,
Y gwylir hi, gwael yw’r hynt;
Eres hyd y bu’n oeri,
Aeth arall hoywgall â hi.’

‘Os gwir, edn, mau ehednwyf
Is gil serch, esgeulus wyf,
Gwir a gant, gwarant gwiwras,
Y rhai gynt am y rhyw gas:
“Pren yng nghoed” – mawroed yw’r mau –
“Arall â bwyall biau”.
(GDG, 115.51-4)

Cyfeirio at ei gariad y mae Dafydd yn y darn a ddyfynnwyd. Nid oes ganddo hawl arni, aeth un arall â hi ac ef a’i piau. Diddorol yw cymharu’r ddihareb â’r gyfraith ynglŷn â choed:

Or trychir prenneu ereill yg coet dyn heb y ganhat amgen no’r tri phren
yssyd ryd y pob adeilwr maestir, neu ar ny bo gwerth kyfreith arnunt,
keinhawc a tal o lwyth deu ychen neu o lwyth march, y perchen y coet,
a chamlwrw y’r arglwyd. Os gwadu a wna, reith ledrat a a arnaw. A’r
gyfreith honno yssyd y pob dyn am y gost.
(Bleg., 98.21-7)

Amgryma hyn y geill fod tarddiad cyfreithiol i’r ddihareb.

990 Yn y gyfres ‘Eiry Mynydd’ ceir yr englyn hwn:

Eiry my[ny]d, g6ynn to tei;
bei traethei daua6t a wypei geuda6t
ny bydei gymyda6c neb rei
(EWGP, III.35)

992 **dyly** Myn. pres. 3 un. *dylyu* 'hawlio'.

Gofyn padell am bwyll wrth ei thrin rhag ei gollwng neu golli ei chynnwys.

994 **yghaf ... ehangaf** Ar ddefnyddio ansoddeiriau yn y radd eithaf i gyfleu cyfartaledd cymesurol gw. Morris-Jones (1931, 60) sy'n dyfynnu'r ddihareb hon yn enghraifft. Fel ansoddair 'cul' yw ystyr *ing* (dyma'r ail elfen yn *cyfyng*) ac y mae iddo amryw ystyron estynedig megis 'caled, dygn, adfydus' (GPC).

Dihareb yw hon a ddyfynnir droeon gan y beirdd: 'O bydd cyfyng eb eudduw / Gan ddyn, mae'n eang gan Dduw' (GDIDd, XVI.43-4); 'Cof ing pan fo cyfyngaf / Duw gwyn ymward a gaf' (GST, 158.37-8). Ceir yr englyn hwn yng nghanol awdl Dafydd y Coed i Dduw:

Bo cyfyngaf, Naf nefol fryd, - gain Dduw,
Fo gan ddyn anhyfryd,
Ehangaf fydd, Ben ffydd byd,
O gynnwll, Iesu, gennyd.
(GDC, 5.57-60)

996 **eing** Sef *gaing* 'cŷn' (GPC).

997 **enderic** 'Bustach, dyniawed'

998 **ennwir** Rhestrir nifer o ystyron i'r gair yn GPC, y cwbl yn annymunol: 'drwg, creulon, gau' ac ati. Crynhoir natur yr *enwir* yn llinell Casnodyn, 'Ni cherir enwir dyhir, diau' (GC, 8.15).

Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'pob enwir di enwir y blant' (Clyweit 5c, darllener *diuenwir*). Fe'i diweddarir gan Marged Haycock yn 'Cywilyddir plant pob twyllwr' (BBGCC, 31.5c). Y mae cyfeiriad pendant at y ddihareb yn llinell Einion ap Gwalchmai: 'Enn6ir, diuenwir y etiued' (CBT, VI.36.26). Fe'i llurguniwyd i gael cynganedd sain yng nghwpled Edmwnd Prys: 'Ni chaiff enwir wych ffyniant, / Tynnir, di-blennir ei blant' (GEP. lxxxv.103-4). Dichon fod adlais pell iawn yn y llinell 'Lle difenwant plant plennig – Llusiffer' (GPB, 6.71).

999 Arwydd tywydd. Ceir *pen ki ar vore wanwyn* yn 'Englynion y Misoedd' (EWGP, IX.2g) ac y mae Jackson yn cyfeirio at nodyn eglurhaol yn Llsg. Panton 1, 'darn o fwa'r arch neu fwa'r cyfammod yn arwyddocau dirfawr ddry[cinoedd] a thymmestl' (EWGP, 66-7). Trafodir yr ymadrodd yn Jacobs, 2003, 68 lle y dywedir nad enfys ydyw ond 'rhan o leugylch yr haul a lliwiau gwan yr enfys arni'. Gw. ymhellach GPC, 2728.

1000 **derpit** Hen ffurf annibynnol Myn. pres. 3 un. *darfod*, 'digwydd'. Yn B554 ceir *dyderpit*, Myn. pres. 3 un. *dyddarfod* (yn GBGG nodir fod y ffurf yn cyfleu rheidrwydd). Y mae sylwadau T. J. Morgan (1931, 30-1) ar gystrawennau'r modd gorchmynnol yn berthnasol yng nghyswllt y ffurfiau hyn cans traethu'r dyfodol sicr a wnânt fel *bid*. Bydd pob darogan yn sicr o ddigwydd.

Ceir adlais o'r ddihareb yn y llinellau hyn o foliant Llygad Gŵr i Lywelyn ap Gruffudd: 'Paraðd uyt metyant, met beirt, y'm ri, / Pob kyman darogan derui' (CBT, VII.24.62);

1001 **ym blaen** 'O flaen' (GMW, 217).

Dyfynnir y ddihareb yn GPC, 2967: *pysgota ym mlaen (o flaen) (y) rhwyd*: 'to fish in front of the net', seek advance payment. Cf. *To fish before the Net* (PSPP, N91). Ceir enghraifft o'r ddihareb yn y *Towneley Plays* (England & Pollard, 1897, 104.139).

1002 Cf. 'A bryno hen fargen faith / Obry'n ôl a brÿn eilwaith' (GGM, 8.49-50; ceir yr un cwpled yn GDE, IX.41-2).

1003 **kyndared a yrr arnað** Rhestrir sawl enghraifft o gyfuniad o *gyrru* gyda'r arddodiad *ar* yn GPC megis 'gyrru blys (ar), gyrru braw (ar), gyrru eiddigedd (ar)'. Ymddengys mai 'cyhuddo, dwyn yn erbyn' yw ystyr *gyrru ar* yn y ddihareb hon ond geill mai gwrthrych uniongyrchol yw *cynddaredd* yma, megis *lledrith* a *ffyrnigrwydd* yn yr enghreifftiau a nodir gan Evans (1954, 13).

Fersiwn arall ydyw'r ddihareb hon o'r ddihareb gydwladol a geir yn A254 uchod.

1004 Cf. 'rygas pob rywyr bydaðt dir dyuot' (RBP, 1051.23-4).

1005 Gw. A1032 isod a ddyry well synnwyr.

1007 **Rybrynaðt** Gorff. 3 un. *rhybrynu*.

- 1011 Ceir 'reit wrth amhwyll pwyll parawt' yn 'Englynion y Clyweit' (Clyweit 19c) ac fe'i diweddarir gan Marged Haycock yn 'Rhaid ymarfer pwyll cyflym wrth ymdrin â dyn ynfyd' (BBGCC, 31.19c). Awgryma fersiwn Llyfr Du'r Waun, 'hurth pob amhuyll puyll syd oreu' (Williams, 1926, 27), mai addasiad o'r ddihareb wreiddiol i ateb gofynion mydr sydd yma.
- 1013 Digwydd y ddihareb yn yr englynion gwirebol (EWGP, VI.7c).
- 1014 **Ry6** '(Peth) naturiol, arferol, priodol neu weddus' (GPC).
- 1015 **Ry uoda6c** Naill ai *bodog*, 'Diysgog, diymod, sefydlog, parhaus' (GPC), neu *boddog*, 'boddhaus, bodlon, boddhaol; tirion, tyner, mwynaid' (GPC). Dywedir yn GBGG na ellir sicrwydd pa un ai'r naill ynteu'r llall y dylid ei ddarllen mewn rhai enghreifftiau.
- 1017 Dichon bod adlais o'r ddihareb yn llinellau Huw Dafï: 'kyd boet ofnoc oi o gof / a ddalyo ki pan ddel kof' (Pen. 67, LXXIII.9-10).
- 1018 Mi fyddai derbyniwr y rhodd wedi ei siomi'r ochr orau yn y sefyllfa a ddarlunir yn y ddihareb hon. Ystyr yn hollol i'r gwrthwyneb sydd yn B10 a gellid cymharu'r ddihareb honno â llinell Prydydd y Moch, 'Ny myc rot yn rann edewid' (CBT, V.8.42). Syniad tebyg sydd yn y llinellau hyn: 'Rhai in a fydd yn rhoi'n fân, / Nes hir addaw, nis rhoddan'. / Rhodd fawr a eddy efô, / Mwy o rodd nag mae'r addo' (GHCLI, xxxvi.19-22).
- 1020 **kribard** Ni cheir y gair yn GPC na GBGG. Cyfansoddair o *crib* + *gardd*?

1021 **Rac nythat** Am *rhagnythu* dyry GPC ‘Paratoi nyth, nythu, swatio; symud yn aflonydd, aflonyddu’, a’r ddihareb hon yw’r enghraifft gyntaf a nodir. Y darlleniad hwn, yn ddiau, oedd sail y fersiwn a geir yn DD, ‘Rhagnythed iâr cyn dodwi’. Dangosodd Ifor Williams (Williams & Parry-Williams, 1926, 8 a 18) mai darlleniadau llwgr yw’r rhai hyn. Yn ‘Englynion y Clyweit’ ceir y ddihareb ‘racreitha dy eir kyn noe doddi’ (Clyweit 33c) a aralleirir gan Haycock yn ‘Dilysa dy air cyn ei lefaru’ (BBGCC, 31.33c). Y ffurf yn Llyfr Du’r Waun yw ‘Ragrytha dveyr kynoydyweduyt’ (Williams, 1926, 27). Am *rhagreith(i)o* dyry GPC ‘Ystyried neu ffurfio (barn, &c., ymlaen llaw)’. Digwydd y ddihareb mewn darn o lôn doethineb a ymgorfforwyd yn y llyfrau cyfraith:

Ef aeirch heuyt y doethion: racritha dy eir kyn noe doddi; a medylya dy weithret kyn y wneuthur; o myny cad6 dy byneb cad6 dy taua6t; o mynny cad6 dy da cad6 dy d6rn.
(AL II, 206; gw. Cynog, 46)

Diau mai o’r Catwn y daw y ddihareb yn wreiddiol: ‘Edrych kyn no dywedut geir beth a del ytt oy dywedut ae da ae drwc. ac o thebygy dyuot drwc amdanaw na dywet’ (Williams, 1923, 34).

1022 **vnllloc** ‘Unrhyw log’. Cf. ‘O whe fford ygbahan dyn ae da. o goll. ac aghyfarch. alledrat. benffic. a lloc’ (WML, 118).

1023 **atrod** Dyry GPC² ‘Rhodd neu anrheg a ddychwelir, peth a adferir; adferiad, rhoddiad yn ôl; rhoddiad drachefn’.

1024 **ba6 gares** Geill baw fod yn ansoddair (GPC) a dengys y treiglad fod yma gyfansoddair llac. Ystyr y ddihareb yw ‘dymuniad cyfeilles front’.

1025 Cymharer yr ymadrodd ‘rhan gŵr’, *a man’s share*, sy’n gyffredin yng nghyfraith y llys: *Ef a dele ran gvr e gan esvydwyr*, Ior. §14.

A oes yma gysylltiad â motif llen gwerin J1562.2.: *The peasant’s share is the chicken. He serves small birds and a roast chicken to his guests. Guests each take a small bird, leaving only the chicken when the plate reaches the host. He takes the whole chicken saying: “Since everyone has a bird, I must have one too.”* (MIFL, IV, 127).

1026 Cf. A1007 uchod.

1027 Digwydd y ddihareb yng ngwaith Tudur Aled: ‘Nid af o’th dŷ, difeth dad, - / Nid eistedd maen hyd wastad!’ (GTA, XV.79-80). Dichon fod adlais ohoni yn yr englyn hwn o Awdl farwnad Syr Hywel ab y Dai gan Siôn ap Hywel:

Och, maith o anobaith, ’ddwy’n wibiad, - o dda,

E ddaw maen i wastad;

Yn iach wledd fynych i wlad,

Yn iach aur ynn na chariad.

(GSH, 3.9-12)

‘Daw maen i wastad’, hynny yw daw pob peth i ddiwedd ei rawd.

1028 **Rewyd** Arno gw. A176 uchod.

1029 **ochit** Hen ffurf annibynnol myn. pres. 3 un. *ochain*, ‘ochneidio’.

1030 **ny weryt** Myn. pres. 3 un. *gwaredu* yw *gweryt*. Yr ystyr yma yw ‘ni thycia’ (GPC). Cf. ‘Ny weryt mewyt mil6ryaeth’ (CBT, IV.16.72). Am yr ymadrodd ‘ni weryd iddo’ dyry DD *Non proderit ei, absque remedio erit*.

Ceir y ddihareb yn ‘Gossymdeith Llefoet Wynebglawr’ (RBP, 1056.15). Cf. hefyd, ‘A dillad y noeth, na6t rac anwyd, / A g6ely a thy a thes aelwyd’ (CBT, I.12.25-6). Awgryma Jacobs (2004, 24) fod yma gyfeiriad mwy ‘ysbrydol’ at weddiau dros y meirw, a dichon fod hynny yn wir yng nghyd-destun y Gosymdaith. Yn y ddihareb ar ei phen ei hun, fodd bynnag, gellir derbyn yr ystyr llythrennol (*annwyt* = ‘oerfel’).

1031 Ar y trawiad traean/truan, cf. GDG, 132.30 a GDG, 154.28. Geill fod yn y ddihareb gyfeiriad at gyfraith galanas: ‘ac yuelly e kerda galanas o traean e traean hyt en ney uab gorchau’ (Ior. §107). Ond go brin.

1032 Ystyr *rhieddog* yw ‘ysblennydd’. Yn B565 ceir *ar gych6yn* fel yn A1005 uchod, sy’n amrywiad o’r ddihareb hon. Dyry hynny ystyr difai: ‘Roedd yr anghenog yn ysblennydd [dealler, moethus, gwastraffus] i ddechrau’. Anos yw egluro *ar ffo* onid oes yma gymysgu dwy ddihareb annibynnol: *Rhedegog anghenog ar ffo* a *Rhieddog anghenog ar gychwyn*.

1035 **adol6c** Gorch. 2 un. *adolwyn*, ‘erchi, crefu’ (GBGG).

1036 Gw. A640 uchod.

1037 **adneu** Dyry hwn synnwyr da ond nid yw darlleniad B581, *adef* (sef *addef*: ‘trigfan’, GPC²) yn amhosibl.

1038 **llwydd** Myn. pres. 3 un. *llwyddo*. Yr ystyr yma yw ‘tycio’. Yr hyn a dycia i *feffl* yw ei chuddio, ei chadw’n ddistaw.

1040 Dihareb gydwladol: *Faire du loup le pasteur (berger)* (MFPSPP, L88); *To make a Wolf a pastor* (PSPP, W460). Gw. ymhellach SM (III, 96-7).

1041 **gesseil** Anodd gweld sut y geill *cesail* braich neu forddwyd fod yn ystyrion yma (ond cf. BBGCC, 333 am farn wahanol). Ceir un enghraifft o *cesail* yn golygu ‘gelyn’ yn GPC, o’r llinell ‘ny thorrei gesseil vyn teruyn’ (CLIH, IV.2c). Dywed Ifor Williams yn blaen mai’r ystyr yw ‘gelyn’ (CLIH, 148) a hynny sydd debycaf. Y mae GBGG, fodd bynnag, yn fwy gochelgar. Yn ‘Englynion y Clyweit’ ceir ‘mynych syrth meubl o gesseil’ (Clyweit 32c).

1042 **delli** ‘Dallineb’ (GPC).

Ar arwyddocâd saith mlynedd cf. *Sept ans* (MFPSPP, A135); *Seven Years (Winters)* (PSPP, Y11). Erys ergyd y ddihareb yn dywyll.

1043 **Scrybyl** Amrywiad ar *ysgrubl* ‘da byw’.

ar eithaf Yma ‘rhan bellaf neu ardal bell ac anghysbell iawn’ (GPC).

1044 **Tv** Ymysg ystyron *tu* dyry GPC t. 3648 ‘plaid, ochr; cwmni(o bobl); llinach (tad neu fam)’. Ceir synnwyr gwahanol ond cystal bob tamaid gan B584, *Trra ny mynno*.

1045 **a vrefu6ys** Yn B586 ceir *a vremis*.

1046 **g6reic ot** ‘Gwraig odinebus’.

1047 **g6reic rewyd** ‘Gwraig anllad’.

1048 **Trenghit ... ny threingk** Y naill yn ffurf annibynnol, a’r llall yn ffurf gysylltiol myn. pres. 3 un. *trenki*.

Cyfieithir y ddihareb gan D. Simon Evans yn *wealth perishes, fame perishes not* (GMW, 119). Cf. yr adnod ‘Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer’ (Llyfr y Diarhebion 22:1).

1049 Y mae tynged yn drech nag unrhyw fwriad.

1050 **Trickyt ... ny thric** Y naill yn ffurf annibynnol, a’r llall yn ffurf gysylltiol myn. pres. 3 un. *trigo*.

cyfar6s Arno gw. A917 uchod. Yr ystyr yma yw ‘arwydd o barch’ a dyna ergyd y ddihareb, nid wrth arwydd o barch y preswylia gŵr ond wrth barch ynddo’i hun.

1051 **te6** Yr ystyr yma yw ‘helaeth, eang’.

Ceir y ddihareb yng nghywydd Dafydd ap Gwilym i’r cleddyf:
‘Tawedog enwog anwych / Tew ei ddrwg, mul wg, mal ych, /
Gweithiau y tau, annwyd da, / Ac weithiau y’ m bygythia’ (GDG,

143.11-4). Cyfeirio y mae at y gŵr eiddig ond diddorol yw sylwi fod y bardd yn galw ei gleddyf yn ‘geidwad tau’ ychydig ynghynt yn y cywydd. Ergyd y ddihareb yw fod gŵr tawel yn gwneud llawer o ddrwg, ‘ci tawel sy’n brathu’ meddir. Cf. C938 a’r hen bennill hwn sy’n adlewyrchu’r un goel:

Gochel fab â’r parabl tawel,
Sydd yn gwisgo’i het yn isel,
Gyda llygad main cynffonnog:
Hwn wna ffel o ferch yn ffolog.
(Hen Benillion, 34)

1052 **Tyuit ... ny thyf** Y naill yn ffurf annibynnol, a’r llall yn ffurf gysylltiol myn. pres. 3 un. *tyfu*.

Cyfieithir y ddihareb gan D. Simon Evans yn *an infant grows, his swaddling-clothes grow not* (GMW, 119).

1054 **Tywynnit** Myn. pres. 3 un. *tywynnu* ‘disgleirio’.
greynyn Ffurf unigol fachigol ar *graeon* ‘gro’ (GPC)

1056 Y mae i’r ddihareb hon ddau darddiad beiblaidd posibl, y naill yn yr Hen Destament (‘Trwy hirymaros y bodlonir pendefig: a thafod esmwyth a dyr asgwrn’, Diarhebion 25:15) a’r llall yn yr Apocryffa (‘Llawer a syrthiasant o herwydd min y cleddyf: ond nid cymmaint ag a syrthiasant oblegid y tafod’, Ecclesiasticus 28:18). Rhoddodd yr ail adnod, fodd bynnag, ddihareb wahanol mewn ieithoedd eraill. Cf. *La langue perce plus que glaive* (MFPSPP, L11); *Tongues are worse than swords (varied)* (PSPP, T395). Ymddengys felly mai’r adnod gyntaf a roes fod i’r ddihareb dan

sylw. Trafodir lledaeniad y ddihareb gan Taylor (1985, 58-9). Y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Langue n'a pas os et se les bris(s)e* (Mor., 1015); *The Tongue breaks bone though itself has none* (PSPP, T384); *Non os lingua gerit, sed tamen ossa terit* (LSSM, N227); *Diu zunge hât dehein bein Und bricht doch bein unde stein* (SM iii, 107). Gw. ymhellach (SM iii, 107-8). Ceir dwy enghraifft yng ngwaith y Cywyddwyr: 'Herwydd gwirio'r ddihareb - / Tafod, fal dyrnod â dwrn, / Drwy rwysg a dyr yr asgwrn' (GST, 188.40-42); 'Y tafod a bair tori ascwrn' (GEP, cxix.12). Fe'i dyfynnir yn ogystal yn y canu rhydd cynnar:

dyma /r/ gwir wrth gwmpas talgrwn
y tafod a bair tori ascwrn
(CRhC, 84.11-2)

Diddorol yw nodi mai 'gweli tafod' (h.y. 'yr anaf a bair tafod') ydyw gair y llyfrau cyfraith am *athrod* (gw. Bleg., 9.16).

1057 Ymddengys fod y ddihareb hon a'r nesaf yn bâr.

1059 **gobyr** Dyry GPC 'Gwobr, tâl, cyflog, ad-daliad; rhodd; haeddiant; llwgrwobrwy; *Cyfr.* amobr'. Taliad i arglwydd gwraig pan roddwyd hi i'w phriodi oedd *amobr*.

1060 Math ar *og* yw *draenglwyd* yn ôl GPC, 'Og gyntefig a wneid drwy rwymo canghennau drain ar glwyd neu ffrâm bren'.

1062 **ry uegit ry vygeit** Darllener *ry vygeit*, (*rhyfygaid*) yn unig. Cynigir yr ystyr 'balch' yn betrusgar yn GPC.

1064 Ceir y ddihareb yn y gyfres ‘Eiry Mynydd’ (EWGP, III.30c) ac fe’i hadleisir yn y llinellau hyn o gywydd Mastr Harri ap Hywel i gynghori Ieuan Tew i beidio â charu merch ifanc:

Nid oes i’th ên o henaint,
Er eich tra dwrdd, uwch tri daint.
Pand truan, peintiwr awen,
Na wel di liw dy ên
Ac na weli’n gynheilod
Mai’r ffon fydd y trydydd troed?
(GPhE, 9.37-42)

Gellir ei chymharu ag A490 ac A516 uchod ynghyd â llinellau megis ‘eidyl hen hwyr y dyre’ (CLIH, II.13c) yng ‘Nghân yr Henwr’. Y mae’r cwbl yn cyfleu natur eiddil a diobaith yr hen.

1065 **kygh6ystyl** ‘Bet’.

1066 Ar y geiryn rhagferfol ‘ry’ yn gyffredinol gw. GMW, §185; ar ‘ry’ mewn cymal perthynol gw. GMW, § 65 N2. Cymharir y ddihareb hon â’r ddihareb ‘A ymreo y gont porthet y din’ gan Ifor Williams (1926, 28) ond diau ei fod yn methu - nid oes a wnelo’r ddihareb ddim oll â beichiogi. Dihareb gyfreithiol sydd yma yn ymwneud â mechni. Fe’i dyfynnir yn y darn hwn o *Lyfr Iorwerth*:

Arall yu pey darfey e ur llad arall a meychyau o kenedel e llourud ar er alanas, a chyn talu o’r kenedel er alanas duyn o’y uam e llourud e tat arall, e keureyth a deweyt panyu e kenedel a ueychyus ar er alanas byeu e thalu, o deu achau: o wneythur e kyulauan tra uu ef ar eu breynt huy, ac o deleu talu o’r nep a ueychyus. (Ior. §101)

And because it is right that those who gave surety should pay, yw cyfieithiad Dafydd Jenkins o'r cymal olaf (1986, 134). Digwydd y ddihareb yn *Llyfr Cynog* yng nghyswllt dadl mach a chynnogn:

Ac os yr ha6l6r a gymer mach, tystet y mach kyntaf yr kymryt mach o newyd ar vynet yr ha6l y arna6 ef, a dywedet : 'tal6ys a veich6ys; a chan meich6ys ef yn dywethaf neut ryd ynteu o'r vechniaeth cyntaf.

Yn *Llyfr y Damweiniau* ceir fersiwn o'r triawd cyfreithiol, *tri dynggoll cenedl* sy'n cynnwys y ddihareb hon:

Trydyd ev o deruyd y dyn llat arall ac o hynny deuot galanas a meychyau o'r genedyl ac ohonau enteu ar er alanas, a kyn deuot oet y tal y duyn enteu y tat arall , [s]ef a deweyt keureyth deleu onadunt talu er alanas eythyr e ran ef, ac urth hynny e dewedyr Talus a ueychus.
(Dam.Col. §151)

Ar ddatblygiad y triawd hwn gw. Roberts (2003). Gwelir mai'r sefyllfa yw fod cenedl tad tybiedig y llofrudd wedi rhoi meichiau am yr alanas ond cyn cyflawni'r taliad cydnabyddir mai gŵr arall yw ei dad. Rhaid i genedl y cyntaf dalu yr un fath.

1067 **Telittor** Hen ffurf myn. pres. amhers. *tal* (GMW §131).

Awgryma'r hen derfyniad berfol –itor fod y ddihareb yn un gynnar (Jenkins, 1986, 307).

hala6c 16 'Llw llygredig'. Nodir yn Bleg., 210 mai'r cyfansoddair clwm *halawglw* sydd yn fersiwn DD. Cyfansoddair llac sydd yma fel yn y llawysgrifau cyfraith.

Dihareb gyfreithiol yw hon a ddyfynnir yng nghyswllt llwgr yd:

Or llygrir yt y neb dyn yn emyl trefgord, ac na chaffo y perchenhawc daly vn llwdyn arnaw, kymeret ef y creir a doet y'r tref, ac or tygant lw diarnabot, talent y rif llwdyn; a'r gyfreith honno a elwir "telhitor gwedy halawc lw".

(Bleg., 86.21-5; gw. yn ogystal WML, 84.19-24)

Rhaid bod anifail un o drigolion y drefgordd yn euog o lygru'r yd felly ni allant oll fod yn dweud y gwir ac y mae eu llw o ganlyniad yn *halog*.

1068 Digwydd y ddihareb yn yr englynion gwirebol (EWGP, VI.3c) ac yn 'Englynion y Clyweit' ceir yr englyn hwn:

A glyweist di a gant y pusc.
wrth ymdraffill ymplith gwrysc.
trech vyd anyan noc adysc.
(Clyweit 31)

Dyfynnir y ddihareb gan aml i fardd: 'Trech anian glew trychau gwlad / Noc addysc hwnn ai gwyddiad' (BWL1, xi.37-38); 'Trech gradd anian nog addysg' (GTA, cxxxvii.33); 'Trech anian ym mhob rhan rhôm / Nog addysg, ni a'i gwyddom' (GHS, 7.27-8). Dadleuir ynghylch gwirionedd y dihareb yn yr ymryson rhwng Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal. Edrydd Prys hanes Lycurgus, sylfaenydd cyfansoddiad Sparta, a ddangosodd fod meithriniad yn drech na natur drwy fagu dau gi o'r un ast gan faldodi'r naill a dysgu i'r llall hela. Gosododd ddysglaid o fwyd ac ysgyfarnog o flaen y ddau gi. Aeth yn naill am y ddysgl a rhedodd y llall ar ôl yr ysgyfarnog (gw. nodyn Gruffydd Aled Williams yn YEPWC, 270). Dyma eiriau'r Archddiacon:

Mae naturiaeth mwy'n tori
Modd i gwn am y ddav gi:
Vn a gaid dan we goedwydd,
Yr ail yn y fail a fydd.
(YEPWC, 24.3-6)

Adleisir y ddihareb yn ateb Wiliam Cynwal:

Ofer yw disc, afraid aeth,
Wyrth nod taer, wrth naturiaeth.
(YEPWC, 30.3-4)

Yn y gerdd ymddiddan Saesneg Canol, *The Debate between Nurture and Kynd* (Conlee, 1991, 216-21), adroddir yr *exemplum* adnabyddus am y gath, y llygoden a'r gannwyll er mwyn dangos fod anian yn drech na dysg. Ceir crynodeb o'r chwedl gan Henry Lewis (1926-7, 164; ymhellach ar y chwedl hon gw. Cosquin, 1911).

Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Nature passe norreture* (Mor., 1328; gw. hefyd MFPSPP, N6); *Nature goes afore learning* (PSPP, N25); *Penso plus valere naturam quam nutrituram* (SM I, 56). Gwrthgyferbynier *Noureture passe nature* (Mor., 1399; gw. hefyd MFPSPP, N35); *Us rent maistre* (Mor., 2458; gw. hefyd MFPSPP, U3); *Usage (Wone, Use) makes (the) mastery ([a] master)* (PSPP, U8).

1069 **amot** Defnyddir y gair *amod* yn llac yn y llyfrau cyfraith i olygu cytundeb yn gyffredinol a diau mai'r ystyr cyffredinol hwn sydd i'r gair yma yn hytrach na'r ystyr fanylach, *amod deddfol*, sy'n cyfeirio at fath arbennig o gytundeb a ddilysid gan dystiolaeth amodwyr (Col., 63-4).

g6ir Hen air am gyfraith (GPC). Cred Jenkins (1986, 252-3) fod defnyddio'r gair *gwir* yn yr ystyr hynafol hwn yn tystio i hynafiaeth y ddihareb.

Dihareb gyfreithiol yw hon sy'n mynegi yr un rheol â'r ddihareb *Amod a dyr deddf* (ni cheir y ddihareb honno yng nghasgliadau'r Llyfr Coch ond ceir fersiwn ohoni yn C61 a C62). Yn ôl yr egwyddor hon gallai cytundeb rhwng dwy blaid wyro oddi wrth y rheolau a osodid gan y gyfraith. Cymhwysid yr egwyddor hon wrth dalu cowyll (Jenkins, 1980, 76-7) a dichon y gwneid yn yr un modd wrth dalu agweddi (Walters, 1980, 117-8). Dyfynnir y diarhebion sy'n mynegi'r rheol hon yn y llyfrau cyfraith yng nghyswllt gwneuthur amod. Un ddihareb yn unig a geir yn Llyfr Iorwerth, yn Llyfr Cyfnerth ceir y ddwy:

Amuot a tyr dedef. Ket gunelher amuot en erbyn keureyth, dyr yu e kadu.

(Ior. §69; gw. yn ogystal Col. §140)

Kyt g6nelher amot yn erbyn kyfreith dir y6 ygad6. n Amot atyrr ardedyf. Trech amot no g6ir.

(WML 89, 11-13)

Yn *Llyfr Cynog* dyfynnir y ddihareb 'amod a dyr deddf' yng nghyswllt gwystlo:

P6ybynhac a 6ystlo g6ystyl y arall, ny dyly y neb y g6ystler ida6 namyn y gymryt yn y la6 a'e doddi ar y ysg6yd, ac odynd y doddi yn lle y catwer; a rei hynny y6 teir g6anas g6ystyl. Ac o g6na m6y no hynny

ef a dyly colli y 6ystyl ac a uo arna6 onyt amot a'e duc ida6, canys
amot a tyrr dedyf.
(Cynog, 33)

Mynegir yr un rheol yn y trioedd cyfraith: 'Tri pheth a tyrr ar gyfreith: amot, a defawt gyfiawn, ac agheu' (Bleg., 114.28); 'Tri pheth atyrr ar gyfreith. treis. ac amot. ac aghen octit' (WML, 131.19-21). Ceir ymdriniaeth lawn â chyd-destun y ddihareb gan Jenkins (1976, 86-7). Dywed Green (1999, 75) fod y gwahaniaeth rhwng *pactum* a *lex* wedi dod yn amlycach wrth i rym yr awdurdod canolog gynyddu. Diddorol yw cymharu'r ddihareb Ffrangeg, *Covenant vaint loi* (Mor., 431). Trafodir datblygiad yr egwyddor hon yng nghyfraith Ffrengig y drydedd ganrif ar ddeg yn Esmein (1883, 28-30). Fe'i ceir hefyd yn yr Almaeneg, *Gedinge bricht Recht* (SM II, 92). Dyma'r hen egwyddor *pactum legem vincit*. Y ffurf a geir yng nghyfreithiau'r Saeson yw *Troth overrides the law* (Green, 1999, 76).

Yn 'Englynion y Clyweit' ceir y llinell 'trech nerth no gwir wrth gywryssed' (Clyweit 30c) ond go brin fod cysylltiad rhyngddi a'r ddihareb.

1071 Am *twyll trwy ymddiried* dyry GPC *betrayal of trust, breach of faith, perfidy*. Yn 'Ymddiddan Llywelyn a Gwrnerth' yn Llyfr Coch Hergest gofyn Llywelyn pa beth sydd gasaf gan Dduw. *Twyll trwy ymddiried* yw ateb Gwrnerth:

Kyfli6 dyd, kan y'th garaf,
ar del6 kerd kanys keissyaf,
gan Du6 py vn peth gassaf?

Bud ac awen a chyffret,

pan retto d6fyr ar anwaeret,
g6aethaf t6yll tr6y ymdiret.

T6yll tr6y ymdiret os g6naf
ac y Du6 nas kyffessaf
pa dial a vyd arnaf?

Or g6ney d6yll ymdiret
heb ffyd heb grefyd heb gret
key benyt ar dy seithuet.
(Jackson, 1938, 29)

Yn ail awdl Llywelyn Fardd II i Dduw dywedir, trwy leihad, fod Duw yn gwgu ar dwyll trwy ymddiried: ‘Ac ny gymwyll twyll trwy ymddired’ (CBT, VI.10.84). Dyfynnir y ddihareb gan Ieuan Brydydd Hir yn ei gywydd cyffes: ‘Twyll diffaith, canwaith y’i caid, / Trom ddyrys, trwy ymddiriaid’ (GIBH, 5.37-8). Diddorol yw sylwi mai mewn cyd-destunau crefyddol y digwydd y ddihareb amlaf. Cf. hefyd, ‘Dyda6 collet or ymdiryet yrardelyd’ (RBP, 1049.23).

1072 Digwydd y ddihareb ddwywaith yn yng nghanu serch y cywyddwyr: ‘Tynnu bach drain, haeachen, / Trwy goed yw anturio Gwen’ (GTA, cxxii.5-6); ‘Tynnu dan g6l llei’r elwyf / Fach drwy goed erioed yr wyf’ (GHCLI, lxxv.55-6; yr un cywydd yw GGILIV, II). Cyfleu llafur ofer sydd hefyd yn llafur anodd a wneir yn y ddau achos. Ymdrinnir â’r ddihareb gan Rowlands, 1956. Cf. A1074 isod.

1073 **ffa6yd** Bydd moch yn ysu cnau’r ffawydden yn yr un modd â mes y dderwen. Cf. A637 uchod.

1074 Gw. A1072 uchod.

1075 Nodir yr idiom *byw fel cŵn a moch (ci a hwch)* yn GPC a chynigir mai'r hyn sy'n cyfateb yn y Saesneg yw *to lead a cat and dog life*.

1076 Gw. A679 uchod.

1077 **llin** 'Graen'. Gyda'r graen yr hyllt carreg.

1078 Dichon mai fersiwn arall o B305 yw'r ddihareb hon.

1079 **ffalling** Benthyciad o'r Wyddeleg *fallaing* (GPC). Mantell wlân drom a oedd yn wisg nodweddiadol Wyddelig (gw. y nodyn cefndirol i gywydd Hywel Swrdwal i ofyn ffaling, GHS 12). Y mae cywyddau'n gofyn mentyll o Iwerddon yn tystio i boblogrwydd y ffaling yng Nghymru'r oesau canol (Huws, 1998, 77) a chysylltir y ffaling â'r Gwyddel yn benodol mewn dau gywydd i ofyn ffaling, y naill gan Uto'r Glyn a'r llall gan Hywel Swrdwal:

Gwyddel a ddug i Elen
We o wlân lliw ar lun llen.
Dewis oedd wedi'i dwys wau
O longaid o ffalingau.
(GGGI, lxxviii.35-8)

Caiff rhag cas Niclas Ysnél
Gan gweddi am gnu Gwyddel,
Mantell ar liw'r dunnell dân,
O bai ynghylch mab Ieuan.
(GHS, 12.23-6)

Ni cheir, ysywaeth, gyfeiriad at y ddihareb ynddynt.

1085 Dyry John Davies y cyfieithiad *Vt Onus Saxi Ketti*. Cyfeiriad sydd yma at *Faen Ceti* yng Nghefn-y-bryn ym Mro Gŵyr, maen a gysylltir â chwedl am Ddewi Sant:

A stone called Maen Cetti at Cefn-y-bryn in Gower is said to have been split by David with one sword stroke as proof that it was not sacred. In one account, he also commanded a spring to flow from under it.

(Henken, 1987, 72; gw. hefyd T. Gwynn Jones, 1930, 28)

Nodiadau B

1 A1

2 A2

4 Gellid cymharu'r ddihareb hon ag A1069 ond tebycach mai dihareb gydwladol ydyw, yn hytrach na rheol gyfreithiol. Cf. *Besoing ne garde loi* (Mor., 237); *Nécessité n'a point de loi* (MFPSPP, N10); *Need has no law* (PSPP, N51). Y mae Samuel Singer yn olhrain y ddihareb i ysgrifeniadau Awgwstin: *Legem non habet necessitas* (SM II, 25).

5 A16

6 A18

7 A84

8 A23

9 **moch** 'Buan'. Ansoddair a ddefnyddir yn aml yn adferfol. Ceir dwy enghraifft arall ohono gyda'r ferf *gweld* yn GPC, yn naill o 'Ymddiddan Myrddin a Thaliesin' ('Moch guelher y niuer gan elgan', LIDC, 1.10) a'r llall o 'Gorhoffedd Hywel ab Owain' ('Moch gwelwyf, a'm nwyf yn etein – y 6rtha6', CBT, II.6.63).

Ceir 'auo mar6 nymoch welir' yn y gerdd ddidactig 'Gossymdeith Llefoet Wynebclawr' (RBP, 1056.39-40). Dichon fod adlais o'r

ddihareb ym 'Marwnad Marged, Gwraig Huw ap Siôn,
Treweithion' gan Ieuan Tew Ieuanc: 'A fo marw, garw chwedl
gwir, / Yn fyw eilwaith ni welir' (GITI, 47.35-6).

10 A1018

11 A34

12 A86

13 A35

14 A36

15 A37

17 A10

18 A12

19 A28

20 A98

21 Ceir fersiwn diweddarach o'r ddihareb hon sy'n ei chyfuno â C45.
Digwydd y fersiwn hwnnw, *Trechav treisied, gwannav gwaedhed*,
yn llsgr. Mostyn 204. Dyfynnir fersiwn B a'r fersiwn llawn gan
Forgan Llwyd:

Mi welais yn amser Mary, Elizabeth, Iago a Charles olaf, ac er hynny hyd yn hyn, nad oedd ond y trecha treisied, a llawer o waed gwirion a dywalltwyd i geisio ystwytho cydwybodau y rhain.

(MLI I, 166-7)

Mi ddywedais o'r blaen fy meddwl , nad oes ymhôb man ond y trechaf treisied, a'r gwannaf gwichied.

(MLI I, 177-8)

Codwyd yr enghreifftiau hyn o waith y beirdd: 'Pob trechaf trowsaf treissiwch – heb luddio / Gwae ni oi guddio y gwanna gwaeddwch' (BWL I, LVI.117-8); 'Trechaf yw'r trawsaf lle treisir gweiniaid, / Y gwannaf gwaedded, gwae ni gwyddir' (GST, 146.77-8); 'Y trechaf trawsaf treisiant, / Ochenaid gweiniaid a gânt' (GEP, LXXXV.41-2).

22 A42

23 A57

24 A25

25 A85

26 A63

27 A5

28 **Ach6annekit** Myn. pres. 3 un. achwanegu, 'cynyddu'.

Sylwer ar drefn y frawddeg, berf + gwrthrych + goddrych. Yr ystyr yw fod ymffrost yn cynyddu cywilydd.

29 A11

30 A87

31 **bit pont** Fel y sylwodd Ifor Williams (PKM, 196), treiglr yn rheolaidd ar ôl *bid*. Ni cheir treiglad yn y ddihareb yn fersiwn Llyfr Gwyn Rhydderch (WM, 52.13) o chwedl Branwen ac nis ceir yma, ond fe'i nodir yn y chwedl yn Llyfr Coch Hergest (RM, 36.25) ac yn y dryll o'r chwedl a gadwyd ym Mheniarth 6 (PKM, 305).

Bendigeidfran a lefarodd y ddihareb hon gyntaf, wrth iddo orwedd ar draws Afon Llinon:

Bendigeiduran a doeth y'r tir, a llynges y yt ac ef, parth a glann yr auon. "Arglwyd," heb y wyrda, "ti a wdost kynnedyf yr auon, ny eill neb uynet drwydi, nyt oes bont arnei hitheu. Mae dy gynghor am bont?" heb wy. "Nit oes," heb ynteu, "namyn a uo penn bit pont. Mi a uydaf pont," heb ef. Ac yna gyntaf y dywetpwyd y geir hwnnw, ac y diharebir etwa ohonaw
(PKM, 40-1)

Nid oes gan John Davies Mallwyd ddim i'w ychwanegu: *Est dictum Bendigeidrani [sic] Britanni cum exercitum duceret in Hiberniam, vbi cum ad fluium veniret ponte carentem, ipse fit pons, & in eius tergo transit exercitus. Ficta historia Mabinogi* (Brog. I.11).

Y mae'r trawiad *pen/pont*, gan rwydded ydyw eu cynganeddu a chan rymused y ddelwedd, yn gyffredin yng ngwaith beirdd yr uchelwyr. Cf. 'Pen a phont, y paun hoff, wyd' (GOLIM, 14.37); 'A'u pont i'w cynnal a'u pen' (GIG, III.34); 'Pwy'n iarll hir, pen yr holl iaith? / Pwy hwnt elwir pont eilwaith? / Pob dyn oll, pawb â'i dan un, / Pen wyt heddiw, pont uddun' (GSC, 21.1-4); 'Un llew'n ben a'r llall yn bont' (GGH, 106.2); 'Y karw llw kowir llawenn / Kymro pont Kymru ai penn' (BWLl, V.1-2). Ceir sawl enghraifft yng ngwaith Lewys Morgannwg (gw. y nodyn ar y trawiad hwn yn GLM I, 189). Anodd o'r herwydd yw gwahaniaethu rhwng cyfeiriad at y ddihareb a delwedd ystrydebol. Serch hynny, gellir bod yn bur sicr fod adlais o'r ddihareb yn y ddwy enghraifft a ganlyn: 'Pont aur wyd pand da r adwenn / A fyddo pont a fydd pen' (BWLl, LXII.61-2); 'Hywel yw'n pen, haelwyn pur, / Bid bont, nid byd heb antur' (GTP, 6.47-8). Ceir cyfeiriad diamwys at y ddihareb a'r chwedl yn y llinellau hyn o waith Rhys Nanmor: 'A fo pen, bid bont, ennyd, / Ni bu ryw ben neb o'r byd. / Mal y gŵr, am ei lu gynt, / Ym mron afon ni nofynt, / Bwrw ei wryd, bur eryr / Bwriai'n bell hwnt, Brân ap Llyr' (BLIRhN, 60.39-44).

Nid ydys eto wedi datrys y broblem pa un ai'r ddihareb ynteu'r chwedl a ddaeth gyntaf a dichon nas datrysir fyth. Y mae rhai wedi honni mai swyddogaeth etymolegol, eilradd sydd i'r chwedl pan fo'r ddihareb yn dywyll ac aneglur ond y mae eraill wedi honni i'r gwrthwyneb (Hasan-Rokem, 1982, 12). Y mae perthynas enwau lleoedd a chwedlau onomastig yn cynnig cymhariaeth amlwg.

Pair hyn oll fod pendantrwydd casgliadau Stefan Zimmer ynglŷn â'r ddihareb dan sylw yn anhygoel:

... no other attestation of the alleged proverb has ever been found. It is not, and has never been a proverb: it is born from a new interpretation of an old, no longer understood epithet, reflecting age-old aspects of leadership in Celtic and Indo-European.

(Zimmer, 2003, 225-6)

Serch bod trafodaeth Zimmer ar arwyddocâd yr gair cynhenid (coll) am *bont* mewn Brythoneg yn bur atyniadol (yr oedd yr arweinydd traddodiadol, meddir, yn *canfod y ffordd*, cf. y Lladin *pontifex*), ni ellir derbyn y sylwadau hyn sy'n cloi ei ymdriniaeth. Digwydd y ddihareb yng nghasgliad Llyfr Du'r Waun, y casgliad cynharaf o ddiarhebion Cymraeg (Williams, 1926, 27). Gwelwyd bod y beirdd yn ei dyfynnu droeon. Ymddengys i mi fod sylwadau Zimmer yn milwrio yn erbyn yr holl *dystiolaeth lawysgrifol*, *ddiriaethol* a hynny er mwyn ategu *damaniaeth* ieithyddol ynglŷn â natur sefydliad Indo-Ewropeaidd.

32 A88

34 A949

35 A38

36 A6

38 A15

39 A52

40 A20

41 A19

42 A14

43 A92

44 A89

45 A81

47 A13

48 A90

49 A91

51 A93

52 A94

53 **diuo** Dib. pres. 3 un. *difod*, 'bod â'.

Rhaid i'r un nad oes ganddo was weini arno'i hun. Ceir dihareb
debyg gan Chaucer:

Hym boes serve hymself that has na swayn,
Or elles he is a fool, as clerkes sayn
(Whiting, 1934, 87)

54 A40

55 A95

57 A102

58 A96

59 A4

61 **laet** Darllener *laeth*.

diwhynn6yf Dib. pres. 1 un. *dyfnaid*.

62 A58

63 **dyly** Myn. pres. 3 un. *dylyu*, 'teilyngu'.

64 A26

65 A97

66 A303

67 A101

68 A132

69 A127

70 A133

71 **blith** Ansoddair, 'llaethog' a ddefnyddir fel enw, 'llaeth' ac yn ffigurol am 'fudd, elw, mantais' (GPC).

72 **Ber6it** Myn. pres. 3 un. *berwi*. Fe'i deellir yma'n drosiadol am 'gyffroi' (GPC). Ar yr ystyr drosiadol arall, 'cynllunio', sydd iddo yn y llinell 'berwyt bryt brat' (CLIH, VI.23c) gw. CLIH, 170-1; EWSP, 625.

74 A110

75 A137

77 A105

78 A134

79 A106

80 Cf. A975. Dyry John Davies yr eglurhad *Nil bonum præsagium, nec sunt durabilia*.

81 A291

82 A135

83 A136

84 A539

- 86 A144
- 87 A595
- 88 A167
- 89 A143
- 90 A168
- 91 A169
- 92 A170
- 93 A171
- 94 A292
- 95 A154
- 96 A596
- 97 A145
- 98 A172
- 99 A597
- 100 A173

101 A142

102 A146

103 A151

104 A162

105 A174

106 A152

107 A153

108 A156

109 A175

110 A147

111 A561

112 A141

113 A160

114 A231

115 Cf. A101 ac A318 ynghyd â'r ddihareb gydwladol *Le plus sage se taist* (MFPSPP, S10); *It is great Wisdom to speak little* (PSPP, W379). Gwahanol, fodd bynnag, yw ergyd y ddihareb hon. Awgrymir mai tawedogrwydd dyn a bair iddo ymddangos yn ddoeth. Bydd ei ynfydrwyd yn amlwg pan egyr ei geg. Y mae hon yn ddihareb gydwladol, cf. *Tant est foul saige comme il se taist* (Mor., 2293; gw. yn ogystal MFPSPP, F162); *If a Fool say nothing men ween (think) him wise (varied)* (PSPP, F441). Ffynhonnell debygol y ddihareb yw'r adnod, 'Y ffôl, tra tawo, a gyfrifir yn ddoeth; a'r neb a gaeo ei wefusau, yn ddeallus' (Llyfr y Diarhebion 17:28).

116 A233

117 **typ** Myn. pres. 3 un. *tybied*, 'amau , drwgdybio'.

118 A219

119 A184

120 A180

121 Cyffelyb yw ergyd y ddihareb Saesneg, *Show me not (Look not on) the Meat but show me (look on) the man* (PSPP, M475). Y mae gwedd y llo yn tystio i ansawdd y llaeth.

122 A186

123 A543

124 A234

125 A235

126 **hil keirch** Yn GPC, ceir *hilgeirch*, *hilceirch*, ‘Y ceirch a’r eisin sy’n weddill yn y gogr ar ôl gogryn; ceirch wedi eu silio a’u gogryn, rhynion’. Yn Llyfr Blegywryd y ceir yr enghraifft gynharaf o’r gair, yng nghyswllt sarhad y rhingyll a gwelir yn y cyd-destun hwn mai peth diwerth yw *hilceirch*:

Or sarhaer yr righill o’e eisted yn dadleu y brenhin, ny cheiff onnyt gogreit hilkeirch, a chwccwy wy yn tal y sarhaet; kan ny dyly eisted tra wnelher dadleu y brenhin.

(Bleg., 29.3-6)

dryckynnogyn Cyfuniad o *Drwg + cynnogn*, ‘dyledwr drwg, drwg dalwr’.

Er gwaethaf y derminoleg gyfreithiol, dihareb gydwladol ydyw hon ac nid rheol gyfreithiol. Nid cywir mo eglurhad Stephen J. Williams arni, ‘ei bod yn dda gan ddyledwr drwg gael hyd yn oed hil ceirch, sef cymaint o geirch ac o eisin ag a fyddai’n weddill yn y gogr’ (Bleg., 177). Nid y dyledwr drwg sy’n cymryd yr hilceirch; ef, yn hytrach, sy’n ei roi. Yr oedd John Davies yn deall ergyd y ddihareb (Brog. I.11):

Bonum (est, si accipias vel) semen auenæ à malo debitore. Accipe quod potes ab inope debitore. Vi. Ni cheir gan y llwynog ond ei groen.

Diddorol yw fod Davies yn ei chymharu â C656, dihareb gydwladol arall. Crybwyllir y ddihareb *Of ill debtours men take oats* gan Taylor (1985, 90) a chenadwri honno'n sicr ydyw ei bod yn dda cael unrhyw beth o groen dyledwr drwg. Cadarnheir yr ystyr hwn gan enghreifftiau eraill o'r ddihareb gydwladol hon: *De mal deteur prent len avoine* (Mor., 518; ond cymharer, *De bon deteur aveine, et de mal nient*, Mor., 467); *Of an evil Debtor men nim (take) oats for wheat* (PSPP, D118); *Debita longa trahens pro frumine soluat auenam* (SM I, 130). Gw. ymhellach SM (II, 74-5).

127 A237

128 **Drythyll** Gwell yma yw'r ail ystyr a ddyry GPC, 'Moethus, (rhy) hoff o foethusrwydd ... anllad'.

digreith Yng nghasgliad Llyfr Gwyn Rhydderch ceir *dirieit*.

129 Dihareb gydwladol, cf. *Le poil qui ne peut durer ung an ne vault rien* (Mor., 1107); *It is an ill Stake that cannot stand one year in a hedge* (PSPP, S658).

130 A238

131 A239

132 A778

133 A185

134 **wnc** Amrywiad ar *wng*, 'agos' (GPC).

Cyngor i briodi ac ymgynghreirio â rhai agos a chynhennu â rhai'n bell i ffwrdd. Fe'i dyfynnir yn y canu rhydd cynnar:

gore ywr pell i ddal glanastra

yw briodi gore ywr nessa.

(CRhC, 16.75-6)

135 **Dyda**6 Y rhagddodiad cryfhaol *dy-* + *myn.* pres. 3 un. *dyfod*.

hanbyd Dyf. 3 un. *hanfod*. Yma y mae'n gyfystyr â 'bydd' (GMW §156).

136 **Detlis** Gorff. 3 un. *dadleu* 'cyfarfod, dadlau, ymryson, brwydro' (GBGG).

137 A240

138 A202

139 A190

140 Digwydd parodi ar y ddihareb hon ar ddechrau ail gywydd Guto'r Glyn ynglŷn â'i helynt yn porthmona defaid (cywydd yn ateb Tudur Penllyn): 'Diwedd hen fu'r fargen fau, / Cadw wŷn fal y'm caid innau' (GGG, xxxiii.1-2). Pan fo dyn yn rhy hen a gwantan i wneud dim arall, geill gadw defaid.

141 Dihareb a geir droeon yng ngwaith y beirdd: 'Y ddihareb oedd aren: / Dirmyger ni weler, wen!' (CSTB, X.47-8); 'Dirmycid merch, draserch dro, / Orne wŷl, ar ni welo' (DGG¹, LXXIII.59-

60). Diddorol yw gweld hen ffurf annibynnol y ferf, *dirmycid*, yn yr ail ddyfyniad. Ceir y ddihareb yn yr englyn hwn o'r ymddiddan rhwng Gwerful Mechain a Dafydd Llwyd:

Haf atad, gariad geirwir, - y macwy,
Dirmycer ni welir.
Dof yn d'ôl oni'm delir,
Gwas dewr hael â'r gastr hir.
(GGM, 12.13-6)

Yma y mae ergyd y ddihareb yn bur wahanol. Cyfeirio a wneir at hyd *castr*, a chan fod *castr* Dafydd Llwyd yn hir, ac felly'n weladwy, nis dirmygir.

142 A241

143 **eglu ar** Darllener *engi ar*, 'esgor ar'.

Dihareb gydwladol o darddiad Groegaidd (Taylor, 1985, 30-1). Fe'i dyfynnir gan Horas yn ei *Ars poetica* ac y mae'n ddihareb boblogaidd mewn sawl iaith. Cf. *A Hill made a dreadful noise and a mouse was borne (varied)* (PSPP, H388); *Parturiunt montes, ridiculus mus nascetur* (dyfynnir gan Taylor, 1985, 31). Cyfeirir yn y ddihareb at un o chwedlau Aesop, a geir gyntaf gan Phaedrus. Roedd y mynydd ar esgor ac yn griddfan a dyhefod yn ofnadwy a bu i hyn beri cyffro drwy'r wlad. Yn y diwedd, fodd bynnag, esgorodd y mynydd ar lygoden (Aesop, 280). Dameg ydyw am bobl drystfawr, llawn bygythiadau, nad ydynt yn cyflawni dim. Dyma fotif llên gwerin U114, *Mountain in labor brings forth a mouse* (MIFL, V.421). Gw. ymhellach Erasmus, 38.188.

144 A188

145 A242

146 Dichon fod yma fersiwn o A639.

148 A210

149 A243

150 A232

151 A197

152 A192

153 A191

154 A244

155 A187

156 A245

158 A182

159 A211

160 A181

161 **hwennyh** Amrywiad ar *chwennyh*.

162 A269

163 **parchell** Amrywiad ar *porchell*.

164 A281

165 A277

166 A271

167 A260

168 A279

169 **Elhit** Hen ffurf annibynnol myn. pres. 3 un. y ferf *myned*.

Y mae'n amlwg fod cysylltiad rhwng y ddihareb hon a'r nesaf.

Ceir dihareb Saesneg, *One is worth a hundred and a hundred is not worth one* (PSPP, O38) ond ni fedrais ganfod unrhyw gysylltiad ystyrlon rhyngddi hi a'r diarhebion Cymraeg hyn. Prin chwaith fod unrhyw gysylltiad rhyngddi a geiriau Guto'r Glyn: 'Naw ac un'n ei ogoniant / O'r un gŵr yr ân' i gant' (GGGI, LXIII.35-6).

171 A282

173 *Eech6yn* Darllener *Ech6yn*. Naill ai *echwyn*¹ ('peth a fenthycir') neu *echwyn*² ('cwyn'), GPC.

174 A280

175 A266

177 A286

178 A284

179 A311

180 A349

181 **mared** Petrus yw'r ystyron yn GPC, 'Ysblander, rhwysg, rhodres, balchder'. Arno gw. CA, 350.

182 A340

183 A306

184 A316

185 A338

186 A298

187 A337

188 A320

189 A302

190 A296

191 A309

192 A319

193 A332

194 A322

195 A324

196 A301

197 A300

198 A312

199 Cf. A325 ond y mae ffurf y ddihareb yma yn ddigon gwahanol i gyfiawnhau nodyn annibynnol. Darllener, *Gwell yd ymgynnŷys got nocet difya6c*.

nocet Cysylltair a ddefnyddir mewn cymhariaeth (WG, 447; GMW §46;).

difya6c *Difiog*. Priodolir iddo ystyron megis ‘ffyrnig, milain, anwar’ yn GPC. Mewn tair o’r enghreifftiau o’r gair a nodir yn GBGG, fe’i cysylltir â’r lleidr a dengys hynny mai fersiwn arall o A325 sydd yma.

200 **pennhill** Côr mewn stabl (GPC). Yn y cyfreithiau cyferbynnir
march sy'n pori allan a march *em pennyll*:

Amus en try thymhaur ny chyll na'y werth na'y ureynt er pory allan:
ac ysef ynt e rey henne, o hanner Ebryll hyt hanner Mey, a mys Hydref
ar y hyt; ac ot a em pennyll, keny bo namen teyr nos a thry dyeu, punt
yu e werth.

(Ior. §121)

Ceir ymdriniaeth â'r gair *pennill* yn Williams (1926c, 134-6) ac
awgrymir yno mai ystyr y ddihareb yw *A bed-mate is better than a
table-mate*. 'Câr *pennill*,' meddai Ifor Williams, 'yw'r gŵr sy'n
bwyta'r un bwyd â ni'. Digwydd y cyfuniad yn y llinell 'lla6 gra6n
k6rp anna6n nyt kar pennill' (RBP, 1359.34-5).

201 A315

203 A307

204 A327

205 A314

206 A330

207 A318

209 A313

210 A323

211 A299

212 A331

214 A333

215 A334

216 A326

217 A336

218 A357

219 A358

220 A308

221 A435

222 A414

223 A368

224 A437

225 A381

226 A176

227 A458

229 A380

230 A379

231 A370

232 A459

233 A363

234 A417

235 A394

236 A371

237 A460

238 A461

239 A462

240 A389

241 A463

242 A295

243 A388

244 A392

245 A395

246 A464

247 A548

248 A396

249 A290

250 A398

251 A400

252 A416

253 A465

254 A503

255 A472

256 A519

257 A508

258 A477

259 A520

260 A687

261 A474

262 A521

263 A509

265 A510

266 A492

267 A506

268 A511

269 A493

270 A512

271 A513

272 A522

273 A482

274 A523

275 A524

276 A488

277 A525

278 A469

279 A526

280 A483

281 A514

282 A515

283 A527

284 A528

285 A530

286 A529

287 A485

288 A516

289 A517

291 Mewn casgliadau diweddarach ceir fersiwn llawnach 'Yr aderyn a faccer yn vffern, yn vffern y myn drigo' (DD, Diar.).

292 **nithya6** Gwahanu'r grawn oddi wrth yr us, ond yma fe'i dyellir yn ffigurol an 'buro'.

Dihareb o'r gyfres englynion 'Cysul Addaon':

Syberu a segur dolur ar eu knaud.

guerth myned dros uessur.

ys tir nithiau ny bo pur.

(LIDC, 27.13-5)

Cyfeiria Marged Haycock at ffynhonnell feiblaidd debygol y ddelwedd (BBGCC, 290) sef Mathew 3:12: 'Yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law, ac efe a lwyr lanha ei lawr dyrnu, ac a gasgl ei wenith i'w ysgubor; eithr yr us a lysg efe â than anniffoddadwy.' Cf. yn ogystal Luc 3:17.

294 **dyuyd** Dyf. 3 un. *dyfod*.

295 A1039

296 **Ympell** Amrywiad ar *ambell*, 'anfynych, anaml, prin' (GPC; CA, 227).

wyneb 'Anrhydedd'. Arno gw. A322.

- 297 **ymgyfeid6nc** Ymddengys mai *eiddwng* ‘cyndyn’ (GPC, GBGG) yw’r elfen olaf.
- 298 A305
- 299 A289
- 300 A247
- 301 **dec ewin** Trosiad am y dwylo, cf. ‘A deg ewin digaead / a dâl aur tawdd dwylaw’r tad’ (GOLIM, 10.15-6); ‘Gwae fo, gwell oedd gau ei fin / Oni thau â’i wyth ewin’ (GDLI, 69.9-10). Yn GPC, ceir yr ymadrodd *â’i (wrth ei, &c.) ddeg ewin, deng ewin*.
- 302 A252
- 303 **b6rr** ‘Tew, cryf, mawr’ (GPC).
diwyneb Dyry GPC, 1064 ‘Na thâl anrhydedd neu barch; ?na ellir ei sarhau’ Daw’r unig enghraifft a nodir o’r trioedd cyfraith:
- Tri di6yneb g6lat: argl6yd ac offeirat; a chyfreith: ac ny ellir bot hebdunt mal kynt.
(AL I, 782)
- 304 A256
- 305 Cyfeirir at y ddihareb hon yn un o’r Areithiau Pros, y *Llythyr i ofyn Rhwyd Berced*:

... gan vy mod yn tario gar llaw glan afon o raianddwr rryddgawg
mewn tawelglaer ddyffryngoed lle mae hawdd gweled gwibiad vrych
vrithill gemogbais dirionvrith yn roi amyl chwimythdro yskudnaid
wybedgais ar i hyd ag ar i thraws a minau mor chwanog vylysig iw
ddala ag a vyddai y llwynog llihiadwy daint-vylysig i bosiar wine
felenryudd gyfaewin gyfaasgell, gyfanblu a vai yn rrodio or ty ir
yskubor ar draws kyfinglwybyr towyllberth dieithrffordd, ne megis y
dowaid y ddihareb, kyn chwanoked ar gath ir pysgod
(Jones, 1934, 39.4-15)

Ceir adlais ohoni yn y gerdd rydd ‘Gyrru’r Gath trwy
Feirionnydd’:

pyscodyn Ir yn ymborth gwvch
Ath droed yn svch a geri
(CRhC, 97.11-2)

Dichon y dylid ei chysylltu ag A1078. Y mae’n ddihareb
gydwladol, cf. *Chat mangereit peyson, mes yl ne moyle poynt sa
poue* (SM I, 93); *Comme le chat fuit l’eau* (MFPSPP, C86); *The
Cat would eat fish but would not wet its feet* (PSPP, C93); *Cattus
amat piscem, sed non vult tangere flumen* (LSSM, C27) . Ceir
ymdriniaeth helaeth â gwahanol fersiynau o’r ddihareb yn SM (I,
92-3). Cyfleir ei hergyd yn y pennill hwn o’r *Proverbes en rimes*:

D’aulcuns sont de telle nature
Qu’ilz vouldroyent a grant deduit
D’avantage trouver pasture,
Car le traveillier leur ennuyt.
Ilz sont samblables jour et nuyt
Au chat qui tresbien mengeroit
Du poisson, s’il le trouvoit cuit,

Mais ses pattes ne oulleroit.

(Frank & Miner, 1937, 61)

Cyffelyb yw'r genadwri yn y cwpled Lladin, *Sumere vult pisces cattus, sed flumen abhorret; / Sic sua saepe pigrum, ne crescat, inertia torret* (LSSM S208).

306 A1040

307 Cf. 'Llaw a ystyn, testyn têt, / Hên gymod, hon a gymer; / Llaw a gymer, llai gomedd / I roi a wna yr vn wedd' (YEPWC, 1.85-8).

308 A1068

309 Gellid cymharu geiriau Dafydd ap Gwilym: 'Trech llafur, nofiadur nwyf, / No direidi, dewr ydwyf' (GDG, 131.31-2).

310 A329

311 **ragot** Rhagod, 'ymosodiad dirybudd o safle guddiedig' (GPC).

Gwell yw erlid agored gan arglwydd na chyrch annisgwyl ganddo.

312 **lla6gar** Yma '(person) hael neu haelionus' (GPC) sydd orau ond y mae iddo hefyd yr ystyr 'distadl' megis yn y llinellau 'Anudon am tir. a brat argluid. / a diuanv llaugar' (LIDC, 27.19-20).

313 Cyfieithir y ddihareb gan Davies yn *Alter annus erit homini mater, et alter erit ei nouerca* (o dan *Elldrewyn* yn DD). Ymysg adagia Erasmus (32.161) ceir y dywediad *Ipsa dies quandoque parens,*

quandoque noverca. Yr ystyr ydyw na eill pob diwrnod fod yn ddiwrnod da a chyfeirio a wneir at y coel ynglŷn a'r llysfam (*elltrebyn*) yn casáu ei llysblant.

315 A468

316 A294

317 A246

318 A642

319 Cf. 'Nes elin yn dilin dol / nor arddwrn i wyr vrddol' (Pen. 67, LIX.27-8).

320 A48

326 **dyffo** Dib. pres. 3 un. *dyfod*.

328 **Yach ryd** Cyfuniad cyffredin, cf. 'Os iach a rhydd fydd efô / Ef a ennill, pan fynno' (GGLI, 12.73-4). Y mae aml i ddihareb yn pwysleisio pwysigrwydd iechyd, cf. *Qui n'a santé il n'a riens* (Mor., 2011).

330 **g6aet** Darllener *gwadn*.

reuet y troet Am *rheuedd* dyry GPC 'Cyfoeth, golud, trysor, helaethrwydd, digonedd'. *Rheuedd y droed* felly yw ei maint.

Tybiaf mai fersiwn llwgr o'r ddihareb hon a geir yn A611. Ceir fersiwn diweddarach yn C534. Dyfynnir y ddihareb gan Siôn

Tudur: 'Torri'r gwadn, trwy ergydiaw, / Wrth y troed, diwarth it draw' (GST, 5.55-6); ac fe'i hadleisir, efallai, yn llinellau Tudur Aled: 'Llunio gwadn yn Llangedwyn / I'w untroed ef, ond da'r dyn!' (GTA, XXXIV.51-2). 'Gresyndod mawr na fedra'r bardd lunio'r gwadn fal y bo'r troed', meddai William Morris am Oronwy Owen wastraffus (ML I, 381).

331 A564

332 A261

333 A577

334 A585

335 A550

336 A549

337 A586

338 A587

339 A588

340 A589

341 A590

342 A578

343 **pyr yn du pyr yn wynn** Ceir dau *pyr* yn y Gymraeg y naill yn gyfuniad o'r rhagenw gofynnol *py* + *ry* a'r llall yn gyfuniad o *py* + *yr* (GMW §§83-4). Er na nodir y defnydd hwn yn GMW na GPC y mae'n eglur mai'r ystyr yma yw 'pa un ai'.

344 A591

345 A579

346 A592

347 A580

348 A581

349 A593

350 A582

351 A532

352 A594

353 A583

354 A557

355 A584

356 A612

357 A598

358 A607

359 A623

360 A467

361 A599

362 A600

363 A624

364 A601

365 A602

366 A625

367 A603

368 A626

369 A604

370 A605

371 A606

372 A627

373 A628

374 A629

375 A630

376 A631

377 A669

378 A632

379 A634

380 A636

381 A649

382 A638

383 A639

384 A963

385 A685

386 A659

388 A646

389 A652

390 A641

391 A664

392 A657

393 A643

394 **kym6edach** Sef *cymwêdd*, ‘digrifwch, dyfyrrwch, arabedd, ysmaldod, cellwair; gwawd, gwatwar’ (GPC) + y terfyniad bachigol *-ach*.

395 A648

396 A774

py wich py wach Dichon mai gwall copïo yw’r darlleniad hwn ond geill fod yma ddylanwad yr adferf *wich-wach*, *wich-di-wach*, ‘yn wichlyd, yn sgrechlyd, yn swnllyd’ a ddefnyddir hefyd gyda grym enwol (GPC). Yng ngwaith Wiliam Llŷn y digwydd yr enghraifft gynharaf o’r ymadrodd: ‘Weithiau draw bydd wrth droi benn / Wich wach yn ol chwech ychenn’ (BWL1, IX.83-4).

397 A916

398 A688

399 A690

400 A801

401 A833

402 A804

403 A786

404 A691

405 A693

406 A777

407 A746

408 A917

409 A906

410 A787

413 A748

414 A811

416 A803

417 A736

418 A735

419 **ymleueir** Myn. pres. 3 un. *ymleferydd*. Tebygaf mai'r ystyron
'rwdlan, rhefru, malu awyr, siarad ag ef ei hun, gwirioni, ynfydu'
(GPC) a wedda orau yma.

420 A867

421 A794

422 A791

423 A696

424 A918

425 A797

426 A814

427 A753

428 A694

429 A825

430 **eing** Arno gw. A816.

431 A824

432 A783

433 A800

434 A698

435 **ymweis** Nis ceir yn GPC ond ceir y ferf *gwasáu* yn GPC a GBGG a chynigir ‘gwasanaethu, gweini’ yn un o’r ystyron posibl. Geill fod yma fyn. pres. 3 un. *ymwasáu* a rhoddai hynny ystyr derbyniol.

436 A784

437 Adleisir y ddihareb yng nghywydd Siôn Phylip i Syr Siôn Wyn ifanc: ‘Y ddihareb oedd eirwir, / Ac un o’n iaith a’i gwnai’n wir. / Ni wŷr braint neu rywiau bro - / Sôn dilys – ond a welo’ (GSPPhNSG, X.59-62).

438 A700

439 A795

440 A865

441 A788

442 A757

444 A738

445 A919

446 A699

447 A920

448 A701

449 A873

450 A2

451 A798

452 A752

453 A816

454 A802

455 Dihareb o'r gyfres englynion 'Gwên a Llywarch':

Diheu diweir dywäes,
Ti yn vyw a'th dyst ry las!
Ny bu eidyl hen yn was.
(CLIH, I.13)

Trafodir arwyddocâd y ddihareb yn EWSP, 517-8. Bydd pob hen
wŷr yn proffesu ei wrhydri gynt.

456 A74

457 A703

458 A921

459 A922

460 A809

461 A813

462 A923

463 A924

464 A826

466 Cf. efallai A839.

467 A704

469 A706

470 Cyfieithir y ddihareb gan John Morris-Jones yn *too much is not better than enough* (WG, 439). Cf. 'Nid gwell dim, nod gwall o daw, / Na digon i'n diwygiaw' (GITI, 11.3-4).

471 A707

472 A768

473 A733

474 A925

475 A926

476 A827

477 A828

478 A927

479 A785

480 A928

481 A929

482 A930

483 A776

484 A931

485 A708

486 A932

487 A855

488 A710

489 A712

490 A713

491 A535

492 A893

493 A714

494 A715

495 A806

496 A934

497 A935/A718

498 A717

499 A697

500 A719

501 A829

502 A936

503 A720

504 A815

505 A937

506 A721

507 A938

508 A939

509 A789

510 A722

511 A724

512 A723

513 A805

514 A734

515 A726

516 A727

517 A799

518 A729

519 A940

520 A941

521 A883

522 A942

523 A730

524 A943

525 A728

526 A792

527 A793

528 A741

529 A725

530 A944

531 A762

533 A970

534 A945

535 A954

536 A971

537 A951

538 A946

539 A959

540 A972

541 A974

542 A994

543 A975

545 A996

546 A997

548 A977

549 A998

550 A999

551 A993

552 A978

553 A979

554 A1000

555 A1001

556 A980

557 A1002

558 A981

559 A982

560 A1003

561 A1004

562 A1006

563 A1031

564 A1027

565 A1032

566 A1014

567 A1007

568 A1008

569 A1033

570 A656

571 A1023

572 A1009

573 A1017

574 A1010

575 A1011

576 A1035

577 A1025

580 A1036

581 A1037

582 A1042

583 A1043

584 A1044

585 A1057

586 A1045

587 A1046

588 A1047

589 A1066

590 A1059

591 A1070

592 A1062

593 A1067

594 A1071

595 A1056

596 A1072

597 A1064

598 A1061

599 A1049

600 A1069

601 A1054

602 Dyry John Davies (Brog. I.11) y cyfieithiad *Labor bouis vsque ad vesperam*.

603 A1048

604 A1050

605 A1051

606 A1053

607 Dihareb gydwladol, cf. *Un borgne est roi au pays des aveugles* (MFPSPP, B144); *A one-eyed Man is well sighted when among blind men* (PSPP, M263). Fe'i ceir yn y *Proverbes en rimes*,

ynghyd â thorlun sy'n darlunio brenin unllygeidiog ar ei orsedd a'i ddeiliaid deillion o'i amgylch:

Quant il n'y a seigneur ne dame
Fors que gens qui ne voyent goute
Pour gouverner ung grant royalme,
D'estre mal gouvernés ont doubte.
Toutesfois fault il c'on y boute
Ung gouverneur de noble aroy,
Et pour le choisir bon, sans doubte
En cent aveugles borgne est roy.
(Frank & Miner, 1937, 38)

608 **dyly** Myn. pres. 3 un. *dylyu*, 'hawlio, teilyngu'. Gwelir nad ydyw'r gwahaniaeth *duc/dyly* yn menu dim ar ystyr y ddihareb yn ei chyddestun.

Amrywiad ar ddihareb gyfreithiol a ddyfynnir yng ngyswllt cyfraith gwragedd:

O deruyd rody gureyc y vr adan e hagedy, ac enwy y da, a chaffael kubel o'r da hyt yn oet un keynnyauc ac na chaffer honno, nyny a dywedun y geill y gur yscar a hy ac na cafo dym o'r eydy: a honno a elwyr un keynnyauc a duc cant. Nyt reyt mach ar dylesruyd da a del e gan wreyc en ganesgaeth.
(Ior., §54; gw. yn ogystal Col., §49)

Dengys y paragraff y gallai priodas fod yn ddibynnol ar argyfrau. *[The] one penny that witholds a hundred* yw cyfieithiad Aled Rhys Wiliam o fersiwn Llyfr Iorwerth (Ior., 111). Camddeallodd John Davies y ddihareb hon drwy geisio ei hegluro yn annibynnol ar ei

chyd-destun cyfreithiol. Dyry'r cyfieithiad *Vnus denarius (bene locatus, vel opportune erogatus) meretur centum* (Brogr. I.11).

609 Ar arwyddocâd anffodus *un trew gw.* y nodyn ar A703.

614 **ery** Myn. pres. 3 un. *aros*.

Yn 'Englynion y Clyweit' ceir 'wyneb trist crist a ery' (Clyweit 49c) ac argymhellir diwygio'r darlleniad i *drwg a ery* yng ngoleuni'r ddihareb (BBGCC, 335). Dyry Marged Haycock yr aralleiriad 'Bydd y dyn a chanddo wyneb trist yn dioddef niwed' (BBGCC, 31.49c). Ceir y ddihareb gan Ddafydd ap Gwilym yn ei ymddidan â'r Brawd Llwyd: 'Gwir a ddywad Ystudfach / Gyda'i feirdd yn cyfeddach: / "Wyneb llawen llawn ei dŷ, / Wyneb trist drwg a ery"' (GDG, 137.71-4).

Nodiadau C

- 1 **Abyl** 'Digon, digonol, bodlon' (GPC).
- 5 Cf. 'Na chymer, pen vwch chwemil, / Achos heb achos o'r bil'
(YEPWC, 4.101-2).
- 7 Cf. 'Na ddal di ddig, wen ddelw dlos, / Na bo achwyn heb achos'
(CSTB, XXVII.29-30). Dichon bod i'r ddihareb wreiddiau
beiblaidd: 'Nac ymryson â neb heb achos, os efe ni wnaeth ddrwg i
ti' (Llyfr y Diarhebion 3:30).
- 8 B28
- 9 A2
- 12 A6
- 13 A15
- 18 A8
- 19 Dihareb gydwladol, cf. *Belle promesse fait fol lyé* (Mor., 228); *Fair
Behests (Promises, Words) make fools (sots) fain (varied)* (PSPP,
B214). Gw. ymhellach SM (I, 100). Cf. 'Addaw ffôl a'm gwnâi'n
llawen' (GDG, 41.39).
- 22 B3

23 A57

24 A35

25 A96

26 A274

27 A14

28 A20

38 A12

39 A22

40 A13

41 B21

42 A26

43 A1

44 Ôl camddeall B9?

45 Cf. B21.

46 A21

- 47 B37
- 48 A1
- 49 Cf. 'Na ateb ynfyd yn ôl ei ynfydrwydd; rhag dy fod yn gyffelyb iddo' (Llyfr y Diarhebion 26:4).
- 50 A97
- 52 A40
- 53 A34
- 54 A28
- 55 A94
- 56 Benthyciad sicr o'r Saesneg. Y mae'r ddihareb yn bur hen yn yr iaith honno; fe'i ceir yn y *Proverbs of Alfred*. Cf. *Out of Sight out of mind (varied)* (PSPP, S307) yn ogystal â'r ddihareb Ffrangeg *Loin de l'oeil, loin du coeur* (MFPSPP, O12).
- 59 A4
- 60 Llinell o'r canu gwirebol: 'am g6ymp hen chwerdit g6en g6as' (EWGP, V.7c).
- 61 Cyfieithir y ddihareb hon gan John Davies yn *Conditio (pactum) infringit consuetudinem* (Brog. I.11). Cf. A1069.

- 62 Fersiwn diweddarach o A1069.
- 63 Cf. ‘Dyn egwan a amcanai, / Dvw Nêr cwbl wybod a wnai. /
Gwael yw amcan, cwynfan caeth, / Ar waith byd wrth wybodaeth: /
Mae amcan ar gân genvd, / Nid mesur, hy awdur hvd’ (YEPWC,
21.9-14).
- 64 A50
- 65 A81
- 67 A25
- 72 Dihareb feiblaidd sy’n adleisio adnod gyntaf enwog trydedd
pennod Llyfr y Pregethwr: ‘Y mae amser i bob peth, ac amser i bob
amcan dan y nefoedd’ (3:1).
- 73 **lochwyd** Sef *golychwyd*, ‘gweddi’. Arno gw. GDG, 483; Williams,
1924, 124-6. Fe’i cyplysir yn fynych â *bwyd*, gan rwydded yr odl
yn ddiau: ‘Gwae a ysso bwyd, ny chan golochwyd, ny lauurya’
(BBGCC, 33.91); ‘Tŷ ni bu well tân a bwyd, / Teirgwyl uwch tair
golochwyd’ (GTA, XXXIX.61-2). Cyfieithir y ddihareb gan John
Davies yn *Tempus est cibo, tempus orationi* (Brog. I.11) ond eglur
mai ‘gweddi’ yw’r ystyr yn yr enghreifftiau cynharaf.
- Cf. ‘Amser a rodded i fwyd / Ac amser i olochwyd’ (GDG, 137.63-
4); ‘Y mae i roi yma rôl / Amseroedd cymesurol, / Amser beunydd
fydd i fwyd / Ail achos i olochwyd’ (GGH, 54.35-8).
- 74 A89

76 A5

77 Amrywiad ar A3?

81 Cf. A547.

82 A118

84 A271

86 A16

87 A16

96 A267

97 A36

98 A23

99 Dihareb Saesneg: *Soft Fire makes sweet malt* (PSPP, F196).

100 A37

101 A11

102 A10

103 A7

104 A98

105 A19

108 A95

109 Ni cheir y ddihareb hon yn nhestun A na B yn y Llyfr Coch ond fe'i ceir yn nhestun Peniarth 17, *Ar guelleu y llas y weirglaud*. Dengys hyn ei bod i'w chael yn gynnar yn y Gymraeg. Y mae'n ddihareb gydwladol sy'n seiliedig ar chwedl werin gydwladol a edrydd hanes gŵr a gwraig yn croesi gweirglodd, y naill yn dweud mai â phladur y torwyd y gwair a'r llall yn taeru mai â gwellau y'i torwyd. Yn y diwedd y mae'r gŵr yn torri tafod ei wraig i ffwrdd ac yn ei thafu i lyn ond y mae hithau yn dal i daeru â'i bysedd. Dyma fotif llên gwerin T255 (MIFL V, 371). Adroddir y chwedl mewn exemplum o waith Jacques de Vitry (Crane, 1971, 92) ac yn y *fabliau* 'Do Pré tondu' darlunir y taeru rhwng y gŵr a'i wraig:

Li prodom a parlé premiers:

“Voir, mout est cist prez bien fauchiez.”

La fame li a respondu:

“N'est pas fauchiez, ainz est tondu.”

(de Montaiglon & Reynaud, 1872-90, 156-7)

Cyfeirir at y chwedl yn un o gywyddau Edmwnd Prys yn yr ymryson rhyngddo a William Cynwal:

Nid oes i'th wawd a saeth ddv

Dim dirwystr ond ymdaerv.

Tebig yw dy atebion

I wraig cynt pan oedd grêg hon:
I gadw i gair am gnydwair gnaif
A'i naillaw a wnaï wellaif.
(YEPWC, 17.69-74)

Noda Gruffudd Aled Williams fod y gyffelybiaeth yn seiliedig ar y chwedl werin ac y mae'n dyfynnu'r ddihareb gan ofyn, 'Tybed a oes iddi gysylltiad â'r chwedl hon?' (YEPWC, 261). Y mae'r englyn hwn o waith Thomas ap Hughe o Ewias yn cadarnhau mai o'r chwedl y tarddodd y ddihareb (Codwyd yr englyn o lsgr. LIGC 13250, sef Mysevin 30):

Y gwelle yn *dife* y *dyfod* gnefen
y gnifoed y wylod
med gwraig *drwg* nawsaf dafod
dengys ar *day* fys y fod

Dyry'r englyn synnwyr difai o ddyall y sangiad *cnefen* fel amrywiad tafodieithol ar *cnefyn* (sef y benthyciad Saesneg *cnaf* a therfyniad bachigol). Nodir sawl amrywiad ar *gweirglodd* yn GPC - *gweirlodd*, *gweirlod*, *gwrlod* – a gellir derbyn *gwyrlod* yn amrywiad pellach. Yn ôl John Davies cymhwysid y ddihareb i ddisgrifio gwragedd gan amlaf: *De eo dicitur qui est propriae opinionis tenax; praecipue de mulie[ri]bus* (Brog. I.11). Nid bod hynny'n peri syndod. Fe'i ceir hefyd yn y Ffrangeg, ond bod ei ffurf yn wahanol yn yr iaith honno: *Totevoies fu ele tondue* (Mor., 2402; gw. yn ogystal Morawski, 1928, 484).

Gwyddys fod dychan merched yn thema bobogaidd yn llenyddiaeth yr Oesau Canol a chyfnodau diweddarach (Rees, 1952, 83-93). Adroddir chwedl nid annhebyg i'r un sy'n sail i'r ddihareb dan sylw yn 'Carol Ymryson am y Clos' (CRhC, 41).

Digwydd y chwedl honno hefyd mewn *fabliau* o'r drydedd ganrif ar ddeg (Parry-Williams, 1931, xciv-v).

110 A33

111 A59

112 A9

113 **Assaeth** Sef *aseth*.

114 A18

115 A93

121 B161

126 A92

127 B63

128 A27

129 B33

132 A108

134 Cyfeirir at *glun gwrach* yng nghywydd Dafydd ap Gwilym, 'Tri Phorthor Eiddig' (GDG 80, 16-20) ond go brin fod cysylltiad rhwng y llinellau a'r ddihareb.

136 A125

137 A126

138 Golygwyd cywydd llateiaeth Dafydd Llwyd i Werful Mechain deirgwaith. ‘Gwn gof chwedl y fargen gynt’ ydyw geiriad wythfed llinell y cywydd yn y golygiad diweddaraf (GGM, 5.8). ‘Cadw gof chwedl y barcud gynt’ a geir yn GDLI (65.8) a golygiad Henry Lewis (1929). Erys arwyddocâd y ddihareb yn aneglur.

140 A113

141 A114

143 A117

144 A118

145 A121

148 B85

150 A137

151 B71

152 A975

153 A207

154 A303

156 Cyfansoddodd Siôn Tudur englyn ar y ddihareb hon:

Pob ehud o'r byd pe bai – ar fwyd

Rhy fuan y barnai;

Buan a ffraeth y saethai

Ynfyd ei follt, anfad fai.

(GST, 304)

158 A109

161 A110

162 A110

163 A127

165 Dyfynnir y ddihareb yng nghywydd Wiliam Midleton i'r bêl droed:

os kellowair yn ddiwair dda

wych lwyddiant na chwilyddia

os chwaraev yn dechravr daith

afrolvs na friw eilwaith

(G. J. Williams, 1930b, 60)

Cf. yn ogystal y llinellau 'Gwell i wŷr drwy gellwair draw / Gael ei ladd no'i g'wilyddiaw' (GSC, 39.35-6).

166 A177

167 A153

169 A142

172 **chweston** Sef *chwetston* ‘carreg hogi’ (GPC). Gair benthyg o’r Saesneg *whetstone* (ar y newid sain *wh* > *chw* gw. EEW §90). Y ddihareb hon yw’r unig enghraifft o’r gair yn GPC. Ystyr *chwedl chwetston*, meddir, yw ‘stori gelwydd’. Cf. *To lie for the Whetstone* (PSPP, W216). Cyfeiriad ydyw at yr arfer o hongian carreg hogi am wddf dyn celwyddog oherwyd bod ei dafod yn rhy llym i’w les ei hun. Crybwyllir yr arfer yn y darn canlynol o broclomasiwn a berthyn i’r bymthegfed ganrif:

For the which falsnesse and disceytes, the Mair and Aldermen, willyng that suche shul be war be hym in tyme comyng, han awarded, after the Custume of this Cite, that he, as a fals lyere and disceyuer of the comune peple, shal stonde here vpon the pillorye thre market dayes, eche day an hour, with a Weston aboute hys necke in tokene of a Lyere.

(Chambers & Daunt, 1931, 95)

175 A544

176 A544

177 A232

178 Dihareb gydwladol, cf. *God sends a shrewd (wild) cow short horns* (PSPP, G234). Sylwer mai dihareb wahanol yw *Dieu done le buef, més ce n’est pas par la corne* (Mor., 580) a geir hefyd yn y Lladin

Dat deus omne bonum, sed non per cornua taurum (LSSM, D16; gw. ymhellach SM I, 80).

180 A184

181 A216

182 A524

183 A242

184 Cf. *Two hungry Meals make the third a glutton* (PSPP, M435).

185 B157

186 Dyfynnir y ddihareb gan Siôn Tudur, 'Deuparth y gwaith o'r daith dau, / Ŵr diochrog, yw'r dechrau' (GST, 5.53-4), ac fe'i ceir gan Forgan Llwyd:

Di glywaist mae Deuparth gwaith iw dechreu : ag mai Dwywaith y gwneir drygwaith. Am hynny Dechrau di'r gwaith tra y galwer hi heddyw, ag edrychar fod y maen cyntaf ynot wedi ei osod yn iawn.
(ML1 I, 142)

Y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Qui a bon commencement il a la moitié de s'oeuvre* (Mor., 1782); *Qui a bon commencement, il a une grande partie de son oeuvre* (MFPSPP, C256); *The Beginning is more than half the work (varied)* (PSPP, B193).

189 **yn Russiad** Sef *yn nhrwsiad*, 'yn y paratoad'.

197 A220

198 A221

199 A188

200 Dihareb a ddyfynnir yn y canu rhydd cynnar. Fe'i ceir yng ngherdd
Elen Gwdmon, 'Cwynfan Merch Ifanc':

Clowed ddarfod iw ffrins o
yn gaeth i rwymo ag arall
Roedd yn rhaid iddo ddiode'n frau
Y naill ai'r Iau neu'r fwyall.
(CRhC, 23.41-4)

Ymddengys mai dewis rhwng dau beth annymunol sydd yma.

203 A227

204 Cyfeirir yn aml at y ddau offeryn hyn gyda'i gilydd (gw. yr
enghreiffiau yn GPC). Fe'u cysylltir â phleser ym meddwl Ellis
Wynne:

Tywysoges lân iawn yr olwg oedd hon, â gwin cymmysc yn y naill
law, a chrwth a thelyn yn y llall.
(BC, 22)

207 B142

208 A237

- 209 A oes yma ddylanwad yr adnod, ‘Y neb a flino ei dŷ ei hun, a berchenoga y gwynt: a’r ffôl a fydd gwas i’r synhwyrol ei galon’ (Llyfr y Diarhebion 11:29)?
- 210 B141
- 211 Cf. ‘Diriaid yn hawdd drwy dynhau, / Gwbl air a gabl ei orau’ (GEP, LXXVI.111-12).
- 213 Cf. ‘Taled bawb, tâl hyd y bo, / Ei addewid a addawo’ (GIG, X.3-4); ‘A dled, oni wâd i law, / Bydded ar bawb i addaw’ (YEPWC, 5.7-8). Ceir y ddihareb yn y Saesneg, *Behest (Hote, Promise) is debt* (PSPP, B214), ac fe’i trafodir gan Green (1999, 47) sy’n pwysleisio fod dyn yn rhwym wrth ei addewid yn yr oesau canol.
- 215 A228
- 217 A238
- 218 A189
- 219 A239
- 222 A193
- 223 A226
- 225 **dichaen** Amrywiad ar *dichwain* ‘digwyddiad, tro, damwain, amgylchiad, siawns, antur’ (GPC).

228 B115

229 A240

230 **Dotiecić** 'dryslyd'.

234 A231

235 A230

237 A225

238 A218

240 A222

242 B134

243 A214

244 A180

245 **Rrygyn** Sef *rhygn* 'rhych'. Cf. A180.

246 Cf. 'Mor debig mewn ffromddig ffrwyth / Ar goel a'r ber i'r golwyth' (YEPWC, 24.17-8); 'Da gweddai, o barnai bwyth, / Y ber gweler i'r golwyth' (GST, 144.87-8). Fe'i ceir hefyd yn y canu rhydd cynnar:

kael i fwch ryw afr anystwyth
ond ta i gwedder ber ir golwyth
ag i tithe/r/ ddyn gwrteislan
ddyn ith wr oth naws dy hvnan./
(CRhC, 16.89-92)

Amrywiad ar y ddihareb hon yw C779.

249 A274

250

251 A241

252 Eglurir tarddiad y ddihareb yn llsgr. Peniarth 134 (Llyfr Mawr Gruffudd Hiraethog). Cyfeiriad ydyw at chwedl March ab Meirchion (Rhys, 1901, 572-3):

A chlustie march a oedd iddo ac ni wyddai neb hynny ond i eilliwrac ni lafassai er i benn iddoedyd ond vo dyvodd klwyf yn y barbwr val i gorfv iddo geisso physygwr ac addyvod hwnnw kyfrinach oedd yni ladd ac erchi ir barbwr gyffessv wrth y ddayar ac velly i gwnaeth ac yn jach y ddaeth achyrs tec adyvodd yn y vann honno Ac erbyn gwyl vchel iroedd bibyddion maelgwn gwynedd yn dyvod ato ac a welsont y kyrs tec ac ai torassant ac ai roessant yni pibav ac a ganassant geir bronn ybrenhin ac ni vedrynt gannv dim ond *klvstia v march i varch amheirchion* ac yna i tyvodd dihareb o hynny “vaeth hynny ar gyrn a ffibav”

(dyfynnir yn RMWL, v.1 pt. ii, 837)

Digwydd yng ngwaith Tudur Aled: ‘Dy glod, rhoed gwladwyr i’w hau, / A phobl ar gyrn a phibau’ (GTA, XVII.35-6).

253 A146

254 Dihareb gydwladol, cf. *Len seit bien quant on vait, maz len ne set quant on revient* (Mor., 1545; gw. yn ogystal MFPSPP, S21); *A Man wot when he goes, but he wot not when he comes* (PSPP, M187). Gw. ymhellach SM (II, 47).

255 A256

256 B305

257 A269

258 A276

259 **ai kymerth** Y mae *cymryd rhybudd* yn ymadrodd, cf. 'A chyt bei lidiawc ef vrthi hi, ef a gymerth rybud ac a wiscawd ymdanaw' (Gereint, 998-9).

260 A279

261 A259

262 A263

263 A270

265 A282

266 **senw** 'Anrhydedd, urddas'.

Dihareb a ddyfynnir droeon yng ngwaith y beirdd: 'Enw heb senw oedd ei henw hi' (GIG, XXXVI.42); 'Senw ar d'enw a ordeiniwyd' (GGH, 15.59); 'Enw vn gwann a ennyn gair / Hep senw a hap sy anair: / Enw gwŷr Swydd y Wavn, a'i gwart, / A senw, ydoedd Siôn Edwart' (OPGO, LVI.21-4).

267 A266

268 A998

269 **Ehegr** 'cyflym'.

270 A277

272 A251

274 A286

276 A285

277 A284

280 A376

281 A408

282 A390

283 A260

285 A417

290 A394

291 A403

295 A384

298 Amrywiad ar A424?

300 A431

301 A419

302 Amrywiad A372?

303 A369

305 A436

306 A401

307 A393

308 **ystor** 'Trysor'. Yn un o barodïau Siôn Tudur ar y canu gwirebol, 'Englynion yr Eira', ceir y llinell 'Gwaetha' stôr oll o'r merched' (GST, 205.80).

- 309 A378
- 311 A418
- 312 Cf. *Thing done in the dark night is after known in the day's light*
(PSPP, T163).
- 313 A433
- 314 A548
- 317 A370
- 318 A396
- 320 A308
- 321 A300
- 322 Clywir ymadrodd tebyg ar lafar yn Llŷn ac Eifionydd: 'Mae'n well
iti un fach brysur nag un fawr ddiog'.
- 323 A316
- 325 Cf. 'Dau well i wen gymen gall / Drwg a wŷyr na'r drwg arall'
(GHCLI, LVI.35-6).
- 326 A339
- 328 A302

- 329 Dihareb gydwladol, cf. *Il vault mieux tart que jamais* (Mor., 960; gw. yn ogystal MFPSPP, T13); *Better Late than never* (PSPP, L89).
- 330 A344
- 331 A356
- 332 A312
- 333 A314
- 334 Dihareb gydwladol, cf. *Mieus vaut viés dete que viés haine* (Mor. 1302; gw. yn ogystal MFPSPP D46). Gw. yr amrywiadau pellach yn SM (II, 102-3).
- 335 A317
- 336 A345
- 337 A297
- 338 Cf. 'Ar hyn, gwell cyngor henwr / Na'i favddv, na'i feddv'n wr' (YEPWC, 11.13-4).
- 341 Adlais o'r adnod, 'Gwell yw bachgen tlawd a doeth, na brenin hen ac ynfyd, yr hwn ni fedr gymryd rhybudd mwyach' (Llyfr y Pregethwr 4:13).

342 Cyfansoddodd Morus Dwyfech englyn ar y ddihareb hon:

Gwell i wan traglan yn treiglo – goror
Y maen garw a'i dalio,
Na'r maen llyfn, treiglddyfn tro,
Gwall angall a'i gollyngo.
(GBMD, 14)

Ysywaeth, nid ydyw'r englyn hwn o gymorth i ddeall cenadwri'r ddihareb. Amlygir ergyd y ddihareb yn y llinellau hyn o gywydd moliant Siôn Brwynog i Rydderch ap Dafydd, Myfyrian:

Y maen llyfn ym min llaid
A sym un, os am enaid.
A ro'i einioes ar weniaith
Llwyr yw fynd i'r llawr ei waith.
Gorau caid y garreg gadarn,
Garw ei sut, i gweirio sarn;
Gorau draw y gair a drig,
Gŵr croywdal, garw caredig.
(CSB, XXIII.51-8)

Delwedd debyg sydd yn y cwpled: 'maen a ddalio mae n ddevlwyth / ef yn llai noi faen llwyth' (GID, XXXVI.33-4). Cf. yn ogystal yr hen bennill hwn:

O gwnei gerdded sarn yr afon,
Paid â chamu cerrig llyfnion.
Cais di gyrraedd y rhai garwaf;
'Rhain a'th ddeil rhag codwm siwraf.
(*Hen Benillion*, 77)

343 A343

344 A349

345 A306

346 A342

347 A347

348 B208

350 A353

351 A298

352 A352

354 A326

355 A351

356 A304

358 A291

359 A333

361 A332

362 A391

364 Ceir y ddihareb mewn cywydd ymryson o waith Siôn Phylip:

Nid tros gof, enw traws gyfedd,
Yr aeth fy ngwlad wrth fy ngwledd.
Gwlad i gymen ei enau
Ydyw pob gwlad pe bai glau.
(GST, 130.83-4)

Yng nghyd-destun y cywydd gellir tybio mai 'ffraeth, huawdl' yw
ystyr *cymen* (GPC).

365 A406

367 A380

368 Cyfeiriad at hanes Noa yn anfon cigfran o'r Arch i geisio tir sych
(Genesis 8:7). Cf. 'Un agwedd fu fy neges / Â brân Noe heb roi
nes' (GGGI, XXIV.5-6).

369 A262

370 A480

372 Cf. 'Arfer anwadal eurfun / 'Hardd pob newydd' fydd i fun'
(CSTB, XXXVII.27-8); 'Y mae'r ddihareb i'm hoes - / Hardd fydd
pob newydd nawoes' (GST, 179.17-8).

373 A495

374 A514

375 A513

376 A524

377 A482

382 A595

383 Dihareb gydwladol, cf. *D'autrui cuir large corroie* (Mor. 453; gw. yn ogystal MFPSPP, C 356); *To take broad Thongs of unbought (other men's) leather (varied)* (PSPP, T217); *De cute non propria maxima corrigia* (LSSM, D27). Cyfeiria Samuel Singer (SM I, 89-90) at enghraifft ohoni mewn *exemplum* gan Jaques de Vitry ac y mae'n rhestru sawl enghraifft arall mewn sawl iaith. Fe'i ceir yn gynnar yn y Saesneg, ymysg y *Proverbs of Hendyng* (SM III, 134). Adleisir y ddihareb hon yng nghywydd enwog Edmwnd Prys, 'Anllywodraeth y Cedyrn': 'Taer yw a hawdd y tyr rhai / O groen gwirion gryn garrai' (GEP, LXXXV.55-6). Gwelir mai ei thestun yw'r rhai sy'n gynnill gyda'u heiddo eu hunain ond sy'n manteisio'n wastraffus ar eiddo pobl eraill. Dyna'r ergyd hefyd yn *Li proverbe au vilain*:

Maint ome i a, pour prendre

N'oseroit rien despendre

Ne faire enour autrui;

Quant siet a autrui table,

Si se fait conoissable

De doner entour lui.

D'autrui cuir large corroie,

ce dit li vilains

(Tobler, 1895, 98-9)

384 A523

386 A522

387 A512

390 A468

392 Cf. 'Haws doedud ar ystiudiaw, / Ar ryw ystorm, oer os daw, /
Mynydd, vwch bronydd a bro, / Mewn trowsdir, na mynd trosto'
(YEPWC, 31.47-50). Cyffelyb yw ergyd yr hen bennill, 'Hawdd
yw dwedyd "Dacw'r Wyddfa," - / Nid eir trosti ond yn ara' (Hen
Benillion, 10).

394 B314

395 A507

396 A471

397 Cf. 'heb ddim yw, heb Dduw a Mair' (GLGC, 1.172).

398 A485

399 A516

- 00 **i orvod** Sef 'ei drechu'. 'Nid hawdd i orfod' meddai Tudur Aled
am Dafydd ab Owain, Abad Ystrad Marchell (GTA, III.105).
- 02 Amrywiad ar A520?
- 03 A474
- 04 A500
- 05 A499
- 06 A476
- 07 B264
- 08 A472
- 11 A477
- 12 A493
- 13 A492
- 14 A491
- 15 A494
- 16 B260 / A687

417 A498

418 A506

419 A509

420 A511

421 Cf. 'Pand hir na welir ond nos? / Pe byr, hir yw pob aros' (GIF, 3.1-2); a'r englyn hwn o waith William Llŷn:

Hirnos pob aros pob irael - sy dec

Pob dic a fydd anael

Mae n hir gan glaf dwyn trafael

Mae n ddydd hwy am Wenddydd hael

(BWL1, XXXII.9-12)

422 A oes gysylltiad â'r ymadrodd Saesneg *To turn the Cat in the pan* (PSPP, C107)?

423 A484

424 A210

428 A481

429 A505

430 A525

431 A488

432 A467

433 Ceir y ddihareb yn y gyfres 'Eiry Mynydd': 'iach ryd, ryueda6t pa g6yn' (EWGP, III.14c). Cf. yn ogystal 'ag iach rhydd rhyfedd pa gwyn / am fy jechyd mae f achwyn' (GDE, XXXVII. 5-6).

434 Cf. 'Er a roud, aur a redant, - / A'r dŵr pur a red i'r pant' (GTA, XXI.17-8); 'Duw gwyn a ro ch digoniant / Drwy bawb fal y dwr i bant' (BWL1, XVI.31-2). Canodd Siôn Tudur englyn i'r ddihareb:

A feddianno da a fydd ennyd – gŵr,

Ac eraill mewn drygfyd;

Un rhedfa, mewn rhyw adfyd,

Â dŵr i bant yw da'r byd.

(GST, 309)

435 Cf. *A gras porcel le dos aoindre* (Morawski, 1928, 481); *To grease the fat Sow in the arse* (PSPP, S536).

437 A150

439 A597

440 A569

441 A148

442 Cf. 'Cam wrando gair, pair pob hud, / Caem ddadl, a wna cam ddoedyd' (YEPWC, 6.45-6).

443 A162

444 A555

445 A546

446 A550

447 **swllt** 'Trysor'.

Cf. 'keissio sswllt yngwal blaidd digllon / ydiw dad rodd kariad ffyddlon' (CRhC, 16.13-4).

448 A578

449 B343

450 A166

451 A173

453 A149

454 Mydryddir y ddihareb *Amor vincit omnia* yn yr englyn gwachul hwn:

Gwir gwir ywr ddihareb ag iach

yw choylio ai chalyn nag eiriach
Amor ynddi gyfrinach
omnia vincit trwyr byd bach
(Cefn Coch, 408)

455 A571

456 Cf. y ddihareb nesaf.

457 Dihareb gydwladol, cf. *A tart est l'uis clos quant li chiva en est hors* (Mor., 149); *A tart ferme on l'estable quant li chevaus est perdu* (Mor., 151; gw. yn ogystal MFPSPP, C127); *When the Steed is stolen make fast the stable door (varied)* (PSPP, S697); . Gw. ymhellach SM (II, 93-4).

458 A155

459 A568

460 A533

461 A574

463 A572

464 A557

465 **Keintiach** Amrywiad ar *caentach* 'cweryl, ffrae, ymrafael; grwgnach' (GPC). Cf. A544.

467 A532

468 A140

470 A144

471 Cf. 'Bwrrw halen, lle bu'r heli, / Yw bwrrw serch lle bwrriais i'
(PWDN, XXVII.7-8).

472 **Knawd** Amrywiad ar *gnawd* (GPC).
A445

473 Ffrwyth camddeall A171.

475 A948

476 A402

477 A407

478 A435

479 A377

480 A368

481 A463

482 A444

483 A386

485 A397

486 A437

487 A143

488 Cf. 'Llethr [h.y. *llythr*]a geidw yn warcheidwad / Llwyrr gof fel na eller gwad' (YEPWC, 5.47-8). Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg daethai'r llyfr yn sail addysg brifysgol (gw. ymhellach Le Goff, 2000, 95-7).

489 A547

490 A152

491 A560

492 A164

493 A145

494 A596

495 A596

496 A178

497 A163

498 A147

499 **Kol** 'Tyfiant pigog ar flaen gronynnau haidd a cheirch' (GPC).

Yn ei gasgliad diarhebion dyfynna Gwenogvryn Evans (1885, 544)
y llinellau cywydd hyn:

Col! medd y fran, syfrdan son
Ddugan, pan gaffai ddigon;
Felly'r gwyr a fall garant

Yn anffodus ni ddyry gyfeiriad at na llawysgrif na llyfr print.

501 A341

502 A159

503 A554

504 A559

505 A565

506 A551

507 A167

508 A586

509 A534

510 A533

511 A549

512 A541

513 A140

514 A584

515 A580

516 A573

517 A566

520 A577

521 A535

522 Dihareb gydwladol, cf. *Tant de têtes, tant de sens* (MFPSPP, T51); *So many Heads so many wits (varied)* (PSPP, H230); *Many Men many minds (varied)* (PSPP, M202). Adleisir y ddihareb gan Dudur Aled: 'Gwall yw sôn nad gwell synnwyr / Deg nog un, digon a'i gŵyr' (GTA, XX.59-60).

524 A536

527 Yn Llŷn dywedir o hyd fod rhywun yn glud neu'n gynnes 'fel pathew'.

528 A531

529 A563

530 **Kystadl** Ffurf ar *cystal* (cf. *anal* < *anadl*).

hol a heilin Yn ôl GPC digwydd *heilin* am drulliad neu fenestr.

Fodd bynnag, dengys enghreifftiau eraill o'r ddihareb dan sylw mai dau enw priod sydd yma: 'Kystatl Howel a Heilyn' (OSP); 'Kystal Hoel a Hilin' (Llanstephan 52); 'Cystal Howel a heilin' (Mostyn 204). Mae hyn oll yn bur dywyll ond a ddichon mai llurguniad o *holyn* ac *ifin* (y ddau yn eiriau benthyg o'r Saesneg) sydd yma, megis yn y gân werin 'Ymrafael Holyn ac Ifin' (CRhC, 106)? Ymhellach ar y gân 'Ymrafael Holyn ac Ifin' a charolau Saesneg cyffelyb, gw. Rees, 1952, 28-31.

531 A564

532 A604

533 Yn OSP ceir 'Lledled rydau : waethwaeth ddeddfeu' a bair imi feddwl mai 'cyfle' yw *rhyd* yma, ac nid *vadum* fel y myn John Davies (Brog. I.11), hynny yw 'po fwyaf y cyfleoedd i dorri'r gyfraith'.

534 B330

535 627

536 A615

538 A603

543 Cf. *Much Water goes by the mill that the miller knows not of*
(PSPP, W68).

544 A609

545 Diau mai camddeall ystyr *asgre* a roes y fersiwn yma ar A84.

546 A598

547 A620

551 A610

552 A616

553 A599

554 A600

555 A607

556 A607

557 A613

561 A602

562 A614

563 A669

564 A657

567 A654

568 A660

569 A649

570 A667

571 Cf. *As a blind Man casts his staff (varied)* (PSPP, M36).

572 A634

573 A633

575 A636

577 A1080

579 A650

580 A650

581 **sirian** Ceirios.

Cf. A663

582 **mynn magod** Myn pasgedig neu ddof. Am *mynn magod* dyry DD *Hædus altilis*. Cymharir march â *myn magod* mewn cywydd gofyn gan Dudur Aled: ‘Am hydd glân, mae heddyw glod, / Am un megis mynn magod’ (GTA, CXI.87-8).

583 A651

584 A632

585 A647

586 A236

587 A637

588 A558

589 A674

590 A676

593 A665

594 A670

596 A652

597 A640

598 A642

599 A686

603 Cf. *He is an evil Cook that cannot lick his own lips (varied)* (PSPP, C418).

604 A668

606 A684

607 **moes** Gorch. 2 un. berf ddiffygiol sy'n golygu 'dyro' (GMW §173).

Dyfynnir y ddihareb gan Ellis Wynne:

Oblegid pwy sy yma'n fodlon iw stat? uwch, uwch y cais pawb o Stryd Balchder; moes, moes ychwaneg, medd pawb yn Stryd yr Elw; melus, moes etto yw llais pawb yn Stryd Pleser.

(BC, 38)

608 A151

609 A680

611 A630

612 A641

613 A664

614 A683

615 A677

618 A682

620 A661

621 Ffrwyth camddeall A662?

623 A792

624 Dihareb gydwladol, cf. *Il fait mal esveiller le chien qui dort* (Mor., 879); *N'esveillez pa lou chien qui dort* (Mor., 1387; gw. yn ogystal MFPSPP, C88); *It is not good to wake a sleeping Hound (cat) (varied)* (PSPP, H569). Fe'i dyfynnir gan Chaucer yn *Troilus and Criseyde: It is nought good a slepyng hound to wake* (Whiting, 1934, 53).

626 A708

628 Cf. *He is not wise that Abides where he is not needed* (PSPP, A5).

630 Diddorol sylwi fod Ieuan Du'r Bilwg yn ei gymharu ei hun yn ei *ŵn coch â llwyn rhedyn a llwynog*: 'Ydd wyf yn debyg 'n ei ddwyn / I danllwyth mewn rhedynllwyn ... Llwynog wyf mewn llwyn o goed' (DGGD, 13.15-22).

633 A741

635 B319

636 Dihareb gydwladol, cf. *Prés est ma cotte, plus prés est ma chemise* (Mor. 1717); *Near is my Kirtle but nearer is my smock (varied)* (PSPP, K67). Gw. ymhellach SM (I, 101).

637 A725

639 A816

640 A420

641 Dihareb a ddyfynnir droeon yng ngwaith y beirdd: 'Ni bu Arthur, ddur ei ddart, / ond tra fu, 'neutu'r fowart' (GLM, LIX.67-8); 'Ni bu Arthur aberthweilch / ond tra fu yn treio'i feilch' (GIF, 4.19-20); 'Ni bu Arthur bur drwy r byd / Ond tra fu n treio i fywyd' (BWLl, XXXI.81-2); 'Ni bu Arthur anturiwr / Ond tra fu n gallu fel gwr' (BWLl, XXXV.77-8); 'Ni bu Arthur anturwych / Ond tra fu mewn gallu gwych' (GHCEM, 26.89-90); 'Hefyd Arthur ddihafarch, / Ond tra fu ni bu'n ei barch' (GMRh, 15.31-2). Dichon bod adlais ohoni yn llinell Cynddelw 'Rybu erthyst yn: rybu Arthur gynt' (CBT, IV.17.67). Yng nghwydd marwnad Siôn Gruffudd, Sarsiant, o Gaerwys gan Siôn Tudur, y ddihareb hon sy'n cloi myfyrdod y bardd ar dranc arwyr y gorffennol:

Ni 'mroes i ŵr cyn marw, Siôn,
I Dduw 'mroes yn ddi'mryson.

Y rhif alawnt rhyfelwyr
Ymroi a wnânt, a meirw'n wŷr.
Alecsander, cryfder cred,
Iraidd ŵr, er ei ddewred
E orfu mynd, arfau maith,
Ar elawr o'i wrolwaith.
Siarlymaen, troes arlwy mawr,
Yntau'r ŵyl hwnt ar elawr.
Ecdor, o bu yn cadw'r bêl,
Yma prifiai 'mhob rhyfel,
Os oedd fawr ni phasiodd fo
Y dydd a roes Duw iddo.
Wrth y rhif Arthur hefyd
Ond tra fu ni bu'n y byd.
(GST, 44.9-24)

642 A732

644 Cf. A748

645 A733

646 A799

648 A739

649 A753

650 A735

651 A736

652 A808

653 A748

654 A936

655 A838

656 Cf. *To ask (have) no more of the Fox than the skin* (PSPP, F600).
Dyfynnir y ddihareb gan Lewys Môn: 'Nid oes ar y llwynog, o
daw, / ond ei groen wedi'r grinaw' (GLM, XV.27-8).

658 Cf. A850

660 A806

661 Cyfeiriad at Efengyl Mathew 7:17-8, 'Felly pob pren da sydd yn
dwyn ffrwythau da; ond y pren drwg sydd yn dwyn ffrwythau
drwg. Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren drwg
ddwyn ffrwythau da'. Y mae'n ddihareb gydwladol, cf. *Maus
arbres ne fet bon fruit ne maus anaps [bon boire]*(Mor. 1201; gw.
yn ogystal MFPSPP, A163); *De mauvais arbre mauvais fruit*
(MFPSPP, A162); *Never a good Apple on a sour stock* (PSPP,
A163); *Such Tree such fruit (varied)* (PSPP, T465). Gw. ymhellach
SM (II, 49). Fe'i dyfynnir gan Dafydd Llwyd: 'Ni thyf pêr na thwfi
purwych / Ar bren sur yn ael bryn sych' (GDLL, 79.19-20); ac fe'i
hadleisir mewn cywydd gan Lewys Morgannwg:

Afal da o flodeuyn

Aed ymhell. Nid amau hyn.

Pob dyn a'i hedwyn, mae'n hawdd,
Print haf, y pren y tyfawdd.
(GLMorg., 54.31-4)

Ac eto yn y canu rhydd:

y ddiareb sy gywir / y ffrwyth pan ei profir /
y pren adnabyddir / ai dyco
os drwg yw'r ffigysbren / gwaeth yw'r ffigysen /
a chwerwach e clywem / o'i thasto
(Rees, 1952, 272)

662 A795

663 A815

664 A690

665 A742

668 A906

669 Cf. 'Ni chwery cath ewindow / Dros ei blwydd hen drwsa blew. /
Ni châr Eiddig chwaryddiaeth, / Chwerw ddig dros chwarae ydd
aeth' (BLIRhN, 39.13-6). Priodolir y cwpled cywydd hwn i Iolo
Goch yn DD (o dan *trwsa*) ond ni chrybwyllir enw unrhyw awdur
yn Brog. I.11.

670 A843

671 A696

672 A731

673 Cf. 'Ni fawr gwsg un gofalus' (GST, 205.85); 'Ni chwsg ef achos gofal' (GST, 191.48).

675 A803

676 A800

677 A894

678 A701

679 Ffrwyth camddarllen A765?

680 A703

681 A747

682 A698

684 Ceir 'nid da rhy o ddim' yn GGH, 54.34. Cf. yn ogystal yr hen benillion hyn sy'n cymeradwyo'r cymedroldeb sydd mor nodweddiadol o lôn doethineb:

Drwg rhy lwfr a drwg rhy ofnog,

Drwg rhy ddewr a rhy galonnog;

Nid da yw rhy o ddim mewn unmodd,

Meddai doethion yr hen oeso'dd.

Drwg rhy hael a drwg rhy gybydd,
Drwg rhy drist a rhy lawenydd;
Ffordd ganolig rhwng dau ormod
Yw ffordd rhinwedd glodfawr hynod.
(Hen Benillion, 14)

688 A704

689 A702

694 A470

696 A798

697 Diau fod yma fersiwn Cymraeg o'r ymadrodd Saesneg *To flay the Flint* (PSPP, F286; gw. hefyd *fle the flint*, MED, 642), yr hwn a roes *skinflint* am gybydd yn y Saesneg. Ond cf. hefyd A796.

698 A535

699 **jangwr** 'Taeog'.

700 Cf. 'Nid cimaint, trowsaint trosom, / Bleddyn a'i drwsd, blwyddyn drom' (YEPWC, 19.95-6). A ddichon fod yma Gymreigiad o'r ddihareb Ffrangeg, *Li leus n'est pas si granz come on le crie* (Mor. 1090)? Sylwer, fodd bynnag, mai sôn pobl am y blaidd yn hytrach na *thrwst* y blaidd ei hun sy'n y ddihareb Ffrangeg.

701 A928

- 702 Cf. *The Parish Priest forgets that he was ever clerk (varied)*
(PSPP, P31). Fe'i dyfynnir gan Siôn Tudur: 'Pan êl gŵr (pwy'n ail
a gâd?) / Yn ei ffwr yn offeiriad, / Allan o'i go' efô fydd / Dan ei
glych fod yn glochydd' (GST, 134.87-90).
- 703 A781
- 704 A940
- 707 A617
- 708 Cf. A700
- 709 A695
- 710 A729
- 712 Cf. 'Nid myned, ddwyged ddigel, / O ddyn yr eilwaith a ddêl'
(GDG, 10.5-6); 'Nid mynd o'i wlad, farchnad faith, / A ddelo iddi
eilwaith' (GSH, 7.81-2).
Digwydd y trawiad hwn yng nghyswllt hanes brân Noa (BWLl,
LXXXIX.43-6; GGGl, XXIV.7-8).
- 714 Cf. 'Trefnaist wern Uffern' (GC, 7.57).
- 715 Cf. C700 uchod.
- 717 A761

718 A811

719 A764

720 A737

722 Dyfynnir y ddihareb hon gan Ruffudd Hiraethog, 'Nid twyllo twyllo twyllwr' (GGH, 123.53) ac fe'i ceir yn yr hen benillion:

Nid twyll yw twyllo twyllwr,

Nid brad bradychu bradwr,

Nid lladrad, mi a wn yn dda,

Lladrata ar ladratwr.

(Hen Benillion, 19)

725 A810

726 A845

728 A785

729 A763

733 A787

734 A719

738 A723

740 A932

741 A937

745 A794

746 A801

748 A790

749 A717

750 A1044

751 A930

755 Adleisir y ddihareb hon yn y canu rhydd cynnar:

ni all y tan ond llosgi yn llvdw
eitha thynged ydiw marw
ni allodd mor erioed ond boddi
ni ellwch ithe waeth nom poini./
(CRhC, 17.33-6)

756 A949

757 Cf. 'Ni wŷr rhy hawdd, hawdd hoywfaith, / Onid êl yn anhawdd ei
daith' (GHCEM, 48.15-6).

758 A802

759 A774

760 A774

761 Cf. 'Ni wŷr ni welodd iawn waith, / A welodd a wŷr eilwaith'
(GHCEM, 21.71-2).

762 A696

764 A769

765 A842

766 A3

768 A970

769 A977

772 Digwydd y llinell 'o'r kant odit kedymdeith' yn yr englynion
gwirebol (EWGP, V.9c).

774 B532

777 Cf. 'gweddi pawb yn i galon' (CRhC, 70.59).

779 Cf. C246 uchod.

782 A950

783 A971

784 A967

785 A972

790 A954

794 A982

795 A997

796 A497

797 **myhi ... myha** Y mae John Davies yn trin y ddau fel anthroponymau:

Pan gaer Mihi, ni chair Miha

Cum obtinetur hoc vnum, non obtinetur hoc alterum. Mihi & Miha fictitiae sunt.

(Brog. I.11)

Eglur fod yma chwarae ar eiriau. A eill mai llurguniad o ffurf derbyniol y rhagenw personol unigol Lladin *mihi* ydyw'r gair cyntaf? Nid ydyw mân dameidiau o Ladin diystyr yn anghyffredin mewn rhigymau gwerin, swynion, ac ati. Ynteu a oes gyswllt â'r enw *mihifir-mihafar* 'oen nad yw na gwryw na benyw' (GPC)? *Mihifi-mihafan* yw'r ffurf a glywir yn Llŷn, megis yn y rhigwm dyrchafedig, 'mihifi-mihafan un goc ac un aran'.

798 Cf. *When the Pig is proffered open (hold up) the poke* (PSPP, P192). Ceir cyfieithiad Lladin o'r ddihareb Saesneg yn y Rylands Latin Ms. 394: *Cum tibi porcellum prebet quis, pande sacellum* (Pantin, 1930, 104). Dyfynnir y ddihareb gan Dafydd Llwyd: 'Pan roir it farch, neu barchell, / Agor di gwd gaer dy gell' (GDLL, 51.49-50).

799 Cf. *When the Belly is full the bones would be at rest (varied)* (PSPP, B242). Adleisir y ddihareb, wrth daranu yn erbyn glythineb, mewn pregeth Saesneg Canol:

Vor ther is no lepur e the world that semyth so vowl & so orrible in
owr sichte as doth a glotun e the sithte of God; vor it bryngis nat
onliche a man or a womman in-to dedli synne but it makis hym valle
in-to manie. It makis hym virst valle into slowthe, vor whan his beli is
so vul o mete & drynke that a may no mor a-non he is sluggi, a-non he
is slepi, ze, a-non he is weri to serue God, or to do ani other good work
that mythte profit hym to bodi or to sowle.

(Grisdale, 1939, 31)

800 A985

803 **kywiriaid** Lluosog *cywir*. Yma fe'i defnyddir yn enwol am 'berson didwyll ac union' (GPC).

Dyfynnir y ddihareb mewn cywydd o waith Thomas Prys 'i ddau
ŵr sorredig wrth ei gilidd o achos merch':

pen el lladron freudon friw
am ymladd accw i ymliw
Cowiriaid enaid yna

o goffhau dic eiff ai da
(Cefn Coch, 38)

Cf. *When Thieves fall out true men come to their good* (PSPP,
T83).

804 A993

805 A999

806 Gw. GPC, 2728.

812 A998

821 A103

822 A104

824 A994

825 Cyfansoddodd Siôn Tudur englyn ar y ddihareb hon:

Po mwyaf gwelaf fuddugoliaeth – bris
A fo'r brys i ganpeth,
Yna bydd, anwiw o beth,
Fyd trablin, fwya' trwbleth.
(GST, 300)

827 Cf. 'Ni bu ddrycin heb hinon, / Na thrai blaen llai heb lanw llon'
(GHS, 29.47-8).

828 A107

830 A1001

833 Cf. *A Child first creeps and afterward goes (walks)* (PSPP, C202).

834 A1011

835 Dihareb gydwladol, cf. *Entre deus selles chiet dos a terre* (Mor., 692); *Entre deux selles le cul à terre* (MFPSPP, S60); *Between two Stools the man falls (varied)* (PSPP, S794). Gw. ymhellach SM (I, 137) a Taylor (1985, 170). Crybwyllir y ddihareb yng nghyflwyniad Gruffudd Hiraethog i *Lloegr drigiant*:

A phob vn o'r rhai a dariont nemor oddi kartref yn kashav ac yn gillwng dros gof jaith i ganedic wlad a thavodiad i vam gnawdawl. A hynny a ellir i adnabod pann brofo yn wladaidd draethv Kamberaec arr lediaith i davod, ac mor vvrssen (er na ddysgawdd iaith arall) na chroyw ddowaid iaith i wlad i hvn, a hynn a ddoetto mor llediaith floesc lygredic ar ol iaith estronawl. Am y vath ddynion hynny y traetha y bymed ddihareb sydd yn dechre ac R yn y 37 ddolen o'r llyfr hwnn.

(RhG, 60-1)

Cyffelyb yw'r ergyd yn y *Proverbes en rimes*:

Il vault trop mieulx ung bon amy
Que deux de petite amyance
Ou il n'ait confort ne demy.
Combien qu'ilz sont de grant vantance,
A toute heure on est en doubance,

Quant secours on y cuide acquerre,
De soy trouver, par leur meschance,
De deux selles le cul a terre.
(Frank & Miner, 1937, 71)

Fe'i hadleisir yn ogystal yng ngharolau Richard White:

Rwng y ddwy stol nid ymdawr
maer dyn ir llawr yn llithro
dav wynebog Dvw nis kar
rrag maint y bar sydd arno
(Parry-Williams, 1931b, 31)

836 A1031

837 A1025

839 B330

840 Yr un yw cenadwri'r hen bennill:

Mae'n bosibl y gall triwyr call
Yn ddiball gadw cyngor;
Ond bwriwch ymaith ddau yn glir;
Gwell un yn wir na rhagor.
(Hen Benillion, 50)

841 Dihareb gydwladol. Ceir sawl amrywiad arni ond yr un yw'r
syniad a gyfleir ym mhob achos: *Len ne doit pas mettre la charue
devant les beufz* (Mor. 1495; gw. yn ogystal MFPSPP, C79); *To set
the Cart before the horse* (PSPP, C60); *To set the Sallow (plow)*

before the oxen (PSPP, S873); *Ante boues uersum non uidi currere
plaustrum* (SM i, 92).

843 Tadogir yr englyn hwn, sy'n un o dri, ar Dudur Aled:

Rhy uchel, pan êl, poen alaeth, - a gwymp,
Ddigampus naturiaeth;
Rhy dynn a dyrr, fyrr fariaeth,
Rhy lawn a gyll, rholi'n gaeth.
(GTA, CL.5-8)

844 Gw. y ddihareb flaenorol.

845 Gw. C843 uchod.

847 Ffrwyth camddeall A1014.

849 A1023

850 Coes bwyall yw ei *throed*.

855 **lyvav** *Llyfau*, lluosog *llw* 'rheg', fel yn llinell Thomas Prys, 'tyngu
llyfau sytt angall' (Cefn Coch, 40). Dyry John Davies y cyfieithiad
Tabulae lusoriae iuramentis (Brog. I.11).

858 A105

860 **garegl** *Caregl*, 'cwpan'.

864 Cf. ‘Teg pob peth, bendraffleth dro, / Ni bydd gwrthwyneb iddo’ (YEPWC, 53.5-6); ‘Teg fydd chwedl difreg, o daw, / Ni bydd gwrthwyneb iddaw’ (GST, 56.61-2). Ceir fersiwn gwahanol gan Ellis Wynne:

Têg pôb chwedl heb wrthwyneb, ebr y dieflyn: Gobeithio na âd
Lucifer i’r un o hîl domlyd Adda ymgystalu â mi sy’n Angel, llawer
uwch fy rhyw a’ m bonedd.

(BC, 133)

865 A249

866 Dihareb gydwladol ond *blaidd*, yn hytrach nag *ysgyfarnog*, a geir yn y fersiynau Ffrangeg a Lladin o’r ddihareb hon yn y casgliadau safonol: *Tant come le chin chie, s’en vet le leu au bois* (Morawski 2286; gw. yn ogystal MFPSPP, C169); *Dum canis egessit, lupus ad nemorosa recessit* (LSSM D157); *Quando canis cecinit, lupus aures subdolos abdit* (LSSM, Q35). Fodd bynnag, digwydd *lièvre* mewn fersiynau eraill o’r ddihareb Ffrangeg a hynny a geir yn y testun Eingl-Normanaid, y *Respit del Curteis et del Vilain* (ymddiddan yn nhraddodiad Selyf a Marcolff, a berthyn i’r drydedd ganrif ar ddeg): *Taunt cum le chien chie, curt li levre al b[ois]*. Cyfeiria Sinclair (1975) at enghraifft o’r ddihareb mewn llythyr diflewyn-ar-dafod a anfonos Edward y cyntaf at Patrick Dunbar, y gŵr a oedd yng ngofal lluoedd y brenin yn ne’r Alban. Yn y llythyr ceryddir Dunbar am ei ddihidrydd a’i segurdod wrth ymgymryd â’i ddyletsyddau, sef gwastrodi’r Albanwyr. Nodir enghreifftiau eraill o’r ddihareb yn SM (II, 56-7). Dengys y pennill hwn o’r *Proverbes en rimes* ergyd y ddihareb yn eglur ddigon:

Qui bien se veult vengier
D'ung tresgrant maliffice,
Tout a coup sans targier
Doit excercer l'office.
S'il est pesant et nice,
Tout ne vault ung tournoix,
Car tendis que chien pisse,
Le loup s'enfuit au bois.
(Frank & Miner, 1937, 42)

Yn y llawysgrif, yn canlyn y pennill hwn, ceir *woodcut* godidog yn darlunio'r blaidd yn sleifio'n gyfrwys i'r coed tra bo'r ci yn ymwacáu.

867 Dichon mai Dafydd ap Gwilym yw awdur y ddihareb hon: 'Trech a gais trwy awch a gwg / Nog a geidw rhag direidwas / Ei ddyn gwyn ar ael glyn glas (GDG, 72.6-8). Dyfynnir y ddihareb, fodd bynnag, yng ngwaith beirdd eraill: 'Trech a gais y fantais fer / Na'r hwn a'i ceidw o'r hanner' (GMRh, 19.13-4); 'Trech a gais fantais ddi-farn / Nag a geidwyn gu gadarn' (GST, 165.15-6; yr un cwpled yw GST, 201.73-4).

868 Cf. 'A bid well, be deëlyn' / Byth Duw na drwg obaith dyn' (GST, 7.19-20).

869 A1027

870 A132

872 **Tario** 'aros'

kwfent Benthyciad, drwy'r Ffrangeg *covent*, o'r Lladin *conventio*. Yr ystyr gyntaf oedd 'mintai o fynachod' yna daeth i olygu 'mynachlog'.

'Ystyr y ddihareb', medd Ifor Williams, 'yw aros fel yr abad am y mynachod, neu fel iâr am ei chywion' (1912, 170).

875 Cyfeirir at y ddihareb hon yn ymdriniaethau Ifor Williams a Jenny Rowland â'r 'chwedl un englyn', sef chwedl a gais esbonio englyn (CLIH, 1-li, EWSP, 251). Cnewyllyn yr hanes a geir yn yr englyn. Dyfynnir y ddihareb yn fersiwn Peniarth 155 o 'Araith Gruffydd ap Ifan i Ruffydd ap Robin ap Rhys' (Gw. C882 isod). Crynhoi cenadwri'r rhyddiaith ydyw swyddogaeth y tri englyn yn yr araith hon.

881 A378

882 Dyfynnir y ddihareb hon gan George Owen Henllys yn yr adran ar adeiladau yn ei *Description of Pembrokeshire* ond y mae ei ddehongliad, mi gredaf, braidd yn ffansiol:

...whereby it appears that workmen of this age are not so skilful, or at least so careful as those of the former ages, wherein is verified an adage, or usual proverb, in the British or Welsh tongue: Gwaeth waeth maen saer gwell well pensaer, which is that the masons shall grow worse and worse and the carpenters better and better till the world's end.

(Milles, 1994, 78)

Dywed Suggett (2004, 87) fod teimlad yng Nghymru ddiwedd yr Oesau Canol fod crefft y saer coed yn gwella tra

